

**Pentigily o Dudrath i Dyddewi :  
Llenyddiaeth Dafodieithol Penfro**

**Ruth Thomas BA, MSc**

**Goruchwyliwyd gan: Dr Christine Jones a  
Dr Hywel Glyn Lewis**

**Fe'i cyflwynwyd i gyflawni'n rhannol ddyfarniad  
gradd Doethur mewn Athroniaeth**

**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

**2020**

## DATGANIAD

Nid yw'r gwaith hwn wedi ei dderbyn yn flaenorol yn ei sylwedd ar gyfer unrhyw radd ac ni chaiff ei gyflwyno ar y cyd er mwyn ymgeisio ar gyfer unrhyw radd.

Llofnodwyd ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....28.9.2019.....

### DATGANIAD 1

Ffrwyth fy ymchwiliadau fy hun yw'r traethawd ymchwil hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, nodir maint a natur y cywiro'n glir mewn troednodyn/nodiadau. Cydnabyddir ffynonellau eraill trwy roi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnodwyd ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....28.9.2019.....

### DATGANIAD 2

Trwy hyn rhoddaf ganiatâd i'm traethawd ymchwil, os caiff ei dderbyn, fod ar gael i'w lungopio ac at ddibenion benthyciadau rhwng llyfrgelloedd, ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnodwyd ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....28.9.2019.....

### DATGANIAD 3

Trwy hyn rhoddaf ganiatâd i'm traethawd ymchwil, os caiff ei dderbyn, fod ar gael i'w osod ar ystorfa ddigidol y Brifysgol.

Llofnodwyd ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....28.9.2019.....

## **CYDNABYDDIAETH**

Diolch i fy ngoruchwylwyr ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Dr Christine Jones a Dr Hywel Glyn Lewis, am eu harweiniad.

Diolch i'r deg unigolyn a gyfwelwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn am roi o'u hamser ac am rannu eu safbwyntiau.

Diolch i fy nghymar, Dr Ceri Lewis, am ei gefnogaeth a'i anogaeth barhaus.

## CRYNODEB

Amcan y gwaith ymchwil hwn yw cynnig disgrifiad a dadansoddiad beirniadol o lenyddiaeth dafodieithol, ei natur a'i gwerth, gan ffocysu ar dafodiaith Sir Benfro. Ychydig a ysgrifennwyd yn gyffredinol am y maes yn y Gymraeg ac ni chyflwynwyd unrhyw draethawd ymchwil *yn benodol* ar lenyddiaeth dafodieithol hyd yma. Y mae'r ymchwil hwn nid yn unig yn cyfrannu at yr hyn sy'n bodoli eisoes ym maes llenyddiaeth dafodieithol, ond yn ogystal yn cyflwyno dadansoddiad cynhwysfawr o lenyddiaeth ardal benodol.

Er mwyn gosod y traethawd yn ei gyd-destun, yn y bennod gyntaf cyflwynir ac ystyrir iaith, tafodiaith a llenyddiaeth dafodieithol. Trafodir natur a phwrpas iaith gan roi sylw penodol i'r iaith Gymraeg, diffiniad tafodiaith ac agweddau ati ynghyd â natur llenyddiaeth dafodieithol a'i gwerth yn gyffredinol.

Yn yr ail bennod, trafodir y fethodoleg ymchwil a ddefnyddiwyd wrth astudio'r maes hwn. Cyflwynir yn ogystal y pum cwestiwn y dymunir eu hateb yn ystod proses casglu a dadansoddi gwybodaeth.

Yn y drydedd bennod ystyrir a thrafodir rhai awduron Cymreig a ysgrifennodd lenyddiaeth dafodieithol. Rhoddir enghreifftiau a blas o'r llenyddiaeth dafodieithol sy'n bodoli yn y Gymraeg, a hynny o wahanol rannau o Gymru, a'r amcan yw cyfrannu at y drafodaeth ehangach am lenyddiaeth dafodieithol Gymraeg yn hytrach na chyfyngu'r drafodaeth i un ardal benodol yn unig.

Yn y bedwaredd bennod, ystyrir y gwahaniaethau rhwng tafodieithoedd y de a'r gogledd, cyn manylu ar dafodiaith Sir Benfro, gan egluro sut y mae'n wahanol i dafodieithoedd eraill y de. Er nad astudiaeth o'r iaith a ddefnyddir yn y gweithiau amrywiol yw hon ond astudiaeth lenyddol, trafodir rhai o nodweddion a geirfa tafodiaith Sir Benfro er mwyn rhoi esboniad ohonynt i'r darlennydd cyn dyfynnu o lenyddiaeth dafodieithol y sir yn y penodau sy'n dilyn.

Yn y bumed bennod ystyrir a dadansoddir enghreifftiau o'r llenyddiaeth a ysgrifennwyd gan awduron unigol yn nhafodiaith Sir Benfro, o'r cofnod cynharaf sydd ar gael, hyd y gwyddys, yn 1889 hyd at heddiw.

Eir ymlaen yn y chweched bennod i ystyried cyfrolau o lenyddiaeth, rhai ohonynt wedi eu hysgrifennu yn gyfan gwbl mewn tafodiaith ac eraill (sydd yn tarddu o Sir Benfro neu wedi eu seilio yno, neu wedi eu hysgrifennu gan awduron a aned neu a fu'n byw yn y sir ar ryw adeg yn eu bywyd) yn cynnwys rhai gweithiau mewn tafodiaith.

Un o awduron tafodieithol enwocaf Sir Benfro yw Dewi Emrys. Gan fod ei gerdd dafodieithol 'Pwllderi' yn gerdd arloesol yn nhermau canu tafodieithol Cymraeg, neilltuir pennod saith i drafod yr awdur hwn.

Un o awduron tafodieithol mwyaf cynhyrchiol Sir Benfro yw W. R. Evans. Yn fardd, llenor a sylfaenydd y côr 'Bois y Frenni', gwnaeth lawer i hybu, poblogeiddio a dyrchafu llenyddiaeth dafodieithol y sir, ac fe'i hystyrir yn yr wythfed bennod.

Yn y nawfed bennod, y Casgliad ac Argymhellion, atebir y pum cwestiwn a luniwyd ar ddechrau'r gwaith ymchwil hwn ac amlygir y prif faterion yn codi ohono. Yn ogystal, awgrymir meysydd y gellid ymchwilio iddynt ymhellach er mwyn ehangu'r drafodaeth a'r ddealltwriaeth o lenyddiaeth dafodieithol.

## CYNNWYS

|                |  | Tudalennau |
|----------------|--|------------|
| Datganiad      |  | i          |
| Cydnabyddiaeth |  | ii         |
| Crynodeb       |  | iii – iv   |
| Pennod 1       | Iaith, Tafodiaith a Llenyddiaeth<br>Dafodieithol     | 1 – 40     |
| Pennod 2       | Methodoleg Ymchwil                                   | 41 – 58    |
| Pennod 3       | Llenyddiaeth Dafodieithol Gymraeg                    | 59 – 95    |
| Pennod 4       | Tafodiaith Sir Benfro                                | 96 – 125   |
| Pennod 5       | Llenyddiaeth Dafodieithol<br>Penfro – Awduron Unigol | 126 – 183  |
| Pennod 6       | Llenyddiaeth Dafodieithol<br>Penfro – Cyfrolau       | 184 – 223  |
| Pennod 7       | Dewi Emrys   | 224 – 250  |
| Pennod 8       | W. R. Evans  | 251 – 280  |
| Pennod 9       | Casgliad ac Argymhellion                             | 281 – 306  |
|                | Llyfryddiaeth  | 307 – 335  |
| Atodiad 1      | Cwestiynau Cyfweld                                   | 336 – 338  |
| Atodiad 2      | Ffurflen Gydsynio – cyfweliadau                      | 339        |
| Atodiad 3      | Adysgrifau o'r cyfweliadau                           | 340 – 460  |

## **PENNOD 1**

### **IAITH, TAFODIAITH A LLENYDDIAETH DAFODIEITHOL**

#### **Rhagarweiniad**

Er mwyn gosod y traethawd hwn yn ei gyd-destun, yn y bennod hon cyflwynir ac ystyrir iaith, tafodiaith a llenyddiaeth dafodieithol. Yn rhan gyntaf y bennod, trafodir diffiniad, natur a phwrpas iaith gan roi sylw penodol i'r iaith Gymraeg a'i gwahanol lefelau. Yn yr ail ran, trafodir diffiniad tafodiaith, detholiad o gyhoeddiadau ym maes tafodieitheg, dealltwriaeth, gwerth ac agweddau at dafodiaith. Yn nhrydedd ran y bennod ystyrir natur llenyddiaeth dafodieithol, agweddau gwahanol feirniaid ati ynghyd â'i gwerth yn gyffredinol.

#### **Iaith**

#### **Cyflwyniad a Diffiniad**

Mae traddodiad hirfaith i astudio iaith yn Ewrop a gychwynnodd gyda'r Groegwyr; credent hwy fod iaith yn rhan annatod o fywyd a, thrwy ddeall iaith, byddai dyn yn dysgu llawer am drefn ac ystyr y bywyd hwnnw (R. O. Jones, 1997, t.9). Fel y pwysleisiodd H. Carter (1988, t.15), nid cyfres o symbolau gwahanol i ddiffinio gwrthrychau cyffredin yn unig yw iaith, ond y mae'n darparu golwg wahanol ar y byd; y mae'n greadigaeth gymdeithasol sy'n tarddu o'r rhyngweithio rhwng siaradwr a'i gynulleidfa (M. Beaken, 1996, t.21). Iaith yw'r ffactor allweddol a wahana dyn ac anifail, a'i phwrpas yw galluogi dyn i gyfathrebu, i fynegi ei hun yn ogystal â deall eraill. Fel y dengys R. L. Trask (1995, t.1), iaith yw nodwedd unigol fwyaf rhyfeddol dyn; mae ein gafael ar iaith yn arddangos nifer o briodweddau hynod, a heb iaith ni fyddem wedi medru creu'r byd dynol sydd gennym. Rydym yn byw mewn byd o iaith, a'r iaith honno yw ffynhonnell bywyd a phŵer dynol (V. Fromkin a R. Rodman, 1993, t.3).

Cynigia'r *Oxford English Dictionary* (OED) (2017) y diffiniad canlynol o *iaith*, sef, fel yr awgrymwyd eisoes, cyfrwng i ddyn gyfathrebu:

the method of human communication, either spoken or written, consisting of the use of words in a structured and conventional way (OED, 2017).

Tebyg yw'r diffiniad a gynigir gan *Eiriadur Prifysgol Cymru* (GPC) (2017) o *iaith* fel cyfrwng mynegiant:

cyfangorff y geiriau a arferir gan genedl neilltuol, ynghyd â'r dulliau o'u cyfuno, wrth siarad neu wrth ysgrifennu, i fynegi syniadau, teimladau, anghenion..... y detholiad a'r trefniant o eiriau ac ymadroddion a arferir gan berson (GPC, 2017).

Cynigiwyd nifer o ddiffiniadau o *iaith* gan feirniaid ieithyddol yn ogystal. Er enghraifft, awgrymodd D. Bolinger a D. A. Sears (1981, t.2): 'language is a system of vocal-auditory communication, interacting with the experiences of its users, employing conventional signs composed of arbitrary patterned sound units and assembled according to set rules.' Dywedodd D. Graddol, J. Cheshire a J. Swann (1994, t.13) bod iaith yn system gymhleth o gyfathrebu, sef mecanwaith ar gyfer cyfleu ystyr a grëwyd o gyfres o flychau, pob un yn cynnwys math arbennig o fecanwaith, ac mai'r rhai mwyaf amlwg yw sain, gramadeg ac ystyr. Y mae iaith yn system o arwyddion, a chyfathrebu yw'r arfer o ddefnyddio'r arwyddion hynny (G. Hudson, 2000, t.2), ac un o brif swyddogaethau iaith yw ei swyddogaeth weithrediadol gyda dynion yn defnyddio eu galluoedd ieithyddol i gyfathrebu gwybodaeth a sgiliau (G. Yule, 1985, t.6).

Yn ogystal â chynnig ffurf unigryw o gyfathrebu sy'n galluogi dynion i gydweithio ac i fynegi eu gwahaniaethau cymdeithasol, cred R. Burling (1992, t.3) fod i iaith bwrpas pwysig arall, sef trefniadaeth gwybyddiaeth ddynol. Dywed fod yn rhaid i feddwl sy'n medru cyfleu gwybodaeth i feddwl arall allu trefnu'r wybodaeth honno hefyd i'w ddefnydd ei hun, a



bod dynion nid yn unig yn *cyfathrebu* ag iaith ond hefyd, i ryw raddau, yn *meddwl* â chymorth iaith. Cyflwynodd N. Chomsky (1986, t.1) yntau'r dybiaeth mai ieithoedd yw'r drych gorau o'r meddwl dynol.

O safbwynt cyd-destun llenyddol y traethawd hwn, gellid cytuno ag awgrym J. E. C. Williams (1972, t.11), wrth gyfeirio at ysgrifennu llenyddiaeth greadigol, bod defnyddio iaith yn grefft ac y gellid cyfiawnhau, i ryw raddau, galw iaith yn gelfyddyd. Yn yr un modd ag y mae angen crefft y llenor a chaffael ar yr iaith safonol wrth lenyddiaeth barddoni yn yr iaith honno, dadleuir yng nghorff y traethawd hwn bod angen yr un caffael ar dafodiaith er mwyn ysgrifennu'n grefftus ac yn argyhoeddedig ynddi.

Crynhoir yr ateb i'r cwestiwn 'beth yw iaith?' yn gryno, ac eto'n gynhwysfawr, gan B. J. Blake (2008, t.1), sy'n llwyddo i gyfleu pwysigrwydd iaith a'i rhan annatod ym mywyd dyn a'i hunaniaeth:

Language enables us to describe a situation, including one that happened somewhere else at a previous time. It enables us to ask questions. It enables us to direct people to do things..... Language enables humans to convey complex information about a variety of topics..... However, language is not just a practical tool, it also serves important social functions. It is the principal means of maintaining social relations and the main medium of entertainment (B. J. Blake, 2008, t.1).

### **Yr iaith Gymraeg**

Perthyn yr iaith Gymraeg, fel y Llydaweg a'r Gernyweg, i gangen Frythoneg y Gelteg yn yr ieithoedd Indo-Ewropeaidd. Tardd geirfa'r Gymraeg o'r Gelteg, ond, ar wahanol gyfnodau cafwyd benthyciadau o ieithoedd megis Lladin, Gwyddeleg, Norseg, Ffrangeg-Normanidd a'r Saesneg (H. Lewis, 1943; H. Lewis, 1983). Ganed Cymraeg Cynnar tua ail hanner y chweched ganrif, sef cyfnod cyntefig yr iaith. Gwelwyd cyfnod Hen Gymraeg yn ymestyn o ddiwedd yr wythfed ganrif hyd at

ganol y ddeuddegfed, a chyfnod Cymraeg Canol o ganol y ddeuddegfed ganrif hyd at ganol y bymthegfed. Yna, gwelwyd cyfnod Cymraeg Fodern Gynnar yn ymestyn hyd at ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a chyfnod Cymraeg Fodern Ddiweddar yn ymestyn hyd at heddiw (M. Stephens, 1997, t.357).

Y beirdd a'r llenorion oedd ceidwaid yr iaith yn y Gymru annibynnol, ond, o ganlyniad i Ddeddf Uno 1536, deddf Seneddol a unodd Cymru'n wleidyddol â Lloegr, collodd ei hurddas a'i hawdurdod oherwydd y cyfyngu ar ei defnydd swyddogol (M. Stephens, 1997, t.357). Beth bynnag, llwyddodd y Diwygiad Protestannaidd yn nes ymlaen yn y ganrif honno i wyrdroi'r perygl i'r iaith Gymraeg er i'r dosbarthiadau uchaf yn y gymdeithas droi eu cefn arni. Cyhoeddwyd cyfieithiad William Salesbury o'r Testament Newydd i'r Gymraeg yn 1567 a chyfieithiad William Morgan o'r Beibl i'r Gymraeg yn 1588, digwyddiad allweddol yn hanes yr iaith (J. Davies, 1993, t.25). Yn ogystal, roedd cyhoeddi llyfrau Cymraeg o 1547 ymlaen a sefydlu ysgolion cylchynol Griffith Jones ac ysgolion Sul pan oedd Anghydfurfiaeth yn ei anterth yn ffactorau pwysig i barhad y Gymraeg drwy wneud nifer fawr o'r boblogaeth yn llythrennog yn yr iaith (M. Stephens, 1997, t.357).

Er hynny, gwelwyd rhwystrau pellach yn 1847 wrth i'r llywodraeth gyhoeddi adroddiadau *Y Llyfrau Gleision* ar gyflwr addysg yng Nghymru. Yn ogystal â beirniadu cyflwr yr ysgolion, diffyg adnoddau ac athrawon heb eu hyfforddi, beirniadwyd anallu'r athrawon i addysgu Saesneg i blant uniaith Gymraeg (M. Stephens, 1997, t.470). Arweiniodd hyn at ddefnydd y *Welsh Not* mewn rhai ysgolion. Serch yr ymgais i Seisnigeiddio addysg, y Gymraeg a deyrnasai yn y cartref, y gweithle, yr addoldai ac yn gymdeithasol, ac nid oedd lle i bryderu y câi'r iaith ei disodli fel cyfrwng y cyfathrebu beunyddiol (G. H. Jenkins, 1999, t.1). Gallai'r Cymry, i bob diben, fyw eu bywydau'n llwyr yn y Gymraeg (G. H. Jenkins, R. Suggett a E. M. White, 1997, t.119).

Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd ymwybyddiaeth genedlaethol Gymraeg yn tyfu. Rhoddwyd pwysigrwydd a statws newydd i'r iaith drwy astudiaethau ieithegol John Rhys a John Morris-Jones, ac wrth i lenorion megis Emrys ap Iwan, Dan Isaac Davies, Thomas Gee ac Owen M. Edwards bwysleisio hawliau'r Cymry i urddas eu hiaith eu hunain (M. Stephens, 1997, t.358). Yn ddiweddarach, gwelwyd twf mewn addysg Gymraeg a chynnydd yn nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg er sefydlu ysgol Gymraeg Urdd Gobaith Cymru yn Aberystwyth yn 1939, yr ysgol gynradd gyntaf dan nawdd awdurdod lleol, sef Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Llanelli yn 1947, a'r ysgol uwchradd ddwyieithog gyntaf, sef Ysgol Glan Clwyd, Sir y Fflint yn 1956.

Serch hynny, darlledwyd darlith radio Saunders Lewis, *Tynged yr iaith*, yn 1962 yn amlygu'r perygl i'r iaith. Awgrymodd J. Aitchinson a H. Carter (1994, t.42) mai bwriad y ddarlith oedd: 'bring home to the people of Wales the full severity of the crisis facing the language.' Arweiniodd y ddarlith at sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, mudiad sy'n parhau i frwydro dros statws yr iaith. Cyfeiriodd Deddf yr Iaith Gymraeg a sefydlwyd yn 1967 at ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol ac ar ffurflenni swyddogol, a phasiwyd ail Ddeddf yn 1993. Yn dilyn refferendwm i ddatganoli Cymru yn 1997 sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn swyddogol ar 26 Mai 1999. Digwyddiad neilltuol oedd penodi Comisiynydd Iaith Cymru yn 2011. Cafodd *Mesur y Gymraeg (Cymru)* gymeradwyaeth frenhinol ar 6 Chwefror y flwyddyn honno gyda'r bwriad o foderneiddio'r fframwaith cyfreithiol ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

### **Gwahanol lefelau'r iaith Gymraeg**

Gellir honni bod yr iaith Gymraeg yn bodoli ar hyn o bryd ar bedair lefel wahanol ac yn gontinwmm ieithyddol, sef (i) Cymraeg llenyddol, (ii) Cymraeg Byw a elwir hefyd yn Gymraeg llafar ac ysgrifenedig safonol, (iii) Tafodiaith a (iv) Bratiaith. O ran *Cymraeg llenyddol* a

*Chymraeg safonol*, fe'u dehonglir yn aml yn dermau cyfystyr a adlewyrchir yn y modd y defnyddir termau fel *Cymraeg llenyddol safonol*. Defnyddir y term 'iaith safonol' yn y traethawd hwn, felly, i gwmpasu a) yr hyn y cyfeirir ati yn draddodiadol fel yr 'iaith lenyddol' a b) Cymraeg Byw a sefydlwyd yn y 1960au, ac i wahaniaethu rhwng yr iaith honno a thafodiaith, sef ffocws y traethawd hwn.

### **Cymraeg llenyddol**

Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith bod cyhoeddi cyfieithiad William Morgan o'r Beibl yn 1588 yn ddigwyddiad allweddol yn hanes yr iaith Gymraeg, a dyma sail orgraff safonol Cymraeg Modern. Cyfeiria G. ap Gwilym (2006, t.64) at y farn gyffredin mai'r Beibl hwn a rwystrodd y Gymraeg rhag dirywio i fod yn gasgliad o dafodieithoedd digyswllt yn unig, gan roi iddi'r undod a fu'n sylfaen i lenyddiaeth Gymraeg ar hyd y canrifoedd. Yr un yw byrdwn Gwenallt yn ei gerdd 'Yr Esgob William Morgan' sy'n cyfeirio at anallu blaenorol y Cymry i ddeall tafodieithoedd ei gilydd, ac at yr urddas a roddwyd i'r iaith Gymraeg drwy gyfieithu'r Beibl:

Gwelai ef nad oedd y Gymraeg ond tafodiaith gyffredin  
Ffair, fferm, baled a thelyn a thôn;  
Ac na allai'r tafod a barablai ym marchnadoedd Mynwy  
Ddeall y tafod gyddfol ym marchnadoedd Môn.

Canmolwn ef am ei ddygnwch, ei ddewrder a'i santeiddrwydd  
Ac am ei gymorth i gadw'r genedl a'r iaith lenyddol yn fyw,  
Gan roddi arni yr urddas ac iddi'r anrhydedd uchaf  
Wrth ei throi yn un o dafodieithoedd Datguddiad Duw.  
(Gwenallt, 1960, tt.50-51)

Fel y nodwyd eisoes, roedd John Morris-Jones yn ddiweddarach yn un o'r ysgolheigion hynny a oedd o blaid codi statws yr iaith Gymraeg. Arweiniodd ymgyrch i safoni orgraff a gramadeg yr iaith ac yr oedd yn llym ei feirniadaeth o ffurfiau tafodieithol. Ei nod ef oedd creu iaith ysgrifenedig glasurol, a hynny drwy droi yn bennaf at feirdd yr Oesoedd Canol am awdurdod (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989, t.5). Yn 1921,

cyhoeddodd John Morris-Jones ei gyfrol *An Elementary Welsh Grammar*, ac ynddi cofnododd ei agwedd at y tafodieithoedd. Yn ei farn ef, yr oedd yr iaith a'r traddodiad llenyddol yn bur tra bod tafodiaith yn llygredig:

The written language has been corrupted not only under the influence of false etymological theories, but in the opposite direction by the substitution of dialectal for literary forms..... The value of the tradition is that it represents the language in a form which was everywhere recognized as pure, and of which the various dialects represent different corruptions (J. Morris-Jones, 1921, t.v).

Cwblhawyd proses safoni'r iaith drwy gyhoeddi *Orgraff yr Iaith Gymraeg: Adroddiad Pwyllgor Llên Bwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru* yn 1928, a hynny gan banel o dan gadeiryddiaeth John Morris-Jones. Cydymffurfiai'r safonau orgraffyddol hyn ag ynganiad hynafol yn hytrach nag unrhyw amrywiaeth o Gymraeg llafar cyfoes, ac, felly, yn fersiwn ysgrifenedig gyffredin, hynny yw: 'this has the considerable advantage that one written version can serve as an accepted transcription for a variety of regional pronunciations' (G. Price, 1984, t.266).

Disgrifir John Morris-Jones gan A. James (2011, tt.213,220) fel un a osododd y pwys mwyaf ar reolau'r iaith Gymraeg gan ladd ar y sawl na fynnai ddilyn ac ufuddhau i'r gyfundrefn honno. Dengys sut y cafodd John Morris-Jones gefnogaeth nifer o'i gyd-ysgolheigion yn dilyn cyhoeddi ei gyfrol yn 1921, gan ennill enw iddo'i hun fel y sawl a fu'n bennaf gyfrifol am greu'r amodau a fyddai'n ennyn a sicrhau parch at reolau'r iaith Gymraeg. Serch hynny, dywed amdano:

Ei duedd fel gramadegydd oedd diffinio safon yn hytrach na disgrifio'r iaith lafar yn union fel yr oedd. Hynny yw, credai Morris-Jones yn gryf mewn puro'r iaith o bob 'aflendid', a bod hynny'n golygu adfer ffurfiau traddodiadol a hyd yn oed rhai hynafol a ddiflanasai o'r iaith lafar ers tro; ysywaeth, roedd dilyn llwybr o'r fath yn golygu derbyn safonau a allai brofi'n llawer rhy statig ac anhyblyg ar gyfer rhyddiaith (A. James, 2011, t.216).

Disgrifio un fersiwn ac un wedd ar y Gymraeg a wnaeth felly. Er yn cydnabod cymwynas John Morris-Jones â'r iaith Gymraeg ysgrifenedig drwy bennu sail urddasol ar gyfer ei llenyddiaeth, mae B. Thomas a P. W. Thomas (1989, t.5) yn ogystal yn ei feirniadu am fod yn burydd a ystyriai ffurfiau tafodieithol yn nodweddion a oedd i'w condemnio.

Mae'r hyn sy'n dderbyniol mewn Cymraeg ysgrifenedig, felly, yn fater o gonfensiwn a dderbyniwyd gan feirdd traddodiadol yr Oesoedd Canol ac a gadarnhawyd gan John Morris-Jones (G. Thomas, 1977, t.4). Mynegodd G. Thomas (1977, t.4) yntau bryder yr aiff ysgrifennu Cymraeg yn gymysgedd o dafodieithoedd oni chedwir at y confensiwn:

Y mae'n anorfod bod confensiwn ein hiaith ysgrifenedig yn geidwadol. Ond, wedyn, y mae'n rhaid wrth ryw gonfensiwn wrth ysgrifennu Cymraeg neu y mae perygl iddi fynd yn stremp o dafodieithoedd (G. Thomas, 1977, t.4).

Serch sefydlu un iaith Gymraeg sefydlog a chyffredin, iaith ysgrifenedig oedd honno yn bennaf ar hyd y canrifoedd, heb gyfundrefn addysg ddigonol i'w hatgyfnerthu. Gellid maentumio, felly, mai cyfrwng artiffisial oedd yr iaith lenyddol, gan nas siaredid hi yn gyffredin. Hynny yw: 'it is an artificial language – consciously planned and designed to standardize the written language' (G. King, 2016, t.xv). Parhâi'r iaith Gymraeg lenyddol mewn peuoedd, megis y capel, prifysgol a llenyddiaeth, ond parhâi'r iaith hefyd mewn ffurfiau tafodieithol. I nifer o Gymry, prin fu eu cysylltiad â'r iaith lenyddol hon, neu yr hyn y cyfeiria M. J. Ball a N. Müller (1992, t.9) ato fel *Literary Welsh* (LW):

Many speakers only have productive access to the vernacular spoken forms, not speaking, reading or writing the standard forms (therefore often not reading or writing the language at all), though probably able to understand LW when heard read aloud (M. J. Ball a N. Müller, 1992, t.9).

Cydfodolai'r ddau lwybr ieithyddol ar hyd yr amser er bod tyndra a bwlch rhwng y ddau. Dilema sylfaenol teithi'r Gymraeg, felly, fu a ddylid ysgrifennu yn yr iaith lenyddol neu a ddylid adlewyrchu tafodiaith mewn deialog neu mewn llenyddiaeth yn gyffredinol hyd yn oed.

### **Cymraeg Byw (Cymraeg llafar ac ysgrifenedig safonol)**

Tynnwyd sylw gan Ifor Williams at y bwlch hwn rhwng yr iaith lenyddol ysgrifenedig a'r tafodieithoedd llafar wrth iddo alw am foderneiddio Cymraeg a'i dwyn yn agosach at 'Gymraeg Byw'. Traddododd Ddarlith Flynyddol BBC Cymru yn 1960 i'r perwyl hwn, ac yr oedd nifer o ysgolheigion eraill, megis Stephen J. Williams, Henry Lewis, Griffith John Williams ac Islwyn Ffowc Elis, yn rhannu'r un farn (C. Davies, 1988, t.201). Rhwng 1964 ac 1970, cyhoeddwyd tri llyfryn gan Y Cyd-Bwyllgor Addysg Cymreig yn dwyn y teitl *Cymraeg Byw* a esgorodd ar ddadleuon ieithyddol llosg y 1960au, megis: sut i ddiffinio Cymraeg llafar safonol; ei defnydd; a ddylai fod yn ysgrifenedig; ac a ddylai gael ei defnyddio'n gyffredinol neu ei chyfyngu i ddysgwyr yn unig. Tra roedd Bobi Jones, ar y naill law, o'r farn y dylid defnyddio Cymraeg llafar safonol ar gyfer dysgwyr yn unig, roedd Urien William o blaid mabwysiadu *Cymraeg Byw* fel un ffurf safonol amlbwrpas ar yr iaith (C. Davies, 1988, t.204).

Ymgais oedd y llyfrynnau *Cymraeg Byw*, felly, i ddiffinio prif nodweddion Cymraeg llafar safonol, sef ffurf ar yr iaith a orweddai rywle rhwng Cymraeg llenyddol ceidwadol ar y naill law, a'r tafodieithoedd rhanbarthol lleol ac amrywiol ar y llaw arall, gyda'r nod o geisio pontio'r agendor oedd rhyngddynt. Er nad yr amcan yn y llyfrynnau *Cymraeg Byw* yw disodli ffurfiau'r dafodiaith leol, awgrymir 'orgraff ar gyfer ffurfiau llafar safonol a fydd yn dderbyniol drwy Gymru gyfan' ac y byddai'r ffurfiau hyn yn 'help i ddysgwyr ddysgu'r iaith, ac yn help i blant o Gymry Cymraeg ddysgu llefaru a sgrifennu'n raenus' (Y Cyd-Bwyllgor Addysg Cymreig, 1967, t.8). Yn ogystal, awgrymwyd ffurfiau llafar safonol a

oedd cyn agosed â phosib at y ffurfiau llenyddol, os oeddent yn 'ffurfiau byw,' ac 'o gadw at yr egwyddor hon fydd dim anawsterau i astudio'r iaith yn ei ffurf lenyddol wedi dysgu ei siarad hi' (Y Cyd-Bwyllgor Addysg Cymreig, 1967, t.8).

Disgwylir bod y rheolau gramadegol sy'n perthyn i'r iaith lenyddol draddodiadol hefyd yn rhan annatod o Gymraeg Byw. Hynny yw, y mae'n ffurf ar iaith, boed yn ysgrifenedig neu'n llafar, sy'n dilyn rheolau gramadegol heb unrhyw eiriau tafodieithol yn perthyn iddi. Er enghraifft, o ran amser gorffennol rhediad *cael*, cedwir yr un treigladau:

|                |                    |                          |
|----------------|--------------------|--------------------------|
| Cefais / Ces i | A gefais? / Ges i? | Ni chefais / Ches i ddim |
|                | (Treigladd Meddal) | (Treigladd Llaes)        |

Un o wrthwynebwyr pennaf Cymraeg Byw oedd Ceinwen H. Thomas gan ei bod yn credu bod iaith lafar safonol yn bodoli eisoes, ochr yn ochr â'r iaith lenyddol a'r tafodieithoedd, sef 'iaith hysbys i bawb ac arferedig ganddynt hyd y mae gafael weithredol ganddynt arni' (C. H. Thomas, 1967, t.242), a honno'n iaith y capel a'r brifysgol, iaith areithio cyhoeddus a'r cyfryngau. Yr oedd hefyd yn gresynu gweld Cymraeg Byw yn ymwthio i'r ffurf ysgrifenedig.

Gellid awgrymu yn y cyd-destun hwn eto mai cyfrwng artiffisial yw 'Cymraeg Byw', gan ei bod yn cwmpo rhwng dwy stôl, rhwng yr iaith lenyddol ar y naill law a'r tafodieithoedd ar y llaw arall. Hynny yw, fel y dywedodd un: 'Cymraeg Byw "Living Welsh" is not a first-language at all, but a blend of various dialectal features; it is therefore artificial' (J. Fife, 1986, t.144). Nid yw chwaith yn ateb problem sylfaenol teithi'r iaith Gymraeg. Serch hynny, wfftio'r defnydd o'r gair 'artiffisial' i ddisgrifio Cymraeg Byw wnaeth R. M. Jones (2000, t.11), gan ddadlau bod nifer yn gyfarwydd â'r fath iaith, yn ei medru ac yn ei defnyddio.



## Yr iaith lenyddol / safonol ysgrifenedig heddiw

Cyfyd y cwestiwn, felly, beth yw natur yr iaith lenyddol / safonol ysgrifenedig heddiw? Mewn fforwm trafod dan y pennawd 'Priodol iaith y Llenor' yn y cylchgrawn *Taliesin* yn 1998, gofynnwyd y cwestiwn hwn i awduron: 'Beth yw ansawdd yr iaith Lenyddol heddiw? A oes yna'r fath beth â "Chymraeg Safonol"?' (Taliesin, 1998, t.26).

Yn yr un modd, oherwydd i Meic Stephens ddod yn agos at ennill y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol 2005 gyda chasgliad o gerddi yn nhafodiaith y Wenhwyseg (a drafodir yn y drydedd bennod), gofynnodd G. ap Gwilym (2006, t.65): 'pwy bellach sy'n gwarchod yr iaith safonol' a hyd yn oed 'a oes y fath beth yn bod bellach ag iaith lenyddol safonol?' Etyb fod gennym 'hyd yn hyn o leiaf, Gymraeg safonol sy'n ddealladwy i Gymru benbaladr. Ond phery hynny ddim yn hir heb fod rhywrai o'n sefydliadau cenedlaethol, a'r Eisteddfod yn eu plith, yn ei warchod' (G. ap Gwilym, 2006, t.65). Hynny yw, ergyd y cwestiwn oedd, os caniateir ac y parha awduron i ysgrifennu mewn iaith fwy llafar a thafodieithol, ai dyna fydd diwedd yr iaith safonol? Dyma fater a ystyrir yn y bennod olaf wrth drafod y cwestiynau ymchwil a amlinellir yn yr ail bennod.

Awgrymwyd eisoes mai cyfrwng artiffisial yw'r iaith lenyddol gan nas siaredir hi yn gyffredin. Gellid gofyn, felly, os nas siaredir hi, i ba raddau y deëllir hi? Yn gyffredinol, awgrymodd ymateb yr awduron a holwyd gan *Taliesin* yn 1998 fod angen ystytho'r iaith lenyddol honno a welwyd ym Meibl William Morgan a'r llenyddiaeth a'i dilynodd, gan ei chymysgu ag iaith fwy syml a llafar; hynny yw, bod angen ei gwneud yn fwy dealladwy. Er enghraifft, dywedodd I. Ff. Elis (1998, t.28) bod Cymraeg llenyddol traddodiadol erbyn dechrau'r 1960au 'mor glasurllud anystwyth, cyn pen fawr o dro fe fyddai'n annarllenadwy i Gymry Cymraeg yr oedd eu hiaith lafar wedi crwydro mor bell oddi wrthi.'

Er mwyn gwneud yr iaith lenyddol yn ddealladwy i'r Cymry cyfoes, felly, gwelwyd ymdrechion i'w haddasu. Awgrymwyd mai mawredd pennaf y Gymraeg yw ei hyblygrwydd (W. O. Roberts, 1998, t.36) ac mai'r allwedd i barhad yr iaith ar hyd y canrifoedd fu ei gallu i addasu, sef symleiddio, ystwytho, efelychu a benthyca (M. Davis, 1998, t.26):

Y gamp i'r awdur cyfoes yw priodi'r miniogrwydd a'r cynildeb mynegiant a geir yn iaith y Beibl a gweithiau cyffelyb, yr iaith lafar ar ei gloywaf a thrysorfa'r traddodiad barddol, â'r llacrydd ieithyddol cyfoes â'i holl ddylanwadau rhyngddiwylliannol amrywiol a chyffrous (M. Davis, 1998, t.26).

Felly, er y parheir i ysgrifennu mewn arddull lenyddol, megis mewn cyfrolau academiaidd, ysgrifennir hefyd mewn Cymraeg Byw. Yn ogystal ysgrifennir yn dafodieithol, sef yr hyn sy'n ffocws i'r traethawd hwn.

### **Dwylosia / Diglossia**

Cyfeiria C. A. Ferguson (1959, tt.325-340) at sefyllfa lle mae dwy wedd amrywiol ar iaith yn bodoli ochr yn ochr a chan y ddau fath swyddogaeth arbennig i'w chwarae fel *dwylosia* (*diglossia*). Dywed:

Diglossia is a relatively stable language situation in which, in addition to the primary dialects of the language (which may include a standard or regional standards), there is a very divergent, highly codified (often grammatically more complex) super-posed variety, the vehicle of a large and respected body of written literature, either of an earlier period or in another speech community, which is learned largely by formal education and is used for most written and formal spoken purposes but is not used by any sector of the community for ordinary conversation (C. A. Ferguson, 1959, t.336).

Yn y Gymraeg, disgrifia G. M. Awbery (2014) yr amrywio hwn fel *cywair*. Rhoddir i'r iaith safonol y label H (High), sef Cywair Uchel, y math o iaith a ddefnyddir mewn cyd-destunau ffurfiol ac ysgrifenedig, ac i'r dafodiaith y label L (Low), sef Cywair Isel, y math o iaith a ddefnyddir mewn cyd-destunau anffurfiol a llafar. Dengys C. A. Ferguson (1959, t.328) fod y

ddau fath o iaith yn addas mewn sefyllfaoedd gwahanol, ac ychydig iawn y maent yn gorgyffwrdd:

One of the most important features of diglossia is the specialization of function for H and L. In one set of situations only H is appropriate and in another only L, with the two sets overlapping only very slightly (C. A. Ferguson, 1959, t.328).

Yr iaith isel, L, yw iaith bob dydd y rhan fwyaf os nad pob siaradwr, tra yr addysgir H drwy addysg ffurfiol. O ganlyniad, 'speakers of limited education may have a very inadequate command of H, and they may even have trouble understanding it' (R. L. Trask, 2007, t.74).

O safbwynt agweddau sosio-ieithyddol neu ieithyddiaeth gymdeithasegol, gan gynnwys amrywiadau ieithyddol, gall lleferydd person newid ac amrywio yn unol â'r sefyllfa gymdeithasol y mae ynddi, a gellir defnyddio'r amrywio hwn i fynegi ac i gadw hunaniaeth gymdeithasol (A. Wray, K. Trott a A. Bloomer, 1998, t.99). Yn namcaniaeth gyfathrebu Howard Giles, a elwir yn *Communication Accommodation Theory (CAT)* / *Damcaniaeth Cyfathrebu Cymhwysol*, dadleuir bod pobl yn newid ac yn addasu eu patrymau llafar a'u hymddygiad cyfathrebu mewn ymateb i eraill. Gall y newid hwn olygu mynd i fyny, (proses a ddisgrifir yn CAT fel *convergence* / *cydgyfeiriad*), megis pan fo siaradwr tafodiaith yn mabwysiadu'r iaith safonol mewn cyfweliad am swydd, neu fynd i lawr (proses a ddisgrifir yn CAT fel *divergence* / *ymwahaniad*), megis pan fo oedolyn yn defnyddio geiriau syml wrth ddisgrifio mater technegol i blentyn (F. Coulmas, 2005, t.32). Un agwedd ar *cydgyfeiriad* yw'r awydd i ennyn cymeradwyaeth y derbynnnydd a'r rhwydweithiau cymdeithasol y perthyn iddynt (I. Sachdev a H. Giles, 2006, t.356).

Wrth ystyried y Gymraeg, a'r tyndra y cyfeiriwyd ato eisoes rhwng yr iaith lenyddol a'r iaith lafar, gwelwyd fersiwn ar yr hyn a elwir yn 'ddwylosia clasurol', hynny yw, tyndra rhwng Cywair Uchel a Chywair

Isel yr un iaith. Yn y 1960au, bathodd Joshua Fishman y term ‘Dwylosia Estynedig’ ar gyfer pobl sy’n defnyddio un iaith ar gyfer un pau, megis y teulu a chymdeithas, ac iaith arall ar gyfer pau arall, megis busnes a materion swyddogol (R. Trefor, 2014).

Medda pobl ar *ddwy* amrywiaeth o iaith, felly, gan eu defnyddio yn ôl achlysuron gwahanol. Dengys A. Hughes a P. Trudgill (1996, t.13) fod rhai yn addasu eu lleferydd yn sylweddol gan ddefnyddio iaith safonol yng nghwmni rhai pobl a’u tafodiaith leol mewn cwmni arall, ac, felly, perthynant i fwy nag un grŵp cymdeithasol. Ceir safbwynt tebyg gan C. Baker a S. P. Jones (1998, t.117), sef nad yw cymuned ieithyddol yn debygol o ddefnyddio’r *ddwy* amrywiaeth i’r un pwrpas, gan amrywio yn ôl amgylchiadau a gweithredoedd gwahanol. Mewn cyd-destun dwylosaidd, mae peth tystiolaeth i ddangos mai’r amrywiaeth isel, L a hepgorir oherwydd: ‘the low status and prestige of the low variety ultimately influences the attitudes of the speakers towards the use of the language in a negative way’ (N. B. Chin a G. Wigglesworth, 2007, t.115).

Wrth restru’r sefyllfaoedd posibl y defnyddir y mathau H ac L ynddynt, rhydd C. A. Ferguson (1959, t.329) farddoniaeth yn y categori H. Am farddoniaeth a ysgrifennwyd yn y *ddwy* ffurf, dywed: ‘but the status of the two kinds of poetry is very different, and for the speech community as a whole it is only the poetry in H that is felt to be “real” poetry’ (C. A. Ferguson, 1959, t.329). Dywed W. Downes (1998, t.37) yntau: ‘a standard language is usually the vehicle of a literary canon and tradition which exemplifies what critics have selected as the best examples of the language.’ Tra yn draddodiadol, felly, yr amrywiaeth uchel, H, yr *iaith lenyddol safonol* a geid mewn llenyddiaeth, a’r amrywiaeth isel, L, yr *iaith lafar*, yw iaith bob dydd y gymuned, y teulu a’r cyd-destunau lle y mae’r amrywiaeth uchel yn amhriodol (M. J. Ball, T. Griffiths a G. E. Jones, 1988, t.192), gellid dadlau bod y farn yn newid oherwydd yn y penodau i ddilyn cyfeirir at safbwyntiau sy’n honni bod barddoniaeth dafodieithol yr un mor real â barddoniaeth mewn iaith safonol.

## Tafodiaith

### Cyflwyniad a Diffiniad

Mae'r gair *dialect* yn tarddu o'r unfed ganrif ar bymtheg ac o'r iaith Roeg *dialektos*, a olyga *discourse, way of speaking*. Cafodd ei fenthyg i'r iaith Saesneg drwy'r Lladin a'r Ffrangeg (G. L. Brook, 1978, t.17). Diffinnir *dialect* fel:

A particular form of a language which is peculiar to a specific region or social group..... Regional language, local language, local tongue, local speech, local parlance, variety of language (OED, 2017).

Diffiniad *tafodiaith* a gynigir gan GPC (2017) yw:

Amrywiad ar iaith neilltuol a siaredir mewn ardal ddaearyddol benodol, gan ddsbarth cymdeithasol arbennig, ac sy'n gwahaniaethu oddi wrth amrywiadau eraill ar yr un iaith ar sail geirfa, gramadeg, ynganiad (GPC, 2017).

Llwydda'r term 'amrywiad' i gyfleu'n gywir ac yn deg y gwahaniaethau iaith lleol sy'n bodoli. Yn wir, y mae L. Bauer (2002, t.4) o'r farn y dylid osgoi defnyddio'r term *dialect / tafodiaith* lle y mae hynny'n bosib ac, yn hytrach, defnyddio'r term *variety / amrywiaeth*, a hynny gan y gellir dehongli'r term tafodiaith mewn nifer o ffyrdd gwahanol – fel term sy'n cyfeirio at leferydd gwledig, fel term sy'n cyfeirio at iaith ansafonol, neu fel term sy'n awgrymu 'quaint', 'lliwgar' neu 'anghyffredin'. Gall fod yn amrywiaeth rhanbarthol, cymdeithasol neu ethnig ar iaith (W. Wolfram, 1997, t.107) neu'n amrywiaeth ieithyddol sy'n wahanol yn ramadegol, yn eiriadurol ac yn ffonolegol i amrywiaethau eraill (N. Coupland, 1988, t.1).

Fel y nodwyd wrth ystyried 'dwylosia', ystyrir tafodiaith fel y math isel, L, ar iaith, ond yn nhermau ieithyddiaeth, pwysleisir mai amrywiaeth yw:

Linguistically unsophisticated people sometimes apply the term dialect to a regional language of low prestige, but the term is never so used in linguistics, in which a dialect is always a variety of a language which has other varieties (R. L. Trask, 2007, t.73).

Dywed P. Trudgill (1994, t.2) fod tafodiaith yn ymwneud â tharddiad cymdeithasol a daearyddol gan fod pawb yn siarad tafodiaith, a bod tafodiaith person yn gyfuniad arbennig o eiriau, ynganiadau a ffurfiau gramadegol y mae'n eu rhannu â phobl eraill o'r un ardal a'r un cefndir cymdeithasol, ac sy'n gwahaniaethu mewn ffyrdd arbennig o'r cyfuniad a ddefnyddir gan bobl o ardaloedd a chefnidiroedd eraill. I'r gwrthwyneb, awgrymwyd nad sail ddaearyddol o anghenraid sydd i raniad iaith i dafodieithoedd, ac y gall fod yn alwedigaethol, megis 'tafodiaith y cyfreithiwr' a geid o gwmpas 1740 a 'thafodiaith y diwinydd' a geid o gwmpas 1805 (G. L. Brook, 1978, t.18).

Nid yw'r ffin rhwng un ynganiad ac un arall o angenrheidrwydd yn cydfynd â ffiniau siroedd, fel y dengys G. L. Brook (1973, t.31), ac mae'r ardaloedd lle y canfyddir un dafodiaith gweddol gydryw o'u mewn yn aml dipyn yn llai na siroedd. O ganlyniad felly, dywed fod cyfeirio at dafodiaith *Yorkshire / Swydd Efrog* neu *Lancashire / Swydd Gaerhirfryn* yn gor-symleiddio. Mae'r un peth yn wir yn y Gymraeg, fel y dangosir yn y bedwaredd bennod wrth ddisgrifio tafodiaith Sir Benfro a'i chysylltiad ag ardaloedd eraill. Ond, er nad oes ffiniau tafodieithol defnyddir labeli'n gyson ar gyfer pobl o darddiadau rhanbarthol gwahanol megis *Geordie, Cockney, Jock, Taffy* a *Scouse* (P. Trudgill, 1990, t.2).

Mae'n werth nodi diffiniad K. M. Petyt (1980, t.11) o *dafodiaith*, yn enwedig yng nghyd-destun y traethawd hwn lle y dangosir bod i dafodiaith ffurf ysgrifenedig a bod pwysigrwydd a gwerth i'r llenyddiaeth dafodieithol honno. Er na ellir cytuno â diffiniad K. M. Petyt, gan y dangosir yn y penodau sy'n dilyn bod awduron llythrennog ac addysgedig yn ysgrifennu'n dafodieithol, mae'n werth ei ddyfynnu yma:

Forms of speech with no corresponding written form, or those used by uneducated people, are labelled 'dialects' and contrasted with the true 'languages' of the literate and educated (K. M. Petyt, 1980, t.11).

Ystyrir tafodiaith yn gyffredinol, felly, yn amrywiad ar iaith neilltuol, yr amrywiad hwnnw a siaredir ar lafar. Ond, dywed I. W. Rees (2016) fod yr iaith lenyddol a'r iaith safonol hefyd yn amrywiadau ar iaith ac ystyrir hwythau'n 'dafodieithoedd' gan dafodieithegwyr cyfoes, ac o safbwynt ieithyddol pur, felly, na ellir honni bod yr amrywiadau hyn, er y tueddir i roi bri arnynt, yn rhagori ar unrhyw amrywiadau eraill. Defnyddir y term 'iaith lafar' gan rai yn hytrach na 'thafodiaith', felly cyfeirir at y ddau derm drwy gydol y traethawd hwn.

Nodwyd eisoes mai pedwaredd lefel yr iaith Gymraeg yw *bratiaith*, sef term i ddisgrifio iaith lwgr ddirywiedig (GPC, 2017). Fe'i hystyrir yn iaith fratiog a sathredig nad yw'n rhan o iaith gonfensiynol, yn iaith anghywir neu ansafonol. Rhestr D. G. Jones (2016) nodweddion bratiaith Gymraeg, sef (a) camdreiglo (b) methu gyda chenedl enw (c) ansicrwydd gyda ffurfiau berfol (ch) nifer uchel o eiriau benthyg (d) gwyro cystrawen, megis 'lle ti'n dod o' a 'ti ddim yn' a (dd) colli'r synnwyr, megis 'dydw i heb fynd'. Dywed D. G. Jones (2016) mai datblygiadau o fewn y Gymraeg yw (d) ac y gellir dychmygu adeg pan fyddant yn safonol, ond pwysleisia na fydd (dd) fyth yn gywir.

### **Cyhoeddiadau ym maes Tafodieitheg**

Y mae i dafodieitheg hanes hir mewn traddodiadau ieithyddol. Cynhaliwyd y gwaith tafodieithegol cydnabyddedig cynharaf gan Georg Wenker yn yr Almaen yn 1876, a chan Jules Gilliéron yn Ffrainc yn 1896. Arweiniodd y diddordeb yn y gwaith hwn at waith ymchwil tebyg drwy Orllewin Ewrop a Gogledd America. Rhwng 1925 a 1940, cyfarwyddodd Karl Jaberg a Jacob Jud, dau o fyfyrwyr Jules Gilliéron, astudiaeth o dafodieithoedd yr Eidal a de'r Swisdir. Sefydlwyd yr

*American Dialect Society* yn 1889 er mwyn sianelu'r diddordebau tafodieithol, a chychwynnwyd gwaith ar y *Linguistic Atlas of the United States and Canada* yn 1930. Gwnaed gwaith ymchwil gan William Labov yn Martha's Vineyard, ynys ar arfordir New England, yn 1961, ac Efrog Newydd yn 1966 yn astudio newidiadau ieithyddol yn y gymuned, gan symud o astudio tafodieitheg mewn dull traddodiadol i dafodieitheg gymdeithasegol (M. J. Ball, 1988; R. O. Jones, 1993; D. Thorne, 1985).

Sefydlwyd yr *English Dialect Society* yn 1873, y corff a gyhoeddodd *The English Dialect Dictionary* gan Joseph Wright (1898-1905). Cychwynnwyd gwaith ar Saesneg Lloegr gan Harold Orton yn 1948 gan ddilyn patrwm Georg Wenker yn yr Almaen o gofnodi patrymau llafar y bobl hŷn a'i gyhoeddi yn 1978 fel y *Survey of English Dialects*. Un o amodau'r gwaith hwn oedd y dylai'r ymatebwyr fod yn 60 oed neu'n hŷn ac wedi byw yn yr ardal o dan sylw drwy gydol neu fwyafrif eu hoes, er mwyn galluogi'r tafodieithegwyr i ddisgrifio ffurfiau hynaf y tafodieithoedd a oedd mewn perygl o ddiflannu (M. J. Ball, 1988; R. O. Jones, 1993).

O ran cofnodi tafodieithoedd Cymru, yn 1707 cyhoeddodd Edward Lhuyd ei gyfrol *Archaeologia Britannica* gan ddyfynnu geiriau a ffurfiau tafodieithol ond heb gynnig disgrifiad o unrhyw dafodiaith benodol. Yn 1753, cyhoeddodd Thomas Richards y *Linguae Britannicae Thesaurus* a gynhwysai rhai geiriau oedd yn nodweddiadol o Forgannwg a Mynwy, tra yn 1832, cyhoeddodd William Owen-Pughe *Dictionary of the Welsh Language* a oedd yn cynnwys tua chant a hanner o eiriau a oedd yn nodweddiadol o dde-ddwyrain Cymru. Y gwaith tafodieithogol sylweddol cyntaf oedd astudiaeth Henry Sweet yn 1884 o Gymraeg Nant Gwynant yng ngogledd Cymru sy'n disgrifio synau a ffurfiau tafodiaith yr ardal honno. Y prif dueddiad mewn astudiaethau tafodieithol yn dilyn gwaith Henry Sweet oedd llunio geirfâu neu gasgliad o idiomau yn perthyn i ardal arbennig ac mae i lawer o'r gwaith hwn werth o ran cofnodi ffurfiau lleol o eirfaeodd sydd, o bosib, wedi diflannu erbyn hyn (M. J. Ball, 1988; R. O. Jones, 1993).



Cyhoeddwyd nifer o astudiaethau tafodieithol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Er enghraifft, llyfryn John Griffiths *Y Wenhwyseg* yn 1902; gwaith M. H. Jones ar dafodiaith Dyfed yn 1905-7; gwaith Myrddin Fardd, *Gwerin-Eiriau Sir Gaernarfon*, yn 1907; cyfrol W. Meredith Morris *A Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire* yn 1910, cyfrol y cyfeirir ati droeon yn y traethawd hwn wrth dafoli nodweddion tafodiaith Sir Benfro; cyfrol O. H. Fynes-Clynton *The Welsh Vocabulary of the Bangor District* yn 1913, a gwaith cynhwysfawr Alf Sommerfelt ar dafodiaith Dyffryn Dyfi yn 1925, *Studies in Cyfeiliog Welsh: A Contribution to Welsh Dialectology* (M. J. Ball, 1988; R. O. Jones, 1993).

Yn ogystal, bu astudiaeth o dafodieithoedd yn destun graddau uwch ym mhrifysgolion Cymru. Ymhlith y rhai nodedig oedd gwaith Angharad Morris-Jones yn 1926 ar Gymraeg Sir Fôn a gwaith J. J. Glanmor Davies yn 1934 ar Gymraeg Cei Newydd (M. J. Ball, 1988, t.21). Roedd astudiaeth J. J. Glanmor Davies yn garreg filltir bwysig yn hanes tafodieitheg yr iaith Gymraeg gan iddo ddefnyddio'r datblygiadau diweddaraf mewn ieithyddiaeth a chymhwyso'r dulliau gwyddonol a ddefnyddiwyd eisoes mewn gwledydd eraill (B. Thomas, 2000, t.422).

Erbyn yr 1950au, gwelwyd cyhoeddi gwaith ysgol newydd o dafodieithegwyr, yn cynnwys T. Arwyn Watkins, Vincent H. Phillips, Ceinwen H. Thomas ac Alan R. Thomas, ymchwilwyr a oedd yn ymwybodol o stad fregus yr iaith Gymraeg, yn enwedig yn ardaloedd y de-ddwyrain lle yr oedd y mwyafrif ohonynt yn gweithio (B. Thomas, 2000, t.424). Yn sgil dyfeisio peiriannau recordio magnetig, aeth sefydliadau megis Prifysgol Cymru Caerdydd ac Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan ati i gasglu tafodieithoedd llafar drwy waith maes mewn gwahanol ardaloedd (B. Thomas, 2000, t.424). O safbwynt astudiaeth o Gymru gyfan, yn 1973 cyhoeddwyd cyfrol Alan R. Thomas, *The Linguistic Geography of Wales*, yn dadansoddi 135,000 o ymatebion i holiadur â 750 o gwestiynau. Yr amcan deublyg oedd: 'to assemble detailed information on the distribution of well over a thousand

Welsh dialect forms' a 'to illustrate the major speech-areas which emerge' (A. R. Thomas, 1973, t.ix).

O safbwynt ieithyddiaeth gymdeithasegol, mabwysiadodd Robert Owen Jones ddulliau cymdeithasegol yn ei astudiaeth o'r iaith Gymraeg ym Mhatagonia, sef *Astudiaeth o Gydberthynas Nodweddion Cymdeithasol ag Amrywiadau'r Gymraeg yn y Gaiman, Dyffryn y Camwy* (1984). O'r 1980au gwelwyd cynnydd yn y math hwn o astudiaeth yng Nghymru, er enghraifft ym Mhrifysgolion Cymru Abertawe a Chaerdydd (B. Thomas, 2000, t.434). Gwnaed arolwg o brif nodweddion ffonoleg gylchrannol yn nhafodieithoedd y Gymraeg yn y 1990au, a'i gyhoeddi yn 2000 fel *The Welsh Dialect Survey*. Yn fwy diweddar, dyfarnwyd Doethuriaeth i Iwan Wyn Rees am *Astudiaeth o Amrywiadau Ffonolegol mewn dwy ardal yng nghanolbarth Cymru* (2013), sef cyffiniau Harlech a Bro Dysynni.

### **Saesneg Safonol**

Er mwyn ehangu ein dealltwriaeth, mae'n werth cyfeirio at Saesneg Safonol, a ystyrir yn un o'r mathau pwysicaf o Saesneg. Dengys N. Coupland (1988, t.8) fod Saesneg Safonol yn cwrdd â'r holl feini prawf i'w hystyried yn dafodiaith, yn sgil ei hamrywiaeth ieithyddol, a bod tafodiaith, felly, yn eiddo cyfunol, gan fod pob siaradwr yn siaradwr tafodiaith. Synna rhai pobl o weld Saesneg Safonol yn cael ei disgrifio fel tafodiaith gan fod nifer yn ei hystyried fel y norm (G. L. Brook, 1973, t.28), ond gan ei bod yn ramadegol wahanol i dafodieithoedd eraill a bod tafodieithoedd yn cael eu diffinio yn nhermau gwahaniaeth gramadegol, mae'n hollol gywir i wneud hynny (P. Trudgill, 1975, t.18). Hynny yw, fel y nodwyd eisoes, mae unrhyw amrywiadau ar iaith yn cael eu hystyried yn 'dafodieithoedd' gan dafodieithegwyr cyfoes (I. W. Rees, 2016).

Mae 'Saesneg Safonol' yn aml yn cael ei dynodi gan dermau megis 'Queen's English' neu 'BBC English' (J. Jones, 2004, t.135). Serch y farn mai Saesneg Safonol yw'r 'Saesneg cywir' a bod pob tafodiaith arall

yn 'anghywir', mae pob tafodiaith yr un mor gywir yn ramadegol, a'r unig wahaniaethau rhyngddynt yw eu harwyddocâd a'u defnydd cymdeithasol (P. Trudgill, 1990, tt.12-13). Siaradwyr Saesneg Safonol yw'r bobl hynny a ystyrir yn gyffredinol yn rhai 'addysgedig' (P. Trudgill, 1983, t.186). Dyma'r dafodiaith a ddefnyddir, fel arfer, wrth ysgrifennu yn Saesneg ar draws y byd. Cred P. Trudgill (1983, t.186) ei bod yn bosib ystyried y ffurf hon ar Saesneg fel tafodiaith sengl, er bod iddi ryw faint o amrywiaethau rhanbarthol; gwyddys fod nifer o wahaniaethau gramadegol a geiriadurol rhwng Saesneg Safonol Americanaidd a Phrydeinig. Saesneg Safonol a ddefnyddir ym myd addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus, y gyfraith ac ar y cyfryngau.

Nid pawb sy'n fodlon ag ymdrechion athrawon i addysgu Saesneg Safonol, a thrwy hynny wanhau tafodiaith eu disgyblion. Ceir enghraifft o hyn mewn ffræ a gododd yn Colley Lane Primary School, Halesowen yn 2013 pan benderfynodd yr athrawon rwystro'r disgyblion rhag siarad nac ysgrifennu yn eu tafodiaith (A. Parker, 2013, t.27). Profiad tebyg a ddisgrifir gan L. V. Lier (1995, t.96) a rwystrowyd rhag siarad ei dafodiaith yn yr ystafell ddosbarth yn yr Iseldiroedd. Ceir sefyllfa debyg yng Nghymru. Cred I. ap Glyn (2011), er enghraifft, fod perygl bod addysg yn lladd tafodieithoedd am nad yw athrawon yn aml yn dod o'r ardaloedd y maent yn addysgu ynddynt a hefyd am eu bod yn addysgu iaith safonol. Am bentref Rhosllannerchrugog yng ngogledd-ddwyrain Cymru, dywed:

Yma, fel mewn llawer i ardal arall yng Nghymru, cilio mae'r dafodiaith leol..... Yr iaith safonol yw prif gyfrwng yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol nid y dafodiaith leol – a does dim dal fod yr athrawon yn medru honno beth bynnag (I. ap Glyn, 2011).

Yn nhermau sosioieithyddiaeth neu ieithyddiaeth gymdeithasegol, ceir perthynas rhwng dosbarth cymdeithasol a thafodiaith, sy'n debyg i'r berthynas rhwng dosbarth a ffonoleg, ac ymhlith y ffactorau sy'n

dylanwadu ar ddefnydd iaith mae oed, addysg a galwedigaeth. Awgrymodd A. Hughes a P. Trudgill (1996, t.12): 'the higher a person's position on the social scale, the less their speech is regionally marked.' Dengys P. Trudgill (1975, t.13) fod modd canfod ymhob cymdogaeth pobl o wahanol gefndiroedd cymdeithasol yn siarad gwahanol fathau o Saesneg – nid yw meddygon yn swnio'r un fath â docwyr nac adeiladwyr yn swnio'r un fath â dynion busnes. Gellir dweud yr un peth yng nghydestun y Gymraeg, gan fod gwahaniaeth rhwng iaith gweinidog ac iaith labrwr a fagwyd yn yr un ardal (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989, t.9).

Awgrymodd G. L. Brook (1978, t.25) fod nifer o siaradwyr Saesneg Safonol yn teimlo atgasedd at dafodieithoedd rhanbarthol a'r bobl sy'n eu siarad, a bod ymateb siaradwyr tafodiaith i'r agwedd hon yn amrywio yn ôl eu cymeriad. Tra bod rhai yn ceisio dileu unrhyw ôl tafodieithol o'u lleferydd, mae eraill yn ymateb yn erbyn hyn ac yn fwriadol yn glynu wrth eu tafodiaith eu hunain. Er hynny, cred y dylai'r rhai nad ydynt yn barod i fabwysiadu Saesneg Safonol wrth siarad ymhob achlysur fod yn barod i ddefnyddio dau fersiwn o Saesneg:

they should continue to understand and to use their native dialect, but in the world of today it is well for a dialect speaker to be able to speak and understand Standard English, or something near it, when the occasion requires it (G. L. Brook, 1978, t.26).

### **Deall Tafodieithoedd Ilafar**

Cwestiwn a ystyrir yn aml yw a yw siaradwyr dwy dafodiaith wahanol yn deall ei gilydd? Ar y naill law, wfftio'r syniad nad ydynt yn deall ei gilydd a wna G. L. Brook (1978, t.20) o ystyried deallusrwydd, amynedd a chydweithrediad y siaradwr a'r gwrandaŵr. Pwysleisia fod y gwahaniaethau rhwng yr iaith Saesneg a ddefnyddir yn yr Unol Daleithiau a'r iaith Saesneg a ddefnyddir ym Mhrydain Fawr dipyn yn llai na'r tebygrwydd sydd rhyngddynt ac, felly, mai prin iawn yw'r achlysuron pan fo siaradwr un math o Saesneg yn methu'n llwyr â deall siaradwr

math arall. Ar y llaw arall, awgrymodd y gall tafodieithoedd amharu ar ddealltwriaeth y gwrandäwr, neu hyd yn oed dynnu ei sylw oddi ar yr hyn a ddywedir: 'even if they do not seriously interfere with intelligibility, they can very easily have the effect of distracting a hearer's attention from what the speaker is saying to his manner of saying it' (G. L. Brook, 1978, t.24). Yn yr un modd, awgrymodd R. H. Robins a D. Crystal (2017) fod tafodieithoedd yn systemau cyfathrebu 'that may impede but do not prevent mutual comprehension.' Er yn amharu ar ddealltwriaeth o bosib, nid yw o angenrheidrwydd yn ei rhwystro.

Pryder D. Freeborn, P. French a D. Langford (1986, t.41) yw y gall geiriau tafodieithol fethu â chyfleu eu hystyr os ydynt yn anghyfarwydd i'r gwrandäwr. Ond, pwysleisiant fod nifer y geiriau a ddefnyddir yn rheolaidd mewn tafodieithoedd nad ydynt yn rhan o eirfa Saesneg Safonol dipyn yn llai erbyn hyn nag oeddent genhedlaeth neu ddwy yn ôl. Gellid dweud bod yr un peth yn wir yn y Gymraeg, gyda'r newid mewn tafodieithoedd a diflaniad hen eiriau.

Wrth ddiffinio'r term *dialects*, dywed M. F. Wakelin (1977, t.1) eu bod yn 'variant, but mutually intelligible, forms of one language' ac felly dengys ei farn fod modd deall y tafodieithoedd gwahanol o fewn yr un iaith. Yr un term 'mutually intelligible' a ddefnyddir gan D. Crystal a P. Ivić (2017) wrth gyfeirio at dafodieithoedd o'r un iaith, er y cydnabyddant nad yw hyn yn absoliwt pan ddywedant: 'intelligibility between dialects is, however, almost never absolutely complete.' Afraid dweud na fydd pob gair tafodieithol yn ddealladwy i bawb.

Wrth ateb ei gwestiwn ei hun, sef pa anawsterau a achosir gan wahaniaethau rhanbarthol yng Nghymru, dywed M. Jones (1973, t.122): 'extreme regional difference where one dialect speaker cannot understand another dialect speaker is the exception rather than the rule.' Â ymlaen i awgrymu nad yw amrywiaeth tafodieithol Cymraeg yn achosi problem i siaradwr am fod ganddo 'receptive control over other

dialects (that is, he understands other dialects).’ Gellid dadlau mai prin yw cynefindra unrhyw siaradwr Cymraeg â *holl* dafodieithoedd Cymru, ac felly nad yw'r mater o 'receptive control' yn absoliwt.

Yng nghyd-destun dealltwriaeth dafodieithol, awgrymodd D. Crystal (2014): 'they won't always understand you, if you insist on using your local patterns of speech.' Mae ei sylw ynglŷn â *mynnu* ('insist on') defnyddio iaith leol yn llym iawn gan mai siarad yn naturiol a wna pobl wrth ddefnyddio'u tafodiaith, er bod rhai, o bosib, yn gwneud pwynt, boed yn gymdeithasol neu'n genedlaethol, wrth wneud hynny.

Cred G. Griffiths a J. Phillips (1976, t.1) fod i dafodieithoedd eu manteision, yn ogystal â'u hanfanteision. Ar eu gwaethaf, fe allant olygu nad yw dau berson yn deall ei gilydd, er eu bod ill dau yn siarad Cymraeg. Serch hynny, maent yn cydnabod bod y sefyllfa wedi gwella yn sgil y cyfryngau a chyfleoedd i deithio, a bod deheuwy'r a gogleddwyr nid yn unig yn medru deall ei gilydd 'ond hefyd yn gallu gwerthfawrogi ceinder eu llefaru a nodweddion arbennig eu tafodiaith' (G. Griffiths a J. Phillips, 1976, t.1). Erbyn hyn, gellid awgrymu bod mater dealltwriaeth tafodieithoedd wedi gwella fwy fyth, er, fel yr awgrymwyd eisoes, prin fydd dealltwriaeth absoliwt o *holl* dafodieithoedd Cymru.

Rhaid pwysleisio, er hynny, bod deall tafodieithoedd llafar a phobl yn siarad y tafodieithoedd hynny yn wahanol i ddeall tafodieithoedd ysgrifenedig ar ffurf llenyddiaeth. Caiff hyn ei ystyried yng nghorff y traethawd hwn wrth drafod enghreifftiau o lenyddiaeth dafodieithol.

### **Gwerth ac Agweddau at Dafodiaith**

Dywed J. Edwards (2013, t.7) fod digon o dystiolaeth bod *pob* tafodiaith yn systemau dilys o gyfathrebu ac nad yw'r naill yn well na'r llall. Barn gyffelyb a gyfleir gan C. Baker a S. P. Jones (1998, t.136): 'no one variety of language is linguistically superior to others', a bod person sy'n

siarad yn ei dafodiaith yn medru mynegi ystyr mor effeithiol â pherson sy'n siarad iaith fwy safonol. Safbwynt gwahanol a gyflwynwyd gan R. Penhallurick a A. Willmott (2000, t.9), serch hynny, a awgrymodd y gall un dafodiaith feddu ar statws cymdeithasol uwch ac, felly, fod nifer o dafodieithoedd a'u siaradwyr lleol yn cael eu hystyried yn israddol.

Y ddadl orau o blaid 'tolerating' / goddef amrywiadau ar Saesneg Safonol ym marn G. L. Brook (1978, t.26) yw bod lleferydd yn agwedd ar bersonoliaeth. Cred fod amrywiaeth yn nhermau personoliaethau yn beth da, a bod amrywiaeth o'r fath yn cael ei mynegi mewn amrywiaeth o leferydd. Yr un term a ddefnyddir gan P. Trudgill (1994, t.2), pan ddywed: 'it is the mark of a civilised society that it tolerates different dialects just as it tolerates different races, religions and sexes.'

Gwelwyd gwerth tafodieithoedd gan y tafodieithegwyr hynny a aeth ati i'w cofnodi. Dywed M. J. Ball (1988, t.9) fod nifer ohonynt: 'have seen their task as one of recording the old rural dialects before they die out.' Gwnaed ymgais mewn rhai ardaloedd i ddiogelu tafodieithoedd drwy ffurfio cymdeithasau, megis y *Yorkshire Dialect Society*, y *Lakeland Dialect Society* a'r *Lancashire Dialect Society*. Prif amcan *The Yorkshire Dialect Society* (2010) yw: 'to encourage the study and recording of dialect. Our equal interest is in speech and literature and members like to hear dialect spoken and to see it written in our publications.' Sylwer ar y gred bod tafodiaith yn rhywbeth i'w darllen yn ysgrifenedig yn ogystal â'i chlywed ar lafar.

O ran y Gymraeg, awgrymodd B. Thomas (2000, t.421) mai agwedd amwys at ei thafodieithoedd fu gan y Cymry erioed, gan nodi ar y naill law na hyrwyddir tafodieithoedd er mwyn safoni iaith ond, ar y llaw arall, y cânt eu hystyried yn arwydd o'n hunaniaeth. Credid mai'r dafodiaith a siaredid yng nglofeydd Sir Forgannwg oedd y mwyaf llygredig, gan ei bod yn gymysgedd o dafodieithoedd mewnfudwyr o siroedd Penfro, Brycheiniog ac Aberteifi (G. H. Jenkins, 1999, tt.13-14). Dengys

B. Thomas a P. W. Thomas (1989, t.6) mai amharod yw rhai pobl i siarad eu tafodiaith y tu allan i gylchoedd cyfarwydd iddynt, yn sgil diffyg hyder o bosib, a chyfeiriant at bobl â chanddynt 'Gymraeg digon praff' yn cyfeirio at eu tafodieithoedd yn ddifriol fel *Cymraeg shiprys*, *Cymraeg carreg calch*, *Cymraeg talcen slip* a *Chymraeg pot jam*. Agwedd trigolion Cwm Tawe ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif oedd mai'r iaith lenyddol yn unig a haeddai safle fel Cymraeg da, sef iaith y pregethwr, y Beibl, emynau a chofiannau. Credent mai term am iaith aflêr pobl annysgedig a phatrymau gwael oedd 'tafodiaith' (R. O. Jones, 1993, t.210), agwedd sy'n nodweddiadol o'r cyfnod.

Fel rhan o brosiect ymchwil ym Mhont-rhyd-y-fen, roedd 57% o'r sampl o'r farn bod iaith y gogledd yn well na'u Cymraeg hwy er nad oedd y mwyafrif ohonynt yn hoffi'r Gymraeg honno (B. Thomas, 1993, t.59). Yn ogystal, canfuwyd bod Cymry'r ardal honno o'r farn bod iaith y de-orllewin yn rhagori ar eu hiaith hwy. Dyfynnir sylw un o'r rhai a holwyd:

Ma well Cymrâg yn Garfyrddin, y wlad, a Aberteifi. Dyna'r ran gore, wy wastod yn meddwl, am y Gyvrâg..... Wy'n hoffi'r acen sy gida nw'n Aberteifi a Caerfyrddin. Yn y gorllewin..... Ma fe'n felys ar y tafod ac yn soniarus ar y glust (B. Thomas, 1993, t.58).

Dywed E. Jones (2016), am ardal Y Fenni: 'peth ofnadwy yw bod â chywilydd o'ch iaith eich hun ac ofni agor eich ceg rhag i eraill eich dirmygu a'ch gwawdio', ond mai dyna oedd union brofiad miloedd o drigolion de-ddwyrain Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Iaith yr aelwyd, y gwaith a'r dafarn oedd tafodiaith y Wenhwyseg, ond byddai'r trigolion yn ffurfioli eu geirfa wrth fynd i'r capel neu i'r gymdeithas lenyddol. Trodd nifer o aelwydydd i'r Saesneg er mwyn gwella cyfleoedd y plant i gael swyddi cyfrifol a statws ac, o ganlyniad, lleihau wnaeth y defnydd o'r Gymraeg yng nghymoedd de Cymru.



Wrth gyfeirio at 'math o iaith Gymraeg "safonol"' sydd wedi tyfu a datblygu dros y blynyddoedd diwethaf gan honni bod hynny'n beth da o safbwynt dysgwyr yr iaith, mynega G. Griffiths a J. Phillips (1976, t.1) eu pryder parthed yr effaith ar y Gymraeg o golli ei thafodieithoedd, gan mai 'yn y rhain y mae cryfder, rhuddin a chymeriad iaith, yr idiomau a'r pertrwydd ymadrodd nad yw'n rhan o rywbeth fel "Cymraeg Byw", er mor anochel yw hwnnw' (G. Griffiths a J. Phillips, 1976, t.1). Barn gyffelyb sydd gan B. Thomas a P. W. Thomas (1989, t.7) a bwysleisia fod lle canolog i dafodieithoedd ym mywydau pobl Cymru, er gwaethaf rhai rhagfarnau yn eu herbyn, a bod perthynas hanfodol rhyngddynt a 'milltirsgwardod', pwynt a amlygir ymhellach yn y penodau i ddilyn.

## **Llenyddiaeth Dafodieithol**

### **Cyflwyniad a Diffiniad**

Defnyddir tafodiaith mewn dwy ffordd wahanol mewn llenyddiaeth. Ar y naill law, ceir *llynyddiaeth mewn tafodiaith* ac ar y llaw arall, ceir *tafodiaith mewn llenyddiaeth*, a gall amcan a phwrpas y ddwy fod yn wahanol iawn i'w gilydd (C. M. Jones, 2006a, t.82).

Diffinnir *llynyddiaeth mewn tafodiaith* fel darnau o waith, boed yn nofel, stori fer neu gerdd, a ysgrifennwyd yn gyfan gwbl mewn tafodiaith. Anelwyd gweithiau o'r fath yn bennaf at gynulleidfa benodol, cynulleidfa leol, sy'n gyfarwydd â'r dafodiaith yr ysgrifennwyd ynddi ac, o bosib, yn ei siarad hi (C. M. Jones, 2006a, t.82). Cyfeiria B. Fennell (2008, t.60) atynt fel 'works composed in dialect and aimed at a readership speaking the vernacular, often with the more overtly social or socio-political function of promoting a dialect.' Enghreifftiau o hyn yn y Gymraeg yw'r gyfrol *Sioned* gan Winnie Parry a'r gerdd 'Y Llen', gan Dyfnallt Morgan.

Ni olyga hyn o angenrheidrwydd na all cynulleidfaoedd mewn ardaloedd eraill fwynhau a gwerthfawrogi gweithiau a ysgrifennwyd mewn

tafodiaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi. Gellid dadlau, er enghraifft, bod apêl genedlaethol i'r nofel *Un Nos Ola Leuad* gan Caradog Prichard a ysgrifennwyd yn nhafodiaith Bethesda, a'r gerdd 'Pwllderi' gan Dewi Emrys yn nhafodiaith Sir Benfro. Ni chyfyngir ar boblogrwydd ac arwyddocâd cyffredinol y gweithiau hyn oherwydd iddynt gael eu hysgrifennu mewn tafodiaith felly (C. M. Jones, 2006a, tt.82-83). Serch hynny, gellir dadlau, ar y cyfan, y gall apêl llenyddiaeth dafodieithol fod yn fwy lleol na chenedlaethol, a bod gwerth iddi i'r gynulleidfa leol honno, megis y boddhad o weld ei hiaith lafar ar ffurf ysgrifenedig.

Diffinnir *tafodiaith mewn llenyddiaeth* ar y llaw arall fel y defnydd o dafodiaith o fewn darn o waith megis nofel, stori fer neu ysgrif. Yn y gweithiau hyn, mae iaith y naratif a'r disgrifio yn llenyddol tra bod iaith y ddeialog a'r sgwrsio yn dafodieithol. Gall tafodiaith mewn llenyddiaeth gynnwys nodweddion ffonolegol, gramadegol a geirfaol (S. Massengill, 2004), ac mae tafodiaith yn arf a ddefnyddir gan nifer o awduron i wneud eu cymeriadau yn grwn, real a chredadwy, ac i ddod â'r stori a'r cymeriadau'n fyw (C. Karantzi, 2010, t.460). Tra bod *llenyddiaeth mewn tafodiaith* wedi ei hanelu at gynulleidfa benodol, awgrymwyd yr anelwyd *tafodiaith mewn llenyddiaeth* at gynulleidfa gyffredinol (G. Shorrocks, 1996, t.386), er nad yw hynny'n wir bob tro.

Gwnaed mwy o ddefnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth nag o lenyddiaeth mewn tafodiaith yn hanes llenyddiaeth Gymraeg. Ymhlith yr awduron Cymreig a gynhwysodd dafodiaith yn eu gweithiau y mae Daniel Owen, Winnie Parry, Kate Roberts, D. J. Williams, Dafydd Rowlands, T. James Jones a Lleucu Roberts yn y Gymraeg a Mike Jenkins yn y Saesneg, fel y trafodir yn y penodau i ddilyn. Yn llenyddiaeth Lloegr gwelir defnydd o dafodiaith yng ngweithiau awduron megis Geoffrey Chaucer, Edmund Spenser a William Shakespeare ac ysgrifennodd un o feirdd enwocaf yr Alban, Robert Burns, dipyn mewn tafodiaith. Yr enghraifft enwocaf o'r defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth Americanaidd yw *Huckleberry Finn* gan Mark Twain.

## Ystyr a natur tafodiaith lenyddol

Cynigiodd Sumner Ives ddiffiniad o'r term 'tafodiaith lenyddol':

A literary dialect is an author's attempt to represent in writing a speech that is restricted regionally, socially, or both. His representation may consist merely in the use of an occasional spelling change, like FATHUH rather than *father*, or the use of a word like *servigrous*; or he may attempt to approach scientific accuracy by representing all the grammatical, lexical and phonetic peculiarities that he has observed (S. Ives, 1971, t.146).

Â S. Ives (1971, tt.146-147) ymlaen i awgrymu bod awduron sy'n ysgrifennu mewn tafodiaith yn ymwybodol eu bod yn 'depicting something peculiar' ac 'every variation from the conventional system of writing the language is a linguistic problem.' Mae tafodiaith yn unigryw, ydy, ond mae *problem* yn air cryf i'w ddefnyddio yma. Gellid rhesymu mai gwell, a chywirach, yw disgrifiad mwy cyfoes P. J. Leigh (2011, t.15) o dafodiaith lenyddol fel rhywbeth *gwahanol* i'r iaith safonol arferol. Dyma'r 'amrywiad' y cyfeiriwyd ato eisoes wrth ddisgrifio tafodiaith.

Wrth ateb ei chwestiwn ei hun sut y mae bardd i ddehongli'r gair *tafodiaith*, esbonia C. M. Jones (1996, t.223) nad cerdd lle yr yngenir geiriau cyffredin llenyddiaeth yn ôl dull ardal benodol yw cerdd mewn tafodiaith, ac nad yw llunio cerdd mewn tafodiaith mor hawdd ag yr ymddengys, neu y tybia rhai. Er bod tafodiaith ar y naill law yn caniatáu i fardd ddiosg rhwymau'r iaith gydnabyddedig, awgryma C. M. Jones (1996, t.223) ar y llaw arall ei bod yn ei orfodi i wisgo rhwymau eraill, megis cysondeb sillafu tafodieithol a phriod-ddulliau'r fro benodol. Yn y penodau i ddilyn, amlygir y gall sillafu tafodieithol amrywio, ac nad oes y fath beth â 'chysondeb' felly, gan nad oes geiriadur tafodieithol fel yr un a berthyn i'r iaith Gymraeg safonol.

Gellid cytuno â'r beirniaid a ddywed fod yn rhaid i awdur sy'n ysgrifennu mewn tafodiaith fod yn llenor yn ogystal ag yn dafodieithwr. Wrth

drafod y defnydd o dafodiaith mewn rhyddiaith, pwysleisiodd T. G. Jones (1922, t.241) na ellir ysgrifennu mewn tafodiaith heb ddysgu'r dafodiaith yn ogystal â dysgu ysgrifennu. Dywedodd fod rhai yng Nghymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn credu mai'r unig beth oedd ei angen ar gyfer ysgrifennu mewn tafodiaith oedd 'troi'r tap', ond pwysleisiodd na 'ddylid anghofio'r ddiod, na chyflwr y tap, ymhlith pethau eraill' (T. G. Jones, 1922, t.241). Yr un yw barn C. M. Jones (1996, t.222) wrth drafod cerddi tafodieithol pan ddywed mai'r peth pwysicaf i'w gofio yw bod rhaid meddu ar grefft y llenor i ysgrifennu mewn tafodiaith, a phwysleisia berygl canolbwyntio ar y dafodiaith a, thrwy hynny, esgeuluso'r ochr farddonol. Mae pwynt C. M. Jones (1996, t.223) bod angen i'r dafodiaith fod yn rhan o hanfod yr hyn mae'r llenor am ei ddweud a bod y cynnwys a'r dafodiaith yn annatod i'w gilydd yn un allweddol. Fel arall, gellid dadlau mai'r perygl yw ei fod yn troi'n ymarfer ieithyddol, o arddangos y dafodiaith, ac o bentyrru geiriau tafodieithol yn bwrpasol.

Cytuna nifer mai artist yw awdur tafodieithol yn flaenaf, ac nid ieithydd. Ymhlith y rhain y mae C. M. Jones (1997, t.270) a bwysleisia, wrth drafod gwerth llenyddol y ddau gyfrwng *llynyddiaeth mewn tafodiaith a thafodiaith mewn llynyddiaeth*, y dylid cadw mewn cof bod yr awdur, yn bennaf oll, yn artist yn hytrach nag yn ieithydd ac, o ganlyniad, bydd ei dafodiaith yn aml yn anghyflawn. Agwedd gyffelyb sydd gan B. Fennell (2008, t.62) pan ddywed nad gweithwyr ym maes tafodieitheg yw awduron gweithiau tafodieithol ac, felly: 'literary dialect is not a direct reflection of speech, but is the author's interpretation of it. The function of literary dialect is both mimetic and symbolic.' Gan mai artist ac nid ieithydd yw awdur tafodieithol, awgrymodd M. S. Sternglass (1975, t.202) na ddisgwylir bod gan y darlennydd gefndir soffistigedig mewn ieithyddiaeth er mwyn medru deall ac elwa o lenyddiaeth dafodieithol. Mae ei sylw ynglŷn ag *elwa* yn un arwyddocaol; gall hynny fod o ran boddhad, diddanwch neu ehangu dealltwriaeth a gwybodaeth ieithyddol.

Amlyga C. Karantzi (2010, t.460) fod yr artist llenyddol yn dewis ei nodweddion tafodieithol ei hun wrth gyflwyno cymeriad, ac felly: 'the frequency of occurrence of particular dialectal forms may be somewhat different in the literary dialect from the frequency of their occurrence in the speech which is being represented.' O ganlyniad felly, cred C. Karantzi (2010, t.460), fel eraill, bod unrhyw dafodiaith lenyddol o reidrwydd, yn ddarlun rhannol o'r lleferydd tafodieithol ei hun.

O ystyried *barddoniaeth* dafodieithol, dadleuir gan C. M. Jones (1996, t.224) mai'r perygl yw creu cerdd hirwyntog ac artiffisial heb naws a chynllun cerdd ac mai'r peth pwysicaf yw bod y bardd yn argyhoeddi'r darllynydd ei fod yn defnyddio'r iaith fwyaf addas ar gyfer ei fynegi ei hun. Barn debyg sydd gan N. Nurhusein (2013, t.2) sy'n mynnu bod yn rhaid i lenyddiaeth dafodieithol fod yn naturiol, ac sy'n pwysleisio y dylai'r math hwn o lenyddiaeth gyfleu ysbryd y lleferydd a gynrychiolir.

### **Perthynas tafodiaith â statws a chomedi mewn gweithiau llenyddol**

Ceir cysylltiad rhwng statws cymeriadau a'r defnydd o dafodiaith mewn gweithiau llenyddol. Hanfod y berthynas hon yw israddoldeb, gyda siaradwyr tafodiaith, fel yr awgrymwyd eisoes, yn cael eu hystyried yn israddol yn gymdeithasol. Yn ogystal â chysylltiad â statws, ceir cysylltiad rhwng comedi a thafodiaith, gyda'r ddau yn aml yn plethu i'w gilydd oherwydd y duedd i ystyried lleferydd tafodieithol y dosbarth gweithiol yn ddoniol. Yn ei ymdriniaeth o iaith ansafonol mewn llenyddiaeth Saesneg, dywedodd N. J. Blake (1981, t.13):

Hence non-standard language has been a marker of class and of comedy, for we are generally sufficiently self-satisfied to laugh at those who cannot match our own educational attainments and who reveal this through the way they speak (N. J. Blake, 1981, t.13).

Awgrymodd N. J. Blake (1981, t.13), pan fydd cymeriad yn siarad mewn modd ansafonol, hynny yw yn dafodieithol, y bydd y gwahaniaeth

rhyngddo â'r cymeriadau sy'n siarad iaith safonol yn amlwg a bod cymeriadau sy'n siarad iaith safonol yn ystyried y modd y siarada eraill yn gomig; mae iaith ansafonol felly, yn arwydd o ddsbarth a statws.

Defnyddid tafodiaith gan nofelwyr Saesneg cyn belled yn ôl ag Oes Fictoria i sicrhau ysgafnder comig wrth bortreadu cymeriadau o statws is, tra bod y prif gymeriadau yn trin materion pwysig yn yr iaith safonol (C. M. Jones, 1997, t.275). Yn ei astudiaeth o leferydd yn y nofel Saesneg, awgrymodd N. Page (1988, t.57) y gall tafodiaith fod yn arwydd o statws israddol a bod ei defnydd mewn llenyddiaeth wedi ei gyfyngu i gomedï 'or at least to a somewhat patronizing or complacent folksy humour.' Dengys P. Salveson (1993, t.252) wrth ystyried llenyddiaeth dafodieithol Sir Gaerhirfryn fod awduron megis Allen Clarke yn defnyddio tafodiaith mewn modd digrif yn eu nofelau er mwyn cyfleu'n bositif hiwmor pobl dosbarth gweithiol y sir. Defnyddiodd D. H. Lawrence amrywiaeth ieithyddol i amlygu gwahaniaethau mewn dosbarth cymdeithasol yn *Lady Chatterley's Lover* a gyhoeddwyd yn 1928, lle mae cefndir dosbarth gweithiol a thafodiaith y cipar Mellor mewn gwrthgyferbyniad ag iaith safonol Lady Chatterley, sy'n dangos ei statws uwch hithau. Yn yr un modd, wrth drafod gweithiau Charles Dickens a George Eliot, dywed S. Ilhem (2012, t.89) mai eu hamcan oedd: 'relate literary dialect with socio-cultural position of characters.'

O ran llenyddiaeth Gymraeg, defnyddiodd awduron megis Daniel Owen yr iaith lafar i greu comedi ac i awgrymu cefndir addysgol a statws cymdeithasol, fel y dangosir yn y drydedd bennod. Llwyddodd awduron megis Islwyn Williams i ddefnyddio tafodiaith yn gywrain i greu digrifwch, ac yng ngwaith Gruffydd Parry a Jacob Davies gwelir bod tafodiaith yn rhan annatod o'u hiwmor (C. M. Jones, 1997, t.275).

Cyfeiriwyd at yr un berthynas rhwng tafodiaith a statws cymeriadau a rhwng comedi a thafodiaith mewn llenyddiaeth Ewropeaidd. Awgrymodd C. Karantzi (2010, t.460), er enghraifft, wrth drafod

llynyddiaeth Roegaid, mai prif bwrpas tafodiaith oedd diffinio safle cymdeithasol neu wahaniaeth cymdeithasol y cymeriadau ffuglennol ac nid creu cofnod o leferydd rhanbarthol. Dywed C. Karantzi (2010, t.460): ‘contrasts between dialect speakers and non-dialect speakers delineated broad cultural differences: rural (or frontier) versus urban, uneducated versus educated.’ Wrth drafod comedi Aristophanes a’r ymgais barhaus i gynrychioli tafodiaith rhai o’r cymeriadau, awgrymodd S. Colvin (1999, t.302) y defnyddiwyd y dynwarediad tafodieithol at bwrpas comig.

Llwyddodd M. S. Sternglass (1975, t.202) i ddangos sut y mae dyfeisiadau llenyddol megis geirfa, ynganiad, nodweddion cystrawennol a’r defnydd o dafodiaith llygad yn galluogi awduron i greu hunaniaeth ranbarthol a statws cymdeithasol ar gyfer eu cymeriadau. Nid yw’r cysylltiad hwn rhwng tafodiaith a statws yn beth negyddol o angenrheidrwydd gan y cred M. S. Sternglass (1975, t.202) fod cymeriadau o’r fath yn ennyn cydymdeimlad y darllenydd ac na chânt eu beirniadu am eu cefndir a’u statws. Ar y llaw arall, prydera C. M. Jones (2006a, t.91) y gall y duedd i gysylltu tafodiaith a hiwmor gael effaith niweidiol, a chyfeiria at duedd nifer o feirniaid llenyddol i ddilorni llenyddiaeth mewn tafodiaith o ardaloedd megis Swydd Efrog a Sir Gaerhirfryn. Dywed mai dadl nifer yw bod ‘yr elfen gref o hiwmor a geir yn fynych mewn llenyddiaeth dafodieithol yn ei gwanhau ac yn tynnu sylw oddi ar ei gwerth llenyddol’ (C. M. Jones, 2006a, t.91). Gellid awgrymu bod hyn yn gor-gyffredinoli ac nad yw hiwmor yn gwanhau llenyddiaeth dafodieithol os yw’n rhan hanfodol o’r stori ac o’r dweud.

Nid pob awdur serch hynny a ddefnyddiodd dafodiaith lenyddol er mwyn creu elfen o gomedï. Dengys S. Ilhem (2012, t.81) yn ei ystyriaeth o’r gyfrol *Hard Times* gan Charles Dickens, i’r awdur roi tafodiaith yng ngenau’r cymeriad Stephen Blackpool nid er mwyn effaith comig ond, yn hytrach, am ei fod yn ymwybodol o ‘a rich Lancashire dialect literature evolving to represent a literature of the North of England with the aim to

duplicate cultural identity, and group identity.’ Mae’r berthynas rhwng llenyddiaeth dafodieithol a hunaniaeth yn bwynt yr ymhelaethir arno yn y penodau i ddilyn wrth drafod llenorion Sir Benfro.

Er nad oes amheuaeth *bod* perthynas rhwng tafodiaith a statws a rhwng tafodiaith a chomedi mewn gweithiau llenyddol, rhaid gochel rhag gorbwysleisio’r berthynas honno. Er y cynhwysir nifer o enghreifftiau yn y traethawd hwn o lenyddiaeth dafodieithol ysgafn a digri, amlygir hefyd bod modd defnyddio’r dafodiaith wrth ymdrin â phynciau dwys a difrifol.

### **Y farn am y defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth**

Awgrymwyd eisoes ar ddechrau’r bennod bod yr iaith safonol ‘anhyblyg’ wedi arwain nifer o awduron at geisio iaith fwy hyblyg, haws ei thrin, ac iddynt ganfod hynny mewn tafodiaith. Dyna wnaeth Islwyn Williams, awdur a ysgrifennodd yn nhafodiaith Cwm Tawe, sydd o’r farn bod tafodiaith yn gyfrwng addas i ymdrin â phrofiadau’r dyn cyffredin, a’i fod, yn nhermau naturioldeb ac ystwythder, yn rhagori ar unrhyw ddull arall (I. Williams, 1949, t.63). Awgryma hefyd fod defnyddio tafodiaith yn cadw awdur rhag mabwysiadu dyfeisiadau gor-gelfydd er mwyn cyflwyno ei stori a’r hyn sydd ganddo i’w fynegi. Awgrymwyd yn gynharach mai’r perygl yw canolbwyntio’n ormodol ar y dafodiaith, a thrwy hynny ei harddangos fel rhyw ymarfer ieithyddol, ond cred Islwyn Williams y gellid bod yn or-gelfydd wrth ddefnyddio iaith safonol.

Cred C. M. Jones, (1997, tt.273-274) fod gan dafodiaith, mewn dwylo medrus, y potensial i gyfoethogi arddull darn o waith yn ogystal â dyfnhau profiad y darlennydd. Dywed fod naturioldeb yn nodwedd bwysig ar leferydd ac ymddygiad cymeriadau mewn nofelau, ac y defnyddir tafodiaith yn aml er mwyn cyfleu cynhesrwydd a didwylledd. Rhydd yr enghreifftiau *Nedw* gan E. Tegla Davies, *Y Llyffant* gan Ray Evans a *Gwilym a Benni Bach* gan W. Llywelyn Williams, lle y ceir ymdeimlad o agosatrwydd yn rhinwedd y ffordd y mae’r awduron yn trin



yr iaith lafar. Sut felly y mae tafodiaith yn dyfnhau'r profiad ac yn cyfleu cynhesrwydd? O bosib am ei bod yn gwahodd y darllenwydd i rannu iaith real, bob dydd y cymeriadau.

Gellid maentumio bod medrusrwydd iaith yn fater hollbwysig. Fel y dywed M. Morgan (1999, t.129), mae'r arfer o ysgrifennu mewn tafodiaith yn iawn 'pan fo'r awdur â gafael naturiol ar ei dafodiaith', ond rhybuddia o'r angen i fod yn ofalus, gan nad oes 'dim byd gwaeth mewn llyfr na thafodiaith artiffisial.' Teimla fod y defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth yn aml yn arwydd o ansicrwydd yn hytrach nag o sicrwydd iaith ar ran yr awdur. Pwynt a ddadleuir yn y traethawd hwn yw bod angen caffael ar y dafodiaith wrth ysgrifennu ynddi yn effeithiol.

Beirniad arall a gred fod gwerth i lenyddiaeth dafodieithol yw S. Ilhem (2012, t.89); mynega hyn yn ei ymdriniaeth o weithiau Charles Dickens a George Eliot pan ddywed eu bod yn ymwybodol: 'that dialect does not devalue the novel just as it does not lessen from the importance of the standard.' Yr un yw agwedd D. Crystal (1995, t.298), a gred nad yw'n anodd mwynhau llenyddiaeth dafodieithol; dywed am wahaniaethau rhanbarthol: 'we have no difficulty in responding to them intuitively, laughing at dialect jokes, enjoying dialect literature and folklore.'

Fel yr awgrymwyd eisoes, nid yw llenyddiaeth dafodieithol yn gyfrwng hawdd, gan mai'r perygl yw canolbwyntio ar y dafodiaith ar draul yr ochr lenyddol. Cyfeiria G. Ashton (1976, tt.111-112) at y disgrifiadau o fywyd ac arferion Cymreig mewn tafodiaith gyhyrog yn llyfrynnau Brynfab a Glynfab a gyhoeddwyd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Serch hynny, awgryma eu bod ymhell o fod yn nofelau, a'u bod yn rhoi'r argraff 'mai campio i arddangos eu tafodiaith y maent' ac mai 'cyfraniadau San Ffaganaidd' yw llawer ohonynt (G. Ashton, 1976, tt.111-112). Yn y drydedd bennod dangosir sut y cyhuddwyd nifer o awduron eraill, megis Kate Roberts, o ddefnyddio'r iaith lafar at eu pwrpas eu hunain a dyrchafu tafodiaith.

Wrth dafoli gwaith a chyfraniad Frederic W. Moorman, a ysgrifennodd yn helaeth yn nhafodiaith Swydd Efrog, awgryma W. Marshall (2011, t.210) mai'r pryder a wynebai oedd, gan fod cymaint o amrywiaeth yn nhafodiaith y sir, na fyddai'n medru cyfleu yr hyn a elwir yn *Standard Yorkshire* yn ei gerddi, er enghraifft o ran sillafu geiriau tafodieithol. Crybwyllwyd eisoes nad yw'r dafodiaith a gyfleir gan awduron o angenrheidrwydd yn gyflawn, ac nad dyna'u hamcan. Gobaith awdur tafodieithol megis Frederic W. Moorman, felly, yw bod yr hyn a ysgrifenna yn gynrychioliad gweddol fanwl o'i leferydd (W. Marshall, 2011, t.210).

Yn ogystal â'u hamrywiaeth eang, mae tafodieithoedd yn newid yn gyson, a all beri anhawster i'r awdur a'r darllenydd. Dyna yw byrdwn neges C. M. Jones (1997, t.276) sydd, er o blaid tafodiaith lenyddol, yn pwysleisio nad yw'r arf heb ei beryglon ac na ellir beio awdur am ei ddefnydd anghyson o dafodiaith am fod tafodiaith yn newid yn barhaus. Pwysleisia ei fod yn hanfodol fod awdur yn gyson yn y manau cywir ac hefyd yn anghyson yn y manau cywir, a 'rhaid bod y darllenydd yn teimlo bod y dewis priodol wedi'i wneud yn ôl y sefyllfa a'r cymeriadau a grëwyd' (C. M. Jones, 1997, t.276). Yr un yw barn D. G. Jones (1976, t.230) wrth dafoli agweddau at y defnydd o iaith lafar ac iaith lenyddol yn y ddrama ryddiaith, pan ddywed y dylid defnyddio iaith o dan yr amodau hynny lle y mae'n addas.

Yng nghyd-destun llenyddiaeth Saesneg, dywed J. Hodson (2014, t.107) mai problem allweddol i unrhyw awdur sy'n dymuno cyflwyno tafodiaith cymeriad yw: 'readers tend to dislike such representations.' Y term a ddefnyddir gan M. Toolan (1992, t.34) am hyn yw 'reader resistance.' Cred J. Hodson (2014, t.107) y bydd nifer o ddarllenydd yn ymateb yn negyddol i dafodiaith, gan ei hystyried yn iaith wael; y bydd angen ymdrech ychwanegol, y bydd cyflymder y darllen yn lleihau ac, mewn rhai achosion, y collir gwybodaeth bwysig os na ddehonglir y dafodiaith yn gywir neu os osgoir darllen y darnau tafodieithol.

Cred rhai mai iaith safonol yn unig yw iaith llenyddiaeth, a phryderant am effaith gweithiau tafodieithol ar yr iaith safonol honno. Cyfeiriwyd eisoes at farn John Morris-Jones bod iaith lenyddol yn bur tra bod tafodiaith yn llygredig. Yn yr un modd, disgrifia N. Nurhussein (2013, t.3) sut yr oedd rhai ieithegwyr yn yr Unol Daleithiau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif yn pryderu am beryglon amrywiaethau rhanbarthol o'r iaith Saesneg mewn gweithiau llenyddol, gan eu bod wedi eu hymrwymo i'r syniad o ddiogelu'r iaith rhag ei llygru. Un o feirniaid barddoniaeth dafodieithol oedd James Weldon Johnson a ddangosodd gryfder ei deimlad wrth ei disgrifio fel: 'mere mutilation of English spelling and pronunciation' (J. W. Johnson, dyfynnwyd gan N. Nurhussein, 2013, t.7). Roedd nifer o feirniaid eraill yn pryderu am effaith 'sillafu gwael' mewn barddoniaeth dafodieithol ar addysg lenyddol mewn ysgolion, ac ar leferydd plant wrth iddynt geisio deall mecanwaith yr iaith Saesneg (N. Nurhussein, 2013, tt.19,23).

Yn sgil yr ymwybyddiaeth gynyddol o'r bwllch rhwng Cymraeg safonol a'r iaith lafar dafodieithol, y mae'n anorfod y gwelwyd geiriau tafodieithol yn ymwithio i'r ffurf ysgrifenedig. Pryderir 'that this has led to a certain "destandardization" in that a variety of spoken forms are penetrating the written language' (G. Price, 1984, t.266).

Ffocws y traethawd hwn yw trafod a dadansoddi'n feirniadol lenyddiaeth dafodieithol, yn benodol o Sir Benfro, gan ystyried ei gwerth a'i phwrpas. Serch hynny, afraid dweud bod y farn mai iaith safonol yn unig yw iaith llenyddiaeth a bod angen ei diogelu rhag ei 'llygru' gan iaith dafodieithol yn hollbwysig, ac yn un a ystyrir yn y bennod olaf wrth geisio cynnig ateb i'r pum cwestiwn ymchwil.

### **Gwerth llenyddiaeth dafodieithol**

Er mai cymysg yw'r farn am y defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth, gellid dadlau bod i lenyddiaeth dafodieithol werth yn nhermau ieithyddol, cymdeithasol a hanesyddol.

Pwysleisia C. M. Jones (2006a, tt.96-97) fod llenyddiaeth dafodieithol yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol a chyfoethog i'r rhai hynny sy'n astudio tafodieithoedd. Dywed mai ffynonellau llenyddol yw prif, neu weithiau unig ffynhonnell iaith lafar ansafonol mewn ardaloedd lle mae'r dafodiaith yn prysur ddiflannu ac y dylid rhoi sylw teilwng iddynt. Cred y gall dadansoddiad ieithyddol o lenyddiaeth wneud cyfraniad pwysig i'n dealltwriaeth o'n cefndir, ein diwylliant a'n datblygiad ieithyddol. Ond, tra y gellid dadlau ar y naill law mai un o ragoriaethau llenyddiaeth dafodieithol yw ei bod yn ffynhonnell ieithyddol werthfawr, ar y llaw arall rhaid cofio, fel yr awgrymwyd eisoes, y gall fod yn gofnod ffug i raddau gan nad yw o anghenraid yn adlewyrchu'r iaith fyw, a hynny gan mai artist yw awdur yn bennaf. Gellid hefyd arddangos y dafodiaith yn fwriadol, fel y dangosir yn y penodau i ddilyn.

Amlygir y pwysigrwydd ieithyddol gan G. Williams (2003, t.49) yn ei feirniadaeth o gystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau. Wrth ganmol defnydd meistrolgar Meic Stephens o dafodiaith, dywed: 'yn gwbl o ddifri yr awgrymaf y dylid trosglwyddo ar fyrder recordiad a chopi caled o'r gerdd i Sain Ffagan gan mor werthfawr yw hi o safbwynt ieithyddol' (G. Williams, 2003, t.49). Yn yr un modd, yn ei drafodaeth o dafodiaith lenyddol, gan ganolbwyntio ar lenyddiaeth de America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dywed M. Ellis (1994, t.128) fod y gweithiau tafodieithol yn ffynhonnell tystiolaeth ieithyddol yn ymwneud â mathau cynnar o Saesneg. Gellid cymhwyso'r un egwyddor at astudiaeth o dafodiaith mewn unrhyw iaith gan y dangosir yn y penodau i ddilyn sut y mae llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro yn ffynhonnell geirfa ac ymadroddion.

Yn ei ddadansoddiad o lenyddiaeth yn nhafodiaith Swydd Gaerhirfryn yn y cyfnod 1746-1935, disgrifia P. Salveson (1993, t.237) sut yr oedd y dafodiaith yn y rhan honno o Loegr yn diflannu, ac i nifer o feirdd a llenorion tafodieithol, megis Samuel Bamford, Ben Brierly a Margaret Lahee, frwydro yn eu gweithiau i'w chadw'n fyw ac i ddiogelu ei geirfa.

Disgrifia sut yr oedd awduron tafodieithol a'i hamddiffynwyr yn ei gweld fel modd i gyflwyno cymdeithas, ei diwylliant a'i hanes:

a form of speech which expressed decent, honest virtues of 'ordinary' people and needed to be nurtured and kept alive..... Some writers saw part of its use as a literary form, others saw it as representing a distinctive Lancashire culture, part and parcel of the county's uniqueness (P. Salveson, 1993, t.237).

Yn ogystal â bod yn ffynhonnell ieithyddol, felly, mae llenyddiaeth dafodieithol yn ffynhonnell gymdeithasol a hanesyddol. Er bod gwaith maes yn hollbwysig i'r tafodieithegydd, gall llenyddiaeth dafodieithol 'fod yn fodd llwyddiannus arall o ddatgelu a thanlinellu pwysigrwydd cymdeithasol iaith mewn gwahanol gyfnodau yn ei hanes' (C. M. Jones, 2006a, t.82).

### **Deall Tafodieithoedd ysgrifenedig**

Bu llawer o drafodaeth parthed anallu i ddeall gweithiau tafodieithol. Wfftio unrhyw honiad o'r fath a wnaeth T. G. Jones (1922, t.240) wrth drafod tafodiaith mewn llenyddiaeth Gymraeg yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, gan ddweud na ddaeth ar draws unrhyw dafodiaith Gymraeg na fedrai ei deall yn lled rwydd. Wrth drafod gweithiau D. H. Lawrence, awdur Saesneg a wnaeth ddefnydd helaeth o dafodiaith yn ei weithiau, dywed J. Worthen (2001, tt.139-140) am y ddrama *A Collier's Friday Night* ei bod yn gyfuniad o elfennau tafodieithol a Saesneg Safonol, ac felly'n fersiwn o leferydd y gellir ei ddeall.

Nid yw rhai beirniaid, serch hynny, mor hael â'u canmoliaeth o werth llenyddiaeth dafodieithol. Un o'r rhain yw G. L. Brook (1973, t.30), sy'n mynegi ei farn yn glir wrth drafod tafodiaith mewn llenyddiaeth Saesneg yn hanner olaf yr ugeinfed ganrif. Awgryma y gall llenyddiaeth dafodieithol ymddangos yn sych i ddarllenwyr nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth o'r dafodiaith lafar y ceisia'r llenyddiaeth ei phortreadu. Yr

un yw barn C. Karantzi (2010, t.461) wrth dafoli llenyddiaeth dafodieithol Roegaidd pan awgryma fod pobl nad ydynt yn gyfarwydd â'r dafodiaith honno yn profi anhawster i ddeall a mwynau'r llenyddiaeth i'r eithaf.

O safbwynt llenyddiaeth Gymraeg, awgryma A. Price (2002, t.139) os ymyrrir â'r ffaith y defnyddir Cymraeg tafodieithol i siarad a Chymraeg safonol i ysgrifennu, gall hyn lesteirio deall neu beri dryswch, ac 'mewn print, felly, po fwyaf yr ymbellhau oddi wrth yr iaith Gymraeg safonol, anhawsaf fydd y darllen' (A. Price, 2002, t.139). Yr un anhawster a ddisgrifiwyd gan A. Islwyn (2017, t.72) wrth gyfeirio at gyfrol Lleucu Roberts *Jwg ar Seld* a gynhwysai tafodiaith Caernarfon, pan awgrymodd: 'nid oedd ei darllen bob amser yn orchwyl hawdd.' Nodwyd eisoes sut y gall llenyddiaeth dafodieithol fod yn blwyfol gan gyfyngu'r gynulleidfa ddarllen i ardaloedd penodol.

## **Casgliad**

Mae nifer o ddiffiniadau o iaith a thafodiaith yn bodoli, ac mae agweddau atynt yn amrywio. Iaith yw ein ffordd o gyfathrebu â'n gilydd ac i fynegi ein hunain; tafodieithoedd yw ein hamrywiadau ar yr iaith honno.

Defnyddir tafodiaith mewn dwy wahanol ffordd mewn llenyddiaeth, a cheir *Llenyddiaeth mewn Tafodiaith* a *Thafodiaith mewn Llenyddiaeth*. Cytunir yn lled gyffredin bod yn rhaid i awdur sy'n ysgrifennu mewn tafodiaith fod yn llenor yn ogystal, ac mai artist yw awdur tafodieithol yn flaenaf, ac nid ieithydd. Nid yw'r dafodiaith a gyfleir gan awduron o angenrheidrwydd yn gyflawn felly nac yn adlewyrchiad uniongyrchol o leferydd, gan nad dyna'u hamcan wrth ysgrifennu'n dafodieithol. Tra bod rhai yn canmol llenyddiaeth dafodieithol am ei gwerth ieithyddol, cymdeithasol a hanesyddol, cyfyng yw ei hapêl a'i gwerth ym marn eraill sy'n honni mai darllenwyr mewn ardaloedd penodol yn unig all ei gwerthfawrogi i'r eithaf.

## PENNOD 2

### METHODOLEG YMCHWIL

#### Rhagarweiniad

Amcan y gwaith ymchwil hwn yw cynnig disgrifiad a dadansoddiad beirniadol o lenyddiaeth dafodieithol, ei natur a'i gwerth. Ffocysir ar Sir Benfro gan fod yr ymchwilydd yn gyfarwydd â'i thafodiaith ac y perthyn iddi gorff o lenyddiaeth amrywiol a chyfoethog. Defnyddiwyd dau ddull ymchwil yn y gwaith hwn, ac fe'u trafodir yn y bennod hon. Y dull cyntaf oedd adolygiad o'r llenyddiaeth sydd eisoes yn bodoli yn y maes, ystyried enghreifftiau o lenyddiaeth dafodieithol a'r safbwyntiau am lenyddiaeth o'r fath. Yr ail ddull oedd cynnal cyfweiliadau â beirdd a llenorion i gasglu eu barn a'u safbwyntiau am lenyddiaeth dafodieithol a thrwy hynny gynnig gwybodaeth wreiddiol nas cyhoeddwyd o'r blaen. Y mae'r ymchwil hwn felly nid yn unig yn cyfrannu at yr hyn sy'n bodoli eisoes ym maes llenyddiaeth dafodieithol, ond yn ogystal yn cyflwyno dadansoddiad cynhwysfawr o lenyddiaeth ardal benodol.

#### Beth yw ymchwil?

Pwrpas cyffredinol unrhyw waith ymchwil yw dadansoddi a gwerthuso'r wybodaeth sy'n bodoli eisoes yn y maes o dan sylw, dod o hyd i wybodaeth newydd, a chyflwyno canlyniadau a chanfyddiadau'r gwaith ymchwil hwnnw. Fel yr awgrymodd P. McNeill (1990, t.9), mae amcanion gwaith ymchwil yn amrywio; ar y naill law, mae ambell waith ymchwil yn amcanu yn unig at ddisgrifio'n fanwl sefyllfa neu amgylchiadau, gan amcanu at ateb cwestiynau megis 'faint?', 'pwy?' a 'beth sy'n digwydd?', gyda'r awdur yn dymuno ychwanegu at ein gwybodaeth. Ar y llaw arall, mae ambell waith ymchwil yn amcanu at ateb ffenomen, gan ofyn 'pam?' a cheisio dod o hyd i ateb i broblem, boed honno'n broblem gymdeithasol neu'n broblem gymdeithasegol.

## **Cwestiynau'r ymchwil hwn**

Ar ddechrau'r gwaith ymchwil, lluniwyd pum cwestiwn y dymunir eu hateb yn ystod proses casglu a dadansoddi gwybodaeth. Drwy osod cwestiynau, ceir ffocws a chyfeiriad. Y cwestiynau y ceisir eu hateb yw:

1. Sut y dehonglir llenyddiaeth dafodieithol?
2. Pam y defnyddir tafodiaith mewn llenyddiaeth?
3. Oes gwerth mewn llenyddiaeth dafodieithol?
4. Beth yw'r ymateb a'r agwedd at lenyddiaeth dafodieithol?
5. A yw llenyddiaeth dafodieithol yn tanseilio teithi'r iaith Gymraeg ac yn ychwanegu at dyndra rhwng yr iaith lenyddol a thafodiaith?

## **Dulliau ymchwil**

Ceir dau fath o ymchwil, sef ymchwil ansoddol ac ymchwil meintiol. Mewn termau syml, y mae ymchwil ansoddol yn ymwneud â geiriau, tra bod ymchwil meintiol yn ymwneud â ffigurau a data y gellir eu mesur. Mewn unrhyw waith ymchwil, gellir defnyddio un o'r mathau hyn, neu gyfuniad o'r ddau. Er bod dau fath o ymchwil ar gael, dengys N. K. Denzin a Y. S. Lincoln (2011, t.9) fod ymchwilyr ansoddol a meintiol fel ei gilydd yn ceisio canfod safbwyntiau, ond y gwahaniaeth yw bod ymchwilyr ansoddol yn credu y gallant ddod yn agosach at y safbwyntiau hynny drwy gyfrwng cyfweiliadau ac arsylwadau manwl.

Mewn ymchwil ansoddol, sef y math a ddefnyddiwyd yn y gwaith hwn, mae'r fethodoleg yn cynnwys nifer o ffyrdd o gasglu data, yn seiliedig ar ddehongliad yr ymchwilydd, ac yn cael ei hystyried yn holistaidd ac yn adfyfyriol (J. W. Creswell, 2003, t.205). Yng nghyd-destun ymchwil ansoddol, awgrymodd J. W. Creswell (1998, tt.14,24) fod y broses yn gymhleth ac yn cymryd cryn amser; y mae'r ymchwilydd yn offeryn casglu data ar ffurf geiriau a lluniau, yn eu dadansoddi, yn ffocysu ar farn cyfranogwyr ac yn disgrifio proses sy'n fynegiannol ac yn berswadiol mewn iaith. I grynhoi, dywed: 'the researcher builds a



complex, holistic picture, analyzes words, reports detailed views of informants, and conducts the study in a natural setting' (J. W. Creswell, 1998, t.15). Gellid maentumio bod sicrhau manyldeb a llawnder yn hanfodol, er mwyn cyflwyno darlun cyfan a chytbwys.

Mewn unrhyw waith ymchwil, boed yn ansoddol neu'n feintiol, mae nifer o ddulliau ymchwil ar gael at ddefnydd yr ymchwilydd, megis cyfweliadau, holiaduron, ymchwil gweithredu, arbrofion, astudiaethau achos, arolygon, arsylwi a phrofion. Ni ellir dadlau o blaid rhagoriaeth y naill dull dros y llall, ond yn hytrach mae'r dull, neu gyfuniad o ddulliau ymchwil a ddewisir, yn dibynnu ar y maes yr ymchwilir iddo (P. Dowling a A. Brown, 2010, t.78). Cytuna P. McNeill (1990, tt.14-15) nad y dulliau a ddefnyddir sy'n bwysig, ond yn hytrach tair egwyddor sy'n gysylltiedig ag unrhyw dull, sef *dibynadwyedd* y dull fel dull o gasglu tystiolaeth, *dilysrwydd* y data a gesglir a'u bod yn ddarlun clir o'r hyn a astudir, a *chynrychiolaeth*, sef a yw'r grŵp o bobl neu'r sefyllfa a astudir yn debyg i eraill, ac y gellir cyffredinoli o'r esiampl a astudiwyd.

Fel y nodwyd eisoes, defnyddiwyd dau dull ymchwil yn y gwaith hwn, sef adolygiad o lenyddiaeth, ystyried enghreifftiau o lenyddiaeth dafodieithol a'r safbwyntiau am lenyddiaeth o'r fath ynghyd â chyfweliadau. Barnwyd mai'r ddau dull yma oedd yn addas at bwrpas y traethawd, ac a fyddai'n rhoi'r wybodaeth lawnaf a manylaf. Trafodir y ddau dull hyn isod.

### **Adolygiad llenyddiaeth**

Diffinnir adolygiad llenyddiaeth yn gyffredinol fel adolygiad o waith ymchwil blaenorol yn y maes o dan sylw. Fe'i disgrifir gan L. Blaxter, C. Hughes a M. Tight (2010, t.124) fel 'a critical summary and assessment of the range of existing materials dealing with knowledge and understanding in a given field,' a'i amcan yw lleoli'r prosiect ymchwil, ffurfio ei gyd-destun a'i gefndir a chynnig mewnwelediad i waith

a gyhoeddwyd eisoes. Hynny yw, 'it helps you to integrate your research findings into the existing body of knowledge' (R. Kumar, 2014, t.48).

Y mae i adolygiad llenyddiaeth le canolog a phwysig mewn unrhyw waith ymchwil felly, a ddengys fod yr ymchwilydd yn hyddysg ac wedi ei drwytho yn y maes o dan sylw, a'i fod yn deall ac yn medru gwerthfawrogi a dadansoddi'r hyn a gyhoeddwyd eisoes gan arbenigwyr yn y maes. Fel y dywed A. Bryman (2008, t.81): 'your literature review is where you demonstrate that you are able to engage in scholarly review based on your reading and understanding of the work of others in the same field,' ac mae defnyddio'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes ar unrhyw bwnc yn fodd i ddatblygu dadl am arwyddocâd yr ymchwil, ac i ba le y mae'r ymchwil yn arwain.

Mae'n werth cyfeirio hefyd at ddehongliad triphlyg J. Sharp (2009, tt.27-28) o bwrcpas yr adolygiad llenyddiaeth, sef (i) ei fod yn cyflwyno'r darllenydd i'r pwnc ac yn gosod cyfraniad yr ymchwilydd yn ei gyddestun, (ii) ei fod yn dangos bod yr ymchwilydd yn gyfarwydd â'r pwnc o dan sylw a'r hyn a ddywedwyd amdano eisoes a (iii) ei fod yn rhoi cyfle i'r ymchwilydd arddangos ysgolheictod yn ei allu i adfyfrio, gwerthuso ac ysgrifennu'n feirniadol ac yn ddadansoddol, gan adnabod lle mae'r llenyddiaeth yn brin, pa farn sydd wedi codi a pha gwestiynau sy'n parhau i'w hateb neu angen eu hymchwilio. Nid yw'r un gwaith ymchwil yn derfynol felly ac, yn ogystal ag ateb cwestiynau, gall hefyd godi cwestiynau pellach y mae angen ymateb iddynt.

Awgrymodd D. Silverman (2000, t.231) y dylai unrhyw adolygiad llenyddiaeth gynnig atebion i'r cwestiynau isod:

- Beth a wyddom am y pwnc yn barod?
- Beth sydd gennych i'w ddweud yn feirniadol am yr hyn a wyddys yn barod?
- A oes unrhyw un arall erioed wedi gwneud yr un peth?

- A oes unrhyw un arall wedi gwneud rhywbeth tebyg?
- Ble mae eich gwaith yn ffitio gyda'r hyn a wnaed o'r blaen?
- Pam fod gwerth gwneud eich gwaith yng ngoleuni'r hyn a wnaed eisoes?

Ychydig a ysgrifennwyd yn benodol am lenyddiaeth dafodieithol yn y Gymraeg, ac er i astudiaethau o dafodieithoedd unigol fod yn destun nifer o draethodau hir a gyflwynwyd ar gyfer graddau uwch ym Mhrifysgolion Cymru, fel y nodwyd eisoes yn y bennod gyntaf, ni chyflwynwyd unrhyw draethawd ymchwil *yn benodol* ar lenyddiaeth dafodieithol hyd yma. Gwelwyd yma, felly, gyfle i gyflwyno astudiaeth gynhwysfawr o'r maes dan sylw.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth dyfynnu G. Wisker (2008, t.169) a awgrymodd: 'your own work both engages with the known literature and adds something else.' Dyna oedd amcan y gwaith hwn, sef dod at ei gilydd yr hyn a ysgrifennwyd eisoes am lenyddiaeth dafodieithol, gan hefyd ychwanegu 'rhywbeth arall' drwy fynd ati i gynnal cyfweiliadau ynghyd â dadansoddiad academiaidd o'r maes.

### **Ffynonellau llenyddiaeth a deunyddiau**

Gellid dadlau bod gwaith ymchwil wedi dod yn haws i'w gyflawni ac yn fwy cyraeddadwy yn sgil datblygiadau yn y degawdau diwethaf mewn technoleg gwybodaeth, gyda nifer o lyfrgelloedd, megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn digideiddio eu deunyddiau erbyn hyn. Yn ogystal â'r ffordd draddodiadol o ymchwilio drwy lyfrau, adroddiadau a chylchgronau mewn llyfrgelloedd felly, ceir e-adnoddau a gwefannau i gyfoethogi a hwyluso unrhyw waith ymchwil heddiw. Crynhoir yn effeithiol y datblygiad hwn gan P. Clough a C. Nutbrown (2012, t.110) pan ddywedant: 'there has never been such an abundance of resources available to those undertaking academic writing and research.'

Aed ati yn y gwaith hwn i bori trwy lyfrau, cylchgronau, adolygiadau o gyfrolau, beirniadaethau eisteddfodol, gwefannau ac ati i ganfod barn a safbwyntiau am lenyddiaeth dafodieithol. Tra'n ystyried anogaeth S. Rumsey (2004, t.54) i ddarllen yn eang gan geisio gwybodaeth mewn ffynonellau y tu hwnt i'r rhai arferol, megis traethodau ymchwil, papurau cynhadledd, cyfarwyddiaduron ac adroddiadau, ystyriwyd hefyd rybudd A. Hunt (2005, t.54) i'r ymchwilydd gofio nad rhestr o gyfeiriadau a chasgliad o ddyfyniadau o wahanol ffynonellau yn unig yw adolygiad llenyddiaeth ond, yn hytrach, dadl resymol sy'n cyfeirio at waith eraill, yn ei ddadansoddi ac yn cynnig sylwadau arno.

### **Cyfweliadau**

Fel y nodwyd eisoes, tybiwyd y byddai cynnal cyfweliadau â llenorion a beirdd i gasglu eu barn a'u safbwyntiau am lenyddiaeth dafodieithol yn cyfoethogi'r gwaith ac yn cynnig gwybodaeth wreiddiol nas cyhoeddwyd.

Dadleuir mai'r cyfweliad yw un o'r prif ddulliau o gasglu data mewn ymchwil ansoddol gan ei fod yn ffordd dda o gael mynediad i ganfyddiadau pobl ac yn un o'r ffyrdd mwyaf pwerus i ddeall safbwyntiau eraill (K. F. Punch, 2005, t.168; A. Fontana a J. H. Frey, 2003, t.62). Cytunir yn gyffredinol fod modd casglu gwybodaeth fanwl drwy gyfweled. Cred P. Birmingham (2000, t.47), er enghraifft, y dylid defnyddio'r cyfweliad fel dull ymchwilio pan geisir gwybodaeth mewn dyfnder tra pwysleisia G. Wisker (2008, t.192) y gall cyfweliadau ddarparu'r wybodaeth fanwl yr aeth yr ymchwilydd ati i'w chasglu yn ogystal â gwybodaeth ddiddorol neu gyd-destunol arall. Mae'n werth dyfynnu S. B. Oishi (2003, t.173), gan ei fod wedi disgrifio union bwrpas y cyfweliad yn yr astudiaeth hon, sef casglu barn ac agwedd at lenyddiaeth dafodieithol ynghyd â phrofiadau ysgrifennu yn y cyfrwng hwn: 'qualitative researchers use interviews primarily to gather opinions, facts and stories, and to gain insight into the experiences of others from the "inside".'

Ceir nifer o fathau gwahanol o gyfweiliadau, felly, camp yr ymchwilydd yw dewis y math sy'n fwyaf addas i'r maes o dan sylw. Rhestr L. Cohen, L. Manion a K. Morrison (2011, t.412) y gwahanol fathau, megis cyfweiliadau safonol; manwl; ethnographic; elitaidd; hanes bywyd; grŵp; grŵp ffocws; strwythuredig; lled-strwythuredig; archwiliol; anffurfiol; safonol penagored a chaeëdig meintiol. Mae amrediad, hyd a lled cyfweiliadau yn amrywio. Fel y disgrifia P. Dowling a A. Brown (2010, t.78), ar y naill begwn ceir cyfweiliad strwythuredig, gyda'r cyfweiliad yn debyg i holiadur a weinyddir yn bersonol, lle y mae'r cyfwelydd yn dilyn fformat ac yn darllen rhestr o gwestiynau a gynlluniwyd ymlaen llaw a hynny er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y cyfweiliadau. Ar y pegwn arall, ceir cyfweiliad anstrwythuredig, ac er bod gan y cyfwelydd ryw fath o agenda neu bwrpas cyffredinol mewn golwg, mae cyfweiliad o'r math hwn yn debyg i sgwrs, gyda'r cyfwelydd yn gweithio o set weddol lac o gyfarwyddiadau ac yn gofyn cwestiynau agored o fewn fformat hyblyg, a hynny er mwyn sicrhau rhwyddineb i'r cyfweleion fynegi eu barn.

Y dull cyfweld a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil hwn oedd cyfweiliadau unigol, lled-strwythuredig. Diffinnir y dull cyfweld hwn fel:

A context in which the interviewer has a series of questions that are in the general form of an interview schedule but is able to vary the sequence of questions. The questions are frequently somewhat more general in their frame of reference from that typically found in a structured interview schedule. Also, the interviewer usually has some latitude to ask further questions in response to what are seen as significant replies (A. Bryman, 2008, t.196).

### **Manteision ac anfanteision cyfweiliad**

Mae i gyfweiliad, fel dull o gasglu data neu wybodaeth mewn unrhyw waith ymchwil, nifer o fanteision yn ogystal ag anfanteision. Dyma farn P. Dowling a A. Brown (2010, t.78) am ei fanteision, barn y gellid cytuno â hi yn sgil profiad cynnal cyfweiliadau:

Interviews enable the researcher to explore complex issues in detail, they facilitate the personal engagement of the researcher in the collection of data, they allow the researcher to provide clarification, to probe and to prompt (P. Dowling a A. Brown, 2010, t.78).

Rhoddai'r dull lled-strwythuredig hwn o gyfweld gyfle i'r cyfwelydd brocio a chymell y cyfweleion yn achlysurol i fanylu, er mwyn cael ateb llawnach. Mewn rhai achosion, gofynnwyd cwestiynau pellach yn deillio o'r sgwrs neu o'r atebion a roddwyd, a chafwyd ymateb diddorol a phwysig yn aml yn sgil hynny. Er y rhyddid hwn i ymhelaethu, rhaid oedd sicrhau nad oedd y cyfweliadau yn mynd ar gyfeiliorn ac yn crwydro o'r pwnc dan sylw.

Ymhlith rhinweddau'r cyfweliad a amlinellir gan L. Atkins a S. Wallace (2012, t.86), mae'n caniatáu i'r cyfwelydd ymwneud â'r cyfweleion, wyneb yn wyneb ac yn unigol, mewn modd nad yw'n bosib wrth ddefnyddio holiaduron neu grwpiau ffocws, a rhydd gyfle ar gyfer deialog sy'n galluogi'r cyfwelydd i holi ac i sicrhau bod y cyfweleion wedi deall yr hyn a ddywedwyd. Canfuwyd i'r cyfweliadau unigol fod yn fodd i gynnal deialog fywiog ac i'r cyfwelydd sicrhau bod y cyfweleion wedi deall y cwestiynau, a hynny er mwyn cael yr ymateb gorau posib.

Mae hyblygrwydd y cyfweliad, felly, yn un o'i rinweddau pwysig. Fel y dywed J. Sharp (2009, t.74), y mae'n arf hyblyg gan y caniatâ i'r ymchwilydd gasglu gwybodaeth am yr hyn a wŷr pobl, eu profiadau a'u teimladau. Gall y cyfwelydd bwysio am atebion llawn ac felly: 'in short, the interview is a powerful implement for researchers' (L. Cohen, L. Manion a K. Morrison, 2011, t.409). Mae'r dull yn un defnyddiol pan fo ymchwilydd yn ceisio dealltwriaeth o farn ac agwedd cyfweleion, ac yn caniatáu i'r ymchwilydd archwilio'n fanwl yr agweddau hynny (S. J. Yates, 2004, t.158). Gan mai canfod agweddau at lenyddiaeth dafodieithol oedd yr amcan, roedd hyblygrwydd y cyfweliad yn caniatáu i'r cyfwelydd brocio er mwyn canfod yr agweddau hynny.

Fel yn achos pob dull ymchwil, mae i gyfweiliadau yn ogystal eu hanfanteision. Cytuna G. Wisker (2008, t.192) a P. Dowling a A. Brown (2010, t.78), er enghraifft, fod cyfweiliadau yn cymryd cryn dipyn o amser ac, o ganlyniad, yn cyfyngu'n ymarferol ar faint y sampl a'i bod yn anodd dadansoddi'r ymateb i gwestiynau penagored. Yn yr un modd, pwysleisia L. Cohen, L. Manion a K. Morrison (2011, t.409) fod yn rhaid i'r ymchwilydd sy'n cynnal cyfweiliadau fod yn ymwybodol eu bod yn ddrud o ran amser, yn agored i dueddiad/bias yr ymchwilydd ac y gallent fod yn anghyfleus i'r cyfweleion. Canfuwyd bod trefnu, gweinyddu a chynnal cyfweiliadau yn cymryd mwy o amser nag y rhagdybiwyd, ond gellid maentumio bod y wybodaeth a'r farn a gasglwyd yn sgil y cyfweiliadau hynny yn ei wneud yn ddull ymchwil hanfodol yn yr astudiaeth hon.

Ymysg yr anfanteision a gynigir gan L. Atkins a S. Wallace (2012, t.86) y mae'r ffaith bod trawsgrifio a dadansoddi'r cyfweiliadau yn medru bod yn dasg hir a llafurus, bod dadansoddi ymateb y cyfweleion hefyd yn broses gymhleth ac anodd, a bod yn rhaid ystyried dibynadwyaeth yr hyn a ddywedir, a yw'n wir ai peidio, ac a fyddai'r atebion yr un peth petai cyfwelydd arall wedi gofyn y cwestiynau. Gellid cytuno â E. K. McEwan a P. J. McEwan (2003, t.81) ei bod yn hawdd camddechongli a chamddeall yr hyn a ddywedir mewn cyfweiliadau ac, felly, er mwyn sicrhau na chamddeallwyd unrhyw beth a ddywedwyd gan y cyfweleion yn y gwaith ymchwil hwn, fe'u recordiwyd er mwyn medru gwrandao arnynt nifer o weithiau petai angen i sicrhau dealltwriaeth.

### **Manylion y cyfweiliadau a gynhaliwyd yn y gwaith ymchwil hwn**

Ar sail y gwaith ymchwil cychwynnol a wnaed, y darllen cefndirol a'r drafftiau cynnar o benodau'r traethawd a ysgrifennwyd, lluniwyd rhestr o ddeg o unigolion y dymunwyd eu cyfweld. Roeddent naill ai yn ysgrifennu llenyddiaeth dafodieithol, nifer ohonynt o Sir Benfro, neu'n

ymwneud â llenyddiaeth dafodieithol mewn rhyw fodd, er enghraifft yn feirniaid eisteddfodol neu'n olygyddion cyfrolau o lenyddiaeth a oedd yn cynnwys tafodiaith. Fe'u dewiswyd ar sail y ffaith mai beirniadaeth lenyddol oedd ffocws y traethawd.

Felly, er mwyn dilyn trywydd a ffocws yr astudiaeth ymhellach, penderfynwyd a dewiswyd cyfweld:

- Pedwar awdur llenyddiaeth yn nhafodiaith Sir Benfro y trafodir eu gwaith yn y bumed bennod. Roedd y pedwar ohonynt hefyd wedi cyfrannu at, neu wedi golygu, y cyfrolau o lenyddiaeth a drafodir yn y chweched bennod. Teimlwyd y byddai eu holi am eu gweithiau yn fuddiol, er mwyn cael gwell dealltwriaeth ohonynt a chanfod pam eu bod yn ysgrifennu yn y cyfrwng hwn.
- Dau am eu cysylltiad penodol â'r cyfrolau *Wês Wês* a drafodir yn y chweched bennod. Ceir pedair cyrol yn y gyfres hon, wedi eu hysgrifennu'n llwyr yn nhafodiaith Sir Benfro, felly maent yn destunau pwysig yn y gwaith ymchwil hwn.
- Un awdur nad yw'n ysgrifennu'n benodol mewn tafodiaith, ond sy'n feirniad eisteddfodol ac felly'n gyfarwydd â llenyddiaeth dafodieithol.
- Tri awdur tafodieithol y tu allan i Sir Benfro, ond cyfeirir atynt yn y traethawd. Teimlwyd y byddai holi awduron y tu allan i'r sir yn rhoi persbectif gwahanol ac ychwanegol.

Roedd pump o'r deg ar y rhestr o bobl y dymunwyd eu cyfweld yn Brifeirdd neu'n Brif Lenorion a dau arall yn gystadleuwyr eisteddfodol cyson; roedd hyn yn addas o ystyried bod cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyda llenyddiaeth dafodieithol yn un o'r pynciau hynny a amlygwyd yn y gwaith hwn a'i fod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth.

Isod, ceir bywgraffiad byr o'r deg i egluro yn fanylach ac i gyfiawnhau pam y cawsant eu dewis:



**Y Prifardd Eirwyn George (1936- ) Man geni: Twffton, Sir Benfro**

Awdur llenyddiaeth yn nhafodiaith Sir Benfro a drafodir yn y bumed bennod (tt.156-161). Cyfrannodd at y cyfrolau *Wês Wês* a golygodd nifer o'r cyfrolau a drafodir yn y chweched bennod, felly manteisiwyd ar y cyfle i drafod y cyfrolau hynny, yn ogystal â'i weithiau tafodieithol.

**Hefin Wyn (1950- ) Man geni: Y Glôg, Sir Benfro**

Awdur llenyddiaeth yn nhafodiaith Sir Benfro a drafodir yn y bumed bennod (tt.161-166) a chyfrannodd at y cyfrolau *Wês Wês*. Enillodd nifer o gystadlaethau yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyda gweithiau yn cynnwys tafodiaith. Y mae hefyd yn aelod o Fwrdd Golygyddol papur bro'r Preseli, sef *Clebran*, lle gwelir defnydd rhai cyfranwyr o'u tafodiaith, felly manteisiwyd ar y cyfle i drafod y materion hynny gydag ef.

**Wyn Owens (1956- ) Man geni: Mynachlog-ddu, Sir Benfro**

Awdur llenyddiaeth yn nhafodiaith Sir Benfro a drafodir yn y bumed bennod (tt.170-176) a chyfrannodd hefyd at y cyfrolau a drafodir yn y chweched bennod. Yn ogystal, cyhoeddodd y geiriadur *Rhint y Gelaets a'r Grug: Tafodiaith Sir Benfro* yn 2013, felly cymerwyd y cyfle i'w holi am y gyfrol honno, ac am ei weithiau tafodieithol.

**Y Prifardd Mererid Hopwood (1964- ) Man geni: Caerdydd**

Awdur llenyddiaeth yn nhafodiaith Sir Benfro a drafodir yn y bumed bennod (tt.177-179). Yn wahanol i'r tri uchod, cafodd ei geni a'i magu y tu allan i'r sir, ond ceir yn ei gweithiau dafodiaith teulu ei mam, sy'n hanu o ardal Pen-caer. Yn ogystal, golygodd un o'r cyfrolau a drafodir yn y chweched bennod a manteisiwyd ar y cyfle i drafod hynny.

**Gwyn Griffiths (1941-2018) Man geni: Swyddffynnon, Ceredigion**

Golygydd y pedair cyfrol yn y gyfres *Wês Wês* a drafodir yn helaeth yn y traethawd hwn. Manteisiwyd felly ar y cyfle i ofyn cwestiynau iddo yn benodol am y cyfrolau hynny, pam yr aeth ati i'w cyhoeddi a'r ffaith ei fod wedi gofyn i bobl ysgrifennu'n bwrpasol mewn tafodiaith ar eu cyfer.

**Eirlys Charles (1938- ) Man geni: ardal Cas-lai, Sir Benfro**

Cyfrannodd ddarnau at y cyfrolau *Wês Wês*. Gan y gwahoddwyd pobl i gyfrannu at y cyfrolau hyn, rhai ohonynt, fel hithau, heb ysgrifennu neu gyhoeddi dim cyn nac wedi hynny, manteisiwyd ar y cyfle i drafod hynny.

**Y Prifardd Idris Reynolds (1942- ) Man geni: Post Mawr, Ceredigion**

Brodor o dde Ceredigion, ac er nad yw'n ysgrifennu'n benodol mewn tafodiaith ei hun, mae'n feirniad eisteddfodol cyson ac felly yn gyfarwydd â llenyddiaeth dafodieithol. Tybiwyd felly y byddai'n fuddiol cael ei farn a'i agwedd yntau at lenyddiaeth o'r fath.

**Y Prifardd Ceri Wyn Jones (1967- ) Man geni: de ddwyrain Lloegr**

Er y treuliodd rhai o'i flynyddoedd cynnar yn Sir Benfro, mae'n byw bellach yn Aberteifi ac yn gwneud defnydd o'i dafodiaith yn ei farddoniaeth. Y mae yntau hefyd yn feirniad eisteddfodol ac adeg y cyfweliad roedd yn olygydd gydag un o weisg cyhoeddi mwyaf Cymru, felly tybiwyd y byddai ganddo bersbectif arbennig ar y maes hwn.

**Yr Athro Meic Stephens (1938-2018) Man geni: Trefforest**

Awdur yn nhafodiaith y Wenhwyseg ac un a gystadlodd yn gyson yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y cyfrwng hwnnw. Gan yr ystyrir ei waith tafodieithol yn y drydedd bennod (tt.87-93), manteisiwyd ar y cyfle i drafod hynny. Hefyd, roedd yn gyfle i gasglu barn a chanfyddiad awdur y tu allan i Sir Benfro, er mwyn ehangu'r drafodaeth.

**Y Prif Lenor Lleucu Roberts (1964- ) Man geni: Aberystwyth**

Awdur sy'n ysgrifennu mewn nifer o wahanol dafodieithoedd. Enillodd ei chyfrol dafodieithol *Saith Oes Efa* y Fedal Ryddiaith iddi yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr 2014. Eto, roedd hwn yn gyfle i gasglu barn a chanfyddiad awdur y tu allan i Sir Benfro, ac o ardal wahanol o Gymru i'r Athro Meic Stephens, rhag cyfyngu'r cyfweleion i'r sir hon yn unig.

Cysylltwyd felly â'r deg unigolyn ar y rhestr, naill ai trwy lythyr, e-bost neu alwad ffôn. Eglurwyd y gwaith ymchwil a gofynnwyd iddynt a fyddent yn fodlon cael eu cyfweld am y maes llenyddiaeth dafodieithol. Roedd y mwyafrif helaeth ohonynt yn bobl nad oedd y cyfwelydd wedi cyfarfod â hwy o'r blaen. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan y deg ac roeddent yn fwy na pharod i drafod y maes gyda'r cyfwelydd.

Trwy gyfrwng e-bost neu alwad ffôn, cytunodd y cyfwelydd a'r cyfweleion ar ddyddiad, amser a lleoliad y cyfweiliadau. Yn unol â dymuniad y cyfweleion, cyfwelwyd pedwar ohonynt yn eu cartrefi eu hunain, un yn ei fan gwaith a dau ar gampws y Brifysgol yr oedd y cyfwelydd yn astudio ynddi. Oherwydd amgylchiadau personol y tri chyfwelai arall, nid oedd yn bosib eu cyfweld wyneb yn wyneb, felly trefnwyd cyfweld un ohonynt dros y ffôn a dau trwy gyfrwng e-bost. O ran y ddau gyfweiliad trwy gyfrwng e-bost, anfonwyd y cwestiynau a chafwyd ymateb ysgrifenedig; anfantais y dull hwn oedd na chafwyd trafodaeth rydd fel y cafwyd yn y cyfweiliadau llafar ac roedd modd i'r cyfweleion ddewis peidio ag ateb pob cwestiwn. Serch hynny, ni theimlwyd bod y dulliau gwahanol hyn o gyfweld wedi effeithio mewn unrhyw fodd ar ansawdd y wybodaeth a gasglwyd yn y cyfweiliadau hyn.

| <b>CYFWELAI</b>             | <b>DYDDIAD CYFWELD</b> | <b>MAN CYFWELD</b> |
|-----------------------------|------------------------|--------------------|
| Y Prifardd Idris Reynolds   | 1 Awst 2014            | Campws PCYDDS      |
| Y Prifardd Ceri Wyn Jones   | 13 Awst 2014           | Gwasg Gomer        |
| Wyn Owens                   | 13 Medi 2014           | Cartref y Cyfwelai |
| Y Prifardd Eirwyn George    | 20 Medi 2014           | Cartref y Cyfwelai |
| Hefin Wyn                   | 14 Tachwedd 2014       | Cartref y Cyfwelai |
| Y Prifardd Mererid Hopwood  | 12 Rhagfyr 2014        | Campws PCYDDS      |
| Eirlys Charles              | 5 Ionawr 2015          | Cartref y Cyfwelai |
| Gwyn Griffiths              | 29 Ionawr 2015         | Trwy e-bost        |
| Yr Athro Meic Stephens      | 10 Chwefror 2015       | Dros y ffôn        |
| Y Prif Lenor Lleucu Roberts | 10 Mawrth 2015         | Trwy e-bost        |

## Llunio cwestiynau cyfweld

Lluniwyd rhestr o ugain o gwestiynau craidd (Atodiad 1). Deilliai'r cwestiynau a luniwyd o'r gwaith ymchwil cychwynnol a'r darllen cefndirol a wnaed ac o ddrafftiau cynnar penodau'r traethawd, a ysgrifennwyd cyn cychwyn cyfweld. Roeddent yn gwestiynau am faterion yr oedd y cyfwelydd am eu hystyried yn fanylach a'u procio ymhellach, er enghraifft rôl a gwerth llenyddiaeth dafodieithol, ac a yw'n cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen i ardal benodol. Cynhwyswyd cwestiynau hefyd am awduron a gweithiau y rhoir cryn sylw iddynt yn y traethawd, megis Dewi Emrys, W. R. Evans a'r cyfrolau *Wês Wês*, er mwyn cyfoethogi ac atgyfnerthu'r drafodaeth yn y gwahanol benodau. Roedd y cwestiynau hefyd yn seiliedig ar y pum cwestiwn ymchwil a restrwyd uchod. Cymeradwywyd y cwestiynau gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol.

Gofynnwyd y cwestiynau hyn i fwyafrif y cyfweleion, os oeddent yn addas; er enghraifft, os nad oedd y cwestiwn eisoes wedi ei ateb wrth ateb cwestiwn blaenorol, ac ni ofynnwyd y cwestiynau am W. R. Evans a'r cyfrolau *Wês Wês* i ddau o'r cyfweleion y tu allan i Sir Benfro, gan eu bod yn faterion lleol mae'n debygol na fyddent yn gyfarwydd â hwy. Roedd y dull lled-strwythuredig o gyfweld yn rhoi'r cyfle i ddilyn trywydd penodol gyda rhai o'r cyfweleion, megis y bardd a oedd hefyd yn olygydd gydag un o weisg cyhoeddi mwyaf Cymru, y ddau a olygodd gasgliadau o lenyddiaeth a barddoniaeth a drafodir yn y chweched bennod, a'r awdur a gyhoeddodd eiriadur o dermau tafodieithol.

Fel y nodwyd eisoes, cyfwelwyd Gwyn Griffiths ac Eirlys Charles yn benodol am eu cyfraniad i'r cyfrolau *Wês Wês* a drafodir yn y chweched bennod. Nid oedd pob un o'r ugain o gwestiynau craidd yn addas ar eu cyfer hwy, felly aethpwyd ati i'w haddasu er mwyn ffocysu'n benodol ar y cyfrolau hyn; lluniwyd rhestr o gwestiynau i'w gofyn i'r naill fel golygydd y cyfrolau a'r llall fel un a ysgrifennodd ddarnau mewn tafodiaith ar eu cyfer (Atodiad 1). Deilliai'r cwestiynau hyn eto o'r

gwaith ymchwil cychwynnol a'r darllen cefndirol a wnaed ac roeddent yn gwestiynau am faterion yr oedd y cyfwelydd am eu hystyried yn fanylach. Roedd rhai o'r cwestiynau yr un fath â'r ugain cwestiwn craidd, er mwyn sicrhau rhywfaint o gysondeb ar draws y deg cyfweliad; er enghraifft a yw llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen, a themâu neu destunau llenyddiaeth dafodieithol.

Er mai'r amcan yw cael cyfweleion i siarad yn rhydd am y pwnc o dan sylw, gellid cytuno ag S. B. Oishi (2003, t.175) bod yn rhaid cael rhestr o gwestiynau er mwyn cael rhyw fath o drefn mewn cyfweliad ansoddol, a bod y cwestiynau hynny'n cael eu llunio a'u trefnu mewn modd synhwyrol. Awgrymodd S. J. Yates (2004, t.163) fod llunio rhestr o gwestiynau yn cynorthwyo'r ymchwilydd i reoli'r cyfweliad, a bod yna bedwar rheswm penodol dros eu llunio, sef (i) ei fod yn fodd i feddwl am amcanion yr ymchwil a'u gloywi (ii) ei fod yn gwneud i'r ymchwilydd feddwl am y materion allweddol y dylai'r cyfweliad ymateb iddynt (iii) ei fod yn caniatáu i'r ymchwilydd ragdybio unrhyw anawsterau, megis geiriad cwestiynau a (iv) ei fod yn sicrhau bod yr ymchwilydd wedi paratoi ar gyfer y cyfweliad ac yn ei gynorthwyo i ganolbwyntio'n llawn ar yr hyn a ddywed y cyfwelai.

Gellid maentumio bod llunio cwestiynau craidd ymlaen llaw wedi rhoi strwythur a ffocws i'r cyfweliadau, ac iddi fod yn fuddiol i lunio cwestiynau penodol yn hytrach na chynnal cyfweliad penagored, a hynny er mwyn cael trywydd pendant. Sicrhaodd hyn hefyd bod y cyfwelydd wedi paratoi ac yn glir ei meddwl o'r hyn yr oedd am ei ofyn. Fel y nodwyd eisoes, roedd natur lled-strwythuredig y cyfweliadau yn rhoi cyfle i brocio ac i ofyn i'r cyfweleion ymhelaethu ar rai atebion.

Anfonwyd y cwestiynau ymlaen llaw at y ddau a gyfwelwyd trwy gyfrwng e-bost. O'r wyth a gyfwelwyd wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, dymuniad pump o'r cyfweleion oedd cael y rhestr cwestiynau ymlaen llaw, er mwyn cael amser i feddwl amdanynt, tra roedd yn well gan eraill

gael sgwrs ar ddiwrnod y cyfweiliad heb feddwl am y cwestiynau ymlaen llaw. Gellid dadlau nad effeithiodd hyn ar ansawdd y cyfweiliadau a'r ymatebion a gaed gan fod y cyfwelydd wedi medru procio a holi ymhellach os nad oedd yn teimlo ei bod wedi cael ymateb llawn. Yn ogystal, roedd modd i'r cyfweleion na ddymunodd gael y cwestiynau ymlaen llaw fynd yn ôl at gwestiynau cynharach os oeddent wedi meddwl am ateb pellach i gwestiwn yng nghwrs y cyfweiliad.

### **Maint y sampl**

Fel y nodwyd eisoes, cyfwelwyd sampl o ddeg o unigolion. Amrywiai hyd y cyfweiliadau wyneb yn wyneb neu dros y ffôn o hanner awr i awr. Serch hynny nid wrth eu hyd y dylid eu mesur ond o ran eu hansawdd, a gellid maentumio bod gwybodaeth a safbwyntiau pwysig wedi eu rhannu a'u mynegi ym mhob cyfweiliad. Llwyddwyd i gasglu deunydd addas a phroffidiol o sampl o ddeg gan i'r cyfweleion roi atebion clir, manwl a chynhwysfawr i'r cwestiynau a thrafod yn agored ac yn eang gyda'r cyfwelydd. Ar ddiwedd y cyfweiliadau felly teimlwyd nad oedd angen cynyddu'r sampl. Fel y dengys S. B. Oishi (2003, t.172), oherwydd maint y data y gellir eu casglu mewn un cyfweiliad, a chan ei fod yn ddull o ddadansoddi sy'n seiliedig ar farn yn hytrach na data a gesglir drwy gyfrifiadur, tuedda maint y samplau mewn astudiaethau ansoddol i fod yn rhai bychain.

Mae'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfweiliadau wedi eu cynnwys yma ac acw mewn amryw o benodau yn y traethawd hwn, yn hytrach nag mewn pennod benodol. Gwnaed hyn oherwydd teimlwyd mai dyma'r ffordd fwyaf addas ac effeithiol o gyflwyno'r sylwadau, i gyd-fynd â'r hyn a drafodir ym mhob pennod. Roedd hefyd yn fodd i glymu sylwadau a wnaed gan feirniaid, gan yr ymchwilydd a'r cyfweleion at ei gilydd, yn hytrach nag ynysu sylwadau'r cyfweleion mewn pennod arwahân. Ceir adysgrifau o'r cyfweiliadau yn Atodiad 3. Cofnodwyd y cyfweiliadau

mewn modd *verbatim* a adlewyrcha'r dafodiaith a fabwysiadwyd gan y cyfwelydd a'r cyfweleion.

### **Recordio a thrawsgrifio cyfweiliadau**

Fel y nodwyd eisoes, recordiwyd y cyfweiliadau wyneb yn wyneb a'r un dros y ffôn er mwyn i'r cyfwelydd ganolbwyntio ar y cyfweiliad a holi ymhellach yn ôl yr angen, heb orfod cymryd nodiadau. Gellid dadlau i hyn fod yn hanfodol er mwyn sicrhau cywirdeb cofnodi'r wybodaeth a gasglwyd, ac er mwyn sicrhau na chamddeallwyd unrhyw beth a ddywedwyd gan y cyfweleion. Ategir y farn hon gan R. Legard, J. Keegan a K. Ward (2003, t.166):

It provides an accurate, verbatim record of the interview, capturing the language used by the participant including their hesitations and tone in far more detail than would ever be possible with note-taking. Audio-recording also becomes a more natural and less intrusive way of recording the interview (R. Legard, J. Keegan a K. Ward, 2003, t.166).

Gellid maentumio i fedru gwranddo ar y recordiad dro ar ôl tro wrth drawsgrifio'r cyfweiliadau fod yn fodd i sicrhau bod y dyfyniadau a geir yng nghorff y traethawd hwn wedi eu cofnodi'n gywir. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad gan y cyfweleion i recordio'r cyfweiliadau, ac ni theimlir bod hyn wedi amharu ar y cyfweiliadau mewn unrhyw fodd gan mai buan yr anghofwyd am y teclyn recordio.

### **Moeseg a gogwydd**

Afraid dweud bod ymwybyddiaeth o faterion moesegol a gogwydd yn hanfodol mewn unrhyw waith ymchwil, a hynny er mwyn diogelu'r ymchwilydd a'r cyfranogwyr fel ei gilydd. Cred S. J. Yates (2004, tt.160-161) fod saith mater moesegol allweddol ynghlwm â gwaith ymchwil sef: cael mynediad at gyfranogwyr; rheoli'r mynediad hwnnw; cydsyniad gwybodus y cyfranogwyr; twyll; hawl i breifatrwydd; yr hawl i

dynnu allan o'r ymchwil, a'r modd y cyflwyna'r ymchwilydd ei hun yng nghyd-destun yr ymchwil. Ystyriwyd pob un o'r rhain wrth fynd ati i drefnu a chynnal y cyfweiliadau. Yn yr un modd, pwysleisia M. Denscombe (2002, t.76) bwysigrwydd ystyried moeseg wrth gyflawni gwaith ymchwil, megis wrth geisio cydweithrediad y cyfranogwyr a sefydlu ymddiriedaeth. Yn ystod y broses gyfweld, cyflwynwyd ffurflen gydsynio (Atodiad 2) i'r cyfweleion yn nodi amcan a phwrpas y gwaith, ac yn gofyn eu caniatâd i recordio'r cyfweiliad a'u henwi yn y gwaith ymchwil. Arwyddwyd pob ffurflen gydsynio.

Fel y dywed D. E. Gray (2009, t.376), rhaid i'r ymchwilydd sicrhau nad yw gogwydd yn llithro i mewn i gyfweiliad mewn unrhyw fodd. Yn ystod y cyfweiliadau hyn, yr amcan oedd casglu barn y cyfweleion, yn hytrach na mynegi barn y cyfwelydd am y pwnc o dan sylw. Nid oedd y cwestiynau a luniwyd felly yn mynegi barn y cyfwelydd mewn unrhyw fodd. Yn ystod y cyfweiliadau, gadawyd i'r cyfweleion siarad yn rhydd, gyda'r cyfwelydd yn procio os am ymateb pellach neu lawnach.

### **Casgliad**

Pwrpas cyffredinol unrhyw waith ymchwil yw dadansoddi a gwerthuso'r wybodaeth sy'n bodoli eisoes yn y maes o dan sylw, dod o hyd i wybodaeth newydd, a chyflwyno canlyniadau a chanfyddiadau'r gwaith ymchwil hwnnw. Ceir dau fath o ymchwil, sef ymchwil ansoddol ac ymchwil meintiol, y naill ddull yn ymwneud â geiriau a'r llall yn ymwneud ag ystadegau a data y gellir eu mesur. Mewn unrhyw waith ymchwil, gellir defnyddio un o'r mathau hyn, neu gyfuniad o'r ddau, a cheir nifer o ddulliau ymchwil oddi mewn iddynt. Defnyddiwyd dau ddull ymchwil yn y gwaith hwn, sef adolygiad a dadansoddiad o'r llenyddiaeth sydd eisoes yn bodoli yn y maes, ynghyd â chyfweiliadau â deg o unigolion i gasglu eu barn a'u safbwyntiau am lenyddiaeth dafodieithol.



## PENNOD 3

### LLENYDDIAETH DAFODIEITHOL GYMRAEG

#### Rhagarweiniad

Yn y bennod gyntaf, ystyriwyd ystyr a natur iaith a thafodiaith a'r defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth, ac yn y bennod hon ystyrir a thrafodir rhai awduron Cymreig a ysgrifennodd yn y cyfrwng hwnnw, a hynny mewn trefn gronolegol. Y bwriad yw rhoi enghreifftiau a blas o'r llenyddiaeth dafodieithol sy'n bodoli yn y Gymraeg, a hynny o wahanol rannau o Gymru. Ni chyfeirir at awduron sy'n ysgrifennu yn nhafodiaith Sir Benfro yn y bennod hon gan mai dyna fydd ffocws penodau 4 i 8. Amcan y bennod felly yw cyfrannu at y drafodaeth ehangach am lenyddiaeth dafodieithol Gymraeg, yn hytrach na chyfyngu'r drafodaeth i un ardal benodol yn unig.

#### Cefndir Llenyddiaeth Dafodieithol Gymraeg

Lliwiodd ffurfiau llafar a thafodieithol yr iaith Gymraeg ei llenyddiaeth ers canrifoedd lawer. Fel y dengys D. G. Jones (1988, t.156), y mae cynnwys geiriau tafodieithol yn nodwedd o lenyddiaeth Gymraeg a hynny yn aml gan i'r deunydd gael ei dynnu o fywyd Cymry cyffredin mewn ardaloedd penodol. Hynny yw, dyma'r cyd-destun sosio-ieithyddol y cyfeiriwyd ato yn y bennod gyntaf. Pwysleisia yn gyffredinol: 'modern literary language has been highly receptive to colloquial words and phrases, and in some notable cases has put them on special display' (D. G. Jones, 1988, t.156). Noder ei sylw ynglŷn â 'special display'; gellid dadlau y ceir tueddiad gan rai awduron i arddangos eu tafodiaith yn bwrpasol, pwynt yr ymhelaethir arno yng nghorff y traethawd hwn.

Ceir ffurfiau llafar a thafodieithol mewn gweithiau llenyddol Cymraeg mor gynnar â Phedair Cainc y Mabinogi, chwedlau a ysgrifennwyd

mewn Cymraeg Canol. Ceir testunau cyflawn ohonynt yn *Llyfr Gwyn Rhydderch*, yn dyddio oddeutu 1300 a *Llyfr Coch Hergest*, sy'n dyddio oddeutu 1400. Gwelwyd y defnydd o dafodiaith hefyd yng nghywyddau'r Oesoedd Canol, ac yn ddiweddarach yng ngweithiau Morgan Llwyd, Ellis Wynne, Theophilus Evans a'r emynydd William Williams Pantycelyn, yn ogystal â'r baledwyr a'r anterliwtwyr (M. Stephens, 1997, t.690).

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dechreuwyd yr arfer o ysgrifennu mewn tafodiaith yn bwrpasol. Ymhlith yr awduron cyntaf i ddefnyddio tafodiaith mewn deialog oedd William Rees (Gwilym Hiraethog), David Owen (Brutus) a'r nofelydd Daniel Owen (M. Stephens, 1997, t.690). Disgrifia A. Jones (1999, t.369) sut y daeth yr arfer o ysgrifennu mewn tafodiaith yn boblogaidd iawn mewn papurau newydd rhwng y 1840au a'r 1870au, ac awgryma mai golygyddion y papurau hyn oedd yr ysgrifenyddwyr tafodieithol mwyaf medrus. Defnyddid tafodiaith mewn hysbysebion i farchnata nwyddau yn ogystal ag i boblogeiddio'r papur, ond pwysleisia A. Jones (1999, t.369) ei bod yn anodd gwybod beth oedd bwriad golygydd drwy wneud hyn a'r effaith y dymunid ei chael ar y darllenwyr. Enghreifftiau o ddefnyddio tafodiaith mewn papur newydd yn y cyfnod hwnnw oedd 'Llythurau 'Rhen Ffarmwr', cyfres gan William Rees yn *Yr Amserau* a 'Cynnadledd y Cryddion', colofn wythnosol Samuel Evans yn *Seren Cymru*. Drwy gyhoeddi rhyddiaith a barddoniaeth mewn iaith lafar yn rheolaidd am gyfnod sylweddol, dadleua A. Jones (1999, t.371) fod papurau newydd wedi llwyddo i 'ymestyn ffiniau Cymraeg ysgrifenedig.'

Erbyn yr ugeinfed ganrif, gwelwyd mwy o lenorion yn mynd ati i ddefnyddio tafodiaith yn eu gwaith, o Sir Gaernarfon i Gwm Tawe, ac o Sir Ddinbych i Sir Gaerfyrddin; awduron megis Winnie Parry, Kate Roberts, D. J. Williams, E. Tegla Davies, Abiah Roderick, Islwyn Williams, Dafydd Rowlands, J. J. Williams, T. Rowland Hughes, Rhydwen Williams, W. Llewelyn Williams, Caradog Prichard a

Meirion Evans. Gwelwyd hefyd ambell ddramodydd, megis Wil Sam Jones a Gwenlyn Parry, yn cynnwys tafodiaith yn eu gweithiau.

Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith bod Cymraeg llenyddol traddodiadol, ar ddechrau'r 1960au, yn ymddangos yn 'glasurlyd anystwyth' ac y byddai cyn hir yn annarllenadwy i Gymry Cymraeg gan fod eu hiaith lafar mor wahanol iddi (I. Ff. Elis, 1998, t.28). O'r 1960au ymlaen, felly, teimlwyd bod awydd i wrthryfela yn erbyn safonau'r iaith lenyddol:

Mae'r cyhuddiadau yn dechrau crynhoi bod yr iaith Lenyddol yn rhy uchel ael, yn rhy academiaidd ac yn rhy anhyblyg, a'i bod hi'r tu hwnt i afael y Cymro cyffredin neu aelodau'r werin. Mewn geiriau eraill, dylid ysgrifennu Cymraeg yn union fel mae hi'n cael ei siarad (R. Trefor, 2014).

Sylwer ar ei ddefnydd o'r geiriau *rhy academiaidd* a *rhy anhyblyg* wrth ddisgrifio'r iaith lenyddol; fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, yn y 1960au y cyhoeddwyd y cyfrolau *Cymraeg Byw* mewn ymgais i bontio gagendor rhwng yr iaith lenyddol a'r iaith lafar. Mae'r sylw bod yr iaith lenyddol y tu hwnt i afael y werin a'r Cymro cyffredin yn amlygu'r hyn y cyfeiriwyd ato eisoes, sef bod perthynas rhwng dosbarth cymdeithasol a thafodiaith. Yr awgrym, yn gyffredinol, yw mai'r dysgedig sy'n ysgrifennu mewn iaith lenyddol.

Down i ddiwedd yr ugeinfed ganrif, a gwelir cyfrolau tafodieithol yn sicrhau'r Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol i'w hawduron, megis *Y Llyffant* i Ray Evans yn 1986, *Si Hei Lwli* i Angharad Tomos yn 1991, a *Seren Wen ar Gefndir Gwyn* i Robin Llywelyn yn 1992. Fel yr awgrymodd D. Johnston (1998, t.131), roedd Robin Llywelyn wrth ei fodd yn chwarae ag iaith ac yn 'ymhyfrydu yn iaith lafar gyfoethog Eifionydd.' Dyma awdur sy'n ymfalchïo yn ei dafodiaith leol, ac sy'n credu ei bod yn haeddu ei lle rhwng dau glawr. Mae'n ddiddorol sylwi sut y mae cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn cynhyrchu cymaint

o gyfrolau tafodieithol, sy'n amlygu awydd yr awduron i ysgrifennu yn eu tafodiaith eu hunain ar lwyfan cenedlaethol.

Ym mlynnyddoedd olaf yr ugeinfed ganrif, daethpwyd i 'sylweddoli'n dorfol botensial celfyddydol rhoi'r iaith lafar mewn print' (A. Price, 2002, t.141), a gwelwyd cyhoeddi nofelau cyfan mewn Cymraeg 'ansafonol.' Er enghraifft, gwnaed defnydd helaeth o dafodiaith a ffurfiau llafar yn nofelau awduron megis Dafydd Huws, Siôn Eirian a Twm Miall ac ym marddoniaeth beirdd megis T. James Jones, Meic Stephens a Ceri Wyn Jones. Amlygodd John Owen dafodiaith y Rhondda yn ei gyfrolau *Pam Fi*, *Duw*, lle disgrifir bywyd mewn ysgol uwchradd a'r cymeriadau'n siarad cymysgedd o iaith safonol, tafodiaith a bratiaith. Honnwyd ein bod yn gweld yng ngwaith John Owen y 'defnydd mwyaf creadigol o'r iaith Gymraeg yn y naw degau' (M. Morgan, 1999, t.131). Defnydd 'creadigol' ym marn un, ond gellid dadlau mai ei nodwedd amlycaf yw amlygu dylanwad y Saesneg, sy'n llygru'r iaith Gymraeg; dyma'r fratiaith honno y cyfeiriwyd ati eisoes:

Wel, ma' Llinos a'i theulu'n llysieuwyr..... So, o'n i'n llysieuwr am y penwythnos hefyd. Neis iawn, meind, wnes i ddim gweld ishe cig o gwbl. Cîsh a salad a thaten trw'i chroen gethon ni a rhyw dreiffl lysh – o'dd hyn i gyd yn y gegin. O ie, o'dd miwsig senter ar y ffenest ac o'n i'n gobsmacd, eto, pan weles i hwn. Ond nage Hei Ffei o'dd e, jyst casét cyffredin 'da spîcyrs anferth!! (J. Owen, 1994, t.80).

Yn yr unfed ganrif ar hugain, gwelwyd tafodiaith Dyffryn Aeron yng ngweithiau Caryl Lewis, megis yn y nofel *Martha, Jac a Sianco* a gyhoeddwyd yn 2004, a thafodiaith Sir Gaernarfon yng nghyfrol Angharad Price *Caersaint*, a gyhoeddwyd yn 2010. Gwelir hefyd awduron megis Harri Parri, Mihangel Morgan a Lleucu Roberts yn ysgrifennu'n dafodieithol. Ar gychwyn ei gyfrol *Pan Oeddw'n Fachgen*, lle mae'r ddeialog wedi ei hysgrifennu yn nhafodiaith y de-ddwyrain, dywed M. Morgan (2002, t.2): 'ni allwn ymgroesi rhag achub ar y cyfle hwn i geisio atgyfodi iaith yr hen fro, yr iaith fel y'i cofiaf hi,' tra hefyd yn

dweud na chadwodd at y dafodiaith yn slafaidd, rhag iddi ymddangos yn rhy ddieithr i ddarllenwyr heddiw. Ysywaeth, mae tafodiaith y de-ddwyrain yn araf ddiflannu, gyda'r iaith fratiog a gyflwynir gan awduron megis John Owen y cyfeiriwyd ati uchod yn cymryd ei lle, a hynny yn sgil newidiadau yn y gymdeithas a phlant ysgol yn dod o deuluoedd di-Gymraeg. Mae sylw Mihangel Morgan nad oedd am i'r dafodiaith ymddangos yn rhy ddieithr i'r darlennydd yn un arwyddocaol o drist felly, yn amlygu ei dirywiad a'i haraf ddiflaniad.

### **Enghreifftiau o llenyddiaeth dafodieithol Gymraeg**

Eir ati yn rhan nesaf y bennod i drafod un ar ddeg o awduron tafodieithol Cymraeg. Dewiswyd awduron o wahanol rannau o Gymru ac o wahanol gyfnodau, er mwyn cyfleu amrywiaeth. Fel y nodwyd eisoes, er mai ffocws y traethawd yw llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro, amcan yr ystyriaeth hon yw rhoi llenyddiaeth dafodieithol Gymraeg yn ei chyddestun a chyfrannu at y drafodaeth ehangach am y maes.

### **Rhys Prichard, 1579 – 1644**

Ganed Rhys Prichard, a elwid hefyd *Y Ficer Prichard* neu *Yr Hen Ficer*, yn Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal â bod yn glerigwr, roedd hefyd yn fardd Cymreig. Er y cyhoeddwyd rhai o'i gerddi yn flaenorol, yn 1681 cyhoeddodd Stephen Hughes, brodor o Gaerfyrddin a chyhoeddwr llyfrau Cymraeg, argraffiad o'i waith o dan y teitl *Canwyll y Cymry*. Cyhoeddwyd nifer o argraffiadau eraill ers hynny. Ceir yng ngherddi Yr Hen Ficer eiriau Cymraeg Canol, geiriau Beiblaidd, geiriau Saesneg yn ogystal â geiriau a nodweddion llafar, tafodieithol, Sir Gaerfyrddin, ac felly awgrymwyd mai ef 'oedd y cyntaf i ddefnyddio iaith y bobl i greu llenyddiaeth' (J. T. Jones, 1977, t.iv).

Disgrifiodd S. N. Richards (1994, t.38) yr iaith lafar hon fel nodwedd fwyaf trawiadol iaith cerddi Yr Hen Ficer, gan ychwanegu ei bod 'wedi ei hanelu at glust cynulleidfa ansoffistigedig yn hytrach nag at lygad

cynulleidfa ddarllengar, soffistigedig.’ Dywed ymhellach mai eglurder mynegiant oedd ei ddelfryd, ac mai'r hyn a sicrhâi hynny fyddai iaith seml, plaen ac uniongyrchol (S. N. Richards, 1994, t.38).

O ran geiriau tafodieithol, y geiriau hynny a ddefnyddid yn gyffredin gan drigolion ardal Llanymddyfri, gwelir yn y cerddi y defnydd o eiriau megis *bilwg, carcus, cwdwm, cwpla, dala, dere, dierth, difaru, drambwl, dyor, ffrwmp, gwachel, hewl, llaca, llycheden, oflyd, plocyn, salw, towla a twtan*. Er enghraifft, yn y gerdd ‘Hil Brutus’ (o argraffiad c.1740 o'i gerddi) gwelir y defnydd o'r gair *carcus*, sef *gofalus*:

Ond moefwch yn garcus, i'n bawb fod yn daclus:  
I fyned yn weddus, ni wyddom pa awr,  
O flaen y Meffias, yngwifc y briodas,  
A thrwffiad cyfaddas i'r neithiawr (Rh. Prichard, c.1740, t.11).

Yn ei argraffiad ef o gerddi Yr Hen Ficer, mae O. M. Edwards (1908, tt.7-8) yn cynnwys rhestr o rai geiriau ar ddechrau'r gyfrol, gan dybio, mae'n debyg, y byddant yn ddieithr i rai darllenwyr. Esbonnir ystyr geiriau megis *brecus* (toredig), *dehoryd* (rhwystro), *didri* (penbleth), *diffin* (byth), *gryddfu* (poeni), *mwnwg* (gwddf), *pinni* (lleithder) ac *ywmnc* (sydyn). Gwelir rhai ohonynt yn y gerdd ‘Anerchiad i'r Brutaniaid’:

A deflir yn g'lyme, mewn cedyrn gadwyne,  
I uffern, i'r poene tragywydd.

Yn uffern y llefan, gan flined eu llosgfan,  
Yn ebrwydd, ar Abra'm, am ddafan o ddwr;  
Pe llefent hyd ddiffin, ni chânt hwy un dropyn,  
Na thamaid, na thipyn o swcwr.

Os gofyn Deheubarth, na Gwynedd o unparth,  
Pwy ganodd y dosparth, i'ch dispwyll rhag ing,  
Eglwyswr, sy'n hoffi eich dad'raidd o'ch didri,  
A'ch cofio am eich cyfri' cyfyng.  
(Rh. Prichard, yn argraffiad O. M. Edwards, 1908, t.35)

Yn ogystal, gwelir ym mhennill cyntaf y gerdd y dyfynnir ohoni uchod enghreifftiau o symleiddio deuseiniaid; aeth *au* yn *e* yn y geiriau *g'lyme*, *gadwyne* a *poene*. Dyma nodwedd seinyddol amlycaf iaith Yr Hen Ficer yn ei gerddi, 'ac adlewyrcha hyn yn sicr iaith Sir Gaerfyrddin' (S. N. Richards, 1994, t.46).

Oherwydd y gymysgfa o eirfa a geir yn y cerddi, awgrymodd D. G. Jones (1946, t.53) fod 'maes helaeth i'r ieithydd yn 'Canwyll Cymry.' Yr hyn a wnaeth Yr Hen Ficer drwy gynnwys y geiriau a'r nodweddion tafodieithol oedd:

nesáu o'r iaith lenyddol at iaith lafar y bywyd gwledig, am i'r iaith lenyddol yng nghywyddau Tomos Prys, Wiliam Cynwal, ac eraill fyned yn ystrydebol farw (D. G. Jones, 1946, t.55).

Roedd Yr Hen Ficer yn ysgrifennu i gynulleidfa leol felly, yn ysgrifennu i bobl Sir Gaerfyrddin yn eu hiaith bob dydd. Awgrymodd S. N. Richards (1994, tt.47-48) iddo ddeall yn glir sut i gyrraedd y gynulleidfa honno, sef trwy fabwysiadu 'iaith yr amaethdy a'r bwthyn, iaith llafurwyr amaethyddol Sir Gâr.'

Serch hynny, rhaid ystyried y gynulleidfa ehangach. Er i Stephen Hughes gyhoeddi gwaith Yr Hen Ficer, roedd ganddo bryder am iaith werinol a thafodieithol y cerddi, ac 'fel cyhoeddwr gwyddai'n eithaf da na fyddai llyfr yn nhafodiaith Dyffryn Tywi yn dderbyniol yng Ngwynedd, er enghraifft, nac yn gwerthu'n llwyddiannus yno' (N. Lloyd, 1994, t.xvi). Aeth Stephen Hughes cyn belled ag ymddiheuro i'r darllenwyr yn ei ragair am yr iaith ddeheuol yn y cerddi, a mynegi ei farn nad oedd yr iaith honno o'r un safon uchel ag iaith Gwynedd (N. Lloyd, 1994, t.xvii). O ganlyniad i'r pryder cyffredinol hwn, roedd cyfaill Stephen Hughes, sef Henry Maurice, yn ei gynorthwyo 'trwy egluro i Gymry'r Gogledd ystyr geiriau o dafodiaith y De a ddigwyddau yn y llyfrau a gyhoeddid' (T. Parry, 1979, t.198). Yn argraffiad 1672 o gerddi Yr Hen Ficer,

cynhwyswyd glosau yn y nodiadau ar y cerddi, a defnyddiai Henry Maurice y glosau hyn i esbonio'r geiriau tafodieithol a'r geiriau Saesneg yn y cerddi (N. Lloyd, 1994, t.xviii).

### **William Williams, Pantycelyn, 1717 – 1791**

Pregethwr, bardd a llenor o Sir Gaerfyrddin oedd William Williams, yn ogystal ag un o emynwyr pwysicaf yr iaith Gymraeg, a chyfunodd yr iaith lenyddol a'r iaith lafar yn ei weithiau. Er y byddai'n gyfarwydd â Chymraeg llenyddol y Beibl, yr oedd William Williams yr un mor gyfarwydd â'r iaith lafar, sef 'Cymraeg tafodiaith, gwynnach na'i chwaer yr iaith lenyddol' (S. Lewis, 1927, t.215). Â S. Lewis (1927, tt.215-216) ymlaen i ddweud bod yr iaith lafar hon yn fyw ac yn iach, a hynny am ei bod yn ystwyth; pwysleisia mai gwir gamp William Williams oedd cymryd ei dafodiaith a'i throi'n offeryn llenyddiaeth, a hynny drwy gymysgu'r iaith lafar a'r iaith lenyddol â'i gilydd a chreu iaith lenyddol newydd iddo'i hun. Awgryma'r ansoddair 'ystwyth' i ddisgrifio tafodiaith ei bod yn haws ei thrin nag iaith safonol.

Mynegir yr un farn ynglŷn â chreu iaith lenyddol newydd gan G. H. Jenkins (1997, t.379), a ddywed fod William Williams, drwy fabwysiadu ffurfiau llenyddol cydnabyddedig yn ogystal â thynnu ar gyfoeth o dafodieithoedd lleol, wedi llwyddo i ddatblygu 'ieithwedd fydryddol a oedd yn wreiddiol ac yn atyniadol.' Sylwer ar y defnydd o'r gair *cyfoeth* wrth ddisgrifio tafodieithoedd; y cyfoeth hwnnw sy'n gwneud yr iaith Gymraeg a'i gwahanol dafodieithoedd yn arwyddocaol.

Yn y dyfyniad isod o un o emynau William Williams o *Y Llawlyfr Moliant Newydd*, gwelir ei allu i gymysgu'r iaith safonol a'r iaith lafar yn ei ddefnydd o'r gair *tyle*; dyma air tafodieithol a arddelir yn Sir Gaerfyrddin ac ardaloedd megis Cwm Tawe:



Fyth ni fetha a gredo ynot,  
Ni bu un erioed yn ôl;  
Mi â 'mlaen, a doed a ddelo,  
Graig a thyle, ar dy ôl (W. Williams, yn E. C. Jones a  
J. Hughes, 1974, t.277).

Er ei ganmoliaeth o allu William Williams i gymryd ei dafodiaith a'i throi'n offeryn llenyddiaeth, yr oedd gan Saunders Lewis ei bryderon yn ogystal, gan bwysleisio bod i'r iaith lafar dafodieithol nifer o anafanteision, megis mai tlawd oedd ei geirfa, cyfyng ei chylch ac mai iaith ddefnyddiol oedd hi yn hytrach nag iaith meddwl a chelfyddyd (S. Lewis, 1927, t.216). Mae'r sylw ynglŷn â chyfyngder cylch tafodiaith yn dwyn i gof y pryder y cyfeiriwyd ato eisoes yn y bennod gyntaf ynglŷn â'r gallu i ddeall tafodieithoedd eraill; rhaid cydnabod y byddai geiriau tafodieithol William Williams, megis *tyle* yn yr emyn y dyfynnir ohono uchod, yn ddieithr ac yn anghyfarwydd i rai.

Rhennid pryder Saunders Lewis gan G. M. Roberts (1960, t.16), a awgrymodd fod y defnydd o dafodiaith yng ngwaith William Williams yn peri tramgwydd i rai, yn enwedig ynglŷn â'i odlau, megis tuedd yn nhafodiaith Sir Gaerfyrddin i droi'r diphthongiaid *ae* ac *oe* yn *a* ac *o* gyda'r geiriau *gwaed* a *troed* yn cael eu seinio fel *gwa'd* a *tro'd*. Er enghraifft, disgrifiodd G. M. Roberts (1964, tt.xiii-xiv) sut yr oedd yr awdur yn odli geiriau megis nos-croes, clod-erioed a gras-maes, gan ddisgwyl i'r darllenydd eu seinio yn ôl arfer ei dafodiaith, a bod ei weithiau'n frith o eiriau llafar megis *gadel*, *gafel*, *'madel*, *rhwdlyn*, *pwlu*, *cwmpni*, *henaf*, *seilfaen*. Yn y dyfyniad isod o 'Golwg ar Deyrnas Crist,' gwelir yr aeth *erioed* yn *erio'd* er mwyn odli â *bod*, a *maes* yn *ma's* er mwyn odli â *ras*:

Cans gall'sai lôr tragwyddol, sy â gallu ganddo'n bod,  
Ddwyn pawb mewn i ogoniant heb iddynt bechu erio'd;  
Ond er helaethu terfyn diderfyn maith ei ras,  
A thannu clod ei Gyfaill i derfyn eitha' 'ma's.  
(W. Williams, yn G. M. Roberts, 1964, t.9)

Er yn peri tramgwydd i rai, rhaid cydnabod mai *erio'd* a arddelir ar lafar mewn nifer o dafodieithoedd o'i gymharu ag *erioed* mewn tafodieithoedd eraill, ac, felly, ei fod yn bodoli ac yn gyfarwydd i nifer. Rhaid nodi hefyd mai addasu at bwrpas llenyddol a wneir, er mwyn sicrhau'r odl.

### **Daniel Owen, 1836 – 1895**

Nofelydd o'r Wyddgrug yn Sir y Fflint oedd Daniel Owen a chyhoeddodd nifer o gyfrolau megis *Y Dreflan* (1881), *Hunangofiant Rhys Lewis* (1885), *Enoc Huws* (1891), *Gwen Tomos* (1894), *Y Siswrn* (1888) a *Straeon y Pentan* (1895). Cynhwysodd Daniel Owen yr iaith lafar yn helaeth yn neialog ei gymeriadau ac, fel y nodwyd eisoes yn y bennod gyntaf, creodd gomedi ac awgrymodd gefndir addysgol a statws cymdeithasol ei gymeriadau drwy eu hieithwedd. Manteisiodd Daniel Owen ar fympwyon yr iaith lafar, megis yn achos y cymeriadau Wil Bryan, Thomas Bartley a Chaptan Trefor (C. M. Jones, 2006a, t.91) gan ddefnyddio tafodiaith y dyn cyffredin fel modd i gwestiynu neu wneud hwyl am y drefn (R. Rhys, 2000, t.126).

Awgrymodd S. Lewis (1936, t.30) fod tafodiaith cymeriadau Daniel Owen yn cyfoethogi ei iaith lenyddol. Yn y dyfyniad hwn o *Hunangofiant Rhys Lewis*, lle mae mam Rhys yn siarad ag ef, gwelir y defnydd o eiriau megis *rampio*, *slaig* a *bydaset*:

'Rwyt ti'n dechre mynd yn fachgen mawr, a fedra' i ddim fforddio, y byd sydd ohoni, dy gadw i redeg ac i rampio. 'Roedd dy frawd wedi dechre yn y gwaith glo cyn bod yn dy oed di o blwc, a mae dy iengach di yn ennill 'u tamed bob dydd, mi wranta. Ond be' fedri di neud ni wn i ddim..... 'Dwyt ti ddim yn gry', mae hynny yn ddigon plaen, ne' i'r gwaith glo y cawsit ti fynd yn syth; 'dwyt ti ddim digon o slaig i fod yn siopwr, a bydaset ti, 'does gen' i ddim i roi o dy flaen (D. Owen, 1885, argraffiad 1948, t.81).

Yn *Y Llenor* yn 1922, ystyria T. Gwyn Jones y cwestiwn a ellir rhoi ffurf lenyddol ar ddeialog nofelau Daniel Owen heb i rywbeth gwerthfawr fynd ar goll? Yr ateb pendant i'r cwestiwn a rydd yw na ellid troi'r ddeialog honno i 'iaith llyfr' heb golli rhywbeth gwerthfawr, er y cyfaddefa nad peth hawdd iddo yw diffinio'r 'rhywbeth' hwnnw (T. G. Jones, 1922, t.233). Gellid awgrymu mai'r 'rhywbeth gwerthfawr' yw naturioldeb y lleferydd a glywid yn ardal yr Wyddgrug yn y cyfnod hwnnw.

Mae tafodiaith Daniel Owen yn aml iawn yn frith o ffurfiau llenyddol, fel yr amlygodd T. G. Jones (1922, t.235), a awgrymodd y dengys hyn naill ai nad oedd yn amcanu at ysgrifennu yn ôl y sain gyffredin, neu na fwriadai fod y ffurfiau llenyddol yn ddim mwy na ffurfiau hwylus y gallai pob darlennydd, wrth ddarllen ei waith yn uchel, eu seinio yn unol â'i dafodiaith ei hun. Fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, awgrymodd nifer o feirniaid fod awdur tafodieithol yn artist yn bennaf yn hytrach nag yn ieithydd ac, o ganlyniad, fe fydd ei dafodiaith yn fwriadol anghyflawn yn aml. Yr hyn a wna Daniel Owen yn ei nofelau, felly, yw rhoi blas o leferydd tafodieithol ei ardal, yn hytrach nag amcanu i roi dehongliad cyflawn o'r dafodiaith honno.

Gwelir nifer o eiriau ac ymadroddion Saesneg yn britho gwaith Daniel Owen, megis yng ngenau Wil Bryan yn *Hunangofiant Rhys Lewis*:

"Mi wyddost," ebe Wil, "be naeth i mi adel cartre; mi fedra i ddeud o mewn dau air – stumog uchel. Y fi oedd wedi arfer dal y mhen mor uchel – wedi bod yn dreifio fel *wild fury* drwy'r strydoedd – wedi bod yn actio'r *gallant* efo'r genethod acw – na, fedrwn i ddim diodde'r *disgrace* o *liquidation* 'y nhad..... Ers rhai diwrnodau cyn i mhres i ddarfod, roeddwn i wedi bod yn cogordroi o gwmpas y stablau i bigo tipyn o *information*, achos roeddwn i'n gweld mai i hynny ddi hi. Mi wyddost nad oeddwn i ddim mewn *rags*, a hwyrach fod yno 'i dipyn gormod o *swagger*, ac ar y dechre roedd y *cabbies* yn gneud *bow* i mi, fel bydaswn i yn rhwfun (D. Owen, 1885, argraffiad 1948, t.313).

Ni chlywodd T. G. Jones (1922, t.234), neb yn yr Wyddgrug yn britho cymaint ar ei Gymraeg â Wil Bryan, trwy ddod â chynifer o eiriau Saesneg i mewn iddi, geiriau na fenthyciwyd erioed i unrhyw dafodiaith Gymraeg. Anghytuna E. G. Millward (1983, t.493) â'r farn hon; wrth gydnabod bod geirfa Saesneg a phriod-ddulliau estron yn frith yn nofelau Daniel Owen, pwysleisia mai dyma'r Gymraeg a siaredid yn yr Wyddgrug yng nghyfnod yr awdur, ac felly y gellir dadlau bod y ddeialog yn ei waith yn llenyddol gywir, os nad yn ramadegol gywir.

### **Winnie Parry, 1870 – 1953**

Awdur a golygydd *Cymru'r Plant* o 1908 hyd 1912 oedd Winnie Parry a aned yn y Trallwng. Yn 1906, cyhoeddodd y gyfrol *Sioned*, sef storïau am ferch dwy ar bymtheg oed, ei gobeithion, ofnau a rhwystredigaethau. Yr oedd hefyd yn portreadu cymdogaeth wledig Gymraeg ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ysgrifennwyd y gyfrol yn nhafodiaith Sir Gaernarfon, gan dorri tir newydd yr adeg honno. Rhydd y dyfyniad hwn o'r gyfrol flas o'r dafodiaith honno:

Ond toedd gin i ddim plesar yn y biliffwdan nag yn gwelad Bob yn gneyd sport o'r hancetsi coch. 'Roedd y gwpan de honno'n pwyso ar 'y meddwl i, sut gnawn i ddeyd wrth mam, achos 'roeddwn i wedi penderfynu deyd wrthi. Fedrwn i ddim edrach yng ngwyneb Bob, a fedrwn i ddim diodda 'i glywad o'n 'y ngalw i'n "Sioned bach," yn y llais fydd o'n arfer weithia pan fydd o'n meddwl y byddai'n ddigalon. Fedar Bob ddim diodda rhywun yn twyllo neu yn cuddio rhyw ddrwg fyddan nhw wedi 'neyd. Tydi o ddim yn hitio yn rhyw dricia diniwad, ond pan ddeydith rhywun anwiredd o ddifri, mi fydd yn mynd i edrach yn ddig ofnatsan (W. Parry, 1906, t.76).

Canmolodd T. Parry (1945, t.22) yr awdur ar y gyfrol am ei bod yn cynnwys dychymyg, cymeriadau clir a 'meistrolaeth ar yr iaith lafar.' Y gair 'meistrolaeth' yw'r un pwysig yma, sef bod yr awdur yn medru trin a thrafod yr iaith lafar, a'i throsglwyddo i'r ffurf ysgrifenedig. Yr un yw canmoliaeth D. Jenkins (1999, t.61) a gred fod naturioldeb arddull

dafodieithol yr awdur yn cyfrannu'n fawr at naifrwydd y gwaith, fel yn achos y nofel *Un Nos Ola Leuad*. Awgryma fod annaturioldeb yn nam amlwg ar grefftwaith nofelau'r cyfnod a bod gwaith Winnie Parry'n fwy disglair, ond cyfaddefa ei bod yn haws i'r awdur ysgrifennu'n naturiol 'wrth gopïo'r iaith lafar nag wrth dderbyn safonau anystwyth traddodiad rhyddiaith y bedwaredd ganrif ar bymtheg' (D. Jenkins, 1999, t.61). Sylwer ar yr ansoddair *anystwyth*, sydd, fel *anhyblyg*, yn cael eu defnyddio'n aml i ddisgrifio iaith safonol. Gellid dadlau felly, fel y gwnaed eisoes yn y bennod gyntaf wrth gyfeirio at yr iaith safonol a arddelwyd gan John Morris-Jones, mai rhyddhau eu hunain o ffurf gaeth yr iaith honno a cheisio iaith fwy hyblyg, haws ei thrin a wna llenorion drwy ysgrifennu'n dafodieithol.

Siarad yn naturiol a wna Sioned yn y gyfrol hon, sy'n hollol dderbyniol a dealladwy. Fel yr awgrymodd M. L. Hughes (1988, t.xi), gwyddai'r awdur na allai Sioned 'fyw' heb iddi siarad yn naturiol, ac oherwydd hynny y dewisodd iddi adrodd ei stori yn nhafodiaith Sir Gaernarfon. Wrth bwysleisio bod llifeiriant tafodieithol y gyfrol yn ei wneud yn waith unigryw yn ei gyfnod, dywed fod 'y fath gyflwyniad yn rhoi rhyw ystywythder a chynhesrwydd i'r mynegiant ac yn gosod cyflymdra ar y dweud na chafwyd mo'i debyg mewn llenyddiaeth Gymraeg cyn hynny' (M. L. Hughes, 1988, t.xi). Mae'r sylw ynglŷn â methu 'byw' heb siarad yn naturiol yn un arwyddocaol, gan mai'r naturioldeb hwnnw sy'n creu naws real ac agos-atoch.

Er ei ganmoliaeth i'r gyfrol, holodd M. L. Hughes (1988, tt.13-14) ai'r defnydd o dafodiaith ardal benodol a gyfyngodd ar ei hapêl, gan gyfeirio at farn Ifan ab Owen Edwards fod ei hapêl wedi ei chyfyngu i ardal Sir Gaernarfon yn unig. Fel y nodwyd eisoes, rhaid cydnabod y gall apêl llenyddiaeth dafodieithol fod yn fwy lleol na chenedlaethol.

## D. J. Williams, 1885 – 1970

Llenor a aned yn Llansawel, Sir Gaerfyrddin, oedd D. J. Williams. Cyhoeddodd nifer o gyfrolau megis *Hen Wynebaw* (1934), *Storiau'r Tir* (1936, 1941 a 1949) a *Hen Dŷ Ffarm* (1953). Cyfunodd D. J. Williams yr iaith safonol a'r iaith dafodieithol yn ei weithiau gan ddefnyddio ffurfiau safonol gan amlaf wrth adrodd a ffurfiau tafodieithol wrth gyfleu lleferydd ei gymeriadau. O ganlyniad, llwyddodd i 'wau'r ddwy ynghyd yn un brethyn cyfoethog yn ôl patrwm a thraddodiad llên Sir Gaerfyrddin' (S. Lewis, 1965, t.127). Cred S. Lewis (1965, t.129), mai'r agosaf y mae'n closio at iaith lafar ei fro, 'cadarnaf yw ei gystrawen a chyfoethocaf ei eirfa'. Sylwer fel y mae barn Saunders Lewis wedi newid erbyn hyn; wrth drafod gwaith Williams Pantycelyn yn 1927, y cyfeiriwyd ato eisoes, pryderai fod i'r iaith dafodieithol nifer o anfanteision, megis mai tlawd oedd ei geirfa. Deugain mlynedd yn ddiweddarach, cred fod geirfa dafodieithol D. J. Williams yn gyfoethog. Gellid awgrymu, wrth i fwy o awduron ysgrifennu'n dafodieithol, fod yr eirfa wedi ehangu a dod yn fwy cyffredin, a bod agweddau'r oes wedi newid yn ogystal.

Annaturiol fyddai rhoi iaith safonol yng ngenau cymeriadau cefn gwlad Sir Gaerfyrddin, neu unrhyw ardal arall. Gellid cytuno â K. Roberts (1965, t.133), felly, mai'r iaith a siaredir mewn bro a ddisgwylir mewn storïau am bobl leol y fro honno pan fyddant yn sgwrsio'n naturiol â'i gilydd. Yn y dyfyniad isod o *Hen Dŷ Ffarm*, sylwer ar y defnydd o eiriau tafodieithol megis *mhoelyd*, *crwt* a *towlu*:

Er mwyn rhoi reial brawf ar y peiriant, meddai Ifan, fe'i treiwyd, ar unwaith, ar y man mwyaf llethrog ar dop y cae. I'w gadw rhag mhoelyd, ychwanegai, "rhwymwyd bowlen (*pole*) hir, ma's bishyn dros dop y mashîn, yr ochr ucha. 'Y ngwaith i wedyn, 'r ych chi'n gweld, yn hen grwt heb fod yn rhy drwm, oedd 'istedd fel giâr ar glwyd ar y bowlen hon tra fydde'r mashîn yn torri ystod yn gro's i'r ca'. A 'wir i chi, 'r own i'n leico'n jobin yn net. Ond, bois bach, fe a'th y whîl ucha dros ben twmpath o bridd y wadd ne r'wbeth, a 'wyddwn i o'r

wheddel nes y mod i'n ca'l 'n nhowlu, whiw, lan fry-fry i'r awyr, ac yn disgyn, wedyn, fel broga, gritsh-gratsh" (D. J. Williams, 1953, t.82).

Wrth gydnabod mai tafodiaith rhan benodol o Sir Gaerfyrddin a ddefnyddiwyd gan D. J. Williams yn ei storïau, pwysleisiodd K. Roberts (1965, t.133), nad oedd yn cyflwyno'r dafodiaith honno yn union fel y siaredid hi, a thrwy hynny dynnu sylw dianghenraid ati. Yr awgrym felly yw bod rhai awduron yn tynnu sylw at y dafodiaith yn bwrpasol, a gellid dadlau bod hynny'n wir, fel yr amlygir yn y bumed a'r chweched bennod. Fel yr awgrymwyd eisoes, mae'r defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth yn aml yn fwriadol anghyflawn ac yn ddehongliad yr awdur ohoni. Rhoi blas o dafodiaith ei fro a wna D. J. Williams, fel nifer o awduron eraill, yn hytrach na chynnig union bortread ohoni. Gellid disgrifio D. J. Williams, felly, fel 'artist iaith yn rhoi rhywfaint o arlliw lleol a naws lafar i'w ysgrifennu llenyddol' (C. H. Thomas, 1993, t.299). Gellid awgrymu mai mantais hyn yw nad yw'n dieithrio darlennydd o du allan i'r ardal i'r un graddau ag y gall llenyddiaeth mewn tafodiaith o bosib ei wneud.

### **Kate Roberts, 1891 – 1985**

Ganed Kate Roberts yn Rhosgadfan. Ymhlith ei chyhoeddiadau mae *O Gors y Bryniau* (1925), *Deian a Loli* (1927), *Rhigolau Bywyd* (1929), *Te yn y Grug* (1959), *Y Lôn Wen* (1960), *Prynu Dol* (1969) a *Haul a Drycin* (1981). Yr oedd i'r dafodiaith a feddai ran amlwg yn ei hysgrifennu ac yn ogystal â chynnwys geirfa lafar y cyfnod yn ei gweithiau, ceir enghreifftiau ohoni'n atgyfodi hen eiriau a gollwyd o'r iaith, megis yn y storïau 'Prynu Dol' a 'Yr Enaid Clwyfus' o'r gyfrol *Prynu Dol*:

Byddai'n arfer pregethu fel hyn wrth y ci, er mwyn cael clywed hen eiriau anghofiedig yr iaith Gymraeg yn rowlio dros ei genau, geiriau fel *ffaligragwd*, *gyrbibion ulw*, *straffaglio*, *newydd sbon danlli grai*. Ond ni byddai'r ci yn deall, ddim mwy na phobl ieuainc yr oes bresennol (K. Roberts, 1969, t.28).

Meddwl neu beidio, 'roedd y siom yn aros, a Mari wrth weld hynny yn dechrau areithio wedyn, 'Dyma chdi yn poeni am fod rhyw silidón fel Williams wedi i ddewis yn flaenor a chdithau ddim : rhyw chwisl dun fel yna, sgellyn sgellog dau ben pennog, yr hislen ddefaid, y pendew stylcaidd iddo fo; yr hen standiffollach bach balch; rhyw chwydling fel yna, beth ydi o yn dy ymyl di?' Rhaid na wŷr y bobol yna sydd yn gweithio ar y Geiriadur Mawr ddim am eirfa Mari, neu mi fuasent wedi gofyn am ei help (K. Roberts, 1969, tt.48-49).

Cymysg oedd yr ymateb i'r defnydd hwn o dafodiaith yn ei gweithiau. Wrth adolygu'r gyfrol *Prynu Dol*, yr oedd B. Griffiths (1970, t.108), er yn cydnabod bod Kate Roberts yn meddu ar eirfa dafodieithol gyhyrog Arfon, o'r farn bod yr enghreifftiau uchod yn swnio'n annaturiol ac mai 'esgus oedd i'r awdures arddangos y cyfoeth enllibion sydd ar gael mewn tafodiaith.' Wrth gyfeirio at sylw Kate Roberts yn yr ail ddyfyniad uchod ynglŷn â'r Geiriadur Mawr, awgrymodd B. Griffiths (1970, t.109) y byddai angen geiriadur amgenach i ddehongli'r dafodiaith Arfoneg, a chan mai geiriau a oedd yn gyfyngedig i dafodiaith un ardal a ddefnyddid ganddi, nad oedd siaradwyr Cymraeg rhannau eraill o Gymru yn eu deall. Roedd Kate Roberts yn cydnabod bod yr hen eiriau yn 'anghofiedig' erbyn hyn, ond yn amlwg yn teimlo'r angen i'w cofnodi. Gellid dadlau ar y naill law ei bod o bwys hanesyddol i gofnodi hen eiriau fel y rhain, ond ar y llaw arall y gall hyn amharu ar werth llenyddol y gyfrol a'r ddealltwriaeth ohoni. Gellid awgrymu y byddai cofnodi hen eiriau fel y rhain mewn geiriadur tafodieithol yn fodd effeithiol o'u diogelu rhwng dau glawr gan y byddai modd cynnwys mewn geiriadur o'r fath eu hystyron ac enghreifftiau o'u defnydd.

Yr oedd G. Gruffydd (1927, t.61) eisoes wedi mynegi barn am ddealltwriaeth wrth adolygu'r gyfrol *Deian a Loli*. Cyfeiriodd at rai geiriau megis *scwl*, *handlan*, *o'i go las*, *shefl* a *gweitiad* gan fynegi pryder mai mewn un rhan o Gymru yn unig y deëllir yr eirfa hon yn llwyr. Holodd a fyddai'n bosib ysgrifennu mewn 'rhyw iaith ganol sydd yn ddealladwy i bawb' (G. Gruffydd, 1927, t.61), gan ei bod yn drueni nad



oedd rhai yn medru mwynhau'r gyfrol. Dyma Kate Roberts yn dioddef yr un feirniadaeth â Winnie Parry am gyfyngu'r gynulleidfa ddarllen i ardal Caernarfon. Ar y naill law byddai 'iaith ganol' yn sicrhau dealltwriaeth ehangach o lenyddiaeth ond ar y llaw arall yn amddifadu darllenwyr o'r ystod o dafodieithoedd Cymraeg. Dyma ddilema sylfaenol teithi'r Gymraeg y cyfeiriwyd ato yn y bennod gyntaf.

Ymateb yn chwyrn i'r farn hon a wnaeth Kate Roberts ei hun. Mewn ymateb i adolygiadau o'i chyfrol *Laura Jones*, a gyhoeddwyd yn 1930, yn beirniadu ei defnydd o dafodiaith, cyhoeddodd Kate Roberts erthygl yn *Y Llenor* yn 1931 yn dwyn y teitl 'Tafodiaith mewn Storiâu' yn amddiffyn y defnydd o dafodiaith yn ei gwaith hi ei hun ac mewn rhyddiaith yn gyffredinol. Cyfeiriodd at storiâu lle yr ysgrifennwyd y darnau disgrifiadol mewn iaith safonol a'r siarad mewn tafodiaith, gan honni bod rhai adolygwyr yn gweld tafodiaith yn unig drwy'r holl lyfr (K. Roberts, 1931, t.55). Gellid dadlau bod hon yn agwedd unllygeidiog ac yn enghraifft o fethu â mynd heibio i'r dafodiaith a gweld y darlun cyfan. Pwysleisiodd Kate Roberts ei bod yn credu mewn 'ieuo iaith lenyddol a thafodiaith hyd y mae'n bosibl, h.y., onid amhara hynny ar werth y llyfr fel gwaith celfyddyd', gan esbonio ei bod hi, yn ei storiâu, yn cyfleu'r *dull* y siaredir yn ardal Caernarfon yn hytrach nag yn nodi'n *hollol* fel y siaredir (K. Roberts, 1931, t.55). Fel yr awgrymwyd eisoes, mae'r defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth yn aml yn fwriadol anghyflawn, a'r hyn a wneir yw rhoi blas ac arlliw o dafodiaith.

Credai Kate Roberts mai ffwlbri yw'r syniad nad yw Cymry'r De a'r Gogledd yn deall ei gilydd yn siarad. Cyfeiriodd at ei chyfnod yn athrawes yn ne Cymru, lle na chafodd y plant a addysgodd erioed anhawster wrth ddarllen y gyfrol dafodieithol *Hunangofiant Tomi*. Cyfaddefai nad oeddent yn deall pob gair, ond dywedodd mai prin y mae unrhyw ddarllenydd yn deall bob gair o unrhyw lyfr, ac 'onid digon inni'n aml ddeall rhediad y stori a mwynhau'r rhan fwyaf o'r geiriau' (K. Roberts, 1931, t.58). Gellid cytuno nad yw pob gair unrhyw lyfr yn

ddealladwy i bob darllenydd, boed mewn iaith safonol neu dafodiaith, ond nid oes rhaid i hynny amharu ar y mwynhad o'r llyfr. Gellid maentumio hefyd bod modd gwerthfawrogi'r grefft o drin geiriau heb ddeall pob un ohonynt. Ni olyga hyn y dylid symleiddio iaith, gan fod yn rhaid cynnal a sicrhau safon. Yr hyn a wnaeth Kate Roberts, ar ddiwedd cyfrolau megis *Laura Jones, Deian a Loli a Traed Mewn Cyffion*, oedd egluro rhai geiriau ac ymadroddion lleol, sy'n fodd effeithiol o ehangu dealltwriaeth o eirfa dafodieithol.

Er y beirniadwyd Kate Roberts gan rai am ei defnydd o dafodiaith, yr oedd eraill yn ei ganmol, megis Saunders Lewis. Mewn ymateb i lythyr gan Kate Roberts yn 1931 yn cyfeirio at y ffaith ei bod yn ysgrifennu erthygl i *Y Llenor* ar dafodiaith mewn storïau, datgan ei gefnogaeth wnaeth Saunders Lewis gan ddweud ei bod yn hollol iawn fod yn rhaid iddi wrth dafodiaith yn ei gwaith, a 'diolch am hynny' (S. Lewis yn D. Ifans, 1993, t.81). Credai Saunders Lewis i Kate Roberts ddeall gwerth y gair prin mewn llenyddiaeth gan roi yn ei gweithiau'r geiriau cyffredin hynny a glywyd yn Rhosgadfan: 'cymerth hithau'r geiriau hyn, enwau dillad a chelfi a bwydydd a phetheuach tŷ a ffarm, ac ar llyn ei chystrawen draddodiadol fe'u gwelir hwy bellach yn ddisglair megis paderau o'r dwyrain' (S. Lewis, 1981, t.3).

Awgrymodd J. Emyr (1976, t.170) i Kate Roberts benderfynu, wrth ddechrau ysgrifennu, mai iaith trigolion Rhosgadfan fyddai'n rhoi 'lliw' i iaith ei storïau a bod tafodiaith yn apelio ati. Serch hynny, cyfeiria ati ar y naill law fel y llenor 'realidd' a hoffai lynu'n agos at yr iaith lafar, ac ar y llaw arall fel llenor crefftus a oedd yn ymwybodol o safon ac urddas yr iaith lenyddol. Cafodd ei thrwytho yn yr iaith Gymraeg wrth ddilyn cyrsiau Gramadeg a Ffiloleg John Morris-Jones yn y Brifysgol ym Mangor (A. Llwyd, 2011, t.35). Felly, roedd y 'tyndra rhwng Cymraeg y coleg – Cymraeg cywir yn ôl safonau John Morris-Jones – a thafodiaith y gymdeithas ddwyieithog yn amlwg yn storïau a nofelau'r ail gyfnod' (J. Emyr, 1976, tt.170-171). Gellid rhesymu bod Kate Roberts, ar y naill

law, am barhau'n driw i dafodiaith ei chymdeithas, ond ar y llaw arall wedi dod o dan ddylanwad John Morris-Jones a'i bwyslais ar yr iaith lenyddol fel 'gwir' iaith ysgrifennu.

Honnodd E. L. Roberts (1994, t.113) mai rheidrwydd i Kate Roberts oedd cynnwys yr hen eiriau yn ei gweithiau, gan mai'r geiriau hyn oedd yr 'edeuon a'i daliai wrth ei chartref a'i chymdeithas ac a'i tynnai'n ôl gyda phlwc.' Pwysleisiodd y gallai'r ysfa hon fod wedi troi'n 'obsesiwn,' ond yn hytrach iddi fodloni ar gynnwys yr hen eiriau yma ac acw yn unig, ac mai'r hyn oll a wnâi oedd adleisio'r eirfa gyfoethog yn sgysiau'r aelwyd yn Rhosgadfan, gan ofyn pa ots fod rhai ohonynt yn ddieithr i'r darlennydd gan nad yw'n anodd dyfalu eu hystyron a'u bod, yn rhoi 'lliw llawer cryfach ar ddarluniau a disgrifiadau nag un y pastel' (E. L. Roberts, 1994, tt.114-115). Mae'r gair 'obsesiwn' yn un diddorol, gan y gellid dadlau bod rhai awduron tafodieithol eraill yn cymryd y cyfle i arddangos y dafodiaith a'i gorliwio, fel yr awgrymwyd eisoes ac yr ymhelaethir yn ei gylch yn nes ymlaen.

### **Islwyn Williams, 1903 – 1957**

Awdur storiâu byrion a aned yn Ystalyfera oedd Islwyn Williams, ac ysgrifennodd y rhan fwyaf o'i waith yn nhafodiaith Cwm Tawe. Cyhoeddodd y cyfrolau *Cap Wil Tomos* yn 1946 a *Storiâu a Phortreadau* yn 1954. Ceir nodweddion unigryw yn nhafodiaith Cwm Tawe, megis caledu cytseiniaid yng nghanol geiriau, megis *gwpod*, *catw*, *cretu*, *llyced* a *dicon* a'r terfyniad *-ws*, trydydd unigol gorffennol y ferf, megis *gwelws* a *gwetws*. Gwelir enghreifftiau o'r rhain yn yr ysgrif 'Y dyn bach o'r wlad' a'r stori 'Y Pren Rhosyn', lle ceir y naratif a'r ddeialog mewn tafodiaith:

Fe fûws yn dawel iawn am y chwarter awr cynta. Wy'n cretu i fod e'n watshen y crowd yn fwy na dim, yn enwetig Wil a fi. Cofiwch, caled ôdd hi i ddoti'r sprag mlân a thrio bod yn weddol o didi; ond 'na fe, wedi'r cwbl, where teg i bregethwyr - ma jobyn bach diflas iawn 'da nhw (I. Williams, 1946, t.53).

Fe fûws yn dawel am gwpwl o fynete, yn dishgwyl ar y pren bach o'i fla'n e fanny a thynnu fel stac wrth i bib. Ond o'r diwedd 'ma fe'n troi ato i (I. Williams, 1954, t.53).

Yr hyn a welir yn y dyfyniadau hyn yw portread yr awdur o dafodiaith naturiol, bob dydd, trigolion cyffredin Cwm Tawe. Cyfeiriwyd eisoes yn y bennod gyntaf at farn Islwyn Williams ei hun fod tafodiaith yn gyfrwng addas i ymdrin â phrofiadau'r dyn cyffredin, a'i fod, yn nhermau naturioldeb ac ystwythder, yn rhagori ar unrhyw ddull arall (I. Williams, 1949, t.63). Gwelir yma hefyd falchder awdur yn ei fro, ei bobl a'i iaith yn cael ei amlygu yn ei lenyddiaeth. Fel y dywed K. Roberts (1971, t.236): 'mae, trwy ei dafodiaith, fel petai'n gafael yn ei gymeriadau a'u hanwesu, a dweud, "Edrychwch yma, dyma bobl fy nghwm i." Yn wir, gellid dadlau bod balchder a hunaniaeth yn nodweddiadol o awdur tafodieithol, pwynt yr ymhelaethir arno wrth drafod awduron tafodieithol Sir Benfro.

Yn ei ddarlith 'Islwyn Williams a'i Gymdeithas', canmola D. Ll. Morgan (1980, tt.31-32) ddefnydd yr awdur o'i dafodiaith gan ddweud: 'un o'r rhesymau paham y mae gwaith Islwyn Williams yn argyhoeddi yw ei fod yn darlunio'i bobl yn eu hiaith nhw eu hunain' ac y dengys 'cyfoeth ei dafodiaith' ei adnabyddiaeth ohoni. Sylwer ar ei ddefnydd o'r gair 'argyhoeddi', sy'n awgrymu bod ysgrifennu Islwyn Williams yn gredadwy ac iddo lwyddo i'n argyhoeddi ei fod yn defnyddio'r iaith fwyaf addas i'w fynegi ei hun. Fel yr awgrymwyd eisoes, ar y naill law gellid dadlau bod *naturioldeb* yn air allweddol mewn unrhyw drafodaeth am lenyddiaeth dafodieithol, sef caniatáu i gymeriadau siarad yn eu hiaith eu hunain, ond ar y llaw arall gall hyn amharu ar ddealltwriaeth y darlennydd.

Cyfeiriwyd eisoes at y berthynas rhwng tafodiaith a chomedi mewn llenyddiaeth. Awgrymodd K. Roberts (1971, t.232) fod 'y dafodiaith yn ychwanegu at y digrifwch' yn storïau Islwyn Williams, ac er ei fod yn dweud pethau digri yn ei iaith safonol, fod pethau'n mynd yn ddigrifach o

lawer pan ysgrifenna mewn tafodiaith. Dywed ymhellach: ‘yn wir, bydd arnaf eisiau chwerthin pe na bai’n dweud dim ond “Shwd ych chi heddy?”’ (K. Roberts, 1971, t.236). Ymddengys y sylw hwn yn un rhyfedd, yn enwedig gan awdur fel Kate Roberts y cyfeiriwyd ati eisoes fel un a orfu amddiffyn ei defnydd hi ei hun o lenyddiaeth dafodieithol, gan nad yw’r cwestiwn yn un sy’n ceisio ennyn chwerthin, ond yn un tafodieithol cyffredin yn Ne Cymru.

Er na ellid cytuno â sylw Kate Roberts uchod, gwna bwynt pwysig pan ddywed:

Ceir Cymraeg Cwm Tawe ar ei orau yn hynyna o beth; ac er bod cymaint o dafodiaith, gofalwyd bod yr iaith yn gywir. Nid fel rhai awduron sy’n tybied y gwna iaith anghywir y tro mewn tafodiaith (K. Roberts, 1971, t.237).

Fel yr awgrymwyd eisoes, afraid dweud bod angen cywirdeb wrth ysgrifennu iaith safonol ac mae angen yr un cywirdeb wrth ysgrifennu’n dafodieithol. Y perygl wrth ysgrifennu mewn tafodiaith yw credu y gellid defnyddio unrhyw wedd ar iaith o ran geirfa neu ramadeg. Mae’n werth dyfynnu safbwynt Mihangel Morgan yma; yn deitl i stori fer o’i eiddo mae ‘Meri a Mwy (ar Sado-Masocistiaeth) nag Ambell Chwip Din neu: Sut i shgwennu storis i bobol Cymru os yw’ch Cymraeg yn crap drwy smalio shgwennu fatha plentyn bach mewn tafodiaith a chael getawê’ M. Morgan (1995, t.36). Er y posibilrwydd mai sylw tafod yn y boch yw, cwyd pwynt difrifol ynglŷn â meddwl y gwnaiff unrhyw beth y tro wrth ysgrifennu mewn tafodiaith. Ymhelaethir ar y pwynt hwn yn y bumed a’r chweched bennod, ac, er yr amlygir bod sillafiad geiriau tafodieithol yn medru amrywio, dadleuir hefyd bod angen glynu wrth reolau gramadegol wrth ysgrifennu’n dafodieithol.

Roedd Islwyn Williams yn ysgrifennu’n aml ar gyfer cyfrwng y radio yn ogystal. Gellid awgrymu bod hyn, felly, yn ehangu’r gynulleidfa a ddeuai ar draws tafodiaith Cwm Tawe (pwynt yr ymhelaethir yn ei gylch ym

mhennod wyth wrth drafod W. R. Evans a chaneuon tafodieithol Sir Benfro a genid gan 'Bois y Frenni'). Er enghraifft, er y balchder a deimlid gan deulu Derec Llwyd Morgan bod Islwyn Williams yn ysgrifennu yn eu tafodiaith, dywed ei fod yn eithaf sicr na ddarllenodd neb o'i deulu agos air o gyfrolau'r awdur, ond iddynt serch hynny wrando llawer arno ar y radio – ei storïau, ei ddramâu a'i sgriptiau brodorol (D. Ll. Morgan, 1980, tt.5-6). Byddai'r dafodiaith yn gyfarwydd iddynt hwy wrth gwrs, ond yn anghyfarwydd diau i bobl mewn ardaloedd eraill o Gymru, ond roedd ei chlywed fel hyn yn fodd iddynt ymgyfarwyddo â hi.

Un o'i weithiau a ddarledwyd ar y radio oedd y ddrama un act 'Cap Wil Tomos'. Dyma sut yr oedd Jac a Tom, dau ewythr i Wil, yn trafod y gêm bêl-droed lle'r enillodd Wil ei gap cyntaf dros Gymru:

Jac: Wel, tawn i marw, y peth cynta ofynnws e ar ôl i'r gêm ddechre – beth wyt ti'n feddwl?

Tom: 'Wn i ddim.

Jac: "Beth yw arwyddocâd yr holl stryms 'ma?"

Tom: Stryms ed!

Jac: Fe elli di wherthin, ond nace testun sbort ôdd i fi y dywrnod 'ny, machan i!

Tom: Na, wy'n gallu diall 'ny.

Jac: Wel, y peth nesa ofynnws e ôdd os taw wing ôdd Wil yn whare.

Tom: Nâg e!

Jac: "Clyw Ifan," wetes i, "er mwyn popeth, bydd yn dawel a gâd dy fothers. Wyt ti'n hala cwilydd arno i fan hyn. A er mwyn y nefoedd, paid â yngan gair wrth neb dy fod ti'n dad i Wil, druan, ne 'chwnniff y pŵr dab ddim o'i ben byth mwy!"

Tom: *Fuws* e'n dawel?

Jac: 'Agorws e ddim o'i ben nes bo' diwedd y secon hâff. B'ytu bum muned o'r diwedd, 'ma fforwards Newport yn dechre c'mysgu pethe –

Tom: Trysta *nhw!*

(I. Williams, 1951, tt.18-19)

Dyma enghreifftiau o weithiau Islwyn Williams a ddarllledwyd ar y radio:

| <b>Gorsaf</b>    | <b>Darllledwyd</b>                       | <b>Rhaglen</b>  |
|------------------|--|---|
| BBC Home Service | Dydd Llun<br>10 Mai 1948, 19.45          | 'Y Fargen': Stori gan Islwyn Williams                         |
| BBC Home Service | Dydd Sadwrn<br>28 Mai 1949, 18.45        | 'Y Llywydd': Stori newydd gan Islwyn Williams                 |
| BBC Home Service | Dydd Mawrth<br>26 Chwefror 1952, 21.15   | 'Y Gymanfa Ganu': rhaglen nodwedd gan Islwyn Williams         |
| BBC Home Service | Dydd Mawrth<br>29 Gorffennaf 1952, 20.00 | Welsh play: 'Y Deuddyn Hyn' gan Islwyn Williams               |
| BBC Home Service | Dydd Mawrth<br>11 Awst 1953, 20.15       | Arogleuon: rhaglen nodwedd gan Islwyn Williams                |
| BBC tv           | Dydd Iau<br>27 Ionawr 1955, 18.45        | Cap Wil Tomos: Comedi gan Islwyn Williams                     |
| BBC tv           | Dydd Iau<br>17 Chwefror 1955, 18.45      | Cap Wil Tomos: Comedi gan Islwyn Williams                     |
| BBC Home Service | Dydd Gwener<br>30 Rhagfyr 1955, 20.15    | 'Mab 'i Dad': Welsh story by Islwyn Williams                  |
| BBC Home Service | Dydd Mawrth<br>3 Medi 1957, 19.00        | Arogleuon: memories evoked by scents, by Islwyn Williams      |
| BBC Home Service | Dydd Mawrth<br>10 Medi 1957, 18.45       | Gwraig y Glowr: portrait of a miner's wife by Islwyn Williams |

Ffynhonnell: BBC Genome BETA Radio Times 1923 – 2009

### **Caradog Prichard, 1904 – 1980**

Prifardd, nofelydd a newyddiadurwr o Fethesda oedd Caradog Prichard. Mae ei gyfrol enwocaf, y nofel *Un Nos Ola Leuad* (1961), yn enghraifft o *lenyddiaeth mewn tafodiaith*. Anfonodd yr awdur bennod o'r nofel at Kate Roberts, fel perchennog Gwasg Gee, a hi a'i hanogodd i frwr ymlaen â'r gwaith ac i gyhoeddi'r nofel (M. Baines, 2005, t.87). Gellid dyfalu mai un o'r rhesymau am ei hanogaeth oedd y ffaith bod y gyfrol mewn tafodiaith gan i ni weld eisoes pa mor bleidiol oedd hi i'r cyfrwng hwnnw, a'i bod yn awyddus i weld mwy o'r math hwn o ysgrifennu.

Esbonia R. Trefor (2014) fod y gyfrol yn gyson iawn o ran ei thafodiaith, er nad yw'n gwbl gyson, a rhydd yr enghraifft ei fod yn methu weithiau gydag *i* ac *ei* am y rhagenw; dywed fod yn rhaid cofio bod y stori yn cael ei hadrodd gan gymeriad penodol, rhywbeth sy'n 'cyfiawnhau'r iaith lafar.' Dyma awgrym diddorol, sef bod angen cyfiawnhad o ryw fath dros ysgrifennu'n dafodieithol. Mae'n debyg bod y ffaith bod y stori yn cael ei hadrodd gan gymeriad penodol, yn ei iaith ei hun, yn rhoi'r cyfiawnhad hwnnw, sef y naturioldeb y cyfeiriwyd ato eisoes.

Wrth ddisgrifio'r gyfrol hon fel un o glasuron rhyddiaith Gymraeg, dywed M. Baines (2005, t.115) mai rhan o'i newydd-deb oedd y ffaith i'r iaith lenyddol gael ei chyfnewid am dafodiaith, a disgrifia sut y mae'r awdur yn cofnodi'r dafodiaith honno, yn ddieithriad bron, yn union fel yr oedd yn ei chlywed yn ei feddwl, gan gadw at ffurfiau llafar megis *ninna*, *fonta*, *bocha*, *fancw* a *llynia*. Nid ceisio profi pwynt oedd Caradog Prichard wrth ddefnyddio'r iaith lafar yn y nofel, felly, ond yn hytrach cadw'n driw at ei wreiddiau (M. Baines, 2005, t.117). Dyma'r dafodiaith yr oedd yr awdur yn gyfarwydd â hi, felly peth naturiol iddo, fel i eraill, oedd ysgrifennu ynddi.

Yn wahanol i'r gyfrol *Sioned*, derbyniwyd iaith *Un Nos Ola Leuad* 'â breichiau agored' ac efelychwyd yr ysgrifennu tafodieithol hyn gan 'sawl cenhedlaeth o lenorion' (M. Morgan, 2000, tt.59-60). Roedd yn nofel ddylanwadol felly. Er enghraifft, dywed Angharad Tomos y 'rhoddodd Caradog Prichard drwydded i mi sgwennu yn llawer mwy rhydd' (A. Tomos, 1998, t.38).

Er y croesawyd yr iaith, pwysleisia M. Baines (2005, t.118) na fyddai Caradog Prichard wedi medru rhagweld hynny. Cyfeiria at farn yr awdur cyn ei chyhoeddi y byddai ysgrifennu nofel mewn tafodiaith yn cyfyngu ar ei hapêl, ac felly nid ar chwarae bach y penderfynodd ei hysgrifennu mewn tafodiaith a chefnu ar draddodiad. Pwysleisia 'i Caradog gredu digon yn nilysrwydd yr iaith lafar i fwrw ymlaen â'i fenter' (M. Baines,



2005, t.118). Dyma sylw arwyddocaol, sef bod yr iaith lafar, dafodieithol yn un ddilys i ysgrifennu ynddi, er i'r awdur bryderu y byddai anallu rhai i'w deall yn cyfyngu ar ei hapêl. Dyma'r pryder a fynegir gan nifer o feirniaid llenyddiaeth dafodieithol ond gwelir yma ei fod yn bryder yn ogystal i awdur llenyddiaeth dafodieithol.

Er mai nofel dafodieithol yw, gellid awgrymu nad yw'n anodd deall a dirnad yr hyn sydd gan yr awdur i'w ddweud, ac nad yw'r iaith lafar yn amharu ar rediad y dweud:

Dew, oedd hi'n braf pan roddodd Mam ei het ora am ei phen a dwad hefo fi i Tŷ Top i de. Mi fasa'n werth ichi weld y ddwy pan ddaeth Leusa i'r drws ar ôl imi gnocio. Dyna lle'r oeddau nhw, ar yddfa'i gilydd a'r ddwy'n gweiddi crio a chwerthin bob yn ail, a Wmffra'n sefyll tu nôl i Leusa a gneud pob matha o stumia arnaf fi, cau un llygad a thynnu ei dafod allan a chrychu'i drwyn hefo'i fys a'i fawd nes oeddwn inna'n rowlio chwerthin (C. Prichard, 1961, t.77).

Un o'r ystyriaethau wrth drafod llenyddiaeth dafodieithol yw a yw pob tafodiaith lawn mor gymeradwy â'r llall ar ffurf ysgrifenedig, ac yn cael yr un derbyniad. Wrth gyfeirio at y ffaith bod *Un Nos Ola Leuad* wedi ei hysgrifennu mewn tafodiaith, awgrymodd K. Roberts (1971, t.236) fod byd o wahaniaeth rhyngddi a storïau tafodieithol Islwyn Williams y cyfeiriwyd atynt uchod; er y cred i Caradog Prichard wneud yn iawn trwy roi tafodiaith yng ngenau'r cymeriad sy'n adrodd y stori, dywed:

ni theimlwn gymaint o'r agosatwydd hwnnw ag a gawn yn storïau Islwyn Williams. Efallai bod iaith Sir Gaernarfon yn oerach ei naws nag yw iaith Cwm Tawe. 'Dwn i ddim. Ond mae iaith Islwyn Williams mor gynnes, yn gariadus o gynnes (K. Roberts, 1971, t.236).

Gellir rhesymu, felly, yr ystyrir rhai tafodieithoedd yn fwy cynnes, yn fwy derbyniol ac agos-atoch na thafodieithoedd eraill. Mae hynny o bosib am eu bod yn fwy adnabyddus, yn fwy soniarus neu'n haws i'w deall.

## T. James Jones, 1934 –

Brodor o Gastell Newydd Emlyn yw T. James Jones a enillodd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun yn 1986 ac yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd yn 1988 (yn ogystal â'r Gadair yn 2007 a 2019). Pryddest neu ddilyniant o gerddi ar y testun 'Y Lluch' oedd gofyn cystadleuaeth y Goron yn 1986, a'r hyn a geir gan y bardd yw cerdd bersonol wedi ei rhannu'n bedwar caniad ag iddynt ragenwau'n benawdau sef NHW, FE, HI a NI. Yn atgofion y cymeriad FE, cana'r bardd fel hyn gydag arlliw o dafodiaith ei fro enedigol yn dod i'r amlwg, megis y geiriau *houl, iete a perci*:

Ma' 'da fi lun.  
Deg o blant mewn dillad parch  
yn wherthin,  
yn cellwer â'r houll  
rhwyng Ysgol Sul a the prynhawn.  
Y tad a'r fam yn siriol bwysio  
ar iete perci'r blagur,  
a phob eginyn wedi bwrw gwayw'r gwanw'n.  
Dydd o'dd hwn  
i ddathlu bod y llwyth i gyd ar glawr (T. J. Jones, 1986, t.41).

Yn atgofion y cymeriad HI, gwelir arlliw o dafodiaith ei bro enedigol hithau, Manon Rhys, yng Nghwm Rhondda, ac felly camp y bardd yw iddo gynnwys a phlethu nid un, ond dwy dafodiaith. Disgrifia'r beirniad W. R. Evans (1986b, t.37) apêl arddull agos a phersonol y gerdd gan ddweud bod yr 'iaith led-lafar yn help.' Yr awgrym yma, felly, yw bod iaith lafar, dafodieithol yn medru creu naws mwy agos-atoch nag y gwna iaith safonol, o bosib am fod y bardd yn llefaru yn ei lais a'i iaith ei hun ac yn ein gwahodd i rannu'r iaith honno. Yr hyn a geir yma yw cyfeiriadau at blentyndod a chartref cynnar a'r iaith ar yr aelwyd honno sy'n creu golwg ramantus i raddau. Sylw'r beirniad D. Rowlands (1986, t.28) yw 'er ei bod yn lled-dafodieithol ei harddull mae ei barddoniaeth yn rhywbeth amgenach na mydryddu geiriau.'

Yr oedd yr adolygwyr eisteddfodol yr un mor wresog eu canmoliaeth o iaith lafar a thafodieithol y bardd yn y bryddest hon. Yn ei adolygiad yn *Barddas*, dywed G. R. Jones (1986, t.3): ‘atodiad gwerthfawr i’r canu yw’r iaith led-lafar sy’n aml yn farddoniaeth bur.’ Dyma sylw diddorol; mae’r defnydd o’r gair ‘gwerthfawr’ yn awgrymu bod yr iaith lafar wedi cyfoethogi’r bryddest yn hytrach na’i llesteirio.

Er yr ystyria Alan Llwyd y bryddest yn gampwaith, ar yr un lefel â champwaith pryddestol ‘Adeilion’ T. Glynne Davies a enillodd y Goron iddo yn 1951, awgryma hefyd na fydd ‘Y Lluch’ mor boblogaidd ag y bu ‘Adeilion’, ‘yn bennaf oherwydd y bydd y cywair tafodieithol yn fagl ac yn faen tramgwydd i Ogleddwyr’ (A. Llwyd, 1986, t.4). Dyma feirniad felly’n codi’r hen ddadl, wrth i’r ugeinfed ganrif ddirwyn tua’i therfyn, y bydd tafodiaith y de yn peri trafferth i ddarllenwyr gogleddol. Serch hynny, roedd y diffuantrwydd a roddodd y dafodiaith i’r bryddest wedi creu argraff arno:

Ond ni ellir condemnio’r bardd yr un iot am lunio’i bryddest mewn tafodiaith. Yn wir, y mae’r elfen dafodieithol yn rhoi i’r gerdd ryw ddiffuantrwydd, ac fe’n gadewir gyda’r argraff fod y bardd yn llefaru’n dawel, fyfyrdodus wrthym (A. Llwyd, 1986, t.4).

Cerdd ar y testun ‘Ffin’ oedd gofyn cystadleuaeth y Goron yn 1988 pan enillodd T. James Jones am yr eildro. Cyfres o atgofion am ei blentyndod ar fferm a geir yma, a hwnnw’n dadfeilio ar ddiwrnod angladd, gyda’r ffin rhwng byw a marw’n thema sy’n gweu drwy’r gerdd. Gwelir yn y gerdd hon eto ddefnydd naturiol a meistrolgar y bardd o’i dafodiaith. Awgrymodd Rh. Williams (1988, t.9), er enghraifft, fod y ‘gair “dwgyd” ’na yn gyffyrddiad artist diamheuol’:

Fe fydd y parlwr yn ddiertth.  
Cadeire wedi’u dwgyd o’r gegin,  
cyrtens yn cwato’r houl.  
Gwynt camffor yn hofran fel gwyfyn

rhwng ffyr a ffroen.  
Torche'n drwch o wal  
i wal fel gardd ar fogi..... (T. J. Jones, 1988, t.35).

Unwaith eto, canmoliaethus yw'r beirniaid o ddefnydd y bardd o'i dafodiaith. Dywedodd B. M. Davies (1988, t.28): 'nid yw'r ffaith ei fod yn defnyddio tafodiaith ei fro yn ei ddieithrio oddi wrth y darllenydd o gwbl; yn hytrach, y mae'r ddyfais honno yn cryfhau ei gerdd.' Wrth fyfyrion ar y sylw bod tafodiaith yn medru cryfhau cerdd, gellid awgrymu bod hynny oherwydd y defnyddir tafodiaith y fro i ddisgrifio'r fro honno. Y mae canmoliaeth un arall o'r beirniaid, G. A. Davies (1988, t.34) yn rhagori pan ddywed: 'ar ben y cwbl, y mae hi, yn anad dim arall, yn gerdd mewn tafodiaith, yn gymaint neu'n fwy o gamp na 'Pwll Deri' gan Dewi Emrys.' Er nas amheuir camp dafodieithol 'Ffin', ni phrofodd yr un enwogrwydd a chanmoliaeth Gymru-eang ag y gwnaeth 'Pwll Deri', a dadleuir yn y seithfed bennod yr erys 'Pwll Deri' yn gerdd dafodieithol eiconig a phwysig.

Wrth drafod â Ceri Wyn Jones (Cyfweliad, 2014) ynglŷn â lle cerddi dafodieithol ym mhrif gystadlaethau barddol yr Eisteddfod Genedlaethol, awgrymodd ei bod yn ddiddorol cyn lleied a fu mewn gwirionedd gan fod beirdd yn tueddu i 'wisgo eu dillad gore' yng nghystadleuaeth y Gadair. Dyma ddisgrifiad dadlennol - yr iaith safonol yn cael ei hystyried y wisg orau, a'r iaith dafodieithol y wisg bob dydd, a'r bardd yn mentro i lwyfan y Genedlaethol yn ei wisg bob dydd. Aeth Ceri Wyn Jones (Cyfweliad, 2014) ymlaen i ddweud mai'r bardd sy'n sefyll allan iddo ef yw T. James Jones, a'i fod (fel Dewi Emrys a drafodir yn y seithfed bennod) wedi 'cyfreithloni bron dy dafodieth di dy hunan, neu dy ddefnydd di ohoni a theimlo, ydy ma fe'n iawn i 'neud os yw'n cael ei defnyddio mewn ffordd lenyddol, greadigol, gyffrous.' Sylwer ar y gair 'cyfreithloni', megis rhoi'r hawl a'r awdurdod i feirdd ysgrifennu'n dafodieithol yn hytrach nag yn yr iaith safonol.

Yn 2014, cyhoeddodd T. James Jones gyfrol o farddoniaeth *Cymanfa* yn ogystal â'r hunangofiant llenyddol *Jim Parc Nest*. Yn y dyfyniad isod o'r gerdd 'Cymanfa', gwelwn nodweddion tafodieithol ei fro enedigol:

Ond wy'n dwlu darllen am y Swans yn llwyddo –  
fe ges i beth hwyl arni'n hunan, wy'n cofio,  
yn nhîm Castellnewy' yn whare ffwtbol  
pan we' 'nghoese i'n abal, a'r anal yn weddol.  
Ond wedi smoco am dros ddeugen mlyne'  
nes goffod cwmryd ail anal i wisgo'n sane,  
a mynd dan ddylanwad y dablen yn gyson,  
pwy fydde isie'n afu a'n sgyfent a 'nghalon? (T. J. Jones,  
2014a, t.26).

Cyfeiria J. Roberts (2014, tt.54-55), yn ei adolygiad o'r gyfrol *Cymanfa*, at y 'defnydd iachus o iaith glir a thafodiaith naturiol' gan honni 'ond eglur yw'r dweud, nid syml, a dyna gamp defnyddio iaith naturiol.' Dyma sylw diddorol, sy'n pwysleisio nad yw tafodiaith yn gyfystyr â defnyddio iaith syml a'r farn fod eglurder a symlrwydd yn wahanol i'w gilydd. Gellid awgrymu bod yr eglurder yn deillio o allu'r bardd i fynegi ei hun yn effeithiol yn ei iaith lafar naturiol. Yr un yw canmoliaeth V. Hughes (2014, t.70) yn ei adolygiad o'r gyfrol *Jim Parc Nest* pan gyfeiria at 'ddefnydd llesmeiriol a chyfareddol o dafodiaith.'

### **Meic Stephens, 1938 – 2018**

Awdur ac ysgolhaig a aned yn Nhrefforest, Pontypridd oedd Meic Stephens a gyhoeddodd y cyfrolau o gerddi Saesneg *Triad* (1963), *Exiles All* (1973) a *Ponies, Twynnyrodyn* (1997). Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, trodd i gyfansoddi yn y Gymraeg gan lunio'r bryddest 'Gwreiddiau' a gyflwynwyd i gystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2003. Drwy'r defnydd o dafodieithoedd Brycheiniog, Maesyfed a'r cymoedd, tafodieithoedd sydd bron â mynd yn angof bellach, llwyddodd Meic Stephens i gyfleu, i gofnodi ac i ddiogelu hanes ffordd o fyw, cymdeithas arbennig a'i chywair llafar. Nodwyd eisoes yn y bennod gyntaf i un o'r beirniaid,

G. Williams (2003, t.49), awgrymu y dylid trosglwyddo copi o'r gerdd i Sain Ffagan gan ei bod mor werthfawr o safbwynt ieithyddol. Gellid dadlau bod sylw o'r fath yn awgrym bod gwerth ieithyddol yn rhagori ar werth llenyddol ar adegau, pwynt yr ymhelaethir arno yn y chweched a'r wythfed bennod.

Rhoddodd Meic Stephens gynnig arall am y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005 gan gyflwyno casgliad 'Cerddi R'yfelwr Bychan' yn nhafodiaith y Wenhwyseg o dan y ffugenw *Shasbi*. Gosododd y tri beirniad yntau a bardd arall yn y dosbarth cyntaf gan gytuno fod y ddau'n haeddu'r Goron. Diddorol yw sylw'r beirniaid (D. Ll. Morgan, I. ap Glyn a J. W. Davies, 2005, t.34) i *Shasbi* gynnwys rhestr o eirfa a chyfeiriad at *Eiriadur Prifysgol Cymru a Blas ar Iaith Blaenau'r Cymoedd* er mwyn cynorthwyo'r beirniaid. Awgryma hyn fod y bardd yn ofni na fyddai'r beirniaid yn llwyr ddeall tafodiaith y Wenhwyseg. Fel y digwydd, cyfaddefodd y beirniaid fod angen y cymorth hwn arnynt gan i'r dafodiaith beri peth rhwystr iddynt gyda'r 'darllenydd yn ymbalfalu am ystyron geiriau dieithr ac yn baglu wrth geisio'u dirnad' (D. Ll. Morgan, I. ap Glyn a J. W. Davies, 2005, t.34).

Cymhara'r beirniaid y casgliad â 'Y Llen' gan Dyfnallt Morgan, pryddest mewn tafodiaith a ddaeth yn agos at ennill y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl 1953, gan honni bod cerddi *Shasbi* dipyn yn anoddach i'w deall. Serch hynny, ânt ymlaen i ddweud eu bod wedi rhoi tipyn o amser i geisio eu deall, gan lwyddo'n amlach na heb, er yn cyfaddef bod 'y dafodiaith yn benllanw'r ymdrech weithiau' (D. Ll. Morgan, I. ap Glyn a J. W. Davies, 2005, t.34). Dyfarnwyd y Goron i'r bardd â'r ffugenw *Pwyntil*, ond dywed y beirniaid y byddai *Shasbi*, 'awdur ardderchog y 'R'icwm sgipo' gorau yn yr iaith' (D. Ll. Morgan, I. ap Glyn a J. W. Davies, 2005, t. 34), wedi ei hennill pe na bai un arall yn y gystadleuaeth yn well nag ef. Cynhwysa Meic Stephens rhan o'i 'R'icwm sgipo' yn ei hunangofiant:

Bili Winc a'i Fami'n sgipo i'r tiwn,  
troi'r r'aff yn deidi a rýt di mywn!

Wítabics i frecwast, Wítabics i dê,  
gwsbryn ar y cenol a dim byd o'i le

tapioco, triog du, arw-rwt a Spam,  
paid gatal tamad, paid gofyn pam

wÿa mywn powdar, llath mywn tin,  
loshins streip i grwtyn gan Bopa Win

Fimto, Corona, sosejis a mash,  
'stim fyl semolina i lenwi'r cratsh

tishan lychwan, pica ar y mæn  
shitlin a ffagots yn ffrïo ar y tæn

pwdin reis a thartan yn y gecin fæch,  
dera 'mlæn, y bara bit, a chliria'r plæt (M. Stephens, 2012, t.213).

Er iddynt brofi peth anhawster i ddeall tafodiaith *Shasbi*, fe ddaeth o fewn trwch blewyn i ennill y Goron, felly gellid rhesymu nad oedd gan y beirniaid unrhyw ragfarn yn erbyn gwobrwyo casgliad mewn tafodiaith. Serch hynny, nid pawb oedd yn cytuno â hwy. Mynegodd Gwynn ap Gwilym bryder y byddai *Shasbi* wedi ennill y Goron oni bai bod un yn well nag ef (G. ap Gwilym, 2005, t.68). Er yn pwysleisio nad oedd ganddo unrhyw ragfarn yn erbyn tafodieithoedd, dywedodd i hyn roi cyfle iddo ofyn cwestiwn a fu'n ei boeni ers cryn amser, sef a ddylid gwobrwyo gweithiau tafodieithol ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol? Esboniodd fod hynny wedi digwydd droeon dros y blynyddoedd diwethaf, a'i fod yn peri peth anesmwythyd iddo. Cyfeiriodd at sylw'r beirniaid eu bod wedi llwyddo'n 'amlach na heb' i ddeall y dafodiaith, a bod hynny'n awgrymu'n gryf felly y byddai ffermwr o Fôn, er enghraifft, yn cael anhawster mawr i ddeall y cerddi hyn. Holodd, felly: 'oni ddylai'r Eisteddfod Genedlaethol, o bob sefydliad, anelu at wobrwyo pethau mewn iaith gatholig? Oni ddylai hi geisio diogelu undod yr iaith lenyddol safonol? Dyna a wnaed eleni, a diolch am hynny' (G. ap Gwilym, 2005, t.68). Dyma feirniad yn dilyn traddodiad John Morris-Jones o geisio sicrhau purdeb yr iaith safonol, yr iaith 'gatholig' fel y geilw hi, hynny yw yr iaith lenyddol draddodiadol. Yr

oedd yntau eisoes wedi ennill y Gadair yn 1986 ac yn amlwg am i'r Eisteddfod osod patrwm a safon genedlaethol o ran iaith y cystadlu.

O ddarllen sylwadau Gwynn ap Gwilym, teimlai M. Stephens (2012, t.210) fod yna 'ragfarn yn erbyn tafodiaith ymysg beirniaid mwyaf ceidwadol Cymru' gan eu disgrifio fel 'archoffeiriaid safonau traddodiadol bois *Barddas*.' Serch hynny nid pawb a rannai farn Gwynn ap Gwilym, gan i nifer gefnogi Meic Stephens mewn adolygiadau yng nghylchgrawn *Taliesin* yn 2006. Er enghraifft, dywed V. Hughes (2006, t.57): 'ni ddylid esgymuno gweithiau tafodieithol o'r prif gystadlaethau ar unrhyw gyfrif. O Bantycelyn i T. James Jones, bu gan Gymru feirdd a urddasolodd dafodiaith.' Mae ei ddefnydd o'r gair 'urddasolodd' yn un arwyddocaol gan y gellid dadlau y gall yr un urddas berthyn i gerddi tafodieithol ag i gerddi safonol. Yr un yw canmoliaeth E. Lewis (2006, t.59) pan ddywed ei fod yn arw ganddo y gwêl rhai y dafodiaith yn faen tramgwydd, tra diolch i'r bardd wna E. Jones (2006, t.63) am 'godi tafodiaith a fu farw o gywilydd i uchelfannau ein gŵyl genedlaethol.' Ceir dadl ddilys gan y ddwy garfan a thra bod angen diogelu a sicrhau safon yr iaith lenyddol mae lle hefyd i'r amrywiaethau tafodieithol lle mae hynny'n briodol ac yn addas ar gyfer testun a chynnwys y gerdd.

Casgliad o gerddi ar y testun 'Newid' oedd gofynion cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd 2010, a chyflwynodd Meic Stephens gerddi o dan y ffugenw *Coeca*. Roedd nifer wedi cyflwyno cerddi tafodieithol i'r gystadleuaeth hon; gellid awgrymu bod Meic Stephens wedi ysgogi beirdd eraill, wedi iddynt weld nad oedd ysgrifennu mewn tafodiaith yn rhwystr i gyrraedd y brig. Wrth egluro bod mwyafrif y cerddi yng nghasgliad *Coeca* yn hen dafodiaith y Gloran, dywedodd y beirniad T. J. Jones (2010, t.44) eu bod yn gofnod pwysig o'r dafodiaith honno; rhoddodd *Coeca* ar y blaen, ond wedi trafod â'i gyd-feirniad, bodlonodd ddyfarnu'r wobwr i *Barcud fyth*. Dyma Meic Stephens yn colli'r Goron o drwch blewyn unwaith eto, ffaith a enynnodd gydymdeimlad V. Hughes (2010, t.40), er nad oedd pawb



mor raslon a hael eu beirniadaeth. Yn ei hunangofiant, cyfeiria M. Stephens (2012, t.223) at berson dienw a ysgrifennodd yn *Y Cymro* fod iaith y cerddi yn anodd ei deall i'r sawl nad yw'n gyfarwydd â'r Wenhwyseg. Erbyn hyn, yr oedd Meic Stephens yn gyfarwydd â'r farn ymysg rhai, nad oedd beirdd tafodieithol yn haeddu ennill prif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol. Dywed:

Yr hen ragfarn ac anwybodaeth yn fyw yn y tir o hyd, felly: dyw Gogs a Chardis ddim yn siarad tafodiaith, dim ond Hwntws. Eto i gyd, cynheswyd fy nghalon yng ngwanwyn 2011 pan wna'th lfor ap Glyn raglen am y Wenhwyseg yn y Ffatri Bop yn y Porth..... Ysywaeth, fel cyfrwng i ddoniolwch y gwelir y tafodieithoedd yn y gyfres 'Ar Lafar', oherwydd prin yw'r cerddi sy'n trin pynciau difrifol mewn tafodiaith; rwyf wedi ceisio cywiro hynny cyn belled ag y mae'r Wenhwyseg yn y cwestiwn (M. Stephens, 2012, t.223).

Cyfeiriwyd eisoes at y berthynas rhwng tafodiaith a chomedi. O bosib gwelir tafodieithoedd yn gyfrwng i ddoniolwch gan rai am eu bod mor wahanol i'w tafodiaith hwy, neu'n wrthun i'r glust. Ond gwelir ymgais gan rai, megis Meic Stephens, i ddangos y gellir trafod pynciau dwys yn ogystal mewn llenyddiaeth dafodieithol.

Pan holwyd y bardd am ei farn ar ddefnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth, atebodd: 'os yw'n dod yn naturiol i chi, wel dyna'r peth i'w wneud ynde' (Meic Stephens, *Cyfweliad*, 2015). Dyma'r farn eto bod ysgrifennu'n dafodieithol yn beth naturiol i'w wneud, ac felly annheg fyddai ceisio atal llais y bardd tafodieithol a'i feirniadu am beidio ag ysgrifennu mewn iaith safonol. Aeth Meic Stephens (*Cyfweliad*, 2015) ymlaen i ddweud: 'dyma fy amcan i, dyna fy uchelgais i. Defnyddio'r iaith, nid sathredig, ond iaith y werin bobl fel mae'n cael ei siarad, ond ei ddefnyddio fe fel llenor.' Dyma ymgais llenor o safon i gofnodi a dyrchafu tafodiaith. Serch y naturioldeb yma, diddorol nodi nad oedd y Wenhwyseg yn iaith lafar fyw i Meic Stephens a'i gymdeithas; dysgodd y Gymraeg fel ei drydedd iaith, a dysgodd y Wenhwyseg (M. Stephens, 2012, t.214), ac yna ei defnyddio fel iaith lenyddol amgen.

Nid cystadlaethau'r Goron yn unig y cynigiodd Meic Stephens amdanynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a chafodd mwy o lwyddiant yn y rheiny. Er enghraifft, enillodd ar gystadleuaeth 'Erthygl addas ar gyfer eich papur bro' yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012. Yn ei feirniadaeth, dywed D. Iorwerth (2012, t.182) fod y ffaith i'r erthygl gael ei hysgrifennu yn nhafodiaith y Cymoedd yn rhoi blas bro iddi. Gellid awgrymu y gwêl beirniaid, o bosib, bod tafodiaith yn fwy addas ar gyfer cystadlaethau o'r fath gan y byddai'n apelio mwy at ddarllenwyr. Enillodd hefyd ar gystadleuaeth 'Ymdriniaeth â 50 o eiriau tafodieithol o un ardal benodol' yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 2013, ac awgryma'r beirniad G. Wynne (2013, t.180) bod 'ychydig o dafodiaith yn rhoi blas ar iaith.' Gellid awgrymu yn gyffredinol mai sylwadau ystrydebol am dafodiaith a wneir gan feirniaid eisteddfodol.

Cyhoeddodd Meic Stephens gyfrol o farddoniaeth yn 2014, *Wilia : Cerddi 2003 – 2013*, a'r mwyafrif o'r cerddi wedi eu hysgrifennu yn nhafodiaith y Wenhwyseg. Yng nghategori barddoniaeth, cyrhaeddodd y gyfrol restr fer *Llyfr y Flwyddyn* 2015 a drefnir gan Lenyddiaeth Cymru. Dywed mai ei fwriad 'yw dyrchafu'r dafodiaith o fod yn gyfrwng i hiwmor cegin i fod yn addas ar gyfer barddoniaeth fwy urddasol a chydag ystod ehangach' (M. Stephens, 2014, t.118). Dyma eto nodi'r awydd i roi mwy o statws ac urddas i dafodiaith, a'i datgysylltu oddi wrth label hiwmor.

Cyn cloi'r drafodaeth am yr awdur hwn, rhaid cyfeirio at adolygiad D. G. Williams (2013, t.107) o *Cofnodion: Hunangofiant Meic Stephens*. Am ei ymgais i ddefnyddio'r Wenhwyseg dywed:

ond rhyfedd o anghyson yw'r ymdrech hon mewn gwirionedd. Mae brawddegau 'safonol' wedi eu cymysgu â thafodiaith, a gwelir ffurfiau fel 'Ca's' a 'gwetws' y drws nesaf i 'Gadewais' ac 'Yn ddiau' – o fewn yr un frawddeg ar brydiau (D. G. Williams, 2013, t.107).

Nid yw hyn yn eithriad. Er enghraifft, er y cyfeiria R. Gruffydd (1986, t.116) at y defnydd ardderchog o dafodiaith gan Ray Evans yn *Y Llyffant*, dywed nad yw'n gwbl gyson. Nodwyd eisoes yn y bennod gyntaf nad yw'r defnydd o dafodiaith bob amser yn gyson, a'r farn mai'r peth pwysicaf yw bod yr iaith a ddefnyddir yn addas i'r cyd-destun. Tra gellid derbyn bod defnydd awduron o dafodiaith yn anghyson â'i gilydd, gellid dadlau y disgwylir cysondeb o fewn yr un gyfrol gan awdur penodol rhag peri dryswch i'r darlennydd. Gwyddys fod iaith pobl yn amrywio, o fewn yr un ardal, ac yn anghyson, ac efallai y ceir ymgais gan awduron i arddangos yr amrywiaeth a'r anghysondeb hwnnw. Ond, gellid awgrymu nad yw'r dechneg hon yn llwyddiannus, gan, fel y nodwyd eisoes, disgwylir cysondeb o fewn yr un gyfrol gan awdur penodol.

### **Caryl Lewis, 1978 –**

Brodor o Ddihefyd, Ceredigion sy'n byw yng Ngoginan erbyn hyn yw Caryl Lewis. Ymysg ei chyhoeddiadau y mae *Dal Hi!* (2003) *Martha, Jac a Sianco* (2004), *Y Gemydd* (2007), *Naw Mis* (2009), *Y Bwthyn* (2015) a *Y Gwreiddyn* (2016). Mae tafodiaith Ceredigion yn amlwg yn ei hysgrifennu. Er enghraifft, darlunio bywyd chwaer a dau frawd ar fferm yng nghefn gwlad Ceredigion wna'r nofel *Martha, Jac a Sianco*, a hynny yn iaith yr ardal honno. Fel y dywed B. O. Huws (2008, t.26): 'un o nodweddion amlycaf arddull y nofel hon yw'r defnydd o dafodiaith Dyffryn Aeron sy'n rhoi i lais yr adroddwraig naturioldeb cynnes a chartrefol.' Noder y gair 'naturiol' yma a ddefnyddir yn rheolaidd i ddisgrifio llenyddiaeth dafodieithol. Dengys defnydd yr awdur o dafodiaith yn y naratif, yn ogystal â'r ddeialog, ei hyder wrth ysgrifennu yn y cyfrwng hwn:

Dechreuodd fflamau'r tân neidio'n uwch wrth i Sianco ychwanegu mwy o bapurach o'r tŷ. Sefodd y ddau'n gwyllo'r tân. Roedd ochre'r papure'n cwrlo'n ara a'r dalennau'n dduon fel adenydd brân. Sefai darnau o fflwcs du yn yr awyr fel

petai hi'n bwrw eira du. Rhwbiodd Sianco'r rhai a ddisgynnai ar ei wyneb gan bardduo'i fochau. Daeth Jac o rywle:

"Be chi'n neud?"

Aeth Sianco'n ôl i'r tŷ i nôl llwyth arall.

"Glanhau tamed bach 'ma. Ma ise ca'l gwared ar rhein yn druenus. Shwt alla i neud y dwt da'r holl rybish 'ma ambwti'r lle?" (C. Lewis, 2004, t.46).

Awgrymodd B. M. Williams (2013, t.40) efallai i rai darllenwyr o Ogledd Cymru ei chael yn anodd darllen y nofel, neu hyd yn oed ei hosgoi yn llwyr, gan ei bod 'yn llawn tafodiaith gref Ceredigion' a 'dyna un perygl o ysgrifennu nofel sydd yn rhy dafodieithol, gellwch golli darllenwyr o rannau eraill o Gymru.' Gellid dadlau, fel y gwnaed eisoes, bod hon yn agwedd lled feirniadol, o ystyried bod y cyfryngau erbyn hyn wedi cynyddu ein dealltwriaeth o dafodieithoedd eraill. Gellid awgrymu hefyd bod y dehongliad o 'dafodiaith gref' yn medru amrywio, gyda'r hyn a ymddengys yn 'gref' i rai yn ymddangos yn 'gymedrol' i eraill. Gellid maentumio na chyfyngodd y dafodiaith ar apêl a llwyddiant y nofel gan iddi ennill gwobr *Llyfr y Flwyddyn* 2005.

Nid pawb a wêl yr un bwgan o ddiffyg dealltwriaeth yng ngwaith Caryl Lewis. Er enghraifft, dyfynnir R. Llywelyn (2007) ar glawr y nofel *Y Gemydd* yn awgrymu: 'mae gan Caryl feistrolaeth lwyr ar yr iaith, a'r gystrawen yn gyfuriog o dafodiaith Ceredigion.' Yn yr un modd, awgryma A. Glynn (2007, t.156) 'bod iaith lafar naturiol yr awdur yn hyfryd i'w ddarllen a bod rhywun yn dotio at ffurfiau fel 'fflwcs', 'sachabwndi', 'sgaprwth' a 'sticil' ac ati.' Gall yr eirfa hon ychwanegu at fwynhad y darlennydd felly, ac mae tafodiaith yn fwy soniarus na bratiaith:

Mae coethder y dafodiaith yn ei gwneud yn bleser i'w ddarllen. Mae sawl blwyddyn ers i mi glywed geiriau megis 'brat', 'wilibowan', 'ricyn y drws' a braf deall, mewn oes lle mae yna dermau newydd lu a bratiaith yn rhemp, bod y fath gyfoeth ieithyddol yn rhan naturiol o iaith rhai pobl (D. Edwards, 2007).

Rhydd y nofel *Y Bwthyn*, a gyhoeddwyd yn 2015 ac a enillodd wobr *Llyfr y Flwyddyn* 2016, yr un mwynhad i ddarllenwyr nad ydynt yn gyfarwydd â thafodiaith Ceredigion. Un ohonynt yw S. Northey (2016, t.115), sydd, wrth ddweud mai camp awdur yw adnabod y byd yr ysgrifenna amdano a'i gyfleu i'r darlennydd, yn awgrymu: 'geirfa a thafodiaith yw rhan o'r gyfrinach. I un nad yw'n rhannu'r dafodiaith, mae'r geiriau anghyfarwydd..... yn ychwanegu at y rhin.'

### **Casgliad**

Ysgrifennwyd ystod o lenyddiaeth dafodieithol ymhob cwr o Gymru. Gwneir hynny am wahanol resymau, megis i gyfleu'r modd naturiol y siaredir mewn gwahanol ardaloedd ac am mai'r iaith honno yw'r un fwyaf addas i ysgrifennu ynddi yn nhyb yr awdur. Yn ogystal, dangosir ei bod yn bosib ysgrifennu'n dafodieithol yn ogystal ag mewn iaith safonol gan ddathlu'r amrywiaeth ieithyddol a berthyn i'r Gymraeg ac arddangos balchder a hunaniaeth.

Wrth ystyried barn y beirniaid am lenyddiaeth dafodieithol, gwelwyd bod y mwyafrif o blaid ac yn canmol a chefnogi llenyddiaeth dafodieithol, er bod ambell un yn ei beirniadu. Un o'r pryderon yw bod y defnydd o dafodiaith yn cyfyngu ar apêl y gweithiau ac yn lleihau eu cynulleidfa darged, ac mewn gwlad fach fel Cymru mae hynny'n bwynt sydd angen ei ystyried o ddifrif. Maen tramgwydd arall yw bod ysgrifennu'n dafodieithol yn peryglu undod yr iaith lenyddol, ac yn amlygu'r dilema sy'n wynebu awduron wrth ddewis yr iaith i ysgrifennu ynddi.

Serch hynny, gellid dadlau y rhydd nifer o'r cyfrolau ddarlun gwerthfawr o fywyd mewn cyfnod penodol ac o'r iaith gyfoethog a ddefnyddiwyd yn naturiol gan gymdeithas yn y cyfnod hwnnw. Ymhelaethir ar y pwyntiau hyn ym mhenodau 4-8 wrth ystyried llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro.

## PENNOD 4

### TAFODIAITH SIR BENFRO

#### Rhagarweiniad

Dechreuir y bennod hon drwy egluro'r gwahaniaeth rhwng iaith y gogledd ac iaith y de, o ran geirfa, acen a ffurfiau gramadegol, a hynny er mwyn gosod tafodiaith Sir Benfro yn ei chyd-destun ieithyddol ehangach. Yna, gan ffocysu ar Sir Benfro, trafodir ei chefnidir ieithyddol, y dylanwadau ar yr iaith a'r ffin sy'n rhannu'r sir yn ddwy yn ieithyddol. Ystyrir hefyd rhai o nodweddion a geirfa ei thafodiaith, sut y mae tafodiaith Sir Benfro yn wahanol i dafodieithoedd eraill yn y de, yn ogystal ag amrywio o fewn y sir.

Y rheswm dros gynnwys pennod ar nodweddion tafodiaith Sir Benfro yn y traethawd hwn yw er mwyn rhoi esboniad ohonynt i'r darllenydd cyn dyfynnu o lenyddiaeth dafodieithol y sir yn y penodau i ddilyn. Nid dadansoddi'r dafodiaith a wneir ond cyflwyno agweddau ohoni fel rhagarweiniad i'r drafodaeth ar y llenyddiaeth a ysgrifennwyd ynddi, er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall a gwerthfawrogi'r gweithiau hynny yn well.

#### Y gwahaniaeth rhwng iaith y gogledd ac iaith y de

Yng Nghymru, y gwahaniaeth ieithyddol y sonnir amdano yn gyffredin yw 'iaith y gogledd' ac 'iaith y de', ac yn y gyfrol *The Linguistic Geography of Wales* a gyhoeddwyd gan Alan R. Thomas yn 1973, dangoswyd bod dosbarthiad daearyddol nifer o eiriau yn cadarnhau'r dybiaeth honno (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989, t.22).

Y term sy'n disgrifio terfyn daearyddol nodwedd ieithyddol benodol yw *isoglos*. Yn ei fapiau, dengys A. R. Thomas (1973, tt.17-19) lleoliad tri llwybr isoglotig cynradd. Rhed y llwybr ffiniol mwyaf gogleddol o aber yr

afon Ddyfi i'r Wysg neu'r Hafren, a dengys eithafion dosbarthiad pum gair deheuol (A. R. Thomas, 1973, t.17). Nodir y geiriau cyfatebol yn y gogledd isod:

*Map*

|                          |
|--------------------------|
| <b>Geiriau deheuol</b>   |
| rhaca                    |
| twlc                     |
| march                    |
| mamgu                    |
| tadcu                    |
| <b>Geiriau gogleddol</b> |
| cribyn                   |
| cwt / cyt                |
| stalwyn                  |
| nain                     |
| taid                     |

Rhed y llwybr mwyaf deheuol a ganfu A. R. Thomas (1973, t.18) ar hyd yr Ystwyth neu ychydig i'r de ohoni, a dengys eithafion dosbarthiad pedwar gair deheuol. Nodir y geiriau cyfatebol yn y gogledd isod:

*Map*

|                          |
|--------------------------|
| <b>Geiriau deheuol</b>   |
| gain(g)                  |
| canddo / cadno           |
| s(h)iglo llaw            |
| pîb                      |
| <b>Geiriau gogleddol</b> |
| cun                      |
| llwynog                  |
| ysgw(y)d llaw            |
| cetyn                    |

Y mae'r trydydd llwybr a ddisgrifir gan A. R. Thomas (1973, t.19) yn dangos rhaniad o'r gogledd i'r Rheidol, ac eithafion dosbarthiad pum gair deheuol. Nodir y geiriau cyfatebol yn y gogledd isod:

*Map*

|                               |
|-------------------------------|
| <b>Geiriau deheuol</b>        |
| moddion                       |
| gwa(ha)dd(en)                 |
| cwtsh dan sta(e)r             |
| mas                           |
| da                            |
| <b>Geiriau gogleddol</b>      |
| ffisig                        |
| twrch (daear)                 |
| twill dan gris(a)u / sben(sh) |
| allan                         |
| gwartheg / gwartha(i)g        |

Er ei bod yn ddilys sôn am y de a'r gogledd fel hyn, ni ellir amlygu ffin ddaearyddol bendant rhwng y tafodieithoedd (T. A. Watkins, 1961, t.233). Er i A. R. Thomas (1973, tt.17-19) ddangos dosbarthiad y geiriau deheuol gan isoglosau, rhaid cofio mai dyfais ddefnyddiol sydd yn nodi eithafion dosbarthiad daearyddol gair yw *isog/los*, ac ni ddylid dehongli'r llinell fel arwydd bod un gair yn gorffen yn sydyn ac un arall yn cymryd ei le (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989, t.23). Yn achlysurol iawn ceir mewn ardal drawsnewid dau air yn ymdoddi i'w gilydd mewn ffurf gyfansawdd; er enghraifft *iafu* yn y Canolbarth sydd yn cynnwys *iau* y gogledd ac *afu* y de (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989, t.26).

Dangosodd B. M. Jones (1993, t.83) yntau sut y mae tafodieithoedd yn amrywio oherwydd eu bod yn defnyddio gwahanol eiriau am yr un peth. Ymysg yr enghreifftiau a rydd y mae:



| <b>Geiriau deheuol</b> | <b>Geiriau gogleddol</b> |
|------------------------|--------------------------|
| arllwys                | tywallt, tollti          |
| disgwyl                | edrych                   |
| tost                   | sâl                      |
| allwedd                | goriad                   |
| bord                   | bwrdd                    |
| brwnt                  | budr                     |
| cwato                  | cuddio                   |
| cwpla, bennu           | gorffen, darfod          |
| dihuno                 | deffro                   |
| tlws, pert             | del                      |
| dodi                   | rhoi                     |
| dwgyd                  | dwyn                     |

Yn ogystal â dangos rhaniad rhwng y de a'r gogledd, diffiniodd A. R. Thomas (1973, t.14) chwe phrif ardal yng Nghymru, gan rannu ymhellach i un ar bymtheg o is-ardaloedd. Cynigia B. Thomas a P. W. Thomas (1989, tt.28-29) fap ac enghreifftiau o'r geiriau sy'n nodweddu'r chwe phrif ardal:

*Map*

| <b>Chwe phrif ardal</b> | <b>Geiriau nodweddiadol</b>  |
|-------------------------|--|
| Y Gogledd-orllewin      | <b>dadmer</b><br><b>iard</b> 'buarth'<br><b>twll dan grisiau</b> 'cwpwrdd dan y grisiau'     |
| Y Gogledd-ddwyrain      | <b>mawion</b> 'morgrug'<br><b>pwytho</b> 'gwnïo'<br><b>ponsh</b> 'cymysgedd o faip a thatws' |

|                        |  |
|------------------------|--|
| Gorllewin y Canolbarth | <b>cwtsho</b> ‘cuddio’<br><b>ffelys</b> ‘camog’<br><b>glaferio</b>       |
| Dwyrain y Canolbarth   | <b>blaid</b> ‘beudy’<br><b>brot</b> ‘us’<br><b>sgraffio</b> ‘crafu’      |
| Y De-orllewin          | <b>anner</b> ‘treisiad’<br><b>iet</b> ‘clwyd’<br><b>gwynen</b> ‘marchus’ |
| Y De-ddwyrain          | <b>can</b> ‘blawd’<br><b>clwyd</b> ‘gât’<br><b>perth</b> ‘gwrych’        |

Yn ogystal â geirfa, ceir gwahaniaethau rhwng iaith y gogledd ac iaith y de o ran acen. Awgrymodd B. Thomas a P. W. Thomas (1989, t.30) bod y gwahaniaethau yn y ffordd y dywedir geiriau cyn bwysiced â’r geiriau a ddefnyddir, ac er bod modd mabwysiadu geiriau o ardaloedd eraill, anodd yw meistroli seiniau gwahanol, ac felly yn aml ‘gall ein hacen ddatgelu mwy amdanom na’r eirfa a ddefnyddiwn.’

Rhoir enghreifftiau isod o rai o’r nodweddion acen sy’n gwahaniaethu rhwng y de a’r gogledd:

|              |   |
|--------------|---|
| y sain u / y | ceir gan ogleddwyr y sain <b>u</b> / <b>y</b> , sy’n gyfrwng i wahaniaethu rhwng geiriau megis <b>mil</b> / <b>mul</b> a <b>ti</b> / <b>tŷ</b> . Nid oes sain fel yr <b>u</b> / <b>y</b> ogleddol yn y de, ac felly yr un sain, <b>ti</b> , sydd i’r ddau air <b>ti</b> / <b>tŷ</b>   |
| l dywyll     | ceir perthynas bwysig rhwng presenoldeb yr <b>u</b> hwn ac ansawdd <b>l</b> , ac mewn ardaloedd <b>u</b> ceir hefyd <b>l</b> dywyll, sain a gynhyrchir drwy godi cefn y tafod. Amlygir y gwahaniaeth yn y modd y bydd gogleddwyr a deheuwr yn ynganu’r gair <b>lol</b>  |
| t, d, n      | un o’r gwahaniaethau pwysig yma yw safle blaen y tafod, sef naill ai yn erbyn y dannedd blaen uchaf, neu’n uwch yn y geg yn erbyn y gorfant. Yn y de, seiniau gorfannol yw <b>t</b> , <b>d</b> ac <b>n</b> , tra yn y gogledd, seiniau deintiol ydynt   |
| chw-         | y clwm cytseiniol hwn yw un o’r nodweddion sylfaenol sy’n gwahaniaethu’r de a’r gogledd. Yn y gogledd, <b>chw</b> — yr iaith safonol a geir, er enghraifft <b>chwant</b> , <b>chwech</b> a <b>chwith</b> ond yn y de gwelir amrywiaethau — <b>hw</b> , sef <b>hwant</b> , <b>hwech</b> a <b>hwith</b> . Yng nghymoedd y de- |

|                                   |  |
|-----------------------------------|--|
|                                   | ddwyrain mae'r ffurfiau yn newid eto gyda'r <b>h</b> ddechreuol yn diflannu, er enghraifft <b>wech</b>   |
| llafariad hir mewn geiriau unsill | o ran hyd y llafariad mewn geiriau unsill sy'n gorffen â'r clymau cytseiniol <b>sb, st, sg</b> ac <b>llt</b> , yn y gogledd mae'r llafariad yn hir, megis <b>pôst</b> , ond yn fyr yn y de, megis <b>post</b> . I'r gwrthwyneb, pan fo geiriau unsill yn gorffen ag <b>ll</b> , y duedd yw i'r gogledd fod â llafariad fer, megis <b>well</b> , a'r de â llafariad hir, megis <b>wêll</b>  |
| i mewn terfyniadau                | er na ellir llunio rheolau syml ar gyfer disgrifio'r nodwedd hon, tra yn y gogledd ychwanegir <b>i</b> at nifer o eiriau wrth ychwanegu rhai terfyniadau, ni wneir hynny yn y de. Er enghraifft yng nghyd-destun <b>-on</b> , ceir <b>hoelion</b> yn y gogledd ond <b>(h)oelon</b> yn y de   |
| -f                                | tra bod <b>f</b> wedi ei cholli drwy'r wlad ar ddiwedd ffurfiau eithaf ansoddeiriau, a bod tuedd hefyd i golli'r sain ar ddiwedd ffurfiau berfol presennol/dyfodol y person cyntaf unigol, mewn geiriau eraill, yn y gogledd yn unig y tueddir i golli'r <b>f</b> , er enghraifft <b>ara</b> yn y gogledd ac <b>araf</b> yn y de   |
| calediad                          | yn yr ardal sy'n ymestyn i'r dwyrain o Gwm Tawe, yr hen Sir Forgannwg, ceir nodwedd a elwir calediad wrth ddefnyddio'r cytseiniaid <b>p, t</b> ac <b>c</b> lle y ceir <b>b, d</b> ac <b>g</b> mewn ardaloedd eraill. Yn y goben yn unig, fel arfer, y ceir calediad, gyda <b>p, t</b> ac <b>c</b> yn cyfnewid â <b>b, d</b> ac <b>g</b> pan ychwanegir sillaf at eiriau. Er enghraifft <b>cretu</b> (credu), <b>blota</b> (blodau), <b>stapal</b> (stabal) |
| h                                 | fel rheol, ni chlywir <b>h</b> yn y de-ddwyrain, nodwedd sy'n raddol ymledu trwy'r de. Er enghraifft yn hytrach na <b>heddiw</b> a <b>hapus</b> , ffurfiau y rhan fwyaf o'r de yw <b>eddi</b> a <b>apus</b>  |
| 'au' mewn geiriau unsill          | ceir sawl deusain yn cyfateb i 'au' yr iaith ysgrifenedig, a hynny yn amrywio yn ôl ardal yn ogystal â geiriau unigol. Er enghraifft o ran y gair <b>dau</b> , ceir <b>au</b> yn y gogledd a'r canolbarth, ond <b>oi</b> yn y de. O ran y gair <b>haul</b> , ceir <b>au</b> yn y gogledd, <b>ai</b> yn y canolbarth, <b>oi</b> yn y de-ddwyrain a'r de-orllewin ac <b>ai</b> yng ngweddill y de  |
| y dywyll                          | y sain 'dywyll' sydd i <b>y</b> yng ngoben geiriau yn y gogledd, er enghraifft <b>cyfan</b> a <b>dysgu</b> . Er ei bod yn bosib clywed yr un sain drwy'r rhan fwyaf o'r de, y mae'n bosib hefyd cael <b>i</b> yn lle'r <b>y</b> a rydd ffurfiau fel <b>cifan</b> a <b>disgu</b> . Cynydda'r duedd i ddefnyddio <b>i</b> wrth deithio o'r de-ddwyrain tua'r gorllewin   |
| dd                                | y ffurfiau llafar mwyaf cyffredin ar y berfenw <b>eistedd</b> yw <b>ishte</b> ac <b>ishta</b> yn y de, ac <b>iste</b> ac <b>ista</b> yn y gogledd, sy'n amlygu colli <b>dd</b> . Serch hynny, cysylltir colli <b>dd</b> o ddiwedd geiriau â'r de-orllewin yn bennaf, lle ceir ffurfiau megis <b>llony</b> a <b>newy</b> , yn hytrach na <b>llonydd</b> a <b>newydd</b>   |

|  |  |
|--|--|
|  | yng ngweddill y wlad. Y mae'r nodwedd o gollir <b>dd</b> o'r clwm diweddol <b>rdd</b> yn amlycach yn y gogledd, mewn geiriau megis <b>bwr</b> 'bwrdd' a <b>ffwr</b> 'ffwrdd' |
|--|--|

- G. M. Awbery (1978, tt.194-196)  
 C. M. Jones a D. Thorne (1992, tt.17-27)  
 B. Thomas a P. W. Thomas (1989, tt.30-46)

Ceir gwahaniaethau gramadegol yn ogystal rhwng iaith y gogledd ac iaith y de. O ystyried y gwahaniaethau rhwng tafodieithoedd, ceir y mesur lleiaf o amrywio yn eu nodweddion cystrawennol; gan mai'r un iaith Gymraeg a siaredir gan bawb, rhennir yr un cystrawennau (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989, t.47).

Gall nodweddion gramadegol wahaniaethu rhwng y de a'r gogledd o ran y Treigladau, Enwau, Ansoddeiriau, Arddodiaid a Berfau. Rhwir enghreifftiau o rai o'r nodweddion hyn isod:

|              |  |
|--------------|--|
| Enwau        | <p><u>Cenedl</u><br/>         Nifer fach o enwau sy'n wahanol eu cenedl o safbwynt ardaloedd. Er enghraifft:<br/>         gwrywaidd yn y de, benywaidd yn y gogledd:<br/> <b>clust, cornel, cwpan, emyn, piano, poen, tafarn</b><br/>         gwrywaidd yn y gogledd, benywaidd yn y de:<br/> <b>breuddwyd, cinio, crib, cyflog, eiliad, munud, nifer</b></p> <p><u>Ffuriau lluosog</u><br/>         Er mai prin yw'r gwahaniaethau tafodieithol yn ffurfiau lluosog enwau, ceir rhai amrywiaethau (yn cynnwys rhai o ran acen). Er enghraifft: unigol – <b>cefnder</b><br/>         lluosog – <b>cefndryd</b> (Môn, Bangor), <b>cefnderodd</b> (Rhos), <b>cemderodd</b> (Cyfeiliog), <b>cefnderod</b> (Llanfair Caereinion), <b>cenderwyr</b> (Cei Newydd, Gogledd-orllewin Ceredigion), <b>cenderwydd</b> (Llangennech, Morgannwg)</p> |
| Ansoddeiriau | <p><u>Cymharu – ffurfiau rheolaidd</u><br/>         Yn yr iaith safonol, ceir dau batrwm ar gyfer ffurfio gradd gyfartal y rhan fwyaf o ansoddeiriau, sef (i) eu rhoi yn y fframyn <b>mor ... â</b> (er enghraifft mor wyn â'r eira) neu (ii) eu rhoi yn y fframyn <b>cyn ... -ed â</b> (er enghraifft cyn wynnâd â'r eira). Tra bod y ddau yn bosib mewn tafodieithoedd gogleddol, prin iawn ydynt mewn rhai deheuol. Yr hyn a geir yn y de fel arfer yw'r fframyn <b>mor ... -ed â</b>, sef cyfuniad o ddulliau (i) a (ii) uchod (er enghraifft mor wynnâd â'r eira)</p>   |

|  |   |                             |                               |                               |
|--|---|-----------------------------|-------------------------------|-------------------------------|
| Arddodiaid Rhediadol                         | Dosberthir arddodiaid rhediadol yn draddodiadol yn dri 'rhediad', yn ôl y llafariad sydd yn rhai o'r terfyniadau:   |                             |                               |                               |
|  | U1<br>2   | Rhediad 1<br>arnaf<br>arnat | Rhediad 2<br>trosaf<br>trosot | Rhediad 3<br>wrthyf<br>wrthyt |
|  | LI1<br>2  | arnom<br>arnoch             | trosom<br>trosoch             | wrthym<br>wrthyich            |
|  | Mae holl derfyniadau'r personau cyntaf ac ail yn yr ail rediad yn cynnwys <b>o</b> tra bod holl ffurfiau'r trydydd rhediad yn cynnwys <b>y</b> . Yn y tafodieithoedd serch hynny tueddir cael terfyniadau yn <b>a</b> neu yn <b>o</b> ar gyfer yr holl arddodiaid, a phrin yw ffurfiau yn <b>y</b> . I grynhoi'r prif dueddiadau: yn y de-ddwyrain ceir <b>o</b> yn nherfyniadau'r holl arddodiaid, er enghraifft <b>drosto</b> , yn y gogledd-orllewin, <b>a</b> yn unig a geir yn nherfyniadau arddodiaid fel <b>dros</b> ac <b>wrth</b> – <b>drosta</b> ac <b>wrtha</b> , ond hefyd mae rhai yn <b>o</b> yn bosib ar gyfer ffurfiau lluosog ar – <b>arnon</b> . Ar wahân i ffurfiau unigol <b>ar</b> , sydd yn debyg i eiddo'r gogledd, mae rhediadau'r canolbarth yn debyg i rai'r de |                             |                               |                               |
| Yr arddodiad gan                             | Er y cedwir yr arddodiad safonol <b>gan</b> yn y gogledd, ceir amrywiol rediadau. Er enghraifft:<br><b>gen i, gin i</b> / <b>gen ti, gin ti</b><br><b>geno fo, gento fo</b> / <b>geni hi, genti hi</b><br>Yn y de mae'r arddodiad <b>gyda</b> / <b>'da</b> wedi disodli <b>gan</b><br>Er enghraifft:<br>De: <b>Ma' cwpan 'da fe</b><br>Gogledd: <b>Mae cwpan gyno fo / gento fo</b>   |                             |                               |                               |
| Rhagenw yn y trydydd person unigol gwrywaidd | Dyma un gwahaniaeth cyson sy'n codi rhwng y de a'r gogledd, sef:<br>De: <b>fe / e</b><br>Gogledd: <b>fo / o</b>   |                             |                               |                               |

G. M. Awbery (1978, tt.196-200)

B. Thomas a P. W. Thomas (1989, tt.47-81)

### Tafodiaith Sir Benfro

Yn rhan nesaf y bennod, ffocysir ar Sir Benfro, gan ystyried ei chefnidir ieithyddol a'r ffin sy'n ei rhannu'n ddwy yn ieithyddol. Ystyrir hefyd rhai o nodweddion a geirfa ei thafodiaith, sut y mae'n wahanol i dafodieithoedd eraill yn y de, yn ogystal ag amrywio o fewn y sir.

## Cefndir ieithyddol

Fel y dengys G. M. Awbery (1986a, t.165), yn ieithyddol, perthyn i Sir Benfro ddau draddodiad. Tra bod gogledd y sir yn draddodiadol Gymraeg ei hiaith, Saesneg yw iaith bennaf de'r sir, ers canrifoedd. Daeth hyn i fod o ganlyniad i ymosodiadau estron, megis ymosodiad y Llychlynwyr ar ardaloedd arfordirol Cymru o ddechrau'r nawfed ganrif hyd at ddechrau'r unfed ganrif ar ddeg, a llu o fewnfudwyr, megis y Saeson, y Ffleminiaid, y Sgandinafiaid, y Gwyddelod a'r Sacsoniaid o'r unfed ganrif ar ddeg ymlaen.

Erys y dylanwadau estron hyn ar eiriau ac enwau lleoedd yn ne'r sir. Er enghraifft, gwelir y gair Norsege am ynys, sef *ey*, yn ynys *Ramsey* ger Tyddewi ac ynys *Caldey* ger Dinbych y Pysgod. Geiriau estron i'r Gymraeg hefyd yw enwau'r ynnysoedd *Skokholm* (skokkr – culfor + holmr – ynys) a *Grassholm* (grass – porfa + holmr – ynys). O ran dylanwad Saesneg, elfen gyffredin yn enwau lleoedd yn Lloegr yw *ton*, sef *town*, ac fe'i gwelir yn ne Sir Benfro mewn enwau pentrefi megis *Ambleston*, *Bosherston*, *Clarbeston* a *Herbrandston*. Gwelir dylanwad y Fflemeg, megis yr elfennau *hook* a *wick* mewn enwau lleoedd megis *East Hook*, *West Hook* a *Goodwick*, a dylanwad Eingl-Sacsonaidd ar enwau'r pentrefi *Hayscastle*, *Slebech* a *Rudbaxton* (P. V. Harris, 1974).

## Y ffin ieithyddol – Landsker

Gelwir y llinell sy'n rhannu'r sir yn ieithyddol yn *Landsker*. Yn draddodiadol, rhedai'r ffin ieithyddol hon o Amroth yn y dwyrain i Niwgwl yn y gorllewin (G. M. Awbery, 1991, t.4). Yn sgil ei thraddodiad Seisnig, cyfeirir at waelod Sir Benfro, yr ardal islaw'r *Landsker*, yn aml fel *little England beyond Wales* a'r trigolion yn *down belows*. Yn ei gyfrol gyntaf o *Crwydro Sir Benfro*, dyfynna E. Ll. Williams (1958, t.15) hen bennill sy'n amlygu'r ffin:

Mae dwy ochor yn Sir Benfro,  
Un i'r Sais a'r llall i'r Cymro –  
Melltith Babel wedi rhannu  
Yr hen sir o'r pentigili (E. Ll. Williams, 1958, t.15).

Mae'r ffin hon yn un eithaf sefydlog a chllir, ac ni newidiodd ei lleoliad rhyw lawer ar hyd y canrifoedd. Yn ei lawysgrif *The Description of Pembrokeshire* yn 1603, aeth yr hanesydd George Owen ati i gynnig diffiniad o leoliad y llinell hon. Awgrymodd G. Owen (1603, argraffiad D. Miles, 1994, t.51) fod y sir wedi ei rhannu fwy neu lai yn ddwy ran gyfartal yn ieithyddol, gan restru'n fanwl yr ardaloedd oedd yn perthyn i'r *Englishrie* a'r rhai hynny oedd yn perthyn i'r *Welshrye*. Esboniodd fod trigolion ardaloedd Castell Martin, y Rhos, Arberth a Daugleddau, ac eithrio plwyfi Llanddewi, Llanddewi Felffre, Llanfallteg, Llangan, Llandysilio, Llanycefn a Chrynwedd yn siarad Saesneg, tra bod trigolion Cemaes, Cilgerran a Bro Ddewi yn siarad Cymraeg, ac felly:

about seventy-four parishes are inhabited by the Englishmen, and sixty-four parishes mere Welsh, and the rest, being about six, speak both languages, being as it were the marches between both those nations (G. Owen, 1603 yn argraffiad D. Miles, 1994, t.51).

Tystiodd O. M. Edwards (1896, t.155) i'r rhaniad hwn wrth deithio drwy'r sir ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth gael ei yrru drwy Hwlfordd tuag at Dyddewi, disgrifia ei sgwrs gyda gyrrwr y cerbyd. Wrth deithio heibio i gastell Roch a disgyn y rhiw tuag at Niwgwyl, dywed iddynt gyrraedd yr union derfyn rhwng y wlad Gymraeg a'r Saesneg:

Dywedai'r gyrrwr mai ym Mhenfro Seisnig y mae Hwlfordd, ac na siaredir gair o Gymraeg ynddi. Gwelwn yn amlwg oddiwrth enwau'r siopwyr fod llawer cenedl yn trigo yn y dref, Bleddyn Cymreig mewn heddwch â Havard Normanaidd. Sais oedd y gyrrwr, a charn Sais (O. M. Edwards, 1896, t.155).

Amlygodd G. M. Awbery (1991, t.7) y ffaith bod map sy'n dangos lleoliad y ffin ieithyddol yn ôl canlyniadau cyfrifiad 1931 yn dangos ei

bod yn eithriadol o debyg i'r ffin a ddisgrifiwyd gan George Owen yn 1603. Yng ngogledd y sir yn 1931 roedd dros 80% o'r boblogaeth yn y rhan fwyaf o'r plwyfi yn siarad Cymraeg. I'r gwrthwyneb yn llwyr oedd hi yn ne'r sir, gyda llai na 10% yn y rhan fwyaf o'r plwyfi yn siarad Cymraeg. Disgrifia G. M. Awbery (1986b, t.4) y ffin rhyngddynt, sef sribyn cul o blwyfi a oedd yn llai na deng milltir o led, fel: 'a very abrupt cultural divide,' gan ychwanegu: 'nowhere else in Wales do we find so stable and so abrupt a boundary between the two languages.'

Cyfeiria B. John (1995, t.163) at arolwg o'r *Landsker* a wnaed gan fyfyrwyr yn 1971 drwy gwestiynu 561 o gartref-ddeiliaid yn yr ardal. Dengys eu canfyddiadau fod presenoldeb y *Landsker* fel rhaniad ieithyddol yn parhau, ac er nad oedd mwyafrif y rhai a holwyd wedi clywed am y term *Landsker*, (sy'n awgrymu nad oedd y term yn cael ei ddefnyddio'n *gyffredin* erbyn y cyfnod hwnnw), roedd pob un ohonynt yn ymwybodol o bresenoldeb y rhaniad ieithyddol a llwyddai mwyafrif y rhai a holwyd i'w leoli'n lled gywir o fewn eu hardal hwy. Er bod canran y Cymry Cymraeg yng ngogledd y sir wedi gostwng wrth i'r ugeinfed ganrif dynnu at ei therfyn, dywed G. M. Awbery (1986a, t.165): 'erys y ffin ieithyddol hon mor drawiadol ag erioed.'

*Map*



Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2001 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2004, tt.51-52), fod y Gymraeg yn parhau'n gryfach yng ngogledd y sir a bod canran y siaradwyr Cymraeg mewn pentrefi gogleddol dipyn yn uwch nag ydoedd mewn pentrefi deheuol, gyda 21.75% o drigolion Sir Benfro ar gyfartaledd yn siarad Cymraeg. Er enghraifft:

| <b>Gogledd</b> | <b>% Siaradwyr Cymraeg</b> | <b>De</b> | <b>% Siaradwyr Cymraeg</b> |
|----------------|----------------------------|-----------|----------------------------|
| Cilgerran      | 53.55%                     | Amroth    | 11.48%                     |
| Clydau         | 55.74%                     | Caeriw    | 12.11%                     |
| Crymych        | 62.61%                     | Llandyfái | 12.51%                     |
| Dinas          | 49.29%                     | Llanismel | 12.98%                     |
| Maenclochog    | 61.85%                     | Maenorbŷr | 12.60%                     |

Er bod canran y siaradwyr Cymraeg yn y sir wedi gostwng i 19.2% erbyn Cyfrifiad 2011 (Llywodraeth Cymru, 2012), roedd nifer y siaradwyr Cymraeg yng ngogledd y sir yn parhau dipyn yn uwch nag yng ngwaelod y sir. Er enghraifft:

| <b>Gogledd</b> | <b>% Siaradwyr Cymraeg</b> | <b>De</b> | <b>% Siaradwyr Cymraeg</b> |
|----------------|----------------------------|-----------|----------------------------|
| Cilgerran      | 51.7%                      | Amroth    | 11.6%                      |
| Clydau         | 55.9%                      | Caeriw    | 12.1%                      |
| Crymych        | 60.4%                      | Llandyfái | 10.2%                      |
| Dinas          | 49.7%                      | Llanismel | 11.4%                      |
| Maenclochog    | 48.2%                      | Maenorbŷr | 8.7%                       |

### **Arwyddocâd y Landsker**

O ganlyniad i'r llinell ieithyddol hon, perthynai i Sir Benfro ddiwylliant deublyg. Awgrymodd B. S. John (1972, t.7) fod effaith y rhaniad hwn ar elfennau'r tirwedd diwylliannol wedi bod yn sylweddol. Yr oedd y *little England beyond Wales* yn wahanol i bob rhan arall o Gymru. Cyfeiria G. M. Awbery (1991, t.6), er enghraifft, at y ffaith mai Cymraeg oedd iaith yr ysgolion cylchynol a sefydlwyd gan Griffith Jones Llanddowror yn y rhan fwyaf o Gymru, ond mai ysgolion Saesneg oedd yn ne Sir Benfro, megis ym mhentrefi Amroth, Reynalton a Walton West.

O ran crefydd, wrth ddisgrifio iaith gwasanaethau yn y cyfnod o gwmpas 1850, dywed W. T. R. Pryce (1978, t.17) fod y rhaniad ieithyddol yn cyd-fynd â'r *Landsker* hanesyddol, ond bod arwyddion amlwg fod y Seisnigeiddio yn dechrau ymestyn tuag ardal Abergwaun. Cyfeiria, er enghraifft, at y ffaith bod y ddau wasanaeth ar y Sul ym mhentref Dinas, ychydig filltiroedd i'r gogledd o Abergwaun, yn parhau yn bennaf yn y Gymraeg yn 1848, ond, gyda dyfodiad ambell drigolyn Saesneg, fod rhannau o'r gwasanaeth a'r bregeth bellach yn cael eu rhoi yn Saesneg. Dengys G. M. Awbery (1991, t.6) ei bod yn glir erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg fod yr eglwysi yn ne'r sir yn gyson uniaith Saesneg, tra bod eglwysi gogledd y sir yn arddel y Gymraeg yn unig, gyda llain gul yn ymestyn rhyngddynt lle gwelwyd y ddwy iaith yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â'i gilydd.

Nid pawb sydd am amlygu arwyddocâd y *Landsker* serch hynny, na chydabod ei bodolaeth. Mewn erthygl yn y papur newydd *The Pembrokeshire Herald* yn 2014, awgryma Hefin Wyn, awdur toreithiog yn nhafodiaith y sir y sonnir amdano yn y bumed bennod, nad oes angen rhaniad o'r fath erbyn heddiw. Dywed am y term *Landsker*: 'Sdim ishe'r fath air beth bynnag. Sdim ishe rhaniad o'r fath. Cladder y gair o dan gerrigos traeth Niwngwl a tawed â sôn' (H. Wyn, 2014b, t.50). Mae'n debyg mai barn Hefin Wyn, felly, yw y dylid ystyried y sir yn un ddwyieithog, yn hytrach nag amlygu rhyw raniad ieithyddol rhwng y de a'r gogledd. Yn sicr, gwelwyd twf mewn addysg Gymraeg yn ne'r sir yn y blynyddoedd diwethaf; ym Medi 2016, agorwyd ysgol gynradd Gymraeg newydd yn nhref Dinbych-y-Pysgod, ac ym mis Medi 2017, agorwyd ail ysgol uwchradd Gymraeg y sir, a hynny yn nhref Hwlfordd.

### **Nodweddion y dafodiaith**

Perthyn i dafodiaith Sir Benfro nifer o nodweddion. Er bod iddi ei harbenigrwydd lleol a'i nodweddion unigryw, y mae hi hefyd yn un o dafodieithoedd yr hen Ddyfed, sy'n cynnwys siroedd Ceredigion a

Chaerfyrddin yn ogystal â Phenfro, ac felly mae'n rhannu rhai nodweddion ag ardaloedd o fewn y ddwy sir arall (C. M. Jones a D. Thorne, 1992, t.7). Yn ogystal, mae iddi 'nodweddion eraill sydd yn ei chlymu â thafodieithoedd eraill de Cymru, ac yn ei gwahaniaethu oddi wrth iaith y gogledd' (G. M. Awbery, 1991, t.8).

Er bod tafodiaith arbennig i Saesneg Sir Benfro, y dafodiaith Gymraeg, yng nghyd-destun llenyddiaeth y fro, sydd o dan sylw yn y traethawd hwn. Trafodir a dadansoddir rhai o'i nodweddion yma, gan dalu sylw i eirfa, acen a ffurfiau gramadegol.

### **Geirfa**

Cred G. Griffiths a J. Phillips (1976, t.8) fod tafodiaith Sir Benfro yn un arbennig iawn; pwysleisiant y gwahaniaethau sylweddol o'i mewn o ran geirfa, a'r ffaith y ceir 'byd o wahaniaeth er enghraifft rhwng iaith Solfa a iaith Crymmych.' Tystia G. M. Awbery (1991, t.8) hithau i'r amrywio hwn o fewn y sir, gyda'r ardaloedd mwyaf gorllewinol, fel Pen-caer a chylch Tyddewi, yn arfer geiriau gwahanol i'r rhai a glywir yn yr ardaloedd dwyreiniol. Yng ngorllewin y sir, er enghraifft, clywir y gair *tŷ gwartheg* tra'r gair *glowty* a glywir yn y dwyrain. Y *ffald* yw'r gair a ddefnyddir yn y gorllewin, tra'r gair *clos* a glywir yn y dwyrain:

Wên i'n godro mâs ar hioi 'efyd, â stôl fach a'r pail. A'r hen fuwch in mynd weithe a ngadel i ar ôl, a 'ffod dilyn 'i... Synon ni'n godro mâs in i ceie. We rhaid câl i da ddo' gatre i'r hioi, a cau'r ddwy iet i clos wedyn. A wê'r da 'da chi wedyn. Wê rhai'n myn' miwn i'r glowty a'r, wel wê amell i le wên nw'n galle' clwmu'r da i gyd. Ond pryd arall ôn i'n godro nw mâs ar 'iol 'ifyd (Siaradwraig o Gasmael, yn G. M. Awbery, 1991, t.9).

Gwnaed sawl ymgais i gloriannu a chofnodi geirfa dafodieithol Sir Benfro. Yn 1910, er enghraifft, fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, cyhoeddodd W. Meredith Morris y gyfrol *A Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire*, gan ganolbwyntio ar ardal Cwm Gwaun

Ile cafodd ei eni yn 1867. Dyma gyfraniad pwysig i faes tafodieitheg a erys yn ffynhonnell wybodaeth bwysig. Yn y gyfrol, sydd ar ffurf geiriadur, cynhwysa'r awdur eiriau oedd yn fyw yr adeg honno, rhai oedd yn araf ddiflannu, yn ogystal â rhai nas defnyddiwyd bellach, gan esbonio eu hystyr yn Saesneg. Rhydd hefyd enghreifftiau o sut y defnyddid y geiriau gan drigolion yr ardal yn eu sgysiau bob dydd. Yn ei ragair, dywed mai ei obaith drwy gyhoeddi'r gyfrol oedd y byddai o ddiddordeb a gwerth i'r rhai hynny oedd am astudio tafodieithoedd:

The pity is that in these days of general "levelling down" dialectical distinctions are fast disappearing, making one apprehensive that in another generation all the sub-dialects (at least) will have vanished (W. M. Morris, 1910, t.7).

Gellid maentumio bod tafodieithoedd ar drai heddiw, yn enwedig ymysg y to iau, gyda rhai geiriau eisoes wedi diflannu o eirfa bob dydd. Cyfeiriwyd yn y bennod gyntaf at farn I. ap Glyn (2011), fod perygl bod addysg yn lladd tafodieithoedd am nad yw athrawon yn aml yn dod o'r ardaloedd y maent yn addysgu ynddynt, a hefyd am eu bod yn addysgu iaith safonol i'r plant. Yn ogystal, mae'r datblygiadau yn y byd cyfryngol a chyfryngau cymdeithasol yn golygu bod plant erbyn hyn yn clywed geirfa a thafodieithoedd amrywiol, er nad yw hynny o anghenraid yn beth drwg.

Rhestrir isod rai o'r geiriau a gofnodir gan W. M. Morris (1910), geiriau a glywir hyd heddiw ar lafar, ac, felly, sydd wedi llwyddo i oroesi:

|           |   |               |
|-----------|---|---------------|
| Bipsan    | = | sneer         |
| Dambwyll  | = | slowly        |
| Damshil   | = | to tread upon |
| Falle     | = | perhaps       |
| Fid       | = | also          |
| Gwillti   | = | hurry         |
| Maldodi   | = | flatter       |
| Pinshad   | = | a pinch       |
| Shengel   | = | single        |
| Wen-swcci | = | a pet lamb    |

Fel y nodwyd eisoes, yn y gyfrol *The Linguistic Geography of Wales*, aeth Alan R. Thomas ati i gyflwyno gwybodaeth fanwl am ddosbarthiad daearyddol cannoedd o eiriau tafodieithol. Dengys ei fapiau o Gymru fod dosbarthiad rhai geiriau yn eang iawn, tra bod eraill wedi eu cyfyngu i ardaloedd bychan. Dywed A. R. Thomas (1973, t.27) fod gorllewin Sir Benfro wedi ei nodweddu gan eiriau megis *arddyd*, *bolgen a cuch*, bod rhai geiriau wedi eu cyfyngu i ardal fechan yn y gorllewin, megis *costen* a *troglwyth*, a bod dosbarthiad geiriau eraill, megis *baser* a *smwt* wedi eu cyfyngu i hanner gogleddol yr ardal hon. Canfu mai un gair cyffredin, ar adegau, a ddefnyddir yn Sir Benfro, megis:

|        |   |           |                              |
|--------|---|-----------|------------------------------|
| feidir | = | heol fach | (t.312)                      |
| côr    | = | stall     | (t.360)                      |
| parc   | = | cae       | (t.390) (A. R. Thomas, 1973) |

Ar y llaw arall, mae nifer o dermau tafodieithol am yr un gair mewn defnydd ar adegau yn Sir Benfro ac yn gweu drwy ei gilydd o fewn plwyfi filltir neu ddwy arwahân, megis:

|                                      |   |           |         |
|--------------------------------------|---|-----------|---------|
| llio a lapo                          | = | to lick   | (t.196) |
| clebran, cloncan, hela claps a lapan | = | to gossip | (t.436) |
| croten, rhoces a merch               | = | girl      | (t.520) |

(A. R. Thomas, 1973)

Amlygwyd hyn gan Eirwyn George (Cyfweliad, 2014), a gyfeiriodd at yr amrywio tafodieithol o'r naill ardal i'r llall, megis ei ddefnydd ef, a aned yn Twffton, o'r geiriau *crwt a rhoces*, tra bod ei wraig, a aned ym mhentref Hermon, ger Crymych, yn dweud *bachgen a merch*.

Dengys A. R. Thomas (1973, t.520) fod y gair *rhoces* wedi ei gyfyngu i Sir Benfro, ac felly mae hwn yn un enghraifft o sut y mae geirfa tafodiaith y sir yn wahanol i dafodieithoedd eraill y de; *croten* neu *merch* a arddelir yn gyffredin ar draws de Cymru. Yn yr un modd, yn Sir Benfro yn unig y defnyddir y gair cyfatebol am fachgen, sef *rhocyn*, er bod y geiriau *crwt* (sy'n gyffredin ar draws de Cymru) a *bachgen* wedi cymryd ei le bron yn llwyr (A. R. Thomas, 1973, t.518).

## Ystyron gwahanol

Ceir enghreifftiau yn nhafodiaith Sir Benfro o eiriau sydd ag ystyr hollol wahanol iddynt mewn ardaloedd eraill. Er y gall hyn arwain at gamddealltwriaeth, 'gall yr amrywiadau ystyr hyn gyfrannu llawn cymaint at arbenigrwydd y dafodiaith â phresenoldeb geiriau unigryw lleol' (G. M. Awbery, 1991, t.10). Er enghraifft

|                |   |   |
|----------------|---|---|
| jogel 'diogel' | = | rhywbeth o faint sylweddol                |
| cadair         | = | crud babi                                 |
| dyn tywyll     | = | dyn dall yn hydrach na dyn tywyll ei wedd |

Ar draws Cymru, ystyr *cadair* yw *chair*. Yn Sir Benfro, y gair cyffredin am *chair* yw *stôl* (G. M. Awbery, 1991, t.10).

## Amrywiaeth sillafu

Yr hyn a welir yn aml mewn tafodiaith yw amrywiaeth sillafu. Er enghraifft, gwelir *i*, *u* neu *y* yn cael eu defnyddio wrth sillafu geiriau; sylwer ar y gair am 'yr holl ffordd' a sillefir gan rai yn *pentigili* a chan eraill yn *pentigily* a'r gair lleol am bentref Trefdraeth a sillefir gan rai fel *Tudrath* ac eraill *Tidrath*. I'r awdur tafodieithol felly: 'any attempt to manipulate the spelling of a word in order to indicate a dialectal pronunciation is always going to be a very inexact art' (J. Hodson, 2014, t.91). Dengys yr amrywiaeth a'r ansicrwydd hyn ynglŷn ag orgraff nad yw'r ffurfiau llafar, tafodieithol hyn wedi arfer â bod yn ffurfiau ysgrifenedig (A. Price, 2002, t.140).

Mae hyn yn wahanol i'r iaith safonol lle ceir fel rheol un ffordd yn unig o sillafu geiriau yn dilyn yr ymgais fwriadol i safoni'r iaith. Gall hyn ychwanegu at dyndra rhwng y ddau lwybr ieithyddol a dilema sylfaenol o ran teithi'r Gymraeg. Yn ogystal, gall yr amrywiaeth a'r anghysondeb hwn yn yr iaith dafodieithol beri dryswch i'r darllenydd, o'i gymharu â'r cysondeb sillafu yn yr iaith safonol, er nad yw'r gwahanol fathau o sillafu yn effeithio ar y gystrawen.

## Dylanwad y Saesneg

Yn anorfod, gwelir dylanwad y Saesneg ar Gymraeg Sir Benfro. Afraid dweud nad tueddiad wedi ei gyfyngu i'r rhan hon o Gymru yn unig yw hwn, gan ei fod yn gyffredin ar hyd y wlad yn sgil dylanwad cyfryngau megis y teledu, llyfrau a phapurau newydd, ac yn sgil trigolion yn teithio ac yn cyfathrebu ag eraill. Er i'r iaith Gymraeg oroesi yng ngogledd y sir, er gwaethaf y concwest Eingl-Normanaid a'r mewnfudo Seisnig yn y de, gwelwyd y dafodiaith Gymraeg yn amsugno nifer o eiriau o dafodiaith Saesneg y sir: 'this was inevitable over a long period of inter-communication between the two nations' (B. G. Charles, 1971, t.103).

Daeth y dylanwad hwn i fod yn sgil nifer o ffactorau; ymwelai Cymry gogledd y sir yn rheolaidd â marchnadoedd a ffeiriau de'r sir i werthu ac i brynu nwyddau ac anifeiliaid, ac felly'n naturiol deuent i gyswllt â'r iaith Saesneg. Yn ogystal, gwerthwyr Saesneg eu hiaith o dref Hwlfordd oedd y prif stodinwyr yn ffeiriau a marchnadoedd gogledd y sir ac, o ganlyniad, 'traffic in goods naturally resulted in a traffic in words' (B. G. Charles, 1971, t.103). Y marchnadoedd hyn, felly, oedd un o brif ffynonellau benthyg geiriau Saesneg i dafodiaith Gymraeg Sir Benfro, a dylanwad diwylliant Seisnig ar ddiwylliant Cymreig. Yn ogystal, gwelwyd trigolion y sir yn mudo ar draws y ffin ieithyddol, drwy briodas er enghraifft, a daeth rhai geiriau benthyg i mewn drwy sianeli eraill megis ysgolion, eglwysi a'r proffesiynau (B. G. Charles, 1971, t.103).

Tynnodd nifer sylw at yr elfen Saesneg a ddaeth yn nodwedd o dafodiaith Gymraeg gogledd y sir. Er bod G. Parry (1999, tt.32-34), wrth drafod hanes tref Abergwaun yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn nodi ei bod wedi ei lleoli mewn ardal a oedd yn gadarnle i'r Gymraeg, dywed nad oedd modd i'r dref osgoi dylanwad y Saesneg. Yn yr un modd, ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, cyhoeddodd Arthur Wade-Evans, brodor o Abergwaun, ysgrif ar dafodiaith a geirfa'r dref; cydnabu fod Cymraeg llafar y dref yn llawn o eiriau, idiomau a ffurfiau gramadegol Saesneg

gan ddyfynnu dywediad i ddangos y dylanwad hwnnw, sef ‘Thus: “Ma’i’n costi four shillings a wechinog i fynd i Swansea” is horrible - Cwmrag gwâl *iawn*’ (A. Wade-Evans, 1907, t.22). Serch hynny, mae’n bleidiol i’r dafodiaith a siaredid yn Abergwaun, gan honni: “Ma’r wên yn ware ar y porfa” is as real Welsh as “Mae yr oen yn chwareu ar y glaswellt” (A. Wade-Evans, 1907, t.22), ac mai’r unig wahaniaeth yw bod y naill yn dafodiaith a siaredir ond nas ysgrifennir, tra bod y llall yn Gymraeg safonol y Beibl a gydnabyddir ledled Cymru. Noder ei sylw mai siarad y dafodiaith yn unig a wneir, ac nid ei hysgrifennu; efallai na fyddai mor bleidiol i’r dafodiaith mewn ffurf ysgrifenedig, ac y byddai, fel nifer, o’r farn mai Cymraeg safonol yw’r unig gyfrwng y dylid ysgrifennu ynddi.

Nodir isod enghreifftiau o’r geiriau yn nhafodiaith Sir Benfro a restrir gan B. G. Charles (1971) sydd ag iddynt ddylanwad neu darddiad Seisnig. Noder bod W. M. Morris (1910) wedi cofnodi nifer o’r un geiriau gan esbonio yn ei ragair iddo eu cynnwys yn ei gyfrol gan eu bod, drwy hir ddefnydd, wedi eu hymgorffori’n llwyr i’r dafodiaith. Nid yw’r ddau awdur yn sillafu’r geiriau yr un fath bob tro; fel y nodwyd eisoes, gall sillafiad geiriau tafodieithol amrywio:

|           |   |                                |
|-----------|---|--------------------------------|
| cloncan   | = | to chatter, gossip             |
| clwtyn    | = | a rag, cloth                   |
| diléit    | = | delight, interest              |
| fflagen   | = | flagstone                      |
| galafanto | = | to go about idly               |
| hansh     | = | bite                           |
| ildo      | = | to give in, surrender          |
| rhacsyn   | = | scoundrel                      |
| slabog    | = | muddy, wet, dirty              |
| trwco     | = | exchange (B. G. Charles, 1971) |

Disgrifia B. John (1995, t.155) sut y datblygodd Saesneg Sir Benfro dros gyfnod hir o amser mewn ardal ynysig, heb gyswllt uniongyrchol â Lloegr. Dywed hefyd fod trigolion de’r sir yn siarad tafodiaith ranbarthol gref a gynhwysai nifer fawr o eiriau nas defnyddir mewn ardaloedd Seisnig eraill yng Nghymru. Dyma rai a restrir ganddo; clywir fersiynau



o rai o'r geiriau hyn yn nhafodiaith Gymraeg gogledd Sir Benfro heddiw, megis *caff*, *tampan* a *sgiw*:

|           |   |                                 |
|-----------|---|---------------------------------|
| caffled   | = | entangled                       |
| to clanch | = | to beat or thrash               |
| to mitch  | = | to play truant from school      |
| drang     | = | a narrow passage                |
| tamping   | = | exceedingly angry               |
| trash     | = | cuttings from a hedge           |
| skew      | = | a high-backed settle            |
| lonker    | = | rope for hobbling animals       |
| tish      | = | nonsense                        |
| kift      | = | clumsy, awkward (B. John, 1995) |

Dangosodd G. M. Awbery (1991, t.11) sut yr ymgartrefodd rhai o eiriau'r de yn nhafodiaith gogledd y sir yn hollol naturiol. Rhydd yr enghraifft *stŵmo'r tân*, sef term Sir Benfro am enhuddo'r tân dros nos fel na fydd yn diffodd, gair a ddaw'n wreiddiol o Saesneg y de *to smoor*:

Ôn ni'n stŵmo'r tân peth diwetha cyn mynd i'r gwely, rhoi cwlwm drost y top i gyd a wedyn câl i pocer a gweithio un twll in i canol fel bod e'n câl fent, a twll bach o ochor y pentan, a roi tecl mowr gerllaw..... wê hwnnw wedi nawso erbyn bore (Siaradwraig o Dyddewi, yn G. M. Awbery, 1991, t.11).

Awgrymodd G. M. Awbery (1993, tt.25-26) fod pobl leol yn ymwybodol o'r elfen Saesneg hon yn eu tafodiaith ac yn aml yn cyfeirio ati fel *iaith shipris*, sef cymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg. Cyfeiriwyd at y term yn y bennod gyntaf, ac yn y penodau i ddilyn amlygir bod nifer o awduron yn cyfeirio at y dafodiaith fel shipris ond, serch hynny, maent yn dewis ysgrifennu ynddi, am wahanol resymau.

## Acen

### Yr 'oe' orgraffyddol

Ni yngenir yr 'oe' orgraffyddol yn y modd arferol yn Sir Benfro (G. M. Awbery, 1986a, t.166). Er enghraifft, yn hytrach na:

*coed, oer, troed, oen, ddoe, coes*

yr hyn a geir yma yw naill ai

*cŵed, wêr, trwêd, wên, dŵe, cŵes* gyda'r pwyslais ar yr *w*

neu

*cwêd, wêr, trwêd, wên, dwê, cwês* gyda'r pwyslais ar yr *ê*.

“Ma blas bach od ar 'on” medde fe 'tho i, “tastwch chi te, mae fel 'se te wêr” (Siaradwraig o Drefdraeth, yn G. M. Awbery, 1991, t.14).

Dengys G. M. Awbery (1986a, t.166) mai'r naill ar y cyfan yw dewis Pen-caer ac ardaloedd gorllewinol y sir, tra bod mwy o amrywiaeth mewn ardaloedd eraill. Mewn geiriau unsill yn unig y ceir y ffurfiau hyn; tra ceir *wêr* neu *wêr* am *oer*, os ychwanegir terfyniad, ceir *oeri*. Er bod y ddau ynganiad *wê* a *wê* yn bosib yn achos y rhan fwyaf o eiriau *oe*, yn ffurfdroadau perthnasol y ferf *bod*, *wê* yn unig a geir, megis *wês* a *wêdd* (G. M. Awbery, 1991, tt.14-15).

Mae hyn yn nodwedd sy'n gwahanu tafodiaith Sir Benfro a thafodieithoedd eraill y de, gan mai ffurf arferol geiriau fel *coes*, *oer* ac *oes* yn y de yw *côs*, *ôr* ac *ôs*, gyda'r sain *oe* wedi newid yn *ô* (G. M. Awbery, 1978, tt.195-196).

### Yr 'y' orgraffyddol

Ym mwyafrif tafodieithoedd Cymru y sain dywyll a roir i y mewn geiriau (G. M. Awbery, 1991, t.15). Er enghraifft:

*ysgol, bygwth, cyfan, dysgu, cynnar, cysgu, ymladd, hynny, bysedd, dynion, cymylau*

ond yn Sir Benfro, mae tuedd i ymwrthod â'r sain dywyll hon, gan ddewis y seiniau *i* ac *w* yn lle hynny a rydd:

*isgol, bwgwth, cifer, disgu, cinnar, cisgu/cwsgu, wmla, hinni, bisedd, dinion, cwmwle*

Gwelir bod cytseiniaid megis *s* neu *n* yn dewis *i*, fel yn achos *isgol*, *cinnar* a *disgu*, tra bod cytseiniaid eraill yn dewis *w*, fel yn achos *bwgwth* ac *wmla*. Mae'r duedd hon yn cryfhau wrth fynd tua gorllewin y sir, ac erbyn cyrraedd ardal Tyddewi, mae'r y fwy neu lai wedi diflannu'n llwyr (G. M. Awbery, 1991, t.15). Er enghraifft:

Wedd e'n performans mowr, dala fe a wedd e'n sgrechen  
wedyn, so we ishe dou ne dri o ddinion at y *job* 'na  
(Siaradwraig o'r Mot, yn D. Thorne, 1988, t.48).

Mewn rhai ardaloedd, megis Trefdraeth yng ngogledd y sir, mae'r gwrthwyneb yn wir, gyda'r sain y dywyll wedi ymledu i nifer o eiriau a fyddai'n cynnwys y sain *i* mewn ardaloedd eraill, megis dillad = *dyllad*, hirach = *hyrach*, cribo = *crybo* (G. M. Awbery, 1991, t.16).

### Yr 'eu' yn y goben

Ceir tueddiad i ddewis *oi* yn ddeusain yn y goben, sy'n cyfateb i *eu* yr iaith ysgrifenedig. Gwelir y nodwedd hon ar ei chryfaf yng nogledd y sir (B. Thomas a P. W. Thomas, 1989, t.45). Er enghraifft:

|         |   |                |
|---------|---|----------------|
| heulog  | = | <i>hoilog</i>  |
| treulio | = | <i>troilo</i>  |
| deuddeg | = | <i>doiddeg</i> |

### Cytseiniaid

Ceir nodweddion cytseiniol arbennig, sef ar ddiwedd gair, collir y sain *dd* (G. M. Awbery, 1991, t.17). Er enghraifft, yn hytrach na:

*mynydd, nedwidd, clawdd, llonydd, celwydd, newydd,  
perfedd, gilydd*

yr hyn a geir yw

*myny, nedwi, claw, llony, celwi, newy, perfe, gili*

Digwydd y nodwedd hon yn gyffredin mewn enwau pentrefi, megis *Capel Newydd*, a adwaenir fel *Capel Newy*, yn ogystal ag enwau

cartrefi, megis *Bwlch Clawdd* a adwaenir fel *Bwlch Claw*. Pan ychwanegir terfyniad at y gair, daw'r sain *dd* yn ei hôl, megis yn *cloddie* a *nedwidde* (L. L. Dafis, 2013, t.10).

Ar ddiwedd gair hefyd, gwelir symleiddio rhai clymau cytseiniol, gan gynnwys clymau o *f* ac un gytsain arall, drwy eu gwahanu â llafariad ymwithiol (G. M. Awbery, 1991, t.17). Er enghraifft, aiff:

|              |    |               |
|--------------|----|---------------|
| <i>trefn</i> | yn | <i>trefen</i> |
| <i>cefn</i>  | yn | <i>cefen</i>  |
| <i>sofl</i>  | yn | <i>sofol</i>  |

Yn ogystal, gellir symleiddio'r clwm cytseiniol drwy gyfnewid *w* am yr *f*, tuedd sydd ar ei chryfaf yng ngorllewin Sir Benfro (G. M. Awbery, 1986a, t.167). Er enghraifft, aiff:

|               |    |               |
|---------------|----|---------------|
| <i>cefn</i>   | yn | <i>cewn</i>   |
| <i>sofl</i>   | yn | <i>sowl</i>   |
| <i>llyfni</i> | yn | <i>llawni</i> |

O, tamed bach o'r stêc a falle cese 'i asgwrn cewn, a'r asenne, chimod, i *ribs*. O, on nw'n shario nw mâs in neis wedyn, ychwel. Wath on nw'n shŵr câl e nôl, ychwel (Recordiad o wraig o Ben-caer, yn B. Thomas a P. W. Thomas, 1989, t.133).

Gwelir hyn yn digwydd hefyd mewn enwau pentrefi, megis *Llanycefn* a adwaenir fel *Llancewn*. Y mae'n nodwedd sy'n gwahaniaethu tafodiaith Sir Benfro a thafodieithoedd eraill yn y de, sy'n arddel y ffurf *cefen* er enghraifft (C. M. Jones a D. Thorne, 1992, t.23).

Ar ddechrau gair, yngener y clwm cytseiniol *chw-* fel *hw-*, megis *hwech* a *hware*. Yngener y ddeusain *ae* fel *â* hir, megis yn *llâth* neu *hwâr*, ac mae'r ddeusain *au* yn troi'n *oi* mewn geiriau fel *hoi*, *hoil* a *doi* (C. M. Jones, 2006b, t.373):

On ni'n hwyl fowr, on ni'n cal gêm ychwel..... a hware hon erbyn nos 'da'n gili'n blant ar bwys tân (Siaradwr o Landudoch, yn D. Thorne, 1988, t.46).

Nodwyd eisoes bod y clwm cytseiniol *chw-* yn un o'r nodweddion sylfaen sy'n gwahaniaethu'r de a'r gogledd, a bod y ffurfiau yn newid eto yng nghymoedd y de-ddwyrain. Yngenir *chwarae* y gogledd yn *hware* yn Sir Benfro, ond *ware* yn nhafodieithoedd y de-ddwyrain (G. M. Awbery, 1978, t.195).

## Ffuriau Gramadegol

### Cystrawennau

Perthyn cystrawennau unigryw i bob tafodiaith, sef dulliau o ddefnyddio'r adnoddau geirfaol sydd i gael i lunio brawddegau cyfan. Cred G. M. Awbery (1991, t.19) mai'r ffurfiau mwyaf trawiadol o hyn yn nhafodiaith Sir Benfro yw'r negyddion. Cytuna B. Thomas a P. W. Thomas (1989, t.79) eu bod yn 'gwefreiddio'r tafodieithegydd.'

Ceir rhediad llawn o'r ferf *bod* yn y negyddol, gyda therfyniadau gwahanol i bob rhif a pherson (G. M. Awbery, 1991, t.19). Er enghraifft:

|                        |                          |
|------------------------|--------------------------|
| Sana i'n credu .....   | Sanon ni'n credu .....   |
| Sanot ti'n credu ..... | Sanoch chi'n credu ..... |
| Sano fe'n credu .....  | Senyn nw'n credu .....   |
| Seni hi'n credu .....  |                          |

Yn ogystal, ceir rhediad mwy cywasgedig, er enghraifft:

sai'n credu .....

a cheir rhediad cyffelyb yn yr amser amherffaith, gyda'r rhediad yn gyflawn (G. M. Awbery, 1991, t.19). Er enghraifft:

|                        |                          |
|------------------------|--------------------------|
| Wena i'n credu .....   | Wenon ni'n credu .....   |
| Wenot ti'n credu ..... | Wenoch chi'n credu ..... |
| Weno fe'n credu .....  | Wenyn nw'n credu .....   |
| Weni hi'n credu .....  |                          |

We'r gwraeg'n dod da nw..... we rai o'r gwraeg'n seithu 'efyd..... we nw'n roi'r hampers a casgen o gwrw. Wen nw'n cal *high life*..... Wenon ni'n cal min agos at y lle (Siaradwr o'r Mot, yn D. Thorne, 1988, t.47).

Dyma nodweddion cystrawennol sydd yn gosod tafodiaith Sir Benfro yn hollol ar wahân i dafodieithoedd eraill y de felly (L. L. Dafis, 2013, t.10).

Er enghraifft:

|                         |   |                        |                 |
|-------------------------|---|------------------------|-----------------|
| Sir Benfro              | = | sano fe/hi'n canu      | so fe/hi'n canu |
| Rhannau o dde Cymru     | = | 'dyw e/hi ddim yn canu |                 |
| Caerfyrddin / Morgannwg | = | simo fe/hi'n canu      |                 |
| Cwm Tawe                | = | nag yw e/hi'n canu     |                 |

(G. M. Awbery, 1978, tt.198-199)

### **Ffurfiâu berfol**

Ceir rhai ffurfiâu berfol sy'n unigryw i'r sir (G. M. Awbery, 1991, t.20), megis ffurfiâu person cyntaf unigol gorffennol y berfau afreolaidd *cael*, *mynd*, *dod* a *gwneud*. Enghreifftiau o hyn yw:

|         |   |         |
|---------|---|---------|
| cesim i | / | cesum i |
| esim i  | / | esum i  |
| desim i | / | desum i |
| nesim i | / | nesum i |

Drat, minte fi wrth yn 'unan..... a feddilies i glwed rwbeth tu nôl i fi wedyn a dryches nôl a on i'n wel' e 'maso i nes lawr wedyn, at yr en gladdfa chmbod a gines y lamp lweth. Dim yw dim. Esim i nôl (Siaradwr o Faenclochog, yn D. Thorne, 1988, t.47).

O safbwynt *cefais*, y ffurfiâu cyffredin mewn tafodieithoedd eraill yn y de yw *ces i / ceso i / cetho i* (G. M. Awbery, 1978, t.197). Yn ogystal, yn aml yn Sir Benfro clywir y ffurf *nwy* ar y rhagenw trydydd person lluosog, megis *geson nwy* ac *iddon nwy* (G. M. Awbery, 1991, t.21).

### **Y trydydd person**

Arfer a geir mewn rhai ardaloedd yn Sir Benfro yw defnyddio trydydd person y ferf yn hytrach na'r ail berson, sef *hi* wrth siarad â menyw a *fe* wrth siarad â dyn. Er nad yw hyn yn gyffredin ar draws de Cymru, fe'i arferir mewn rhai ardaloedd eraill hefyd, megis Ceredigion a Llanelli (C. M. Jones a D. Thorne, 1992, t.23).

Disgrifia C. Phillips (2006, t.347) sut y daeth ar draws hyn ar ei ddiwrnod cyntaf fel prifathro Ysgol Gynradd Maenclochog. Dywed: 'Dyma fi'n cipio draw i'r post..... lle bu i'r bostfeistres holi, "A shwma fe yn setlo miwn?" A dyma fi'n troi rownd i weld at bwy oedd hi'n cyfeirio - cyn sylweddoli mai fi oedd y "fe" hwnnw!' Dengys y ffaith iddo gael ei fagu mewn pentref rhyw ddeng milltir o'r ysgol, ond nad oedd yn gyfarwydd â'r arfer hwn, pa mor lleol y gall nodweddion ac arferion tafodieithol fod. Awgryma hefyd mai arfer gan y to hyn yw erbyn hyn.

Datgelodd dau o'r cyfweleion yn y gwaith ymchwil hwn eu bod yn dal i gynnal yr arfer hwn, ymysg teulu a chyfeillion agos yn Sir Benfro. Dywedodd Eirwyn George (Cyfweliad, 2014), a anwyd ym mhentref Twffton, ei fod ef a rhai o'i gyfoedion yn parhau i gyfarch ei gilydd gyda 'shwt mae e heddi?', er bod yr arfer wedi diflannu ymysg y cenedlaethau iau. Soniodd Eirlys Charles (Cyfweliad, 2015), sy'n hanu o bentref Cas-lai, ei bod hithau hefyd yn ei arfer o hyd. Disgrifia ei hun yn gofyn 'beth mae'n feddwl am hyn?' ac 'odi e yn meddwl hyn?' gan ychwanegu: 'dwi'n lico'r syniad bod yr arfer hwnnw yn cario mlan.'

### **Amrywio o fewn Sir Benfro**

Wrth drafod rhai o nodweddion tafodiaith Sir Benfro uchod, o safbwynt geirfa, acenion a ffurfiau gramadegol, cyfeiriwyd droeon at yr amrywio a welir o fewn y sir, gydag ardaloedd mwyaf gorllewinol, fel Pen-caer a chylch Tyddewi, yn aml yn arfer geiriau a nodweddion gwahanol i'r rhai a glywir mewn ardaloedd dwyreiniol. Cyfeiriodd Wyn Owens (Cyfweliad, 2014) at yr amrywio a geir o fewn pentrefi cyfagos; er enghraifft tueddir i ddweud *cisgu* ac *ôr* ym Mynachlog-ddu ond *cwsgu* a *wêr* ym Maenclochog. Rhoir enghreifftiau pellach isod o'r amrywio o ran geirfa a ganfu A. R. Thomas (1973), gyda rhai geiriau yn perthyn i un ardal yn unig ac yn ddieithr mewn ardaloedd eraill. Serch hynny rhaid cydnabod nad yw'r rhaniad mor ddu a gwyn o anghenraid erbyn heddiw:

| Saesneg      | Ardaloedd gorllewinol | Ardaloedd dwyreiniol      |
|--------------|-----------------------|---------------------------|
| furniture    | moddion tŷ            | celfi / dodre(f)n         |
| mound of hay | cocyn                 | twmpath                   |
| to plough    | arddydd               | (a)redig / rhedig / retig |
| foxglove     | catrish y cŵn         | clatsh y cŵn              |
| key          | allwed                | allwe                     |
| dirty        | bud(u)r               | bawlyd / bowlyd           |
| frog         | ffroga(n) / ffroca(n) | broga                     |
| sting        | brath(i)ad            | pigiad                    |
| gun          | tryll(t)              | dryll / drill             |
| stye         | cuch                  | llefelyn                  |

Canfu G. M. Awbery (1984, tt.17-30) amrywiaeth wrth ymchwilio i eirynnau yn nhafodiaith gogledd y sir, a hynny mewn pum ardal benodedig. Parthed y geirynnau *gwlei*, *glo*, *te*, *no*, *minno*, *tabéth* a *beth bynnag*, canfu nad oedd pob un o'r geirynnau hyn yn cael eu defnyddio ar draws gogledd y sir yn gyfan. Tra bod *gwlei* a *glo* er enghraifft yn cael eu defnyddio ym mhob un o'r pum ardal a astudiwyd, roedd *minno* wedi ei gyfyngu i dair o'r ardaloedd, tra bod un o'r geirynnau hyn, sef *beth bynnag*, wedi ei gyfyngu i un ardal yn unig, yn nwyrain y sir.

Rhwng 2012 a 2014 cynhaliodd Menter Iaith Sir Benfro brosiect ar y dafodiaith Gymraeg a Saesneg, dan arweiniad y swyddog prosiect, Hedydd Hughes. Gan fod y swyddog yn ymwybodol o'r amrywio geirfaol hyn, wrth iddi fynd o amgylch ysgolion y sir cyflwynodd i'r plant eiriau tafodieithol o ben arall i'r sir nad oeddent yn gyfarwydd â hwy. Er enghraifft:

**pentigili** gair o benrhyn Dewi sy'n golygu 'yr holl ffordd'  
**pennysow** gair o ardal Penfro sy'n golygu 'moch coed'  
**bwrjis** gair o Landudoch sy'n golygu 'ffrindiau gorau'  
**drang** gair o ardal Arberth sy'n golygu llwybr neu feidir  
(H. Hughes, 2014, t.7)

Gellid gofyn beth sydd i'w gyfrif am yr amrywiaethau geirfaol hyn, hyd yn oed o fewn ardaloedd sydd ychydig filltiroedd i'w gilydd? Dywed



C. M. Jones a D. Thorne (1992, t.7) fod hyn i'w ddisgwyl, gan esbonio: 'ymhob cymuned ieithyddol y mae amrywiadau ieithyddol rhwng aelodau'r gwahanol garfanau sy'n ffurfio'r gymuned gyfan.' Wrth gloriannu'r ffactorau sy'n diffinio'r gwahaniaethau rhwng y carfannau hyn, dywed C. M. Jones a D. Thorne (1992, t.16) fod astudiaethau ar iaith lafar Sir Benfro wedi dangos bod oedran, rhyw, addysg, prif iaith y cartref yn ogystal â daearyddiaeth, yn ffactorau sy'n rhaid eu hystyried wrth geisio esbonio'r 'amrywiaeth cyfoethog o ffurfiau a glywir o fewn y sir.' Yn y gwaith ymchwil *Cydberthynas Nodweddion Cymdeithasol ag Amrywiadau'r Gymraeg yn Y Mot, Sir Benfro* (1987), lle'r astudiwyd amllder digwydd rhai newidynnau ieithyddol annibynnol siaradwyr Cymraeg y pentref, megis rhyw, oedran, addysg ac iaith y cartref, dywed C. M. Jones (2006b, t.371) iddi ganfod fod 'iaith yn wedd ar ymddygiad cymdeithasol a bod ffactorau cymdeithasol yn hynod bwysig wrth geisio esbonio amrywiaeth ieithyddol.'

### **Y Dafodiaith heddiw**

Erys ymfalchïad yn y dafodiaith hyd heddiw a pharheir i geisio ei hyrwyddo ac i godi ymwybyddiaeth ohoni. Cyfeiriwyd eisoes at y prosiect ar y dafodiaith a gynhaliwyd gan Fenter Iaith Sir Benfro rhwng 2012 a 2014. Penllanw'r prosiect oedd cyhoeddi llyfryn a DVD dwyieithog *Tafodiaith Sir Benfro / Pembrokeshire Dialect*. Dywedir:

- Amcan y prosiect oedd codi ymwybyddiaeth o dafodiaith, a'i hyrwyddo wrth gyflawni gwaith
- gyda disgyblion a grwpiau ieuencid
  - gyda grwpiau cymdeithasol hŷn
  - yn recordio esiamplau o'r dafodiaith
  - yn ymchwilio i'r maes a chreu adnoddau ar gyfer y dyfodol (H. Hughes, 2014, t.3).

Dyma ymgais i hyrwyddo a diogelu tafodiaith de'r sir yn ogystal â'r gogledd. Canmolwyd y gwaith hwn o gasglu a rhoi bri ar y dafodiaith, gan H. Wyn (2014c) er enghraifft.

Yn 2013, i gyd-fynd â dyfodiad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i ogledd Sir Benfro, cyhoeddodd Wyn Owens, brodor o Fynachlog-ddu a gŵr a gaiff sylw pellach yn y bumed bennod, eiriadur ar dafodiaith y sir sef *Rhint y Gelaets a'r Grug: Tafodiaith Sir Benfro*. Dyma ymgais arall i gofnodi a diogelu'r dafodiaith. Yn ei ragair i'r gyfrol, mynega'r awdur ei amcan: 'Mae llawer o gyfoeth geirfaol wedi mynd i ddifancoll mae'n sicr ond mae'r casgliad hwn yn rhoi ar gof a chadw y dafodiaith fel y'i clywais ac y'i clywaf hi yn cael ei siarad' (W. Owens, 2013, t.5).

Mae ei thafodiaith yn un o nodweddion amlycaf y sir. Dywed Ceri Wyn Jones (Cyfweiliad, 2014): 'dwi'n credu bod tafodieth Shir Benfro yn un sy'n gymeradwy gan shiroedd erill yng Nghymru.' Perthyn rhyw anwyldeb iddi, ac fe'i hadnabyddir gan eraill oherwydd ei nodweddion a'i geirfa unigryw, sy'n ei gwahaniaethu oddi wrth iaith y gogledd a thafodieithoedd eraill y de. Er nad yw yn fardd tafodieithol ei hun, awgrymodd Idris Reynolds (Cyfweiliad, 2014) ei bod yn bwysig cadw tafodieithoedd yn fyw drwy llenyddiaeth. Yn y penodau sy'n dilyn, gwelwn fod nifer o awduron yn ei hystyried yn fater o hunaniaeth ac o reidrwydd i ysgrifennu yn eu tafodiaith. Gellid dadlau, felly, fod llenyddiaeth yn fodd effeithiol o gadw tafodiaith yn fyw gan ei bod yn diogelu deunydd rhwng dau glawr, yn rhoi boddhad i'w darllenwyr, ac yn ei dwyn i sylw pobl y tu allan i'r ardal lle y mae'n cael ei siarad.

## **Casgliad**

Yng Nghymru, mae gwahaniaethau amlwg rhwng iaith y gogledd ac iaith y de, o ran geirfa, acen a ffurfiau gramadegol. Yn ogystal, ceir gwahaniaethau rhwng tafodiaith Sir Benfro a thafodieithoedd eraill y de. Perthyn i Sir Benfro ddau draddodiad ieithyddol yn sgil y *Landsker* hanesyddol a'r ffin rhwng y gogledd a'r de, ac y mae i'w thafodiaith nodweddion unigryw. Dengys y dyfyniadau o unigolion yn siarad y dafodiaith gyfoeth ac amrywiaeth y nodweddion hynny. Gwelir bod gwahanol ardaloedd o fewn y sir, hyd yn oed filltir neu ddwy ar wahân,

yn meddu ar nodweddion llafar sy'n wahanol iawn i'w gilydd, fel y dengys A. R. Thomas (1973) yn ei atlas ieithyddol. Parheir i ymfalchïo yn y dafodiaith ac i godi ymwybyddiaeth ohoni yn y gobaith y bydd yn parhau am genedlaethau i ddod.

Yn y bennod gyntaf, trafodwyd y ffaith mai iaith yw ein ffordd o gyfathrebu â'n gilydd ac i fynegi ein hunain, a bod tafodiaith yn wedd amrywiol ar iaith. Cyflwynwyd hefyd farn rhai mai'r iaith safonol yw'r cyfrwng ar gyfer llenyddiaeth. Er bod y term *tafodiaith* yn awgrymu mai iaith lafar, o'r tafod yn unig yw, yn y penodau nesaf ystyriwn awduron sydd wedi mynd ati'n fwriadol i ysgrifennu yn nhafodiaith Sir Benfro. I rai, mater o raid yw, mater o hunaniaeth a'r awydd i rannu eu tafodiaith ag eraill; mater o herio'r traddodiad ceidwadol o ysgrifennu mewn iaith safonol yn unig, gyda rhai beirniaid yn ei groesawu ac eraill yn llai parod i'w dderbyn.

## PENNOD 5

### LLENYDDIAETH DAFODIEITHOL PENFRO – AWDURON UNIGOL

#### Rhagarweiniad

Yn y bennod hon, ystyrir a dadansoddir enghreifftiau o'r llenyddiaeth a ysgrifennwyd gan awduron unigol yn nhafodiaith Sir Benfro, o'r cofnod cynharaf sydd ar gael hyd y gwyddys, yn 1889, hyd at heddiw. Un o nodweddion canu beirdd y sir yw'r sylw a roir i'r dafodiaith, fel y pwysleisiodd J. Nicholas (1986, t.118) wrth dafoli cyfraniad beirdd Sir Benfro i lenyddiaeth ein gwlad a phwysigrwydd arbennig y cerddi mewn tafodiaith. Oherwydd eu cyfraniad neilltuol yn y maes hwn, rhoddir pennod yr un i drafod gweithiau Dewi Emrys a W. R. Evans.

Gellid maentumio bod llenyddiaeth dafodieithol yn symbol o hunaniaeth gymunedol ac, fel y dywed C. M. Jones (1998, t.139; 2006a, t.95), yn gyfrwng effeithiol i gyfleu teimlad o berthyn, sy'n arbennig o wir am lenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro. Cyfeiria at y bardd yn siarad dros ei gymdeithas mewn cerddi megis 'Pwllderi' gan Dewi Emrys, 'Obiti'r Tŷ Cwrdd' gan E. Llwyd Williams a 'Dydd Diolchgarwch' gan W. Rhys Nicholas. Yn ogystal, awgrymodd C. M. Jones (1998, t.139; 2006a, t.95), mai barddoniaeth y werin yw barddoniaeth dafodieithol, a'i bod yn fath o fenter gymunedol, gyda'r bardd yn brif lefarydd y gymuned honno. Er yr awgrym mai barddoniaeth y werin yw, gan ei bod mewn iaith agos-atoch, iaith eu sgwrsio bob dydd, gellid dadlau hefyd bod llenyddiaeth dafodieithol yr un mor apelgar i bob darlennydd, oherwydd ei chreffft a'i ffresni.

Wrth dafoli barddoniaeth dafodieithol Sir Benfro, esbonia G. M. Awbery (1991, t.34) fod nifer o'r darnau cynnar yn gynnyrch cystadlaethau 'Cerdd Dafodiaith' yn yr Eisteddfod Genedlaethol 'yn hytrach na rhywbeth a ddeuai'n naturiol i feirdd y fro.' Awgryma mai'r rheswm am

hyn yw bod y duedd i gredu mai rhywbeth amgenach na iaith lafar bob dydd sy'n gweddu i farddoniaeth wedi rhwystro beirdd rhag ysgrifennu'n dafodieithol. Y gair allweddol yma yw 'amgenach'; mae'n bosib y gwelwyd yn Sir Benfro ddylanwad agwedd pobl megis John Morris-Jones, y sawl, fel y trafodwyd yn y bennod gyntaf, a arweiniodd ymgyrch i safoni orgraff a gramadeg yr iaith, ac a oedd yn llym ei feirniadaeth o ffurfiau tafodieithol. Serch hynny, mae'r duedd a'r agwedd hon wedi newid erbyn hyn gyda nifer o feirdd y sir bellach wedi defnyddio'r dafodiaith yn eu cerddi (G. M. Awbery, 1991, t.34). Gellid awgrymu bod hyn o ganlyniad i hyder cynyddol y bardd yn ei dafodiaith, a'r awydd i ddangos y gellid ysgrifennu ynddi yn ogystal â'i siarad.

### **Henry Evans, 1846 – 1914**

Yn 1889, gwelwyd y defnydd cyntaf hyd y gwyddys o dafodiaith Sir Benfro mewn llenyddiaeth, pan gyhoeddwyd darn byr o eiddo'r awdur Henry Evans fel rhan o'r gyfres 'Llafar Gwlad' yn y cylchgrawn *Cymru Fydd*. Brodor o Solfach ger Tyddewi oedd Henry Evans, ac ef a gofnododd eiriau'r gân sy'n gysylltiedig â'r arfer o hela'r dryw. Bu'n llythyru hefyd â Chyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru ynglŷn â'r arfer o lunio anghenfil o frethyn rhawn ac yna ei ddefnyddio i godi ofn ar bobl (G. M. Awbery, 1991, t.27).

Yn y gyfres 'Llafar Gwlad' ceir straeon tafodieithol o ardaloedd megis Llanuwchllyn, Llansadwrn, Yr Wyddgrug, Bethesda a Threforys. Yr hyn a geir yn y darn gan Henry Evans yw sgwrs yn nhafodiaith ardal Tyddewi rhwng Shecci a Mali lle trafodir helyntion bywyd bob dydd. Pan ofynna Shecci i Mali, ar ddechrau'r sgwrs, am ei hwyliau hi, etyb Mali fel hyn:

Simpil Show Shecci bach i ma'r hen rhiwmitis in i nhrwed ase i o hyd, mae e damed in well heddi, ond ar spele mae e'n brathu'n ombeidus, nes wdw i'n bowdwr ddwl. Sana i'n gwbod shwt ma hala'r geua. Ma Dafi a'r rhoccin in bwdlan

wrthi gida'r llafur ar i mwni in parc talcen ty, a stim ond 'rhên rocces bwdwr 'ma gida fi i neid dim. Mi dreies limpan dwe 'dat i yet, own in meddwl mind i'r parc, ond jorodd Dafi fi'n lan i straino mwy arnai'ng hunan, ac erbyn i fi ddwad 'nol i'r ty own i wedi ffwndo'n ombeidus, ond serch hynny ma'r tewi'n ffwindedig iawn (H. Evans, 1889, t.584).

Fel y nodwyd eisoes, ymddiddorai Henry Evans yn arferion a thraddodiadau ei ardal, ac mae'n amlwg bod tafodiaith yr ardal honno yn bwysig iddo gan iddo fynd ati i ysgrifennu ynddi a'i chyflwyno i'w chyhoeddi mewn cylchgrawn cenedlaethol. Gellid maentumio y byddai'r dafodiaith wedi ymddangos yn ddieithr i ddarllenwyr mewn ardaloedd eraill o Gymru, ond gellid canmol Henry Evans am ei hyder yn y dafodiaith a'i awydd i'w gweld rhwng cloriau'r cylchgrawn gan dynnu sylw ati. Er ei bod yn anodd barnu i ba raddau yr oedd defnydd fel hyn o dafodiaith mewn papurau newydd a chylchgronau yn y cyfnod hwn yn gwneud y darllenwyr yn gyfarwydd â'r tafodieithoedd Cymraeg amrywiol, neu'n codi statws y dafodiaith, fel yr awgrymwyd eisoes yn y drydedd bennod llwyddodd i 'ymestyn ffiniau Cymraeg ysgrifenedig' (A. Jones, 1999, t.371).

Mae'r darn gan Henry Evans yn llwyr mewn tafodiaith ac yn cyfleu'n gynnil sgwrs rhwng dau gymydog yn eu hiaith bob dydd. Er mai darn byr yw hwn, rhyw dudalen a hanner o hyd, dengys yr awdur ei feistrolaeth a'i ymwybyddiaeth lwyr o'r dafodiaith. Amlygir hyn yn yr eirfa, megis *ombeidus*, *jengyd*, *jogel*, *damshel*, *brawlan*, *termo* a *feidir*, a'i nodweddion a'i ffurfiau unigryw megis *cewn*, *hana i'n gwbod*, *dwe*, *wedd* a *wes*:

Fe a'th Twm in grac show, ac fe dasgodd in ombeidus, a gwedodd wrth Shemi am find a disgu i fangu i odro'r whied. Neidodd Shemi ato a chrasodd e a chûwes picwarch wedd gidag e, ac fe rhicodd i got e pentigili. Cwmpodd Twm ar i gewn in i llaca is wedd e'n fûd bob tamed (H. Evans, 1889, t.584).

Gellid dadlau bod yr awdur yn feistr ar y dafodiaith gan iddo ei chofnodi'n naturiol ac yn effeithiol, fel y dengys y darn uchod sy'n disgrifio'r ymladd rhwng Shemi a Twm. Hawdd cytuno felly â disgrifiad G. M. Awbery (1991, t.27) o'r defnydd o dafodiaith fel 'defnydd ymwybodol, crefftus ohoni gan rywun sydd yn feistr yn ogystal ar yr iaith lenyddol.'

Ymddengys mai dyma'r unig ddarn a ysgrifennwyd gan Henry Evans mewn tafodiaith, ac fel y nodwyd eisoes gwnaeth hynny yn bwrpasol gan mai dyna oedd gofynion y gyfres *Llafar Gwlad*.

### **Simon Llwyd**

Ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach, yn ystod 1895 ac 1896, cyhoeddwyd stori gyfres mewn pymtheg rhan gan Simon Llwyd, sef 'Adgofion a Chynghorion Wncwl Huw', yn y cylchgrawn *Cymru*.

Gan nad oes gwybodaeth ar gael am Simon Llwyd, mae'n bosib mai ffugenw yw hwn, sef enw benthg neu ddychmygol a fabwysiedir gan awduron, naill ai'n barhaol neu dros dro. Creadigaeth o'r ddeunawfed ganrif yw'r ffugenw Cymraeg, ac yn aml cynhwysa liw, gyda du, llwyd, coch a gwyn yn lliwiau cyffredin; gwelwyd rhai awduron yn mabwysiadu'r ffugenw yn brif enw ar draul yr enw bedyddiedig, a hynny am nifer o resymau megis ailgychwyn yr Eisteddfod a sefydlu Gorsedd y Beirdd, sefydlogi'r cyfenwau Saesneg ac am fod cymryd ffugenw yn drwydded i fyd gwahanol i'r bywyd bob dydd (D. G. Jones, 2018). Os mai ffugenw yw Simon Llwyd felly, gellid awgrymu ar y naill law fod yr awdur wedi dewis ei ddefnyddio er mwyn dilyn trefn gyffredin yr oes. Ar y llaw arall gallai yn fwriadol fod wedi dewis cuddio y tu ôl i'r ffugenw, fel rhyw arwydd o agwedd ddirmygus at ysgrifennu mewn tafodiaith.

Yn y stori gyfres hon, disgrifia'r awdur ei ymweliadau rheolaidd â'i Wncwl Huw sy'n byw yn Sir Benfro, er na ddatgelir union leoliad ei

gartref. Ceir Wncwl Huw yn adrodd hanesion cymeriadau lleol a'u hofergoelion, ac am ymdrech un ohonynt, Josi Harri, i ddileu'r ofergoeldd hwn. Yr hyn a welir yn y storïau yw *tafodiaith mewn llenyddiaeth*, lle mae iaith y naratif a'r disgrifio yn safonol ac iaith y ddeialog a'r sgwrsio yn dafodieithol, a symudir yn naturiol ac yn esmwyth o'r naill gywair i'r llall. Gwelir yn y dyfyniad isod fel y mae'r awdur yn disgrifio Wncwl Huw mewn iaith safonol, ac mewn cyferbyniad llwyr y mae yntau'n ateb yn ei dafodiaith lafar gyhyrog:

Byddai yn ormod gorchwyl i'r mwyaf craff ei olygon i rifo ei asenau, heb yn gyntaf ddryllio y fantell dda a ddidios o gnawd sydd yn eu cuddio a'u hymgeleddu, er nad yw yn eithafol o dew ychwaith. Y mae yn hen, - pa mor hened nis gallaf ddweyd. Nis gwn pwy arall a ddywed ychwaith, oblegid os gofynnwch iddo ef "Beth yw eich oed, Wncwl Huw?" etyb yn union, -  
"Yr un wêd a Sheci Ifan Dafi. Yr un wêd yn giwir a Sheci, le'n shwr i chi, Pharoh" (S. Llwyd, 1895a, t.43).

Esbonia'r awdur i'r darllenydd fod Wncwl Huw yn siarad mewn tafodiaith, gan gyfeirio at rai o nodweddion y dafodiaith honno:

Er fod ei dafod leferydd yn groew a chllir, eto nid yw ei seiniad o rai llythrennau yn hollol gywir. Mae yr "i" yn ddieithriad braidd yn troi yn "y," a'r "y" yn "i." Nid yw Wncwl Huw yn rhydd o'r diffyg hwn, yn fwy na'i frodyr, - nid am nad wŷyr efe, efallai, pa lythrennau sydd i fod mewn gwahanol eiriau, ond am nad yw tafod leferydd "hen Benbroc" cartrefol yn gallu ymryddhau yn llwyr o'r dafodiaith werinol a siaredir yn gyffredin (S. Llwyd, 1895b, t.79).

Noder ei sylw nad yw Wncwl Huw yn seinio rhai llythrennau yn 'hollol gywir' a'r cyfeiriad at 'ddiffyg' yn ei leferydd wrth ddisgrifio'r ffaith ei fod yn siarad mewn tafodiaith. Wrth ystyried ei sylw nad yw'n medru 'ymryddhau' o'r dafodiaith, gellid gofyn paham y byddai Wncwl Huw am ymryddhau o'r dafodiaith, gan mai dyna ei leferydd naturiol, ac fel y dywed yr awdur, yr iaith a siaredir yn gyffredin yn yr ardal. Er disgrifiad yr awdur o'r dafodiaith fel un 'werinol' diddorol yw ei gyfaddefiad ei fod



yn ymweld â'i ewythr yn bwrpasol, sef: 'gyda bwriad i gael ei ymddiddanion Penfroaidd i'w cyhoeddi' (S. Llwyd, 1895c, t.169). Dengys hyn ei fod o'r farn fod gwerth cyhoeddi'r dafodiaith, er nad yw'n 'hollol gywir', a'i fod am ddwyn sylw ati'n genedlaethol.

Yn y darn isod, lle parheir i drafod oedran Wncwl Huw, gwelir nodwedd ar dafodiaith Sir Benfro sydd ar drai erbyn hyn, sef siarad â rhywun yn y trydydd person, elfen a amlygwyd yn y bedwaredd bennod. Gellid disgrifio hyn fel arwydd o sefyllfa gyfeillgar ac anffurfiol (G. M. Awbery, 1991, t.20) yn ogystal â gweithred sy'n meddu ar awgrym o fonedd a pharch (C. M. Jones, 2006a, t.88):

Mi weda i gw mint a hyn wrth Simon, gan mai Simon yw e, –  
wdw i'n ffrynd ag e, wdw'n wir, ag mi weda i hyn o sacrat  
bach wrtho fe. Fe ges i yngeni, weda i ddim pwy flwyddyn,  
ond nid ymhell oddiwrth amser glaniad y Ffrensh yn  
Abergwaun, ys lawer dy (S. Llwyd, 1895c, t.169).

Rhydd Simon Llwyd gyflwyniad clir o'r dafodiaith a'i nodweddion. Ceir geirfa megis *rhocyn* a *rhoces* am fachgen a merch, *glowty* ac *ombeidus*. Gwelir enghreifftiau o ymwrthod â'r sain dywyll *y*, a welir yn glir mewn ffurfiau megis *dinion*, *gifeillion*, *isbrid* a *hinny*, y nodwedd gytseiniol o golli'r sain *dd* ar ddiwedd gair, megis *nedwy* a symleiddio'r clwm cytseiniol drwy gyfnewid *w* am yr *f*, megis *cewn* am gefn. Serch hynny, y mae un agwedd anghyffredin yn nehongliad Simon Llwyd o'r dafodiaith. Er y ceir *wê* Penfroaidd mewn geiriau megis *cwêd*, *pwên* a *trwêd*, fe'u gwelir hefyd yn ffurfiau'r ferf *bod*, megis *wêdd*, *wên* a *wês*; yr hyn a geir fel arfer yw'r ffurf *wê* ac felly *wêdd*, *wên* a *wês*. Gwelir enghraifft yn:

wedi bod in bwydo'r anifeiliaid, ac yr *wêdd* inte yn llawn whis  
mowr o'i ben i'w drâd yn dropian! – whis *wêr* *wêdd* wedi dwad  
drosto gan ofon a dichrin rhifeddol iawn (S. Llwyd, 1895d,  
t.172).

Ceir tri rheswm am hyn ym marn G. M. Awbery (1991, t.28), sef naill ai bod newid wedi digwydd yn y dafodiaith, neu nad yw hi wedi clywed ffurf sy'n hollol bosib o fewn fframwaith y dafodiaith, neu fod Simon Llwyd wedi gwneud camgymeriad yma. Fel y nodwyd eisoes yn y bedwaredd bennod, gall amrywiadau tafodieithol ddigwydd o fewn ychydig filltiroedd. Os mai'r awdur sydd wedi gwneud camgymeriad yma, gan gamgyflwyno'r dafodiaith a glywodd gan Wncwl Huw, gellid dadlau nad yw hynny'n tynnu oddi ar werth yr hanesion hyn. Cofier y pwyslais mai dehongliad yr awdur o dafodiaith a geir mewn llenyddiaeth dafodieithol, nid cofnod perffaith, ond ar yr un pryd, os mai camgymeriad yw, gall beri dryswch i'r tafodieithegydd.

Drwy ei ddefnydd o dafodiaith lenyddol a chyweiriau gwahanol, llwyddodd Simon Llwyd i gyfleu statws ei gymeriadau, ac i amlygu'r berthynas rhwng dosbarth cymdeithasol a thafodiaith. Soniwyd eisoes yn y bennod gyntaf bod tuedd gan awduron llenyddiaeth dafodieithol i ddefnyddio iaith ansafonol fel arwydd o ddsbarth cymeriad, ac yn y drydedd bennod dangoswyd sut y defnyddiodd Daniel Owen yntau'r iaith lafar yn ei nofelau er mwyn awgrymu cefndir addysgol a statws cymdeithasol ei gymeriadau. Dyna a welir yma gan Simon Llwyd yn 'Adgofion a Chynghorion Wncwl Huw'; y mae iaith Josi Harri yn bur safonol, megis pan ddywed: 'nid wyf yn gwadu y posibilrwydd o ymddangosiad ysbrydion, - deallwch chwi hynny yn awr, - i ddynion, pan fyddo rhywbeth o bwys i'w ddatguddio' (S. Llwyd, 1896, t.35), tra bo cymeriadau megis Tomi'r gwëydd a Twmi Lantydewi yn bur dafodieithol. Gellid ei ganmol, felly, am 'ei ymgais amlwg i sicrhau fod yr elfen lafar yn rhan hanfodol o'r hyn sydd ganddo i'w ddweud' (C. M. Jones, 2006a, t.89). Rhoddir y lle amlwg a blaenllaw i'r cymeriadau lleol a'r sgysiau rhyngddynt.

Gan nad oes gwybodaeth ar gael am Simon Llwyd, ac felly ei bod yn bosib mai ffugenw yw hwn, mae'n anodd dweud ai dyma'r unig waith o'i eiddo sydd yn cynnwys tafodiaith ac a oedd yn ysgrifennu hefyd yn yr

iaith lenyddol, naill ai yn defnyddio ei enw bedydd, neu ffugenw arall. Yr hyn a wyddys serch hynny yw iddo ddilyn y trywydd hwn yn bwrpasol gan iddo, fel y nodwyd eisoes, ymweld ag Wncwl Huw 'gyda bwriad i gael ei ymddiddanion Penfroaidd i'w cyhoeddi' (S. Llwyd, 1895c, t.169).

### **John Brynach Davies, 1872 – 1923**

Ymddengys mai'r gerdd gyntaf i'w chyfansoddi'n fwriadol yn nhafodiaith y sir oedd 'Tafodiaith Gymreig Sir Benfro' o eiddo John Brynach Davies, a adwaenid fel Brynach; fe'i cynhwyswyd yn y cofiant *Awelon Oes* a gyhoeddwyd yn 1925, ddwy flynedd wedi ei farwolaeth. Ganed Brynach yn Llanfyrnach, ac ni symudodd o'r fro hon drwy gydol ei fywyd. Dechreuodd farddoni a chystadlu yn bymtheg oed, ac yr oedd yn bur llwyddiannus. Ysgrifennodd i gylchgronau, bu'n olygydd y golofn Gymraeg yn y *Tivyside Advertiser*, bu'n glerc cyfreithiwr yn Aberteifi ac yn bregethwr yr efengyl (E. C. Davies a J. T. Phillips, 1925, tt.12-20).

Awgrymwyd eisoes yn y drydedd bennod mai'r perygl wrth ysgrifennu mewn tafodiaith yw credu y gellid defnyddio unrhyw wedd ar iaith o ran geirfa neu ramadeg; hynny yw, y gwnaiff unrhyw beth y tro. Gellid awgrymu hefyd y gall ysgrifennu mewn tafodiaith fod yn fodd i guddio diffyg meistrolaeth yr awdur ar yr iaith safonol. Fel y dywedodd K. Roberts (1947, t.92) wrth gyfeirio at gyfrol yr Hen Was, '*Rwy'n Cofio*: 'mae'r dafodiaith yn hwn yn cuddio myrddiwn o wallau iaith..... Y peth a eill ddigwydd ydyw yr â yn arferiad cyffredin i sgrifennu yn y dafodiaith lythrennol hon, er mwyn ceisio cuddio gwallau iaith.' Dengys y cerddi eraill yn y gyfrol *Awelon Oes* feistrolaeth Brynach ar yr iaith safonol a bu'n cynnal dosbarthiadau nos i addysgu rheolau gramadeg i drigolion lleol. Gellid maentumio, felly, nad 'defnyddio'r dafodiaith oherwydd bod ei afael ar yr iaith safonol yn fregus, ond o ddewis' (G. M. Awbery, 2015, t.10) a wnaeth Brynach wrth ysgrifennu'r gerdd 'Tafodiaith Gymreig Sir Benfro'.

Enghraifft o *lenyddiaeth mewn tafodiaith* a geir yma, cerdd a ysgrifennwyd yn gyfan gwbl mewn tafodiaith. Sylwer mai'r gair *barnwr* a ddefnyddir yma ac nid *beirniad*, a'r awgrym na fyddai'r gerdd yn haeddu gwobr:

Wrth dwmo rhyw nosweth, mi dreies neid pishyn,  
Ma'r testun we gen i'n ombeidus o neis,  
Tafodieth Shir Bemro, wi'n hido dim blewyn  
A welith y barnwr e'n ffit i gâl preis;  
Hen iaith 'y nhacu, O, yr wdw i'n 'i charu  
Yn well na wy'n leico llaish gwcw mish Mai,  
Tra'r anal fydd yndwy nis gallai ddifaru  
Fy mod wedi sharad shwt iaith fach ddifai (Brynach, yn  
E. C. Davies a J. T. Phillips, 1925, t.96).

Gan mai un agwedd ar y gymdeithas glòs leol yn Sir Benfro oedd ei thafodiaith (G. M. Awbery, 1991, t.38), gellid dadlau ei bod yn naturiol i feirdd ganu clodydd y dafodiaith honno, fel y gwneir yn y gerdd hon. Â Brynach yn ei flaen i ganmol rhinweddau'r dafodiaith, a cheir cyfeiriad at laniad y Ffrancod yn Abergwaun yn 1797:

Iaith daliedd fy nhade, nid shiprus mo honi,  
Ond gwenith pur heb 'i gymysgu â baw,  
O Llandoch i Tydrath a lawr sha Tyddewi,  
Sharadir hi'n deidi hyd ochor pob claw;  
Mae yndi rai geire yn fwy na gwerth wheigen,  
A swnant i'r glust fel yr hufen o ffein,  
Ac erill drychynllyd fel rhai nath i'r Frenchman  
I jangid wrth lando ar drath Abar Gwein (Brynach, yn  
E. C. Davies a J. T. Phillips, 1925, t.97).

Er bod bron i ganrif ers cyhoeddi'r gerdd yn y gyfrol *Awelon Oes*, gellid awgrymu bod yr eirfa ynddi yn dal yn eithaf dealladwy gan y'i clywir hyd heddiw ar lafar yn y sir. Gorffenna Brynach ei gerdd gyda'r gobraith y caiff y dafodiaith ei chlodfori a'i hastudio gan ein hacademyddion maes o law:

Trueni fod iaith sy a'i llond o rinwedde  
Trw'r oese a'th hibo yn cwato dan stwc,  
Ond dwarnod ddaw'n gloi bydd cilogod colege  
Yn dechre'i studio a mowr fydd ei lwc;  
Yn awr wrth ddibenu y mhishyn anfarwol,  
Wy'n spio ymlan i ddyfodol y byd,  
Tra llouad a houl a thra gwndwn a sofol  
Tafodieth Shir Bemro fydd ore o hyd (Brynach, yn  
E. C. Davies a J. T. Phillips, 1925, t.97).

Sylwer mai dyma'r un cyfnod y cyhoeddodd John Morris-Jones (1921) ei gyfrol *An Elementary Welsh Grammar* lle y cofnododd ei agwedd at y tafodieithoedd Cymraeg a oedd yn 'llygru' iaith ysgrifenedig. Gellid ystyried mai academyddion prifysgol fel yntau yw'r 'cilogod colege' y cyfeiria Brynach atynt wrth gloi ei gerdd.

Nodwyd eisoes i'r gerdd gael ei chynnwys yn y cofiant *Awelon Oes* a gyhoeddwyd yn 1925. Serch hynny, ymddengys fod y gerdd wedi cael ei hysgrifennu flynyddoedd lawer cyn hynny, pan oedd Brynach yn ddydd ifanc. Yn rhifyn 18 Mehefin 1896 o *The County Echo*, sef y *Fishguard & North Pembrokeshire Advertiser*, ceir hanes Eisteddfod Treletert a gynhaliwyd ddydd Gwener, 12 Mehefin 1896. Adroddir, yn Saesneg, mai enillydd y gystadleuaeth 'saterical poem, 'Tafodiaeth Gymreig Sir Benfro'', gyda gwobr o bum swllt, oedd Mr J. Brynach Davies, Llanfyrnach (*The County Echo*, 1896, t.2). Ceir hanes yr un eisteddfod, yn y Gymraeg y tro hwn, yn rhifyn 27 Mehefin 1896 o *Baner ac Amserau Cymru*, pan adroddir mai'r orau yn y gystadleuaeth 'Tuchangerdd, 'Tafodiaith sir Benfro'' oedd Mr J. Davies, Llanfyrnach (*Baner ac Amserau Cymru*, 1896, t.8). Wrth durio drwy naw cyfrol llawysgrif o farddoniaeth Brynach yn y Llyfrgell Genedlaethol, canfu G. M. Awbery (2015, t.11) y gerdd yn yr wythfed gyfrol, sef *Paradwys y Prydydd*, sy'n dyddio o 1896, gydag amgylchiadau ysgrifennu'r gerdd wedi eu nodi yn y llawysgrif.

O'r adroddiadau am Eisteddfod Treletert yn y ddau bapur newydd, ymddengys mai cystadleuaeth yn gofyn am ddychangerdd ar dafodiaith Sir Benfro oedd hon, yn hytrach na chystadleuaeth yn gofyn yn unig am ddychangerdd, ac felly nad Brynach ei hun a ddewisodd y testun. Gan mai dyma'r testun a osodwyd gan Bwyllgor yr Eisteddfod, gellid dyfalu bod nifer o gerddi yn tynnu hwyl am y dafodiaith wedi eu hysgrifennu (gan y nodi'r adroddiad yn *Baner ac Amserau Cymru* mai cerdd Brynach oedd y 'goreu' yn y gystadleuaeth), ond mai hon yw'r unig un sydd wedi goroesi.

Fel yr awgryma G. M. Awbery (2015, t.11), tipyn o sioc felly yw darganfod nad cyfleu balchder bro a'i hoffter o'r dafodiaith leol a wna Brynach yn y gerdd hon, fel y tybir wrth ei darllen hi, ond yn hytrach mai dychangerdd oedd hi yn wreiddiol ar gyfer cystadleuaeth. Mae hyn wrth gwrs yn egluro ei sylw 'A welith y barnwr e'n ffit i gâl preis' ym mhennill cyntaf y gerdd.

Er na chyhoeddwyd gwaith buddugwyr Eisteddfod Treletert yn y papurau hyn yn 1896, cyhoeddwyd y gerdd 'Tafodiaith Gymreig Sir Benfro' mewn papurau newydd eraill, er enghraifft yn y golofn 'Blodau Barddas' yn *Papur Pawb* (22 Mehefin 1901, t.13) ac yn 'Yr Adran Gymreig' yn *The Rhondda Leader* (22 Chwefror 1902, t.8). Diddorol nodi mai'r enw *Trigarn* sy'n ymddangos ar waelod y gerdd yn y ddau bapur newydd hyn, yn hytrach nag enw'r bardd ei hun, sef o bosib ei ffugenw yn y gystadleuaeth yn Eisteddfod Treletert yn 1896. Fel yr awgrymwyd eisoes wrth drafod y posibilrwydd mai ffugenw yw Simon Llwyd, gallai Brynach yntau fod yn cuddio y tu ôl i'r ffugenw fel arwydd o ddirmyg at ysgrifennu mewn tafodiaith.

Yn y cofiant *Awelon Oes* (1925), rhennir y cerddi yn ôl eu mesurau, boed yn bryddestau, yn gywyddau, yn englynion ac ati. Er y rhoddwyd un gerdd, 'Y Rhigyfwr', yn yr adran *Dychangerdd*, rhoddwyd 'Tafodiaith Gymreig Sir Benfro' yn yr adran *Cân*. Ni

chyfeirir chwaith at amgylchiadau cyfansoddi'r gerdd hon, er y nodir bod rhai cerddi eraill wedi ennill cystadlaethau eisteddfodol, megis 'Y Baban', Corwen, 1903; 'Y Maes Gwenith', Cymmer, Glyncorwg, 1901 a 'Tangnefedd', Hirwaen, 1908 (E. C. Davies a J. T. Phillips, 1925). Mae'n bosib, felly, bod agwedd Brynach at y dafodiaith wedi newid wrth iddo fynd yn hŷn a'i fod yn fwy cefnogol iddi (G. M. Awbery, 2015, t.11), neu fod y golygyddion, naill ai trwy anwybod neu o fwriad, wedi celu'r ffaith rhag y darllenwyr.

Er ei fod yn awdur toreithiog yn yr iaith safonol, lenyddol, ymddengys mai hon yw'r unig gerdd dafodieithol o eiddo Brynach, a bod honno wedi cael ei hysgrifennu'n fwriadol at ddiben cystadleuaeth.

### **Waldo Williams, 1904 – 1971**

Un o feirdd enwocaf Sir Benfro, yn ogystal â Chymru, yw Waldo Williams. Fe'i ganed ar aelwyd ddi-Gymraeg yn Hwlfordd yng ngwaelod y sir ond dysgodd y Gymraeg yn saith mlwydd oed wedi symud i Fynachlog-ddu yng ngogledd y sir yn 1911. Dilynodd yrfa fel athro ysgol ac athro dosbarthiadau allanol, yn Sir Benfro, Pen Llŷn a Lloegr, cyn dychwelyd eto i Sir Benfro. Cyhoeddodd y gyfrol *Cerddi'r Plant* ar y cyd ag E. Llwyd Williams yn 1936 a'r gyfrol *Dail Pren* yn 1956. Yn ogystal, cyhoeddwyd ei gerddi mewn cylchgronau megis *Y Ford Gron*, *Y Faner*, *Y Ddraig Goch* a *Heddiw*.

Ymysg cerddi Waldo mae ambell gerdd mewn tafodiaith, neu â chyffyrddiadau tafodieithol, megis 'Wil Canaan', 'Galw'r let (Ar Ffordd Fowr yn Shir Bemro)', 'Chwarae Plant', 'Beth sy'n Bod ar Jac Caslewis', 'Llofft y Capel', 'Cân y Cwt', 'Dychweledigion (neu air dros Shir Bemro)', 'Trioledau', 'Swyn y Bachau', 'Am Ennyd', 'Menywod', 'Cwmwl Haf', 'Mewn Dau Gae', 'Dangos y Siprys', 'Galw'r Gwartheg', 'Cwm Berllan', 'Gŵyl Ddewi', 'Awdl i Ddynion Mynachlog-ddu – Mewn serch ac nid mewn gwawd' ac 'Enwau'.

Yn 2014, cyhoeddwyd y gyfrol *Waldo Williams Cerddi 1922 – 1970*. Ynnddi ceir yr englyn ‘Dangos y Siprys’, un o gerddi cynnar Waldo yn dyddio o’r cyfnod 1922-1937:

Tima glip ar fy shiprish, - tima’r ca’,  
Tima’r c’irch a’r barlish:  
Hitrach gormod o’r hatrish?  
Wel, falle taw e. Ond tish! (W. Williams, yn A. Llwyd a  
R. Rhys, 2014, t.5).

Cynnig A. Llwyd a R. Rhys (2014, t.456) esboniad o’r geiriau tafodieithol megis *tima*, *clip* a *hatrish*, sy’n Gymreigiad o’r gair *headridge* yn nhafodiaith Saesneg Sir Benfro, sef *charlock*, mwstard gwyllt neu gadafarth. Ceir yma felly enghraifft o ddylanwad tafodiaith Saesneg de’r sir lle y ganed Waldo ar dafodiaith Gymraeg gogledd y sir, fel yr amlygwyd yn y bedwaredd bennod.

Un arall o gerddi cynnar Waldo yw ei soned ‘Wil Canaan’, sef William Evans, crydd o Gwm Rhydwylym, lle gwelir Waldo’n cyplysu’r dafodiaith ag un o gymeriadau hynod y sir. Pwysigrwydd Wil Canaan yn y soned yw ei fod yn aelod o gymdeithas, ac er yn aelod tlawd ei fod yn cyfrannu i’w ‘golud’ llafar hi (R. Rhys, 1992, t.52):

Gofynnodd rhywun iddo ef un tro,  
“Nath storom neithiwr ddamej lan ’da chi?’  
‘Wel na’, yn ei lais main, ’dim niwed clo  
Fe dda’th llucheden miwn ’co biti dri,  
Fe godes i gan bwyll i’w gollwng ma’s –  
A’th ma’s fel wên bach swci.’ Crefftwr llwm,  
A’i storïau doniol, dwl, o hyd trwy ras  
Yn olud llafar yng nghartrefi’r cwm.  
Darfu pob dim a soniai am ei fedr  
Yn llunio clocs cymdeithas wrth y fainc,  
Pydrodd y gwaddnau llwyf a’r gwaldiau lledr,  
Ei Fabinogi a fydd yn wyrddlas gainc,  
Tra dywed gŵr mewn tyrfa neu mewn tŷ  
‘Ys gwedo’r hen Wil Canaan, slawer dy’”.  
(W. Williams, yn R. Rhys, 1992, t.52)



Drwy adael i Wil siarad yn ei leferydd bob dydd, yn y soned, yn hytrach na'i aralleirio mewn iaith safonol, dengys Waldo bwysigrwydd y dafodiaith i'r cymeriad. O safbwynt yr agwedd gymdeithasegol, dengys tafodiaith ddynion yn eu bywyd naturiol a chynrychiola'r werin bobl yn eu cynefin.

Cyhoeddwyd y gerdd 'Galw'r Iet (Ar Ffordd Fowr yn Shir Bemro)' yn *Baner ac Amserau Cymru* yn 1927; disgrifia Waldo drafeiliwr ar ei daith fasnachol a'i annog i oedi ychydig i werthfawrogi tawelwch a harddwch y wlad o'i gwmpas, gan ei chymharu â phrysurdeb amheronol bywyd trefol. Gwelir y bardd yma'n siarad ar ran ei gymuned yn nhraddodiad y bardd gwlad ac yn cyfleu darlun o gymdogaeth ddedwydd a oedd yn wahanol i fywyd masnachol y trafeiliwr (C. M. Jones, 1998, t.143). Dyfynnir o fersiwn 1927:

Arhosed damed bach, Drafeilwr;  
Sugned i wala fan hyn.  
Ma'r weninen yn crwydro fel ysbeilwr  
Dros flode'r cammil gwyn (W. Williams, 1927, t.5).

Esbonia R. Rhys (1992, t.54) mai'r hyn a geir yn y gerdd hon yw awgrym o'r 'gwrthdrawiad rhwng yr henfro ac anfri'r oes', neu'r gwrthdrawiad rhwng elw ac awen. Gwêl ynddi ddylanwad Carpenter a ddadrithiwyd gan ganlyniadau'r chwyldro diwydiannol ac a gredai fod teithwyr masnachol yn ddosbarth dianghenraid yn ein cymdeithas. Yn ogystal, awgrymodd R. Rhys (1992, t.55) fod y defnydd afieithus a hyderus a wna'r cyfarchwr o'i dafodiaith leol yn amlygu nad i ran siaradwyr ieithoedd *ymarferol* a *masnachol* y daw dedwyddwch. Dyma eiriau cryfion, yn awgrymu mai'r dyn cyffredin o gefn gwlad, â'i ffordd o fyw a'i dafodiaith ei hun, sy'n profi dedwyddwch yn y pen draw.

Sylwer ar ddefnydd Waldo o eiriau megis *feidir* a *pentigily* yn y gerdd y cyfeiriwyd at eu hynodrwydd yn y bedwaredd bennod. Yn nhermau sosioieithyddiaeth, perthynai i ddau ddosbarth cymdeithasol – er yn

ysgolhaig a bardd o fri â gafael sicr ar yr iaith safonol dengys fod ei afael a'i ddefnydd o'i dafodiaith, iaith y werin, yr un mor sicr a hyderus:

Cered lawr trw'r feidir pentigily,  
Driched trw'r bwlch yn y claw;  
Bydd e'n dewyll os na welith e'r Nefoedd  
Yn ochor Parc Draw (W. Williams, 1927, t.5).

Â'r cyfarchwr ymlaen i ddisgrifio'r gymdogaeth y mae'r trafeilwr yn ymweld â hi, sy'n parhau i ffynnu ac yn groesawgar i ymwelwyr (neu'r *dyn diert* fel y dywedir hyd heddiw yn Sir Benfro) er gwaetha'r rhwystrau a threigl amser:

Ma rhaid i fi weyd bod amser jogel  
Ddar buodd dyn ierth co;  
Ond bydd heni damed gwath o achos hinny  
Ma greso i bawb sy'n rhoi tro.

Ma'r percy yn drichyd mor ifanc  
A we nhw slower dy  
Sech bod mwy o ragwts yn tididi co heddi  
Na pan we Hoffi da ni.

Ond ma bowyd wedi'r cwbl yn y ragwts a'r isgall  
A ma bowyd ar y cloddie yn llon.  
Arhosed damed bach, Drafeilwr,  
A sugned lond i fron (W. Williams, 1927, t.5).

Gwyddys fod i'r mynydd arwyddocâd arbennig yng ngwaith Waldo, megis yn ei gerdd 'Preseli' lle y disgrifia'r muriau a fu'n gefn iddo; er y cynnig i fod yn un â chymdeithas y Preselau, mae'r trafeilwr yn rhy brysur yn ei fyd materol i sylwi:

Ma'r Fwel yn codi yn y pellter  
Ac yn gwilied dros y wlad yn i grym;  
Arhosed, Drafeilwr. Trafeilwr! Shwrne to – Hei, Trafeilwr!  
So'r Trafeilwr yn silwi dim (W. Williams, 1927, t.5).

Ar ddiwedd y gerdd, daw'r gwahaniaeth rhwng y trigolion lleol sy'n fodlon yn eu byd hamddenol, a'r trafeilwr sy'n rhuthro i bob man ac yn chwennych moethau a phleserau materol, yn amlwg:

Ma'r Trafeilwr yn i garr yn ddyn o fusnes –  
Ffortiwn; moethe mowr; plesere pell.  
A chlywith e ddim byth o'r iet yn galw.....  
A gwelith e ddim byth o'r golud gwell.

Ond yn hongian ma'r hen iet joglyd  
Dan gisgod yr onnen ar ben claw,  
A'r pyst yn mynd bob dy yn fwy mwsoglyd  
Yn yr houl, a'r gwynt a'r glaw (W. Williams, 1927, t.5).

Awgryma sylw'r bardd 'a gwelith e ddim byth o'r golud gwell,' fod y bobl leol eisoes wedi profi o'r golud hwnnw. Camp y gerdd, felly, yw'r 'modd y defnyddir tafodiaith yn ddeheuig i gyfleu dedwyddwch y gwreiddiedig diuchelgais' (R. Rhys, 1992, t.56). Er mai cerdd syml yw hi, gellid awgrymu fod y bardd yn trin ac yn cyfleu'r dafodiaith yn ddidrafferth, ac mae ei gariad at ei gymdogaeth a'r ffordd o fyw ynddi i'w weld yn amlwg. Er bod darlunio cymdogaeth dda cefn gwlad Cymru yn thema gyfoethog yn llenyddiaeth yr ugeinfed ganrif, cred B. L. Jones (1971, t.268) nad oes yng ngweithiau neb arall bortread cyn ddyfned o nerth y Gymru wledig sydd o dan fygythiad ag a geir yng ngherddi Waldo, boed y rheiny'n gerddi tafodieithol neu beidio.

Dywed R. Rhys (1992, t.53) fod Waldo 'wrth ei fodd yn defnyddio tafodiaith' yn rhai o'i gerddi, megis yn y gerdd 'Am Ennyd' lle mae'n disgrifio bywyd bob dydd yn ardal Clunderwen:

*Y mae'n arferiad hynod, ond mae'n lledu fel y pla,*  
*Fod gwraig y ffarm yn codi am wech i odro'r da.*  
*Ma'r clocs ar lawr y glowty yn fwstwr heb ei fath,*  
*Ac wedi pennu ma' nhw'n mynd â'r trap i hala'r lla'th –*  
*Ma' hynny os bydd peth yn sbâr ar ôl boddloni'r gath*  
(W. Williams, yn A. Llwyd a R. Rhys, 2014, t.14).

Yn y gerdd 'Mewn Dau Gae', gwelir y defnydd o'r gair parc/perci:

*Dros Weun Parc y Blawd a Parc y Blawd heb ludd,*  
*A'u gafael ar y gwrthrych, y perci llawn pobl* (W. Williams, 1956, t.27).

Gellid dadlau bod hon yn dechneg effeithiol gan ei bod yn lleoli cerdd yn syth mewn ardal benodol ac yn rhoi awgrym cynnil o'r dafodiaith a siaredir yn yr ardal, ond heb dramgwyddo unrhyw ddarllenwyr o'r tu allan i'r ardal honno. Dyna'n union a wna Waldo yn y gerdd hon, sef lleoli ei gerdd yn gadarn yn Sir Benfro. Fel y dywedodd Lleucu Roberts:

Yn 'Mewn Dau Gae', sydd fel arall yn gwbl ddi-dafodiaith....., heb fod yn perthyn i 'le' o gwbl, mae Waldo yn cynnig lleoliad i ni ar amrantiad yn ei ddefnydd o'r geiriau 'parc' a 'perci': un gair, ac rydyn ni'n gwybod yn syth ein bod ni yng ngogledd Sir Benfro. Yn hynny o beth, mae'n dyfnhau didwylledd y profiad (Lleucu Roberts, Cyfweliad, 2015).

Mae'r awgrym bod hyn yn 'dyfnhau didwylledd y profiad' yn un diddorol. Gellid dadlau bod modd i ddarllenydd rannu profiad yr awdur wrth ddarllen unrhyw lenyddiaeth, ond wrth rannu tafodiaith yr awdur, hyd yn oed ychydig eiriau fel y ceir yn y gerdd hon, gall y profiad fod yn ddyfnach gan fod y darllenydd yn cael golwg ar iaith y gymdeithas y perthyn yr awdur iddi.

Gellid cymharu hyn â cherdd Karen Owens 'Côr Crymych yn Schlosskapelle Schöbrunn' a ymddangosodd ym mhapur bro'r Preseli, *Clebran*, sy'n cyfeirio at ei hymweliad â Fienna yr un pryd â'r côr:

Mae'n hydref yn y nefoedd,  
mae Fienna'n gân ar goedd,  
a dweud 'weth wna'r nenfwd wych  
eiriau'r emyn o Grymych (K. Owens, 2014, t.16).

Mae'r defnydd o'r gair *weth* gan fardd o Ogledd Cymru, un gair tafodieithol mewn cerdd sydd fel arall mewn iaith safonol, yn arwydd o barch yr awdur at dafodiaith ei chyd-Gymry yn Fienna, a'i chydabyddiaeth ohoni. Gellid dadlau bod yr un gair hwn yn bwerus gan y dengys ar amrantiad yr ardal y perthyn aelodau'r côr iddi.

Awgrymodd B. Jones (2004, t.6) fod cerddi plant Waldo yn rhagori mewn dwy ffordd, sef yn y delweddau trawiadol a bachog, ac yn yr 'arddull lafar ystwyth a naturiol.' Enghraifft o gerdd o'r fath yw 'Enwau', a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Cerddi'r Plant* (1936). Yn y pennill cyntaf, gwelir cyfeiriad Waldo at *sgidie a sane'r gwcw*, sy'n gyfystyr â fioled fach y cloddiau a *bacse'r brain*, sy'n gyfystyr â thraed y brain neu glychau glas:

Pryd mae'r gwcw'n gwisgo'i sgidie-a-sane?  
Pryd mae'r brain yn gwisgo'u bacse glas?  
A sut mae'r blodyn neidir  
Fyny fry ar glawdd y feidir  
Yn perthyn i sut hen greadur cas? (W. Williams yn  
E. Ll. Williams a W. Williams, 1936, t.34).

Un arall o gerddi'r gyfrol *Cerddi'r Plant* yw 'Galw'r Gwartheg', lle disgrifir y weithred o alw'r gwartheg i'w godro a'r hen arfer o'u henwi. Ynddi, 'mae'r defnydd achlysurol o eirfa dafodieithol yn rhoi arlliw dymunol i'r dweud' (R. Rhys, 1992, t.79). Cyfeiriwyd eisoes yn y bedwaredd bennod at y ffaith mai'r gair *tŷ gwartheg* a glywir yng ngorllewin Sir Benfro, tra'r gair *glowty* a glywir yn y dwyrain (er sylwer mai *glawty* a ddefnyddir gan Waldo yma ond *glowty* yn y gerdd 'Am Ennyd' uchod), ac mae'r gair *côr* (lle clymir y gwartheg) wedi ei gyfyngu i rai ardaloedd yn unig yn Sir Benfro (A. R. Thomas, 1973, t.117; t.360):

Dyma ni ar hyd y feidir,  
Dyma ni o dan y llwyn,  
Dyma ni wrth ddrws y glawty,  
Dewch i'ch corau, wartheg mwyn.  
Blodwen, Seren, Brithen, Cochen,  
Pol a Pat, ble bynnag boch,  
Nansi, Pegi, dere Llwyden,  
Dere Llwyden,  
Rhoson a'r Bengwndwn goch (W. Williams yn  
E. Ll. Williams a W. Williams, 1936, t.32).

Yn ei adolygiad o'r ail argraffiad, a gyhoeddwyd yn 1955, mae R. A. Pritchard (1956, t.102) yn croesawu'r gyfrol *Cerddi'r Plant* am fod

prinder llyfrau barddoniaeth Gymraeg i blant. Er yn canmol y cerddi am eu hasbri, a'r ddau fardd am 'ymdeimlo â hanfod anian plentyn', dywed hefyd y 'llwyddwyd i osgoi cynnwys gormod o dafodiaith, a buddiol iawn yw'r Eirfa fer ar ddiwedd y gyfrol.' Gellid tybio y byddai'n anoddach i'r darllenwyr sy'n blant o'r tu allan i Sir Benfro ddeall y geiriau tafodieithol, ond fel yr awgrymwyd mae'r rhestr eirfa ar y diwedd yn ddefnyddiol iawn i gynorthwyo a hyrwyddo dealltwriaeth. Ar y llaw arall, o ystyried y cyfnod gellid dadlau y byddai'n haws i blant o fewn Sir Benfro ddeall y geiriau tafodieithol na'r rhai safonol o bosib.

Defnyddir y gair *feidir* unwaith eto yn y gerdd 'Cwm Berllan' a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn *Y Ford Gron* yn 1931 a'i chynnwys eto, gyda mân amrywiadau, yn y gyfrol *Dail Pren* yn 1956. Ysgogwyd y gerdd gan arwyddbost pentref y Rhos, sydd rhyw bedair milltir a hanner o Hwlfordd (A. Llwyd a R. Rhys, 2014, t.467):

"Cwm Berllan, Un filltir" yw geiriau testun  
Yr hen gennad fudan ar fin y ffordd fawr;  
Ac yno mae'r feidir fach gul yn ymestyn  
Rhwyng cloddiau mieri i lawr ac i lawr (W. Williams, 1956, t.77).

Fel y dywed A. Llwyd (2014, t.134), ceir gan Waldo gerddi tyner a dwys am blant, ac yn ei gerdd 'Chwarae Plant', dengys ei hoffter o blant (crwts a rhocesi) yn ogystal â'i dosturi wrth feddwl y bydd rhaid iddynt droi'n oedolion un dydd:

Euthum allan pwy fore i'w gweled  
Yn chwarae trwy'r hanner-dydd-bach,  
Crwts a rhocesi Doleled  
Yn chwerthin a champo yn iach.

'P'un sy ore, ci bach neu wên swci?'  
(‘Wel, pwy ochor s’da Tomi Tŷ-rhos?’)  
'A'r hen Ladi Wen, 'te, neu'r Bwci  
Sy waethaf i'w gwrdd erbyn nos?' (W. Williams, yn A. Llwyd a R. Rhys, 2014, t.7).

Ceir defnydd trawiadol o eiriau tafodieithol yn y gerdd 'Cwmwl Haf', megis *bracsaf*, o'r berfenw *bracso* a olyga cerdded trwy ddŵr, a *swmpo*, sef teimlo â'r bysedd (W. M. Morris, 1910, tt.38,278; W. Owens, 2013, tt.29,205). Fel yr awgrymodd H. Bevan (1971, t.301) 'y mae'r ferf "Bracsaf" yn ddisyfyd leol', ac felly yn arwyddocaol unwaith eto llwyddir i'n lleoli'n ddiamwys yn Sir Benfro:

Sŵn y dŵr. Bracsaf iddo am ateb.  
Dim ond y rhediad oer.

Trwy'r clais adref os oes adref.  
Swmpo'r post iet er amau (W. Williams, 1956, t.49).

Yn y gerdd 'Gŵyl Ddewi', ceir cyfeiriad at *wado bant*, a olyga gyrru ymlaen neu yrru arni (W. Owens, 2013, t.224):

Rhannodd y dymp a'r drôm bentir y sant  
Ac uffern fodlon fry yn canu ei chrwth,  
A'i dawnswyr dof odani yn wado bant  
Wrth resi dannedd dur y dinistr glwth (W. Williams, 1956, t.92).

Cyfeirir at dair cymeriad lleol yn y gerdd 'Menywod', sef Phebi'r Ddôl, Bet Glan-rhyd a Sali'r Crydd; dyma gerdd sy'n dangos cysylltiad agos Waldo â'r gymdeithas werinol (N. Thomas, 1985, t.29). Fel y gwnaeth yn ei soned 'Wil Canaan', y mae Waldo'n gadael i Sali siarad yn ei lleferydd bob dydd yn y gerdd hon, wrth iddi gyfeirio at ffwlbri (*dwli*) y bachgen (*crwt*):

Fe lonnai Phebi'n wên i gyd  
Pan rown y darlun pert o'i blaen,  
Ac ymfalchïai Bet Glan-rhyd  
Wrth weld ei hen, hen ben yn faen,  
A dwedai Sali'n siriol : "Twt!  
Pa ddwli'n awr sydd ar y crwt?" (W. Williams, 1956, t.56).

Er bod i Sir Benfro le amlwg yng ngherddi ei gyfrol *Dail Pren*, megis 'Tŷ Ddewi', 'Ar Weun Cas' Mael', 'Preseli' a 'Diwedd Bro', ni chynhwysodd

Waldo ei gerddi mwyaf tafodieithol, megis 'Wil Canaan', 'Galw'r Iet (Ar Ffordd Fowr yn Shir Bemro)' ac 'Am Ennyd' ynddi. Gellid maentumio nad yw hyn yn syndod, gan mai cyfrolau o farddoniaeth mewn iaith lenyddol a gyhoeddwyd yr adeg honno gan amlaf. Ar y llaw arall, gan mai trwy berswâd cyfeillion y cyhoeddwyd y gyfrol, a'u bod wedi mynd ati i gasglu ei gerddi at ei gilydd ar ei ran, o dan yr argraff nad oedd Waldo yn ddigon disgybledig i wneud hynny ei hun (R. Rhys yn A. Llwyd a R. Rhys, 2014, t.xxii), mae'n bosib nad oedd copi o'r cerddi tafodieithol hyn wrth law ar y pryd. Serch hynny mae rhai o'r cerddi y cyfeiriwyd atynt eisoes sydd â chyffyrddiadau tafodieithol wedi eu cynnwys yn y gyfrol *Dail Pren*, megis 'Menywod', 'Cwmwl Haf', 'Mewn Dau Gae', 'Cwm Berllan' a 'Gŵyl Ddewi'. Yr hyn a wnaeth felly oedd dwyn y sir i sylw'r genedl ac, o ganlyniad, 'Waldo, yn anad neb arall, yw triniwr daear Dyfed yn ei llenyddiaeth' (B. L. Jones, 1971, t.261).

Er mai ychydig o eiriau tafodieithol sydd yn rhai o'r enghreifftiau hyn o gerddi Waldo, mae ei ddefnydd achlysurol o eiriau tafodieithol ac ansafonol yn arwyddocaol. Gellid awgrymu iddo eu cynnwys am fod y geiriau hynny wrth law, yn eiriau cyfarwydd a naturiol i un a fagwyd mewn ardal lle'r oedd y dafodiaith yn fyw. Fel yr awgrymodd Mererid Hopwood (Cyfweliad, 2015), nid oeddent yn 'gerddi bwriadol tafodieithol' ond lle'r oedd y gair tafodieithol yn addas, nid oedd ofn ganddo ei ddefnyddio. Er iddo gynnwys rhestr o eirfa a fyddai'n ddieithr o bosib i'r darlennydd ar ddiwedd y gyfrol *Cerddi'r Plant*, fel y nodwyd eisoes, ni welodd yr angen i wneud hynny yn ei gyfrol *Dail Pren*. Dengys Waldo ei hyder yn y geiriau tafodieithol wrth eu cynnwys yn ei gerddi, ac fel yr awgrymwyd eisoes maent yn lleoli ac yn gwreiddio'r cerddi yn gadarn yn Sir Benfro.

### **E. Llwyd Williams, 1906 – 1960**

Yr oedd E. Llwyd Williams, a aned yn y Lan, Efailwen, pentref ar y ffin rhwng Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, yn fardd, llenor a dramodydd. Er



iddo gychwyn ar yrfa fferyllydd, trodd at y weinidogaeth a bu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr ym Maesteg a Rhydaman. Ysgrifennodd amryw o gyfrolau, megis *Rhamant Rhydwylym* (1939), *Hen Ddwylo* (1941), *Tua'r Cyfnos* (1943), *Cofiant Thomas Phillips* (1946) a *Tir Hela* (1957). Enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl yn 1953 a'r Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Ystradgynlais yn 1954.

Ef hefyd ysgrifennodd y ddwy gyfrol *Crwydro Sir Benfro* yng Nghyfres Crwydro Cymru a gyhoeddwyd yn 1958 a 1960. Mae'n arwyddocaol iddo ysgrifennu pennod gyntaf ei gyfrol gyntaf yn ei dafodiaith; dyma sut y disgrifia'r olygfa o'r fferm y'i maged ynddi, lle y gwêl y sir yn ymestyn o'i flaen:

Pan wen i gatre yn y Lan, we pishin mowr o Shir Bemro yn y golwg o iet y clos ac o ben claw'r feidir - siwr o fod hanner y shir. O ben y claw wen i'n gweld pen y Fwel a draw dros fini Morfil hyd at drwyn Tyddewi, we dyffryn Cledde o dana i'n rhedeg lawr i Hwlffor, a we'n i'n gweld y môr, siwr o fod ugen milltir fel ma brân yn hedfan. We mwg llonge i'w weld ar ddwarnod clir a'r leitows obiti Milffwrdd yn goleuo'r awyr ar nosweth diwill (E. Ll. Williams, 1958, t.14).

Canwyd nifer o gerddi tafodiaith yn disgrifio'r agwedd grefyddol o fywyd cefn gwlad Sir Benfro. Yn ei gerdd 'Obiti'r Tŷ Cwrdd', mae'r bardd yn dwyn i gof addoli pan oedd yn blentyn:

Yng nghesol y Fwel  
Ma' capel bach twt,  
Lle we'n i'n addoli  
Pan we ni'n grwt.  
We 'nhw'n dwad ar geffyle  
I'r cwrdd 'slawer dy',  
A ma' tamed o stabal  
Yn sownd wrth y tŷ (E. Ll. Williams, 1957, t.29).

Cofia E. Llwyd Williams am 'ddwarnod cwrdd pishis' a 'dwarnod cymanfa' a rhydd ddisgrifiad byw i ni o ddefodau ac arferion y diwrnodau

pwysig hynny yn y calendr eglwysig, ac o fywyd y capel yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Disgrifia'r bardd yn gelfydd, ac mewn tafodiaith syml a dealladwy, yr ymdrech aruthrol a wnaed y pryd hynny i gyrraedd y capel ym mhob tywydd:

We'n i'n cered deirgwaith  
I'r cwrdd ar ddy' Sul,  
A gorffod pwlffagan  
Ar hyd feidir gul;  
Dros sticle a iete,  
Dros weunydd a rhos,  
A dim ond y llouad  
Yn lamp yn y nos (E. Ll. Williams, 1957, t.30).

Wrth ddisgrifio'r capel yn rhoi galwad 'i'r dyn 'ma o bant', diddorol yw sylwi ar agwedd y bardd at iaith y gweinidog a'i dafodiaith yntau, y gyferbyniaeth rhyngddynt, a'i ddefnydd o'r gair 'shipris':

Dath lawr pentigili  
O'r North ato ni,  
A ma'i iaith e'n wahanol  
I'r shipris sda fi (E. Ll. Williams, 1957, t.31).

Cymharer hyn ag agwedd Brynach a ddywedodd am ei dafodiaith (er mai dychangerdd oedd hi yn wreiddiol): 'Iaith daliedd fy nhade, nid shiprus mo honi' (Brynach, yn E. C. Davies a J. T. Phillips, 1925, t.97). Mae'n bosib fod agwedd at dafodieithoedd wedi newid wrth i'r ugeinfed ganrif fynd yn ei blaen, neu fod tafod E. Llwyd Williams yn ei foch wrth iddo ysgrifennu hyn, neu ei fod wir yn grediniol fod iaith gogledd Cymru yn rhagori ar ei dafodiaith yntau. Cynnyrch y gystadleuaeth 'Cerdd Dafodiaith' yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1943 oedd y gerdd hon, ac nid oedd beirniad y gystadleuaeth, G. J. Williams, a ddyfarnodd y wobr gydradd gyntaf iddi, yn cytuno mai 'shipris' oedd ynddi gan iddo awgrymu fod y geiriau tafodieithol 'yn cymryd eu lle'n naturiol yn y gân ac yn rhan hanfodol ohoni' (G. J. Williams, 1943, t.96).

Er naturioldeb y gerdd ar y cyfan, ar ei diwedd ceir rhywbeth sy'n taro'n rhyfedd i'r sawl sy'n gyfarwydd â thafodiaith Sir Benfro. Dyfynnir yma o'r fersiwn a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Tir Hela* (1957) a sylwir i'r bardd wneud newidiadau i'r gerdd ers ei chyflwyno i'r gystadleuaeth yn 1943:

Pob lwc iddo manco  
Gyda nhw'n y sêt fawr;  
A ma' nhw'n rhico dage,  
Rhico dage nawr (E. Ll. Williams, 1957, t.31).

Nid 'sêt fawr' a ddywedir yn gyffredin yn y sir ond 'sêt fowr'. Afraid dweud mai'r hyn a geir yma yw'r angen i *fawr* odli â *nawr*. Cymharer hyn â cherdd T. James Jones lle cyfeirir at yr hen arfer o dorri pobl allan o'r capel:

Fe wydde duwie bach y sêt fowr  
y cwbl am dorri rheole  
ac am dorri mas (T. J. Jones, 2014b, t.138).

Tynnodd Eirwyn George (Cyfweiliad, 2014) sylw at yr union bennill gan E. Llwyd Williams. Er ei fod yn credu ei bod yn gerdd dda mewn tafodiaith ac yn agos-atoch, teimlai yntau hefyd ei bod yn syrthio mewn ambell fan, megis yn ei ddefnydd o *fawr* yn hytrach na *fowr*. Cyfeiriodd at orfod ystwytho ar gyfer odl a'r ffaith bod tuedd i gymysgu'r iaith lenyddol a'r tafodieithol mewn barddoniaeth yn ôl anghenion mydr ac odl, ond teimlai nad oedd hyn yn taro'n iawn. Gellid dadlau mai ffals ac annaturiol yng ngolwg y darlennydd lleol yw defnydd E. Llwyd Williams o 'sêt fawr' felly, a bod defnydd T. James Jones o 'sêt fowr' yn fwy tafodieithol gywir. Gwelir yma bod yr awydd i odli yn trechu'r awydd i adlewyrchu nodweddion y dafodiaith.

Gwelir felly mai ychydig a ysgrifennodd E. Llwyd Williams mewn tafodiaith, ond iddo ddilyn y trywydd hwn ar adegau, megis at ddiben cystadleuaeth fel y gwnaeth gyda'r gerdd 'Obiti'r Tŷ Cwrdd' a enillodd y

wobr gydradd gyntaf am 'Gerdd Dafodiaith' yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1943. O ran ysgrifennu pennod gyntaf ei gyfrol gyntaf *Crwydro Sir Benfro* mewn tafodiaith, dwy dudalen yn sôn am ei blentyndod, gellid tybio iddo deimlo y byddai hynny'n rhagymadrodd addas a diddorol i'w gyfrolau, er mwyn dangos ei gysylltiad â sir ei febyd.

### **W. Rhys Nicholas, 1914 – 1996**

Bardd, emynydd, golygydd a gweinidog yr efengyl a aned ym mhentref Tegryn oedd W. Rhys Nicholas. Bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn Llandysul ac ym Mhorthcawl, a chyhoeddodd y cyfrolau *Cerdd a Charol* (1969), *Oedfa'r Ifanc* (1974), *Cerddi Mawl* (1980) ac *Y Mannau Mwyn* (1985) yn ogystal â chyd-awduro a golygu nifer o gyfrolau eraill. Galwyd ei emyn 'Tydi a wnaeth y wyrth, O! Grist Fab Duw' ar y dôn Pantyfedwen yn 'emyn y ganrif' (M. Stephens, 1997, t.535). Er iddo ymgartrefu mewn gwahanol rannau o Gymru yn ystod ei oes, cyfansoddodd nifer o gerddi yn nhafodiaith ei fro enedigol.

Fel ei gyd-weinidog E. Llwyd Williams, un o themâu cyson cerddi tafodieithol W. Rhys Nicholas oedd crefydd a'r capel. Yn ei gerdd 'Dydd Diolchgarwch', ceir hen gymeriad gwledig yn hel atgofion am yr oedfa ddiolchgarwch. Yn ôl yr arfer, cynhaliwyd yr oedfa yn ystod yr wythnos:

O odw, 'rwy'n cofio'r diwyrnod,  
Dydd Mercher, ontefe? – 'na chi –  
Ond mowcath, 'ma hanes go hinod  
I'r Dydd Diolchgarwch ges i.  
Cihoiddwd manylion yn Bethel,  
Dy' Sul, yn oidfa'r prynhawn,  
(We neb o tŷ ni yn y Capel,  
Wath weno' ni'n gwrddwyr mowr iawn) (W. Rh. Nicholas,  
1969, t.33).

Y mab afradlon oedd testun y bregeth, a disgrifia'r bardd yr effaith a gafodd ar y gynulleidfa. Amlygir nodweddion y dafodiaith yn glir yn y

gerdd hon, felly gellid cytuno â sylw E. George (2001, t.121) fod y gerdd yn dangos fod gan y bardd 'afael sicr ar dafodiaith Gogledd Sir Benfro':

Wy'n 'i weld e' o hyd, y dyn rhifedd,  
A'r Beibl yn dynn yn 'i gôl  
A'i laish e' yn hifrid nefoledd  
Yn begian yn diner, "Dewch nôl!" (W. Rh. Nicholas, 1969, t.37).

Fel y dywed G. M. Awbery (1991, t.37), mae'r defnydd o dafodiaith yn y gerdd hon yn galluogi'r darlennydd i brofi hanes yr oedfa drwy lygaid y prif gymeriad gan beri'r teimlad i rywbeth gwerthfawr gael ei gollu wrth gyfnewid diniweidrwydd yr oes a ddisgrifir yn y gerdd am safonau mwy soffistigedig y byd cyfoes. Gwelir yn y gerdd hon enghraifft o 'groesi o diriogaeth arferol y dafodiaith', gan mai'r iaith safonol a glywir fel arfer yn y capel tra cedwir y dafodiaith at faterion ysgafnach (G. M. Awbery, 1991, t.38). Dyma herio, felly, a gwthio ffiniau canu tafodieithol, pwynt y manylir arno yn y chweched bennod.

Bu trên 'Y Cardi Bach' yn ffordd o deithio drwy'r sir am bron i ganrif, ac yn ei gerdd o'r un teitl, mae W. Rhys Nicholas yn hel atgofion am y cyfnod hwnnw. Cofia'r daith drwy bentrefi'r sir megis Cilgerran, Boncath, Crymych, Y Glôg a Llanfyrnach, ac i mewn i Sir Gaerfyrddin i Hendy-gwyn ar Daf. Ar ddiwedd y gerdd, mynegir siom nad yw'r trên yn rhedeg bellach, yn sgil y datblygiadau yn nhrefnidiaeth fodern ein hoes:

Na, dyw'r train ddim yn rhedeg heddi,  
Ma'r rheilog yn gyfor o whyn,  
A wir-w, mae'n bacar o dawel  
Ar sgiw fach y steshon fan hyn.  
Dos ma neb yn agor yr iete,  
Na neb yn dod mas a mynd miwn,  
Dos ma neb yn mynd ar i drafel,  
Ma'r cyfan i gyd mas o diwn (W. Rh. Nicholas, 1969, t.55).

Yn arwyddocaol, dengys y ffaith bod y bardd yn canu yn ei dafodiaith fod honno, hyd yn hyn, wedi osgoi tranc trafndiaeth yr ardal ac y parheir

i'w siarad a'i chlywed. Gellid awgrymu bod y diffuantrwydd a'r cynhesrwydd a berthyn i lenyddiaeth dafodieithol yn cael ei amlygu.

Er bod W. Rhys Nicholas yn awdur toreithiog yn yr iaith safonol, ychydig a ysgrifennodd mewn tafodiaith. Mae'n debyg iddo wneud hynny yn achlysurol am fod y gerdd yn ymwneud â'i ardal enedigol, neu'n cyfeirio ati. Yr oedd hefyd, fel E. Llwyd Williams, yn dangos ei gysylltiad â sir ei febyd drwy ysgrifennu yn nhafodiaith y sir honno.

### **Reggie Smart, 1932 – 2013**

Brodor o ardal Bwlch-y-groes oedd Reggie Smart, a ymgartrefodd yn Llandudoch. Bu'n gweithio ar ffermydd lleol, i gwmni o adeiladwyr a hefyd gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Aberporth. Enillodd saith o gadeiriau yn ogystal â nifer o wobrau eraill mewn eisteddfodau lleol, gan ennill hefyd droeon yn Eisteddfod Gŵyl Fawr Aberteifi a'i ddyfarnu'n gyd-fuddugol ar y gerdd rydd yn Eisteddfod Genedlaethol 1992. Roedd hefyd yn aelod o dîm y Preselau ar Dalwrn y Beirdd (E. George, ar glawr R. Smart, 2013). Canodd yn bennaf am ei ardal leol, ei hiraeth am fro ei febyd a chymeriadau'r fro honno.

Er i'w waith ymddangos mewn papurau lleol ac yn y cyfrolau *Wês Wês* a drafodir yn y bennod nesaf, nid ymddangosodd cyfrol o'i waith tan wedi ei farwolaeth pan gyhoeddwyd *O'r Taf i'r Teifi* yn 2013. O'r wythdeg o gerddi yn y gyfrol honno, mae dros chwarter ohonynt yn gerddi tafodieithol. Gellid dadlau, felly, mai un o ragoriaethau'r gyfrol yw ei bod yn ffynhonnell a chofnod o dafodiaith Sir Benfro, yn cofnodi geiriau megis *jogel*, *ombeidus*, *diwardd*, *jecôs* a *feidir* yn naturiol ac yn ddidrafferth. Yn ogystal mae'n gofnod o ganu gwlad:

Mae tafodiaith soniarus Sir Benfro yn llifo'n esmwyth a naturiol drwy ran helaeth o gynnwys y gyfrol. Daw ei ddawn storiol i'r amlwg yn aml... Dyma gorff o ganu bardd gwlad y dylem ymfalchïo ynddo a'i ddiogelu i'r cenedlaethau a ddêl (E. George, 2013, t.ix).

Yn ei soned 'Myfyrdod ar hen bont Felin-wen, Boncath', mae'r bardd yn hel atgofion am gyfnod a fu yn ei ardal enedigol. Afraid dweud nad yw'r math hwn o ganu yn unigryw i feirdd y sir, gyda hiraeth am gyfnod a fu yn thema amlwg mewn cerddi. Gellid awgrymu bod y dafodiaith yn ychwanegu at naws y cyfnod:

Welwch chi ddim o'r dŵr, chi, heddi'n disgyn  
Lawr dros y whîl ger talcen Felin-wen,  
Chlywch chi ddim o'r llwye'n dal y rhewyn,  
Na'r ffrwd yn hollti dros y breiche pren.  
Welwch ddim o'r ceirt yn carto'r barlys  
Lawr dros y rhiw, cyn croesi'r afon fach,  
Chlywch chi ddim o'r meini llwyd yn allwys  
Y blawd yn ara' deg i ene'r sach.  
Pwy fu, chi, slawer dy' yn cario'i bwne  
Ar gewn 'i asyn draw o Fwlch-y-gro's? (R. Smart, 2013, t.9).

Dwyn i gof y gymdogaeth glòs a fodolai a'r trigolion a oedd yn barod i gynorthwyo'i gilydd bob amser a wneir yn y gerdd 'Slawer Dy'; er mai tlawd oeddent, ni fynnent dâl am gynorthwyo eu cymdogion, cymdeithas sy'n araf ddiflannu. Llwyddodd y bardd, felly, i amlygu 'urddas cynhenid y werin bobl' (C. M. Jones, 1998, t.143):

Slawer dy' chi we na gwmdogion  
Ym mhob plwy, hen ffrindie rhadlon  
Yn byw eu dyddie heb fwy na cheinog,  
Yn isthe ar seld tu fiwn i'w rhiniog.  
Ond we nhw mwy hapus na neb, chi, heddi  
Yn llawn ffraethineb, yn rhoi pwt i helpu,  
Heb ofyn am arian am ddiwrnod o waith  
We rhoi llaw i gymydog yn rhan o'r daith (R. Smart, 2013, t.46).

Canmol a wna Reggie Smart hefyd yn ei gerdd 'Cwmdogion', sy'n sôn am Dai Nant y Cnu, Wil Cefen Bras, Jac Hendre'r Glaw a Jim Pwll y Whermod. Llwyddodd i ddisgrifio cymeriadau a oedd yn gysurus yn eu milltir sgwâr, megis y cymeriadau a ddisgrifiwyd gan Waldo yn ei gerdd 'Galw'r let (Ar Ffordd Fowr yn Shir Bemro)' y cyfeiriwyd ati eisoes:

We neb yn debyg i Dai Nant y Cnu  
Am dorri cwysi mewn mawnog ddu.  
Wa'th faint fydde'r oledd, fe roie ffeit  
I droi y cwysi i gyd yn streit.  
We'r dynion yn dod o bellter deiar  
I weld y cwysi, hyd 'nod y sgweiar (R. Smart, 2013, t.16).

Cyfeiriodd Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) at y ffaith bod Reggie Smart wedi dechrau barddoni mewn dosbarth o'r enw *Gweithdy'r Bardd* a gynhaliai ef, ac iddo ei chael hi'n anodd meistroli gramadeg y Gymraeg, er ei fod yn fardd medrus iawn a gwreiddiol. Credai Eirwyn George, felly, fod ei gerddi tafodieithol yn 'ei achub e' fel bardd, gan ei bod yn farddoniaeth mewn iaith naturiol. Awgrym y gair 'naturiol' yma yw bod y bardd yn canu'n rhwydd ac yn ddiymdrech yn ei dafodiaith, ond ei fod yn fwy o ymdrech iddo ganu mewn iaith safonol. Cyfeiriwyd eisoes at farn K. Roberts (1947, t.92) bod perygl i rai ysgrifennu mewn tafodiaith er mwyn cuddio gwallau iaith. Ni ellir cyhuddo Reggie Smart o hyn, gan fod enghreifftiau o gerddi da mewn iaith safonol yn ei gyfrol *O'r Taf i'r Teifi*, er mae'n bosib iddynt gael eu golygu cyn eu cyhoeddi (fel yr awgrymodd Eirwyn George, Cyfweliad, 2014). Gellid dadlau, serch hynny, fod Reggie Smart yn rhagori fel bardd tafodieithol am ei fod yn naturiol, yn agos-atoch ac yn ddidwyll. Yn ei gerdd 'Goleuni' er enghraifft, gwelir cyfoeth y dafodiaith a'i geirfa unigryw:

Seno chi'n gweld y ffenestri heno'n winco  
Draw ato ni o Dynewy pentigily,  
We dŵwch nos yn 'u helpu nhw i seso  
Jiw, fel soseri our ar lethre'r miny.  
Tawel yw'r clos, chi, nawr heb 'run creadur  
Yn breifad a'r sŵn yn cario gyda'r awel  
Dros yr afon, ac ar y tai ma's ma' natur  
Yn plethu drain a drysni â'i fise anwel.  
Weithie, pan lusga'r niwl dros Drwyn y Frenni  
A'r hen le bach yn cwato yn y dryswch,  
Ma' rhyw hen isgrid drwyddo chi yn corddi,  
Rhwbeth wêr ombeidus yw tywyllwch.  
Ond pan fo houl y bore'n sheino'r gwydre  
Ma'r lle yn atgyfodi'n blas o ole (R. Smart, 2013, t.98).



Fel y nodwyd eisoes, agwedd rhai yw bod cerddi o'r fath yn cyfyngu'r gynulleidfa i'r ardal lle y siaredir y dafodiaith, ond gellid dadlau bod modd gwerthfawrogi'r swyn a'r canu yn y gerdd hon heb ddeall pob gair sydd ynddi. I'r sawl sy'n ymddiddori mewn iaith, gellid awgrymu bod modd dyfalu, o bosib, ystyr rhai o'r geiriau sy'n ddieithr iddynt, megis 'isgrid' sef *ysgryd / shiver*. Fel y dywed Mererid Hopwood (Cyfweliad, 2014) wrth drafod cerddi tafodieithol: 'rhaid i ni fod yn wylriadwrus mai mwynhau a dathlu'r gwahaniaethe ni'n 'neud, nid creu bwganod mas ohonyn nhw.' Y perygl yw gorbwysleisio'r gwahaniaethau rhwng tafodieithoedd yn hytrach na chydabod eu rhan annatod yng nghymdeithas ein gwlad.

Er beirniadaeth rhai, gwell gan eraill lais y llenor tafodieithol. Cyfeiriodd Idris Reynolds (Cyfweliad, 2014) at y ffaith ei fod, pan yn ymweld â chymdeithasau i drafod a darllen ei gerddi, yn darllen cerdd dafodieithol o eiddo ei fam, Elizabeth Reynolds, sef 'Ar Werth', a leolir yng Ngheir Newydd, a'i bod yn cael derbyniad da bob tro:

'Ta fe'n while'r cread, gwaith anno' gwlei  
Fyse taro ar dre' sy'n curo'r Cei;  
Rhoed bip ar y strydo'dd sy'n rhesi hir  
Uwchben 'i gily' ar gnwycyn o dir;  
A 'dryched, ma'r môr o'tanynt fel cath  
Yn canu grwndi ar slabyn o dra'th.  
A'r hen gwche bach yn pingo'n y dŵr –  
Welodd e'm pertach golygfa, 'wy'n siŵr (E. Reynolds, 1986, t.24).

Dywed Idris Reynolds (Cyfweliad, 2014) am y gerdd: 'ma'r dafodieth yn talu am ei lle fan 'na, achos chi'n sôn am y Cei.' Awgryma ei sylw 'talau am ei lle' fod cyswllt rhwng thema a thafodiaith, a bod rhai pynciau, megis yr ardal leol, yn gweddu mewn llenyddiaeth dafodieithol, pwynt yr ymhelaethir arno yn y bennod nesaf.

Gellid dadlau mai annheg fyddai beirniadu bardd am fynegi ei lais tafodieithol a'i atal rhag gwneud hynny, gan yr awgryma hyn fod ei

gerddi yn israddol i gerddi mewn iaith safonol; mae rhai, fel y nodwyd am Reggie Smart, yn rhagori yn y cyfrwng hwn. Dywedodd Meic Stephens (Cyfweliad, 2015): 'Rydych chi'n ysgrifennu'r gerdd gorau gallwch chi. Ac os yw'n dod mas fel yn fy achos i mewn tafodiaith, wel dyna ni, well gadael hi fel 'na.' Gellid dadlau bod rhai beirdd yn mynegi eu hunain ac yn cyflwyno eu neges a'u teimladau yn well mewn tafodiaith nag mewn iaith safonol. Afraid dweud na ddylid gwneud hynny er mwyn cuddio diffyg gafael ar yr iaith safonol, ond yn hytrach am mai'r dafodiaith yw'r dewis gorau a'i bod yn gweddu i'r pwnc dan sylw.

Gellir awgrymu, felly, bod Reggie Smart wedi dilyn y trywydd tafodieithol yn nifer fawr o'i gerddi am ei fod yn fwy cartrefol ac yn fwy hyderus yn ysgrifennu yn ei dafodiaith, a bod hynny o bosib yn ymwneud â maint yr addysg a dderbyniodd yn yr iaith safonol. Fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, serch sefydlu un iaith Gymraeg sefydlog a chyffredin, iaith ysgrifenedig oedd honno yn bennaf ar hyd y canrifoedd, heb gyfundrefn addysg ddigonol i'w hatgyfnerthu, ac i nifer o Gymry, prin fu eu cysylltiad â'r iaith lenyddol hon, neu'r hyn y cyfeiria M. J. Ball a N. Müller (1992, t.9) ato fel *Literary Welsh*.

### **Eirwyn George, 1936 –**

Ganed Eirwyn George yn ardal Twffton, ac erbyn hyn ymgartrefodd ym Maenclochog. Wedi cyfnod yn ffermio, ail afaelodd yn ei addysg gan dreulio cyfnodau wedyn yn athro Cymraeg a Hanes ac yn Llyfrgellydd yn Sir Benfro. Enillodd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1982 ac yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelwedd yn 1993. Cyhoeddodd a golygodd nifer o gyfrolau yn cynnwys barddoniaeth, hanes, rhyddiaith greadigol yn ogystal â llyfrau taith, ac yn 2010 cyhoeddodd ei hunangofiant *Fel Hyn y Bu*. Er nad yw'n awdur tafodieithol toreithiog, cyfrannodd i'r cyfrolau *Wês Wês* a cheir ambell gerdd dafodieithol yn y cyfrolau niferus a ysgrifennodd neu a olygodd.

Bu mynyddoedd y Preseli yn fur cadarn yn Sir Benfro erioed, fel y tystiodd Waldo, a chan i Eirwyn George gael ei fagu yn eu cysgod, nid rhyfedd eu bod yn ymddangos yn thema gyson yn ei gerddi. Gwelir sut y mae'n clodfori'r mynydd yn ei delyneg 'Foel Cwm Cerwyn', ac yn cyfleu ei awydd i ddianc yno rhag pwysau'r byd. Cynhwyswyd y gerdd hon yn y gyfrol *Llynnoedd a Cherddi Eraill* a gyhoeddwyd yn 1996 ac yn y gyfrol *Cân yr Oerwynt* a gyhoeddwyd yn 2009:

Dwi ishe mynd lan i ben miny  
Pan fo'r owyr yn eitha clir,  
Y gwynt yn whibanu'n fy nghlustie  
A'r houl yn cusanu'r tir.

Dwi ishe mynd lan i ben miny  
Pan fo bowyd yn grimp ac yn grach  
Ga'l towlu'r hen fyd o'r ysgwydde  
I'w whalu'n yr awel iach (E. George, 1996, t.113).

Cerdd syml yw hon, ond does dim o'i le ar hynny gan nad oes yn rhaid mynegi teimlad dwys neu brofiad dyrys mewn iaith astrus mewn cerddi. Yn ei adolygiad o'r gyfrol *Cân yr Oerwynt*, apêl y gerdd i C. Williams (2009, t.143) yw'r 'dafodiaith hyfryd,' ac ychwanega 'gresyn na fyddai rhagor o gerddi tafodieithol yn y gyfrol.' Amlyga hyn werthfawrogiad o amrywiol dafodieithoedd Cymru yn hytrach nag unrhyw ragfarn.

Ymddengys y gerdd 'Foel Cwm Cerwyn' hefyd yn y gyfrol *Cerddi Sir Benfro* a gyhoeddwyd yn 2002 yn y gyfres *Cerddi Fan Hyn* ac a drafodir yn y bennod nesaf. Sylwer bod y gair gwreiddiol *owyr* yn ymddangos fel *awyr* yn y cyhoeddiad hwn:

Dwi ishe mynd lan i ben miny  
Pan fo'r awyr yn eitha clir (E. George, yn M. Hopwood,  
2002, t.24).

Beth yw'r rheswm am y newid hwn? O bosib fod y sawl a deipiodd y gyfrol yn anghyfarwydd â'r gair *owyr* ac wedi ei gofnodi fel *awyr*. Nid yw

hyn yn enghraifft unigryw. Sylwer ar bennill o'r cywydd 'I Meilyr Llwyd' gan T. James Jones a gyhoeddwyd mewn rhifyn o *Barddas*:

Daw ffaith ar ben ffaith heb ffws  
Yn doreth o gil storws  
Ei ddirnadaeth, a'u dethol  
Yn hynod lew a di-lol (T. J. Jones, 2016a, t.39).

Yn y rhifyn nesaf, ymddengys llythyr o eiddo'r bardd yn mynegi ei siom o weld y camgymeriadau yn y cywydd a gyhoeddwyd:

Ac mae'r gynghanedd yn wallus ddwywaith yn ail gwpled  
pennill 2. Yr hyn a ddanfonais i oedd:  
ei ddirnadeth, a'u dethol  
yn od o lew a di-lol (T. J. Jones, 2016b, t.33).

Trodd *ddirnadeth* y bardd yn *ddirnadaeth* wrth ei chynnwys yn y cylchgrawn. Ymatebodd y golygydd Twm Morys fel hyn:

ANFADDEUOL ydi golygu llinellau nes eu bod nhw yn  
gynghaneddol wallus. Llygad y golygydd a newidiodd  
'dirnadeth' yn 'dirnadaeth', a'i glust yn cysgu (T. Morys, 2016,  
t.33).

I lygad y golygydd, trodd y gair tafodieithol yn un safonol, yn union fel y trodd *owyr* yn *awyr* yng ngherdd Eirwyn George. Yr awgrym yma, wrth gwrs, yw mai rhywbeth i'r glust yw tafodiaith, fel y trafodwyd yn y bennod gyntaf.

Gwyddys fod cerrig glas y Preseli wedi eu cludo i Gôr y Cewri, ac yn ei gerdd 'Cerrig Mowr Stônhenj', y mae Eirwyn George yn eu hannerch. Dywed eu bod ymhell o'u cynefin ond na wŷr sut y'u cludwyd oddi yno cyn dyddiau'r jac-codi-baw a'r llongau yn harbwr Aberdaugleddau. Yn y gerdd mae'r bardd yn tristáu am y modd y mae'r hen gymdeithas yn chwalu ac yn diflannu, thema gyffredin mewn canu tafodieithol

(G. M. Awbery, 1991, t.36; C. M. Jones, 1998, t.145). Cred y bardd fod y cerrig yn hiraethu am eu cynefin:

Hen blant i Preseli!  
Wês hireth arnoch chi weithe am ga'l mynd nôl  
At ich perthnase ing nghwmdog'eth Car' Meini  
I weld ir houl in mynd lawr dros Ben Dinas  
Fel colsyn o dân i'r môr?  
A ma' digon o le ichi in i tai gwag  
Sy' pentigily' o Efel-wen i Tudra'th (E. George, 1996, t.63).

Mae diwedd y gerdd yn ddirdynnol, wrth i'r bardd fyfyrion ar y ffaith bod nifer yn gorfod gadael eu cynefin, am wahanol resymau, sy'n wir am bob rhan o Gymru:

Peidwch â beco, hen blant i minidde glas,  
Ddim dim ond chi sy'n gorfod mynd o gatre  
Heb obeth byth ca'l dwâd nôl (E. George, 1996, t.63).

Pan ofynnwyd i Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) pam oedd wedi ysgrifennu'r gerdd hon mewn tafodiaith, eglurodd iddo fynd i Gôr y Cewri i weld y cerrig ac ysgrifennu'r gerdd yn dilyn hynny, ac nad oedd yn hollol sicr pam ei fod wedi ei hysgrifennu mewn tafodiaith ond iddo ddod yn naturiol, 'fwy na thebyg achos cysylltiad y cerrig â'r ardal.' Dyma oedd ymateb Meic Stephens (Cyfweliad, 2015) yntau i'r cwestiwn pam ei fod yn ysgrifennu'n dafodieithol, sef nad oedd yn gwybod pam, ond bob tro yr âi ati i ysgrifennu ei fod yn dod allan yn y Wenhwyseg. Gwelir nad oes bwriad penodol gan rai awduron i ysgrifennu'n dafodieithol felly, ond canfuant mai hynny sy'n dod yn naturiol ar adegau.

Wrth drafod pam ei fod wedi ysgrifennu cyn lleied mewn tafodiaith, esboniodd Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) ei fod yn byw ynghanol yr iaith safonol, gan ei fod yn ddarllenwr brwd ac yn feirniad eisteddfodol cyson, a bod ganddo 'ddwy iaith' – ei iaith ysgrifenedig yn un safonol a'i iaith siarad yn un dafodieithol, hynny yw y *dwyllosia* a ddisgrifiwyd yn y

bennod gyntaf. Dyna pam nad oedd wedi ysgrifennu llawer mewn tafodiaith felly, ac am ei fod yn ysgrifennu 'i Gymru gyfan' ac i 'gynulleidfa ehangach' y mae'n ffafrio'r iaith safonol.

Pan awgrymodd y cyfwelydd ei fod, serch hynny, yn fodlon cynnwys ambell gerdd dafodieithol yn ei gyfrolau, cytunodd Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) ei fod yn gwneud hynny, er mwyn dangos eu bod yn bodoli, ac y gellir 'goddef' un gerdd dafodieithol mewn cyfrol. Dyma air dadlennol gan fardd sy'n amlwg wedi ei wreiddio'n ddwfn yn Sir Benfro, sef 'goddef.' Yr awgrym yw y gallai darllenwyr yn Sir Fôn, Sir Drefaldwyn neu Forgannwg oddef a derbyn ambell gerdd dafodieithol mewn cyfrol sydd fel arall yn un safonol. Fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, dyma oedd safbwynt G. L. Brook (1978, t.26) pan gyfeiriodd at 'tolerating' / goddef amrywiadau o Saesneg Safonol. Gellid dadlau bod y gair 'goddef' yn awgrymu profiad amhleserus, ac yn rhy gryf, o bosib, i'w ddefnyddio yng nghyd-destun llenyddiaeth dafodieithol.

Mae'n ddealladwy, serch hynny, bod awdur yn pryderu y byddai llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu ar gynulleidfa ac apêl y gwaith, gan ei fod yn awyddus fod cynifer â phosib yn ei ddarllen. Gellid cysylltu hyn â dilema sylfaenol teithi'r Gymraeg sef a ddylid ysgrifennu mewn iaith safonol neu'n dafodieithol. Nid Eirwyn George yw'r unig awdur i fynegi'r pryder hwnnw; yn y drydedd bennod cyfeiriwyd at sylw M. Baines (2005, t.118) ynglŷn â phryder Caradog Prichard cyn cyhoeddi ei nofel dafodieithol *Un Nos Ola Leuad*, y byddai ysgrifennu nofel mewn tafodiaith yn cyfyngu ar ei hapêl ac nad ar chwarae bach y penderfynodd wneud hynny.

Gwelir felly mai awdur tafodieithol achlysurol iawn yw Eirwyn George, a hynny oherwydd ei ymwybyddiaeth a'i ddaliadau cryf ynglŷn ag ysgrifennu mewn iaith lenyddol, safonol er mwyn cyrraedd 'Cymru gyfan' a 'chynulleidfa ehangach.' Yn y lle cyntaf, ysgrifennodd yn bwrpasol ar gais golygyddion y cyfrolau *Wês Wês* (Gwyn Griffiths, Cyfweliad, 2015),

ac ar yr adegau prin y dewisodd y trywydd tafodieithol ei hun yn ddiweddarach, gwnaeth hynny oherwydd yr amgylchiadau, megis y dafodiaith yn gweddu i'r testun o dan sylw.

### **Hefin Wyn, 1950 –**

Brodor o bentref Y Glôg ger Llanfyrnach yw Hefin Wyn ac wedi cyfnod yng Nghaerdydd, mae'n byw erbyn hyn ym Maenclochog. Bu'n ohebydd gyda'r papur newydd *Y Cymro* cyn mynd i weithio i'r BBC a HTV. Cyhoeddodd nifer o gyfrolau, yn nofelau, storïau, hanesion pop a llyfrau taith, ac ymhlith ei gyhoeddiadau diweddar y mae *Ar drywydd Waldo ar gewn beic* (2012) ac *Ar drywydd Niclas y Glais* (2017). Y mae hefyd yn aelod o Fwrdd Golygyddol papur bro'r Preseli, *Clebran*.

Ymddangosodd ei weithiau tafodieithol cynharach yn y cyfrolau *Wês Wês*, cyfrolau a drafodir yn fanylach yn y bennod nesaf. Ysgrifennu am gymeriadau a digwyddiadau'r ardal a wna'n aml. Yn ei stori 'Diddie'r Crasu', disgrifia Gad yn galw yn nhafarn y Cross ar ei ffordd adre o gêm rygbi yn Arberth. Daw'r awdur â thafodiaith y sir yn fyw yn ei weithiau, gan fywiogi'r dweud:

Trowser byr bach wêdd e'n mo'yn i'w dwmo a dima fe'n dod â'i gintach i ishte wrth y ranshin o dân. Wêdd y grasfa geson ni ar y parc rygbi ddim wedi 'i bleso. "Dishmol" a "shimpil ar y diain" wêdd 'i ddifarniad gan ddannod 'i fod e wedi sefyllan in y towy' gamedd o wêr i weld haid o gwennod in towlu'r bledren leder at 'i gily' in ddilefeleth (H. Wyn, yn G. Griffiths, 1982, t.73).

Mae Hefin Wyn yn un sy'n cystadlu'n eang mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol ac yn defnyddio tipyn o dafodiaith yn ei weithiau. Ymhlith ei lwyddiannau, enillodd ar gystadleuaeth 'Stori feiddgar' yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 2013 gyda'i stori 'Haka Penclippin' yn adrodd hanes y cymeriad Cledwyn Rhygyfarch Huws a oedd yn byw

ar ei ben ei hun ar fferm Penclippin. Mae geiriau tafodieithol Sir Benfro yn britho'i stori:

'Gall neb ddweud nad yw Cledwyn Rhygyfarch yn barod i fystyn i'w boced yn yr un acsion yn y cyffinie i helpu'r achos ch'wel,' medde gŵr y ffarm gan wherthin yn gras wrth edrych i gyfeiriad y twmbwriach. Amneidiodd ar yr ymwelydd i feco'r pic-yp nôl yn erbyn drws y glowty bach (H. Wyn, 2013, t.161).

Ceir geiriau ac ynganiadau tafodieithol eraill megis *trefen, houl, jengyd, feidir, cwato, cefen, hewl a moyr* yma ac acw, yn gymysg â'r iaith safonol. Ni ellid ei galw'n stori dafodieithol lwyr serch hynny. Mae sylw beirniad y gystadleuaeth: 'adroddir y cyfan yn nhafodiaith Sir Benfro a'r eirfa'n odidog o gyfoethog' (S. Davies, 2013, t.154) felly'n peri dryswch. Er y gellir cytuno â'i sylw bod yr eirfa dafodieithol yn y stori yn gyfoethog, ni ellir dweud bod y cyfan mewn tafodiaith. Mae'r brawddegau canlynol, er enghraifft, mewn iaith safonol:

Chwarddodd yn uchel, os nad yn ynfyd, wrth ei ddychmygu ei hun yn ennill y llaw uchaf. Gwyddai y byddai'n siŵr o ddathlu buddugoliaeth cyn y disgynnai'r gwllith (H. Wyn, 2013, t.155).

Holwyd Hefin Wyn (Cyfweliad, 2014) am ei farn am hyn, a doedd yntau chwaith ddim yn cytuno â sylw'r beirniad gan ddweud y gallai fod wedi mynd yn fwy dwfn i'r dafodiaith, ac mai'r hyn a geir yma, mewn gwirionedd, yw cydbwysedd rhwng yr iaith lafar dafodieithol a'r iaith safonol. Awgrymodd mai'r hyn a darodd y beirniad oedd bod tinc o dafodiaith Sir Benfro yn y stori, ac mai hynny oedd yn bwysig. Amlyga hyn dueddiad rhai, megis y beirniad yn y gystadleuaeth hon, i ystyried gweithiau'n rhai tafodieithol os oes ychydig o eiriau tafodieithol ynddynt.

Yn ei adolygiad o gynnyrch llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol yn y flwyddyn honno, cyfeiria V. Hughes (2013, t.45) at y stori fel 'coron' y Cyfansoddiadau, gan annog pawb i fynd ati i'w darllen. Y mae ganddo un feirniadaeth serch hynny:



Byddaf yn teimlo'n aml fod Hefin, wrth fynnu defnyddio geiriau tafodieithol yn ei ddarnau newyddiadurol, mewn peryg o dynnu sylw at yr eirfa ar draul y cynnwys. Ond mae'r stori odidog a chofiadwy hon wedi ei sgwennu'n gyfan gwbl yn nhafodiaith ddigyffelyb Sir Benfro. A dyna yw ei gogoniant (V. Hughes, 2013, t.45).

Sylwer ar ei sylw, fel un y beirniad uchod, bod y stori wedi ei hysgrifennu'n 'gyfan gwbl' mewn tafodiaith. Yr hyn a geir yn y stori hon yw enghraifft dda o dafodiaith mewn llenyddiaeth, felly mae'r sylw ei bod wedi ei hysgrifennu'n gyfan gwbl mewn tafodiaith yn arwydd o ddiffyg ymwybyddiaeth neu ddiffyg dealltwriaeth o lenyddiaeth dafodieithol.

Gellid dadlau bod sylw V. Hughes (2013, t.45) ynglŷn â Hefin Wyn yn 'mynnu' defnyddio geiriau tafodieithol yn un hallt ac mai rhydd i'r awdur ei lais ei hun, fel yr awgrymwyd eisoes. Yr hyn a wna Hefin Wyn yw defnyddio geirfa Sir Benfro, y geiriau y tyb eu bod yn addas, yn union fel y gwnaeth awduron Cymreig eraill a drafodwyd eisoes. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Hefin Wyn (Cyfweliad, 2014) ei fod yn sylw diddorol, er mai sylw un person yn unig oedd. Serch hynny, parodd i Hefin Wyn feddwl am hyn ac edrych eto ar ei waith a'r geiriau fyddai'n anodd i Vaughan Hughes eu deall o bosib ar yr olwg gyntaf; maentumiodd hefyd y gallai'r beirniad fynd ati i ganfod ystyr y geiriau, sy'n bwynt teg.

Cyfeiriodd Idris Reynolds (Cyfweliad, 2014) at y stori 'Haka Penclippin' fel clasur, ac er yn nodi y byddai'r dafodiaith o bosib yn peri trafferth i rai gogleddwyr, credai ei bod yn werth ei darllen. Fe'i disgrifiodd fel 'enghraifft dda o werth tafodieth mewn llenyddieth' ac y ceir ynddi 'cydymdreiddio rhynt yr iaith, y tirwedd a'r tir.' Gellid cytuno bod y dafodiaith yn gweddu i'r testun, sef amaethwr â'i wreiddiau'n ddwfn yng nghefn gwlad a'r tir a'r dafodiaith yn rhan annatod o'i fodolaeth. O safbwynt llenyddol, gellid awgrymu mai'r hyn a wna'r dafodiaith yw rhoi awgrym o'r lleoliad, ond heb orlwytho â geiriau diangen a, thrwy hynny, dynnu sylw oddi ar y stori.

Enillodd Hefin Wyn gystadleuaeth 'Portread o gynefin neu fro' Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr yn 2014. Dywed y beirniad fod yr awdur 'yn defnyddio tafodiaith i greu lliw ac i wreiddio'r gwaith yn ddyfnach yn nhir y cof' (J. Gower, 2014, t.133). Dyma'r gair 'lliw' eto, sy'n cael ei ddefnyddio'n aml wrth ddisgrifio llenyddiaeth dafodieithol. Gellid dadlau y byddai'n undonog petai pawb yn ysgrifennu yn yr un cywair ieithyddol, fel yr awgrymodd Hefin Wyn (Cyfweliad, 2014) pan ddywedodd mai rhagoriaeth defnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth yw fod hynny'n 'rhoi lliw i'r iaith yndyfe. Sdim byd yn wath na bo ti'n cal llond whilber o lyfre i gyd wedi eu hysgrifennu yn yr un iaith, yn yr un cywair hefyd.' Mae nodweddion tafodieithol megis *hade*, *trafaelu* a *llyfre* yn britho'r portread yma:

Ar y pryd, digon oedd i mi gyfyngu fy mro i'r fodfedd sgwâr o amgylch y clos a'r ydian wrth i'r coese bychain ymestyn. Ceid digon i ryfeddu ato. Clegar swnllyd y gwydde yn y pown yn y pen pellaf yn fygythiad am y dysgais y bydden nhw ar amrantiad yn codi'n un fflyd â'u hadenydd ar led gan ruthro ar draws y clos (H. Wyn, 2014a, t.134).

Pan holwyd Hefin Wyn (Cyfweliad, 2014) pam ei fod wedi ysgrifennu'n dafodieithol, er nad oedd hynny'n un o ofynion y cystadlaethau uchod yn 2013 na 2014, atebodd: 'oherwydd dyna'n iaith i, dyna Nghymrâg i, ac i fi hwn yw'r gair sydd yn gweddu fan hyn.' Dealla nad oedd i'r geiriau gylchrediad eang ar draws Cymru, ond dywed pa ots am hynny oherwydd: 'ma Nghymrâg i yr un mor ddilys â Chymrâg Shir Fôn a unrhyw ardal arall yng Nghymru.' Fel yr awgrymwyd eisoes yn y bennod gyntaf, gellid dadlau nad yw'r naill dafodiaith yn rhagori'n ieithyddol ar y llall, ond eu bod yn wahanol, a'r hyn sydd ei angen, felly, yw ymdrech i ddeall a gwerthfawrogi tafodieithoedd eraill.

Yn 2008, cyhoeddodd Hefin Wyn y gyfrol *Pentigily : Dilyn Llwybr Arfordir Sir Benfro* gan gynnwys nifer o eiriau tafodieithol ynddi. Mewn adolygiad o'r gyfrol, dywedir:

Ac er yr edmygaf hyder yr awdur wrth ddefnyddio'i dafodiaith ei hun – fe'n cyflwynir i doreth o eiriau tafodieithol megis 'pwllffagan', 'y gidel', 'jogel', 'barlats', a 'cered', heb sôn am y teitl trawiadol – mae hi'n ddirgelwch i mi pam y dewisodd ddefnyddio 'fferm' yn hytrach na 'ffarm', a hynny'n gyson drwy'r gyfrol (T. J. Jones, 2009, t.151).

Cyfyd hyn y cwestiwn o gysondeb wrth ysgrifennu'n dafodieithol. Amlygwyd yn y bennod gyntaf farn C. M. Jones (1996, t.223), bod ysgrifennu'n dafodieithol yn gorfodi awdur i wisgo rhwymau, megis cysondeb yn y sillafu tafodieithol. Amlygwyd yn y bedwaredd bennod, serch hynny, mai'r hyn a welir yn aml mewn tafodiaith yw amrywiaeth sillafu, gydag, er enghraifft, *i*, *u* neu *y* yn cael eu defnyddio wrth sillafu geiriau, megis yn y gair *pentigili / pentigily*. Fel yr awgrymwyd eisoes, felly, gellid dadlau bod sicrhau cysondeb i sillafu tafodieithol yn anodd heb eiriadur tafodieithol megis yr hyn a berthyn i'r iaith Gymraeg safonol. Rhaid cofio bod geirfa dafodieithol unigolion yn amrywio, ond gan mai'r gair cyffredin yn Sir Benfro yw 'ffarm', mae sylw'r adolygydd yn un teg yn y cyd-destun hwn. Mae'r cyfeiriad at 'hyder' yr awdur wrth iddo ddefnyddio'i dafodiaith yn un diddorol; mae ganddo afael sicr ar ei dafodiaith ac nid oes ganddo unrhyw bryder na swildod wrth ysgrifennu ynddi. Yn ogystal, y mae ganddo'r hyder fod lle i eiriau tafodieithol, yn gymysg â'r iaith lenyddol, mewn cyfrol o'r fath.

Yn 2014, dechreuodd Hefin Wyn ysgrifennu colofn yn y papur newydd wythnosol *The Pembrokeshire Herald*, a hynny gan ddefnyddio tipyn o dafodiaith Sir Benfro, megis yn y golofn isod ar 7 Tachwedd 2014:

'Na chi gyfres fach net wedd honna ar hyd arfordir Shir Bemro yng nghwmni y Monwysyn, Bedwyr Rees. Ma' gyda ni wlad yw thrysori, glei..... Desodd Bedwyr i'r ardal fel dieithryn ac o'r herwydd gwelai ogoniant yr hyn i ni'n ei gymryd yn ganiataol. Llwyddodd y camera i ddangos y dirwedd, y morwedd a'r gwylltineb ar eu gore (H. Wyn, 2014b, t.50).

Esboniodd Hefin Wyn (Cyfweliad, 2014) fod y cyhoeddwyr yn dymuno cynnwys dwy dudalen Gymraeg ymhob rhifyn o'r papur newydd a chyfaddefodd ei fod yn gwerthfawrogi'r cyfle i ysgrifennu mewn tafodiaith yn ei golofn yntau. Gellid awgrymu fod hyn yn dangos agwedd iach y cyhoeddwyr, yn ne Sir Benfro, islaw'r *Landsker*, at dafodiaith gogledd y sir a gallai hyn apelio at y darllenwyr.

Yn y lle cyntaf, ysgrifennodd Hefin Wyn mewn tafodiaith yn bwrpasol ar gais golygyddion y cyfrolau *Wês Wês* (Hefin Wyn, Cyfweliad, 2014). Erbyn hyn mae'n defnyddio'i dafodiaith yn gyson yn ei waith – boed yn stori fer, yn erthygl papur newydd neu'n golofn olygyddol yn y papur bro *Clebran* – am mai dyma yw ei iaith naturiol ef, ac am fod y geiriau neu'r nodweddion tafodieithol hyn yn gweddu'n well ar adegau na'r rhai safonol yn ei farn ef. Er ei fod yn ymwybodol fod ei lais yn wrthsefydliadol ac yn ennyn beirniadaeth rhai, mae ganddo'r hyder digyfaddawd bod ei Gymraeg tafodieithol ef yr un mor ddilys â'r Gymraeg a geir mewn unrhyw ardal arall yng Nghymru, ac felly nad oes unrhyw reswm pam na ddylai ysgrifennu ynddi.

### **Gwen Parrott, 1958 –**

Yn enedigol o ardal Bwlch-y-groes, symudodd Gwen Parrott yn ddiweddarach i Abergwaun. Wedi cyfnod yng Nghaerdydd mae bellach yn byw ym Mryste lle mae'n awdur, sgriptiwr, golygydd a chyfieithydd. Cyhoeddodd nifer o nofelau megis *Cwlwm Gwaed* (1998), *Gwyn eu Byd* (2010), *Hen Blant Bach* (2011), *Cyw Melyn y Fall* (2012) a *Tra Bo Dwy* (2015).

Gwelir tafodiaith Sir Benfro yn amlwg yn lleferydd y cymeriadau yn ei gweithiau, megis y nofel *Cyw Melyn y Fallt* (2012) sy'n sôn am anturiaethau Dela Arthur, ac yn y nofel *Tra Bo Dwy* (2015):

'Mae'n dwymach na wedd hi dŵe, hyd 'noed!' oedd y geiriau a glywodd Dela o'i chuddfan (G. Parrott, 2012, t.9).

'Wes cŵn 'da nhw hefyd? Dwi'n cofio gweld tŷ fel 'na.'  
'O bois bach, wes. Cŵn y greadigaeth. Mae'r cyfarth yn  
ddigon i roi pen tost i chi. Buodd gyda nhw igwana am sbel  
hefyd' (G. Parrott, 2015, t.60).

Ceir nifer o anghysondebau yn y dafodiaith. Er enghraifft, byddai'n fwy naturiol dweud '*Ma'r* cyfarth yn ddigon...' yn hytrach na '*Mae'r* cyfarth yn ddigon...' Yn yr un modd, defnyddir *wedd* ddwywaith ac *odd* unwaith yn y darn isod, er mai 'taw hi *wedd*...' fyddai'n fwy naturiol:

'Wedd 'na ddim ffordd o brofi taw hi odd yn gyfrifol am y graffiti,' meddai Rob. 'A wedd hi'n gwisgo menig heno, sylwest ti?' (G. Parrott, 2015, t.214).

Gellid awgrymu nad yw hyn yn taro'n gywir gan y ceir anghysondebau yn yr un paragraff. Gwir dweud nad yw pawb bob tro'n defnyddio'r un dafodiaith, ac wrth iddi newid a gwanhau mae anghysondebau'n debygol o godi, ond mae gweld dau amrywiad yn yr un frawddeg yn debygol o beri dryswch i'r darlennydd craff, fel yr awgrymwyd eisoes. Cred N. Tudur (2011, t.148) fod y defnydd o dafodiaith yn digwydd yn fwy naturiol yn y gyfrol *Gwyn eu Byd* nag yn y gyfrol *Hen Blant Bach*, sy'n awgrymu bod yr awdur wedi ymdrechu i gofnodi'r dafodiaith ac wedi colli'r naturioldeb a berthyn iddi ar adegau.

Awgrymwyd eisoes yn y drydedd bennod wrth drafod awduron a ysgrifennodd lenyddiaeth dafodieithol mai'r iaith a siaredir mewn bro a ddisgwylir yn neialog trigolion y fro honno, a dyma a geir yn nofelau Gwen Parrott. Fel y dywed J. Hodson (2014, t.215): 'As such, 'real life' has been equated with 'real speech', and 'real speech' has meant dialect speech.' Drwy siarad eu hiaith bob dydd, gellid awgrymu bod y cymeriadau yn cyfleu'r agosatrwydd a berthyn i dafodiaith, gan greu naws arbennig. Dyma farn a adleisir gan N. M. Hughes (2010, t.127) yn ei hadolygiad o'r gyfrol *Gwyn eu Byd*:

Braf yw gweld awduron yn defnyddio tafodiaith eu mebyd, sef tafodiaith Sir Benfro yn yr achos hwn. Mae'r defnydd o dafodiaith ac idiomaau lleol yn gyfrwng gwych i bortreadu cymeriad a sefydlu naws unigryw mewn nofel (N. M. Hughes, 2010, t.127).

Cyfeiriwyd eisoes droeon at farn rhai mai anodd yw deall llenyddiaeth dafodieithol, megis nofelau Gwen Parrott. Dywed Gwynn ap Gwilym am gerddi Meic Stephens, a ddaeth yn ail yng Nghystadlaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol 2005:

Bu'n rhaid i mi ymlafnio i ddarllen cerddi *Shasbi*. Ar ôl dod i'w deall, mi gefais flas mawr arnynt, ond mi allaf yn hawdd ddychmygu y byddai rhai darllenwyr wedi hen roi'r ffidil yn y to cyn dod yn agos at eu gwerthfawrogi. Os gwir hynny, claddu cyfoeth y farddoniaeth, yn hytrach na'i ddatgelu yn ôl ei phriod swyddogaeth, y mae'r iaith a ddefnyddir (G. ap Gwilym, 2006, t.66).

Awgrymwyd yn y bennod gyntaf bod deall tafodieithoedd llafar a phobl yn siarad y tafodieithoedd hynny yn wahanol i ddeall tafodieithoedd ysgrifenedig ar ffurf llenyddiaeth. Gellid rhesymu, o safbwynt llenyddiaeth dafodieithol, bod modd darllen drosodd a thro os oes angen er mwyn deall yr ystyr, ac felly bod modd sicrhau dealltwriaeth o'r ffurf ysgrifenedig yn well na sicrhau dealltwriaeth o'r ffurf lafar.

Agweddau amrywiol am ddeall a gwerthfawrogi llenyddiaeth dafodieithol a ganfuwyd wrth gyfwrdd llenorion. Cred Wyn Owens (Cyfweiliad, 2014) bod modd deall a gwerthfawrogi gydag ychydig o ymdrech a Hefin Wyn (Cyfweiliad, 2014) bod darllenwyr sydd â diddordeb yn y maes yn medru deall. Yr oedd gan Lleucu Roberts farn gref ar y mater:

Diflas yw clywed pobl yn honni nad ydynt yn deall tafodieithoedd gwahanol rannau o Gymru, a thybiaf mai esgus gwamal yw hwn dros beidio â darllen. Yr union bobl hyn yn aml iawn sy'n gwyllo ac yn mwynhau Pobl y Cwm a

Rownd a Rownd, neu'n llwyddo i ddarllen iaith gyfan sy'n wahanol i'w mamiaith, yn hytrach na thafodiaith yn unig..... Mae tafodiaith yn esgus rhy hawdd dros ddiogi (Lleucu Roberts, Cyfweliad, 2015).

Gwneir pwynt pwysig yma am boblogrwydd y cyfresi teledu; mae'r naill wedi ei lleoli yng Nghwm Gwendraeth a'r llall yn Sir Fôn, ac yn y ddau bentref dychmygol hyn mae cymeriadau o'r de a'r gogledd yn byw'n ddedwydd ymysg ei gilydd, ac ni chyfeirir at unrhyw anallu i ddeall ei gilydd yn siarad. Yn wir, fel yr awgrymwyd eisoes, y cyfryngau sydd wedi gwella a chynyddu dealltwriaeth y Cymry o dafodieithoedd ei gilydd. Dengys hyn na chydiodd Cymraeg Byw fel iaith lafar safonol, ond i'r beirniaid, effaith hyn yw bod cymysgedd o dafodieithoedd yn hytrach nag un iaith gyffredin yn cael eu clywed.

Ar y llaw arall, ymateb Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) i'r cwestiwn oedd nad yw darllenwyr yn medru deall a gwerthfawrogi'n llawn llenyddiaeth dafodieithol; dyna'i reswm ef, felly, am ysgrifennu ychydig o lenyddiaeth dafodieithol yn unig, gan ei fod yn awyddus i Gymry o bob ardal ddarllen a deall ei waith. Ond, fel yr awgrymwyd eisoes, gellid dadlau bod modd mwynhau a gwerthfawrogi llenyddiaeth dafodieithol, ei swyn a'i chreffft, heb ddeall pob gair ohoni. Fel y dywed W. Owens (2006, t.61) wrth gyfeirio at gerddi tafodieithol Meic Stephens:

Rhaid cifadde bo'r dafodieth in drech na fi weithe a finne heb ddim llefeleth beth yw'r istyr. Sach 'ny, seno hinny'n ormod o loithir nac in menno dim ar y mwynhad wdw i'n gâl wrth ddarllen y casglad hwn o gerddi (W. Owens, 2006, t.61).

Defnyddir tafodiaith yn gyson felly gan Gwen Parrott yn ei nofelau. Ar glawr y nofel *Cwlwm Gwaed* (G. Parrott, 1998) dywedir: 'er ei bod bellach yn byw yr ochr ddrud i Bont Hafren, mae'n dal i ddweud "wes wes" ar y pryfociad lleiaf.' Ymddengys iddi ddewis y trywydd tafodieithol hwn er mwyn sicrhau bod lleferydd a deialog naturiol ei chymeriadau yn arddangos yr iaith a siaredir yn y fro y lleolwyd ei gweithiau ynddynt.

## Wyn Owens, 1956 –

O Fynachlog-ddu y daw Wyn Owens. Wedi cyfnod mewn colegau celf yn Lloegr dychwelodd i'w bentref genedigol, lle mae'n parhau i baentio. Dechreuodd farddoni yn 1986, wedi dysgu rheolau'r gynghanedd yn Ysgol y Preseli ac ar ôl mynychu Dosbarth Cerdd Dafod Dic Jones yng Nghrymmych. Enillodd wobrau mewn eisteddfodau lleol, taleithiol a chenedlaethol (ar glawr W. Owens, 2005). Bu'n diwtor dosbarthiadau cerdd dafod i oedolion ac mae'n aelod o dîm Beca ar Dalwrn y Beirdd (ar glawr W. Owens, 2017). Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth, *Y Patshyn Glas* yn 2005 a *Cywain Geiriau* yn 2017.

Yn 2013 cyhoeddodd Wyn Owens y gyfrol *Rhint y Gelaets a'r Grug : Tafodiaith Sir Benfro* y cyfeiriwyd ati eisoes, sef casgliad o eiriau tafodieithol a'u hystyron yn ogystal â brawddegau yn gosod y geiriau a'r priod-ddulliau yn eu cyd-destun gydag aralleiriadau mewn Cymraeg safonol. Ymysg yr esboniadau, mae:

**dadleth** (be) dadlaith dadmer *to thaw*  
Nâth ir eira ddadleth wedi i'r houl ddwâd mas  
Gwnaeth yr eira ddadmer wedi i'r haul ddod allan (W. Owens, 2013, t.72)

**ffusto** (be) curo taro'n drwm *to beat*  
ffusto wi curo wy  
sŵn ffusto sŵn morthwyllo (W. Owens, 2013, t.93)

**pentigili / pentigily** (adf) bob cam *all the way*  
Cerddes i getre pentigili o Crimich  
Cerddais adre bob cam o Grymmych (W. Owens, 2013, t.150)

Yn ei ragair, esbonia'r awdur ei nod wrth lunio'r gyfrol:

Wrth lunio'r casgliad hwn roedd dau nod gen i mewn golwg, sef cyflwyno'r iaith leol i bwy bynnag sydd â diddordeb mewn tafodieithoedd. Ac yn ail, ceisio agor peth o'r drws i'r dysgwyr, fel y caent hwythau flas ar geisio siarad iaith naturiol, bob dydd y rhan hon o'r wlad (W. Owens, 2013, t.5).



Mae'r sylw 'i bwy bynnag sydd â diddordeb mewn tafodieithoedd' yn un arwyddocaol, yn amlygu nad cyfrol i drigolion Sir Benfro yn unig mohoni, ac yn awgrymu y gellid ymddiddori mewn tafodieithoedd eraill. Esboniodd Wyn Owens (Cyfweiliad, 2014) iddo lunio'r gyfrol am fod ganddo ddidordeb dwfn mewn iaith, ei bod yn newid fel y mae galwadau bywyd yn newid, a bod hen eiriau, o ganlyniad, yn mynd yn angof, megis geiriau yn ymwneud ag amaethu. Gellid dadlau bod i'r gyfrol werth hanesyddol, felly, yn ogystal â gwerth ieithyddol, yn cofnodi geiriau sydd mewn perygl, neu wedi mynd yn angof. Y mae'n ein hatgoffa o'r gyfrol *A Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire* a gyhoeddwyd gan W. Meredith Morris yn 1910.

Lawn mor arwyddocaol yw ei ail nod sef agor y drws i ddysgwyr Cymraeg er mwyn iddynt gael blas ar y dafodiaith. Cyfeiriwyd eisoes yn y bennod gyntaf at y ffaith fod *Cymraeg Byw* wedi'i fabwysiadu yn y 1960au fel Cymraeg llafar safonol ar gyfer dysgwyr a hynny o ganlyniad i'r bwch rhwng yr iaith lenyddol a'r tafodieithoedd llafar. Un o fanteision addysgu Cymraeg Byw i ddysgwyr yw bod hyn yn eu galluogi i gyfathrebu â'u cyd-Gymru ar draws y wlad. Ar y llaw arall, dadl o blaid addysgu iaith dafodieithol yw y gallant siarad â thrigolion eu hardal yn eu hiaith eu hunain. Ynghlwm â hyn hefyd mae'r mater o ddeall llenyddiaeth dafodieithol oherwydd os na addysgir yr iaith leol, bydd hi'n anodd i ddysgwyr ddeall llenyddiaeth a ysgrifennwyd yn yr iaith leol honno.

Rhydd I. W. Rees (2013, t.49) gryn ganmoliaeth i'r gyfrol *Rhint y Gelaets a'r Grug : Tafodiaith Sir Benfro* gan ddweud: 'i'r sawl sy'n anghyfarwydd â'r dafodiaith hon felly, ac a hoffai ymgyfarwyddo â'i hynodion, bydd y gyfrol hon yn gydymaith buddiol dros ben.' Canmola hefyd y brawddegau sy'n cyflwyno ystyr y geiriau, sy'n llwyddo 'yn orchestol i amlygu ystyr amryfal eiriau, ac i ddwyn i'n sylw ymadroddion cofiadwy.' Gellid maentumio bod cyflwyno ystyron y geiriau a'u defnydd bob dydd, fel y gwna awduron eraill megis Meic Stephens wrth ysgrifennu yn

nhafodiaith y Wenhwyseg, yn cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r tafodieithoedd.

Un o awduron tafodieithol mwyaf toreithiog Sir Benfro yw W. R. Evans, ac yn ei gywydd 'W. R.', mae Wyn Owens yn clodfori ei gyfraniad i lenyddiaeth dafodieithol y sir a'i feistrolaeth ar y dafodiaith honno. Sylwer ar gyfeiriad negyddol Wyn Owens yma, fel eiddo E. Llwyd Williams, at dafodiaith 'shiprys', yn wahanol i farn Brynach nad 'shiprys' mohoni. Ystyr llythrennol *shiprish* yw 'a mixture of barley and oats sown together' (B. G. Charles, 1971, t.129), ac yn ne Sir Benfro y term yw *shipress*. Disgrifia W. Owens (2013, t.136) siarad shipris fel 'siarad cymysgedd o Gymraeg a Saesneg' sy'n amlygu dylanwad y Saesneg ar y dafodiaith:

Ryw shâp roiodd i'r shiprys  
Got â grân a gwate grys  
Gwaith i'r iaith, fe wishgodd ddi  
In bert er mwyn 'i barti.  
In 'i ddydd feginodd e  
Wha Gwmrâg i'r limrige,  
A dabo'r odle dwbwl  
Drw'r felin fel dewin dwl.  
Fe hudodd am dafodieth  
A rhoi naws i'r geire nwêth (W. Owens, 2005, t.29).

Yn y cywydd, ceir Wyn Owens yn herio'r traddodiadau llenyddol gan gynganeddu mewn tafodiaith. Cred Idris Reynolds (Cyfweliad, 2014) fod y 'testun a'r ffurf yn priodi ac yn asio at ei gilydd yn berffeth' a bod y defnydd o'r gynghanedd yn agor drysau newydd i'r bardd. Cred nad oes rheswm pam na ellir ysgrifennu cynghanedd mewn tafodiaith ac, er bod rhai'n gwneud, eithriadau ydynt. Ceir syniadau tebyg gan Ceri Wyn Jones (Cyfweliad, 2014) a ddywed fod beirdd ifanc yn fwy hyderus i ddefnyddio ffurfiau llafar a thafodieithol yn eu gwaith, a chyfeiriodd at ymdrech i ddod â'r gynghanedd yn ôl yn agosach at yr iaith lafar a'i gwneud yn rhywbeth clywadwy sy'n driw i arferion llafar. Dengys y

beirdd hyn, felly, yr hyn y gellir ei wneud â'r dafodiaith, gan gynnwys cynganeddu.

Hel atgofion am fywyd y gorffennol a wna Wyn Owens yn ei gerdd "Slawer Dydd". Cofia am ei addysg yn ysgol gynradd Mynachlog-ddu lle bu Waldo'n ddisgybl o'i flaen, a'r gwersi a'r chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg, sef 'I'r unig iaith wên ni'n 'i diall in iawn' (W. Owens, 2005, t.41). Bellach, mae'r ysgol, y swyddfa bost a'r siop wedi cau fel mewn nifer o bentrefi gwledig eraill, a mewnfudwyr wedi meddiannu nifer o'r ffermydd lleol. Adleisia deimlad yr ardal:

So pethe nawr fel wên nw 'slawer dy',  
Yw'r gân ma' pŵer 'n'i chanu'r diddie 'ma.  
Ma pethe'n drichid wir in weddol ddu,  
Y Seison in en plith, y nw yw'r pla  
'Nôl rhei, a falle bo'na wir in hyn (W. Owens, 2005, t.41).

Gellid maentumio bod dyfodiad y Saeson, y 'pla' fel y geilw Wyn Owens hwy, yn peryglu dyfodol nid yn unig yr iaith Gymraeg ond tafodiaith yr ardal yn ogystal, sy'n gwneud y ffaith bod y bardd yn canu mewn tafodiaith yn fwy arwyddocaol. Mynega ei hiraeth, fel nifer o feirdd o'i flaen, fod y byd yn newid, a hynny er gwaeth, a'r gymdeithas Gymraeg a'i chymeriadau yn araf ddiflannu. Serch hynny, gorffen y bardd mewn gobaith gan fod un ffordd o fyw yn parhau hyd heddiw, sef bywyd crefyddol yng nghapel Bethel, lle parheir i addoli trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgrifennodd Wyn Owens gyfres o bum englyn yn dwyn y teitl 'Cau Ysgol Bwlch-y-Groes Haf 2000'. Esboniodd Wyn Owens (Cyfweliad, 2014) iddo ysgrifennu'r englyn olaf mewn tafodiaith gan iddo feddwl am W. R. Evans a oedd yn brifathro'r ysgol am gyfnod, ac y byddai'n deyrnged i'r sawl a'i sbardunodd ef, Wyn Owens, i ysgrifennu'n dafodieithol ei hun:

O! wês, wês, wedd 'na greso, - wedd 'na houl,  
Wedd 'na alw heibo.  
We'r cifan o dan 'i do,  
Y cifan, pwy sy'n cofio? (W. Owens, 2005, t.46).

Cyhoeddwyd y gerdd 'Lloches' yn y gyfrol *O'r Witwg i'r Wern* yn 2011, ac eto gwelir y bardd yn defnyddio'i dafodiaith i bwrpas, sef i gofio am ei gyndeidiau a arddelai'r dafodiaith honno yn crafu byw ar lethrau'r Preselau:

Lle we'n perthnase dwê wrth odre'r Fwêl  
In crafu byw ar richie crwên i ddeiar,  
Sdim byd on' adfel 'ma in mind ar whâl  
A'r plêns ofnadw lan in rhico'r owyr.  
Codan i bowyd gwyllt reit mas o'u cwtsh  
A hala ofon hurt ar i cadried,  
Fel hanner call a dwl yw'r llo'n i gatsh,  
Penddaru wedyn lwêth 'na'r brain a'r pïod (W. Owens, yn  
H. Wyn, 2011, t.364).

Dywed L. V. Lier (1995, t.97): 'dialects often have significant value for the groups who speak them, and this means that they do not readily disappear, even where a standard language is dominant through the media and education.' Drwy ysgrifennu mewn tafodiaith, gellid dadlau bod beirdd megis Wyn Owens yn amlygu'r gwerth hwn ac yn rhoi lle i'r dafodiaith rhwng dau glawr. Y mae gwerth hefyd yn y ffaith yr uniaethir â siaradwyr y dafodiaith drwy'r llenyddiaeth.

Yn ei ysgrif 'Pawb â'i Grwman', cyfeiria Wyn Owens at ei ddiddordebau, neu *dileit* fel y dywedir yn Sir Benfro. Cafodd gyfle, fel artist, i fyw mewn gwahanol lefydd, ond dod nôl i'w gynefin a wnaeth:

Wdw i'n sobor o falch bo fi wedi câl i cifle i ddilyn in nileit in tinnu llun a peinto. Wrth ddrichid nôl 'na gifnod mwya bishi'n fowyd i. Ces brofiad o fyw miwn llefydd we'n hollol ddiarth i fi ac ing nghanol pobol we'n fwy diarth lwêth. Wdw i'n meddwl bo fi'n fwy jocôs in fyd in byw 'ma in Minachlog-ddu ddar'ny, wedi câl i profiade hinny. We whant arna i, a finne in arddege,

i gâl jengyd o'r plwy. On wedi neud 'ny wena i'n galled aros i ddwâd nôl 'ma (W. Owens, yn H. Wyn, 2011, t.523).

Agwedd Hefin Wyn (Cyfweiliad, 2014) a olygodd y gyfrol *O'r Witwg i'r Wern* lle cyhoeddwyd yr ysgrif hon, yw ei bod, o bosib, yn enghraifft eithafol o ysgrifennu mewn tafodiaith, gan fynegi ei farn bod yn rhaid i lenyddiaeth dafodieithol fod yn ddealladwy i'r gynulleidfa y tu allan i'r ardal y mae awdur yn ceisio ei dynwared a'i chyfleu o ran iaith. Rhaid anghytuno â'r farn hon gan y gellid dadlau na all llenyddiaeth dafodieithol fyth fod yn hollol ddealladwy i bawb a bod agwedd Kate Roberts y cyfeiriwyd ati eisoes yn y drydedd bennod yn agosach ati, sef prin y mae unrhyw ddarllenydd yn deall bob gair o unrhyw lyfr a ddarllena (K. Roberts, 1931, t.58). Nid oes rhaid i hynny amharu ar fwynhad neu werthfawrogiad o'r llyfr.

Gellid dadlau bod Wyn Owens yn awyddus i gyflwyno'r dafodiaith i'w heithaf yn ei ysgrifennu, a bod hynny yn rhyw arwydd o hunaniaeth, o annibyniaeth, o'r hawl i ysgrifennu ac i arddangos ei iaith lafar. Nodwyd eisoes bod llenyddiaeth dafodieithol yn symboleiddio hunaniaeth gymunedol. Gall hefyd symboleiddio hunaniaeth unigolyn, megis yn achos gwaith Wyn Owens. Gellid maentumio bod yr hyn a ddywed R. O. Jones (1993, t.37) am drigolion Cwm Tawe yr un mor wir am drigolion Sir Benfro:

Yn y bôn mae eu tafodiaith yn rhan ohonynt, yn diffinio eu hunaniaeth, yn adleisio'u cefndir, eu hardal, eu tylwyth a'u diwylliant. Mae'n ddolen gyswllt â'r ymwybyddiaeth o berthyn, yn cydio dyn â'r gorffennol yn ogystal ag â'i ardal. Mae tafodiaith yn cydio ddoe a heddiw a phery i'r dyfodol ond i'w siaradwyr weld gwerth ynddi, ymfalchïo ynddi a'i defnyddio (R. O. Jones, 1993, t.237).

Pan holwyd Wyn Owens (Cyfweiliad, 2014) pam ei fod yn ysgrifennu'n dafodieithol, ei ymateb oedd: 'Wel pam lai mewn ffordd achos dyna'n hiaith ni, dyna'r iaith, a pam na ddylen ni ymhyfrydu mewn iaith ein

hunnen?' Dyma awdur a welodd werth yn ei dafodiaith ac sy'n ymfalchïo ynddi. Drwy ysgrifennu'n dafodieithol, dengys awdur i'r darllynydd fod ganddo ei iaith ei hun, ac nad oes ganddo ofn i'w fynegi ei hun drwy'r iaith honno. Mae ei dafodiaith yn rhan annatod o gyfansoddiad ac o hunaniaeth awdur tafodieithol, ac mae am i'r darllynydd wybod hynny.

Cyfeiriwyd eisoes yn y bennod gyntaf at theori gyfathrebu *Communication Accommodation Theory / Damcaniaeth Cyfathrebu Cymhwysol* lle dadleuir bod pobl yn newid ac yn addasu eu patrymau llafar a'u hymddygiad cyfathrebu mewn ymateb i eraill, sef yr hyn y cyfeirir ato fel *convergence / cydgyfeiriad* a *divergence / ymwahaniad*. Cyfeiriwyd droeon hefyd at y ffaith y gall tafodiaith arwain at lesteirio ac amharu ar gyfathrebu a dealltwriaeth. Tra'n dweud ar y naill law: 'converging to a common linguistic style also improves the effectiveness of communication' cydnebydd I. Sachdev a H. Giles (2006, t.357): 'but convergence is not always rewarding, it may well entail some costs, such as the possible loss of personal or social identity.' Mae ei dafodiaith naturiol yn rhan bwysig o wead pob awdur a'r perygl yw y collir yr hunaniaeth ieithyddol os gorfodir awduron i arddel yr iaith safonol yn *unig* wrth ysgrifennu.

Ychydig o gerddi yn cynnwys tafodiaith a geir yn y ddwy gyfrol o farddoniaeth a gyhoeddodd Wyn Owens ei hun, ac ymddengys gweithiau tafodieithol eraill o'i eiddo mewn cyfrolau megis *O'r Witwg i'r Wern* (2011) a *Perci Llawn Pobol : Casgliad o Ganu Beirdd Gwlad y Preseli a'r Cylch* (2016). Gellid dadlau mai pinacl ei waith tafodieithol serch hynny yw ei gyfrol *Rhint y Gelaets a'r Grug : Tafodiaith Sir Benfro* (2013), am iddo gofnodi geiriau a'u hystyron, ynghyd ag enghreifftiau ohonynt ar waith, cyn i rai ohonynt fynd i ddifancoll. Mae ei reswm am ddilyn y trywydd tafodieithol yn amlygu ei hunaniaeth, a'r ffaith ei fod yn ymhyfrydu ac yn ymfalchïo yn ei dafodiaith naturiol, bob dydd ac yn awyddus i'w defnyddio a'i chofnodi.

### **Mererid Hopwood, 1964 –**

Er mai yng Nghaerdydd y ganed ac y maged Mererid Hopwood, a'i bod bellach yn byw yng Nghaerfyrddin, mae ei gwreiddiau yn ardal Pen-caer, Sir Benfro, a'r dafodiaith honno i'w chlywed ar ei gwefusau. Ymddengys y dafodiaith yn ei llenyddiaeth ar adegau yn ogystal. Enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 2001, y wraig gyntaf i gyflawni'r gamp honno, cyn mynd ymlaen i ennill y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol 2003 a'r Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2008, gyda'r nofel *O Ran*. Yn ogystal â nifer o gyfrolau i blant, cyhoeddodd gyfrol o gerddi, *Nes Draw*, yn 2015. Y mae hefyd yn ddarlithydd ac Athro prifysgol.

Ym mhennill cyntaf ei chywydd 'Celwi', mae'r awdur ym Mhwllderi, wrth gofeb y Prifardd Dewi Emrys, ac yn cynnal sgwrs ag ef:

'Run llŵer sy'n Pwllderi  
â we dŵe'n d'amser di,  
'run gole'n mish Gorffennaf  
a 'run houl ar wên o haf;  
im mhob un ffarm ma' byw'n ffest  
a ffiniant im mhob ffenest,  
wa'th i Bencâr i aros  
da'th heide canwille'r nos (M. Hopwood, 2015, t.71).

Fel Wyn Owens y cyfeiriwyd ato eisoes, mae Mererid Hopwood hithau'n cynganeddu mewn tafodiaith, fel yn 'Run llŵer sy'n Pwllderi.' Pan holwyd Mererid Hopwood (*Cyfweliad*, 2014) a oedd cynganeddu mewn tafodiaith yn bosib, ei hateb oedd: 'o mae'n bosib, mae'n fendigedig o bosib, mae'n cynnig pob math o bethe.' Dywed ei bod o blaid cynganeddu mewn tafodiaith os yw'n naturiol ac y dylid osgoi 'hen draw' wrth ysgrifennu. Awgryma ei sylw bod modd i gynganeddu tafodieithol fod yn annaturiol, megis ysgrifennu i bwrpas yn hytrach nag am mai dyna'r iaith fwyaf addas i'w defnyddio.

Erbyn yr ail bennill, mae'r awdur yn sôn am ddiboblogi, a'r newid i ardal Pwllderi. Tai haf sydd yma, ac erbyn y gaeaf maent yn wag a'r trigolion wedi diflannu:

Ond o'r Garn derfyn dwarnod,  
a'r dŵr hallt in rhwdu'r rhod,  
wedi i'r houl find ar wilie,  
wedi i'r haid find 'nôl i'r dre,  
pwrni dw i in diall  
a'n dwad i weld trw'r tir dall:  
ar ôl i saith-nos-ole  
ma' in githrwm o llwm 'rhyd lle,  
ma'n Pwllderi ni'n newid –  
we'r goleuni'n gelwi i gyd (M. Hopwood, 2015, t.71).

Pan holwyd Mererid Hopwood (Cyfweliad, 2014) pam ei bod wedi ysgrifennu ambell gerdd mewn tafodiaith, roedd ei hateb yn amlygu'r cysylltiad amlwg rhwng ardal ac iaith, un o'r prif themâu mewn canu tafodieithol y manylir arni yn y bennod nesaf:

Mae'n anodd dweud pam. Yn y gerdd 'Celwi', e.e. sydd yn nhafodiaith Pen Caer, mae honno'n dechrau ym Mhwllderi ac yn ymwneud â'r diboblogi, felly roedd hi'n teimlo'n 'driw' i'r testun, rywsut, i fynegi honno yn nhafodiaith fy Mam, sef tafodiaith yr ardal dan sylw (Mererid Hopwood, Cyfweliad, 2014).

Iaith safonol a ddefnyddir gan y bardd gan amlaf yn ei chyfrol *Nes Draw*, er y ceir cyffyrddiadau tafodieithol megis *ffrwcs ffair* (61) a *perci* (74). Fe'i canmolwyd gan H. Griffiths (2016, t.132) am lwyddo i gadw ieithwedd agos-atoch a thafodieithol yn y gyfrol.

Esboniodd Mererid Hopwood (Cyfweliad, 2014) ei bod, pan yw'n ymweld ag amrywiol gymdeithasau llenyddol, yn darllen addasiad o Salm 23, 'Yr Arglwydd yw fy Mugail', i dafodiaith Sir Benfro, sef 'I Bigel Da', a bod pobl mewn ardaloedd ymhell o Sir Benfro, megis Sir Fôn, yn ei deall a'i mwynhau:



Wit-ti'n figel i fi, Arglwidd,  
A achos hini bydd ddim byth ishe dim arna' i;  
Wit-ti'n gadel i fi orwe miwn perci glas,  
Wit-ti'n i'n arwen i dat ir afon,  
Fan lle ma'r dŵr in llonni  
A neid in mowyd i in newi siwrne to.

Wit-ti'n driw i di enw,  
A'n in arwen i lawr y feidir gowir.

Pan wen i'n cered trw'r cwm towill, dansherus,  
We ddim ofon arna' i,  
Oblegid oet ti gida fi,  
A we ffon figel a phastwn da ti in di law  
I nghadw i in saff.

(Trosiad L. L. Dafis, addasiad M. Hopwood [d.d.] derbyn copi gan M. Hopwood, 2014).

Cofier y nodwyd eisoes bod Idris Reynolds yntau'n cael derbyniad da wrth ddarllen cerdd dafodieithol am ardal Cei Newydd. Ond y gwahaniaeth yma yw bod Salm 23 yn gyfarwydd, ac felly gall y gwrandawyr ddyfalu ystyr y geiriau wrth ei chlywed yn cael ei darllen yn nhafodiaith Sir Benfro. Pan holwyd Mererid Hopwood (Cyfweliad, 2014) pam ei bod yn darllen salm dafodieithol, atebodd am fod pobl yn ei mwynhau hi a'i bod 'yn cyffroi'r glust.' Noder cred M. Wiliam (1990, t.9) mai 'rhywbeth i'w werthfawrogi â'r glust, yn hytrach nag â'r llygad, yw tafodiaith.' Mae clywed tafodiaith â'r glust yn naturiol, ond gellid maentumio bod gweld tafodiaith â'r llygad yn rhoi boddhad gwahanol a chyfle i ail-ddarllen a myfyrio ar yr hyn a welir.

Ychydig iawn o waith Mererid Hopwood sydd yn nhafodiaith Sir Benfro felly, er bod rhai o'i gweithiau eraill, megis y nofel *O Ran*, yn cynnwys deialog cymeriadau â chysylltiadau gyda Chaerdydd neu Sir Gaerfyrddin. Dilynodd y trywydd hwn ar adegau am fod y dafodiaith yn gweddu i'r testun, er mwyn bod yn driw i'r ardal y lleolir y gerdd ynddi, ac er mwyn cyffroi'r glust a chynnig llais ac 'iaith' amgen.

## Hunangofiannau tafodieithol

Daeth yn arferiad gan awduron o ardaloedd ar draws Cymru i gynnwys tafodiaith yn eu hunangofiannau, gan roi blas i'r darllenydd o'r amrywiaeth llafar sy'n bodoli. Nid yw Sir Benfro yn eithriad, megis yng ngwaith Stan Jones, Jenny Ogwen a John Davies, gyda maint y cynnwys tafodieithol yn amrywio yn eu cyfrolau.

Yn 2005, cyhoeddodd Stan Jones, a aned ac a fagwyd ar fferm ym mhentref Dinas, rhwng Trefdraeth ac Abergwaun, gyfrol yn dwyn y teitl *Plentyndod ym Mhenfro : Tra'd yn Tir*, yn cynnwys ei atgofion am y ffordd o fyw a'r dulliau ffermio yn y cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd. Rhoddir lle amlwg i dafodiaith y sir yn y gyfrol, fel yr esbonia'r awdur yn ei gyflwyniad: 'Ceisiwyd defnyddio tipyn ar dafodiaith gogledd Sir Benfro sef y wêd a'r wêr. Gobeithio y bydd hyn yn ddealladwy' (S. Jones, 2005, t.7). Disgrifia'r awdur y tŷ, y fferm a'r anifeiliaid, ac arferion megis corddi a macsu, trin y tir, dyrnu a chodi tatws, yn ogystal â dyddiau ysgol, y capel a'r ysgol Sul. Dyma ei ddisgrifiad o'r ystafell yn y tŷ a elwid yn *rŵm ford*:

Enw trawiadol wêdd y rŵm ford, oblegid dim ond ford fowr a ffwrwme bob ochor iddi wêdd yn yr ystafell. Ond wê 'na gwpwrt cornel hefyd yn dal llestri bwyd.

Wêdd y rŵm ford nesa at y lleity. Bwyta yn benna' wêdd pwrpas y rŵm ford. Wêdd y ford yndi yn ddigon o faint i fwydo rhyw ugen o ddynion, ac yn ymal gwelwyd ei llenwi amser y cynhafe – sef amser gwair, llafur a diwyrnod dyrnu (S. Jones, 2005, t.21).

Cyhoeddodd Jenny Ogwen ei hunangofiant *Glaw a Hindda* yn 2007. O ardal Crymych y daw'n wreiddiol, er iddi dreulio y rhan fwyaf o'i bywyd bellach yn Y Barri, Sir Forgannwg. Yn ei rhagair, y mae hithau, fel Stan Jones, yn esbonio'i dewis i ysgrifennu'r gyfrol yn ei thafodiaith, a cheir ganddi hefyd esboniad o ystyr cyfran o eirfa'r sir er cynorthwyo'r darllenydd:

Ma'r llyfr hwn wedi'i sgrifennu fel wdw i'n siarad, yn nhafodieth Shir Benfro. Ma geirie fel 'wên i' (roeddwn i) a 'wên ni' (roedden ni), 'wedd' (roedd neu oedd), 'wêr' (oer), 'ôd' (oed) 'gili' (gilydd), 'getre' (gartref), 'weth' (eilwaith) a 'myni' (mynydd) yn frith drwy'r llyfyr. Os 'ych chi'n stryglan, gwedwch (dywedwch) be chi'n weld a falle daw e'n gliriach bryd 'ny (bryd hynny). Gobeitho, ta beth! O ie, a sai'n gweud 'ei'. Jyst "i". Ac Abergweun a Tenby fydda i'n gweud – a sai'n treiglo bob tro, yn arbennig gyda geirie pwysig fel Crymych. Gobeithio bo 'ny'n iawn gyda chi! (J. Ogwen, 2007, t.9).

Sylwer fel y mae'r ddau awdur, yn eu cyflwyniad i'w cyfrolau, yn mynegi eu gobaiith y bydd y darllenwyr yn eu deall ac yn fodlon â'u penderfyniad i ysgrifennu yn eu tafodiaith. Ceir yr argraff eu bod bron yn ymddiheuro am ysgrifennu'n dafodieithol, fel petai tafodiaith yn rhywbeth israddol a'i bod yn annerbyniol i'w harddangos. Maent yn amlwg, hefyd, wedi ystyried i ba raddau y bydd modd deall eu cyfrolau y tu allan i Sir Benfro.

Achos pryder yw sylw Jenny Ogwen nad yw'n treiglo bob tro, gan na ddylai ysgrifennu'n dafodieithol fod yn gyfystyr ag ysgrifennu'n ramadegol anghywir – yn *Crymych* ac i *Crymych*, er enghraifft, a geir drwy'r gyfrol. Dengys geirfa megis *jyst* a *stryglan* ddylanwad y Saesneg. Awgrymwyd yn y bennod gyntaf bod gan dafodiaith, mewn dwylo medrus, y potensial i gyfoethogi arddull darn o waith (C. M. Jones, 1997, tt.273-274). Gellid dadlau bod ganddi hefyd, yn nwylo awdur dibrofiad, y potensial i gael ei defnyddio yn ddiotal. Rhaid ystyried beth yw dylanwad hyn ar ddarllenwyr 'anllythrennog,' gan fod ysgrifennu o'r fath yn awgrymu nad oes angen ystyried rheolau gramadegol, megis treigladau. Gallai hyn arwain at ddiffyg safon mewn llenyddiaeth dafodieithol.

Ffermwr a chwaraewr rygbi rhyngwladol yw John Davies, o bentref Boncath ger Crymych. Er nad yw'r dafodiaith yn ei hunangofiant yntau, *Dala'r slac yn dynn* a gyhoeddwyd yn 2013 mor amlwg ag yw hi yn y

rhai y cyfeiriwyd atynt uchod, fe'i gwelir yn ei ddefnydd o ffurfiau megis *wêdd* a *wên*. Er na chyflwynir y dafodiaith yn union fel y'i siaredir hi, er enghraifft *dou* ac nid *dau* a ddywedir yn gyffredin, y mae, serch hynny, yn rhoi blas i ni o'r iaith lafar:

Alle bywyd byth bod yn well. Wedd pethe'n gweithio'n iawn ar y ffarm yng Nghilrhue a phethe'n argoeli'n dda i fi ar y cae rygbi hefyd. Wedi dau dymor gyda thîm Ieuenctid Cymru wedd hi'n naturiol i fi symud mlân a chwilio am glwb dosbarth cynta. Wedd Pen-y-bont a Llanelli wedi bod mewn cysylltiad eisoes. Wên i wrth gwrs yn gyfarwydd â Ron Waldron drwy'r tîm Ieuenctid a thasen i'n llwyddo, ar y Gnoll wên i'n gweld fy nyfodol. Pan ddaeth y gwahoddiad i ymuno â chlwb Castellnedd, wedd y penderfyniad i dderbyn ddim yn un anodd (J. Davies, 2013, t.44).

Wrth adolygu'r gyfrol *Dala'r slac yn dynn a Hunangofiant Delme Thomas*, chwaraewr rygbi o Sir Gâr sy'n cynnwys ei dafodiaith yntau yn ei hunangofiant, dywed I. ap Dafydd (2013, t.79): 'Ie, dwy gyfrol wahanol, ond tebyg hefyd yn y modd y mae tafodiaith lefn y ddwy sir yn disgleirio ac yn rhoi lliw ar y dweud - a'r llyfrau, oherwydd hynny, yn gymaint gwell na'r rhan fwyaf o rai tebyg yn Saesneg.' Ar y naill law gellid awgrymu na welir tafodieithoedd lleol mewn llyfrau tebyg yn y Saesneg oherwydd yr oruchafiaeth a roir i Saesneg Safonol ac y dengys hyder y Cymry yn eu tafodiaith wrth iddynt ysgrifennu ynddi. Ar y llaw arall gellid awgrymu bod yr oruchafiaeth a roir i Saesneg Safonol yn sicrhau ei statws a'i safon fel yr iaith ganol, gyffredin i bawb.

Nid pob brodor o Sir Benfro sydd wedi cynnwys tafodiaith yn ei hunangofiant serch hynny, ac ni ddisgwylir hynny. Y mae Eirwyn George, er enghraifft, y cyfeiriwyd ato eisoes fel un sy'n ysgrifennu'n achlysurol iawn mewn tafodiaith, wedi ysgrifennu ei hunangofiant *Fel Hyn y Bu* (2010) mewn Cymraeg safonol. Wedi sgwrsio gydag Eirwyn George a chanfod yn glir ei ffafiaeth o'r iaith safonol, nid yw'n syndod na welir ei dafodiaith yn ei hunangofiant. Serch hynny, awgrymodd Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) fod hunangofiant John Davies *Dala'r*

*slac yn dynn* wedi ei hysgrifennu'n gwbl naturiol a'i bod 'tipyn ar ei hennill' o fod yn lled dafodieithol ac yn nes at y darlennydd. Pan holwyd ef, felly, pam nad oedd yntau wedi defnyddio'i dafodiaith yn ei hunangofiant, ei ateb yn syth oedd ei fod wedi ysgrifennu'r gyfrol ar gyfer 'cynulleidfa ehangach' y tu allan i Sir Benfro. Afraid dweud mai rhydd i'r awdur ddewis ei gyfrwng, boed mewn iaith safonol, iaith dafodieithol neu gyfuniad o'r ddwy.

### **Casgliad**

Mae'r awduron a drafodwyd yn y bennod hon wedi creu corff o lenyddiaeth a sicrha y bydd tafodiaith Sir Benfro yn goroesi rhwng dau glawr. Mae sylw G. Griffiths (2014, t.7) felly, wrth gyfeirio at awydd Meic Stephens i brofi bod y dafodiaith yn gyfrwng llenyddol teilwng, megis yn ei gyfrol *Wilia*, yn hollbwysig, sef: 'rhaid i dafodiaith - fel iaith - feddu ar gorff o lenyddiaeth os yw i oroesi.' Yr hyn a wna llenyddiaeth dafodieithol yw dod â'r iaith lafar yn fyw rhwng cloriau llyfr, a'r hyn a wna'r awduron yw bod yn driw i'r ieithwedd leol.

Gwelwyd eisoes fod beirniaid megis G. L. Brook (1973, t.30) a C. Karantzi (2010, t.461) o'r farn mai cyfyng yw apêl llenyddiaeth dafodieithol, gan ei bod wedi ei chyfyngu i ardal a chynulleidfa benodedig. Gellid dadlau nad oes dim o'i le ar ysgrifennu i gynulleidfa benodol yn ei thafodiaith hithau ac ni olyga hyn na all pobl mewn ardaloedd eraill werthfawrogi a mwynhau'r gweithiau hyn.

Gellid awgrymu mai amcan nifer o awduron wrth ysgrifennu llenyddiaeth dafodieithol yw diogelu'r dafodiaith honno, tynnu sylw ati, ac annog ei defnydd. Dywed J. Barke (1960, t.8) fod beirdd tafodieithol yr Alban, fel Robert Burns, wedi rhoi urddas i'r dafodiaith Albanaidd a gellid dadlau bod awduron llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro wedi rhoi'r un urddas i'w tafodiaith hwythau.

## PENNOD 6

### LLENYDDIAETH DAFODIEITHOL PENFRO – CYFROLAU

#### Rhagarweiniad

Yn y bennod hon, ystyrir cyfrolau o lenyddiaeth. Ysgrifennwyd rhai o'r cyfrolau hyn yn gyfan gwbl mewn tafodiaith, ac fe'u hystyrir hwy yn rhan gyntaf y bennod. Mae'r cyfrolau eraill yn tarddu o Sir Benfro neu wedi eu seilio yno, neu wedi eu hysgrifennu gan awduron a aned neu a fu'n byw yn y sir ar ryw adeg yn eu bywyd, ac yn cynnwys rhai gweithiau mewn tafodiaith. Fe'u hystyrir hwy yn ail ran y bennod.

#### Cyfrolau Wês Wês ~ 1976 - 1994

Yn ystod degawdau olaf yr ugeinfed ganrif, cyhoeddwyd pedair cyfrol yn y gyfres *Wês Wês*, y ddwy gyntaf, *Wês Wês* (1976) a *Wês Wês - Wêth* (1978) o dan olygyddiaeth Gwyn Griffiths a John Phillips, a'r ddwy olaf *Wês, Wês - Shwrne 'to* (1982) a *Wês Wês Pentigily* (1994) o dan olygyddiaeth Gwyn Griffiths yn unig. Y mae'r cyfansoddiadau hyn yn dilyn patrwm cynt llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro o ganolbwyntio'n bennaf ar fywyd traddodiadol y filltir sgwâr (G. M. Awbery, 1991, t.32). Gwelir mai'r pynciau a drafodir amlaf yn y cyfrolau hyn yw atgofion, straeon celwydd golau, yr ardal leol a phortreadau o'i chymeriadau, y ffordd o fyw a digwyddiadau lleol, fel y manylir arno nes ymlaen.

Trigolion Sir Benfro yw mwyafrif yr awduron, a nifer fawr ohonynt heb ysgrifennu na chyhoeddi dim cynt nac wedi hynny. Nid yw mwyafrif y gweithiau a gynhwysir yn y pedair cyfrol wedi eu cyhoeddi yn unman arall chwaith; yr eithriadau yw cerddi o eiddo rhai o feirdd tafodieithol amlycaf y sir, megis W. Rhys Nicholas a W. R. Evans. Y cwestiwn amlwg a gyfyd, felly, yw pam yr ysgrifennodd yr awduron hyn mewn tafodiaith a beth oedd eu cymhelliad? Ceir yr ateb yn y cyflwyniad i'r gyfrol gyntaf, *Wês Wês*. Wrth fynegi'r farn mai peth drwg i'r iaith

Gymraeg fyddai colli ei thafodieithoedd, gan mai ynddynt y ceir rhuddin a chymeriad yr iaith, esbonia G. Griffiths a J. Phillips (1976, t.8) mai 'syniadau fel y rhain a'n hysgogodd i fynd ati i geisio perswadio pobol, yn bennaf o Sir Benfro, i gyfrannu storïau, ysgrifau a cherddi.' Mae'r un peth yn wir am y tair cyfrol a ddilynodd, gyda'r golygyddion yn mynd ati i ofyn i bobl ysgrifennu'n bwrpasol ddarnau mewn tafodiaith i'w cynnwys yn y cyfrolau hyn.

Pan holwyd Gwyn Griffiths (Cyfweiliad, 2015) am y sylw 'perswadio pobol' yn y rhagair i'r gyfrol gyntaf, a sut ymateb a gafodd gan y bobl hynny, ei ateb oedd:

Doedd dim anhawster i gael pobol i gytuno i sgrifennu.....  
Rwy'n meddwl bod pobol nad ydyn nhw'n arferol yn sgrifennu dim byd ('achos dyw Nghymrâg i ddim digon da') yn barotach i sgrifennu rhywbeth mewn tafodiaith – fel maen nhw'n siarad. Felly rwy'n meddwl bod sawl un wedi cyfrannu i'r cyfrolau a heb gyfrannu i ddim byd arall cyn nac ar ôl hynny (Gwyn Griffiths, Cyfweiliad, 2015).

Mae ei ymateb yn un arwyddocaol, ac yn atgyfnerthu'r sylw a wnaed yn y bumed bennod ynglŷn â rhoi llais i'r llenor. Dyma bobl na fyddai'n ysgrifennu mewn Cymraeg safonol 'achos dyw Nghymrâg i ddim digon da', yn cael cyfle i ysgrifennu yn eu tafodiaith eu hunain, hynny yw, yn union fel y maent yn siarad. Gellid maentumio mai prin oedd yr addysg Gymraeg ffurfiol a gafodd nifer o'r awduron, ac er ei bod yn debygol y byddent yn gyfarwydd â Chymraeg llenyddol y Beibl a'r capel, nad oedd ganddynt yr hyder na'r gallu i ysgrifennu yn yr iaith honno.

Sylwer ar sylw Gwyn Griffiths na chafodd anhawster i berswadio pobl i ysgrifennu; mae'n amlwg, felly, fod y cyfrwng tafodieithol wedi apelio atynt, a'u bod wedi bachu ar y cyfle i ysgrifennu ynddo. Fel yr awgrymodd Ceri Wyn Jones (Cyfweiliad, 2014), mae dawn dweud mewn iaith yn bwysig i drigolion Sir Benfro, sef medru dweud rhywbeth mewn ffordd fachog, yn eu tafodiaith eu hunain, a thrwy hynny blesio eu pobl

eu hunain. Gellid dadlau, felly, fod y cymhelliant i ysgrifennu mewn tafodiaith yn medru dod oddi wrth yr unigolyn, a'i awydd neu ei ddymuniad personol i wneud hynny, neu oddi wrth y gymdeithas o'i amgylch sy'n dymuno darllen llenyddiaeth dafodieithol.

Mae rhesymwaith golygyddion y cyfrolau *Wês Wês* yn un clodwiw a dealladwy; roeddent yn pryderu mai ychydig iawn o weithiau oedd wedi eu hysgrifennu yn y dafodiaith hon, ac am adfer y cam hwnnw. Cynigiant reswm dros y diffyg hwnnw, sef bod ei thrigolion:

yn llawer rhy swil i arfer eu tafodiaith y tu allan i'w bro. Tueddant i addasu eu tafodiaith wrth symud allan o'u cynefin ac y mae angen eu hatgoffa o'r iaith yr arferent ei siarad. Gobeithio y bydd i'r gyfrol fach hon wneud rhywbeth i'r perwyl yna (G. Griffiths a J. Phillips, 1976, t.9).

Nid ffrwyth awydd unigolion i ysgrifennu yn eu tafodiaith a geir yma felly, nid casgliad o weithiau tafodieithol a oedd eisoes yn bodoli, ond gweithiau, gan fwyaf, a ysgrifennwyd yn bwrpasol er mwyn eu cynnwys yn y cyfrolau. Nid cymhelliant unigolion i gofnodi a diogelu eu tafodiaith a welir yma, ond cymhelliant y golygyddion iddynt wneud hynny (ac eithrio, fel y nodwyd eisoes, awduron megis W. Rhys Nicholas a W. R. Evans a oedd eisoes yn ysgrifennu'n dafodieithol ac felly nid oedd angen yr anogaeth hon arnynt). Teg fyddai gofyn a yw hyn yn tynnu oddi ar werth y cyfrolau hyn, felly? Gellid awgrymu nad ydyw, gan y ceir yma gyfoetha thrysorfa o lenyddiaeth dafodieithol o ran benodol o'r wlad. Yn ogystal, fel y nodwyd eisoes, rhydd lais i'r llenor tafodieithol, llais nas clywir fel arall.

Serch hynny, gall beri i'r darllenydd a'r beirniad, o bosib, edrych ar y gwaith mewn golau gwahanol, gan mai cynnyrch gwneud ac nid cynnyrch yr awen a geir yma. Cyfeiriwyd eisoes yn y bennod gyntaf, wrth drafod y gerdd dafodieithol, at y farn y dylai'r bardd argyhoeddi'r darllenydd ei fod yn defnyddio'r iaith fwyaf addas ar gyfer ei fynegi ei



hun. Yn achos y cyfrolau hyn, nid defnyddio'r iaith fwyaf addas wnaeth yr awduron, ond defnyddio'r iaith y gofynnwyd iddynt ysgrifennu ynddi.

Yn ei ragair i'r gyfrol *Wês Wês - Shwrne 'to*, mynega'r golygydd ei bryder mai ychydig iawn o bobl ifanc a gyfrannodd at y cyfrolau. Dywed G. Griffiths (1982, t.5) fod hyn yn naturiol i raddau, gan fod mwy i'w ddweud a mwy o atgofion gan y to hÿn, ond eto, cyfaddefa y byddai'n 'braf meddwl bod pobol ifanc a phlant ysgol yn cael eu hannog i sgrifennu mewn tafodiaith.' Amlygwyd eisoes mai ar ysgrifennu mewn iaith safonol y rhoddir y pwyslais ym myd addysg. Yn y cyswllt hwn, mae'n werth cyfeirio at waith ymchwil I. W. Rees (2011, t.22) ar dafodiaith cyffiniau Harlech a Bro Dysynni; cyfeiria at ei ganfyddiad bod y siaradwyr hynaf yn aml yn fwy tebygol o ddefnyddio geiriau tafodieithol traddodiadol, ond iddo gael gan y siaradwyr ifanc enghreifftiau o eiriau safonol, a hola beth sydd wedi disodli'r geiriau hyn yn iaith yr ieuenctid. Dywed: 'mae'n siŵr gen i fod a wnelo'r cynnydd sydd wedi bod mewn addysg Gymraeg â'r datblygiadau hyn' (I. W. Rees, 2011, t.22).

Wrth ystyried llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro, awgrymodd G. M. Awbery (1991, t.29) fod y duedd i neilltuo'r dafodiaith i fyd eithaf cul i'w gweld ar hyd y blynyddoedd, sef atgofion am fywyd traddodiadol cefn gwlad, hanesion am gymeriadau lleol, y chwerw a'r melys, ynghyd â throeon trwstan ag iddynt elfen o ddoniolwch. Rhaid cytuno â'r farn honno wrth dafoli'r cyfrolau hyn, ond gellid awgrymu nad yw'r culni hwnnw yn tynnu dim oddi ar eu gwerth tafodieithol. Ceisir, felly, cyfleu peth o gyfoeth y cyfrolau drwy gyflwyno chwech o'r prif themâu a welir ynddynt.

### **Thema: Yr Ardal Leol**

Un o themâu amlycaf llenyddiaeth dafodieithol yw'r ardal a'r pentrefi lleol, gan fod yr ardal a'i thafodiaith yn mynd law yn llaw â'i gilydd yn naturiol.

Un o gerddi tafodieithol enwocaf Sir Benfro yw 'Pwllideri' gan Dewi Emrys, a drafodir yn y seithfed bennod. Yn ei cherdd hithau 'Pencâr', mae Rachel Phillips James, sy'n frodor o'r ardal, fel Dewi Emrys, yn cofio am y bywyd a fu yn yr ardal honno rhwng y mynydd a'r môr yng nghysgod Garn Fowr, Garn Folch a Garn Glotas:

'Rhen fôr lwerydd yn seso'r creige;  
yn allwys 'i ddigofent o Bwllcrochon i Ben Strwmbwl,  
ac yn halltu'r meirw yn minwentydd y plwy,  
a'r ddraenen yn cwtsho'n borcen yn y gwynt.  
Ac ina'r haf,  
pan wê'r rhedyn yn datod 'i gwrlers ar lethre'r mwni,  
wê'r môr, - fel te fe'n difaru am yr holl gwmpo ma's, -  
yn mistyn 'i freiche pentigily i'r gorwel,  
ac yn towlu ambell i gusan yn slei i wmed y creige,  
a'r morlo, a'i liged fel dwy soser,  
yn drichyd yn dwp o'r dwfwn (R. P. James, yn G. Griffiths a  
J. Phillips, 1976, t.26).

Yn 'Atgofion o Landudoch', ceir cofnod o atgofion Johnny Jones am fywyd ac arferion lleol y pentref hwn yng ngogledd y sir:

Dwi'n cofio'r hen bentre 'na lan yn y Cwmins, - wên nhw'n galw pwrws arnyn nhw. Wê rheina'n perthyn i gily i gyd a wêdd hi'n ano' iawn pan wêch chi miwn cwmni, allech chi ddim gweud dim am neb! (J. Jones, yn G. Griffiths, 1994, t.43).

Cofio am fynd i Drewyddel ar ei wyliau at ei famgu a'i ddatcu pan yn blentyn a wna Charles Ladd yn 'Atgofion Charles Ladd, Llandudoch'. Mae'n ein hatgoffa pa mor anodd oedd hi i deithio yr adeg honno cyn y datblygiadau mewn trafndiaeth a'r rhwyddineb teithio a welir heddiw. Dengys hefyd gyfeillgarwch a chlosni'r gymdeithas wrth i'r postmon ei hebrwng ar ei daith:

Pan wên i'n mynd ar 'y ngwile i Dre-fach, Drewyddel, y *mode of transport* yr adeg 'ny wêdd mynd gyda'r postman, gyda'r Hen Forys y Post. Un bach o gorffoeth wdi i nawr, wrs gwrs, ond wên i dam' bach yn llai pryd'ny, a wê'r hen Forys y Post

yn 'y nghario i ar gefen y bag postman o Lland'och i Drewyddel. Wên i'n meddwl bo fi'n mynd i bendraw'r byd, a Mam yn rhoi wech chinog i Morys y Post am fynd â fi (C. Ladd, yn G. Griffiths, 1994, t.11).

Yn ei hysgrif 'Nosweth cyn Nadolig yn 'Nachlog-ddu', sonia Cynthia Saunders Davies am gerdded adref o dŷ cymydog yn y nos. Sylwer ar rai ffurfiau yn y dyfyniad isod nas clywir yn aml, megis *llwêr* am y lloer, lle gwelir y duedd i beidio ag ynganu'r 'oe' orgraffyddol yn y modd arferol gan roi'r pwyslais ar yr ê:

Wê'r pishyn cinta ddim in ddrwg. Wê gole'r tŷ tu ôl i fi a'r miny' agored ar ir ochor dde. Wên i'n gweld ble wên i'n mynd in iawn. Y pishyn nesa' wê'n bwên i fi – hanner milltir o feidir gaeëdig, in llawn o gisgodion ing ngole'r llwêr. Mae ofon ca'l 'y nghau miwn in lle cul wedi bod arna i erio'd, a wê'r llwêr in towlu pob math o gisgodion od ar y llwybr. Gobeitho na fuse'r gwartheg in peswch neu fe fuswn i'n meddwl in shŵr bo rhywun tu fiwn i'r claw' (C. S. Davies, yn G. Griffiths a J. Phillips, 1978, t.77).

Dengys y darnau y dyfynnwyd ohonynt uchod fod geirfa'r dafodiaith yn amrywio o un ardal i'r llall, megis defnydd R. P. James (yn G. Griffiths a J. Phillips, 1976, t.26) o'r gair *mwni* a defnydd C. S. Davies (yn G. Griffiths a J. Phillips, 1978, t.77) o'r gair *miny* am fynydd. Nid yw hyn yn anghyffredin nac yn annisgwyl wrth gwrs. Nodwyd eisoes yn y bedwaredd bennod, wrth ystyried nodweddion y dafodiaith, sut y dengys A. R. Thomas (1973) fod nifer o dermau tafodieithol am yr un gair mewn defnydd ar adegau yn y sir, ac yn gweu drwy ei gilydd o fewn plwyfi filltir neu ddwy ar wahân.

Collfernir llenyddiaeth dafodieithol gan rai beirniaid oherwydd ei phlwyfoldeb, ond mae natur y cyfrwng yn golygu bod hynny, i raddau, yn anochel (C. M. Jones, 2006a, t.94). Gellid maentumio bod y dyfyniadau uchod, a'r gweithiau eraill ar yr un testun yn y cyfrolau *Wês Wês*, yn llwyddo i gyfleu'n gelfydd, ac yn fyw, yr ardal leol a'r

gymdogaeth glòs drwy gyfrwng yr iaith a siaredir ynddi. Mae'n thema sy'n ei chynnig ei hun yn naturiol i ysgrifennu'n dafodieithol, ac i arddull rydd ac ysgafn y darnau yn y cyfrolau hyn.

### **Thema: Cymeriadau lleol**

Mae llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro yn gyforiog o gyfeiriadau at gymeriadau'r ardal, sy'n anochel; mae cerddi tafodieithol yn fodd i ddathlu ffordd y werin o fyw, yn ogystal â dathlu cymeriadau o fewn y cymunedau (C. M. Jones, 1998, t.142). Gwelir yr un duedd mewn llenyddiaethau eraill i ddisgrifio cymeriadau lleol mewn tafodiaith, megis yng ngwaith Robert Burns (1759 – 1796), bardd cenedlaethol yr Alban.

Brodor o ardal Llanboidy oedd Morgan John, ac yn ei ysgrif 'Rhai o Gimeriade Llanboidy, 'Slawer Dy', mae'n hel atgofion am y cymeriadau lliwgar a drigai yn yr ardal, cymeriadau megis Jim Gibby, Wil y Boi, Jones Bach, Thomas Llanboidy, Edwin y Lamb a Jac Pant-glas. Cymeriadau amrywiol oedd y rhain, o Jim Gibby, y ffermwr oedd yn hoff o'i ddiod, i Thomas Llanboidy, sef y Parchedig William Thomas, gweinidog gyda'r Annibynwyr. Dyma sut y disgrifir Wil y Boi:

Wêdd ffeirad newy' wedi dod i Lanboidy, 'nôl in ir ugeine a wêdd e'n mo'yn dod i 'nabod pawb mor ginted ag y galle fe. Wêdd e'n stopo i sharad â phob un wele fe. Dima fe'n cwrdd â Wil y Boi ryw nosweth in 'neud 'i ffor' lan i'r pentre ucha. Ar ôl bod in sharad â'i gily' am demed, fe ofinnodd Wil iddo: "Pwy ych chi 'te? Sana i wedi'ch gwel' chi o'r bla'n." "O, fi yw'r dyn sy wedi dod i'r ardal i ddwyn pobol o dywyllwch i oleuni," minte'r ffeirad. "Wel, wel," medde Wil, "dina ddou ddyn rhifedd sy wedi cwrdd â'i gily' heno, 'te." "Pam ych chi'n gweud 'ny?" holodd y ffeirad. "Beth yw'ch gwaith chi?" "Fi yw'r un sy'n dwyn gwa'ddodd ir ardal 'ma o dewillwch i oleuni," atebodd Wil (M. John, yn G. Griffiths, 1982, t.33).

Yr hyn a wna'r darn uchod yw amlygu'r modd yr oedd Wil yn siarad yn naturiol – trosglwyddo'r llafar i ffurf ysgrifenedig; yn wir, mae'r dafodiaith yn rhan o'r gymeriadaeth. Fel y pwysleisia Rh. Williams (1984, t.68),

gair yn gwisgo cnawd yw tafodiaith, ac fe'i ceir ar wefusau'r werin, nid mewn geiriadur. Daw llenyddiaeth â'r iaith hon yn fyw, drwy roi enghreifftiau ohoni ar waith. Serch hynny, rhaid peidio chwaith â dibrisio gwerth geiriadur tafodieithol fel modd i gofnodi a diogelu ein cyfoeth llafar, felly un o anghenion mawr Cymru yw geiriadur o'r iaith lafar er mwyn cofnodi pob gair tafodieithol, ei ystyr a'i diriogaeth (V. H. Phillips, 1985, t.125).

Cymeriad yr un mor lliwgar oedd 'Twm Weunbwll', un arall o drigolion y sir a oedd yn trin y tir, er nad ef oedd y mwyaf cydwybodol o ffermwyr. Dyma sut y'i disgrifir gan Hefin Wyn, awdur a drafodwyd eisoes yn y bumed bennod; sylwer ar ei ddefnydd o eirfa unigryw megis *panso*, *whilibowan*, *lapswchan* a *dishmil* yn y darn yma, geiriau a ddefnyddir hyd heddiw:

Ffarmo digon shimpil fel wê nhw slawer dy wê hanes Twm. Dim dileit panso, a whilibowan llwêr obiti'r clôs, a gadel i'r da a'r lloi lapswchan i gily'n hitrach na'u godro'n gison, a'u hala miwn i'r ffald ar y clôs pan wê ishe gwerthu criadur arno fe - dina'r drefen. Tiddu'n wyllt wê'r perci er bod tri ne bedwar gwas in gwitho gidag e, a gwithwr dishmil wêdd e 'i hinan amser cinhaea (H. Wyn, yn G. Griffiths a J. Phillips, 1976, t.22).

Gall y ffaith bod sillafiad geiriau tafodieithol yn medru amrywio beri dryswch i rai darllenwyr, yn enwedig y rheiny nad ydynt yn orgyfarwydd â'r dafodiaith. Gwelir enghraifft o hyn yn y darn uchod, lle ceir *whilibowan* gan Hefin Wyn, tra yn ei eiriadur *Rhint y Gelaets a'r Grug: Tafodiaith Sir Benfro*, ceir *whilibawan* gan W. Owens (2013, t.230). Yn yr un modd, gall ystyron rhai geiriau amrywio. Yn y darn a ddyfynnir uchod, dywed Hefin Wyn 'a whilibowan llwêr obiti'r clôs', gyda *llwêr* yn yr achos yma'n golygu *llawer*, ond yn ysgrif Cynthia Saunders Davies y dyfynnwyd ohoni'n gynharach, ceir 'in llawn o gisgodion ing ngole'r llwêr' yn golygu *lloer*.

Wrth gyfeirio at waith Islwyn Williams yn nhafodiaith Cwm Tawe, awgrymodd Kate Roberts 'ond gan mai pobl yw ei ddiddordeb, rywsut mae'r dull tafodieithol yn gweddu'n well, ac yn dangos ei hoffter o'i gymeriadau' (K. Roberts, 1971, t.238). Gellir dweud yr un peth am lenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro, gyda'r dull tafodieithol yn gweddu i'r dim i ddisgrifiadau o bobl. Cymerer y cymeriad 'Jac Celwi' Gole', gwrthrych y stori a ysgrifennwyd gan T. E. George. Fel nifer o'i gyfoedion, trin y tir a wnâi, a cheir disgrifiadau byw gan yr awdur o rai o rinweddau a throeon trwstan y cymeriad hwn, yn ogystal ag arferion amaethu'r cyfnod, megis cynaeafu gwair:

Tro arall wêdd e'n helpu wrth i gwair in ffarm in agos gatre. Ar ben rhic wêdd e gida un o'i gwmdogion, a rhicwr da wêdd e 'ifyd - wê digon o bwyse indo i ddamshel ir im'le lawr in galed. Ond amser wên nw 'bwti hanner pennu cwên tima hi'n dŵad i gawed o law trwste a tima'i fêt wê pen isha'r rhic in 'i baglud 'i lawr dros ir isgol a i'r glowty i gwato wedi glwchu 'dat i grwên. Ond wê Jac in aros ar 'i ben e o'r rhic in llewysch 'i grys heb ga'l dropyn o law, wê eni'n bwrw pen hwnnw'r rhic, ch'well! (T. E. George, yn G. Griffiths a J. Phillips, 1978, t.59).

Soniwyd eisoes am y farn bod ysgrifennu'n dafodieithol yn gyfystyr ag ysgrifennu lleol, ac yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen i ardal benodol. Ond gellid dadlau bod ysgrifennu lleol lawn mor bwysig ag ysgrifennu cenedlaethol, ac yn un y gellir uniaethu ag e, a bod modd ennill cynulleidfa newydd drwy ysgrifennu'n dafodieithol. Fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, i nifer o Gymry, prin fu eu cysylltiad â'r iaith lenyddol a gellid awgrymu na fyddai rhai'n dymuno ei darllen neu heb yr hyder i wneud hynny, ond y byddent, o bosib, yn darllen llenyddiaeth dafodieithol sydd wedi ei hysgrifennu yn eu hiaith hwy, ac sy'n cyfeirio at fywyd ac ardal sy'n gyfarwydd iddynt. Gall gweld ei dafodiaith ar ffurf ysgrifenedig roi gwefr i'r darlennydd: 'much of the pleasure for the readership lies in encountering their own dialect in print' (J. Hodson, 2014, t.116).

Roedd sylw Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) am stori gyffelyb o eiddo ei dad, T. E. George, sef 'Wil Stâd', a ysgrifennwyd ar gyfer y gyfrol gyntaf *Wês Wês* (1976), yn arwyddocaol felly. Datgelodd nad oedd ei dad, er yn fardd, wedi ysgrifennu mewn tafodiaith nac wedi ysgrifennu rhyddiaith cyn ysgrifennu 'Wil Stâd', ac i bobl leol ei ganmol yn aruthrol am y stori a rhoi derbyniad da iddi. Awgrymodd Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) mai'r rheswm am hynny oedd ei fod wedi 'sgrifennu i ddynion fel yn ni'n siarad', ac nad cynnwys y stori ond y dafodiaith a'r ffaith bod y llafar wedi ei gofnodi ar bapur oedd wedi plesio ei gyfoedion. Roeddent yn amlwg yn falch o'r cyfle i weld eu tafodiaith ar ffurf ysgrifenedig, a'i darllen yn hytrach na'i chlywed yn unig.

Yn yr un modd, mae sylw Gwyn Griffiths (Cyfweliad, 2015) yn atgyfnerthu'r ddadl bod modd ennill cynulleidfa newydd drwy ysgrifennu'n dafodieithol. Pan holwyd ef a yw llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa, ac ai cyfrolau i drigolion Sir Benfro yn unig yw'r cyfrolau *Wês Wês*, atebodd: 'Siwr o fod. Ond rwy'n siwr bod pobol wedi prynu a darllen *Wês Wês* nad ydyn nhw'n arferol yn darllen llawer o Gymraeg.' Er bod cyfrolau tafodieithol o'r fath yn cyfyngu'r gynulleidfa o bosib i Sir Benfro, gellid awgrymu y gallant hefyd agor eu hunain i gynulleidfa newydd yn y sir na fyddai o bosib yn darllen llyfrau Cymraeg fel arfer.

### **Thema: Yr hen ffordd o fyw**

Hel atgofion am blentyndod ym mhentref Llandudoch ym mhedwardegau'r ugeinfed ganrif a wna Joy Glyn yn ei hysgrif 'Atgofion Plentyndod'. Magwrfa amaethyddol oedd, a chofia'r ffordd o fyw a rhai o gymeriadau'r ardal, megis Pyrli Pen-riw a'i thad Jac yr Adar. Diwedd glo trist sydd i'w hysgrif pan sylweddola gymaint y mae'r ardal wedi newid erbyn heddiw, gyda thranc a dirywiad yr iaith Gymraeg yn un o'r newidiadau hyn:

Fel 'na wêdd 'i yn Lland'och 'slawer dy'. Wê plant Lland'och yn sharad Cwmrâg pry'ny, on' erbyn 'eddi 'dw i'n clwêd mai dim ond ugen y cant o blant Difed i gyd sy'n sharad Cwmrâg, a ma 'na yn dr'eni mowr (J. Glyn, yn G. Griffiths a J. Phillips, 1978, t.41).

O safbwynt sosioieithyddiaeth, a'r ffaith y gall lleferydd person newid ac amrywio yn unol â'r sefyllfa gymdeithasol y mae ynddi, noder i Joy Glyn symud ymhell o'r ardal i fyw, ac felly mae sylwadau'r golygyddion yn y rhagair i'r gyfrol gyntaf y dyfynnwyd ohonynt uchod, sef 'tueddant i addasu eu tafodiaith wrth symud allan o'u cynefin ac y mae angen eu hatgoffa o'r iaith yr arferent ei siarad' (G. Griffiths a J. Phillips, 1976, t.9) yn arwyddocaol yn yr achos yma, gyda Joy Glyn yn cael ei hatgoffa o dafodiaith ei phlentyndod wrth ysgrifennu'r ysgrif.

Yn 'Storie Cewn Gwlad ac Ambell Stori Llofft Stabal', ceir Morgan John yn cyfeirio at ffordd o fyw gwahanol gymeriadau yn y gymdogaeth, boed yn ffarmwr, gwas, gweinidog, offeiriad neu forwr. Disgrifia sut yr oedd gweinidogion yn mynd ati i ychwanegu at eu cyflogau prin. Sylwer ar y gair *biholieth*, a olyga bywoliaeth:

Wê llower o hen brigethwyr y wlad in cadw lle bach flinidde'n ôl, - wê hinny'n help at 'u biholieth pan wê cifloge'n ishel iawn. Wêdd un hen winidog in cadw gwenyn 'yfyd - wêdd llond gardd o gwche 'dag e a wê lot o waith wrthyn nw pan wê heide'n codi, in 'r haf (M. John, yn G. Griffiths, 1994, t.27).

Gellid maentumio na ddylai'r dafodiaith mewn unrhyw stori amharu ar ei rhediad, ond yn hytrach fynd law yn llaw â hi, fel yn y darn hwn. Dylai fod yn 'rhan esmwyth o'r dweud, heb dorri ar gynllun na thynnu sylw oddi ar y stori' (M. Anderson, 1998, t.120).

Yn 'Atgofion o fywyd ffarm, tua 1920-30, yn ardal Clunderwen', mae May Williams yn cloi ei hysgrif gyda cherdd sy'n diolch am y cyfle i gael



hel atgofion am yr hen ffordd o fyw a'i chyfoedion, er yr hiraeth a ddaw yn sgil hynny:

Diolch am ga'l cofio am y diddie 'slawer dy', am ga'l cofio  
rhieni a hen ffrindie ac am ga'l teimlo ambell bwl o hir'eth  
amdanyn nhw:  
Hir'eth am amser ers llawer dy',  
Hir'eth am gariad cifoedion cu,  
Hir'eth am gliwed cân y dryw,  
Hir'eth am gatre lle wên i'n byw (M. Williams, yn G. Griffiths,  
1982, t.23).

Oherwydd y tueddiad i sôn am y gorffennol a'r hen ffordd o fyw a'u dyrchafu mewn llenyddiaeth dafodieithol, y perygl yw yr ymddengys yn sentimental ac ystrydebol. Mae'r gair 'sentimental' yn hollbwysig wrth dafoli nifer o'r gweithiau yn y cyfrolau *Wês Wês* gan fod cynifer ohonynt yn cofio, yn hiraethu am ac yn clodfori'r dyddiau a fu. Er mai ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif y'u cyhoeddwyd, mae'n arwyddocaol bod cymaint o'r gweithiau yn y cyfrolau hyn yn cyfeirio'n ôl at fywyd ar ddechrau'r ganrif. Gellid dadlau bod sentimentaliaeth yn un o wendidau'r cyfrolau, felly, gyda gormod o edrych yn ôl ar y 'dyddiau da'. Tra ei bod yn wir bod rhai pethau wedi dirywio, megis yr iaith a chymdogaeth glòs, gwnaed cynnydd mewn nifer o feysydd, megis addysg ac iechyd. Fel y dywed C. M. Jones (2006a, t.94): 'wrth gwrs, nid bod yn sentimental yw ymdeimlo â'r gorffennol, ond rhaid derbyn ar yr un pryd bod sentimentaliaeth yn un o wendidau'r bardd tafodiaith.'

### **Thema: Crefydd**

Fel y nodwyd eisoes, canwyd nifer o gerddi tafodiaith yn disgrifio'r agwedd grefyddol o fywyd cefn gwlad Sir Benfro, ac fel W. Rhys Nicholas a drafodwyd yn y bennod flaenorol, ysgrifennodd Lloyd Richards am y Cwrdd Diolchgarwch yn ei ysgrif 'Pregeth Rhy Hir'. Tro trwstan a digri a ddisgrifir gan yr awdur yng nghwrdd y ddwy bregeth lle y pregethodd y gweinidog cyntaf mor hir nes y bu'n rhaid i'r ail fynd

adref heb esgyn i'r pulpud rhag diflasu'r gynulleidfa. Rhydd yr ysgrif hon i ni ddisgrifiad byw o fywyd, defodau ac arferion crefyddol yr ardal:

'Dwi'n cofio ambell dro go drwstan ynglŷn â'r Gimnafa Bwnc, ond yr un mwy digri yn 'y nghof i wêdd amser yr Ŵyl Ddiolchgarwch, adeg y cynhaea. Wêdd hinny ymhell cyn i'r lectric leit ddwâd i'r lle. Wêdd adeilad yr Eglws mor fowr a dim ond cwpwl o lampe oel ac ambell gannwill obitu'r lle a wêdd gole ddim yn dda wedi iddi diwillu. Am hinny wêdd y prif gwrdd, y Cwrdd Dwy Bregeth, yn ca'l 'i ginnal yn y prynhawn a rhyw bwt bach o wasaneth yn yr hwyr i roi copsi ar y dydd (L. Richards, yn G. Griffiths, 1982, t.54).

Sylwer yn y gair *diwillu* nodwedd yn nhafodiaith Sir Benfro i ymwrthod â'r sain dywyll y gan droi at y seiniau *i ac w* yn lle hynny. Serch hynny, gellid awgrymu na fyddai'n anodd i unrhyw ddarlennydd ddyfalu ystyr 'a wedd gole ddim yn dda wedi iddi diwillu,' er efallai bod y gair *diwillu* yn anghyfarwydd iddynt. Mae *copsi*, yn golygu terfyn neu ddiwedd, o bosib yn llai cyfarwydd.

Hel atgofion am y Parchedig D. S. Davies a'r Parchedig W. Davies a wna Morgan John yn 'Y Ddou Ddafis', dau a ddisgrifir fel 'hoelion wyth y pulpud Cymra'g' (M. John, yn G. Griffiths a J. Phillips, 1976, t.60). Disgrifir eu helyntion a'u ffraethineb:

Wê Diwygiad 1904 ar gered trwy Dde Cymru a chynhelid cwrdde gweddi a phregethu ym mron bob capel gan yr enwade anghydfurfiol. Ond wêdd eilode capeli Dafis ddim yn dangos yr un awydd o gwbl, a chyhuddwd Dafis gan 'i frodyr yn y weinidogeth o fod yn hwyrfrydig at y mudiad. "Pryd wyt ti'n mynd i ddachre cadw cwrdde gweddi?" holodd rhai ohonyn nhw iddo un dwarnod. "So ti'n moyn dod i'r Nefodd gida ni?" "Wdw, wdw," atebodd Dafis, "rwy'n gobeitho dod, ond sana i'n leico'r 'excursions' mowr 'ma, ma rhwbeth yn digwydd yn amal arnyn nhw (M. John, yn G. Griffiths a J. Phillips, 1976, t.61).

Roedd yn hen arferiad mewn capeli anghydfurfiol i ddiarddel aelodau os oeddent wedi cyflawni rhyw drosedd anfaddeuol neu'i gilydd, yn nhyb eu swyddogion. Yn y darn 'Atgofion Ifan Owens, Gof, Rhos-hyl', mae yntau'n sôn am un o'r digwyddiadau hynny, sydd bellach wedi dod i ben:

Dwi'n cofio rhyw ddou grwt ifanc in yr eglws, ddim pell o 'ma, wedi neud rhwbeth ma's o le, a wê dou o'r deconied fan hyn a wên nhw'n gofyn i Nhad beth wê ore i neud. Chi'n gwbod fel ma rheole'r eglws wedi mynd in wannach, wannach o hyd, ond wên nhw'n gryf pry'ny. Wên nhw wedi trefnu bidde nhw fel deconied in torri'r ddou grwt ma's, a wedyn in gofyn i Nhad beth wê ore. 'Wel, weda i wrthoch chi', minte Nhad, 'dwi'n gifarwydd iawn â ceffile ifenc, a torri rheini *miwn* inni'n neud, nid torri nhw *ma's*. A fel'na ddile'r eglws 'i neud' (I. Owens, yn G. Griffiths, 1994, t.47).

Disgrifio ei phrofiad o dreulio Sul y Pasg yn yr Eidal wna Eirlys Charles yn ei hysgrif 'Dathlu yn Fflorens'. Cyfeiriwyd eisoes at sylw G. M. Awbery (1991, t.38) fod enghraifft yng ngherdd W. Rhys Nicholas 'Dydd Diolchgarwch' o 'groesi o diriogaeth arferol y dafodiaith', gan mai'r iaith safonol a glywir fel arfer yn y capel tra cedwir y dafodiaith at faterion ysgafnach. Dyma Eirlys Charles yma'n croesi'r un diriogaeth yn ei hysgrif hithau:

Fe ddachreuodd gwasaneth yr offeren a finne'n meddwl yn siŵr yn bod miwn am gifer weddol hir gan fod y rhagarweiniad wedi cwmryd rhyw awr a hanner yn barod. Wê'r sŵn o'r tu fa's yn dwâd miwn yn donne i whyddo'r sŵn wê'n dala yn yr eglws ac erbyn hyn wê'r bobol yn sefyll ar ben y sete a'r plant yn ishte ar 'sgwydde'u tade. Reit o'm bla'n i wê lleian miwn gwishg lwyd yn penlinio ar gewn un o'r sete, 'i sgidie wedi 'u tinnu a'u rhoi yn deidi o dan y sêt (E. Charles, yn G. Griffiths, 1982, t.18).

Un o'r cwestiynau a brociwyd yn ystod y gwaith ymchwil hwn oedd a ellid ysgrifennu mewn tafodiaith ar unrhyw destun, gan gynnwys crefydd. Roedd gan Eirlys Charles (Cyfweliad, 2015) farn bendant wrth ystyried ei hysgrif ar ei phrofiad yn Fflorens: 'achos wên i'n meddwl bod

y Fflorens 'na ddim yn addas, wedi drychyd nôl arno,' gan awgrymu efallai, am ei bod yn sôn am y Pasg, y dylid fod wedi ysgrifennu mewn iaith fwy parchus. Roedd yn amlwg bod hyn wedi ysgogi Eirlys Charles i feddwl am y mater ymhellach gan y derbyniwyd nodyn oddi wrthi rai dyddiau wedi'r cyfweliad:

Petrusais ynglŷn ag addaswydd sgrifennu 'Fflorens' mewn tafodiaith a chredais mai amarch falle tua'r eglwys oedd y rheswm. Wedi pendroni penderfynais nad hyn oedd y rheswm ond fy mod yn credu bod tafodiaith yn fwy addas i destunau ysgafn a doniol a deialog. Digwyddiad rhyfedd oedd 'Fflorens', nid un doniol. Ac mae digon o bethau doniol wedi digwydd mewn capeli a fyddai'n gwbl addas mewn tafodiaith (Eirlys Charles, gohebiaeth yn dilyn Cyfweliad, 2015).

Canwyd am grefydd mewn tafodieithoedd eraill, megis yng ngherdd Dafydd Rowlands 'Ar Ddydd Gwener y Groclith' yn nhafodiaith Cwm Tawe. Er iddo ddweud, wrth ddisgrifio ei iaith lafar dafodieithol, 'gwahanol, wrth gwrs, oedd iaith capel ac ysgol Sul, ond mae fy nyled i'r cyfrwng coeth hwnnw hefyd yn anfesuradwy' (D. Rowlands, 1995, t.7), gwêl y dafodiaith yn gyfrwng addas i ddisgrifio diwrnod sanctaidd yn y calendr Cristnogol.

Gellid dadlau mai chwithig yw darllen am hanesion yn ymwneud â chrefydd mewn tafodiaith gan mai â iaith safonol y cysylltir hi fel arfer. Wedi dweud hynny, defnyddir iaith fwy tafodieithol yn y pulpud bellach, ac fel y dywed G. ap Gwilym (2006, t.65) wrth holi pwy sy'n gwarchod yr iaith safonol erbyn hyn, mae dyddiau dylanwad y pulpud ar ein hiaith ar ben yn sgil y trai ar grefydd yng Nghymru.

Afraid dweud bod y farn ynglŷn â themâu amlwg ac addas ar gyfer llenyddiaeth dafodieithol yn amrywio. Credai Idris Reynolds (Cyfweliad, 2014) fod canu tafodieithol yn ymwneud â'r tirwedd, felly mae ei feddylfryd yntau yn cyd-fynd â'r themâu a welir yn y cyfrolau *Wês Wês*,

sef yr ardal leol a'i phobl. Cymeriadau, y tirlun a chefn gwlad yn hytrach na phynciau gwyddonol fyddai'n addas ar gyfer ysgrifennu'n dafodieithol ym marn Hefin Wyn (Cyfweliad, 2014). Barn debyg oedd gan Wyn Owens (Cyfweliad, 2014) a gredai mai natur, y gymdogaeth, y themâu cymdeithasol a chyfarch pobl yw'r themâu amlwg, am fod y dafodiaith a'r gymdeithas yn mynd law yn llaw â'i gilydd.

Ar y llaw arall, awgrymodd Ceri Wyn Jones (Cyfweliad, 2014) fod y sawl sy'n ysgrifennu mewn tafodiaith yn unig yn ysgrifennu ar bob thema a phwnc, ond bod awduron fel yntau, sy'n symud o'r llafar i'r llenyddol, efallai'n fwy gofalus ac ymwybodol o'u defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth. Wedi dweud hynny, roedd yn gobeithio na fyddai gan unrhyw awdur ofn defnyddio tafodiaith mewn cerddi a phynciau difrifol, gan ddweud: 'dwi'n gobeithio na fydde rhywun yn gweud 'a, nawr, allai ddim defnyddio tafodieth pan dwi'n ysgrifennu o ddifri'' (Ceri Wyn Jones, Cyfweliad, 2014). Gellid maentumio felly mai'r awdur sydd i benderfynu a yw tafodiaith yn addas ar gyfer y testun o dan sylw a'r hyn sydd ganddo i'w fynegi.

### **Thema: Digwyddiadau cymdeithasol**

Hel atgofion am noson y ffair a wna T. E. George yn ei gerdd 'Ffair Ma'nlochog', digwyddiad pwysig yn y calendr blynyddol yng nghefn gwlad. Cyfle i gymdeithasu, i gyfarfod â hen ffrindiau, ac i gael seibiant o drin y tir ydoedd, ac fe'i disgrifir fel noson llawn hwyl a rialtwch:

Wê'r lle in llawn goleuni,  
Nosweth ffair,  
A randibw a gweiddi,  
Nosweth ffair,  
Stondine wedi llenwi  
I pentre pentigily'  
A'r dirfa'n gweu trwy'i gily',  
Nosweth ffair,  
A sawl un wedi meddwi,  
Nosweth ffair (T. E. George, yn G. Griffiths, 1982, t.43).

Llwyddodd y bardd i lunio cerdd syml, heb unrhyw ymgais i orliwio na thynnu sylw gormodol at y dafodiaith, ac felly gellid awgrymu ei bod yn eithaf dealladwy i unrhyw ddarllenlydd. Er bod geiriau megis *randibw* yn anghyfarwydd i rai, hawdd dyfalu mai sŵn neu dwrw mawr yw ei ystyr. Er ei symlrwydd mae'r gerdd, fel nifer o'r gweithiau yn y cyfrolau hyn, yn gerdd gyfoethog o ran manylion a rydd i ni ddarlun byw o hwyl a bwrlwm noson ffair mewn pentref cefn gwlad yng nghanol yr ugeinfed ganrif (C. M. Jones, 1998, t.140).

Digwyddiad tebyg yw Dydd Sadwrn Barlys a gynhelir yn flynyddol yn nhref Aberteifi, ychydig filltiroedd i'r gogledd o Sir Benfro. Arddangosfa o geffylau drwy strydoedd y dref a geir ar y diwrnod hwn, ac yn wahanol i Ffair Maenclochog, y mae'n parhau i gael ei chynnal heddiw. Yn ei gerdd 'Dy' Sadwrn Barlish', mae Ieuan James, un o drigolion Sir Benfro, yn hel atgofion am fynychu'r digwyddiad:

'Slawer dy', fe welechi'r ciffile mowr, w,  
Ond nawr ma'r rhan fwya'n giffile cowrw.  
A mae'n werth i chi gweld nw yn ribyn-di-res  
Yn dod trw'r Main Street gida'u bwcle pres;  
Er bo dyn yn diolch i drefen pethe  
Na 'dyw dyn o hyd ar drigaredd ciffile.  
Wê dyn yn teimlo ryw rwbeth fel hireth  
Wrth bod e'n 'u gweld nw unweth lweth (I. James, yn  
G. Griffiths a J. Phillips, 1976, tt.52-53).

Fel yr oedd Ffair Maenclochog yn ddigwyddiad cymdeithasol i T. E. George, yr oedd Dydd Sadwrn Barlys i Ieuan James, ac ar ddiwedd ei gerdd edrycha ymlaen at yr un gyfeillach y flwyddyn nesaf, sy'n profi nad yw ffermio mecanyddol a'r defnydd o beiriannau mawr yn hytrach na cheffylau wedi llwyr ddinistrio'r gymdeithas glòs a geir yn ardal y Preselau (C. M. Jones, 1998, t.141). Yr unig nodyn trist yw y bydd pawb wedi heneiddio flwyddyn erbyn y gyfeillach nesaf:

Fe fyddan nw nôl Sadwrn Barlish nesa  
Gida'r un cari-on â dy' Sadwrn diwetha,  
A rywshap neu gily fe gewn ni gifeillach  
Er biddwn ni gyd un geia yn henach (I. James, yn G. Griffiths  
a J. Phillips, 1976, t.53).

Gellid dadlau bod tafodiaith yn gweddu i'r dim i lenyddiaeth sy'n cyfeirio at ddigwyddiadau cymdeithasol, gan ei bod yn cyfleu yr iaith a siaredir wrth i'r trigolion lleol gymdeithasu â'i gilydd. Llwydda i amlygu pwysigrwydd cymdeithasol iaith a'n treftadaeth gymdeithasol.

### **Thema: Troeon trwstan a doniol**

Fel y tystiwyd eisoes mewn penodau blaenorol, ceir cysylltiad rhwng comedi a thafodiaith mewn gweithiau llenyddol, ac nid yw llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro yn eithriad. Awgrymodd E. George (2011, t.42): 'beth sy'n well na thafodiaith i greu doniolwch?' Er y cyswllt amlwg hwn, gellid dadlau bod y sylw, i raddau, yn dibrisio ac yn tanadlewyrchu lle tafodiaith mewn llenyddiaeth, gan fod iddi rôl ehangach na hynny, fel y dangosir ymhellach yn yr wythfed bennod.

Ymddangosodd y stori 'Cawl' gan T. J. Jenkin yn y cylchgrawn *Y Wawr* yn 1917, ac fe'i cyhoeddwyd eto yn y gyfrol *Wês Wês - Wêth* yn 1978. Disgrifir ffermwr yn ceisio berwi cawl i ginio tra bod ei wraig Mari yn y farchnad, ond heb gael llawer o hwyl arni. Ceir yn y darn hwn yr holl elfennau disgwylidig, sef cefndir gwledig, cymeriadau diymhongar a sefyllfa naturiol ddoniol (G. M. Awbery, 1991, t.30):

Pan ddachreuo'r cawl ferwi 'lwêth, wê rhaid 'drych shwt olwg wê arno, a treio ca'l gweld a wê'r tato'n ddigon. Fe weles ar unwaith bo rhwbeth ma's o le. Wê'r cawl jwst bod in eitha gleiw, a wrth gwrs fe gofies ta' ishe blawd wê indo. Wên i'n gw bod bo blawd circh a blawd barlish 'da ni, a wên i'n gw bod le wê Mari'n cadw nw, ond p'un wê at roi at cawl, a faint wê ishe? (T. J. Jenkin, 1917, yn G. Griffiths a J. Phillips, 1978, t.64).

Sôn am drip Merched y Wawr o Faenclochog i Borthcawl a wna May Williams yn y stori 'Owtin y Minwod' a'r troeon trwstan a brofwyd yn ystod y dydd. Mae'r gair *pŵer* yn air Cymraeg cyfarwydd i bawb, ond yn Sir Benfro (ac mewn ardaloedd eraill), y mae iddo ystyr arall yn ogystal, sef *llawer*, ac mae'r gair *crintachu*, yn golygu cwyno, yn un diddorol:

Bant â'r cart wedyn, am Ca'rFYRDDIN. Ond dima'r dreifer in gweud bo ishe petrol in y tanc, a llenwodd e hyd y fyl. Ond gida bo ni'n simud, 'wow', wê Marie ddim gida ni. Ond wedes i bo digon o wmed 'da Marie i rwbeth. Erbyn hyn wê gwraig y gweinidog in dachre cintachu, a 'Mei Ledi' 'fyd, a ma's â nhw i whilio amdani. Ond, bois bach, geson ni bŵer o drafferth cyn ca'l Marie nôl tro hyn, wa'th we rogle'r pibrod wedi troi'n eitha gwan, a Marie druan 'run peth, dwi'n shŵr (M. Williams, yn G. Griffiths, 1994, t.84).

Sylwer ar ddechrau'r darn yma mai 'am Ca'rFYRDDIN' a ddywedir yn hytrach nag 'am Ga'rFYRDDIN.' Cymharer hyn â J. Ogwen (2007, t.9) y cyfeiriwyd ati yn y bennod flaenorol a esboniodd nad oedd yn treiglo bob tro, gyda 'yn Crymych' ac 'i Crymych' yn ymddangos drwy gydol ei hunangofiant. Fel yr awgrymwyd eisoes, ni ddylai ysgrifennu tafodieithol fod yn gyfystyr ag ysgrifennu gramadegol anghywir. Wrth fynegi pryder am safonau iaith, dywed R. Powell (2011, t.12): 'yn yr iaith lafar gyfoes clywn nifer gynyddol o gam-gystrawennau, hyd yn oed yn iaith siaradwyr rhugl a hyderus.' Meddylier am y patrwm treiglo a glywir yn aml erbyn hyn, gan gynnwys ar y cyfryngau, gydag 'yn Gaerdydd', 'yn Gaernarfon' ac 'yn Gymru' yn ymddangos yn aml fel y norm erbyn heddiw, er mor ansafonol ydyw. Hynny yw, mae treigladau meddal wedi datblygu ar ôl yr arddodiad yn mewn Cymraeg llafar (D. G. Jones, 1988, t.140). Gwelir yr un ffurfiau ansafonol o ran diffyg treiglo enwau lleoedd yn yr iaith dafodieithol *ysgrifenedig* yn achlysurol a ddengys bŵer yr iaith lafar a'i dylanwad ar y ffurf ysgrifenedig.



Defnyddio'i dafodiaith i gyfleu doniolwch a wna Reggie Smart yn ei stori 'Prish y Bacwn', lle y disgrifia Leisa a Twm yn cadw mochyn a'r maldod a roddai Leisa i'r mochyn hwnnw. Arweiniodd hyn at ddigwyddiad anffodus ryw ddiwrnod pan alwodd y Gweinidog yn ddjarwybod ar Leisa; gwelir nifer o eiriau diddorol yn britho'r stori, megis *chwêl*, a olyga *arffed / lap*:

Nawr, fe anghofies i 'weud wrth Leisa fod y Gweinidog yn dod lan i weld y mochyn a pha mor drefnus wê ni'n cadw'r dom. Bore dy' Llun pan alwodd e a chnoco'r drws wêdd Leisa a'r mochyn bach 'da hi ar 'i chwêl. Pan gliwodd Leisa'r ffusto ar y drws, fe wylltodd yn lân a towlu'r mochyn bant o'i chwêl. Fe ga's hwnnw shwt ofon fe fwrodd e'n erbyn y ford nes bod y llestri brecwast dros y llawr i gyd. Pan gliwodd y Gweinidog y sôn ofnadw fe wylltodd yn lân a rhedeg i'r ciosg a deialo 999 a gweiddi lawr trw'r ffôn bod lladron yn y tŷ (R. Smart, yn G. Griffiths, 1982, tt.65-66).

### **Gorliwio'r dafodiaith?**

Mae hyd a lled y dafodiaith yn y gweithiau y dyfynnwyd ohonynt uchod o dan bob thema yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, gellid awgrymu bod y dafodiaith yn ysgrif Cynthia Saunders Davies 'Nosweth cyn Nadolig yn 'Nachlog-ddu' yn gryf iawn, ac yn anos i'w deall o bosib na gweithiau eraill, megis stori Reggie Smart 'Prish y Bacwn'. Gan mai darnau gwneud yw'r mwyafrif yn y cyfrolau hyn, gellid awgrymu bod rhai awduron, o bosib, wedi cymryd y cyfle i arddangos y dafodiaith. Canlyniad amlwg hyn yw y gall dynnu sylw oddi ar y stori.

Cyfeiriwyd eisoes at y perygl o greu arddangosfa o deithi tafodiaith a gorlwytho cerddi â nifer sylweddol o nodweddion a bod llenyddiaeth dafodieithol yn gofnod ffug i raddau, gan nad yw o anghenrheid yn adlewyrchu'r iaith fyw. Ceir yr argraff yn rhai o'r darnau yn y cyfrolau *Wês Wês* bod yr awduron yn gwneud ymdrech bwrpasol i orliwio'r dafodiaith, tra bod eraill yn ei chyflwyno'n fwy naturiol, megis yn y pennill isod:

“Cei di fynd i’r miny’ fory,”  
Medde Mam y dydd o’r bla’n,  
Ond sa’ i byth ’di gweld y miny’  
A ’dw i wedi danto’n lân (R. P. James, yn G. Griffiths a  
J. Phillips, 1978, t.76).

Er mwyn procio’r dybiaeth hon ymhellach, holwyd un o’r golygyddion, Gwyn Griffiths (Cyfweliad, 2015), a oedd cysondeb yn y modd y cyflwynwyd y dafodiaith yn y cyfrolau, a oedd yn union fel y siaredir hi, neu a oedd rhai wedi gorliwio ychydig? Ei ateb oedd:

Rwy’n siwr bod pobol yn gorliwio, a pham lai. Mi ddweden i bod tipyn o or-liwio yn ‘Pwllderi’! Mae’n un ffordd o roi rhai geirie, dywediadau a phriod-ddulliau lawr ar gof a chadw. Mae gofyn i bobol sgrifennu rhywbeth yn hytrach na’u recordio nhw yn rhoi mwy o amser iddyn nhw feddwl, a rwy’n meddwl falle bod siawns gyda chi i gael peth mâs ohonyn nhw na fyddech chi’n gael o’u recordio nhw. Wrth gwrs, mae hon yn ddadl oesol. Beth ydyn ni’n moyn? Stori dda a falle darn o lenyddiaeth neu rhywbeth gwyddonol gywir (Gwyn Griffiths, Cyfweliad, 2015).

Ar y naill law, gellid dadlau y dylai awdur tafodieithol ysgrifennu yn ei dafodiaith ei hun, gan ddefnyddio’r geiriau y mae’n eu harddel bob dydd, a hynny er mwyn bod yn driw i’w iaith lafar; gall ymddangos yn chwithig bod awdur yn defnyddio geiriau nad yw’n eu harddel yn naturiol. Ar y llaw arall, gellid deall y farn bod gorliwio yn ffordd o gofnodi geiriau, dywediadau a phriod-ddulliau. Maent yn bodoli yn y dafodiaith, nid geiriau gwneud ydyn nhw, felly mae’r awydd i’w cofnodi, er nad yw’r awdur o bosib yn eu defnyddio bob dydd, yn ddealladwy. Rhydd llenyddiaeth dafodieithol lwyfan i arddangos y dafodiaith a’i gorliwio er mwyn dangos y cyfoeth geirfaol a berthyn iddi, gan gynnwys geiriau nas clywir yn aml ar lafar heddiw.

Mae sylw Gwyn Griffiths ynglŷn â ‘stori dda’ neu ‘rhywbeth gwyddonol gywir’ yn un pwysig. Gellid maentumio mai amcan unrhyw awdur yw creu stori dda, ac yn achos yr awdur tafodieithol mae’n dewis y geiriau

mwyaf addas i wneud hynny, er nad ydynt bob amser o angenrheidrwydd yn cael eu defnyddio bob dydd.

### **Gwerth y cyfrolau *Wês Wês***

Gellir dadlau bod gwerth aruthrol i'r cyfrolau *Wês Wês* am nifer o resymau. Yn bennaf, mae iddynt werth ieithyddol gan eu bod yn arddangos nodweddion a geirfa'r dafodiaith a ddisgrifiwyd yn y bedwaredd bennod. Maent yn gofnod o'r dafodiaith ac o'r ffordd naturiol y'i defnyddid hi bob dydd, ac felly'n archif dafodieithol. Yn ogystal, mae iddynt werth hanesyddol a chymdeithasol gan eu bod yn cofnodi ffordd o fyw, yr ardal leol, ei chymeriadau a'i thraddodiadau.

Datgelodd Wyn Owens (Cyfweliad, 2014) i'r cyfrolau *Wês Wês* fod o werth amhrisiadwy iddo wrth lunio ei eiriadur *Rhint y Gelaets a'r Grug : Tafodiaith Sir Benfro* (2013), ac iddo ddod ar draws geiriau newydd ynddynt. Bu'r cyfrolau, felly, yn fodd ac yn gymorth iddo gofnodi'r geiriau hyn a'u hystyr cyn i rai ohonynt ddiplannu o ddefnydd bob dydd.

Awgrymwyd eisoes yn y bumed bennod bod llenyddiaeth dafodieithol yn mynegi teimlad o berthyn a hunaniaeth, a thrwy ysgrifennu'n dafodieithol bod awdur yn dangos i'r darllenydd bod ganddo ei iaith ei hun, ac nad oes ganddo ofn i'w fynegi ei hun drwy'r iaith honno. Yr oedd sylw Ceri Wyn Jones (Cyfweliad, 2014) yn atgyfnerthu'r farn honno pan ddywedodd fod y cyfrolau'n ymwneud ag ymhyfrydu mewn tafodiaith; cred fod trigolion gogledd y sir yn rhoi bri ar eu tafodiaith ac yn falch ohoni, a hynny mwy nag ardaloedd eraill yng Nghymru. Awgryma fod hyn o bosib yn 'ymwneud gyda'r ymwybyddieth gref iawn o werth diwylliant a gwerth iaith' (Ceri Wyn Jones, Cyfweliad, 2014). Rhydd yr awdur tafodieithol werth ar yr iaith honno.

O ystyried y balchder hwn yn nhafodiaith y sir, nid annisgwyl oedd sylw'r golygydd Gwyn Griffiths (Cyfweliad, 2015) am yr ymateb i'r cyfrolau pan

ddywedodd: 'yn bendant y bu croeso mawr iddyn nhw. Rwy'n credu iddyn nhw wneud i bobol sylweddoli bod ganddyn nhw dafodiaith gyfoethog a lliwgar y dylsen fod yn falch ohoni.' Cytuna Mererid Hopwood bod gwerth i'r cyfrolau pan ddywed:

Mae gweithiau fel hyn yn werthfawr am eu bod yn diddanu. Maen nhw hefyd yn fodd o gadw rhai geiriau ac ymadroddion tafodieithol yn fyw – neu gadw'r cof amdanynt yn fyw o leiaf. Maen nhw hefyd yn rhoi statws i'r dafodiaith, a thrwy hynny'n rhoi hyder i siaradwyr y dafodiaith honno (Mererid Hopwood, *Cyfweliad*, 2014).

Gwneir nifer o bwyntiau diddorol yma. Yn gyntaf, y gair 'diddanu'; gellid maentumio bod llenyddiaeth dafodieithol yn medru diddanu cymaint ag y gwna llenyddiaeth mewn iaith safonol. Yn wir, gall llenyddiaeth dafodieithol ddiddanu fwy yn achos y bobl hynny sydd yn well ganddynt ddarllen yn eu hiaith eu hunain, eu hiaith bod dydd. Mae'r gair 'statws' hefyd yn un arwyddocaol; cysylltir llenyddiaeth yn draddodiadol ag iaith safonol, ond rhydd llenyddiaeth dafodieithol statws i dafodiaith, a hynny gan yr awduron a gred ei bod yn haeddu cael ei chofnodi. Rhoddir statws iddi drwy ei chyhoeddi, a thrwy hynny gydnabod bod iddi le rhwng cloriau llyfr.

Rhaid hefyd ystyried gwerth llenyddol y cyfrolau *Wês Wês*. Afraid dweud bod safon y cynnyrch yn amrywio, gyda rhai gweithiau'n well na'i gilydd o ran arddull a mynegiant. Rhaid cofio mai awduron 'amatur' oedd nifer fawr ohonynt, heb ysgrifennu dim na chynt nac wedi hynny (oherwydd na chawsant gyfle neu ddiffyg hyder o bosib), ac, felly, ei bod yn hollol anorfod nad yw pob un ohonynt yn cyrraedd yr uchelfannau yn llenyddol. Ond, gan mai amcan y cyfrolau yw cyflwyno a chofnodi'r dafodiaith, yn hytrach na chyflwyno llenyddiaeth uchel-ael, gellid maentumio mai eu gwerth ieithyddol yw eu gwerth pennaf.

## Cyfrolau tafodieithol eraill

Gellid dadlau bod y cyfrolau *Wês Wês* yn unigryw gan mai prin iawn yw cyfrolau tafodieithol o'r fath yn y Gymraeg. Ceir rhai enghreifftiau yn y Saesneg, megis *The Dialect of the West of England* (1869), *Yorkshire Dialect Poems* (1917), *Cornish Tales* (1923) ac, yn fwy diweddar, *Ey up mi duck!: Dialect of Derbyshire and the East Midlands* (2000).

Yn ei ragair i'r gyfrol *Yorkshire Dialect Poems*, dywed y golygydd, F. W. Moorman (1917, t.xix), nad oes yr un corff o gerddi tafodieithol yn haeddu ei chasgliad ei hun yn fwy na cherddi Swydd Efrog, gan fod barddoniaeth dafodieithol y sir honno yn fwy o ran maint ac amrywiaeth nag unrhyw sir arall yn Lloegr. Diddorol yw ei sylw bod cyfodiad yr idiom Saesneg Safonol wedi chwalu llenyddiaeth dafodieithol, ond mai tafodiaith Swydd Efrog oedd y gyntaf i frwydro'n ôl a hawlio ei lle mewn barddoniaeth. Cyfeiriwyd eisoes yn y bennod gyntaf at y ffaith mai un o'r mathau pwysicaf o Saesneg yw'r dafodiaith a adwaenir fel Saesneg Safonol, a ystyrir yn aml yn 'Saesneg cywir.' Y mae'r cerddi tafodieithol hyn, felly, yn herio'r drefn ieithyddol, ac mae 'hawlio ei lle mewn barddoniaeth' yn sylw pwysig.

Cyfeiriwyd eisoes at Mike Jenkins, sy'n ysgrifennu'n Saesneg yn nhafodiaith Merthyr Tudful. Ymhlith ei gyhoeddiadau tafodieithol mae'r cyfrolau *Graffiti Narratives* (1994), *Coulda Bin Summin* (2001), *Barkin!* (2013), a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn Cymru 2014, a *Sofa Surfin* (2017). Athro a aned yn Aberystwyth yw, a dywed y bu'n rhaid iddo ddysgu'r dafodiaith er mwyn goroesi pan symudodd i Ferthyr i fod yn athro yn yr ysgol uwchradd leol (M. Jenkins, 2013). Fel yn y cyfrolau *Wês Wês*, ceir yma bortreadau byw o'r ardal a'r bobl leol, yn yr iaith leol, er eu bod dipyn yn fwy cyfoes a chignoeth. Diddorol, felly, yw sylw C. Shaw (2013) yn ei adolygiad o'r gyfrol *Barkin!:* 'this collection demonstrates what a rich vein Mike is working and provided you can cope with the dialect, will provide chuckles, inspiration and food for

thought.’ Noder ei sylw negyddol ‘cope with the dialect’, awgrym ei bod yn gryf, ei bod yn ymdrech i ymgyswrtu â hi, neu ei bod yn anodd i’r darllenwyr hynny y tu allan i Ferthyr ei deall, a’i gyfeiriad at hiwmor, sef y sylwadau cyffredin am lenyddiaeth dafodieithol y cyfeiriwyd atynt eisoes.

Yn ail ran y bennod hon, ystyrir cyfrolau sydd naill ai yn tarddu o Sir Benfro neu wedi eu seilio yno, neu wedi eu hysgrifennu gan awduron a aned neu a fu’n byw yn y sir ar ryw adeg yn eu bywyd, ac yn cynnwys rhai gweithiau mewn tafodiaith.

### **Beirdd Penfro ~ 1961**

Yn 1961 cyhoeddwyd y gyfrol *Beirdd Penfro* a olygwyd gan W. Rhys Nicholas, awdur tafodieithol a ystyriwyd yn y bumed bennod. Cynhwysir ynddi gerddi gan un ar bymtheg o feirdd a aned yn Sir Benfro ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau’r ugeinfed ganrif. Dywed y golygydd am y beirdd hyn:

Y mae’n amheus gennyf a gafwyd mewn unrhyw fro yng Nghymru dwr o brydyddion rhagorach na’r beirdd o Benfro a fu’n canu yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, a chynifer ohonynt yn feirdd y gŵyr y genedl amdanynt (W. Rh. Nicholas, 1961, t.9).

Er y dywed y golygydd mai brogarwch a chyfeillgarwch yw’r elfennau a gyffrôdd awen y beirdd yn bennaf (W. Rh. Nicholas, 1961, t.9), nid bro a chyfeillion Sir Benfro o angenrheidrwydd yw’r rheiny, gan y ceir yn y gyfrol gerddi am ardaloedd a mannau gwahanol yng Nghymru megis Trawsfynydd, Yr Wyddfa, Bro Morgannwg ac Afon Menai, a phobl nad dynt yn drigolion y sir, megis Ann Griffiths, Richards Hughes Glan Conwy, Williams Pantycelyn a T. Rowland Hughes. Mae’r cerddi sy’n sôn am fro a thir Sir Benfro serch hynny yn rhai gafaelgar a thrawiadol,

megis cerdd Idwal Lloyd a aned yn Rhehoboth ger Mathri, sef 'Bro fy Ngeni', ac englyn Tommy Evans a aned yn Nhegryn, sef 'Y Preselau'.

Cynhwysir dwy gerdd mewn tafodiaith yn y gyfrol hon, sef 'Nosweth y Ffair' gan W. R. Evans a 'Dydd Diolchgarwch' o eiddo golygydd y gyfrol, W. Rhys Nicholas. Dywed y golygydd (W. Rh. Nicholas, 1961, t.9) mai ef a fu'n gyfrifol am ddethol o waith y beirdd i'w cynnwys yn y gyfrol, ac o ystyried cyfraniad W. R. Evans i lenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro, nid yw'n annisgwyl bod cerdd dafodieithol ymhlith y detholiad o'i waith.

Yn y gerdd 'Nosweth y Ffair', mae'r bardd yn hen ŵr dychmygol na chafodd flas ar fywyd wedi claddu ei wraig, ond sy'n cael ei berswadio gan ei fab a'i ferch yng nghyfraith i fynd gyda nhw i'r ffair sy'n ymweld â'r pentref unwaith y flwyddyn:

Gan taw shwrne miwn blwyddyn we'r ffair in dwâd  
Fe'i bagles hi bant trw'r holl steics we dan drâd  
l'r parc lle we'r miwsig a'r pwdel a'r mwd,  
A lle we'r whelps ifenc in enjoio'n gwd.  
Jiw safion! Na le! Y potreli a'r swings  
A'r jwge jentîl we am dowlu rings,  
A whampen o gloch in canu lan fry,  
A'r whilgrwts in fforso in biws ac in ddu (W. R. Evans, yn  
W. Rh. Nicholas, 1961, t.52).

Rhydd y gerdd ddisgrifiad o fywyd cymdeithasol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif mewn digwyddiadau megis y ffeiriau a oedd yn ymweld â phentrefi'n flynyddol, fel y nodwyd eisoes wrth ystyried y cyfrolau *Wês Wês*. Mae'r ffaith bod y gerdd mewn tafodiaith yn ychwanegu at ei hagosatrwydd ac yn rhoi blas i ni ar yr iaith a siaradai yr ymwelwyr â'r ffair â'i gilydd, yn ogystal ag ychwanegu at yr awyrgylch a grëir o hwyl a rhialtwch y noson. Fel yr amlygwyd yn y bedwaredd bennod, ceir enghreifftiau mewn tafodiaith o eiriau sydd ag ystyr hollol wahanol iddynt mewn ardaloedd eraill; un o'r rhain yw'r gair *shwrne* yn y gerdd hon, a olyga unwaith yn hytrach na thaith.

Llwydda'r ail gerdd dafodieithol yn y gyfrol, sef 'Dydd Diolchgarwch', i roi disgrifiad i ni o fywyd crefyddol trigolion Sir Benfro ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Cyfeiriwyd ati eisoes yn y bumed bennod wrth ystyried y bardd W. Rhys Nicholas; crybwyllwyd awgrym C. M. Jones (1998, t.139) ein bod yn gweld yn y gerdd, fel nifer o rai eraill yn nhafodiaith Sir Benfro, y bardd yn siarad dros ei gymdeithas yn hytrach nag yn siarad fel unigolyn sy'n chwilio am ei hunaniaeth ei hun. Gwelir hefyd groesi o'r diriogaeth arferol drwy ddefnyddio'r dafodiaith i drafod thema grefyddol:

'Welodd neb ddim pertach prygethwr  
Yn cered stâr pwlpudd ariôd,  
A fe safodd o'n blân ni fel pictwr, -  
"Hoelen fowr," mintwn i, "shŵr o fod."  
Fe glŵes Dacu'n gweud am rheini  
Bo'n nhw'n itha bethe bob un,  
Yn gweud am Farn Fowr, ac yn gweiddi  
Bo' dw'nshwn yn Uffern i ddyn (W. Rh. Nicholas, yn  
W. Rh. Nicholas, 1961, t.110).

Mae'n arwyddocaol fod y golygydd wedi dethol cerdd dafodieithol i fod ymhlith yr wyth cerdd o'i eiddo ef a geir yn gyfrol hon, gan awgrymu pwysigrwydd y gerdd dafodieithol yn ei farn ef. Mae'r ddau fardd a'u cerddi hefyd yn adnabyddus ac felly gellid awgrymu ei bod yn naturiol eu cynnwys mewn cyfrol o'r math.

### **Blodeugerdd y Preselau ~ 1995**

Yn 1995 cyhoeddwyd y gyfrol *Blodeugerdd y Preselau* dan olygyddiaeth Eirwyn George. Yn ei ragair, esbonia'r golygydd i draddodiad barddol gogledd Sir Benfro ddod i'w lawn dwf yn ystod yr ugeinfed ganrif, ac mai carreg filltir bwysig yn hanes y traddodiad hwnnw oedd cyhoeddi'r gyfrol *Beirdd Penfro* yn 1961. Gwêl y gyfrol hon fel parhad i'r traddodiad hwnnw.



Prif bwrpas y gyfrol yn ôl y golygydd yw ceisio adlewyrchu rhywfaint o draddodiad barddol bro'r Preseli yn ystod y cyfnod 1969 - 1994, ac esbonia fod y flodeugerdd yn cynnwys gwaith beirdd a fu'n byw yn y fro rywbyrd yn ystod y chwarter canrif hwnnw yn ogystal â barddoniaeth a ysgrifennwyd yn ystod y blynyddoedd hynny gan feirdd a oedd yn enedigol o'r ardal. Gwahoddwyd y beirdd i gyfrannu cerddi i'r gyfrol, a'r hyn a geir yn bennaf ynddi yw eu hymateb i'r byd, canu hunangofiannol a blas ar draddodiad emynyddol y fro. Cynhwysir gwaith pedwar deg chwech o feirdd yn y gyfrol, ac o edrych ar y nodiadau bywgraffyddol ar ei diwedd, gwelir mai dau ddeg a thri ohonynt yn unig, sef union eu hanner, a aned yn Sir Benfro, a'r gweddill wedi eu geni a'u magu mewn ardaloedd amrywiol o Gymru, o Ffair-rhos i Gastell-nedd, ac o Lanberis i Ystalyfera.

Byddid wedi disgwyl cyfrol sy'n dwyn y teitl *Blodeugerdd y Preselau* i gynnwys cerddi lleol, ond 25 yn unig o'r 142 o gerddi sy'n cyfeirio at y fro neu ei chymeriadau. Arwyddocaol yw nodi bod tair o'r pedair cerdd o eiddo'r golygydd a gynhwyswyd yn y gyfrol yn cyfeirio at fro'r Preseli; er bod hynny'n amlwg yn bwysig ac yn briodol yn ei olwg ef, ni roddwyd yr un cyfarwyddyd i'r rhai hynny a wahoddwyd i gyfrannu at y gyfrol, ond cawsant yn hytrach benrhyddid i gynnwys cerddi o'u dewis ar unrhyw destun. Cyfyd y cwestiwn, felly, a yw'r teitl yn un addas, ynteu'n gamarweiniol i'r darlennydd? Efallai y byddai'r teitl *Blodeugerdd gan Feirdd y Preselau* yn fwy addas gan fod y pwyslais ar feirdd yr ardal yn hytrach na cherddi am yr ardal. Dengys teitl y gyfrol *Beirdd Penfro* a drafodwyd ynghynt mai cyfrol gan feirdd y sir, ac nid am y sir o angenrheidrwydd ydoedd.

Tair yn unig o'r 142 o gerddi a gynhwyswyd yn y gyfrol sydd wedi eu hysgrifennu yn y dafodiaith, er bod nifer yn cyfeirio ati. Mewn cyfrol o'r math, gellid tybio y byddai cynnwys rhagor o gerddi tafodieithol wedi ei chyfoethogi a chynnig iddi amrywiaeth ieithyddol. Wedi dweud hynny, gan fod hanner y beirdd wedi eu geni a'u magu y tu allan i'r sir, nid

tafodiaith Sir Benfro yw eu tafodiaith hwy, ac, felly, ni ddisgwylir iddynt ysgrifennu ynddi. Mae'r tair cerdd dafodieithol hyn hefyd wedi eu cyhoeddi mewn cyfrolau eraill, sef 'Darogan' o eiddo W. R. Evans, 'Goleuni' o eiddo Reggie Smart, a 'Pencâr' o eiddo Rachel Phillips James. Yn y gerdd 'Darogan', sylwer ar y defnydd o eiriau unigryw, megis *bishtogedd*, a olyga swil:

Pan wên i in rhocyn ifanc,  
Ar ôl gweld ir holl fflame ar waith,  
We rhyw ofne bach digon bishtogedd  
In mynd lan i'r gwely 'da fi;  
Ofon tân,  
Ofon tarwod,  
A ofon y môr in ombeidus (W. R. Evans, yn E. George, 1995,  
t.31).

Pan dynnwyd sylw'r golygydd Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) at y cerddi tafodieithol yn y gyfrol hon, esboniodd ei fod wedi gofyn i'r beirdd ddewis eu cerddi eu hunain, a'i fod yn falch bod Reggie Smart a Rachel Phillips James wedi dewis rhai tafodieithol. Y golygydd ei hun a ddewisodd gerdd W. R. Evans, a hynny er mwyn dangos y bardd 'ar ei ore' a chael amrywiaeth (Eirwyn George, Cyfweliad, 2014). Pan ofynnwyd a fyddai wedi dymuno cael mwy na thair cerdd dafodieithol yn y gyfrol, atebodd Eirwyn George (Cyfweliad, 2014): 'Wel a gweud y gwir, nath e ddim croesi'n meddwl i ar y pryd, naddo. A meddwl bod e yn y Preseli falle bydde fe'n addas, ie, byse.' Fel yr amlygwyd eisoes yn y bumed bennod, rhydd Eirwyn George mwy o fri ar lenyddiaeth mewn iaith safonol, er mwyn targedu cynulleidfa genedlaethol ac ehangach.

Er yr awgrymwyd bod teitl y gyfrol *Blodeugerdd y Preselau* yn gamarweiniol, nid yw'n wahanol i gyfrolau eraill a gyhoeddwyd tua'r un adeg, megis *Blodeugerdd Bro Ddyfi* (1985), *Blodeugerdd Penllyn* (1983), *Blodeugerdd Llŷn* (1984), *Tafell o Ddyffryn Teifi* (1981) ac *Englynion Môn* (1983). Ceir cerddi yn y cyfrolau hyn gan feirdd nas ganwyd yn yr ardaloedd hynny, a cherddi am fannau a phobl y tu allan

i'r ardaloedd. Prin iawn yw'r cerddi tafodieithol yn y cyfrolau hyn hefyd, er y ceir cyffyrddiad tafodieithol mewn ambell gerdd. Noder cerdd Menna Elfyn, 'Y Tro Olaf', yn y gyfrol *Tafell o Ddyffryn Teifi* fel enghraifft, a'r defnydd o'r gair *feidir*, gair cyfarwydd yn Sir Benfro i ddisgrifio heol gul. Dyma ddechrau'r pennill cyntaf, ac yna'r trydydd:

Awn ar y feidir gul  
I Gwmpengraig:  
yr araf siwrne olaf  
gydag un genhedlaeth;

Awn ar y feidr gul  
i Gwmpengraig;  
ni fydd ystyr i'r daith mwyach  
gyda'r Gair wedi nychu  
ar wefusbur meichiad y Gro (M. Elfyn, yn A. L. Jones, 1981, t.68).

Sylwer erbyn y trydydd pennill bod sillafiad y gair *feidir* wedi newid i *feidr*, anghysondeb a all beri dryswch i'r darlennydd, fel yr awgrymwyd eisoes. Gellid deall bod anghysondeb rhwng awduron, ac ar adegau oddi mewn i amrywiol weithiau awduron, ond gellid awgrymu mai peth hawdd fyddai sicrhau cysondeb o fewn yr un gerdd. Rhaid anghytuno, felly, â sylw D. R. Saer (2001, t.251): 'ar brydiau ceir anghysondeb ffurfiau wrth geisio cyfleu tafodiaith (tasg a eill brofi'n ddigon anodd, wrth gwrs).'

Dywed G. Griffiths (2015, t.199) mai'r cwbl a fynnwyd oddi wrth gyfranwyr i'r cyfrolau *Wês Wês* oedd bod y cwbl mewn tafodiaith, 'a bod yr orgraff yn gyson o fewn pob darn neu gerdd unigol', cais rhesymol a synhwyrol. I'r gwrthwyneb, cred Meic Stephens (Cyfweliad, 2015), sy'n ysgrifennu yn nhafodiaith y Wenhwyseg, mai un o'r pethau da am ysgrifennu mewn tafodiaith yw: 'does dim rhaid i chi fod yn gyson. Dyw tafodiaith ddim yn gyson. Felly mewn ffordd, *anything goes* ynde.' Dengys hyn ansefydlogrwydd tafodiaith o'i gymharu â'r sefydlogrwydd a berthyn i'r iaith safonol sydd â'i rheolau pendant. Beth bynnag, gellid

dadlau bod sicrhau orgraff gyson o fewn stori neu gerdd yn hwylusach o ran dealltwriaeth y darlennydd.

### **Estyn yr Haul : Blodeugerdd Ryddiaith o waith awduron Sir Benfro yn yr Ugeinfed Ganrif ~ 2000**

Cyhoeddwyd y gyfrol *Estyn yr Haul : Blodeugerdd Ryddiaith o waith awduron Sir Benfro yn yr Ugeinfed Ganrif* yn 2000, wedi'i golygu eto gan Eirwyn George. Ynnddi ceir storïau, ysgrifau a darnau hunangofiannol gan bump ar hugain o awduron. Pymtheg o'r rhain sy'n bobl leol i Sir Benfro; bu'r gweddill yn byw yn y sir ar ryw adeg yn eu bywydau ond yn dod yn wreiddiol o ardaloedd megis Ffair-rhos, Swyddffynnon, Rhydcymerau, Blaenau Ffestiniog a Sir Fôn.

Mae'n debyg bod teitl y gyfrol hon yn fwy addas a chywir na'r gyfrol flaenorol, *Blodeugerdd y Preselau*, gan ei fod yn awgrymu mai gwaith gan awduron a fu'n byw yn y sir ar ryw adeg yn eu bywyd a geir yn y gyfrol, ac nid o angenrheidrwydd ryddiaith sy'n cyfeirio at y sir neu'n seiliedig ynnddi. Er nad oes un darn o lenyddiaeth dafodieithol lwyr yn y gyfrol hon, gwelir enghreifftiau o'r dafodiaith mewn ambell stori neu ysgrif, ond prin iawn ydynt.

Yn yr ysgrif 'Yr Etifeddiaeth', mae Mairwen Gwynn Jones yn hel atgofion am draddodiad teuluol o gasglu mwyar duon a chofir am un digwyddiad trwstan wrth geisio cael gafael arnynt. Sylwer ar y gair *jibidêrs* a dadansoddiad W. Owens (2013, t.84) ohono fel 'yn ddarnau mân / in pieces / smithereens':

a Lal, wedyn, yn rhacso'i llewys a godre'i sgert ail-ore yn jibidêrs! (M. G. Jones, yn E. George, 2000, t.129).

Hel atgofion am ei flynyddoedd cynnar a wna'r awdur Dillwyn Miles yn ei ysgrif 'Rhwng Rhyfeloedd', ac wrth ddyfynnu geiriau cymeriadau o'i blentyndod, fe wna hynny yn eu tafodiaith naturiol:

'We'n i 'na pan gesoch chi'ch geni,' meddai Lisi Williams. Wedi mynd i'w holi hi am hen hanes yr ardal yr own i, ond cyn pen munud dyma hi'n disgrifio achlysur fy ngeni imi. 'We dou ddoctor 'na, ddim am fod ishe dou ddoctor ond we'r hen Ddoctor Havard wedi ca'l strôc, chi'n deall, a fe alle fe ddim gneud dim byd, a fe dda'th â'i fab, Doctor Arthur, gydag e. Fe arhosodd hwnnw tra we'n i'n 'ych golchi chi, a fe a'th wedyn. We dim byd yn bod. Wech chi'n fabi hyfryd' (D. Miles, yn E. George, 2000, t.103).

Rhydd Dillwyn Miles ddarlun gwir gan iddo ddyfynnu'n union sut y byddai ei gyfoedion wedi siarad ar lafar yn Sir Benfro, ac felly mae'r naturioldeb a gyflea yn rhywbeth i'w ganmol. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, mae T. E. Nicholas, a anwyd ac a fagwyd ym mhentref Pentregalar ger Crymych, yn dyfynnu ei chwaer fel hyn yn ei ddarn hunangofiannol 'Pentregalar':

Cofiaf i ias o ddychryn fynd drwy fy nghefn pan ddywedodd un o'm chwirydd hynaf "Dyma Seimon Evans yn dod, dowch i ni guddio'r ochr arall i'r clawdd" (T. E. Nicholas, yn E. George, 2000, t.32).

Ymddengys y dyfyniad yn annaturiol, gan nad dyna ddywedir ar lafar. Byddai 'Co Seimon Evans yn dod, dewch i ni gwato yr ochr arall i'r claw' yn agosach ati mewn gwirionedd. Cyfyd y cwestiwn, felly, pam na ddyfynnwyd ei chwaer yn siarad yn naturiol? Tebyg nad oedd T. E. Nicholas o'r farn y dylid cynnwys tafodiaith mewn darnau llenyddol fel hyn, a bod defnyddio ffurf safonol, er nad yn ddisgrifiad cywir, yn fwy derbyniol.

Nid yw'r diffyg hwn o gyflwyno lleferydd unigolyn mewn iaith safonol, yn hytrach na'r dafodiaith a siaradai, yn beth anghyffredin. Er enghraifft, dywed D. M. Lewis (2010), wrth adolygu nofel Llwyd Owen *Mr Blaid*:

Gair am dafodiaith. Wel, does yna ddim tafodiaith. Mae pawb yn siarad yr un fath. Er fod Fflur wedi dod yr holl ffordd o'i chartref, Coed Sycharth (sydd mae'n rhaid, rhywle ar y ffin rhwng Sir Drefaldwyn a Sir Ddinbych) mae hi'n siarad yn

union yr un fath â thrigolion Gerddi Hwyan gan milltir o'i chynffwrdd. Hefyd fe ddywedir fod un o'r ditectifs er yn dod o'r gogledd, wedi colli ei dafodiaith. Ffordd rwydd iawn o oresgyn y broblem dafodieithol! (D. M. Lewis, 2010).

Dyma eto'r gair *problem* a ddefnyddir gan nifer o feirniaid ac adolygwyr wrth ystyried y defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth. Er yr awgryma nifer y gall llenyddiaeth dafodieithol fod yn anodd ei deall, yn enwedig i'r rhai hynny nad ydynt yn gyfarwydd â'r dafodiaith dan sylw, gellid dadlau bod rhoi yng ngenau cymeriadau iaith na fyddent wedi ei llefaru, fel y gwnaeth T. E. Nicholas a Llwyd Owen, yn annaturiol ac yn ffug. Yr awydd i blesio'r darlennydd a sicrhau dealltwriaeth gyffredinol yn hytrach na chyflwyno'r iaith lafar yn gywir a welir yma, o bosib.

### **Cerddi Sir Benfro ~ 2002**

Yn 2002, cyhoeddwyd y gyfrol *Cerddi Sir Benfro* fel rhan o *Cyfres Cerddi Fan Hyn* gan Wasg Gomer o olygwyd gan Mererid Hopwood. Yn wahanol i'r gyfrol *Blodeugerdd y Preselau*, mae'r gyfrol hon yn cynnwys cerddi sy'n ymwneud â'r sir – ei thirwedd, ei phobl, ei harferion a'i thraddodiadau, yn union fel yr awgryma ei theitl. Wrth sôn am anhawster cyfyngu nifer y cerddi yn y gyfrol i gant, dywed y golygydd iddi ddewis cerddi sy'n canu'n benodol am y sir a'i phobl, gydag eithriadau prin o gerddi adnabyddus â chysylltiad llai uniongyrchol â'r ardal (M. Hopwood, 2002, t.xi).

Yn ogystal â cherddi gan feirdd sy'n huanu o'r sir, ceir cerddi gan feirdd ar draws y wlad, megis 'Waldo' gan Alan Llwyd, 'Porthgain' gan Idris Reynolds, 'Sea Empress' gan Gwyneth Lewis, 'Cromlech Pentre Ifan' gan Gerallt Lloyd Owen, 'Preselau' gan Bobi Jones a 'Sir Benfro' gan Gwenallt. Mae mwyafrif y beirdd y cynhwysir eu gwaith yn y gyfrol yn huanu o Sir Benfro serch hynny, yn eu plith Eirwyn George, Waldo, E. Llwyd Williams, W. Rhys Nicholas, Wyn Owens, W. R. Evans, Tomi Evans, James Nicholas, Reggie Smart, Dewi Emrys, Idwal Lloyd a

T. E. Nicholas, nifer ohonynt hefyd yn feirdd tafodieithol yr ystyrir eu gwaith yn y traethawd hwn.

O'r cant o gerddi, mae saith ohonynt wedi eu hysgrifennu mewn tafodiaith ac wedi eu cyhoeddi eisoes mewn un neu ragor o gyfrolau. Ceir cerdd yr un gan Dewi Emrys, sef 'Pwllideri', Eirwyn George, sef 'Foel Cwm Cerwyn' a Rachel Phillips James, sef 'Pencâr' a phedair cerdd o eiddo W. R. Evans, sef rhan o'r gerdd 'Tidrath', 'Darogan', 'Cân Gocos 'Wê, Wê'' a 'Proffwydi Tir ac Awyr'. Yn y rhan o'r gerdd 'Tidrath', ymfalchia'r bardd yn y ffaith nad yw pentref glan môr Trefdraeth wedi newid llawer, er gwaethaf datblygiadau masnachol. Ceir elfen o sentimentalïaeth yma, sydd, fel yr awgrymwyd eisoes, yn nodweddiadol o ganu tafodieithol:

Seno pethe in newid in Tidrath,  
Ddim felny, neu shwt alla i weud?  
Mae e fel 'se fe'n hanner cisgu,  
Rhyw benloian in ochor y teid.  
Trw drugaredd, so masnach in awffus  
I whalu cimeriad y lle.  
Ma tipyn o naws ir hen amser  
In hongian o hyd biti'r dre (W. R. Evans, yn M. Hopwood,  
2002, t.33).

Gellid dadlau ei bod yn bwysig bod cyfrolau o'r math hyn yn cynnwys cerddi mewn tafodiaith, ac y byddai'n chwithig cyhoeddi cyfrol o gerddi am Sir Benfro heb gynnwys ynddi gerddi a ganwyd yn ei thafodiaith gan mai dyma un o'i nodweddion unigryw. Mae'n fodd hefyd i ddwyn y dafodiaith at sylw'r darlennydd nad yw'n hanu o'r ardal. Yn yr un modd ag yr holwyd Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) am y tair cerdd dafodieithol yn y gyfrol *Blodeugerdd y Preselau*, holwyd Mererid Hopwood (Cyfweliad, 2014) a oedd wedi mynd ati'n fwiadol i gynnwys saith cerdd dafodieithol yn y gyfrol *Cerddi Sir Benfro*. Datgelodd nad oedd, ac mai'r amcan oedd cynnwys cerddi da a bod rhai ohonynt yn digwydd bod mewn tafodiaith. Yn ei hanfod, cymhelliad

llynyddol oedd y gyfrol hon felly, nid cymhelliad ieithyddol fel y cyfrolau *Wês Wês* a oedd yn amcanu at gyflwyno'r dafodiaith.

Cyhoeddwyd nifer o gyfrolau yn *Cyfres Cerddi Fan Hyn*, megis *Cerddi Abertawe a'r Cwm*, *Cerddi Powys*, *Cerddi Ceredigion*, *Cerddi'r Cymoedd*, *Cerddi Sir Gâr*, *Cerddi Meirionydd*, *Cerddi Caerdydd*, *Cerddi Clwyd* a *Cerddi Sir Gaernarfon*. Cynhwyswyd rhai cerddi tafodieithol yn y cyfrolau hyn, megis *Cerddi Powys*, lle ceir cerdd yn nhafodiaith Maldwyn gan Tegwyn Pughe Jones, sef 'Cŵyn Amaethwr'. Sylwer ar y gair *cefen* yn y pennill cyntaf, sy'n arddangos un o nodweddion tafodiaith Sir Benfro, sef symleiddio rhai clymau cytseiniol ar ddiwedd gair drwy eu gwahanu â llafariad ymwithiol:

Nid wyf ffraeth – wyf amaethwr;  
distaw wyf, di-gadw-stŵr;  
un ag ôl iaith cefen gwled  
yn ei araf ystyried (T. P. Jones, yn D. M. Lewis, 2003, t.39).

Noder sylw'r bardd ei fod yn 'un ag ôl iaith cefen gwled' arno. A ellid dweud nad oes tafodiaith i'w chlywed yn ein dinasoedd erbyn hyn yn sgil mewnlifiad pobl â chanddynt wahanol dafodieithoedd? Yn wir, cred E. Howells (1991, t.2) ym modolaeth 'Cymraeg trefol', sy'n ddi-idiom a chignoeth o'i chymharu â'r iaith wledig sy'n lliwio'r iaith. Sylwer ar gerdd Mererid Hopwood sy'n dwyn y teitl 'Cwestiynau (er parch i Gymry newydd Caerdydd)' a gynhwyswyd yn y gyfrol *Cerddi Caerdydd*; er gwanned ei iaith, mae gwrthrych y gerdd yn awyddus i arddel ei Gymreictod:

Fi'n dodo Cardiff  
fi yn?  
So I'm a bit stiff  
ar y treiglo  
a'r berf cryno? .....  
Ond yn calon fi,  
believe me,  
os fi ddim yn gallu  
siarad fel Cymry,



fel ti yn  
yn Dyffryn Aeryn,  
fi still yn gwybod  
so fi'n Saesod –  
fi'n Gymro,  
achos na ble fi'n dodo (M. Hopwood, yn C. Beard, 2004, t.75).

Awgryma'r gerdd mai cymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg a glywir gan blant y de-ddwyrain heddiw. Dyma'r iaith a amlygodd John Owen yn ei gyfrolau *Pam Fi, Duw* lle mae'r cymeriadau'n siarad cymysgedd o iaith safonol, tafodiaith a bratiaith a ddengys y dirywiad yn y Gymraeg mewn rhai ardaloedd. Mae'r bardd yn cymharu hyn â'r Gymraeg a glywir mewn ardaloedd gwledig megis Dyffryn Aeron, felly cesglir mai llais y wlad yw tafodiaith bellach, yn ei farn ef.

Afraid dweud na fydd pob darlennydd cyfrolau *Cyfres Cerddi Fan Hyn* yn gyfarwydd â'r tafodieithoedd gwahanol yr ysgrifennwyd rhai o'r cerddi ynddynt, ond gellid awgrymu na fyddai hyn o angenrheidrwydd yn amharu ar eu mwynhad. Gellid dadlau eu bod yn creu naws hamddenol, agos-atoch, ac fe'n hatgoffir o amrywiaeth a chyfoeth y tafodieithoedd a fodola yng Nghymru. Fel y dywedodd Meic Stephens (Cyfweliad, 2015) am lenyddiaeth dafodieithol: 'rhaid rhoi rhagfarn o'r neilltu a wedyn gadael i'r dafodiaith weithio ar ei termau ei hunan.'

### **Perci Llawn Pobol : Casgliad o Ganu Beirdd Gwlad y Preseli a'r Cylch ~ 2016**

Yn 2016, cyhoeddwyd y gyfrol *Perci Llawn Pobol : Casgliad o Ganu Beirdd Gwlad y Preseli a'r Cylch*, wedi ei golygu gan Eirwyn George. Enillodd Eirwyn George gystadleuaeth 'Blodeugerdd o Gerddi Beirdd Gwlad Ardal Benodol' Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2015, gyda chasgliad o gerddi o ardal Bro Cerwyn. Yn y gyfrol hon, ehangwyd cwmpas y casgliad i gynnwys detholiad o ganu gwlad beirdd gogledd-ddwyrain Sir Benfro a rhan o orllewin Sir Gaerfyrddin, dalgylch

y papurau bro *Clebran* a'r *Cardi Bach*, a'r cerddi'n perthyn i'r cyfnod 1995 - 2015.

Daw teitl y gyfrol o gerdd Waldo Williams 'Mewn Dau Gae' y cyfeiriwyd ati eisoes yn y bumed bennod, lle mae defnydd y bardd o'r geiriau tafodieithol *parc* a *perci* yn ei lleoli'n syth yn Sir Benfro:

Mor llonydd ydynt a hithau a'i hanadl  
Dros Weun Parc y Blawd a Parc y Blawd heb ludd,  
A'u gafael ar y gwrthrych, y perci llawn pobl (W. Williams,  
1956, t.27).

Mae teitl cyfrol Eirwyn George yn addas felly ac yn adlewyrchu ardal y Preseli a'r frawdoliaeth, chwedl Waldo, a berthyn iddi. Mae'r dyfyniad yn 'dangos yr agosatrwydd a'r cydweithio mewn ardaloedd cefn gwlad' (E. George, 2016, t.13).

Rhaid ystyried beth yw ystyr y term *bardd gwlad*? Awgryma G. Antur (2016): 'bardd na chafodd addysg golegol ac sy'n canu am bobl ac am ddigwyddiadau yn ei filltir sgwâr ei hun yw bardd gwlad', ac nid yw, fel rheol, yn brifardd. Mae sylw E. George (2016, t.12) yn ei ragair yn cydfynd â hyn: 'mae yma waith beirdd gwlad o'r iawn ryw – pobol ddi-goleg yn mynd ati'n achlysurol i ganu am ddigwyddiadau yn eu cynefin, a hefyd waith beirdd mwy profiadol sy'n cyflawni swyddogaeth y bardd gwlad mewn nifer o'u cerddi.' Â ymlaen i awgrymu bod y bardd gwlad lleol yn parhau'n uchel ei barch yn y gymdeithas heddiw, a bod galw arno'n gyson i wasanaethu'r gymuned, megis drwy gyfarch bardd y gadair mewn eisteddfodau lleol a llunio cerddi comisiwn.

Gellid dadlau bod y disgrifiad o'r bardd gwlad fel person di-goleg yn ddilornus ac yn amharchus, gan ei fod yn awgrymu mai canu cerddi syml yn ei gynefin ei hun yw ei unig allu. Ymysg y rhai a ddisgrifir fel bardd gwlad y mae Dic Jones, prifardd a ystyrir yn un o feirdd mwyaf yr ugeinfed ganrif. Byddai disgrifio bardd gwlad fel person sy'n canu i'w

ardal leol yn ddigonol. Mae o leiaf hanner y beirdd y cynhwysir eu gwaith yn y gyfrol *Perci Llawn Pobol* wedi cael addysg coleg ac, felly, nid ydynt yn gynrychiadol o'r disgrifiad cyffredin o fardd gwlad fel person di-ddysg, sy'n ddiffiniad hen ffasiwn.

Yr hyn a geir yn y gyfrol yn bennaf, felly, yw cerddi i gyfarch pobl ar wahanol achlysuron, cerddi coffa a cherddi yn ymwneud â digwyddiadau penodol yn yr ardal. Ceir ambell air tafodieithol yn nifer o'r cerddi, ac mae yna bum cerdd dafodieithol yn y gyfrol, o eiddo beirdd y trafodwyd eu gwaith eisoes yn y bumed bennod, sef Hefin Wyn, Wyn Owens a Reggie Smart. Yn ei gerdd 'Jant Fach', disgrifia Wyn Owens ei hun yn mynd am dro pan oedd yn teimlo'n isel:

Pan fo'r isbrid braidd yn ishel,  
Pan fo bowyd false'n dreth,  
Os na fydd hi'n dewi sgadli  
A-i am wâc fach nawr a lwêth.

Mâs o'r tŷ ar game whringil  
Lawr Rhiw Bont in drwm en nhwrêd.  
Drichid mâs am flode'r cloddie,  
Staro lan ar frige'r cwêd (W. Owens, yn E. George, 2016, t.106).

Sylwer ar nifer o eiriau diddorol megis *sgadli* (garw) a *whringil* (ansefydlog). Fel yr awgrymwyd yn y bumed bennod wrth drafod yr awdur hwn, gall fod yn eithafol wrth ysgrifennu mewn tafodiaith. Cofier hefyd mai Wyn Owens oedd awdur y gyfrol *Rhint y Gelaets a'r Grug : Tafodiaith Sir Benfro* (2013). Gellid awgrymu bod Wyn Owens, felly, yn rhoi'r geiriau hyn yn ei gerddi'n bwrpasol er mwyn eu cadw'n fyw, er mwyn tynnu sylw atynt, ac er mwyn eu cofnodi rhwng dau glawr.

Gan mai canu i'w hardal a'u pobl leol a wna beirdd gwlad, rhaid ystyried ai gwerth lleol sydd i gyfrolau o'r fath felly, yn yr un modd ag mai gwerth lleol yn bennaf sydd i gyfrolau tafodieithol. Rhaid ystyried a yw cerddi sy'n dathlu penblwyddi a phriodasau ac yn cyfarch a choffáu pobl leol o

ddiddordeb i bobl y tu allan i'r ardal honno? Yn wir, gellid awgrymu bod cyfrolau o'r fath yn llai apelgar na chyfrolau tafodieithol, gan fod cerddi tafodieithol yn aml am bynciau cyffredinol y gall eraill uniaethu â hwy. Rhennir y pryder hwn gan V. Hughes (2016, t.85), a ddywed:

Ond nodaf hefyd bod 'nifer' o'r cerddi wedi ymddangos 'mewn cylchgronau, papurau bro, rhaglenni, llawlyfrau a thafleini angladd.' Do, wrth gwrs eu bod nhw. Dyna eu gogoniant. Ond onid yno hefyd y mae eu lle? Er hyfryted yw llawer o'r cerddi, ac er eu pwysigrwydd cymdeithasol, cymdeithasegol a hanesyddol, wn i ddim am ba hyd y gallwn fforddio i gyhoeddi cyfrolau fel hyn, cyfrolau sydd mewn gwirionedd yn gyfrolau bro a'u hapêl - yn gam neu'n gymwys - o reidrwydd yn gyfyng (V. Hughes, 2016, t.85).

Wrth dafoli'r pum cyfrol o lenyddiaeth Penfro a drafodwyd yn ail ran y bennod hon, gellid awgrymu ei bod yn drueni bod cyn lleied o farddoniaeth neu ryddiaith dafodieithol wedi eu cynnwys ynddynt. Nid yw hyn yn eithriad, gan fod yr un prinder yn nodweddiadol o gyfrolau tebyg eraill. Mae hyn, o bosib, oherwydd mai ychydig o awduron sy'n ysgrifennu yn eu tafodiaith, gan eu bod yn ffafrio'r iaith safonol, neu am nad yw cyfranwyr neu olygyddion o'r farn y dylid cynnwys darnau tafodieithol mewn cyfrolau llenyddol. Beth bynnag yw'r rheswm, onid yw cyfrolau o'r fath ar eu colled oherwydd y cyfoeth a'r amrywiaeth a geir mewn llenyddiaeth dafodieithol?

## **Casgliad**

Wrth ystyried tafodiaith lenyddol, dywed G. Shorrocks (1996, t.386): 'it can create a feeling of intimacy and trust between author and reader, and can evoke childhood, lost culture, and values other than those dictated by the dominant culture.' Gellid dadlau mai dyma'r hyn a geir yn y gweithiau tafodieithol a ystyriwyd yn y bennod hon, sef teimlad o agosatrwydd a chyswllt rhwng yr awdur a'r darllenydd, a nodweddion diwylliant a fu, megis ffeiriau pentrefol, yn cael eu dwyn i gof. Gellir cymryd 'dominant culture' i olygu'r iaith safonol a gysylltir gam amlaf â

llynyddiaeth, ond torrwyd hualau'r dominyddu hwnnw yn y gweithiau hyn.

Fel yr awgrymwyd eisoes, cred rhai bod angen diogelu safon ein llynyddiaeth ac, felly, mai iaith safonol ac nid iaith dafodieithol y dylid ei defnyddio wrth ysgrifennu. Noder sylw T. J. Morgan (1970, t.257):

Dywedwyd droeon nad yw'r iaith lafar yn ddigonol i ddibenion llynyddol. Y mae'r pwnc sydd i'w drafod a'r syniadau y mae angen eu traethu, yn galw am fwy o adnoddau nag sydd gan y gwerinwr cyffredin sydd heb gael achos i sôn am ddim byd drwy ei iaith lafar ond am brofiadau cyffredin ei fywyd syml..... Y mae eisiau geirfa lawnach i drafod pwnc ar lefel yr iaith llynyddol (T. J. Morgan, 1970, t.257).

Gellid maentumio bod cyfeirio at y 'gwerinwr cyffredin' a 'bywyd syml' yn amharchus, gan fod y termau yn awgrymu mai'r bardd gwlad y cyfeiriwyd ato eisoes yw'r sawl sydd fwyaf tebygol o ysgrifennu'n dafodieithol, ond bod angen geirfa ehangach i ysgrifennu mewn iaith safonol. Gwir dweud bod mwyafrif awduron y cyfrolau *Wês Wês* yn drigolion lleol, a'u bod heb gyhoeddi dim cynt nac wedi hynny, ond gellid awgrymu iddynt brofi fod ganddynt afael sicr ar eu tafodiaith a'u bod yn medru ysgrifennu ynddi. Yn ogystal â hynny mae nifer o awduron tafodieithol y sir yn medru ysgrifennu yr un mor gelfydd mewn iaith safonol, ac yn medru symud o'r naill i'r llall yn ddiymdrech.

Mae sylw B. Jones (1995, t.54), wrth drafod safoni ieithyddol, yn awgrymu bod y rhagfarn wedi llacio ychydig ers i T. J. Morgan ysgrifennu yn 1970, gan y dywed: 'yn y Gymraeg ceir llawer mwy o barch a hoffter a bri ynglŷn â thafodiaith nag a geir yn Saesneg, ac o'r herwydd lawer mwy o amrywiadau caniatol o fewn yr hyn a ystyrir yn safon.' Gellid maentumio y daeth llynyddiaeth dafodieithol yn fwy derbyniol ac yn fwy cyffredin erbyn heddiw a bod y cyfrolau a drafodwyd yn y bennod hon yn werthfawr o safbwynt ieithyddol, hanesyddol a chymdeithasol, yn ogystal ag am eu helpen o ddiddanwch.

## PENNOD 7

### DEWI EMRYS

#### Rhagarweiniad

Yn y bennod hon ystyrir gwaith un o feirdd tafodieithol enwocaf Sir Benfro, sef Dewi Emrys, 1881 – 1952. Ganed David Emrys James, i roi ei enw llawn iddo, yng Nghei Newydd, Ceredigion ond yn saith oed symudodd i Rosycaerau, bro Pen-caer, Sir Benfro. Nid bychan oedd dylanwad y fro hon ar ei fywyd a'i waith, a 'bu cysgod Garn Gowil a dyfnder Pwll Deri yn rhan o wead ei fywyd hyd ddiwedd ei oes a'r cefndir hwn a roes liw ar rai o'i weithiau a'i gerddi gorau' (D. J. Davies, 1965, t.57). Rhannodd Dewi Emrys y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth 'Cerdd mewn Tafodiaith Leol' am ei gerdd 'Pwllideri' yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926. Yn ei gyfrol *Ysgrifau* a gyhoeddwyd yn 1937, ceir tafodiaith Sir Benfro yng ngenau'r cymeriad Shemi Wâd yn yr ysgrif 'Y Stori Dal'. Gan fod 'Pwllideri' yn un o gerddi tafodieithol enwocaf Cymru, ac iddi fod yn gerdd arloesol o ran canu tafodieithol Cymraeg, neilltuir pennod gyfan i drafod Dewi Emrys.

#### Barddoni a chyhoeddi

Fel bardd eisteddfodol yr ystyrir Dewi Emrys yn bennaf, a hynny yn sgil ei hoffter o gystadlu ac amllder y cystadlu hwnnw. Daeth llwyddiant i'w ran yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, 1926 pan enillodd y Goron, ac yn ogystal enillodd bedair Cadair Genedlaethol, sef Lerpwl, 1929; Llanelli, 1930; Bangor, 1943 a Phen-y-bont ar Ogwr, 1948. Yn 1928, cyhoeddodd ei gyfrol gyntaf o gerddi, yn y Saesneg, sef *Rhymes of the Road*, o dan yr enw David Emrys. Aeth ymlaen i gyhoeddi dwy gyfrol o gerddi yn y Gymraeg, sef *Y Cwm Unig a Chaniadau Eraill* yn 1930 a *Cerddi'r Bwthyn* yn 1948, y gyfrol *Ysgrifau* yn 1937 a llyfr ar gynghanedd, sef *Odl a Chynghanedd* yn 1937. Bu'n olygydd y golofn farddol *Y Babell Awen* yn *Y Cymro* rhwng 1936 a 1952, a chyhoeddodd

bigion o farddoniaeth ei ddisgyblion yn y gyfrol *Beirdd y Babell* yn 1938. Yn 1965, cyhoeddwyd cyfrol goffa iddo yn cynnwys detholiad o'i waith o dan y teitl *Wedi Storom*.

### **Y gystadleuaeth 'Cerdd mewn Tafodiaith Leol' 1926**

Beirniaid y gystadleuaeth 'Cerdd mewn Tafodiaith Leol' yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1926 oedd Wil Ifan ac R. Williams-Parry, a daeth chwech ar hugain o gerddi i law. Bai mwyaf amlwg y gystadleuaeth yn ôl W. Ifan (1926, t.142) 'yw dychmygu nad oes angen crefft y llenor wrth ganu mewn tafodiaith', ac fel nad yw pob gair llyfr yn gwneud y tro mewn cân 'lenyddol', nid yw pob gair llafar yn gwneud y tro mewn cân tafodiaith ychwaith. Dyma bwyntiau pwysig ac arwyddocaol gan y beirniad. Awgrymwyd eisoes yn y penodau blaenorol na ddylai ysgrifennu tafodieithol fod yn gyfystyr ag ysgrifennu gramadegol anghywir. Yn yr un modd, gellid dadlau na ddylai ysgrifennu tafodieithol fod yn gyfystyr â llenyddiaeth wael a bod yn rhaid cynnal safon yn hytrach na chredu y gwnaiff unrhyw beth y tro. Mae'n bosib bod y beirdd yn y gystadleuaeth wedi cynnwys geiriau tafodieithol nad oeddent yn addas, er mwyn arddangos y dafodiaith sy'n gallu bod yn nodwedd o ganu tafodieithol, fel y dangoswyd eisoes.

Aeth W. Ifan (1926, t.142) ymlaen i awgrymu y gall awdur celfydd ddangos ei allu drwy ddewis a gwrthod geiriau, ond i nifer o'r ymgeiswyr fodloni ar gymysgfa o hanner Cymraeg a hanner Saesneg. Ei sylw cyson wrth feirniadu pob cerdd yn unigol oedd mai prin oedd y dafodiaith ynddynt, ac i nifer o'r ymgeiswyr anghofio mai cerdd mewn tafodiaith a ddisgwylid, gan gynnwys geiriau llenyddol yn hytrach na rhai tafodieithol. Rhannwyd y pryder yma gan y cydfeirniad R. Williams-Parry (1926, tt.146-147) a gyfeiriodd at y ffaith mai ychydig yn unig o dafodiaith a gynhwysai rhai cerddi, neu hyd yn oed dim tafodiaith, a bod cymysgedd o'r llenyddol a'r tafodieithol mewn cerddi eraill.

Amlyga hyn bod diffyg dealltwriaeth neu ddehongliad gwahanol o lenyddiaeth dafodieithol yn bodoli. Gellid maentumio nad oedd y cystadleuwyr wedi deall ystyr barddoniaeth dafodieithol, neu roeddent o'r farn nad oedd modd ysgrifennu'n llwyr yn y cyfrwng hwnnw a bod yn rhaid cynnwys geiriau 'llynyddol' a 'safonol' yn eu cerddi. Hynny yw, dyma ddilema sylfaenol teithi'r Gymraeg. Dyma farn a oedd yn gyffredin y pryd hynny, gan mai dyma'r adeg yr aeth John Morris-Jones ati i safoni orgraff a gramadeg yr iaith a beirniadu ei ffurfiau tafodieithol. Diddorol, felly, oedd dewis cynnwys y gystadleuaeth yn yr Eisteddfod.

Yr oedd dwy gerdd yn rhagori yn y gystadleuaeth ym marn y beirniaid Wil Ifan ac R. Williams-Parry, sef Deilan Iwrwg â'i gerdd 'Rhobat Wyn' yn nhafodiaith Sir Gaernarfon, a Sheci'r Gors â'i gerdd 'Pwllderi' yn nhafodiaith Sir Benfro. Wrth dafoli'r gerdd 'Rhobat Wyn', dywed W. Ifan (1926, t.144): 'nid wyf yn teimlo mor siwr o'r dafodiaith ag ydwyf o iaith heolydd Morgannwg a Dyfed, ond cyn belled ag y gwelaf fi nid oes yma fawr llithro.' Gan nad oeddent yn medru gwahaniaethu rhyngddynt, cytunodd y ddau feirniad i rannu'r wobr gyntaf rhwng Deilan Iwrwg, sef Mr Thomas, 'Awena Rhun' o Flaenau Ffestiniog, a Sheci'r Gors, sef Dewi Emrys.

Arwyddocaol yw nodi i'r gerdd 'Rhobat Wyn' fynd yn angof, ond erys 'Pwllderi' yn un o gerddi mwyaf poblogaidd ac enwocaf yr ugeinfed ganrif. O ran crefft, swyn a thafodiaith, gellid dadlau bod y gerdd 'Rhobat Wyn' dipyn yn dlotach na 'Pwllderi', fel y dengys y dyfyniad isod sydd, o bosib, yn egluro pam iddi fynd yn angof:

Odd gin i gariad? Wel odd debig iawn,  
Mi faswn yn od heb run!  
Heb honno mae gwactar ym mywyd llanc,  
Mi wyddost hynny dy hun (D. Iwrwg, 1926, t.150).

Nodwyd eisoes mai un o bryderon y beirniaid oedd mai prin yw'r dafodiaith yn y cerddi ac i nifer o'r ymgeiswyr anghofio mai cerdd mewn



tafodiaith a ddisgwylid. Syndod, felly, yw canfod yr union ddiffyg hwnnw yn rhai o benillion y gerdd hon, megis y pennill isod. Gellid awgrymu mai *hogiau* y disgwylid ei weld mewn cerdd dafodieithol ogleddol yn hytrach na *bechgyn*:

A chyn pen y mis daeth Rhobat yn ol, -  
Yn ol at i fam a'i dad; -  
Yn ol at y defaid a chwmni iach  
Gnethod a bechgyn y wlad (D. Iwrwg, 1926, t.149).

Rhaid ystyried, felly, beth a achosodd i'r beirniaid rannu'r wobr, gan yr ymddengys fod 'Pwllderi' yn rhagori ar 'Rhobat Wyn', ac wedi ateb yn llawnach ofynion y gystadleuaeth, sef 'Cerdd mewn Tafodiaith Leol'. Yr hyn a geir gan Deilan Iwrwg mewn gwirionedd yw *tafodiaith mewn cerdd*, ond yr hyn a geir gan Sheci'r Gors yw *cerdd mewn tafodiaith*. Gellid dadlau mai awydd i gadw'r ddisgyl yn wastad a rhannu'r wobr rhwng cerdd yn nhafodiaith y gogledd a cherdd yn nhafodiaith y de a welwyd yma. Rhennir y farn hon gan E. Phillips (1971, t.131) a ofynnodd: 'a fethodd y beirniaid glew eto yn eu dyfarniad ynglŷn â 'Phwllderi', neu a oeddynt am rannu'r ddwy gini rhwng cerdd yn nhafodiaith Dyfed a cherdd yn nhafodiaith Gwynedd?' Gellid cytuno bod y beirniaid wedi methu y tro yma, gan fod 'Pwllderi' yn rhagori ar 'Rhobat Wyn' o ran crefft a thafodiaith, sef hanfod y gystadleuaeth.

### **Y gerdd dafodiaith 'Pwllderi'**

Cychwyn cymysglyd sydd i'r gerdd 'Pwllderi'. Wedi i'r bardd gyflwyno ei gartref a'i gymdogaeth (gan gymryd y farn gyffredinol mai ef yw gwrthrych y gerdd), erbyn diwedd y pennill cyntaf daw ag elfen bersonol a hunandosturiol i'r gerdd, sy'n groes i natur y gweddill ohoni. Ceir nifer o fersiynau o'r gerdd hon mewn gwahanol gyhoeddiadau ar hyd y blynyddoedd, ond dyfynnir yma o'r fersiwn wreiddiol a gyhoeddwyd yn *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926*:

Fry ar y mwni mae nghatre bach  
Gyda'r goferydd a'r awel iach.  
'Rwy'n gallid watwar adarn y weunydd, -  
Y giach, y nyddwr, y sgrâd a'r hedydd;  
Ond sana i'n gallid neud telineg  
Na nwddi pennill yn iaith y coleg;  
A s'dim rhocesi pert o hyd  
Yn hala goglish trwyddo'i gyd;  
A hinny sy'n y'n hala i feddwl  
Na 'sdim o'r awen 'da fi o gwbl;  
Achos ma'r sgwlin yn dala i deiri  
Taw rhai fel 'na yw'r prididdion heddi (D. Emrys, 1926, t.151).

Ni chafodd Dewi Emrys addysg brifysgol, a bu hyn yn gysgod uwch ei ben ar hyd ei oes. Disgrifia E. Phillips (1971, t.30) sut yr oedd 'gwŷr academig' wedi bod yn ddrain yn ystlys Dewi Emrys ar hyd y blynyddoedd, ac er ei fod yn ymddangos yn orhyderus wrth lenydd, i ysgolheigion megis yr Athro W. J. Gruffydd a'r Athro Thomas Parry fynd o dan ei groen, ac mai hyn oedd man cychwyn ymgecru cystadleuol ar ei ran. Beth a olyga E. Phillips (1971, t.30) wrth ymddangos yn 'orhyderus?' Gellid tybio bod y ffaith ei fod wedi ennill y Goron yn ogystal â phedair Cadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn nes ymlaen yn ei fywyd wedi rhoi hyder iddo fel bardd, ond efallai o dan yr wyneb ei fod yn parhau i deimlo'n israddol i'r academyddion y deuai ar eu traws yn y byd eisteddfodol. Ymosodiad ar yr ysgolheigion a'r beirniaid, felly, yw ei awgrym nad yw'n medru canu 'yn iaith y coleg' a'r cyfeiriad at *sgwlin*, sef y gair a ddefnyddir yn Sir Benfro am athro.

Serch hynny, â E. Phillips (1971, t.30) ymlaen i ddweud y mynnai'r bardd ei fod yn gyfoethocach na 'chrachach y colegau,' ac mai'r hyn a geir yn y pennill cyntaf hwn, felly, yw ymosodiad ar y gymdeithas a'i hanwybyddodd. Dyma'r hunandosturi oedd yn nodweddiadol ohono, a'r teimlad ei fod wedi cael cam. Awgrymodd C. M. Jones (1996, tt.222, 227), mai un o nodweddion amlycaf y bardd oedd ei hoffter o feirniadu'r beirniad, ac felly gwendid y pennill cyntaf yw ei ddefnydd hunanol o'i dafodiaith, gan iddo ei defnyddio at ei bwrpas ei hun yn hytrach nag at

bwrpas y gerdd. Mae'n drueni bod diwedd pennill cyntaf y gerdd yn torri ar ei rhediad hi; er nas dywedir hynny, mae'n bosib mai dyna'r rheswm paham y bu'n rhaid iddo rannu'r wobr gyntaf, gan i W. Ifan (1926, t.145) gyfeirio at y gwendid hwn yn ei feirniadaeth.

Mae'n arwyddocaol mai pobl wrthodedig ac erlidiedig yw prif gymeriadau ei awdlau 'Y Cwm Unig', 'Y Galilead' a 'Yr Alltud' yn ogystal ag yma yn 'Pwllderi'. Yn wir, cydiodd thema'r gŵr gwrthodedig yn dynnach yn nychymyg y bardd wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt (D. Evans, 1984, tt.74-75). Dadl A. Llwyd (1997, t.49) yw bod Dewi Emrys nid yn unig wedi dioddef o gymhlethdod israddoldeb ond o gymhlethdod erledigaeth hefyd, ac iddo deimlo bod y sefydliad a'r parchusion yn ei erbyn, 'gwŷr y Brifysgol a gwarchodwyr y safonau'; credai'r bardd fod yr ysgolheigion hyn yn ei erlid a'i ragfarnu, ac yntau'n ffefryn y werin bobl. Gallai Dewi Emrys fod wedi bodloni ar fod yn ffefryn y werin bobl, fel y credai ei fod, ac wedi ymfalchïo yn hynny, ond, yn amlwg, deisyfai am fod yn ffefryn ymysg yr ysgolheigion a'r academyddion yn ogystal.

O ystyried y mater o safbwynt Dewi Emrys, gellid dadlau mai hawl i fardd ei farn a'i lais ei hun, ac ym mhennill cyntaf y gerdd hon gwelir y bardd yn arfer y rhyddid hwnnw er mwyn mynegi ei gri bersonol a'i farn am yr 'ysgolheigion', a hynny trwy gyfrwng ei dafodiaith ei hun. Ceir ergyd i'r ysgolheigion; os nad yw'n medru 'nwddi pennill yn iaith y coleg', dengys y gall ysgrifennu pennill yn iaith y werin, sef y dafodiaith. Cofier i'r gerdd hon gael ei hysgrifennu yn 1926, cyn i Dewi Emrys ennill un o brif wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol; gellid awgrymu bod y ffaith nad oedd hyd yn hyn wedi ennill wedi arwain iddo gredu nad oedd y beirniaid o'r farn fod ganddo'r 'awen.' Efallai na fyddai wedi bod mor hallt ei feirniadaeth petai wedi ysgrifennu'r gerdd ddegawd neu ddwy yn ddiweddarach, wedi i lwyddiant ddod i'w ran a Choron a phedair Cadair i'w enw.

Petai'n academydd ac ysgolhaig, wedi cael addysg prifysgol, gellid dadlau mai ysgrifennu'n llenyddol yn unig y byddai Dewi Emrys wedi ei wneud, na fyddai wedi mentro i'r byd llenyddol tafodieithol ac y byddai'n gollod i lenyddiaeth Gymraeg pe nad ysgrifennwyd 'Pwllderi'. Fel yr awgryma H. Wyn (2008, t.138):

Petai ei fywyd wedi bod yn fwy sefydlog, ac yntau wedi cael addysg prifysgol, tybed a fyddai wedi ffrwyno ei awen? Ond hwyrach na fyddai wedi llunio'r un gerdd dafodieithol petai wedi dilyn llwybr academia ac felly ymfalchïwn yn ei orchest yn llunio 'Pwllderi' (H. Wyn, 2008, t.138).

Newidir cywair y gerdd 'Pwllderi' o'r ail bennill ymlaen, a cheir cerdd dafodieithol odidog yn mawrygu natur, bro a chymdogaeth. Gellid dadlau ei fod yn fardd natur o'r radd flaenaf; yn wir, cred E. Phillips (1986, tt.57-58) mai bardd natur oedd yn anad dim, ac awgryma i'w awen gael ei thanio ym Mhen-caer ei lencyndod lle gwelir natur ar ei orau ac, felly, nad syndod mai cerdd yn clodfori byd natur a chymdeithas glòs a geir yn 'Pwllderi'.

Ceir yn y gerdd ddisgrifiad byw o fyd natur a'r amgylchedd, a chreodd y bardd ddarlun lliwgar o'r byd natur hwnnw drwy gyfrwng ei dafodiaith. Fel yr awgrymodd Wyn Owens (Cyfweiliad, 2014) am y gerdd: 'Mae e'n gyfoeth o ran iaith, a mae e'n gyfoeth o ran llun, o ran teimlad, o ran lleoliad. Popeth sy 'na sy'n clodfori yr ardal a'r greadigeth. Dyna lle mae'i chryfder hi.' Sylwer ar goethni ei ddisgrifiadau, megis yr haf yn y dyfyniad isod o'r trydydd pennill:

Crand iawn yw i wishgodd yr amser hyn, -  
Yr eithin yn felyn a'r drisi'n wyn,  
A'r Blode Trâd Brain yn batshe mowron  
Ar lechwedd gwyrdd fel cwmwle gleishon;  
A lle ma'r gwrug ar y graig yn bwnghe,  
Fe dingech fod rhywun yn tanu'r llethre.  
Yr haf fu ino, fel angel ewn,  
A baich o ribane ar ei gewn (D. Emrys, 1926, t.151).

Defnyddir y dafodiaith i bwrpas yn y gerdd hon, sef i gyfleu awyrgylch y fangre unigryw, ac felly mae'n allweddol i'r hyn a ddywed y bardd. Rhaid cytuno felly â B. L. Jones (1986, t.98) sy'n ystyried fod y gerdd, fel cerddi tafodieithol 'Anfon y Nico' gan Cynan ac 'Y Llen' gan Dyfnallt Morgan, yn rhai nodedig gan fod y dafodiaith ynddynt yn 'rhan o hanfod yr hyn sydd gan y bardd i'w ddweud' a bod y dafodiaith yn y gerdd 'Pwllderi' yn 'rhan o gonsurio awyrgylch y lle.' Gwelir yr asio hwn rhwng y dafodiaith a'r golygfeydd yn amlwg yn y pedwerydd pennill, wrth i'r bardd ddisgrifio'r traeth a'r adar a welir yno:

Mae yno ryw bishin bach o drâth -  
Beth all e' fod? Rhyw drigen llâth.  
Mae ino dŵad, ond nid rhyw bŵer,  
A hwnnw'n gowir fel hanner llŵer;  
Ac fe welwch ino'r crechi glâs  
Yn sacco'i bîg i'r pwlle bâs,  
A chered bant ar 'i fagle hir  
Mor rhonc, mor whithrin, a mishtir tir (D. Emrys, 1926, t.152).

Er mai cerdd dafodieithol yw hi yn ei hanfod, y mae iddi rinweddau ehangach yn nhermau ei phynciau oesol, pynciau sy'n dal yn amlwg ym meddwl dyn heddiw, megis yr amgylchedd a bywyd creulon a brau. Fel y disgrifia Mererid Hopwood:

Heb os y mae hi'n gerdd fawr y tu hwnt i'r dafodiaith. Ynddi ymdrinnir â themâu oesol, megis breuder bywyd, creulonder byd natur, a gallu dyn i dosturio a charu'r byd mawr o'i gwmpas – byd y blodau, byd y dirwedd, byd y creaduriaid (Mererid Hopwood, Cyfweliad, 2014).

Er ei bod yn gerdd syml a naturiol, eto llwyddir i ddweud llawer ac i roi disgrifiadau byw mewn ychydig eiriau, megis ar ddechrau'r pumed pennill:

Cewch ino ryw filodd o dderinod -  
Gwilanod, cirillod a chornicillod;  
Ac mor ombeidus o fowr yw'r creige

A'r hen drwyn hagar lle ma' nhw'n heide,  
Fe allech wrio taw clêrs sy'n hedfan  
Yn ddifal o bwti rhyw hen garan (D. Emrys, 1926, t.152).

Yn ogystal â harddwch mae yma wylltineb, a gall fod yn lle peryglus ac unig i'r morwr sydd allan ar drugaredd y môr a'r creigiau; dyma'r breuder bywyd a chreulonder byd natur a ddisgrifiwyd gan Mererid Hopwood uchod. Awgrymwyd eisoes bod sentimentaliaeth yn un o wendidau'r awdur tafodieithol, ond ni ellir cyhuddo Dewi Emrys o hynny yn y gerdd hon. Ar ddiwedd y pumed pennill disgrifir y perygl; cedwir ein sylw yn y disgrifiad erchyll o'r morwr yn galw am gymorth:

A chithe'n meddwl am nosweth ofnadwi  
A'r morwr, druan, o'r graig yn gweiddi, -  
Yn gweiddi, gweiddi a neb yn aped,  
A dim ond hen adarn y graig yn clwed,  
A'r hen girillod, fel mud githreilied  
Yn weito i'r gole fynd mâs o'i liged (D. Emrys, 1926, t.152).

Awgrymodd E. Phillips (1971, t.273) fod y bardd yn ergydio yn erbyn ei genedl, 'hyd yn oed yn ei gampwaith 'Pwllderi'', gan honni iddo ddweud wrthi mai ef oedd y morwr yn y gerdd a bod Cymru wedi ei wrthod a'i anwybyddu. Yr ysgolheigion oedd y *cithreilied* (*cythreuliaid*) yn ôl E. Phillips (1971, t.274) ac, fel y gwyddys, bu'r bardd fyw o dan gysgod y bwgan hwnnw drwy gydol ei fywyd. Sylwer ar yr hunandosturi dirdynol yn ei eiriau 'yn gweiddi, gweiddi, a neb yn aped'. Os yw honiad Eluned Phillips yn gywir, credai Dewi Emrys nad oedd neb yn gwrando ar ei gri i gael ei dderbyn ym myd llenyddol ei wlad, ac felly dyma'r teimlad o israddoldeb yn amlygu ei hun unwaith eto.

Cymer Dewi Emrys, felly, y cyfle am yr eildro yn y gerdd i fynegi ei farn yn glir am y rhai oedd yn ei erbyn, yn ei dyb ef. Dywed C. M. Jones (1996, t.226), fod nifer o weithiau'r bardd yn undonog oherwydd ei hoffter o ganu i'w anlwc ei hun a bod Dewi Emrys yn euog o dalu sylw gormodol i'w hunandosturi hyd yn oed yn y gerdd 'Pwllderi'. Gellid

dadlau nad yw hyn yn torri ar rediad y gerdd serch hynny, fel y gwnaeth y gri bersonol yn y pennill cyntaf, gan ei fod yn cuddio y tu ôl i'r disgrifiad o'r morwr.

Gwneir awgrym diddorol gan E. Phillips (1971, t.274) pan ddywed fod yr ysgolheigion yn agos i'w lle, 'ac mai'r cystadleuydd eisteddfodol, a'r pregethwr dramatig ynddo, fu ei elynion pennaf, wrth geisio mesur ei daldra llenyddol.' Nodwyd eisoes mai bardd eisteddfodol oedd yn bennaf, ac afraid dweud bod cystadlu yn arwain at feirniadaeth ar y gwaith a gyflwynir. Yn naturiol, nid yw beirdd bob amser yn cytuno â'r hyn a ddywedir am eu gwaith, yn enwedig os mai sylwadau negyddol a beirniadol ydynt. Gellid maentumio mai ei hoffter o gystadlu a'r elfen ddramatig yn ei gymeriad fu'n rhwystr iddo, felly, ac er ei fod yn ddyn bychan o gorff chwenychai fod yn fardd mawr. Drwy dalu gormod o sylw i'w hunandosturi y llesteiriodd Dewi Emrys ei gyfraniad i farddoniaeth Gymraeg ym marn E. Phillips (1986, t.59).

Yn chweched pennill y gerdd, newidir cywair eto wrth i Dewi Emrys ddisgrifio, ac yn wir ddathlu'r gymdeithas glòs a fodolai yn yr ardal wledig a'r croeso a dderbynnid ar aelwydydd. Amlygir y cyfeillgarwch a'r brogarwch yn ogystal â 'gwarineb y gymdeithas wledig' (G. M. Awbery, 1991, t.34) a gyferbynnir â pherygl a gwylltineb byd natur a ddisgrifiwyd eisoes. Er y tlodi, yr oedd 'dished o de' neu 'ffioled o gawl' yn nodweddu byrddau bwyd a chroeso'r aelwydydd (J. Nicholas, 1986, t.119). Sylwir mai 'fasned o gawl' sydd yn fersiwn wreiddiol y gerdd yn 1926, ond 'ffioled o gawl' mewn fersiynau diweddarach:

Dim ond un ty sy'n agos ato,  
A hwnnw yng nghesol Garn Fowr yn cwato.  
Dolgâr yw ei enw, hen orest o le,  
Ond lle am reso a dished o de,  
Neu fasned o gawl, a thina well bolied,  
Yn genin a thato a sêrs ar i wmed.  
Cewch weld y crochon ar drible ino,  
A'r eithin yn fflaglu'n ardderchog dano.

Cewch lond y lletwad, a'i llond hi lweth,  
A hwnnw'n ffeinach nag un gimisgeth;  
A chewch lwy bren yn y basin hefyd  
A chwllffyn o gaws o hen gosin hifryd (D. Emrys, 1926, t.152).

Wedi bwyta, ceir cyfle i glywed y bugail yn adrodd ei stori am achub yr oen a aeth i berygl ar glogwyni geirwon Pwllderi, a dyma'r hyn a ddisgrifir yn seithfed pennill y gerdd, sef yr olaf. Cloir y gerdd gyda disgrifiad o'r rheswm pam y mentrodd y bugail i fynd ati i achub yr oen. Dyma un o ragoriaethau'r gerdd, sef ei disgrifiad o fywyd gwledig ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, a'r didwylledd a berthynai i'r bywyd hwnnw. Mae'r gymdeithas yn glòs, ac er y tlodi, mae'r trigolion yn rhannu â'i gilydd ac yn cynorthwyo ei gilydd, boed yn ddyn neu'n anifail:

Ond fe wedith, falle, a'i laish yn crini,  
Beth halodd e' lawr dros y graig a'r drisi:  
Nid gwerth yr wên ar ben y farced  
Ond 'i glwêd e'n lfen am gâl 'i arbed;  
Ac fe wedith bŵer am Figel Mwyn  
A gollodd i fowyd i safio'r wên;  
A thina'r teimlade sy'n dwad ichi  
Pan foch chi'n ishte uwchben Pwllderi (D. Emrys, 1926,  
t.153).

Ceir cyfeiriadau ysgrythurol ac elfen grefyddol amlwg yma. Fe'n hatgoffir o Salm 23, 'Yr Arglwydd yw fy Mugail', Dameg y Ddafad Golledig yn Efengyl Mathew a Dameg y Samariad Trugarog yn Efengyl Luc, ac fel gweinidog yr efengyl byddai Dewi Emrys yn gyfarwydd â'r rhain. Yn bennaf, fe'n hatgoffir o ddisgrifiad Iesu Grist o ef ei hun fel y bugail da gan ragfynegi ei farwolaeth yn Efengyl Ioan: 'Myfi yw'r bugail da. Y mae'r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid' (Y Beibl Cymraeg Newydd, 1988, t.104).

Tybed a oedd y bardd yn ei gymharu ei hun â'r ddafad golledig yn y pennill hwn? Gwyddys i Dewi Emrys fod ar grwydr ac yn cysgu ar strydoedd Llundain yn ystod cyfnodau cythryblus yn ei fywyd. Dyma



farn a ategwyd gan Emyr Llywelyn yn y rhaglen deledu ar y bardd yn y gyfres *Gwlad Beirdd* a ddarllledwyd gan S4C yn 2015:

Neges ganolog Dewi yw mai Duw yw'r Samariad Trugarog, sy'n helpu'r un sydd ar lawr. Dyna'r neges, a ma fe yn 'Pwllderi', ei gerdd fwya fe a gweud y gwir. Dewi ei hunan yw'r ddafad golledig a ma fe'n credu bod cariad Duw yn cyrraedd ac yn codi pob truan syrthiedig. Duw yr amddifad. (E. Llywelyn yn *Gwlad Beirdd: Dewi Emrys*, S4C, 2015)

Mae'n bosib fod yr elfen grefyddol yma wedi ychwanegu at boblogrwydd y gerdd 'Pwllderi'. Cwta ugain mlynedd oedd yna ers diwygiad crefyddol 1904-05, diwygiad a effeithiodd ar batrwm byw'r gymdeithas Gymraeg gyda phobl yn cefnu ar dafarndai ac yn tyrru i ddsbarthiadau addysg grefyddol a chyrrdau gweddi (G. Jenkins, 1999, t.25). Gallai'r cyfeiriadau a'r awgrymiadau crefyddol yma felly fod wedi plesio ac wedi apelio at ddarllenwyr y gerdd.

Rhaid hefyd ystyried a fyddai'r gerdd hon wedi bod yn llwyddiannus pe na bai wedi ei hysgrifennu mewn tafodiaith? Gellid awgrymu bod y dafodiaith wedi ychwanegu at ei llwyddiant, gan ei gwneud yn gerdd nodedig ac unigryw. Mae cyflwyno'r fangre benodol hon yn y dafodiaith a siaredir ynddi yn ychwanegu at swyn y gerdd ac yn ei gwneud yn fwy real; rhydd y dafodiaith naws leol gan leoli'r gerdd yn gadarn yn Sir Benfro, neu fel y dywed Mererid Hopwood (*Cyfweliad*, 2014) 'ei hangori yn ei chynefin.' Barn gyffelyb a fynegwyd gan Idris Reynolds (*Cyfweliad*, 2014) a awgrymodd y byddai troi 'Pwllderi' i iaith safonol yn difetha hud y gerdd gan fod y dafodiaith yn rhan annatod ohoni, a chan Eirwyn George (*Cyfweliad*, 2014) a awgrymodd fod y dafodiaith, y golygfeydd a'r digwyddiadau yn annatod ac na ellir mo'u gwahanu. Gellid awgrymu bod cynnwys y gerdd, yn ogystal â'r dafodiaith y cafodd ei hysgrifennu ynddi, wedi sicrhau ei hirhoedledd.

## Yr ysgrif ‘Y Stori Dal’ o’r gyfrol *Ysgrifau*

Cyhoeddwyd y gyfrol *Ysgrifau* yn 1937, ac mae’n cynnwys saith ysgrif ar bynciau gwahanol. Ym mhumed ysgrif y gyfrol, sef ‘Y Stori Dal’, ceir tafodiaith Sir Benfro yng ngenau’r cymeriad y sonnir amdano, sef Shemi Wâd, brodor o fro mebyd yr awdur a oedd yn feistr ar ddweud stori dal ag ynddi gelwydd diniwed. Yr hyn a geir yn yr ysgrif hon, felly, yw enghraifft o *dafodiaith mewn llenyddiaeth*. Wedi rhagymadrodd mewn iaith safonol, cychwyn y stori dal fel hyn:

Wele’r stori, mor agos ag y gallaf, yn ei eiriau ef ei hun, gyda’r eglurhad mai yn nhafodiaith Dyfed y llefarai:

“Rown i’n fferst mêt ar y Royal Duke, llong fowr bedwar mast, a’i ffiger-hed hi gwmint beder gwaith – wel, gwmint *dair* gwaith, minno, – â’r Frenni Fowr. Fe landes un dwarnod yn Milffwrt. Wedd digon o arian ’da fi – ’y nghiflog, bid shw̄r; ond yr own i wedi câl lot o berle hifid gida brenin y Fiji Islands am safio’i wraig e’ oddi wrth y Red Indians. Fe ath i natur fowr ata’ i ar ôl hinni – gweud ’mod i’n leico’i wraig e’. Ond y gwir am dani yw taw hi wedd yn in’ leico *i*. Fe allwn weud lot; ond ’sdim ots am hinni’n awr” (D. Emrys, 1937a, t.77).

Diben y dafodiaith yn yr ysgrif hon yw rhoi disgrifiad clir o’r modd y siaradai Shemi Wâd, ac felly mae’n rhan hanfodol o’r dweud. Gellid dadlau y byddai rhoi geiriau ‘safonol’ yn ei enau yn ffals ac yn gamarweiniol ac felly rhaid canmol Dewi Emrys am sicrhau’r naturioldeb hwn yn ei ysgrif. Rhinwedd y dechneg hon yw ei bod yn cyfleu iaith yr ardal a’r cyfnod. Caniateir i Shemi Wâd lefaru yn ei iaith ei hun, y lleferydd real hwnnw a ddisgrifir gan M. Ilhem (2013, t.121): ‘literary dialect has its relationship with real speech embodied in the characters’ talk.’

Cyfyd y cwestiwn a yw’r ‘lleferydd real’ hwn yn amlwg i bobl nad ydynt yn gyfarwydd â’r dafodiaith honno neu’n ei siarad? Gellid awgrymu mai trigolion Sir Benfro yw’r beirniaid gorau a yw lleferydd Shemi Wâd yn ‘real’ ai peidio. Hynny yw:

Literary use of dialect for purposes of 'realism' is dependent upon the readership having sufficient familiarity with both the dialect itself and the conventions of its representation to experience it as 'real' (J. Hodson, 2014, t.200).

Yn ei adolygiad o'r gyfrol, awgrymodd T. J. Morgan (1937, t.190) mai gwaith gorau Dewi Emrys yw ei bethau symlaf, yn enwedig lle y cyfeiria at ei hanes ei hun a bro ei febyd, gyda 'thafodiaith y fro honno yn lliwio ei arddull.' Awgrymwyd eisoes yn y bumed bennod nad oes dim o'i le ar gyfansoddi cerdd syml, gan nad oes yn rhaid i gerddi fynegi teimlad dwys neu brofiad dyrys mewn iaith astrus ac, yn yr un modd, gellid dadlau y gall rhyddiaith syml a chllir apelio at ddarllenwyr. Er mai adolygu'r gyfrol *Ysgrifau* a wna, ni all T. J. Morgan (1937, t.190) beidio â chanmol y gerdd 'Pwllderi'. Fel y gwnaeth eraill, mynega ei chwilfrydedd mai cydfuddugol oedd hi yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926, yn hytrach na'r fuddugol, gan ddweud nad oes cerdd arall mewn tafodiaith i'w chymharu â hi ar y pryd, ac eithrio cerdd arall yn nhafodiaith Sir Benfro a welodd mewn llawysgrif o waith Waldo. Cyfeiriwyd eisoes at gerddi tafodieithol cynnar Waldo, megis 'Wil Canaan', 'Am Ennyd' a 'Galw'r let (Ar Ffordd Fowr yn Shir Bemro)', felly gellid dyfalu mai cyfeirio at un o'r rhain a wna T. J. Morgan yma.

Credai T. J. Morgan (1937, t.191) mai cariad Dewi Emrys at fro ei febyd a hiraeth am y mebyd hwnnw oedd y cymhelliad oedd yn ei ddwysbigio i lenydd, ac mai hyn sy'n rhoi didwylledd, naturioldeb a chelfyddyd i 'Y Stori Dal', ynghyd â'i ddawn i adrodd helyntion syml. Canmolodd ei arddull llyfn, ei frawddegau cymhleth a chywrain heb ddryswch, sy'n wahanol i arddull y pedair ysgrif gyntaf yn y gyfrol lle y teimla T. J. Morgan (1937, t.191) fod Dewi Emrys yn rhoi 'perfformiad mewn pros.' Awgrym y sylw 'perfformiad mewn pros' yw i'r awdur ddewis unrhyw destun, er mwyn ysgrifennu, yn hytrach nag ysgrifennu ar destun a oedd o wir ddiddordeb iddo. Ymysg testunau'r ysgrifau cyntaf y mae 'Y Falen', 'Fy Mhib' a 'Ffenestr', a rhaid cytuno nad ydynt mor ddiddorol â 'Y Stori Dal'.

## Tafodiaith Sir Benfro yn 'Pwllderi' a 'Y Stori Dal'

Gan ei fod yn saith oed yn symud i ardal Pen-caer, nid dyma oedd tafodiaith gyntaf Dewi Emrys, ond diau y byddai wedi ei dysgu'n gyflym yng nghwmni ei gyfoedion yn yr ysgol a'r trigolion lleol. Disgrifia J. Nicholas (1986, t.118) sut y byddai Dewi Emrys yn mynd i aros gyda'i gyfeillion Mr a Mrs Daniel Rees ym Mhen-caer, ac iddo glywed Mrs Rees yn sôn am Dewi Emrys yn gwrando'n ofalus arni'n siarad ac yn cofnodi geiriau pan oedd wrthi'n ysgrifennu'r gerdd 'Pwllderi'. Dyma sylw arwyddocaol; roedd y bardd wedi gadael Sir Benfro ers dros ugain mlynedd pan ysgrifennodd y gerdd ac yn amlwg yn teimlo'r angen i ymglyfarwyddo o'r newydd â thafodiaith ei ieuenctid. Nodwyd yn y bennod gyntaf y farn mai artist yw awdur tafodieithol yn flaenaf nid ieithydd ac, o ganlyniad, fe fydd ei dafodiaith yn aml yn anghyflawn. Wrth ysgrifennu'r gerdd hon, gwelir bod Dewi Emrys yn awyddus i gofnodi'r dafodiaith mor gywir a chyn agosed ag y gallai at y modd y'i siaredid hi a bod yr elfen ieithyddol yn hollbwysig iddo.

Wrth ystyried ei weithiau tafodieithol, cyfyd y cwestiwn a ydynt yn enghreifftiau da o'r dafodiaith ar waith? Gellid dadlau eu bod, gan fod ei ddefnydd o'r dafodiaith yn dangos ei feistrolaeth ohoni, ei adnabyddiaeth ohoni, a'i allu i'w thrin a'i chyfleu'n gelfydd yn ei weithiau, heb amharu ar odl a chrefft y gerdd na rhediad yr ysgrif.

Llwydda defnydd Dewi Emrys o ffurfiau tafodieithol i bwysleisio'r gwrthdrawiad a'r gwrthgyferbyniad rhwng 'iaith y coleg' y cyfeirir ati ar ddechrau 'Pwllderi' a'r iaith lafar, iaith y trigolion lleol. Mae ffurfiau negyddol y ferf yn drawiadol – 'ond sana i'n gallid neud telineg' (D. Emrys, 1926, t.151), ac yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhyngddo ef, a oedd yn ystyried ei hun yn fardd y werin, a'r academyddion.

Ceir rhai enghreifftiau diddorol o eirfa ganddo, megis y gair *agwred* am *agored* a'r gair *dŵad* am *dywod*. Nid ydynt wedi eu cynnwys yn A

*Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire* (W. M. Morris, 1910) nac ychwaith yn *Rhint y Gelaets a'r Grug: Tafodiaith Sir Benfro* (W. Owens, 2013). Awgryma hyn eu bod naill ai'n eiriau prin a arddelir mewn ardal benodol, neu i Dewi Emrys eu dehongli mewn modd unigryw, fel yr artist iaith y cyfeiriwyd ato eisoes.

Crybwyllwyd eisoes ddylanwad y Saesneg ar Gymraeg Sir Benfro ac, er i'r iaith Gymraeg oroesi yng ngogledd y sir, amsugnodd Saesneg y de:

Welsh survived in the northern part of the county but during the course of the centuries, in spite of a well-defined linguistic boundary across the county, the vocabulary of the Welsh dialect absorbed a considerable number of words from the English dialect of the south (B. G. Charles, 1971, t.103).

Gwelir y dylanwad hwn yn y dyfyniadau isod o waith Dewi Emrys. Mae'r gair *dwshwn*, er enghraifft, yn tarddu o'r gair Saesneg *dungeon*, 'a hollow or sudden depression in the ground, ravine; a deep ditch; a deep dark vault' (B. G. Charles, 1971, t.115).

'Ry'ch chi'n sefill fry uwchben y dwshwn (D. Emrys, 1926, t.151)

yn gadel y bae'n agwred i bob hen fforiner (D. Emrys, 1937a, t.78)

Ond wedd 'da fi ddim amser i stopo i ecspleino dim (D. Emrys, 1937a, t.80)

Un o'r geiriau mwyaf diddorol yn y gerdd 'Pwllleri' yw'r gair (*g*)*wreca*, sef berfenw sy'n tarddu'n wreiddiol o'r Saesneg *to wreck*. Ei ystyr yw arfer trigolion yr ardal o gerdded ar hyd traethau adeg y trai yn chwilio am wrthrych o werth a olchwyd i fyny gan y llanw. Er y cyfeiriodd Idris Reynolds (Cyfweliad, 2014) at y term *briwita*, dywed D. Jones (1992, t.14) na chlywodd am air yn cyfateb i *gwreca* mewn rhannau eraill o Gymru, er yr awgryma i'r arfer fod, mewn gwlad mor arfordirol â Chymru, yn beth cyffredin o Gaerdydd i Lerpwl:

Ond ma 'nhw'n gweid 'i fod 'e, Dai Beca,  
Yn mentro lawr 'na weithe i wreca (D. Emrys, 1926, t.152).

Mae geiriau o'r fath yn rhan annatod o dafodiaith yr ardal, felly. O ystyried hynny, diddorol yw sylw D. Emrys (1944, t.32), wrth feirniadu'r bryddest yn Eisteddfod Genedlaethol Llandybïe, ynglŷn â'r duedd i drosi geiriau anghyfiaith i orgraff Gymraeg, geiriau megis *ecstasi*, *jyrian*, *sinc* ac *hyrdigydiol*; gwelai'r tueddiadau hyn yn arwydd o'r ffordd yr oedd y diwylliant gwerin yng Nghymru wedi dirywio, hyd yn oed o fewn ei hardaloedd gwledig (C. M. Jones, 1996, t.225). Cofier bod yr awdur ei hun wedi cynnwys geiriau megis *fforiner* ac *ecspleino* yn ei weithiau, ond gellid maentumio bod ei agwedd at hyn wedi newid erbyn 1944.

Awgrymwyd eisoes mai perygl ysgrifennu'n dafodieithol yw canolbwyntio'n ormodol ar y dafodiaith a hynny ar draul y cynnwys. Gellid dadlau bod hyn yn troi'r gwaith yn rhyw fath o ymarfer ieithyddol, gyda'r pwyslais ar yr iaith yn hytrach nag ar y stori a gyfleir. Hynny yw, 'perygl cerddi tafodiaith ydyw i'r bardd ganolbwyntio i'r fath raddau ar gyflwyno'r dafodiaith nes iddo esgeuluso'r ochr farddonol' (T. J. Morgan, 1970, t.90). Gellid awgrymu nad yw Dewi Emrys yn euog o'r camwedd hwnnw; sylwer, er enghraifft, ar ei ddisgrifiad byw o wylltineb Pwllderi:

'Sda'r dinon taliedd fan co'n y dre  
Ddim un llefeleth mor wyllt yw'r lle.  
'All ffrwlyn y cownter a'r brethin ffansi  
Ddim cadw'i drâd uwchben Pwllderi.  
'Ry'ch chi'n sefill fry uwchben y dwshwn  
A drichid lawr i hen grochon dwfwn,  
A hwnnw'n berwi rhwng creige llwydon,  
Fel crochon o lâth neu olchon sebon (D. Emrys, 1926, t.151).

Er mai ei amcan wrth ysgrifennu'r gerdd oedd ymateb i ofynion y gystadleuaeth 'Cerdd mewn Tafodiaith Leol', ac iddo lwyddo i gyflwyno'r dafodiaith yn gelfydd, nid esgeulusodd yr ochr farddonol a'i amcan o greu llun a chyflwyno stori.

## Gwerth y gweithiau hyn

Teg gofyn pa werth sydd i'r gerdd a'r ysgrif erbyn heddiw? Arwyddocaol yw nodi i Dewi Emrys gynnwys 'Pwlllder' yn y ddwy gyfrol o farddoniaeth a gyhoeddodd, sef *Y Cwm Unig a Chaniadau Eraill* (1930) a *Cerddi'r Bwthyn* (1948). Awgryma hyn ei fod ef ei hun yn gosod gwerth ar y gerdd, ac yn ei chydhabod fel un o'i gerddi gorau, neu o leiaf fwyaf poblogaidd. Wrth gwrs, mae'r ddau beth hyn yn gallu bod yn gwbl wahanol i'w gilydd; gellid dadlau mai poblogrwydd cerdd yw'r ffordd orau o fesur ei gwerth, sef ei bod yn cael ei mwynhau.

Er iddo ennill prif wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol bum gwaith, mae'r beirniaid a'r ysgolheigion yn weddol gytûn mai'r gerdd 'Pwlllder' yw'r orau o gynnyrch Dewi Emrys, ac am y gerdd honno y'i cofir yn bennaf erbyn heddiw. Y mae hyn oherwydd: 'ynndi hi gwelwn dafodiaith gyfoethog Pencaer Sir Benfro yn anadlu bywyd a cheir nerth yn y canu. Dyma gerdd gyhyrog gyflawn' (E. Phillips, 1971, t.280). Gellid dadlau y rhydd tafodiaith nerth a chryfder i ddarn o waith gan ei bod yn unigryw ac yn fynegiant personol gan yr awdur yn ei iaith ei hun.

Ffrwyth ei gystadlu a geir yn y gyfrol *Cerddi'r Bwthyn*. Yn ei adolygiad o'r gyfrol honno, dywed J. M. Edwards (1949, t.48) mai ychydig iawn o'r cerddi sy'n argyhoeddi'r darlennydd eu bod wedi eu llunio o dan unrhyw gyffro ond hwnnw a ysgogir gan ofynion cystadleuaeth ond mai 'da iawn fel cerdd dafodiaith yw'r darn adnabyddus i 'Pwlllder'. Neilltuir y geiriau prin o ganmoliaeth, felly, i'r gerdd 'Pwlllder'. Gellid awgrymu bod iddi werth personol, felly, o ran sicrhau a diogelu enw Dewi Emrys ar gof a chadw.

Trafodwyd eisoes bryder rhai bod gwerth ac apêl gweithiau tafodieithol wedi eu cyfyngu i'r ardaloedd hynny y perthyn y tafodieithoedd iddynt. Dyna oedd barn un o feirniaid y gystadleuaeth 'Cerdd mewn Tafodiaith Leol,' sef R. Williams-Parry (1926, t.148), a ddywedodd: 'ni all neb ond a

fagwyd ym Mhemfro Gymreig flasau llawn rin tafodiaith *Sheci'r Gors*.' Fel yr awgrymwyd eisoes, gellid dadlau bod modd gwerthfawrogi gweithiau tafodieithol heb eu deall yn llwyr. Rhaid cytuno, felly, â sylw pellach R. Williams-Parry (1926, t.148): 'ond gall y sawl nid yw'n hysbys ynddi brofi o hufen barddoniaeth y gerdd,' a hynny oherwydd na esgeulusodd Dewi Emrys ochr farddonol y gerdd a chanolbwyntio'n ormodol ar y dafodiaith.

Ni chytuna phawb â'r farn mai gwerth lleol sydd i lenyddiaeth dafodieithol. Er enghraifft pan ofynnwyd i wŷr enwog Cymru ddewis eu hoff gerdd ar gyfer cyfrol a baratowyd i ddathlu Blwyddyn Llenyddiaeth a Llenyddiaeth y Deyrnas Gyfunol 1995, dewis y diweddar wleidydd Rhodri Morgan oedd 'Pwllderi' (O. Burt a C. Jones, 1995, t.174), er mai brodor o Gaerdydd oedd. Dewisodd y gerdd am mai Pwllderi oedd un o'i hoff leoedd; nid oedd sôn yn ei resymwaith dros ei ddewis nad oedd yn medru deall y gerdd yn llawn, er ei bod yn bur debyg nad oedd yn deall pob gair, gan na ddefnyddir nifer ohonynt mwyach ac nid oedd yn frodor o'r ardal. Awgryma ei ddewis felly fod gwerth i lenyddiaeth dafodieithol o ran mwynhad a phleser o'i darllen, fel yr awgrymwyd eisoes, a dengys hyn bŵer tafodiaith a'i bod yn medru cryfhau'r ymdeimlad o berthyn i ardal neu allu uniaethu â hi.

Yn 2000, cyhoeddwyd y gyfrol *Hoff Gerddi Cymru*, yn cynnwys cant o gerddi yn dilyn pleidlais gan bobl Cymru dros eu hoff gerdd. Y gerdd a restrwyd yn rhif 47 oedd 'Pwllderi', sy'n awgrymu ymhellach ei phoblogrwydd cenedlaethol er iddi gael ei hysgrifennu yn nhafodiaith rhan benodol o'r wlad, dros saith deg mlynedd yng nghynt. Er mai i Sir Benfro y perthyn iaith 'Pwllderi', gellid dadlau bod ei thynnerwch a'i dwyster yn perthyn i fyd ehangach (C. M. Jones, 1996, t.224).

Cyfyd y cwestiwn, felly, pam fod y gerdd 'Pwllderi' mor boblogaidd ymysg y Cymry, ac ai'r gerdd ei hun sy'n boblogaidd, neu'r ffaith ei bod yn gerdd mewn tafodiaith? Yn y nofel *Un Nos Ola Leuad* (1961), y stori



sy'n bwysig nid y ffaith bod y gyfrol wedi ei hysgrifennu yn nhafodiaith ardal Bethesda, ond yn y gerdd 'Pwllderi', gellid awgrymu bod y dafodiaith yn hollbwysig. Yn wir, gellid dadlau bod cynnwys y gerdd a'r dafodiaith ynddi yr un mor allweddol i'w phoblogrwydd hi, a bod y dafodiaith yn ychwanegu at y ddelwedd a gyflëir gan y bardd.

Cyfeiriwyd yn gynharach at y rhaglen deledu ar Dewi Emrys yn y gyfres *Gwlad Beirdd* a ddarllwyd gan S4C yn 2015. Rhoddwyd cryn dipyn o sylw i'r gerdd 'Pwllderi' yn y rhaglen honno, sy'n cadarnhau'r hyn a awgrymwyd eisoes am boblogrwydd a statws y gerdd ym myd llenyddiaeth Gymraeg. Mewn ymateb i gwestiwn Tudur Dylan Jones pam fod y gerdd 'Pwllderi' yn dal yn gymaint o ffefryn i'r Cymry, amlygodd Mererid Hopwood yr hyn a awgrymwyd eisoes am dafodiaith odidog y gerdd yn ogystal â Dewi Emrys fel y dyn cythryblus, y ddafad golledig:

Mae'n anodd dweud. Ma'r dafodieth wrth gwrs yn bert. Geirie fel *aped* yn lle ateb, neu *taliedd* yn lle, beth, uchel ael. Ond ma'r gerdd mor nodweddiadol o waith Dewi Emrys. Yng nghanol holl brydferthwch natur, mae e'n rhoi i ni ddyn mewn trybini (M. Hopwood yn *Gwlad Beirdd: Dewi Emrys*, S4C, 2015).

Fel y nodwyd eisoes, cyhoeddodd W. M. Morris (1910) *A Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire* gan gynnwys yn y gyfrol eiriau a oedd yn fyw, yn araf ddiflannu, yn ogystal â rhai nas defnyddiwyd bellach. Yr hyn a geir yn y gerdd 'Pwllderi' ac yn yr ysgrif 'Y Stori Dal' yw cofnod byw o'r eirfa hon ychydig ddegawdau'n ddiweddarach, ac mae hynny o werth i'r tafodieithegydd. Yn ogystal â chofnod ieithyddol o bwys ceir yn y gerdd a'r ysgrif gofnod o fro a chymdeithas ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ei chymeriadau a'u ffordd o fyw, a'r brawdgarwch a fodolai er gwaethaf y tlodi. Gellid dadlau bod i'r gweithiau hyn, felly, werth hanesyddol a chymdeithasol, fel sydd i'r gweithiau gan awduron tafodieithol a ystyriwyd yn y penodau blaenorol.

Gellid dadlau mai gwerth pennaf y gerdd 'Pwllleri' yw iddi boblogeiddio tafodiaith Sir Benfro a'i dwyn i sylw'r genedl, yn ogystal â phoblogeiddio canu tafodieithol. Gosododd y sylfeini ac arweiniodd y ffordd ar adeg pan oedd y pwyslais ar ganu safonol. Fel yr awgrymodd Ceri Wyn Jones (Cyfweiliad, 2014) am Dewi Emrys: 'mae 'di 'neud ffafre mawr â chanu tafodieithol yn hynny o beth, achos mae 'di gweud 'ydy, mae'n bosib i 'neud hynny' ac 'alle ti ddweud bod e wedi cyfreithloni canu tafodieithol.' Mae'r gair 'cyfreithloni' yn un arwyddocaol sy'n awgrymu mai 'anghyfreithlon' ym marn rhai yw canu tafodieithol, a bod angen ei gyfreithloni, neu bod rhaid ei gyfiawnhau mewn rhyw ffordd. Yn yr un modd, awgrymodd Mererid Hopwood (Cyfweiliad, 2014): 'mae'r bri sydd wedi bod ar gerdd 'Pwllleri' wedi helpu chwalu rhagfarnau posib yn erbyn ysgrifennu mewn tafodiaith.' Dangosodd Dewi Emrys ei bod yn bosib ysgrifennu'n dafodieithol heb gyfaddawdu ar gynnwys na stori'r gerdd, a heb amharu ar y mwynhad ohoni.

Mae 'Pwllleri' yn gerdd arloesol felly, yn torri tir newydd ar adeg pan nad oedd llawer o fri ar ganu tafodieithol. Llwyddodd Dewi Emrys i roi statws i dafodiaith, fel y dywed Lleucu Roberts:

Drwy ddyrchafu tafodiaith, mae'n agor y drws ar bosibiliadau diddiwedd, ac yn creu llenyddiaeth fwy real a dilys, sy'n adlewyrchiad mwy ffyddlon o'n gwirionedd fel cenedl. Gwna'n siŵr ein bod yn gwybod lle ry'n ni, pwy yw'r bobl sydd ynghlwm wrth y lle, a phwy yw ef, y bardd (Lleucu Roberts, Cyfweiliad, 2015).

Gwneir nifer o bwyntiau pwysig yma. Mae'r gair 'dyrchafu' yn un allweddol, sy'n awgrymu bod 'Pwllleri' wedi codi tafodiaith i lefel uwch, ac wedi dangos ei bod yn bosib cynhyrchu gwaith o safon mewn tafodiaith. Arwyddocaol yw'r sylw ynglŷn â 'llenyddiaeth fwy real a dilys', sy'n atgyfnerthu'r awgrym a wnaed eisoes ynglŷn â'r naturioldeb a'r agosatwydd hwnnw a geir mewn llenyddiaeth dafodieithol. Mae'r cyfeiriad at y dafodiaith yn lleoli'r gerdd yn ategu'r sylwadau a wnaed

eisoes ynglŷn â hunaniaeth, a'r syniad o berthyn i ardal ac i gymdogaeth drwy'r dafodiaith honno.

### **Poblogrwydd 'Pwllderi' fel darn adrodd**

Gwyddys fod Dewi Emrys yn adroddwr o fri, yn ogystal ag awdur. Gyda throad yr ugeinfed ganrif roedd eisteddfodau mawr a phrawf-gyngherddau yn boblogaidd ac yn ffynnu yng Nghymru, ac 'fe fu Dewi'n ysgubol o lwyddiannus fel adroddwr, yn curu cewri'r dydd â'i ddawn fawr' (T. Ll. Jones, 1981, t.5). Yr oedd yn hoff o gwmni pobl a'u diddanu, ac mae'n debygol ei fod wedi adrodd y gerdd 'Pwllderi' ei hun, ac felly wedi ei phoblogeiddio drwy hynny. Er enghraifft, yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926, pan enillodd y Goron a £25 yn ogystal â dod yn gydradd gyntaf gyda'r gerdd 'Pwllderi', bu'n aros yng ngwesty moethus y Mackworth, 'ac yno y bu'n cynnal ei lys bob nos tan oriau mân y bore' (D. Davies, 2014).

Yn ogystal, gwyddys fod 'Pwllderi' yn boblogaidd fel darn adrodd gan eraill, megis ar y radio ac mewn eisteddfodau. Er enghraifft, o ran cyfrwng y radio, i fynd nôl i gyfnod ysgrifennu'r gerdd fe'i darllenwyd, ymysg cerddi eraill, gan Gunstone Jones ar y rhaglen 'A Welsh Hour' ar orsaf BBC 5SX Swansea ar 12 Gorffennaf 1928 a hefyd ar y rhaglen 'A Welsh Programme' ar orsaf y BBC 5WA Cardiff ar 4 Rhagfyr 1931. (Ffynhonnell: BBC Genome BETA Radio Times 1923 – 2009).

O ran eisteddfodau, disgrifia W. Owen (2014) y gystadleuaeth adrodd yn Eisteddfod Tyddewi 2011 pan aeth Maud, gwraig 98 oed, i fyny i'r llwyfan yn ei chadair olwyn i adrodd 'Pwllderi' o'i chof. Cyfeiriodd Eirlys Charles (Cyfweliad, 2015) at yr un achlysur. Mae'n bur debyg y byddai Maud yn gyfarwydd â'r gerdd ers cyfnod ei hysgrifennu, pan oedd hi'n ifanc, ac yn amlwg yn dal i'w chofio yn ei henaint. Felly hefyd oedd hi yn achos Hetty Bechler, o Abergwaun yn wreiddiol, a ddathlodd ei phenblwydd yn 100 oed yn 2015: 'roedd 'Pwllderi' gan ei hoff fardd Dewi

Emrys ar ei chof ers pan ddarllenodd hi gyntaf yn ifanc, a hynny achos ei bod yn ei thafodiaith hi' (Barddas, 2015). Sonnir amdani hithau'n adrodd 'Pwllderi' ar y radio yn 1938, a chan fod y tâp hwnnw ar goll, fe'i recordiwyd eto yn 2015 fel rhan o Ffeiliau Sain Barddas (Barddas, 2015). Yn yr ail bennod, cyfeiriwyd at y ffaith y cyfwelwyd Idris Reynolds am ei fod, ymhlith pethau eraill, yn feirniad eisteddfodol cyson. Cadarnhaodd yntau bod y gerdd 'Pwllderi' yn cael ei hadrodd yn aml mewn eisteddfodau, nid yn unig yn Sir Benfro ond mewn ardaloedd eraill hefyd (Idris Reynolds, Cyfweliad, 2014).

Mae'n amlwg, felly, bod 'Pwllderi' yn boblogaidd fel darn adrodd, a bod y cyfrwng hwnnw yn bwysig fel modd i gyrraedd cynulleidfaoedd, nid yn unig yn Sir Benfro ond ledled Cymru yn ogystal. Gellid awgrymu bod clywed y gerdd yn cael ei hadrodd fel hyn wedi dwyn sylw pobl ati ac wedi cyfrannu at y rheswm iddi gael ei hethol yn rhif 47 allan o gant yn y gyfrol *Hoff Gerddi Cymru* (2000).

### **Barn y beirniaid am Dewi Emrys**

Nodwyd eisoes mai fel bardd eisteddfodol yr adwaenir Dewi Emrys yn bennaf ac, ym marn nifer, dyma ei nodwedd amlycaf, er na ddywedir hynny mewn modd canmoliaethus. Wrth ei ddisgrifio fel bardd eisteddfodol, awgryma A. Llwyd (1997, t.44) mai 'hynny oedd ei lwydd a'i dramgwydd, ei gamp a'i gwymp.' Yn yr un modd, dywed E. Phillips (1971, t.273) mai ei wendid neu ei anffawd pennaf oedd iddo orgystadlu, a hynny am dros ddeugain mlynedd gan gynnwys un mlynedd ar ddeg ar hugain yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cynhyrchion eisteddfodol oedd crynswth y cyfrolau a gyhoeddodd; awgryma hyn mai ysgrifennu i bwrpas a wnâi, at ddibenion cystadlu.

Er iddo ganmol Dewi Emrys am ei allu i addasu ei lais canu yn ôl y *genre* yr oedd yn ei drin ar y pryd, boed yn ieithwedd ac ymadroddion canu telynegol, canu awdlaidd neu ganu tafodieithol, awgryma A. Llwyd

(1997, t.45) na ddaeth y bardd erioed o hyd i'w wir lais, gan ei fod yn 'ystumio yn rhy aml i bwrpas cystadleuaeth.' Â A. Llwyd (1997, t.46) ymlaen i awgrymu mai collwr anraslon oedd Dewi Emrys, a chan mai bardd eisteddfodol ydoedd mewn gwirionedd, mai meddylfryd truenus a phitw y bardd eisteddfodol a feddai. Dyma'r teimlad o israddoldeb a hunandosturi a'r gred ei fod yn wrthodedig yn ei wlad yn dominyddu ei fywyd ar hyd ei oes.

Cyhoeddodd Thomas Parry *The Oxford Book of Welsh Verse* yn 1962, ddeng mlynedd wedi marw Dewi Emrys gan gynnwys cerddi Cymraeg o bob cyfnod. Y ddwy gerdd o eiddo Dewi Emrys a gynhwysodd yn y gyfrol oedd 'Pwllderi' (rhif 257) a'r englyn 'Y Gorwel' (rhif 364). Er yn arwyddocaol bod y golygydd wedi dewis cerdd dafodieithol, nid yw hynny'n syndod gan y'i hystyrid yr orau o gerddi Dewi Emrys. Yn wir, dywed S. Lewis (1971, t.283): 'fe geidw ei lle yno ac mewn unrhyw ddetholiad o delynegion Cymraeg,' a hynny am fod ynddi angerdd cofio paradwys goll. Tybed a fyddai'r awdur ei hun wedi synnu, petai fyw, fod Thomas Parry wedi cynnwys ei gerddi o gwbl yn ei gyfrol, heb sôn am gerdd dafodieithol a ysgrifennodd yn 'iaith y werin', wrth gofio i wŷr academig ac ysgolheigion o'r fath fynd o dan ei groen.

Wrth lunio'r gyfrol *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* a gyhoeddwyd yn 1987, ai cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith i'r golygyddion, sef Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd, gynnwys yr union ddwy gerdd, 'Pwllderi' a 'Y Gorwel' (rhifau 33 a 34)? Noder i G. ap Gwilym ac A. Llwyd (1987, tt.578-579) gynnwys esboniad o rai o'r geiriau tafodieithol yn y gerdd 'Pwllderi' ar ddiwedd y gyfrol, er na wnaeth Thomas Parry hynny yn ei gyfrol yntau yn 1962. Awgryma hyn, o bosib, fod nodweddion tafodieithol yn raddol fynd yn estron, a bod angen eglurhad ar y darlennydd. Cofier bod Meic Stephens yn gwneud yr un peth wrth gyflwyno ei weithiau yn nhafodiaith y Wenhwyseg. Cyfeiriodd A. Llwyd (1997, t.44) yn ddiweddarach at y cerddi hyn fel dwy gerdd enwocaf Dewi Emrys, er mai cerddi a luniwyd ar gyfer

cystadlaethau oeddynt; dyfarnwyd 'Y Gorwel' yn gyntaf gan Gwenallt yng nghystadleuaeth yr englyn yn Eisteddfod Genedlaethol Bae Colwyn yn 1947.

Tybiai'r ysgolheigion hyn, felly, fod gwaith Dewi Emrys yn haeddu lle mewn cyfrolau o'r fath, a dengys hynny eu gwerth yn eu golwg hwy. Serch hynny, nid ystyrir Dewi Emrys yn un o feirdd mawr a blaenllaw yr ugeinfed ganrif. Er yn cydnabod iddo ennill prif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol bum gwaith, a'i fod yn llenor toreithiog, awgrymodd M. Stephens (1997, t.369) nad 'oes llawer o werth parhaol i fawr o'i waith' ac mai am y gerdd 'Pwllderi' y'i cofir yn bennaf, nid ei awdlau. Yn yr un modd, awgrymodd E. Phillips (1971, t.281) ei fod 'ymhell o fod yn fardd mawr.' Gellid maentumio mai'r rheswm am hyn, fel yr awgrymwyd eisoes, oedd ei hoffter o gystadlu, ac felly câi ei gyfyngu gan ofynion y cystadlu hwnnw. Nid ysgrifennu am fod yr awen yn ei arwain i wneud a wnâi, ond ysgrifennu i bwrpas, at ddiben cystadleuaeth, gan gynnwys y gerdd 'Pwllderi'.

Yn wir, gellid awgrymu mai'r gwobrau a ddenai Dewi Emrys i gystadlu. Bu ar ei gythlwg yn gyson wedi 1917 yn sgil ei ymadawiad â'r weinidogaeth a'i fywyd ansefydlog yn y 1920au a'r 1930au, ac felly, o bosib, mai er mwyn yr enillion ariannol yr oedd yn cystadlu yn bennaf. Efallai mai'r enillion hyn a'r statws a'r urddas a ddeuai i'w ran yn sgil ei lwyddiannau eisteddfodol oedd yr hyn a chwenychai fwyaf, a'i fod yn credu mai drwy'r rhain y mesurir llwyddiant bardd.

Yn ei ragair i'w gyfrol *Cerddi'r Bwthyn* (1948) a oedd yn cynnwys nifer helaeth o gerddi a wobwywyd bron degawd ynghynt yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych 1939, dywed Dewi Emrys am y cerddi: 'ni ellir taflu arnynt y sarhad o'u galw yn ddarnau "eisteddfodol", sef pethau a luniwyd yn beiriannol, fel dannedd gosod, ar gyfer cystadleuaeth' (D. Emrys, 1948, t.7). Awgryma hyn ei fod yn ymwybodol o'r farn mai bardd eisteddfodol oedd, a'i fod yn ceisio hyrwyddo pwysigrwydd a

gwerth cerddi a luniwyd ar gyfer y diben hwn. Â ymlaen i gyfaddef: 'gwir yw'r gair mai rhaglen eisteddfod, yn addo cadair dderw gerfiedig gwerth pymtheg punt, a'm cymhellodd i ganu hanner dwsin o sonedau i'r Hafnos' (D. Emrys, 1948, t.7), sy'n atgyfnerthu'r awgrym mai cymhelliant ariannol a gwobrwyol oedd i'w gystadlu brwd.

Cyfeiriwyd eisoes at awgrym E. Phillips (1971, t.30) bod Dewi Emrys yn ymddangos yn orhyderus wrth lenydd. Serch hynny, gwelir teimlad o ansicrwydd o'i du yn ei awydd i gyflwyno sylwadau canmoliaethus amdano'i hun ac yn ei grefu am sylw. Gwelir enghraifft o hyn yn ei ragair i'r gyfrol *Daniel Owen : Awdl Fuddugol Eisteddfod Llundain 1936*, lle mynna ddyfynnu o eiriau'r beirniad Ben Davies: 'medr *Glan Alun* ganu, a chanu'n felys a meddylgar. Ceir ganddo rai penillion gystal â dim a welsom ers blynyddoedd' (B. Davies, yn D. Emrys, 1937b, t.6). Yn ei ragair i'w gyfrol *Beirdd y Babell*, noda D. Emrys (1938, t.vii) mai calondid mawr iddo yw canmoliaeth gwŷr amlwg o wasanaeth *Y Babell Awen*, ei golofn farddol yn *Y Cymro*, gwŷr megis Tecwyn Lloyd, R. Williams-Parry, Saunders Lewis, Caradog Prichard, Nantlais ac Edgar Phillips, ac â ati i ddyfynnu geiriau canmoliaethus beirdd megis T. E. Nicholas ac Amanwy. Er ei chwerwder at ysgolheigion, fel yr amlygodd yn y gerdd 'Pwllideri', yr oedd yn dal i chwennych eu canmoliaeth.

### **Casgliad**

Ychydig iawn o waith a ysgrifennodd Dewi Emrys yn nhafodiaith Sir Benfro. Awgryma hyn ei fod yn fwy cartrefol yn ysgrifennu mewn iaith safonol, neu'n teimlo mai hynny oedd yn ddisgwyliedig ac yn fwyaf derbyniol ymysg beirniaid a darllenwyr. Oni bai am y gystadleuaeth 'Cerdd mewn Tafodiaith Leol' yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926, mae'n annhebygol y byddai'r gerdd 'Pwllideri' erioed wedi ei hysgrifennu. Yr eironi yw i Dewi Emrys gael ei feirniadu am ei duedd i orgystadlu, ond mai cynnyrch y cystadlu hwnnw sydd wedi sicrhau bod

ei enw yn parhau ar gof a chadw drwy ei gerdd 'Pwllderi'. Fel yr awgrymwyd, mae'n bosib mai'r wobr ariannol a'i denodd i gystadlu yn hytrach na rhyw awydd angerddol i gofnodi ei dafodiaith ac, felly, trwy hap a damwain y daeth ei gerdd enwocaf i fodolaeth.

Eironig hefyd yw nodi i Dewi Emrys awgrymu, â'i dafod yn ei foch o bosib, ym mhennill cyntaf ei gerdd 'Pwllderi':

Ond sana i'n gallid neud telineg  
Na nwddi pennill yn iaith y coleg.....  
A hinny sy'n y'n hala i feddwl  
Na 'sdim o'r awen 'da fi o gwawl (D. Emrys, 1926, t.151).

ond mai'r union gerdd hon, a ysgrifennwyd yn nhafodiaith gyhyrog bro ei febyd, a erys hyd heddiw fel y pwysicaf a'r enwocaf o'i holl weithiau, ac a brofa fod ganddo'r awen a'i fod yn fardd i'w gofio. Gellid maentumio i'r gerdd hon sicrhau bod ei enw'n parhau ar gof a chadw, a phrofodd fod un gerdd yn ddigon i wneud hynny. Fel yr awgrymodd H. Wyn (2008, t.138) am y gerdd 'Pwllderi': 'Ac wedi'r cyfan oes disgwyl i fardd, gwaeth faint o anrhydeddau, cwpanau, cadeiriau a choronau a wna eu hennill yn ystod ei oes, gyfansoddi mwy nag un darn a fydd yn ei oeso?'

Yn ei weithiau tafodieithol cawn gofnod pwysig o eirfa, cymdeithas a hanes ardal benodol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Er na chyfrifir Dewi Emrys yn un o feirdd mawr yr ugeinfed ganrif, sicrhoedd le iddo'i hun yn hanes llenyddiaeth Gymraeg drwy'r gerdd 'Pwllderi'. Hynny yw, fel y dywedodd S. Lewis (1971, t.283) am y gerdd: 'fe geidw enw Dewi Emrys yn fyw tra bydd byw Cymraeg.'



## PENNOD 8

**W. R. Evans**

### **Rhagarweiniad**

Ystyrir gwaith un o awduron tafodieithol mwyaf cynhyrchiol Sir Benfro yn y bennod hon sef William Rees Evans (1910 – 1991) a aned ym Mynachlog-ddu ac a adwaenir fel W. R. I fwy graddau na Dewi Emrys, roedd W. R. Evans wedi ei wreiddio'n ddwfn yn nhir a daear Sir Benfro, a gwelir dylanwad hynny ar ei weithiau llenyddol. Yn fardd, llenor a sylfaenydd côr 'Bois y Frenni', gwnaeth lawer i hybu, poblogeiddio a dyrchafu llenyddiaeth dafodieithol y sir. Oherwydd hynny, neilltuir pennod gyfan i drafod ei waith a'i gyfraniad i lenyddiaeth dafodieithol.

### **Barddoni a chyhoeddi**

Fel bardd y digri yr adwaenir W. R. Evans yn bennaf, ac yn y maes hwnnw y cyhoeddodd yn gyntaf, sef y cyfrolau *Pennill a Thonc* (1940) a *Hwyl a Sbri Bois y Frenni* (1942). Cyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth, *Awen y Moelydd* (1983), y gyfrol *Cawl Shir Bemro* (1986), honno'n gyfan gwbl yn nhafodiaith y sir, a'i hunangofiant *Fi yw Hwn* (1980). Yn 2000 cyhoeddwyd cyfrol yn cynnwys cerddi o'i eiddo, sef *Cerddi Bois y Frenni*. Fel y nodwyd eisoes yn y chweched bennod, cynhwyswyd nifer o gerddi tafodieithol W. R. mewn cyfrolau megis *Wês Wês* (1976 - 1994), *Blodeugerdd y Preselau* (1995) a *Cerddi Sir Benfro* (2002).

Mewn darlith a draddododd yn Asgell Addysg y Preseli yn 1978, mynega W. R. Evans ei bryder fod yr ugain mlynedd blaenorol wedi bod yn brin iawn o hiwmor, a bod hiwmor wedi gwanhau mewn ardaloedd gwledig gan fod y trigolion 'mor hoff o ddilyn ffasiynau'r dre' (W. R. Evans, 1978, t.8). Fel y crybwyllwyd eisoes yn y bennod gyntaf, mae cyswllt rhwng statws cymeriadau a'r defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth, yn ogystal â chyswllt rhwng comedi a thafodiaith, gyda'r

ddau yn aml yn plethu i'w gilydd. Mae W. R. felly'n enghraifft o fardd a ddefnyddiai ei dafodiaith i gyfleu comedi a doniolwch, yn enwedig yn y caneuon a ysgrifennodd ar gyfer 'Bois y Frenni'. Mae ei sylw ynglŷn â 'dilyn ffasiynau'r dre' yn un diddorol, gan awgrymu gwrthgyferbyniad a thyndra rhwng y wlad a'r dref, ac mai i'r wlad y perthyn hiwmor. Cyflwynodd W. R. ei gyfrol *Cawl Shir Bemro* i'r 'llu gwerinwyr a siaradodd yr hen dafodiaith' (W. R. Evans, 1986a, t.5), y gwerinwyr hynny a gysylltir â'r wlad gan amlaf. Meddylier am y disgrifiad arferol o'r *country bumpkin*, a'r gwahaniaeth mewn dosbarth a statws a ystyrir wrth feddwl am bobl y wlad a phobl y dref.

Byddid wedi disgwyl y byddai'r awdur yn ymfalchïo yn ei statws fel bardd digri, gan ei fod mor gynhyrchiol yn ysgrifennu yn y cyfrwng hwn. Syndod, felly, yw canfod nad oedd yn or-hoff o'r label hwnnw a roddwyd iddo, a'i fod yn gryn feirniadol o'r rhai hynny a'i hystyriai yn y modd hwn: 'erbyn hyn, mae pobl wedi clymu rhyw label "digrifwr" am fy ngwddw, a'm gadael yn gondemnedig yn fy nghell am byth' (W. R. Evans, 1980, t.220). Gellid awgrymu bod hyn yn beth eithaf cyffredin ymysg digrifwyr, serch hynny, gan yr ystyrir comedi fel rhywbeth israddol yn aml. Mae'n bosib, felly, mai ymgais i ymryddhau o'r label hwn oedd cyhoeddi'r gyfrol *Awen y Moelydd* (1983) a oedd yn cynnwys cerddi dwys a digri. Croesawyd y wedd newydd hon ar ei farddoniaeth gan olygydd y gyfrol yn y rhagair: 'gwyddom amdano ers tro byd fel pynciwr y ddawn ddigri ond ychydig iawn o'i gerddi dwys-fyfyriol a welodd olau dydd. Dyma, felly, gasgliad o gerddi y bu hir ddisgwyl amdano' (E. George, 1983, t.6).

### **'Bois y Frenni'**

Ffurfiwyd y parti 'Bois y Frenni' gan W. R. yn 1940. Disgrifia sut yr oedd newydd gyhoeddi'r gyfrol *Pennill a Thonc* ac 'yn sydyn reit dyma fi'n cael y syniad y byddai'n beth da i ffurfio parti i ganu'r caneuon hyn' (W. R. Evans, 1980, t.111). Aeth ati i baratoi toreth o ddeunydd yn ystod yr ugain mlynedd y bu'n ei arwain gyda thipyn o'r deunydd hwnnw

wedi ei ysgrifennu mewn tafodiaith. Cafodd y parti, a oedd yn cynnwys criw o ddynion a drigai yn y pentrefi o gwmpas y Frenni Fawr, dderbyniad ardderchog ac roedd W. R. ei hun yn ymfalchïo yn y neuaddau llawn a gweld 'cynulleidfaoedd unwaith eto yn mwynhau canu, adrodd ac actio yn yr iaith Gymraeg' (W. R. Evans, 1980, t.112).

Gellid awgrymu mai ffurfio 'Bois y Frenni' oedd un o gyfraniadau pwysicaf W. R. nid yn unig yn nhermau diwylliant ond yn gymdeithasol ac yn ieithyddol yn ogystal. Roedd hi'n gyfnod anodd gyda'r Ail Ryfel Byd yn taflu cysgod dros yr ardal ac roedd y cyngherddau a gynhelid gan 'Bois y Frenni' yn fodd o ysgafnhau gofidiau am rai oriau. Amlygwyd eisoes y cred gan rai mai rhywbeth i'r glust ac i'w llefaru yn unig yw tafodiaith yn hytrach na rhywbeth y dylid ysgrifennu ynnddi, a'r hyn a wnaeth W. R. Evans oedd ei chyflwyno ar lafar i'w gynulleidfaoedd. Yn wir yr oedd yn uniaethu â'r cynulleidfaoedd drwy'r dafodiaith a rannent ac yn eu diddanu yn eu hiaith eu hunain. Fel y dywedodd Idris Reynolds (Cyfweliad, 2014) roedd y ffaith bod ei gerddi tafodieithol yn cael eu canu gan 'Bois y Frenni' yn ehangu'r gynulleidfa a ddeuai ar draws canu tafodieithol drwy berfformiad, yn fwy na thrwy ddarllen.

Nodwyd yn y drydedd bennod bod Islwyn Williams yn ysgrifennu'n aml ar gyfer cyfrwng y radio, ac awgrymwyd bod hyn wedi ehangu'r gynulleidfa a ddeuai ar draws tafodiaith Cwm Tawe. Yn yr un modd, rhaid pwysleisio pwysigrwydd 'Bois y Frenni' fel cyfrwng i boblogeiddio canu tafodieithol, nid yn unig drwy'r cyngherddau a gynhelid yn yr ardal, ond yn ehangach drwy Gymru gyfan. Cyfeiria W. R. Evans (1980, tt.112;117) at gynnal tua dwy fil o gyngherddau mewn cyfnod o ugain mlynedd, 1940-1960, yn neuaddau Sir Benfro, Sir Aberteifi, Sir Gaerfyrddin, Llundain, Birmingham a Gogledd Cymru, yn ogystal â thros hanner cant o ddarllediadau BBC. Roedd y cyfryngau llafar hyn felly yn llwyfannau pwysig i lenyddiaeth dafodieithol.

Dyma enghreifftiau o berfformiadau 'Bois y Frenni' ar y radio yn ystod y cyfnod hwnnw:

| <b>Gorsaf</b>      | <b>Darledwyd</b>                         | <b>Rhaglen</b>  |
|--------------------|--|---|
| BBC Home Service   | Dydd Gwener<br>21 Chwefror 1941<br>17.05 | Pennill a Thonc: Caneuon Ysgafn o waith W. R. Evans. Fe'u cenir gan 'Bois y Frenni'. Y rhaglen o dan ofal yr awdur  |
| BBC Home Service   | Dydd Mawrth<br>28 Mawrth 1944<br>17.05   | Awr y Plant: 'Hwb i'r Galon': rhaglen ysgafn gan 'Bois y Frenni', a stori ddigri am y Band gan Jacob Davies   |
| BBC General Forces | Dydd Llun<br>3 Gorffennaf 1944<br>18.00  | Welsh Half-Hour: Programme from the rural districts of West Wales, in which you hear the Penclawdd Male Voice Choir, Bois y Frenni, the Bargoed Teifi Male Octet, the Tregaron Ladies Octet and J. H. Johns (baritone)  |
| BBC General Forces | Dydd Iau<br>1 Mawrth 1945<br>10.30       | Welsh Half-Hour: Rhaglen arbennig i'r Lluoedd ar ddydd Gwyl Dewi i gyfleu Cofion Cymru. (Programme of music and verse for St. David's Day). Dowlais United Choir, Eryri Ladies Choir, Bois y Frenni (concert party), Hogiau'r Gogledd (light music), Telynores Dwryd (harpist), Elizabeth Evans (soprano), and Henry Jones (baritone), with greetings in verse by the Arch-Druid of Wales |
| BBC Home Service   | Dydd Mawrth<br>13 Mawrth 1945<br>17.05   | Awr y Plant: Rhaglen o ganeuon ysgafn gan 'Bois y Frenni' ac Ifor Rees a David Evans  |
| BBC Home Service   | Dydd Sadwrn<br>23 Mehefin 1945<br>17.05  | 'Sut Hwyl': Rhaglen ddifyr o gân gyda Bois y Frenni, Ifor Rees, a Dafydd Evans. Y rhaglen o dan ofal Mai Jones  |
| BBC Home Service   | Dydd Llun<br>9 Chwefror 1948<br>19.00    | 'Sut Hwyl?': Bois y Frenni  |

|                  |   |  |
|------------------|---|--|
| BBC Home Service | Dydd Llun<br>10 Mai 1948<br>19.15         | 'Sut Hwyl?': Bois y Frenni                 |
| BBC Home Service | Dydd Iau<br>16 Mehefin 1949<br>20.00      | Bois y Frenni                              |
| BBC Home Service | Dydd Iau<br>23 Chwefror 1950<br>19.00     | Bois y Frenni mewn rhaglen o Done a Chlonc |
| BBC Home Service | Dydd Sadwrn<br>11 Ebrill 1953<br>19.15    | Bois y Frenni: Welsh light programme       |
| BBC Home Service | Dydd Gwener<br>4 Ionawr 1957<br>18.45     | Bois y Frenni: Welsh light programme       |
| BBC Home Service | Dydd Gwener<br>18 Ionawr 1957<br>18.45    | Bois y Frenni: Welsh light programme       |
| BBC Home Service | Dydd Gwener<br>25 Ionawr 1957<br>18.45    | Bois y Frenni: Welsh light entertainment   |
| BBC Home Service | Dydd Mercher<br>20 Tachwedd 1957<br>18.40 | Bois y Frenni: Welsh light programme       |
| BBC Home Service | Dydd Iau<br>26 Rhagfyr 1957<br>17.30      | Awr Y Plant. Bois y Frenni                 |

Ffynhonnell: BBC Genome BETA Radio Times 1923 – 2009

Er i'r parti chwalu ymhen ugain mlynedd i'w ffurfio yn 1940, wedi i W. R. symud i'r Barri, y mae 'Bois y Frenni' wedi ail-ffurfio'n ysbeidiol fyth oddi ar hynny, ac yn parhau i berfformio heddiw. Wrth ddathlu pen-blwydd y parti yn 75 oed yn 2015 gyda chyngerdd yn neuadd bentref Boncath, y man lle cynhaliwyd y cyngerdd cyntaf erioed, meddai Cefin Vaughan, Cadeirydd y parti: 'ni wedi cael mwy o *reunions* na *Take That*' ac mai nhw yw '*boy band*' hynaf Cymru (C. Vaughan, 2015).

Cyfeiria H. Wyn (2010, t.39) at weld y parti mewn cyngerdd yn y flwyddyn honno yn parhau i berfformio caneuon W. R. Evans yn unig, sy'n gymeradwyaeth aruthrol i'w gyfraniad (Hefin Wyn, Cyfweliad, 2014). Er bod y deunydd a baratowyd ym mhedwardegau a phumdegau'r ganrif ddiwethaf wedi dyddio erbyn hyn, mae'n werthfawr o ran cyflwyno'r ffordd o fyw a fodolai bryd hynny. Ar y llaw arall mae'n drist am fod y jôcs yn amharchu merched (H. Wyn, 2010, t.39). Gellid dadlau bod y deunydd o bwys hanesyddol a chymdeithasol felly.

Fel y nodwyd eisoes cyhoeddwyd y gyfrol *Cerddi Bois y Frenni* yn 2000; mae'n cynnwys y cerddi a ganwyd gan y parti, ond rhaid ystyried ai syniad da oedd hynny? Fel y pwysleisiodd Ceri Wyn Jones (Cyfweliad, 2014) mae'n hollbwysig i ddarlennydd fod yn ymwybodol o gyd-destun creu'r cerddi ac efallai nad ydynt yn addas mewn print ond i'w canu yn unig. Cred mai'r perygl yw bod rhywun yn edrych ar y caneuon ac yn dweud na ellir eu hystyried yn llenyddiaeth heb gofio mai diddanu cynulleidfa oedd eu pwrpas, eu canu nid eu gweld mewn print. Roedd y bwriad yn un da sef cyfrol goffa i W. R. ond efallai y dylid eu cadw ar gof drwy berfformiadau llafar 'Bois y Frenni', sef i'r pwrpas y'u hysgrifennwyd, yn hytrach nag yn ysgrifenedig.

### **Llenyddiaeth dafodieithol W. R. Evans a rhai themâu yn ei weithiau**

Wrth ei fesur yn nhermau nifer ei weithiau tafodieithol, mae W. R. yn awdur llawer mwy cynhyrchiol na Dewi Emrys. Fel y gwelsom eisoes, ychydig iawn o waith mewn tafodiaith a adawodd Dewi Emrys, er i un o'r gweithiau hynny, ei gerdd 'Pwllderi', ddod ag enwogrwydd iddo. Yn ogystal â chynnwys cerddi tafodieithol yn ei gyfrolau, cyhoeddodd W. R. Evans, fel y nodwyd eisoes, gyfrol yn gyfan gwbl mewn tafodiaith, sef *Cawl Shir Bemro*.

Mae nifer o themâu a phynciau yn amlygu eu hunain yng ngweithiau W. R. Evans, ac fe ystyrir a thrafodir rhai o'r rhain yn y fan hon.

## Thema: Y llon a'r lleddf

Nodwyd eisoes mai fel bardd y digri a'r doniol yr adwaenir W. R. Evans yn bennaf. Mae'n nodedig, felly, ei fod wedi ysgrifennu cerddi digri a difrifol yn nhafodiaith Sir Benfro. Yn wir, mae lle i ddadlau bod y difrifol a'r lleddf yr un mor amlwg yng ngweithiau tafodieithol yr awdur. Fel y dywed G. M. Awbery (1991, t.40): 'dangosodd W. R. Evans fod y dafodiaith yn gyfrwng i fynegi myfyrdodau dwys yn ogystal ag atgofion a hwyl ysgafnach.'

Wrth ystyried ysgafnder a digrifwch fel rhai o nodweddion W. R. fel awdur, mae toreth o weithiau llenyddol y gellid dyfynnu ohonynt. Ystyrier y gerdd 'Wês Wês' a genid gan 'Bois y Frenni' lle y gofynna'r awdur gyfres o gwestiynau sydd ag ateb cadarnhaol i bob un ohonynt:

Wedd 'na dyrfa yn y Rits?  
Wedd 'na wherthin mowr mewn ffits,  
Wedd 'na giw mowr 'nôl i'r gwt?  
Wedd 'na show wrth fodd y crwt?

Wês, wês, wês, wês (W. R. Evans, 2000, t.26).

Yr un ysgafnder a welir yn ei gerdd 'Cân Gocos 'Wê, Wê' lle â'r bardd yn ôl i ddyddiau ieuenctid pan oedd bywyd yn syml a dibryder:

Wê dim byd o'i le  
Ar dwê,  
Na wê, 'te.  
Wê bowyd in werth 'i fyw.  
Wê, wê,  
Wê, wê – wê, wê, wê.  
Wê Joni a Wili  
In mynd pentigily  
I'r isgol 'da'i gily,  
A dim un cwily  
Bo' clocs a throwser pe-lin  
In cwato'u tin  
'Wrth rocesi Tre-fin,  
Fel Jean,  
Doreen,

Ac Eileen  
Wê'n hala sblîn  
Ar grwt sicstîn  
Heb ddropyn o win  
O'r cantîn (W. R. Evans, 1986a, t.72).

Cyfeiriwyd eisoes at yr amrywiaethau ieithyddol H ac L. Am yr amrywiaeth isel, L, dywed R. L. Trask (2007, t.74): 'it is rarely written, and may well lack a recognized written form' ond gellid ei ddefnyddio mewn cyd-destunau comig a chartwnau, sy'n nodwedd o'r berthynas draddodiadol rhwng tafodiaith a chomedi.

Ar y llaw arall mae'r difrifol a'r lleddf yr un mor amlwg yng ngweithiau tafodieithol yr awdur. Gwelir hynny yn y gerdd 'Myfyrdod' lle mae'r bardd yn sefyll wrth gofgolofn Waldo Williams ym Mynachlog-ddu ac yn dweud wrtho gymaint yr oedd pethau wedi newid, er gwaeth, ym mro eu mebyd. Gellir teimlo'r hiraeth a'r tristwch yn ei lais wrth iddo gyfaddef ei bryderon, a gellid awgrymu bod y dafodiaith, sef iaith lafar Mynachlog-ddu, yn grymuso'r tristwch hwnnw:

Fe lefet fel babi-clwte  
Wrth deimlo hen wal dy ifenctyd  
In shiglo bob bidyn  
O ben ucha'r Fwêl i Dal Mini.....

Fe whale dy galon di'n grinshon, wy'n siwr,  
Ta ti'n gwbod  
Bo Gwynfor in gorffod marw  
Dros iaith 'Nachlog-ddu (W. R. Evans, 1983, t.89).

Treuliodd W. R. bum mlynedd yn y Llu Awyr adeg yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys cyfnod yng Ngorllewin Affrica. Disgrifia'r cyfnod dirdynol hwnnw yn y gerdd 'Dyn a Dyn' pan oedd breuder bywyd a chysgod marwolaeth yn amlwg yn ei feddwl ef a'i gyd-ddynion:

Ar ganol hen Fôr y Trofanne,  
A'r cwche-dan-dŵr in 'u nerth,  
Pan wê Marw in noethi'i ddanne,



Wê cid-dinnu'n crifhau in 'i werth;  
In meddwl, 'chi, beth a ddigwydde  
'Tawn i'n gorffod sgidadlan i'r dŵr,  
A meddwl o ddifri shwt bidde  
Pwlffagan i fancyn siwr (W. R. Evans, 1986a, t.93).

Gellid dadlau bod y dafodiaith yn llwyddo i ychwanegu at werth y gerdd hon a'r hyn sydd gan y bardd i'w ddweud; er ei fod yn disgrifio digwyddiad ymhell i ffwrdd llwyddodd i'w gysylltu â'i gartref a'r iaith a siaradai yno.

Un arall o'i gerddi difrifol yw 'Llwy Bren', cerdd a rannodd y wobr gyntaf am 'Gerdd Dafodiaith' yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman a'r Cylch 1970, a hynny gan y beirniad Dyfnallt Morgan. Ynndi, disgrifia'r bardd sut y mae difflaniad y llwy bren, sef y ffordd o fyw a'r hen gymdeithas, yn arwain at ddifflaniad pethau eraill. Dywed y beirniad na fynegir ynndi unrhyw ffug-deimlad ac 'nid esgeulusodd y bardd hwn ochr farddonol ei dasg' (D. Morgan, 1970, t.91), nodwedd sydd, fel yr awgrymwyd eisoes, yn hollbwysig mewn llenyddiaeth dafodieithol:

Ma'r llwy bren wedi mynd i gadw,  
Im mherfe Llan Cewn,  
Nid bo pŵer o rinwedd miwn pren, chwel,  
Ond wedd hi'n ffordd o fyw,  
A ma'r pethe erill yn dilyn i gyd.  
So ni'n becco taten, wel uffach gols,  
Os cewn ni fyw in jecôs,  
A digon i lenwi'n bolie (W. R. Evans, 1970, t.94).

Soniwyd eisoes y gall sentimentalïaeth fod yn un o wendidau'r bardd tafodieithol, ond mae defnydd cynnil y bardd o'i dafodiaith yn y gerdd hon yn ei rhwystro rhag bod yn rhy hiraethus (C. M. Jones, 2006b, t.378). Gellid awgrymu bod y dafodiaith yn gweddu i gynnwys y gerdd, gan ei bod yn rhan annatod o'r hen gymdeithas a ddisgrifir.

Fel y trafodwyd eisoes wrth ystyried y themâu yn y cyfrolau *Wês Wês* yn y chweched bennod, un o'r cwestiynau a brociwyd yn ystod y gwaith ymchwil hwn oedd a ellid ysgrifennu mewn tafodiaith ar unrhyw destun. Roedd y farn yn amrywio, o Idris Reynolds a Wyn Owens (Cyfweliadau, 2014) a gredai fod canu tafodieithol yn ymwneud yn naturiol â'r dirwedd a thestunau megis natur, y gymdogaeth a themâu cymdeithasol, i Ceri Wyn Jones (Cyfweliad, 2014) a oedd yn gobeithio na fyddai gan unrhyw awdur ofn defnyddio tafodiaith wrth drafod pynciau difrifol. Mae safbwynt W. R. ar y mater yn amlwg, sef bod modd ysgrifennu'n dafodieithol ar unrhyw destun, fel y profa'r gerdd am ei gyfnod yng Ngorllewin Affrica. Tueddir meddwl am gerddi tafodieithol fel rhai slic, ffwrdd â hi, ond gallant fod mor ddifrif ac mor goeth ag unrhyw fath arall o farddoniaeth (Ceri Wyn Jones, Cyfweliad, 2014). Gellid maentumio i W. R. ddangos sut y gellir disgrifio, trin a thrafod digwyddiadau a sefyllfaoedd difrifol a lleddf trwy gyfrwng tafodiaith.

### **Thema: Bro enedigol y bardd**

Nid yn annisgwyl, y mae i'w fro enedigol le amlwg yng ngweithiau tafodieithol W. R. Gwyddys fod nifer o feirdd a llenorion wedi rhamantu am eu cynefinoedd a'u dyrchafu a'u moli, felly nid yw'n awdur unigryw yn hyn o beth. Fel yr amlygir ac y clodforir Sir Gaerfyrddin yng ngherddi Gwenallt, ac ardal Eryri yng ngherddi T. H. Parry-Williams, yr un yw serch W. R. at Sir Benfro, ac yn gyson yn ei gerddi cyfleir y siom a'r tristwch bod y fro a adwaenai yn ei ieuencid yn newid yn barhaus. Yn ei gerdd 'Ar Werth', cyfleir tristwch am fod mewnfudwyr yn meddiannu ac yn difetha'r ardal a'r gymdeithas y magwyd ef ynddi:

Ma'n nhw'n gweud wrtho' i bo'r tiddinnod  
In mynd, bob jac wan, 'chi, i'r Sais;  
Rhyw ddiion o bant in tresbasu  
In y manne wê'n tinnu inghyd (W. R. Evans, 1986a, t.82).

Cymaint yw ei siom a'i ofid bod hyn yn digwydd, apelia ac erfynia ar ei gyd-ddynion i ddiogelu'r fro ac i'w chadw rhag estroniaid:

Peidwch gwerthu Garn Menyn, wy'n begian,  
Un ddime o dan 'i phrish,  
Neu fe gwmpith wal fowr Côt y Cewri  
In bigeide o achos y sioc.  
A chinnig Garn Arthur i'r Seison?  
Bidde hinny in gopsi tal  
Ar ir holl annibendod a'r twpdra  
Sy nawr, 'chi, in dwymyn wyllt (W. R. Evans, 1986a, t.84).

Amlyga W. R. ei gariad at ei fro yr un mor angerddol yn ei gerdd 'Dwê a Heddi', lle y cofia'r diwrnodau di-hid a dreuliodd yn ei chrwydro:

Wêdd hi'n nefo'dd, wêdd hi'n ifryd,  
Pan wê'r houl in twmo'r gwa'd.  
Fi wê brenin y minidde,  
Heb un lloithir am 'y nhra'd (W. R. Evans, 1986a, t.81).

Cyfleir ei hiraeth bod y fro a'r gymdeithas yn newid yn y gerdd 'Nochlog-ddu', sef Mynachlog-ddu, ei bentref genedigol. Fel y gwyyddys, y mae i'r pentref hwn arwyddocâd arbennig am mai yma y dysgodd Waldo'r Gymraeg. Disgrifia W. R. ddyddiau di-hid a dibryder yn y pentref a'r cyffiniau pan oedd yn blentyn:

Wêdd hi'n ddididig ombeidus os lawer dy  
Pan wên i in rhocyn in plwy Nochlog-ddu.  
Wê'r cifan in tiddu obiti'ch tra'd,  
A wê bwyd in garnedde i ga'l in y wlad (W. R. Evans, yn  
G. Griffiths a J. Phillips, 1976, t.37).

Er bod eu cariad at eu bro yn clymu Gwenallt, T. H. Parry-Williams a W. R. at ei gilydd, ac at nifer o feirdd eraill, y mae nodwedd arwyddocaol yn eu gwahanu sef y ffaith bod W. R. yn canu mewn tafodiaith yn ogystal ag mewn iaith safonol. Cofier am yr ysgolheigion a ganai yn 'iaith y coleg' y cyfeiriodd Dewi Emrys atynt yn ei gerdd 'Pwllderi'.

Roedd W. R. yn uniaethu'n llwyr â'r fro y'i maged ynddi ac yn ysgrifennu'n hawdd ac yn naturiol yn nhafodiaith y fro honno.

Cyfeiria J. Nicholas (1986, t.110) at T. E. Nicholas, un arall o feirdd Sir Benfro, yn canu cerdd i fro ei febyd ar gyfer cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli 1955, cerdd a gyhoeddwyd yn ddiweddarach â'r teitl 'Bwthyn bach melyn fy nhad'. Pwysleisia bwysigrwydd y gerdd gan y ceir ynddi ddisgrifiad byw o'r math o gymdeithas a fodolai yng nghefn gwlad Sir Benfro yng nghyfnod y bardd. Gellid maentumio y gellir dweud bod yr un peth yn wir am W. R. Evans, sy'n portreadu'n glir y cyfnod a'r gymdeithas y'i maged ynddynt, nid yn unig yn ei gerddi tafodieithol, ond yn ei gerddi mewn iaith safonol hefyd.

### **Thema: Cymeriadau**

Yn ogystal â'r fro ei hun, mae ei chymeriadau hefyd wedi dylanwadu ar W. R., ac fe gyfeirir at nifer ohonynt yn ei weithiau llenyddol.

Tystir gan lawer fod Waldo, E. Llwyd Williams a W. R. Evans yn gyfeillion mynwesol ac yn cydfarddoni'n gyson. Fe'u disgrifir 'yn drindod ifanc gellweirus, yn llunio pob math o rigymau' (W. Rh. Nicholas, 1961, t.47) ac fel tri o blant teyrngar Sir Benfro (E. George, 1983, t.6). Nid rhyfedd, felly, bod y ddau wedi dylanwadu ar W. R. a'u bod yn ymddangos yn nifer o'i weithiau. Yn ei ysgrif 'Tair Cwês y Dribe', nhw yw'r tair coes, ac mae'r cwlwm cryf rhyngddynt yn amlwg; er eu bod ill tri'n feirdd, tystir nad ymddangosodd y cythraul cystadlu i amharu ar eu cyfeillgarwch. Llwydda'r ysgrif hefyd i daflu goleuni ar gymeriad Waldo:

Tipyn bach cyn hinny, wê'r tri ohonon ni'n cwrdd â'n gily, a  
Waldo, in 'i ffordd athrilithgar 'i hunan, in rhoi rhyw siâp newy  
ar bopeth. In wir i chi, 'tawn i heb fudo, tina'r athrilith fwya  
gwrddes i ariôd. Rwbryd in y tridege buon ni'n cistadlu in  
erbyn en gily in y steddfode lleol. Wên ni'n gwbod am  
linelle'n gily i gyd, imhell cyn y steddfod, a 'na sbort wê

grondo ar y feirniadeth. Mwy o sbort byth wrth fynd lan i gifarch y bardd buddugol, a rhoi ambell glatshen gas iddo, achos bo' ni wedi colli. Sena i'n siŵr bo' rhei o'r beirned in diall barddonieth Waldo, a falle bod e wedi ca'l pwêr o gam. Ond phwdodd Waldo ddim ariôd, te beth wên nhw'n weud amdano (W. R. Evans, 1986a, t.27).

Cenir ac ysgrifennir am gymeriadau amrywiol megis Twm Martha Fach, Edgar, sef cyfaill bore oes, Twm Carnabwth a D. J. Williams. Er mai gŵr o Sir Gaerfyrddin oedd D. J. Williams yn wreiddiol yr oedd wedi ei fabwysiadu'n un o drigolion Sir Benfro, fel y disgrifir yn yr ysgrif 'D. J. Abergweun':

Ma' 'na golofn i gofio D. J. in y Wesh in Abergweun erbyn hyn. Wêdd e'n heiddu ca'l un 'fyd, gwlei. Wdw i'n galler 'i weld e, ar nosweth wêr in y geia, 'i ddwylo fe in bwên o grapach a wyndrew, in gadel y Bristol Trader at nosweth o waith; hwpo papure'r Blaid trw'r bocsis llithiron in y dre, a rhei o'r bocsis hinny in rhei eitha gwrth-Gymreig. Wê dim gwanieth 'da D.J. Wê'r claf in gorffod llwncu'r moddion, 'te pwy mor wherw wêdd 'i flas e (W. R. Evans, 1986a, t.22).

Yn ei gerdd 'Twm Carnabwth (Beca)', disgrifia W. R. Evans sut y cafodd, wrth iddo deithio ar yr M4 un noson, ei atgoffa am arweinydd Merched Beca o'r Efailwen, pentref ar y ffin rhwng siroedd Penfro a Chaerfyrddin:

Wên i'n mynd fel ffwl, rhyw nosweth,  
A nhrwêd i'n fflat ar i sbardun,  
Ar hyd yr Em Ffôr,  
Pan weles i'n sidan, giffile in croeshi o mla'n,  
A miniwod blagardus wêdd in 'u brichgáu.  
Fe weles "Carnabwth" in cau 'i ddwrne  
I fwgwth wrth fynd o'r golwg,  
A gweiddi fel dyn cindeirog.  
"Rhowch girch i'ch peirianne, bois bach,  
A wadwch bant fel infidion,  
Ond tinnwch miwn, amell waith, bois bach,  
I glaish ir hewl am bum munud,  
I gofio am Efel Wen" (W. R. Evans, yn G. Griffiths a  
J. Phillips, 1976, t.67).

Trwy ddisgrifio'r cymeriadau hyn mewn tafodiaith, llwydda W. R. i greu cymeriadau real a byw, ac i'n hatgoffa bod iaith a bro yn rhan annatod o berson. Mae ei ddefnydd o dafodiaith yn cryfhau ei bortreadau drwy gyfleu ymdeimlad o hunaniaeth, rhyw deimlad o berthyn.

### **Thema: Y mynydd a'r môr**

Fel nifer o feirdd eraill, gwelwn fod y mynydd yn wrthrych ac yn symbol pwysig yng ngweithiau W. R. Fel un a aned ar lethrau'r Preseli, nid yw'n syndod bod arwyddocâd arbennig i'r mynydd iddo. Dywed amdanynt yn ei hunangofiant:

'Roedd y cernydd a'r bannau yn eich gwyllo o ddydd i ddydd rhag ichi droseddu yn erbyn glendid traddodiad a hanes; Moel Cwm Cerwyn, Moel Fedw, Cerrig Marchogion, Carn Afar a Thal Mynydd, bron yr un mur ag a fu'n amddiffyn mebyd Waldo (W. R. Evans, 1980, t.9).

Yn ei gerdd gyntaf yn y gyfres 'Sir Benfro yn Fflam', sef 'Darogan', myfyria W. R. ar y fraint a gafodd o'i fagu yng nghesail y mynyddoedd. Mae'n amlwg iddo eu crwydro'n gyson a'i fod yn eu hadnabod fel cledr ei law:

We byw ar y mini, prinny  
In foethyn fel mynd i ffair.  
We'r hen shir i weld in mistyn  
Fel pen dyn,  
In ene a thrwyn i'r môr,  
O ben y mini (W. R. Evans, 1983, t.75).

Amlyga'r un hoffter hwn o'r mynydd a'r cwlwm annatod rhyngddynt yn ei lencyndod yn ei gerdd 'Ffinnon 'Richen', cerdd a rannodd y wobwr gyntaf am 'Gân Dafodiaith' yn Eisteddfod Genedlaethol Aberafan 1966, a hynny gan y beirniaid Waldo Williams a Mathonwy Hughes. Ceir yn y gerdd hon enghraifft bellach o'i allu i fyfyrion ar bynciau dwys a phersonol trwy gyfrwng tafodiaith. Mae'r bardd yn synfyfyrion wrth ochr y

ffynnon ac yn dychmygu ei fod 'fel se'n in clwêd rhyw eco o'r môr' (W. R. Evans, 1983, t.104) ac yn ei uniaethu ag anesmwythyd dynion, ond rhydd y mynyddoedd gadernid a sefydlogrwydd iddo:

Ond ma'r mini, chwel, in wahanol,  
Yn llony' trw'r dydd gwyn.  
Mae e mwy fel se fe wedi tiddu  
A gadel y wharieth ar ôl.

Wên i'n dwli ar ochre'r mini  
Pan wên i'n rhocyn (W. R. Evans, 1983, t.102).

Yn ei feirniadaeth o'r gerdd, dywed W. Williams (1966, t.98) fod yr 'ymson yn gwbl naturiol' a'r 'disgrifio yn fywiog yn yr iaith-bob-dydd gyfoethog,' tra dywed M. Hughes (1966, t.101) nad yw 'mor gyfoethog (ac afradlon) ei eirfa a'i ymadroddion llafar â rhai o'r beirdd y sylwyd arnynt.' Sylwer ar ddisgrifiad Waldo o gyfoeth ei dafodiaith ond barn Mathonwy Hughes, brodor o Lanllyfni ger Caernarfon, nad oedd ei eirfa mor gyfoethog â rhai o feirdd eraill y gystadleuaeth. Yr oedd gan Waldo fantais, wrth gwrs, ar ei gyd-feirniad gan ei fod yn gyfarwydd â thafodiaith y gerdd; awgryma hyn bod angen adnabyddiaeth o dafodiaith er mwyn gwerthfawrogi'n llawn ei chyfoeth.

Mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r hoffter hwn o'r mynydd, mae gan y bardd ryw ofn dychrynlyd o'r môr, ofn a ddisgrifir yn y gerdd 'Ffynnon 'Richen'. Mynegir yr un ofn yn y gerdd 'Tidrath' y cyfeiriwyd ati eisoes yn y chweched bennod gan fod ychydig linellau ohoni wedi eu cynnwys yn y gyfrol *Cerddi Sir Benfro* (2002). Ynddi, cyfeiria at arfer trigolion yr ardal o fynd ar Drip Ysgol Sul i'r 'Tra'th Mowr', sef y Traeth Mawr yn Nhrefdraeth; serch hynny, nid yw e'n rhannu hoffter ei gyd-ddynion o heidio i'r môr ar y diwrnodau hyn:

Wên in fachan we'n lico'r minidde  
A rhedeg in ffralog dros gawn,  
Ond we tonne o ffroth in beth arall,  
In rhoi abwth i fi trw'r prinhawn.

Wên nhw fel 'se nhw ma's am ech dala  
A'ch tinnu chi bant i wlad bell (W. R. Evans, 1983, t.94).

Gellid cytuno ag awgrym Eirwyn George (Cyfweliad, 2014) fod y gerdd hon yn un o'i gampweithiau tafodieithol, a hynny am nifer o resymau. Yn y lle cyntaf, mae'n gerdd gyhyrog gyda nifer o eiriau tafodieithol diddorol ynddi, megis *ffralog* a olyga *nwydus* ac *abwth* a olyga *ofn*; y mae felly'n gofnod ieithyddol byw. Yn ail, mae'n gofnod dilys o arferion crefyddol a chymdeithasol y gymdeithas y'i maged ynddi, sef y ddefod o wobrwyo'r plant am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul drwy'r flwyddyn gyda thrip i lan y môr. Roedd yn gyfle i wlychu traed a chael clonc, a'r tebygrwydd yw y byddai capeli eraill yr ardal yno ar yr un pryd i gymdeithasu â hwy. Yn drydydd, ceir ynddi athronyddu cynnil; ar ddiwedd y gerdd, ac yntau erbyn hyn yn hen wr, synfyfyria ar y ffaith nad yw 'Tidrath' wedi newid rhyw lawer a bod modd clywed y Gymraeg o hyd, ond yr un gwahaniaeth ers dyddiau ei ieuenctid yw bod y trigolion lleol i gyd 'wedi colli pob golwg o'r llwybyr cul' (W. R. Evans, 1983, t.95). Dengys hyn y dirywiad yn y gymdeithas grefyddol a diwylliannol, gyda materoldeb yr oes yn teyrnasu erbyn hyn - y masnach, y 'discos in lle eisteddfode' a 'imwelwyr in tirru o bobman, a Seison in lwtshan y brâg' (W. R. Evans, 1983, t.95).

### **Thema: Dychan**

Canodd W. R. nifer o gerddi dychan, am y gymdeithas, ei thrigolion, ac am y byd addysg. Drwy'r dychangerddi hyn, gwelir bardd amlochrog ei ddulliau a'i fynegiant, gyda'i allu fel digrifwr yn amlwg (E. George, 1983, t.7).

Treuliodd W. R. ei fywyd ym myd addysg ac, felly, mae'n gymwys i ganu am y byd hwnnw. Yn y gerdd 'Addysg', dychenir y newidiadau yn sgil syniadau athronwyr a seicolegwyr:



A dina Pi-ashei, y seicolegwr,  
In sgrechen a gweud bod hi ddim in deg, ŵr,  
I ddisgwyl i'n plantos ni ddisgu'n hanieithol  
- Bod y concrit i rheiny in bwysig aruthrol (W. R. Evans, 1983, t.21).

Yn y gerdd 'Rhocesi'r Wawr', dychenir yr arfer o gynnal cyfarfodydd Sefydliad y Merched, y *Women's Institute* neu'r *W. I.*, yn yr iaith fain. Soniwyd eisoes bod dyfodiad estroniaid i'r ardal a oedd yn newid y gymdeithas yn ogystal â'i hiaith yn peri loes calon i W. R. Dyma sut y disgrifia'r dylanwad estron hwnnw, a'r syniad a fodolai fod angen gafael sicr ar yr iaith Saesneg er mwyn dod ymlaen yn y byd:

Hano pentre Penfeidir in amal 'i fai,  
Ond mai Sisneg wê'r iaith in y W.I.  
I fi, nawr, wê hinny in drichid in whith,  
Ond wê aliwns o bant, dou dderyn lled-frith,  
Wedi dilanwadu ar rocesi'r wlad  
Bo' siarad Sisneg in gwella'u stad (W. R. Evans, 1986a, t.97).

Yn yr un gerdd, fe ddychana'r arfer yn ei gyfnod e'n ddisgybl ysgol o adrodd Gweddi'r Arglwydd yn y Saesneg, er mai yn y Gymraeg yr oedd yn ei hadrodd yn Ysgol Sul Bethel Mynachlog-ddu:

Wê Gweddi'r Arglwydd, wê ddim in iaith Mam,  
In swno i fi, 'chwel, fel Dai Kindon Cam.  
Pwy sinnwyr bo' crwt bach o gartre Cwmra'g  
Fan 'ny'n gorffod grondo ar eire mor wag? (W. R. Evans,  
1986a, tt.97-98).

Sylwer bod y bardd, yn y gerdd hon, yn cyfeirio at ei hun fel *crwt*, ond yn y gerdd 'Nochlog-ddu' y dyfynnwyd ohoni uchod fel *rhocyn*, gan ddangos yr amrywiaeth geirfa a fedda unigolyn a'r amrywio tafodieithol o un ardal i'r llall.

### **Thema: Athroniaeth gwerinwyr y pridd**

Yr oedd y ddaear y'i maged arni ac athroniaeth ei thrigolion yn bwysig i W. R. Er yn esbonio ei fod yn mentro o'i gynefin ar adegau, yn feddyliol

ac yn ddaearyddol, awgryma E. George (1983, tt.6-7) yn y bôn mai athroniaeth gwerinwyr y pridd yw ei athroniaeth yntau, ac mai 'daear a phobl y fro hon a foldiodd ei gymeriad.'

Yn ei gerdd 'Proffwydi Tir ac Awyr', rhestra'r dywediadau yr oedd trigolion yr ardal yn credu ynddynt, megis:

Wannol fach ar lawr in hedfan,  
Neu wydd-corn ar wal in hofran,  
Dail y cwêd in nwêth 'u bolie,  
Deith glawogydd in 'u hole (W. R. Evans, 1983, t.84).

Mewn sgwrs rhwng dau gymeriad, Dafï a John, yn yr ysgrif 'Clebran', fe'u gwelwn yn athronyddu ar bynciau megis gwleidyddion, newyn a chyflwr y byd. Dywed John:

A bois y Llywodreth in pregethu fel rhyw Jac Pen Stôl, a dim byd in digwydd; cinllunie i rifieddu, a'r rheiny'n pennu in y gwellt. Bidde hi'n isgawndid rhifedd 'ta tamed o waith i ga'l. Ma' rhyw isheldra rhifedd trw'r wlad i gyd. Fe feddilie fe bidde rhywun in gneud rhwbeth. Ma'n hen bryd i'r Llywodreth iawnyd, a rhoi gwynt i'r gesel, cyn bo'r ilfyn diwetha o obeth wedi mynd. Ond dina ddigon o siard am bolitics. Wês rhyw newy annimunol 'dag e? (W. R. Evans, 1986a, t.39).

Sylwer ar ddiwedd y dyfyniad sut y mae John yn cyfarch Dafï yn y trydydd person yn hytrach na'r ail berson arferol. Cyfeiriwyd at hyn eisoes fel arfer a geir mewn rhai ardaloedd yn Sir Benfro, er ei fod wedi lleihau erbyn hyn, yn ogystal ag mewn ardaloedd eraill megis Ceredigion (Idris Reynolds, Cyfweliad 2014) a Llanelli.

Yn ei gerddi dychan ac athroniaeth, gwelir W. R. Evans yn defnyddio'i dafodiaith fel llais amgen ac fel arf gwrthsefydliadol a gwrthryfelgar.

## **Y gyfrol *Cawl Shir Bemro*, 1986**

Fel y nodwyd eisoes, mae *Cawl Shir Bemro* wedi ei hysgrifennu'n gyfan gwbl mewn tafodiaith, yn gyfuniad o ysgrifau a cherddi. Fe'i cyhoeddwyd adeg Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun 1986. Gellid awgrymu mai ymgais fwriadol oedd hyn i ddwyn y dafodiaith i sylw'r eisteddfodwyr; nid yw hyn yn anghyffredin, gan fod iaith y fro yn cael sylw ymhob Eisteddfod. Enghraifft o hyn yw'r lle amlwg a roed i'r Wenhwyseg yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni 2016, gyda thrigolion lleol megis Elin Jones a Frank Olding yn awyddus i dynnu sylw ati, er mai prin yw nifer ei siaradwyr hi erbyn heddiw. Gellid dadlau bod yr Eisteddfod, felly, yn blatfform da i atgoffa ei mynychwyr o'r cyfoeth o dafodieithoedd a fodola ac i roi'r cyfle iddynt eu clywed, a bod hyn yn un o ragoriaethau eisteddfod deithiol. Fel y dywedodd E. Jones (2016): 'byddwn yn falch o'n heniaith yn ei holl amrywiaeth - a siaradwn holl dafodieithoedd Cymru gyfan ar faes Y Fenni eleni!'

Ar ddiwedd y gyfrol ceir rhestr o eirfa a'u hystyron, arfer a welwyd hefyd yn y cyfrolau *Wês Wês* ac a ddefnyddir gan awduron tafodieithol eraill megis Meic Stephens a Kate Roberts. Gall gynorthwyo'r darlennydd nad yw'n gyfarwydd â'r dafodiaith i ddeall y darn a ddarllenir yn well, felly mae'n arfer sydd i'w ganmol. Cytunodd Meic Stephens (Cyfweliad, 2014) nad yw darllenwyr yn medru deall a gwerthfawrogi ar unwaith llenyddiaeth mewn tafodiaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi, ond y gallai ychydig o nodiadau fod o gymorth iddynt. Dywedodd mai un o'r ystyriaethau ynglŷn ag ysgrifennu a chyhoeddi cerddi yn y Wenhwyseg, fel mewn unrhyw dafodiaith, yw i ba raddau y mae'r awdur yn esbonio popeth, neu'n hytrach yn gadael i'r darlennydd ei weithio allan ei hun. Rhydd rhestr o eirfa ar ddiwedd cyfrol dafodieithol yr opsiwn i'r darlennydd droi ati os yw'n dymuno; anfantais hyn yw y gall troi at y rhestr o ystyron amharu ar rediad a mwynhad o'r darn a ddarllenir, ond y fantais yw ei bod yn goleuo'r darlennydd ac yn ehangu ei eirfa dafodieithol.

Yn ei ragair i'r gyfrol, awgryma W. R. fod angen gwneud mwy i ddiogelu tafodieithoedd Cymru, yn ein hysgolion ac ar ein cyfryngau, ac mai dyma'r hyn a'i hysgogodd i ysgrifennu'r llyfr:

Mae'n fater o frys. Ni all unrhyw iaith lenyddol fyw heb *fwyd*. Awgrymaf yn garedig mai'r tafodieithoedd yw'r ystorfa fwyd orau. Rhaid i'n hiaith lenyddol wrth fwyd o rywle, os yw i ffynnu..... Rhyw resymau bach fel hyn a'm hanogodd i gyhoeddi'r llyfryn hwn yn nhafodiaith bro fy mebyd (W. R. Evans, 1986a, t.8).

Mae ei awgrym mai'r tafodieithoedd sy'n bwydo iaith lenyddol yn un dadleuol iawn. Fel y nodwyd eisoes, mae gan yr iaith lenyddol ei safon a'i statws ei hun.

Er y ceir ambell gerdd a gynhwyswyd mewn cyfrolau eraill, neu a fu'n fuddugol mewn cystadlaethau yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Gŵyl Fawr Aberteifi, mae tipyn o'r deunydd wedi ei ysgrifennu'n bwrpasol ar gyfer y gyfrol hon, megis yr ysgrif 'Ma's i'r Ardd' lle y cyfeiria'r awdur at ei arfer o fynd allan i'r ardd i ddianc o sŵn a ffwdan y tŷ. Sylwer ar ffurf negyddol y ferf *bod*, sef *seno'n*, un o nodweddion tafodiaith y sir:

Wedyn, ŵr, tina i chi'r gwibed bach gwyrdd 'na sy'n where obiti â'r rholis. Seno'n rholis i'n rhy dda ar y gore, heb bo'r tacle 'na in mhél â nhw. Wy'n gorffod pernu rhyw hen stwff i allwyshtrostyn nhw. O wês, ma' ishe tipyn o arian i gadw gardd in oilyn bach o gimen (W. R. Evans, 1986a, tt.15-16).

Wrth drafod y cyfrolau *Wês Wês* yn y chweched bennod sydd, fel *Cawl Shir Bemro*, yn cynnwys gweithiau a ysgrifennwyd yn bwrpasol mewn tafodiaith, gofynnwyd a yw hyn yn tynnu oddi wrth werth y cyfrolau ac, o bosib, yn peri i'r darlennydd a'r beirniad edrych ar y gwaith mewn golau gwahanol, gan mai cynnyrch gwneud a geir yma? Teg gofyn yr un cwestiynau, felly, wrth dafoli'r gyfrol *Cawl Shir Bemro*. Gellid dadlau mai'r hyn a geir yma mewn gwirionedd yw ymarfer ieithyddol, ymgais i arddangos y dafodiaith yn hytrach nag ymgais i gyflwyno llenyddiaeth

fawr. Barn gyffelyb a fynegwyd gan Eirwyn George (Cyfweiliad, 2014) pan ddywedodd am y gyfrol: 'ceisio dangos ei dafodieth mae e yn hytrach na bo 'da ge rhywbeth pwysig ishe'i 'weud.' Gellid awgrymu y ceir enghreifftiau yn y gyfrol o'r awdur wedi chwilio am rywbeth i'w ddweud, megis yn y gerdd 'I'r Hospitel' lle disgrifir ymweliad â'r ysbyty a'r profion a wnaethpwyd. Ymddengys yn gerdd anniddorol a dibwrpas gyda'r pwyslais ar yr eirfa. Yn ogystal, o safbwynt ei sylw mai'r tafodieithoedd sy'n bwydo iaith lenyddol, gellid gofyn sut y mae cerdd â theitl o'r fath sy'n amlygu dylanwad y Saesneg, yn 'bwydo'r' iaith lenyddol? Ond, ceir yn y gyfrol hefyd ambell ddarn pwysig, megis ei gerdd 'Dyn a Dyn' am ei gyfnod yn y Llu Awyr, lle ceir themâu oesol, megis breuder bywyd a brawdgarwch. Gellid dadlau ar y cyfan, serch hynny, fod gwerth ieithyddol y gyfrol yn fwy na'i gwerth llenyddol.

Cyfeiriwyd yn y bennod gyntaf at sylw G. Ashton (1976, tt.111-112) wrth ddisgrifio llyfrynnau Brynfab a Glynfab a gyhoeddwyd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, eu bod yn rhoi'r argraff 'mai campio i arddangos eu tafodiaith y maent.' Yn yr un modd, awgryma M. Morgan (2002, t.2): 'yn aml iawn mae unrhyw ymgais i gyfleu tafodiaith ar ffurf ysgrifenedig yn gallu taro nodyn ffals.' Rhaid ystyried, felly, a yw hyn yn wir am y gyfrol hon? Ceir yma, gellid dadlau, enghreifftiau o ymdrech ormodol i lwytho nodweddion y dafodiaith. Er enghraifft, yn ei ysgrif 'Ma's i'r Ardd', dywed:

Erbyn hinny bydd ir hen brifed bach duon 'na wedi shabwlso  
a shabwcho coese'r ffa, fel 'se cawed o dropas wedi dishgyn  
arnyn nhw (W. R. Evans, 1986a, t.16).

Yn y rhestr eirfa ar ddiwedd y gyfrol, esbonnir mai ystyr *shabwlso* a *shabwcho* yw 'anffurfio, sbwylio' (W. R. Evans, 1986a, t.111). Gan mai'r un ystyr sydd i'r ddau air, byddai un ohonynt wedi gwneud y tro; gellid awgrymu, felly, ei fod wedi cynnwys y ddau yn bwrpasol er mwyn tynnu

sylw at yr eirfa sy'n bodoli. Yn yr un modd, dywed yn ei ysgrif 'D. J. Abergweun':

Wedech chi byth bo'r stoncyn bach 'ma wedi gneud hand-stand ar ryw ganllaw uchel in Aberistwyth, pan wêdd e'n fifiriwr, ac in eilod o'r tîm gymnasteg (W. R. Evans, 1986a, tt.20-21).

Ar ddechrau'r gyfrol, mae'r awdur wedi rhestru rhai o nodweddion y dafodiaith, megis y duedd i droi sŵn yr *y* dywyll yn *i*. Yn y dyfyniad uchod, felly, rhydd enghreifftiau o hynny yn *Aberistwyth* a *fifiriwr*. Gair nas gwelir yn aml yw *fifiriwr*; nid yw hynny'n dweud nad yw'n bod mewn rhai ardaloedd, ond y mae, o bosib, yn enghraifft o dynnu sylw at nodweddion y dafodiaith.

Cymerodd fantais o'r llwyfan a roddodd y gyfrol iddo i arddangos a chlodfori ei dafodiaith, ac mae hynny'n ddealladwy. Er gwaethaf rhai enghreifftiau lle teimlir bod yr awdur yn llwytho, neu'n wir yn gorlwytho, nodweddion y dafodiaith i'w weithiau, gellid awgrymu ei fod ar y cyfan yn rhoi darlun clir ohoni ac yn taro nodyn cywir wrth ddefnyddio ffurfiau fel *wé*, *wêdd* a *wês* a'r eirfa megis *jogel*, *ombeidus* a *feidir*. Yn ei ragair i'w gyfrol, esbonia iddo bwysu'n helaeth ar lyfr W. Meredith Morris *A Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire* yn ogystal â chasgliadau o eirfa Sir Benfro yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan. Dengys hyn ei awydd i gofnodi'r dafodiaith yn gywir, a gellid awgrymu iddo lwyddo i wneud hynny.

### **Cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol**

Yn ogystal â chystadlaethau cerddi tafodiaith, fe gystadlodd W. R. Evans ym mhrif gystadlaethau barddol yr Eisteddfod Genedlaethol gyda cherddi tafodieithol, gan ddod yn agos at y brig nifer o weithiau. Trafodir un enghraifft i roi blas o'r cystadlu hwnnw.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fôn 1983, testun cystadleuaeth y bryddest oedd 'Clymau', a chyflwynodd W. R. bryddest dafodieithol yn croniclo hanes ei fywyd, a'r clymau rhyngddo a'i fro enedigol. Y beirniaid oedd James Nicholas, John Gwilym Jones a Nesta Wyn Jones. Cafwyd canmoliaeth uchel i'r gerdd gan J. Nicholas (1983, t.23), a ddywedodd fod yr awdur yn 'feistr' ar drin ei dafodiaith a bod canu'r bardd am ei ddyddiau cynnar yn rhagorol. Cofier bod James Nicholas yn frodor o Dyddewi, ac felly'n gymwys i wneud sylw fel hyn gan ei fod yntau'n gyfarwydd â'r dafodiaith. Beth a olyga wrth fod yn 'feistr' ar drin ei dafodiaith? O bosib bod yr awdur yn ei chyfleu'n gywir ac yn ei defnyddio'n gelfydd i ganu, megis yn y pennill isod:

We bowyd in wyn fel y galchen,  
Neu dina we marn i, ta beth,  
Nes ffeindies i ma's gidag amser  
Bod gwynfyd yn codi treth.  
Wa'th fel wên i'n camu'r minidde,  
Drost fignen a phibrwyn a gwrug,  
We rhwbeth in clwmu 'mhigwrne  
A 'nala i lawr in imhlyg (W. R. Evans, dyfynnwyd gan  
J. Nicholas, 1983, t.23).

Â J. Nicholas (1983, t.23) ymlaen i ddisgrifio'r bardd fel 'ymgomiwr hamddenol' yn trin a thrafod profiadau bob dydd mewn modd diffwdan a chartrefol, gan nodi mai'r hyn a geir yn y gerdd yw barddoniaeth loyw a glân heb unrhyw drimins, gyda dyfnder ystyr o dan yr wyneb. Awgryma hyn, fel y gellir gweld yn y dyfyniad uchod, nad yw'r awdur wedi tynnu sylw gormodol at y dafodiaith ar draul cynnwys y gerdd, fel sy'n gallu digwydd mewn canu tafodieithol. Ymddengys rhythm ac odl y gerdd yn naturiol a llyfn ac, felly, nid esgeulusodd yr ochr farddonol chwaith.

Yn y bryddest hon, gwelwn ddawn yr awdur i blethu'r digri a'r difrifol, megis wrth ddisgrifio ei gyfnod fel athro:

Wy'n cofio crwt drigionus iawn we wastod in rhyw gawl  
Fe'i cledres e, do lawer gwaith, sach na we 'da fi hawl.

Ar long im Môr Iwerydd, in niddie'r drin, Duw wŷyr,  
Fe gwrddes e in wên i gyd. Fe doddon ni fel cŵyr  
(W. R. Evans, dyfynnwyd gan J. Nicholas, 1983, t.23).

Er yn disgrifio'r gerdd fel un annwyl mewn mynegiant bywiog, ac yn cyfeirio at gymwynas yr awdur wrth gynnwys nodweddion y dafodiaith, cyfaddefa'r ail feirniad, J. G. Jones (1983, t.35) fod y gerdd yn anodd ei deall i "'estron" o'r rhan hon o Gymru,' ac o'r herwydd ei fod yn colli rhediad y gerdd drwy orfod darllen yr esboniad ochr yn ochr â'r hyn a ysgrifennwyd, a bod hyn yn amharu ar gyfathrebu rhwydd. Awgrymwyd eisoes mai anfantais rhestr o eirfa a'u hystyron yw y gall dorri ar rediad y darllen, er bod iddi fanteision hefyd. Er na chafodd e, ac yntau'n frodor o Sir Benfro, anhawster i ddeall y dafodiaith, cytuna J. Nicholas (1983, t.24) â sylw J. G. Jones, gan gyfaddef y gallai weld yma broblem cyfathrebu rhwng y bardd a'i gynulleidfa, er i'r bardd egluro teithi'r dafodiaith a rhoi ystyr geiriau anghyfarwydd. Gan mai un o hanfodion pennaf iaith yw galluogi pobl i gyfathrebu â'i gilydd, teg dweud y gall llenyddiaeth dafodieithol amharu ar y cyfathrebu hwnnw, ond gall rhestrau sy'n gydymaith i weithiau tafodieithol ei wella.

Wrth ddweud ei bod yn gwirioni ar dafodieithoedd, mynega'r trydydd beirniad N. W. Jones (1983, t.43) ei siom nad oedd sylwedd i'r bryddest ac, er y ceir yma lais unigryw sy'n adnabod ei dafodiaith, mae o'r farn mai dawn i lunio gwirebau sydd gan y bardd yn hytrach na dawn i gynnal thema estynedig; cynnwys a mynegiant y gerdd sy'n peri pryder i'r beirniad hwn felly, nid ei thafodiaith.

Yn sgil sylwadau'r beirniad, rhaid ystyried a yw diffyg sylwedd yn sylw teg am gerddi tafodieithol yn gyffredinol? Gwir dweud bod rhai cerddi tafodieithol yn rhai syml, ac yn aml yn trin pynciau ysgafn a doniol, megis cerddi W. R. 'Cân Gocos 'Wê, We'', 'Twm Martha Fach' a 'Dwê a Heddi'. Ond gallant hefyd fod lawn mor gyfoethog a dwfn â cherddi



mewn iaith safonol, megis y cerddi 'Myfyrdod', 'Dyn a Dyn' ac 'Ar Werth' y dyfynnwyd ohonynt eisoes.

Dywed J. Nicholas (1983, t.24): 'ni wn i ond am un person sy'n medru trin y dafodiaith fel y gwneir yn y gerdd hon.' Gan mai prin yw'r beirdd sy'n canu mewn tafodiaith, roedd ei gerdd yn ei ddatgelu'n hawdd. Pam hynny? O bosib am y credir mai iaith safonol yw iaith barddoniaeth, am nad yw'n gyfrwng hawdd i ysgrifennu ynddo, neu am ei fod yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen. Â J. Nicholas (1983, t.24) ymlaen i ganmol y gerdd am ei chyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg, ac ar yr un pryd mynega ei bryder na all neb ganu cân fel hon eto yn sgil y dirywiad yn nhafodiaith Sir Benfro, tafodiaith sydd bellach yn frith o eiriau ac ymadroddion Saesneg. Cofier i'r beirniad ysgrifennu hyn dros dri deg mlynedd yn ôl, a bod y dafodiaith wedi dirywio fwy fyth ers hynny.

Dywed J. Nicholas (1983, t.24) a J. G. Jones (1983, t.35) y byddai wedi bod yn fraint ac yn hyfryd coroni'r bardd hwn, ond na wnaed hynny, nid oherwydd y dafodiaith, ond am fod gwell cerddi yn y gystadleuaeth.

### **Ei gyfraniad**

Mewn noson a gynhaliwyd ym Mwlch-y-groes yn 1959 i'w gyfarch ar ei ymadawiad am Y Barri, cyflwynodd Waldo gywydd o'i eiddo ei hun i W. R., sef 'Cywydd Cyfarch W. R. Evans', gan gydnabod bod ei gyfaill yn feistr ar farddoni mewn tafodiaith:

Wyt fod i lu tafodiaith,  
Gwaed y dorf, wyt geidwad iaith,  
Wyt lawen i'r teuluoedd,  
Wyt ti'r gŵr rheita ar goedd (W. Williams, yn W. Rh. Nicholas,  
1961, t.150).

Un o brif gymwynasau W. R. Evans i'w ardal enedigol oedd ffurfio 'Bois y Frenni', a lwyddodd i ddiddori cenedlaethau o'i thrigolion. Ni ellid cael canmoliaeth uwch i'w gyfraniad na'r hyn a ddywedodd V. Jones (2000)

yn ei adolygiad o'r gyfrol *Cerddi Bois y Frenni*, sef: 'tra pery'r iaith Gymraeg yn Nyfed a thu hwnt bydd Bois y Frenni yn rhan o gynhysgaeth y genedl ac yn chwedl gwlad.' Fel y nodwyd eisoes, rhaid pwysleisio pwysigrwydd 'Bois y Frenni' fel cyfrwng i boblogeiddio canu tafodieithol, nid yn unig drwy'r cyngherddau a gynhelid yn yr ardal, ond yn ehangach drwy Gymru gyfan trwy gyfrwng y radio.

Yn ogystal â thrwy 'Bois y Frenni', gwnaeth W. R. Evans ei hun ddefnydd o'r dafodiaith ar y radio. Er enghraifft, rhaglen boblogaidd ar BBC Radio Cymru oedd *Rhwng Gŵyl a Gwaith*, lle'r oedd gwahanol bobl yn sgwrsio. Cyflwynodd W. R. ei ddisgrifiad o'r 'Nadolig' yn ei dafodiaith:

Wê dim rhyw bŵer o sylw yn câl i neud o'r Nadolig pan wên i'n rhocyn ifanc yn Shir Bemfro. Wên ni i gyd yn gwbod amdano wrth gwrs, wath oe'n ni'n mynd i'r Ysgol Sul yn weddol gyson. Wên inne wedi bod yn meddwl tipyn amdano yn hunen. Wê pob pictiwr yn dangos Mair ar gewn yr asyn a Joseph druan, yn ei wên nos hir, yn gorffod cered pentigili i Jeriwsalem. A chan mod i'n câl *chilblains* ar y nhrâd pan wên i'n grwt, wêdd trueni da fi amdano fe yn gorffod cered tros hewlydd mor sych (W. R. Evans yn R. A. Evans, 1983, t.19).

W. R. Evans yw awdur tafodieithol mwyaf cynhyrchiol y sir, ac fel yr awgryma E. George (1983, t.7), mae'r defnydd o dafodiaith yn ei weithiau yn 'ychwanegu at agosatrydd a naturioldeb y canu.' Sut y gwna hynny? Mae'n bosib bod tafodiaith naturiol y bardd yn ei alluogi i'w fynegi ei hun yn well, ac yn ei alluogi i fod yn fwy agos-atoch. Fe'i disgrifir gan J. Nicholas (1986, t.120), fel y 'meistr pennaf ar y gerdd dafodiaith yn Sir Benfro,' ac awgryma mai 'coron ei waith' yw'r gyfrol *Cawl Shir Bemro* gan ei bod yn dangos ei feistrolaeth lwyr ar y cyfrwng hwn. Gellid cytuno mai'r gyfrol yw'r goron ar ei waith yn dafodieithol, ond ni ellir ei hystyried yn gyfrol o lenyddiaeth fawr, fel yr awgrymwyd eisoes.

Roedd W. R. yn ffigwr o bwys yn y gymdeithas leol, yn brifathro, darlithydd ac arolygwr ysgolion, ac roedd parch aruthrol iddo. Roedd y ffaith ei fod yn ysgrifennu'n dafodieithol felly'n dyrchafu ac yn rhoi statws i'r dafodiaith. Fel y dywed Hefin Wyn (Cyfweiliad, 2014): 'Aruthrol yndyfe, bod rhywun o'i statws e nid yn ymbellhau oddi wrth yr iaith ond ei chofleidio hi ymhob peth odd e'n gwneud.' Fel y nodwyd yn y bumed bennod, esboniodd Wyn Owens (Cyfweiliad, 2014) mai W. R. Evans a'i sbardunodd ef i ysgrifennu'n dafodieithol ei hun, felly dylanwadodd W. R. ar awduron cyfoes. O'r wyth cerdd o'i eiddo a gynhwyswyd yn y gyfrol *Cerddi Sir Benfro* a gyhoeddwyd yn 2002 ac a drafodwyd yn y chweched bennod, roedd pedair ohonynt yn gerddi tafodieithol, gan ddangos ei bwysigrwydd fel bardd yn y cyfrwng hwnnw.

### **Gwerth y gweithiau hyn**

Yn ei ragair i'w gyfrol *Cawl Shir Bemro*, mynega W. R. ei siom a'i dristwch fod yr hen dafodieithoedd yn gwanhau ac yn graddol ddiiflannu dros Gymru gyfan, a bod geiriau a dywediadau yr ystyria'n 'drysorau gwerthfawr' yn mynd i ebargofiant (W. R. Evans, 1986a, t.8). Gellid dadlau, felly, mai ymgais fwriadol i gofnodi a hybu tafodiaith Sir Benfro a'i geirfa unigryw a chyfoethog cyn iddi wanhau a dirywio ymhellach yw'r ffaith iddo ysgrifennu cymaint o gerddi ac ysgrifau ynddi. Felly 'daw'r llafar *mewn print* yn gyfrwng tystiolaeth a chadwraeth' (A. Price, 2002, t.156).

Dywed S. B. Wright (2002, t.58) am Thomas Hardy, awdur Saesneg a ddefnyddiai dafodiaith yn ei weithiau, fod ganddo glust am dafodiaith a'i fod yn awyddus i'w defnyddio'n gywir, a phwysleisia: 'he also mourned the gradual disappearance of the colourful and expressive dialect he had known in his youth.' Dywed ymhellach i Thomas Hardy, yn ei ffuglen, ei farddoniaeth a'i ddrama, ymdrechu'n ddyfal i sicrhau bod sillafu ac arwyddocâd ei gymalau a'i eiriau tafodieithol yn gywir. Mae nifer o feirniaid Cymreig wedi defnyddio'r un gair 'lليwgar' yma i ddisgrifio

llynyddiaeth dafodieithol. Gellid maentumio bod dirywiad a diflaniad tafodiaith Sir Benfro yn peri'r un tristwch i W. R. ag yr oedd diflaniad tafodiaith a geirfa Dorset i Thomas Hardy, a'r un oedd ymdrech ddyfal W. R. i sicrhau ei fod yn cofnodi ei dafodiaith yn gywir.

Mae'r ffaith i W. R. gynnwys rhestr o eiriau a'u hystyron ar ddiwedd y gyfrol *Cawl Shir Bemro* o werth ieithyddol a hanesyddol. Cofier iddo gael ei eni ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ac mai geirfa ei lencyndod yn aml a geir yn ei weithiau, nifer ohonynt wedi diflannu o enau trigolion y sir erbyn hyn ond wedi eu diogelu yn ei gyfrolau. Fel y nodwyd eisoes, cyfaddefodd W. R. mai cyfrol a oedd yn ddylanwad arno oedd *A Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire* a gyhoeddwyd gan W. Meredith Morris yn 1910 (W. R. Evans, 1986a, t.9). Yr oedd W. R. yntau'n awyddus i gadw'r dafodiaith ar gof a chadw. Yn wir, gellid dadlau mai rhyw fath o eiriadur yw'r gyfrol *Cawl Shir Bemro* gydag esboniad o rai o nodweddion y dafodiaith, rhestr o eirfa a'u hystyron, ac enghreifftiau o'r nodweddion a'r eirfa honno yn yr ysgrifau a'r cerddi. Gwelir nifer o'r nodweddion yn yr ysgrif 'Whare â Tân':

Hana i wedi gweld Edgar os blinidde mowr. Dwâd lawr i angla' perthinas, in ir hen ardal, na'th e, 'os dwetha fach, a buon ni'n ca'l dished o de 'da'n gily in y festri, ar ôl ir angla'. Wên i'n 'i weld e wedi heneiddo a salwino, wa'th wê rhwbeth bonhedd iawn indo pan wêdd e'n grwt ifanc (W. R. Evans, 1986a, t.66).

Gellid awgrymu bod i'w weithiau tafodieithol werth cymdeithasegol yn ogystal gan eu bod yn disgrifio'r fro, y gymdeithas a'r diwylliant y'i maged ynddi, ei berthynas ef â'r gymuned honno, ynghyd â bywyd yng nghefn gwlad ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a thu hwnt. Fel y dywed W. R. Evans (1980, t.273) am ei dafodiaith: 'dichon mai'r dafodiaith honno, yn fwy na dim arall, sy'n adlewyrchu fy mhrofiadau cynnar, ac yn rhoi naws y bywyd gwledig a gafwyd ar ddechrau'r ganrif hon.' Ceir cyfeiriadau at fyd addysg y cyfnod ac at ddigwyddiadau cymdeithasol, er

enghraifft yn 'Nosweth y Ffair'. Yn ogystal, disgrifir cymeriadau lliwgar a gyfoethogodd fywyd yr ardal, nodwedd sy'n ein cynorthwyo i greu darlun o'r gymuned a'r gymdeithas mewn cyfnod penodol.

Nid rhamantu a sentimentaleiddio yn unig a wna, fel sy'n dueddiad mewn llenyddiaeth dafodieithol, ond disgrifia hefyd y newid a welodd i gymdeithas wrth i fewnfudwyr di-Gymraeg ddod i'r ardal gan feddiannu'r tai a newid iaith yr ysgol, fel y disgrifia yn ei gerdd 'Ar Werth'. Cyfaddefodd Wyn Owens (Cyfweliad, 2014) ei fod yn ddiolchgar i W. R. am gofnodi geiriau a chyfnod arbennig yn hanes yr iaith, gan dynnu sylw at sut yr oedd pobl Mynachlog-ddu yn ei siarad hi. Mae'n bosib bod hyn wedi symbylu neu ddylanwadu ar Wyn Owens i gyhoeddi'r gyfrol *Rhint y Gelaets a'r Grug : Tafodiaith Sir Benfro* (2013), mewn ymgais arall i gofnodi'r dafodiaith.

### **Casgliad**

Yn wahanol i Dewi Emrys, gadawodd W. R. Evans doreth o lenyddiaeth dafodieithol yn waddol. Er na phrofodd yr un enwogrwydd â Dewi Emrys, ac mai am y gerdd 'Pwllderi' y meddylir wrth ystyried barddoniaeth dafodieithol Sir Benfro, mae cyfraniad W. R. i lenyddiaeth dafodieithol y sir lawn cyn bwysiced. Fel y pwysleisiodd Eirwyn George (Cyfweliad, 2014), gwnaeth W. R. fwy na neb arall i hyrwyddo tafodiaith y sir. Cofnododd y dafodiaith i'r oesoedd a ddêl, ac mae ei gyfraniad, yn ieithyddol, yn hanesyddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol yn un pwysig a gwerthfawr.

Teg gofyn, felly, pam yr ysgrifennodd gymaint o lenyddiaeth dafodieithol? O bosib am mai gwell ganddo oedd ysgrifennu'n dafodieithol; i brofi'r pwynt bod modd gwneud hynny; fel arwydd o'i hunaniaeth a'i ymlyniad wrth fro ei febyd, neu yn unig er mwyn cofnodi'r dafodiaith a'i chadw rhwng cloriau llyfr. Cred V. Hughes (2006, t.57) mai'r 'unig faen prawf ystyrllon yw meistrolaeth bardd a llenor dros iaith.

Boed honno'n iaith safonol neu'n dafodiaith, does dim gwahaniaeth.'  
Dangosodd W. R. fod ganddo feistrolaeth dros yr iaith safonol yn ogystal  
â thafodiaith wrth farddoni, er enghraifft yn ei englyn 'Yr Ysgol  
Gymraeg':

Cymru a wybu obaith o'i hagog  
Mewn Seisnigaidd dalaith.  
Daw i fri trwy adfer iaith  
A gweini uwch gwaie heniaith (W. R. Evans, 1983, t.15).

Roedd W. R. Evans wedi ei wreiddio'n ddwfn yn nhir a daear Sir Benfro  
ac, yn ddiau, yn un o'r cymwynaswyr pennaf yn cofnodi ei thafodiaith.  
Ond gellid dadlau mai enwogrwydd lleol oedd iddo ac nad oedd yn  
adnabyddus yn ehangach ar draws Cymru. Pwysigrwydd lleol sydd i'w  
waith felly, yn hytrach na phwysigrwydd cenedlaethol, a hynny am iddo  
ddewis ysgrifennu'n bennaf yn ei dafodiaith. Atgyfnertha hyn y ddadl  
mai gwerth ac apêl leol sydd i lenyddiaeth dafodieithol er y gellid dadlau  
bod y gwerth hwnnw yr un mor bwysig â gwerth cenedlaethol.

## PENNOD 9

### CASGLIAD AC ARGYMHELLION

#### Rhagarweiniad

Amcan y gwaith ymchwil hwn oedd cynnig disgrifiad a dadansoddiad beirniadol o lenyddiaeth dafodieithol, ei natur a'i gwerth, gan ffocysu ar dafodiaith Sir Benfro. Fel y nodwyd eisoes, ychydig a ysgrifennwyd yn benodol am lenyddiaeth dafodieithol yn y Gymraeg, ac er i astudiaethau o dafodieithoedd unigol fod yn destun traethodau hir a gyflwynwyd ar gyfer graddau uwch ym mhrifysgolion Cymru, ni chyflwynwyd unrhyw draethawd ymchwil yn *benodol* ar lenyddiaeth dafodieithol Gymraeg hyd yma. Y mae'r ymchwil hwn nid yn unig yn cyfrannu at yr hyn sy'n bodoli eisoes ym maes llenyddiaeth dafodieithol, ond yn ogystal yn cyflwyno dadansoddiad cynhwysfawr o lenyddiaeth ardal benodol.

Rhaid ystyried, felly, pam na wnaed gwaith ymchwil nac ysgrifennu llawer am lenyddiaeth dafodieithol Gymraeg yn y gorffennol? O ymchwilio i ffynonellau amrywiol megis beirniadaethau o gystadlaethau eisteddfodol ac adolygiadau o gyfrolau tafodieithol, ynghyd â chynnal cyfweiliadau, canfuwyd mai ychydig iawn o sylwadau negyddol a wnaed am lenyddiaeth dafodieithol. Serch hynny, gellid dadlau mai sylwadau arwynebol a wneir am lenyddiaeth dafodieithol ar y cyfan, megis canmol ei ffresni a'i liw. Wrth holi ei hun pam na fu tafodiaith Saesneg mewn ffilm a llenyddiaeth yn faes ymchwil yn y blynyddoedd diwethaf, awgrymodd J. Hodson (2014, t.238): 'perhaps because it seems both marginal and rather fusty.' Ymddengys, felly, nad apeliodd y pwnc yn gyffredinol fel maes ymchwil.

## Cwestiynau'r ymchwil hwn

Fel y nodwyd yn yr ail bennod ar ddechrau'r gwaith ymchwil lluniwyd pum cwestiwn y dymunwyd eu hateb yn ystod proses casglu a dadansoddi gwybodaeth, sef:

1. Sut y dehonglir llenyddiaeth dafodieithol?
2. Pam y defnyddir tafodiaith mewn llenyddiaeth?
3. Oes gwerth mewn llenyddiaeth dafodieithol?
4. Beth yw'r ymateb a'r agwedd at lenyddiaeth dafodieithol?
5. A yw llenyddiaeth dafodieithol yn tanseilio teithi'r iaith Gymraeg ac yn ychwanegu at dyndra rhwng yr iaith lenyddol a thafodiaith?

Atebir y cwestiynau hyn yn rhan nesaf y bennod hon.

### 1. Sut y dehonglir llenyddiaeth dafodieithol?

Defnyddir tafodiaith mewn dwy ffordd wahanol mewn llenyddiaeth. Ar y naill law, ceir *llynyddiaeth mewn tafodiaith* ac, ar y llaw arall, ceir *tafodiaith mewn llenyddiaeth*, a gall amcan a phwrpas y ddwy fod yn wahanol iawn i'w gilydd (C. M. Jones, 2006a, t.82).

Diffinnir *llynyddiaeth mewn tafodiaith* fel darnau o waith a ysgrifennwyd yn gyfan gwbl mewn tafodiaith. Er y gellid dadlau eu bod wedi'u hanelu at gynulleidfa benodol, sef cynulleidfa leol sy'n gyfarwydd â'r dafodiaith yr ysgrifennwyd ynddi, ni olyga hyn o angenrheidrwydd na all cynulleidfaoedd mewn ardaloedd eraill fwynhau a gwerthfawrogi gweithiau a ysgrifennwyd mewn tafodieithoedd nad ydynt yn gyfarwydd â hwy. Yn wir, ystyrir y nofel dafodieithol *Un Nos Ola Leuad* yn un o glasuron y Gymraeg. Serch hynny, gall ddieithrio'r darlennydd ac, felly, gall apêl llenyddiaeth dafodieithol fod yn fwy lleol na chenedlaethol, er y gellid dadlau bod iddi werth i'r gynulleidfa leol honno. Wedi dweud hynny, gwyddys fod Marta Listewnik (Prifysgol Poznań, Gwlad Pŵyl, 2016) wedi cyfieithu *Un Nos Ola Leuad* i'r Bwyleg, ffaith a ddengys y



gall *dysgwyr* y Gymraeg fynd i'r afael â thafodiaith, ac y *gall* fod gwerth *rhyngwladol* i lenyddiaeth dafodieithol.

Diffinnir *tafodiaith mewn llenyddiaeth* fel y defnydd o dafodiaith mewn darn o waith, boed yn rhyddiaith neu farddoniaeth. Yn y gweithiau hyn mae iaith y naratif a'r disgrifio yn safonol tra bod iaith y ddeialog a'r sgwrsio yn dafodieithol. Rhydd hyn flas i'r darlennydd o leferydd tafodieithol ardal benodol. O ystyried y pryder a fynegwyd gan rai am y defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth, gellid dadlau bod y defnydd hwn yn rhyw fath o gyfaddawd, yn fan canol, gyda'r deialog o reidrwydd yn dafodieithol, ond wedi ei blethu'n naturiol â'r iaith safonol.

Er bod y ddau ddiffiniad penodol hyn ar gael, canfuwyd diffyg dealltwriaeth gan rai a dehonglir llenyddiaeth dafodieithol mewn ffyrdd gwahanol.

Er enghraifft, wrth gyfeirio at Hefin Wyn yn ennill y gystadleuaeth 'Stori feiddgar' yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych yn 2013 gyda'i stori 'Haka Penclippin', stori a gynhwysai eiriau tafodieithol a safonol, roedd sylw Sioned Davies yn ei beirniadaeth ar y gystadleuaeth yn peri dryswch: 'adroddir y cyfan yn nhafodiaith Sir Benfro a'r eirfa'n odidog o gyfoethog' (S. Davies, 2013, t.154). Yn yr un modd, dywed V. Hughes (2013, t.45) fod y stori 'wedi ei sgwennu'n gyfan gwbl yn nhafodiaith ddigyffelyb Sir Benfro.' Amlyga hyn dueddiad rhai i ystyried gweithiau'n rhai tafodieithol hyd yn oed os mai ychydig o dafodiaith yn unig sydd ynddynt.

Nid tueddiad diweddar yn unig yw hwn. Cyfeiriwyd yn y drydedd bennod at erthygl Kate Roberts yn *Y Llenor* yn 1931 yn dwyn y teitl 'Tafodiaith mewn Storïau' yn amddiffyn y defnydd o dafodiaith yn ei gwaith hi ei hun ac mewn rhyddiaith yn gyffredinol. Cyfeiriodd at storïau lle yr ysgrifennwyd y darnau disgrifiadol mewn iaith safonol a'r siarad mewn tafodiaith, gan honni bod rhai adolygwyr yn gweld tafodiaith yn

unig drwy'r holl stori (K. Roberts, 1931, t.55). Dyma agwedd unllygeidiog ac enghraifft o fethu â mynd heibio i'r dafodiaith a deall y plethu rhwng yr iaith dafodieithol a'r iaith safonol.

Yn yr un modd, wrth drafod cystadleuaeth 'Cerdd mewn Tafodiaith Leol' Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1926, cyfeiriwyd yn y seithfed bennod at sylw cyson W. Ifan (1926, t.142) wrth feirniadu pob cerdd yn unigol mai prin yw'r dafodiaith ynddynt, ac i nifer o'r ymgeiswyr anghofio mai cerdd mewn tafodiaith a ddisgwylid drwy gynnwys geiriau llenyddol yn hytrach na rhai tafodieithol. Rhennid y pryder hwn gan y cydfeirniad, R. Williams-Parry (1926, tt.146-147) a gyfeiriodd at y ffaith mai ychydig yn unig o dafodiaith a gynhwysai rhai cerddi, neu hyd yn oed dim tafodiaith, a bod cymysgedd o'r llenyddol a'r tafodieithol mewn cerddi eraill. Amlyga hyn eto ddiffyg dealltwriaeth neu ddehongliad gwahanol o lenyddiaeth dafodieithol. Naill ai nid oedd y cystadleuwyr wedi deall ystyr barddoniaeth dafodieithol, neu roeddent o'r farn nad oedd modd ysgrifennu'n llwyr yn y cyfrwng hwnnw, gan amlygu, felly, ddilema sylfaenol teithi'r Gymraeg, sef a ddylid ysgrifennu mewn iaith lenyddol yn unig.

## **2. Pam y defnyddir tafodiaith mewn llenyddiaeth?**

Ymddengys fod nifer o resymau dros ddefnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth, fel yr awgrymwyd yn y bennod gyntaf. Yn eu mysg, 'dialectal variation has many rhetorical effects so as to show humour, degree of intimacy, age of a generation, nostalgia, solidarity of a group, and belonging to a community' (M. Ilhem, 2013, t.102).

Ceir cyswllt rhwng statws a'r defnydd o dafodiaith gydag awduron yn defnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth er mwyn amlygu statws cymdeithasol eu cymeriadau. Yn yr wythfed bennod adroddwyd sut y cyflwynodd W. R. Evans ei gyfrol *Cawl Shir Bemro* i'r 'llu gwerinwyr a siaradodd yr hen dafodiaith' (W. R. Evans, 1986a, t.5), gosodiad sy'n

awgrymu mai gwerinwyr sy'n siarad tafodiaith, sef y gwerinwyr hynny a gysylltir â chefn gwlad gan amlaf.

Yn ogystal â chysylltiad rhwng statws a thafodiaith, ceir cysylltiad rhwng comedi a thafodiaith, gyda'r ddau yn aml yn plethu i'w gilydd. Defnyddir tafodiaith mewn llenyddiaeth yn aml, felly, i gyfleu doniolwch a chomedi. Yn y cyfrolau *Wês Wês* a drafodwyd yn y chweched bennod, gwelwyd bod troeon trwstan a doniol yn un o'r themâu amlycaf. Amlygwyd yn yr wythfed bennod mai fel bardd y digri a'r doniol yr adwaenir W. R. Evans yn bennaf; ysgrifennodd nifer o gerddi ac ysgrifau doniol mewn tafodiaith, megis y caneuon a genid gan 'Bois y Frenni'.

Defnyddir tafodiaith hefyd fel cyfrwng dychan. Er enghraifft, defnyddiodd W. R. Evans ei dafodiaith i ddychanu newidiadau yn y byd addysg yn sgil syniadau athronwyr a seicolegwyr, yn ogystal â dychanu'r arfer o gynnal cyfarfodydd Sefydliad y Merched yn yr iaith fain a'r syniad a fodolai fod angen gafael sicr ar yr iaith Saesneg er mwyn dod ymlaen yn y byd. Yn y gerdd gyntaf i gael ei hysgrifennu yn nhafodiaith Sir Benfro y gwyddys amdani, sef 'Tafodiaith Gymreig Sir Benfro', y dafodiaith ei hun oedd testun y dychan. Disgrifia'r bardd Brynach sut y siaredid y dafodiaith yn naturiol gan y trigolion lleol; ni wyddent am yr ieithoedd 'swyddogol', cyffredin, ieithoedd y 'byd mawr' y tu allan i'w cynefin a'u milltir sgwâr yn Sir Benfro.

Amlygwyd yr arfer o ddefnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth i gyfleu iaith bob dydd cymeriadau. Gellid dadlau mai annaturiol fyddai rhoi iaith safonol yng ngenau cymeriadau Sir Benfro, neu unrhyw sir arall, ac y dylid caniatáu iddynt siarad yn eu geiriau naturiol eu hunain. Gellid cytuno â K. Roberts (1965, t.133), felly, mai'r iaith a siaredir mewn bro a ddisgwylir mewn storïau am bobl leol y fro honno pan fyddant yn sgwrsio'n naturiol â'i gilydd. Gwelwyd hyn mewn gweithiau megis nofelau Gwen Parrott a'r ysgrif 'Y Stori Dal' gan Dewi Emrys.

Yn ei chyfrol *Saith Oes Efa*, a gyhoeddwyd yn 2014, cyflwyna Lleucu Roberts saith stori yn olrhain cyfnodau ym mywyd saith o ferched mewn gwahanol rannau o Gymru, a hynny yn eu tafodieithoedd. Nid yn unig y mae'n medru ysgrifennu yn ei thafodiaith ei hun, felly, fel y gwna mwyafrif yr awduron y cyfeirir atynt yn y traethawd hwn, ond ysgrifenna'n sicr ac yn hyderus mewn nifer o dafodieithoedd. Camp yr awdur yw caniatáu i'r merched adrodd eu storïau yn eu lleisiau eu hunain (A. Islwyn, 2014, t.34), sef y naturioldeb hynny sy'n amlygu elfen bwysig o'u cymeriadau a'u gwead. Roedd hynny'n fwriadol, gan fod 'ysgrifennu tafodiaith yn clymu'r uniad rhwng yr ysgrifenedig a'r llafar, gan briodi'r hyn a wêl y llygad a'r hyn a glyw y glust, er mwyn dwysáu ein hadnabyddiaeth o'r cymeriad' (Lleucu Roberts, Cyfweliad, 2015).

Gellid maentumio bod rhai awduron yn defnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth er mwyn tynnu sylw ati, er mwyn ei chyflwyno i'r eithaf, yn rhyw arwydd o hunaniaeth ac o annibyniaeth, ac am eu bod yn gweld ei gwerth ac yn ymfalchïo ynddi. Fel y dywed J. Hodson (2014, t.116) am lenyddiaeth dafodieithol: 'the representation is often rich and affectionate, and several critics have argued that its primary function is to reinforce regional identity.' Enghraifft o hyn yw Wyn Owens, awdur sy'n ymhyfrydu ac yn ymfalchïo yn ei dafodiaith ac a gyhoeddodd eiriadur tafodieithol er mwyn ceisio rhannu ei gwerth.

Yn ogystal, defnyddir tafodiaith fel llais gwrthsefydliadol, llais llenyddol amgen a gwahanol i'r norm. Mae'r defnydd hwn felly yn herio'r 'sefydliad' ac yn ddihangfa o'r iaith safonol ysgrifenedig a ddisgwylir yn draddodiadol. Awdur o'r fath yw Hefin Wyn, sy'n cynnwys geiriau tafodieithol mewn storïau ac erthyglau papur newydd am mai hon yw ei iaith naturiol ef, ac am mai dyma'r geiriau sy'n fwyaf addas i'w defnyddio yn ei farn ef, er ei fod yn llwyr ymwybodol fod ei lais yn wrthsefydliadol ac yn ennyn beirniadaeth rhai. Cred Mererid Hopwood (Cyfweliad, 2015) fod cynnig llais llenyddol amgen, er enghraifft drwy

addasu Salm 23 'Yr Arglwydd yw fy Mugail' i dafodiaith Sir Benfro, yn ennyn boddhad ac 'yn cyffroi'r glust.'

Yn yr ail bennod, cyfeiriwyd at ddefnydd Meic Stephens o dafodiaith y Wenhwyseg fel cyfrwng ei lais barddol, er nad oedd y Wenhwyseg yn iaith lafar fyw iddo ef a'i gymdeithas. Mae gwahaniaeth amlwg felly rhwng defnydd Meic Stephens o dafodiaith a defnydd awduron eraill megis Hefin Wyn, Wyn Owens, Eirwyn George a W. R. Evans. Er enghraifft, er mai yn achlysurol iawn y mae Eirwyn George yn ysgrifennu yn ei dafodiaith, dyma ei iaith lafar fyw ef a'i gymdeithas (Eirwyn George, Cyfweliad, 2014). Er nad dyma oedd iaith bob dydd Meic Stephens, yr oedd ysgrifennu mewn tafodiaith yn dod yn naturiol iddo, nid o fwriad (Meic Stephens, Cyfweliad, 2015). Gwelwn yma felly botensial tafodiaith fel iaith a llais llenyddol amgen.

Gellid dadlau bod awduron eraill yn defnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth am mai dyma'r cyfrwng y maent fwyaf cartrefol yn ysgrifennu ynddo. Gwelwyd enghraifft o hynny wrth drafod Reggie Smart yn y bumed bennod pan yr awgrymwyd ei fod yn canu'n rhwydd yn ei dafodiaith a'i fod yn rhagori fel bardd tafodieithol am ei fod yn agos-atoch ac yn ddidwyll. Gall rhai awduron fynegi eu hunain a chyflwyno eu neges yn well mewn tafodiaith nag mewn iaith safonol. Serch hynny, gellid maentumio na ddylid gwneud hynny er mwyn cuddio diffyg gafael ar yr iaith safonol, ond, yn hytrach, am mai'r dafodiaith yw'r dewis gorau a'i bod yn gweddu i'r pwnc dan sylw.

Ar adegau, gwelir awduron yn cynnwys ambell air tafodieithol er mwyn lleoli cerdd neu stori ac er mwyn amlygu tafodiaith yr ardal honno. Er enghraifft, ceir blas o dafodiaith Ceri Wyn Jones yn rhai o'i gerddi, megis yn y gerdd 'Pen y Bryn a Chilgerran' a gynhwyswyd yn y gyfrol *Cerddi Sir Benfro*:

Chwarae'r chwech-oed sy'n oedi'n idiomau  
hyd wmed y perci:  
llafariad brain, cytsain ci,  
yw'r iaith lân drwy'r tARTH 'leni (C. W. Jones, yn M. Hopwood,  
2002, t.90).

Trafodwyd â Ceri Wyn Jones (Cyfweiliad, 2014) yr arfer o gynnwys rhai geiriau tafodieithol mewn gweithiau, megis 'hyd wmed y perci' yn y dyfyniad uchod. Dywedodd: 'Dwi'n gwbod mod i weithie yn defnyddio tafodieth er mwyn lleoli cerdd, er mwyn i ddarllenydd neu wrandawr i werthfawrogi bod 'na berthynas weddol agos rhwng beth sy'n cal ei 'weud, a'r lle mae e 'di cal ei 'weud.' Diddorol yw'r awgrym bod tafodiaith, hyd yn oed ychydig o eiriau fel 'wmed y perci', yn lleoli cerdd yn syth, gan ddangos pŵer y dafodiaith honno. Gellid maentumio bod gwerth i'r lleoli hwn gan ei fod yn arddangos balchder o fro, a balchder o'r iaith a gysylltir â'r fro honno.

Gellid dadlau mai un o ragoriaethau defnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth yw ei fod yn rhoi blas ac arlliw o dafodiaith yr ardal y lleolir y gerdd, y stori neu'r nofel ynddi. Er enghraifft, wrth nodi fod Ray Evans wedi ysgrifennu'r gyfrol *Y Llyffant* yn nhafodiaith Dyffryn Teifi, awgryma H. P. Jones (1986, t.123) fod y defnydd o dafodiaith yn cyfoethogi'r arddull wrth roi blas i ni o ardal arbennig a chyfnod arbennig yn hanes y prif gymeriad.

### **3. Oes gwerth mewn llenyddiaeth dafodieithol?**

Maentumir yn y traethawd hwn *bod* gwerth i lenyddiaeth dafodieithol, gwerth lleol, ieithyddol, cymdeithasegol a hanesyddol, ac y gellir uniaethu â phobl drwy'r llenyddiaeth hon gan eu bod yn gweld eu hiaith lafar ar ffurf ysgrifenedig.

Fel y soniwyd eisoes wrth ateb y cwestiwn cyntaf, gellir dweud bod apêl llenyddiaeth dafodieithol yn fwy lleol na chenedlaethol ac, o bosib, yn

cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen i ardal benodol yn bennaf. Gellid dadlau bod gwerth iddi i'r gynulleidfa leol honno, a hynny yn nhermau difyrwch ac ymfalchïad mewn iaith ac, felly, bod ysgrifennu lleol yn bwysig. Fel y nodwyd yn y chweched bennod, cafwyd derbyniad da a chanmoliaeth i'r cyfrolau *Wês Wês*, a'r ffaith bod y llafar yn ymddangos ar bapur wedi plesio pobl leol, ac awgrymwyd bod pobl nad oeddent yn darllen llawer o Gymraeg yn arferol wedi prynu a darllen y cyfrolau hyn. Er bod cyfrolau tafodieithol o'r fath yn cyfyngu'r gynulleidfa o bosib i Sir Benfro, felly, gellid dadlau eu bod hefyd yn agor eu hunain i gynulleidfa newydd yn y sir na fyddai, o bosib, yn darllen llyfrau Cymraeg fel arfer.

Gellid awgrymu ymhellach y gellir uniaethu â phobl drwy lenyddiaeth dafodieithol a, thrwy hynny, atgyfnerthu gwerthoedd y gymuned. Un o nodweddion *dwyllosia* yn ôl C. A. Ferguson (1959, t.338) yw'r ffaith bod corff o lenyddiaeth yn bodoli yn iaith naturiol cymuned:

There is a sizable body of literature in a language closely related to (or even identical with) the natural language of the community, and this literature embodies, whether as source (e.g. divine revelation) or reinforcement, some of the fundamental values of the community (C. A. Ferguson, 1959, t.338).

Gellid dadlau bod i lenyddiaeth dafodieithol werth ieithyddol. Ceir ynddi wybodaeth ddefnyddiol i'r rheiny sy'n astudio tafodieithoedd ac mae'n ffynhonnell bwysig o wybodaeth am ddefnydd, datblygiad a newidiadau yn y dafodiaith. Er enghraifft, gellid awgrymu bod gwerth ieithyddol i'r cyfrolau *Wês Wês* gan eu bod yn arddangos nodweddion a geirfa unigryw'r dafodiaith megis y disgrifiwyd yn y bedwaredd bennod. Ar ddiwedd nifer o gyfrolau ceir rhestr o eirfa a'u hystyron at bwrpas cynorthwyo'r darlennydd nad yw'n gyfarwydd â'r dafodiaith.

Er hynny, awgrymwyd mai perygl wrth ysgrifennu'n dafodieithol yw canolbwyntio'n ormodol ar y dafodiaith, a hynny ar draul y cynnwys, gan

droi'r gwaith yn rhyw fath o ymarfer ieithyddol. Dywed Mererid Hopwood (Cyfweliad, 2014) mai prif swyddogaeth llenyddiaeth, boed yn dafodieithol ai peidio, yw diddanu, ac 'os yw'r gwaith yn cael ei greu yn bennaf er mwyn, dyweder 'achub y dafodiaith' ac yn amddifad o wefr lenyddol, yna, mae'n gwneud cam â'r darllenydd. Go brin y bydd gweithiau felly yn para.' Er nad awgrymir bod y gweithiau yn y cyfrolau *Wês Wês* na'r gyfrol *Cawl Shir Bemro* yn brin o wefr lenyddol, gellir dadlau mai eu prif amcan yw cyflwyno a chofnodi'r dafodiaith ac, felly, mai yn eu gwerth *ieithyddol* y mae eu gwerth pennaf.

Gellid dadlau bod i lenyddiaeth dafodieithol werth cymdeithasegol, fel yn achos gweithiau W. R. Evans sy'n disgrifio'r fro a'r gymdeithas y'i maged ynddi, ei berthynas ef â'r gymuned honno ynghyd â bywyd yng nghefn gwlad ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a thu hwnt. Ceir cyfeiriadau at fyd addysg y cyfnod a digwyddiadau cymdeithasol megis y triplau Ysgol Sul i 'Tidrath'. Yn ogystal, gall llenyddiaeth dafodieithol ddisgrifio cymeriadau lliwgar a gyfoethogodd fywyd ardal, a hynny'n ein cynorthwyo i greu darlun o'r fro, y gymuned a'r gymdeithas mewn cyfnodau penodol.

Gellid awgrymu hefyd bod i lenyddiaeth dafodieithol werth hanesyddol. Mae'n gofnod o eiriau nad ydynt o bosib yn cael eu defnyddio mwyach, ond mae eu bodolaeth rhwng dau glawr yn eu diogelu ar ffurf ysgrifenedig. Mae hefyd yn gofnod o ddigwyddiadau hanesyddol a ddaeth i ben, megis noson y ffair yng ngherdd T. E. George 'Ffair Ma'nlochog', digwyddiad pwysig yn y calendr blynyddol yng nghefn gwlad. Disgrifia cerdd W. Rhys Nicholas, 'Y Cardi Bach', ffordd o deithio drwy'r sir am bron i ganrif ac a ddaeth i ben yn sgil datblygiadau mewn trafndiaeth fodern.

Er y cyflwynwyd enghreifftiau o lenyddiaeth yn nhafodieithoedd amrywiol y Gymraeg yn y drydedd bennod, er mwyn gosod y cyd-destun, ffocws y traethawd hwn oedd llenyddiaeth dafodieithol Sir



Benfro. O ran ymchwil pellach a manylach, felly, gellid ystyried a chanfod faint o lenyddiaeth sy'n bodoli mewn tafodieithoedd eraill yng Nghymru a beth yw agweddau awduron, beirniaid ac adolygwyr at y llenyddiaeth honno. Gan fod papurau bro yn gyhoeddiadau pwysig yn gymunedol ac, o bosib, yr unig gyhoeddiad Cymraeg a ddarllenir gan rai, gellid hefyd wneud archwiliad o'r llenyddiaeth dafodieithol a gynhwysir mewn papurau bro ar draws Cymru. Gellid cymharu a yw rhai ardaloedd yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi mwy o lenyddiaeth dafodieithol na'i gilydd ac, felly, ystyried a welir gwerth ynddi neu a ymfalchiir ynddi yn fwy mewn rhai ardaloedd nag eraill.

#### **4. Beth yw'r ymateb a'r agwedd at lenyddiaeth dafodieithol?**

Fel yr amlygwyd eisoes, ar y cyfan, ymateb ac agwedd gadarnhaol at lenyddiaeth dafodieithol sy'n bodoli.

Yn aml iawn, dywedir bod tafodiaith yn rhoi 'lliw' i gerdd neu stori a bod llenyddiaeth dafodieithol yn creu teimlad o agosatrwydd a chynhesrwydd ynghyd â naws gartrefol. Fel y nodwyd eisoes wrth ateb yr ail gwestiwn, canmolir y ffaith bod rhoi geiriau tafodieithol yng ngenau cymeriadau yn ychwanegu at naturioldeb, hynny yw, yn caniatáu i'r cymeriadau siarad yn naturiol yn hytrach nag mewn iaith safonol ffug. Gellid awgrymu yn ogystal bod llenyddiaeth dafodieithol yn symbol o hunaniaeth gymunedol, ac yn fodd effeithiol i leoli a gwreiddio'r gwaith mewn ardal benodol.

Ond yr agwedd negyddol a leisir gan rai yw bod llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa i'r ardal lle y siaredir y dafodiaith. Ond, fel yr awgrymwyd eisoes, gellid dadlau bod gwerth iddi i'r gynulleidfa leol honno. Gellid cytuno ag agwedd K. Roberts (1931, t.58), sef prin y mae unrhyw ddarllenydd yn deall pob gair o unrhyw lyfr a ddarllena. Boed mewn iaith safonol neu dafodiaith, nid yw pob gair o lenyddiaeth yn ddealladwy, ond nid oes rhaid i hynny amharu ar y mwynhad o'i darllen.

Gellir dadlau bod modd gwerthfawrogi'r swyn a'r grefft mewn cerddi tafodieithol, ac arddull storïau ac ysgrifau, er nad yn deall pob gair sydd ynddynt ac, i'r sawl sy'n ymddiddori mewn iaith, mae modd dyfalu'n aml ystyr rhai o'r geiriau sy'n ddieithr.

Roedd beirniadaethau cystadlaethau llenyddol yr Eisteddfod Genedlaethol yn ffynhonnell wybodaeth dda o ran y farn a'r agwedd at lenyddiaeth dafodieithol. Mewn rhai eisteddfodau ceid cystadleuaeth yn gofyn am gerdd neu stori fer mewn tafodiaith ac, o ran gwaith ymchwil pellach, gellid cymharu a yw eisteddfodau mewn rhai ardaloedd yn cynnwys mwy o gystadlaethau tafodieithol nag mewn ardaloedd eraill. Gellid hefyd ystyried a oes dyletswydd ar yr Eisteddfod i osod cystadlaethau mewn iaith safonol yn unig, ac felly a ddylai fod yn gosod cystadlaethau tafodieithol o gwbl. Er i mi gyfeirio at y ffaith bod rhai awduron yn cynnwys tafodiaith yn eu cerddi yng nghystadlaethau'r Gadair a'r Goron, gellid gwneud gwaith ymchwil pellach yn y maes hwn, trwy ystyried sylwadau'r beirniaid am y defnydd o dafodiaith ac unrhyw awgrym ganddynt fod yr iaith wedi llesteirio llwyddiant.

Adroddwyd eisoes bod tafodieithoedd yn gwanhau, yn enwedig ymysg y to iau, gyda rhai geiriau eisoes wedi diflannu o eirfa bob dydd. Gwaith ymchwil pellach fyddai ystyried defnydd y genhedlaeth iau o'r dafodiaith heddiw, megis drwy gyfrwng holiadur neu gyfweiliadau, ac felly eu hymateb a'u hagwedd hwy at lenyddiaeth dafodieithol. Yn ei adolygiad o'r gyfrol *Rhint y Gelaets a'r Grug : Tafodiaith Sir Benfro*, dywed I. W. Rees (2013, t.4) mai unig anfantais y gyfrol, o safbwynt y dafodiaith heddiw, yw 'nad yw'n glir oddi wrthi i ba raddau y mae ei geiriau a'i hymadroddion ar dafod leferydd cenedlaethau iau Sir Benfro.' Byddai canfod defnydd y dafodiaith heddiw ymysg yr ifanc, yn ogystal â'u hagwedd at y llenyddiaeth a ysgrifennwyd ynddi, yn amlygu ei chyflwr a'i dyfodol.

Er mai ymateb ac agwedd gadarnhaol at lenyddiaeth dafodieithol sy'n bodoli yn gyffredinol felly, fel yr awgrymwyd ar ddechrau'r bennod hon, gellid dadlau mai sylwadau arwynebol a wneir ar y cyfan. Dengys hyn nad ystyriwyd llenyddiaeth dafodieithol mewn unrhyw ddyfnder ac nad aethpwyd i'r afael mewn gwirionedd â'r agwedd a leisiwyd gan ambell unigolyn ynglŷn â'r angen i warchod yr iaith safonol a bod ysgrifennu'n dafodieithol yn tanseilio hynny. Ystyriwyd y mater fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, felly, er mwyn dyfnhau ac ehangu'r drafodaeth am lenyddiaeth dafodieithol, ac fe'i trafodir wrth ateb y pumed cwestiwn isod.

#### **5. A yw llenyddiaeth dafodieithol yn tanseilio teithi'r iaith Gymraeg ac yn ychwanegu at dyndra rhwng yr iaith lenyddol a thafodiaith?**

Nodwyd yn y bennod gyntaf mai iaith Beibl William Morgan, a gyhoeddwyd yn 1588, a roddodd i'r Gymraeg yr undod a fu'n sylfaen i lenyddiaeth Gymraeg ar hyd y canrifoedd canlynol, ac yn yr ugeinfed ganrif cwblhawyd proses safoni orgraff a gramadeg y Gymraeg gan John Morris-Jones ac eraill, a hynny er mwyn codi statws yr iaith. Yn draddodiadol, felly, yr iaith lenyddol y disgwylir ei gweld mewn llenyddiaeth:

Cymraeg safonol a ddefnyddir gan amlaf wrth ysgrifennu.....  
Hon y disgwylir ei gweld mewn print, waeth pa mor wahanol y bo i iaith siarad bob dydd. Mae'r cyfrwng yn pennu'r ieithwedd: Cymraeg llafar (dafodieithol) ar gyfer sgwrsio; Cymraeg safonol (di-dafodiaith) ar gyfer print. Dyma'r rheol gyfarwydd (A. Price, 2002, t.137).

Er sefydlu un iaith Gymraeg lenyddol, sefydlog, safonol, iaith ysgrifenedig oedd honno yn bennaf, a gellid maentumio, felly, cyfrwng artiffisial, gan nas siaredid hi yn gyffredin. Parhâi'r iaith Gymraeg mewn ffurf lenyddol a safonol mewn peuoedd megis y capel a'r brifysgol, ond parhâi hefyd ar ffurf tafodieithoedd amrywiol. Cydfodolai'r iaith lenyddol a'r dafodiaith felly ynghyd â'r tyndra a'r tensiwn a fu rhyngddynt. Y

dilema parhaus a wynebai awduron oedd a ddylid ysgrifennu mewn iaith lenyddol, sef yr iaith 'gyffredin' honno a fwriadwyd ar gyfer pawb, neu a ddylid adlewyrchu nodweddion tafodieithol naturiol mewn deialog neu mewn llenyddiaeth yn gyffredinol hyd yn oed.

Fel y gofynnwyd eisoes, os na siaredid yr iaith lenyddol, i ba raddau y deëllid hi? Ar ddechrau'r 1960au, teimlwyd bod bwlch sylweddol wedi datblygu rhwng yr iaith honno a'r tafodieithoedd cyfochrog. O ganlyniad, mabwysiadwyd *Cymraeg Byw*, a elwir hefyd yn Gymraeg llafar ac ysgrifenedig safonol, mewn ymgais i bontio'r gagendor hwn. Roedd yr iaith lenyddol a'i safonau statig eisoes wedi arwain nifer o awduron i geisio iaith fwy hyblyg, haws ei thrin, ond er y cytunai awduron yn gyffredinol bod angen ystwytho'r iaith, amrywiau'r farn am union natur yr iaith honno. Er enghraifft, er bod E. Gwynn (1998, t.31) yn credu bod yn rhaid wrth rywfaint o lafareiddio, yr oedd am sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yr iaith lenyddol a thafodiaith:

symlwydd ymadrodd mewn iaith led safonol heb fod yn or-academaidd. Mae gordalfyrru a gorbwyslais ar dafodiaith, hyd yn oed wrth gyfleu sgwrs, yn aml yn feichus i'r darllenwr; ac fe ddylai'r sgwrs fod yn ddealladwy i bawb drwy Gymru benbaladr, gan gynnwys dysgwyr (E. Gwynn, 1998, t.31).

Perthynai'r un amwysedd i ddisgrifiad M. Eames (1998, t.27). Wrth ystyried sut i atgynhyrchu'n driw sgwrs plant y mileniwm wrth ysgrifennu nofel i blant 9-13 oed, teimlai mai'r hyn a fyddai'n onest yn gelfyddydol fyddai atgynhyrchu iaith bob dydd, er yn sathredig, fel y gwnaeth John Owen yn ei gyfrolau *Pam Fi, Duw* y cyfeiriwyd atynt yn y drydedd bennod, er y byddai hyn yn wrthun iddi yn llenyddol. Awgrymodd M. Eames (1998, t.27), felly, 'rhywle yn y canol' gan osgoi iaith ddieithr, or-hynafol ond defnyddio iaith bob dydd sy'n ddealladwy i blant ac sydd hefyd yn cadw urddas yr iaith. Beth bynnag, gellir honni bod ei sylw ynglŷn â 'rhywle yn y canol' yn adlewyrchu'r ansicrwydd a'r dilema sy'n

dal i wynebu awduron hyd heddiw wrth ddewis yr iaith i ysgrifennu ynddi.

Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif roedd ymwybyddiaeth, medd R. M. Jones (2007, t.275), bod yn rhaid adffurfio, plygu a siglo'r iaith er mwyn ei deffro a'i chadw'n fyw ac, felly, aeth awduron megis Gwyn Thomas ati'n fwriadol i ddiwygio'r Gymraeg, i geisio tafodieithu'r iaith lenyddol, 'i ymaflyd yng ngwar John Morris-Jones, a'i hysgwyd' ac i 'gymysgu'r academiaidd â'r gwerinol' (R. M. Jones, 2007, t.275). Ond, rhaid ystyried i ba raddau y gall llenor ysgrifennu fel y myn.

Cyfeiriwyd yn y bennod gyntaf at y fforwm trafod dan y pennawd 'Priodol iaith y Llenor' yn y cylchgrawn *Taliesin* yn 1998 pan ofynnwyd i awduron: 'Beth yw ansawdd yr iaith Lenyddol heddiw? A oes yna'r fath beth â "Chymraeg Safonol"?' (Taliesin, 1998, t.26). Gofynnwyd ymhellach:

A natur y Gymraeg a glywir ar lafar mor anwastad, a oes ar lenorion ddyletswydd i 'buro iaith y llwyth'? Neu a oes gan y llenor dragwyddol heol i fynegi'i hun fel fyd a fynno? (Taliesin, 1998, t.26).

Dangoswyd eisoes yn y traethawd hwn bod yr iaith lafar, dafodieithol ar adegau yn anwastad, er enghraifft ceir ynddi ddiffyg treigladau. Cyfeiriwyd yn y bumed a'r chweched bennod at enghreifftiau o ddiffyg treigladau llafar yn ymwthio i'r ffurf ysgrifenedig, ac awgrymwyd na ddylai ysgrifennu tafodieithol fod yn gyfystyr ag ysgrifennu gramadegol anghywir. Er enghraifft, er bod y treigladau trwynol wedi ei ddisodli gan y treigladau meddal ar ôl yr arddodiad yn ar lafar, megis 'yn Gymru', nid yw hyn i'w gymeradwyo wrth ysgrifennu (G. Thomas, 2012, t.138). Mae treiglo yn un o reolau gramadegol sylfaenol yr iaith Gymraeg, a gellid maentumio bod goblygiadau ieithyddol pellgyrhaeddol i'w thorri a allai beri dryswch i'r darllenydd yn ogystal â'i gamarwain ynglŷn â'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir. Pan ysgrifennir mewn Cymraeg Byw,

disgwylir glynu wrth reolau gramadegol yr iaith lenyddol, felly, dylid dilyn yr un egwyddor yn nhermau ysgrifennu tafodieithol. Serch hynny, ni ddylid rhoi'r argraff bod pob awdur tafodieithol yn torri'r rheol hon nac yn anwybyddu rheolau gramadegol yn gyffredinol. Er enghraifft:

Cyn y rhifel, wê 'na siop fach gisurus in Clunderwen (W. R. Evans, 1986a, t.53).

Allen i ddim llai na teimlo'n fras (N. Richards, yn G. Griffiths, 1994, t.35).

Wêdd e'n destun i ddeiaconied (W. R. Evans, 1986a, t.79).

sach i Fangor agor iet (W. Owens, 2005, t.29).

Perthyn yr un anwastadedd i sillafu, gan mai'r hyn a welir ar adegau mewn tafodiaith yw amrywiaeth sy'n aml yn gysylltiedig ag acenion gwahanol, ac sy'n wahanol i'r iaith safonol lle ceir fel rheol un ffordd yn unig o sillafu. Yn dafodieithol, felly, nid oes y fath beth â 'sillafu cywir' ac ni ellir sicrhau 'safon' o ran sillafu. Yn ei gyfrol *Rhint y Gelaets a'r Grug : Tafodiaith Sir Benfro*, rhestru W. Owens (2013) wahanol sillafiadau sy'n bosib mewn rhai geiriau. Nid ei amcan na'i ddyletswydd oedd cynnig un sillafiad yn unig i'w mabwysiadu'n gyffredinol.

O ystyried iaith safonol, felly, gellid dadlau bod y ffaith bod iddi un ffurf ysgrifenedig yn rhoi cryfder iddi. Nid oes yr un cryfder a sefydlogrwydd i dafodiaith. Tasg anodd a llafurus fyddai llunio geiriadur safonol ar gyfer pob tafodiaith yng Nghymru, ac mae'n debyg y byddai anghytuno ynglŷn ag union sillafiad geiriau. Dyna a ganfuwyd wrth fynd ati i safoni'r Gernyweg wedi iddi gael ei chydabod fel iaith leiafrifol: 'It proved impossible in that time to achieve a single written form. Rather it produced a standard form which contains within itself room for some choices to be made by individual users' (J. Lowe, 2010, t.169). Rhaid derbyn, felly, y bydd amrywiaeth mewn sillafu geiriau tafodieithol.

Awgrymwyd gan rai awduron mai'r stori sydd bwysicaf wrth ysgrifennu. Dywedodd R. G. Jones (1998, t.32), er enghraifft, ei fod yn gwrthweithio'n erbyn y cysyniad o 'iaith lenyddol' ac, wrth ysgrifennu ffuglen, yr hyn a wna yw 'chwilio am ddefnydd o iaith sy'n addas i'r stori sydd gennyf ar y gweill, heb feddwl llawer am safonolrwydd yr hyn rwy'n ei wneud.' Yn yr un modd, dywedodd M. Davis (1998, t.27):

Ar ddiwedd y daith, y stori sy'n cyfri', ac oni bai bod llenyddiaeth Gymraeg yn cynnig storïau gwerth chweil, does dim ots a yw'r gwaith wedi'i sgwennu mewn Cymraeg safonol neu arbrofol, rhywiog neu fratiog. Does a wnelo stori dda ddim oll â safon iaith (na dawn lenyddol) a dyna sy'n bachu darllenwyr yn y pen draw (M. Davis, 1998, t.27).

Mae'r stori yn bwysig, ond gellid awgrymu bod yr iaith yr ysgrifennir y stori ynddi cyn bwysiced, ac y gallai iaith 'arbrofol' neu 'fratiog' arwain at golli darllenwyr, yn hytrach na'u 'bachu'. Adlewyrcha hyn densiwn rhwng *amcanion* gwahanol.

Er bod yr iaith lenyddol, safonol wedi newid ac addasu, mae angen parhau i sicrhau ei safon. Y cwestiwn a erys, felly, yw, cyfrifoldeb pwy yw gwneud hynny; ai'r byd addysg, ynteu y cyfryngau neu lyfrau academiaidd? Awgrymodd R. Gruffudd (1998, t.30): 'mae gan y cyfryngau a'r sistem addysg ddyletswydd i osod ac annog safon iaith.' Yn yr un modd, dywedodd G. Thomas (2012, t.5): 'fod yn rhaid wrth safon mewn addysg Gymraeg ac mewn traethu cyhoeddus.'

O ran y cyfryngau, dywed Canllawiau Iaith S4C (2015): 'mae i wasanaeth darlledu cenedlaethol swyddogaeth bwysig o gyflwyno iaith sy'n safonol' ac y dylai cyfranwyr 'anelu at safon uchel o gywirdeb a llefaru.' Serch hynny, gellid awgrymu na chyrhaeddir y safon uchel o gywirdeb bob tro gan S4C na Radio Cymru. Dywed Andrew 'Tommo' Thomas iddo fynd ati i geisio gloywi ei Gymraeg cyn cychwyn cyflwyno rhaglen ddyddiol ar Radio Cymru. Roedd yn ymwybodol o safon ei

iaith, ond fe'i siomwyd gan y cwyno: 'Pan dda'th y cwynion mewn yn gynta am safon 'y Nghymra'g i, we'n i yn siomedig bod Cymry Cymra'g eraill yn gallu bod mor annheg â 'ny am rywun arall wedd yn Gymro Cymra'g' (A. Thomas, 2014, t.91). Rhaid pwysu a mesur, felly; os rhoddir cyfle i rywun nad yw'n orhyderus ei Gymraeg, ni osodir safon ieithyddol gan y cyfryngau. Parthed y defnydd o dafodiaith ar y cyfryngau, awgrymwyd bod hynny'n hanfodol er mwyn denu a chadw gwrandawyr, yn hytrach na chyflwyno'r iaith safonol yn unig, sef yr iaith honno a gysylltir â'r addysgedig (M. J. Ball, T. Griffiths a G. E. Jones, 1988, t.184).

O ran y system addysg, er mai'r iaith safonol a ddisgwyllir yn y gyfundrefn honno, rhaid ystyried faint o athrawon, ac eithrio'r rhai hynny sy'n addysgu Cymraeg fel pwnc, sy'n sicr eu Cymraeg ac yn hyddysg yn y rheolau gramadegol erbyn hyn. Dyma'r wybodaeth ynglŷn â chwrs Safon Uwch ar wefan ysgol uwchradd:

Dyma un o'r ychydig cyrsiau modern ble mae'r cynnwys yn delio â ddigwyddiadau'r presennol gan gynnwys ymdrechion ddiweddar llywodraethau Tony Blair a Gordon Brown yn Llundain yn ogystal â rhai Rhodri Morgan a Carwyn Jones yng Nghymru i lywodraethu'r gwlad..... Y mae Gwleidyddiaeth yn bwnc academaidd, gyda pwyslais ar ysgrifennu traethodau. Nid cwrs i greu cefnogwyr Llafur neu Plaid Cymru ydyw (Cyngor Ceredigion, 2017).

Mae gosod patrwm o'r fath yn sicr yn andwyol i deithi a dyfodol yr iaith. Rhaid i ysgolion osod a mynnu safon, gan 'ysgwyddo cyfrifoldeb a sicrhau bod modd i'w disgyblion gyfathrebu yn hyderus ac yn raenus yn y Gymraeg' (I. W. Rees, 2015).

Yn 2017, canfu Estyn fod myfyrwyr addysg bellach yn 'amharod' i ddilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg (BBC, 2017a). Awgryma hyn na chawsant eu trwytho ddigon ac nad oedd hyder ganddynt i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiria C. J. Dodson (1995, t.109) at 'fossilized



interlanguage' (FI) lle y mae camgymeriadau a wneir gan ddysgwyr ail iaith yn 'rhewi' neu'n 'ffosileiddio' ac, felly, yn amhosib i'w dileu unwaith iddynt wreiddio. Disgrifia C. J. Dodson (1995, t.109) FI, felly, fel ffurf ar yr iaith darged a symleiddiwyd; y mae'r defnydd o eirfa yn gyfyngedig a nifer o reolau gramadegol megis cenedl enwau, rhif, amser a threigladau yn cael eu hosgoi, eu dileu neu eu defnyddio'n anghywir. Os nad oes gan athrawon afael sicr ar yr iaith, gellid dadlau y bydd camgymeriadau disgyblion Cymraeg *iaith gyntaf* yn ffosileiddio yn ogystal.

Y perygl yw y gall camgymeriadau a glywir ac a ddarllenir ddod yn norm; bod clywed a darllen gwallau yn eu hatgyfnerthu; bod pobl yn credu eu bod yn gywir ac yn dderbyniol, a bod diffyg cywirdeb iaith yn gwreiddio. O ystyried y diffyg hwn o ran darparu addysg Gymraeg, felly, croesewir cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn 2017 y bydd yn rhoi £4.2 miliwn yn rhagor at hyfforddiant athrawon a dysgwyr Cymraeg, gyda'r nod o ddatblygu a gwella sgiliau iaith (BBC, 2017b). Drwy wella sgiliau iaith Cymraeg athrawon, disgwylir trosglwyddo'r cywirdeb hwnnw i'r disgyblion.

O safbwynt llyfrau academaidd Cymraeg, gellid gofyn faint a phwy sy'n darllen y rhain heddiw. Anodd yw canfod union ffigyrau gwerthiant llyfrau Cymraeg yn gyffredinol, er yr awgryma I. M. Jones (2011) mai tua 1000 o gopiâu sy'n cael eu hargraffu yn y lle cyntaf fel arfer, mwy os yw'r llyfr yn ennill rhyw wobwr. Dywed gwasg Y Lolfa (2017), wrth ddathlu hanner can mlynedd o gyhoeddi, mai'r ddau lyfr a werthodd orau oedd *Welsh is Fun* (2012) (250,000 copi) a hunangofiant Nigel Owens *Hanner Amser* (2008) (25,000 copi). Ond, tra yr ymddengys fod hunangofiannau yn boblogaidd, rhaid ystyried a yw'r un peth yn wir am lyfrau academaidd Cymraeg.

Er mai amcan y gwaith ymchwil hwn oedd cynnig dadansoddiad beirniadol o lenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro, rhaid ystyried a yw

llenyddiaeth mewn tafodiaith yn tanseilio llenyddiaeth mewn iaith lenyddol a theithi'r iaith Gymraeg ac yn ychwanegu at dyndra rhwng yr iaith lenyddol a thafodiaith.

Er bod dadl dros ystwytho'r iaith lenyddol, rhaid ystyried pen draw y broses ieithyddol honno, gan y gall hyrwyddo'r fath amrywiaeth fod yn gam yn ôl at gyfnod ansefydlogrwydd cyn cyhoeddi'r Beibl gyda'r cymhlethdod ychwanegol o gael amrywiaeth ieithyddol *orgraffyddol* yn ogystal ag amrywiaeth llafar.

Gan gadw mewn cof y pwynt a wnaed eisoes ynglŷn â phwysigrwydd y system addysg yn addysgu'r iaith safonol, mae'r rhai hynny sy'n hyddysg yn yr iaith Gymraeg safonol yn gwybod y gwahaniaeth rhwng yr iaith honno a thafodiaith wrth eu darllen mewn llenyddiaeth, ac felly yn medru gwerthfawrogi ei bod wedi ei hysgrifennu mewn dau gyfrwng a chywair gwahanol. Yn wir, yng nghorff y traethawd hwn dyfynnwyd nifer o ysgolheigion Cymraeg yn canmol ac yn cefnogi defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth. Ond, mae angen ystyried y rhai hynny nad ydynt mor hyddysg yn y Gymraeg, a'r rhai hynny nad ydynt fel rheol yn darllen yn y Gymraeg, ac, felly, gwaith ymchwil pellach fyddai ystyried a yw gweld tafodiaith yn ymddangos mewn gweithiau ysgrifenedig yn peri dryswch iddynt.

Roedd cyfweleion yn y gwaith ymchwil hwn o'r farn bod lle i dafodiaith ac iaith safonol yn ein llenyddiaeth, ochr yn ochr â'i gilydd. Mae nifer fawr o'r awduron y trafodwyd eu gwaith yn y traethawd hwn yn ysgrifennu'n gelfydd mewn iaith lenyddol yn ogystal ag yn dafodieithol ac, felly, gellid awgrymu nad ydynt yn peryglu'r iaith safonol drwy ysgrifennu ambell ddarn tafodieithol. Ym marn Lleucu Roberts (Cyfweliad, 2015), bydd yr iaith safonol yn parhau, 'ond y mae lliwiau llafar tafodieithoedd yr un mor bwysig, y dull ysgrifenedig o roi geiriau i leisiau, orgraff ddidwyll a gonest, y "cymeriad" ar y cnawd oer, y dillad am yr asgwrn.' Gellid maentumio, felly, bod y defnydd o dafodiaith

mewn llenyddiaeth yn anorfod er mwyn arddangos gwir lais cymeriadau. Y mae i'r llenyddiaeth hefyd yr amcan ieithyddol o arddangos yr ystod gyfoethog o dafodieithoedd Cymraeg sy'n bodoli.

Er hynny, gellid dadlau *bod* llenyddiaeth dafodieithol, i raddau, yn tanseilio teithi'r iaith Gymraeg. Os ysgrifennir ymhob tafodiaith, collir yr undod, y sefydlogrwydd a'r ddealltwriaeth gyffredin a berthyn i'r iaith safonol. Wedi dweud hynny, awgrymwyd eisoes y gall y system addysg a'r cyfryngau yn yr un modd danseilio teithi'r iaith Gymraeg drwy fethu gosod safon glir. Yn wir, gellid awgrymu bod y cyfryngau yn peryglu teithi'r iaith yn fwy na llenyddiaeth dafodieithol, gan fod y gynulleidfa yn ehangach.

Wrth ystyried y pumed cwestiwn ymchwil hwn, canfuwyd dwy farn ynglŷn â theithi'r iaith Gymraeg safonol. Ar y naill law, cred carfan y dylid llacio ar y rheolau a'r pwyslais ar gywirdeb gramadegol. Nodwyd eisoes na chafwyd anhawster cael cyfraniadau i'r cyfrolau *Wês Wês* gan bobl a oedd yn barotach i ysgrifennu yn eu tafodiaith oherwydd eu cred nad oedd eu 'Cymraeg yn ddigon da'. Yn yr un modd prydera I. Talfryn (2013) fod y 'cysyniad o "safon" ieithyddol ddigyfnewid, Blatonaid bron' yn mynd i rwystro nifer cynyddol o Gymry rhag defnyddio'r iaith, am y credant nad yw eu Cymraeg yn gywir ac yn ddigon safonol.

Awgrymwyd yn y bennod gyntaf bod yr iaith Gymraeg yn bodoli ar hyn o bryd ar bedair lefel wahanol, ac mai'r bedwaredd lefel yw *bratiaith*. Ni ddeisyfir gweld yr iaith yn darostwng i'r lefel hon yn gyffredinol. Ni ddeisyfir chwaith weld dylanwad y Saesneg ar yr iaith. Dywed H. Hammerly (1989, t.18) wrth sôn am gymysgu Saesneg a Ffrangeg: 'Frenghish is not a language, nor a dialect, but an embarrassment'; gellir dweud yr un peth am Wenglish. Ond, er yn nodi pwysiced yw gwerthfawrogi'r iaith safonol Gymraeg am ei bod yn rhoi'r teimlad o barhad ac o hyder, dywed D. Crystal (2011, t.8), os yw'r iaith i oroesi, na ddylai'r genhedlaeth hŷn feirniadu Cymraeg fratiog y genhedlaeth

iau. Y perygl yw y bydd y rhai hynny nad ydynt yn ddigon sicr o'r rheolau gramadegol yn troi i'r Saesneg, a'r un yw'r perygl os beirnedir Cymraeg bratiog. Ar y llaw arall, os na feirnedir hi, bydd yr iaith fratiog hon yn sefydlu ei hun fel y norm. Amlyga hyn unwaith eto y dilema sydd bellach yn wynebu'r iaith Gymraeg.

Cyfeiria D. Prysor (2009) at ymdrech i gynnal 'purdeb ieithyddol' a chyplysa awydd unigolion i gynnal safon yr iaith yn ein llenyddiaeth â snobyddiaeth ieithyddol. Un arall sy'n awyddus i weld llacio ar y rheolau gramadegol yw E. Meredith (2013) sy'n gofyn a yw 'safon' iaith a 'chywirdeb' yn newid hefyd os yw iaith yn datblygu, ac felly, 'beth sydd o'i le ar "gwisgo côt fi" os mai dyna beth mae nifer o "Gymry naturiol" yn ei ddweud? Pam fod "gwisgo fy nghôt" yn ffordd well o'i ddweud? A phwy sy'n penderfynu rheolau?' (E. Meredith, 2013). Amlyga hyn bwytiau pwysig, sef a oes angen safoni'r Gymraeg yn ei ffurf bresennol a chyflwyno rheolau newydd, ac o wneud hynny, gan bwy ac a fyddai pawb yn cytuno â'r safonau hynny.

Wedi dweud hynny, dangosodd Gareth King, awdur llyfrau gramadegol, ddihidrwydd. Er enghraifft, wrth gyflwyno'r rheolau i ddysgwyr y Gymraeg, awgryma:

Getting the gender of a noun right is not of vital importance..... If you don't know whether **ffenest** is masculine or feminine, then you don't know and it could be either. So what? (G. King, 1996, t.3).

Nodwyd eisoes bod disgwyl i'r rheolau gramadegol sy'n perthyn i'r iaith lenyddol draddodiadol hefyd fod yn rhan annatod o Gymraeg Byw, a rhoddwyd, fel enghraifft, amser gorffennol rhediad *cael*:

Cefais / Ces i

A gefais? / Ges i?  
(Treigladd Meddal)

Ni chefais / Ches i ddim  
(Treigladd Llaes)

Serch hynny, anwybyddir rheolau Cymraeg Byw hyd yn oed gan rai academyddion, a gwelir penrhyddid yn treiddio wrth i'r rhain gael eu llacio a'u symleiddio. Er enghraifft, yn nogfennaeth y *Cwrs Mynediad*, sef cwrs dechreuol i oedolion sy'n dysgu Cymraeg a gyhoeddwyd yn 2005, y ffurfiau a addysgir yw:

Yn hytrach na *Ces i, Ges i*

Er enghraifft: Ges i frechdan i ginio

Yn hytrach na *Ches i ddim, Ges i ddim*

Er enghraifft: Ges i ddim byd yn y dafarn (E. Meek, 2005, t.29)

Gellid dadlau bod caniatáu, ac yn wir, *annog* dysgwyr i anwybyddu rheolau sylfaenol yn ieithyddol beryglus ac yn andwyol i'r iaith Gymraeg. Os na chywirir camgymeriadau, rhoddir yr argraff i'r siaradwr bod yr hyn a ddywedodd yn ieithyddol gywir (C. J. Dodson, 1995, t.121). Fel y nodwyd eisoes, gall camgymeriadau llafar wreiddio ac ymsefydlu yn yr iaith *ysgrifenedig* yn ogystal. Mae hyn yn peryglu'r undod a'r sefydlogrwydd a berthyn i'r iaith safonol, yn union fel y gwna sylw A. Blythe (2018): 'does affliw o otsh am safon iaith neb mewn gwirionedd. Ei defnyddio hi sy'n bwysig.'

Ar y llaw arall, y mae carfan sy'n awyddus i weld safon y Gymraeg yn parhau ac yn wrthwynebus i'r awgrym bod Cymraeg gwallus, hynny yw unrhyw fath o Gymraeg, yn well na dim Cymraeg o gwbl. Wrth gyfeirio at ddywediad lfor ap Glyn, 'gwell Cymraeg slac na Saesneg slic', dywed I. W. Rees (2015) bod rhai'n honni mai diffyg goddefgarwch at amrywiadau newydd sy'n achosi bod nifer yn ansicr eu Cymraeg ac, felly, yn troi i'r Saesneg. Awgrymwyd eisoes pa mor bwysig yw sicrhau addysg Gymraeg o'r radd flaenaf. Gellid cytuno, felly, ag awgrym I. W. Rees (2015) mai'r ateb i fater ansicrwydd yn y Gymraeg yw trwytho plant yn gynnar yn rheolau gramadegol yr iaith, er mwyn cynyddu eu hyder, gan mai canlyniad derbyn unrhyw fath o Gymraeg

fyddai gostyngiad cyffredinol mewn safonau. Yn yr un modd, dywed D. G. Jones (2013) fod angen rhoi cyfle i'r iaith safonol 'ymgodi eto o'r trwch' ac, 'er mwyn i hynny ddigwydd, mae'n rhaid inni ddal gafael ar y safonau sydd gennym, ar deithi hanfodol yr iaith.' Yn wahanol i nifer, cred D. G. Jones (2013) bod gwaith John Morris-Jones wrth safoni'r iaith yn dal yn bwysig ac yn berthnasol heddiw.

Er bod yr iaith yn newid, ni olyga hyn nad oes angen rheolau a safonau:

Ond nid yw'r ffaith bod iaith mewn cyflwr parhaol o newid yn golygu nad oes dim rheolau i'w gramadeg hi; nid yw'n golygu ychwaith bod dysgu rheolau'r iaith gyfoes yn ddianghenraid. Heb gyfres o reolau mae cyfathrebu synhwyrol ac ystyrion yn peidio'n llwyr. Mae rhwystro person rhag ennill cywirdeb yn ei iaith ei hun a'i adael heb yr arfogaeth i ddisgrifio'r defnydd o iaith a wneir gan eraill yn ei ddiffwythloni'n ddiwylliannol ac yn gymdeithasol (D. Thorne, 2000, t.viii).

Gwelir, felly, sut yr amrywia'r farn am ddyfodol a safon yr iaith Gymraeg, ac, yn ogystal ag ystyried a yw llenyddiaeth dafodieithol yn tanseilio teithi'r iaith Gymraeg ac yn ychwanegu at dyndra rhwng yr iaith lenyddol a thafodiaith, ymddengys fod angen hefyd trafod ac ystyried ymhellach union natur yr iaith 'lenyddol' 'safonol' honno.

Fel y nodwyd yn yr ail bennod, nid yw'r un gwaith ymchwil yn derfynol ac, yn ogystal ag ateb cwestiynau, gall hefyd godi cwestiynau pellach sydd angen ymateb iddynt. Er i mi lunio pum cwestiwn ar ddechrau'r gwaith ymchwil hwn a cheisio eu hateb yn y bennod hon, gwelir bod y cwestiynau hynny yn codi cwestiynau pellach ynglŷn â llenyddiaeth dafodieithol.

## **Diwedd glo**

Amcan y traethawd hwn oedd cynnig disgrifiad a dadansoddiad beirniadol o lenyddiaeth dafodieithol, gan ffocysu ar dafodiaith Sir

Benfro. Awgrymodd J. A. Fishman (1976, t.227): “Language” is a superordinate designation; “dialect” is a subordinate designation,’ ond mae’r awduron a drafodwyd wedi rhoi statws i’w tafodiaith drwy ei chynnwys mewn llenyddiaeth.

Gwelwyd bod i lenyddiaeth dafodieithol nifer o fanteision yn ogystal ag anfanteision. Ymhlith ei manteision y mae’r ffaith ei bod yn fodd i uniaethu a diddanu yn ogystal â bod yn gofnod ieithyddol, cymdeithasegol a hanesyddol. Y mae’n arddangos iaith naturiol cymeriadau ar draws Cymru ac amrywiaeth a chyfoeth ein gwahanol dafodieithoedd. Er cyfieithu’r Beibl i’r Gymraeg a’r gwaith o safoni’r iaith gan greu un iaith Gymraeg lenyddol, sefydlog a chyffredin, iaith ysgrifenedig oedd honno yn bennaf ac, felly, cyfrwng artiffisial gan nas siaredid hi yn gyffredin. Gellid dadlau, felly, mai’r tafodieithoedd a gadwodd yr iaith Gymraeg yn fyw mewn gwahanol gymunedau ar draws Cymru gan mai’r rheiny a siaredid, a bod hynny yn cael ei adlewyrchu yn y corff o lenyddiaeth dafodieithol sy’n bodoli.

Ar y llaw arall y mae i lenyddiaeth dafodieithol ei hanfanteision. Un o’r rheiny yw’r diffyg dealltwriaeth ohoni yn gyffredinol, ac y mae i hyn oblygiadau pellgyrhaeddol. Cyfeiriwyd eisoes at farn J. G. Jones (1983, t.35) wrth feirniadu cerdd yn nhafodiaith Sir Benfro ei bod yn anodd ei deall i “estron” o’r rhan hon o Gymru’, ac, o’r herwydd, ei fod yn colli rhediad y gerdd drwy orfod darllen yr esboniad ochr yn ochr â’r hyn a ysgrifennwyd, a bod hyn yn amharu ar gyfathrebu rhwydd. Un o hanfodion pennaf iaith yw galluogi pobl i gyfathrebu â’i gilydd ac, felly, gall llenyddiaeth dafodieithol amharu ar y cyfathrebu hwnnw:

As one moves through different dialect varieties of a language one moves along a scale of differentiation which may lead to the point of mutually unintelligible dialects. Once mutual unintelligibility has been reached one is faced with the same conditions as pertain to bilingualism (H. Beardsmore, 1986, t.38).

Perygl arall yw bod llenyddiaeth dafodieithol yn tanseilio teithi'r iaith Gymraeg ac yn ychwanegu at dyndra rhwng yr iaith lenyddol a thafodiaith. Wedi dweud hynny, amlygwyd bod yr iaith lenyddol safonol yn newid a bod dadleuon ynglŷn ag union natur yr iaith honno erbyn hyn.

Awgrymwyd y dylid parhau i siarad yn dafodieithol:

Certainly no one wants local dialects to become museum pieces or oddities that only 'other people' use – but the more dialect is spoken, the less chance there is of that happening (R. Scollins a J. Titford, 2000, t.13).

Yn wir, awgryma A. Thomas (2018) y dylid addysgu tafodieithoedd yr ardal leol mewn ysgolion er mwyn cyfoethogi diwylliant a hunaniaeth Gymraeg y disgyblion.

Gellid dadlau, yn yr un modd, bod lle i lenyddiaeth dafodieithol yn ogystal â llenyddiaeth mewn iaith safonol, ac y dylid parhau i ysgrifennu'n dafodieithol er mwyn amlygu'r cyfoeth a'r amrywiaeth ieithyddol a berthyn i'r Gymraeg:

Mae lle i holl amrywiaeth amryliw'r iaith yn ei holl ogoniant, ym mhob ffurf ar lenyddiaeth yn yr un modd ag y mae lle i iaith lenyddol, prin ei chyffyrddiadau tafodieithol. A phob cyfuniad posib yn y canol. Mae'r cyfan yn bwysig, yr holl batrymwaith. Wiw i ni golli'r patrymau a'r lliwiau (Lleucu Roberts, Cyfweliad, 2015).

Pentigily o Dudrath i Dyddewi ac ar hyd Sir Benfro, mae'n amlwg bod yna swyddogaeth a chroeso i lenyddiaeth dafodieithol, gan mai'r hyn a wna yw adlewyrchu iaith bob dydd ei chymeriadau. Tra pery'r dafodiaith yn fyw ar wefusau ei thrigolion dylid ei throsglwyddo i'r ffurf ysgrifenedig, yn gofnod ieithyddol a hanesyddol, fel modd i ddiddanu ac er mwyn arddangos balchder ohoni.



## LLYFRYDDIAETH

### Ffynonellau print

Aitchinson, J. & Carter, H. (1994) *A Geography of the Welsh Language 1961-1991*. Cardiff: University of Wales Press.

Anderson, M. (1998) 'Beirniadaeth Stori fer dafodieithol' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Ogwr 1998*. Llandysul: Gwasg Gomer.

ap Dafydd, I. (2013) 'Dau arwr o'r gorllewin' yn *Barn*, Rhif 611/612, t.79.

ap Gwilym, G. (2005) 'Rhyfyg Defnyddio'r Wefan' yn *Barddas*, Rhif 284, tt.66-68.

ap Gwilym, G. (2006) 'Pwyso a Mesur' yn *Taliesin*, Cyfrol 127, tt.57-66.

ap Gwilym, G. & Llwyd, A. (gol) (1987) *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*. Llandysul: Gwasg Gomer/Cyhoeddiadau Barddas.

Ashton, G. (1976) 'Y Nofel' yn G. Bowen (gol) *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif*. Llandysul: Gwasg Gomer.

Atkins, L. & Wallace, S. (2012) *Qualitative Research in Education*. London: Routledge.

Awbery, G. M. (1978) 'Y Tafodieithoedd Cymraeg' yn Uned Iaith Genedlaethol Cymru (gol) *Cyflwyno'r Iaith Lenyddol*. Y Bontfaen: D. Brown a'i Feibion.

Awbery, G. M. (1984) 'Sentence Particles in Spoken Welsh' in *The Bulletin of the Board of Celtic Studies*, Vol 31, pp.17-30.

Awbery, G. M. (1986a) 'Tafodiaith Sir Benfro' yn E. George (gol) *Abergwaun a'r Fro*. Llandybie: Christopher Davies.

Awbery, G. M. (1986b) *Pembrokeshire Welsh: A Phonological Study*. Cardiff: National Museum of Wales.

Awbery, G. M. (1991) *Cymraeg Sir Benfro*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch.

Awbery, G. M. (1993) 'The Welsh of North Pembrokeshire' in *Newsletter of the School of Celtic Studies* No.6, pp.25-31.

Awbery, G. M. (2015) 'Mynwenta' yn *Llafar Gwlad*, Rhif 129, tt.10-11.

- Baines, M. (2005) *Yng Ngolau'r Lleuad: Ffaith a Dychymyg yng ngwaith Caradog Prichard*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Baker, C. & Jones, S. P. (1998) *Encyclopaedia of Bilingualism and Bilingual Education*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Ball, M. J. (1988) 'Accounting for linguistic variation: Dialectology' in M. J. Ball (ed) *The Use of Welsh: A Contribution to Sociolinguistics*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Ball, M. J., Griffiths, T. & Jones, G. E. (1988) 'Broadcast Welsh' in M. J. Ball (ed) *The Use of Welsh: A Contribution to Sociolinguistics*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Ball, M. J. & Müller, N. (1992) *Mutations in Welsh*. London: Routledge.
- Barke, J. (ed) (1960) *Poems and Songs of Robert Burns*. London: Tiger Books International.
- Bauer, L. (2002) *An Introduction to International Varieties of English*. Edinburgh: Edinburgh University Press.
- Beaken, M. (1996) *The Making of Language*. Edinburgh: Edinburgh University Press.
- Beard, C. (gol) (2004) *Cerddi Caerdydd*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Beatens Beardsmore, H. (1986) *Bilingualism: Basic Principles*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Bevan, H. (1971) 'Cwmwl haf' yn *Y Traethodydd*, Hydref, tt.296-302.
- Birmingham, P. (2000) 'Reviewing the Literature' in D. Wilkinson (ed) *The Researcher's Toolkit: The Complete Guide to Practitioner Research*. London: Routledge.
- Blake, B. J. (2008) *All About Language*. Oxford: Oxford University Press.
- Blake, N. J. (1981) *Non-standard Language in English Literature*. London: Andre Deutsch Limited.
- Blaxter, L., Hughes, C. & Tight, M. (2010) *How to Research* (4th ed). Maidenhead: Open University Press.
- Bolinger, D. & Sears, D. A. (1981) *Aspects of Language* (3<sup>rd</sup> ed). Florida: Harcourt Brace Jovanovich College Publishers.

- Brook, G. L. (1973) *Varieties of English*. London: The Macmillan Press.
- Brook, G. L. (1978) *English Dialects* (3<sup>rd</sup> ed). London: Andre Deutsch Limited.
- Bryman, A. (2008) *Social Research Methods* (3<sup>rd</sup> ed). Oxford: Oxford University Press.
- Burling, R. (1992) *Patterns of Language: Structure, Variation, Change*. London: Academic Press Ltd.
- Burt, O. & Jones, C. (eds) (1995) *Voices at the Door: An Anthology of Favourite Poems*. Cardiff: University of Wales Press on behalf of Shelter Cymru.
- Carter, H. (1988) *Diwylliant, Iaith a Thiriogaeth*. Llundain: Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig.
- Charles, B. G. (1971) 'The English Element in Pembrokeshire Welsh' in *Studia Celtica*, Volume 6, pp.103-137.
- Chin, N. B. & Wigglesworth, G. (2007) *Bilingualism: an advanced research book*. London: Routledge.
- Chomsky, N. (1986) *Knowledge of Language: Its Nature, Origin and Use*. Westport: Praeger Publishers.
- Clough, P. & Nutbrown, C. (2012) *A Student's Guide to Methodology* (3<sup>rd</sup> ed). London: Sage.
- Cohen, L., Manion, L. & Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education* (7<sup>th</sup> ed). Oxford: Routledge.
- Colvin, S. (1999) *Dialect in Aristophanes*. Oxford: Clarendon Press.
- Coulmas, F. (2005) *Sociolinguistics: The study of speakers' choices*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Coupland, N. (1988) *Dialect in Use: Sociolinguistic Variation in Cardiff English*. Cardiff: University of Wales Press.
- Creswell, J. W. (1998) *Qualitative Inquiry and Research Design*. London: Sage.
- Creswell, J. W. (2003) *Research Design: Qualitative, Quantitative, and Mixed Methods Approaches* (2<sup>nd</sup> ed). London: Sage.
- Crystal, D. (1995) *The Cambridge Encyclopaedia of The English Language*. Cambridge: Cambridge University Press.

- Crystal, D. (2011) 'Beirniadu bratiaith yn gwneud niwed'. Sylwadau mewn erthygl gan N. Tudur yn *Golwg*, 9 Mehefin, t.8.
- Dafis, L. L. (2013) 'Cyflwyniad' yn W. Owens *Rhint y Gelaets a'r Grug: Tafodiaith Sir Benfro*. Talybont: Y Lolfa.
- Davies, B. M. (1988) 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Goron' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Casnewydd 1988*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Davies, C. (1988) 'Cymraeg Byw' in M. J. Ball (ed) *The Use of Welsh: A Contribution to Sociolinguistics*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Davies, D. J. (1965) 'Dewi Emrys' yn W. J. Gruffydd (gol) *Wedi Storom : Cyfrol Goffa Dewi Emrys*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Davies, E. C. & Phillips, J. T. (gol) (1925) *Awelon Oes: Cofiant a Barddoniaeth Brynach*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Davies, G. A. (1988) 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Goron' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Casnewydd 1988*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Davies, J. (1993) *The Welsh Language*. Cardiff: University of Wales Press.
- Davies, J. (2013) *Dala'r slac yn dynn*. Talybont: Y Lolfa.
- Davies, S. (2013) 'Beirniadaeth Stori feiddgar' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Davis, M. (1998) 'Priodol iaith y Llenor' yn *Taliesin*, Cyfrol 102, tt.26-38.
- Denscombe, M. (2002) *Ground Rules for Good Research*. Buckingham: Open University Press.
- Denzin, N. K. & Lincoln, Y. S. (2011) *The SAGE Handbook of Qualitative Research*. London: Sage.
- Dodson, C. J. (1995) 'The Effects of Second Language Education on First / Second Language Development' in B. M. Jones & P. Ghuman (eds) *Bilingualism, Education and Identity*. Cardiff: University of Wales Press.
- Dowling, P. & Brown, A. (2010) *Doing Research/Reading Research*. London: Routledge.

- Downes, W. (1998) *Language and Society* (2<sup>nd</sup> ed). Cambridge: Cambridge University Press.
- Eames, M. (1998) 'Priodol iaith y Llenor' yn *Taliesin*, Cyfrol 102, tt.26-38.
- Edwards, J. (2013) *Sociolinguistics: A Very Short Introduction*. Oxford: Oxford University Press.
- Edwards, J. M. (1949) 'Adolygiad o Gerddi'r Bwthyn' yn *Y Llenor*, Cyfrol XXVIII, tt.47-49.
- Edwards, O. M. (1896) *Cartrefi Cymru*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Edwards, O. M. (gol) (1908) *Yr Hen Ficer*. Conwy: R. E. Jones a'i Frodyr.
- Elis, I. Ff. (1998) 'Priodol iaith y Llenor' yn *Taliesin*, Cyfrol 102, tt.26-38.
- Ellis, M. (1994) 'Literary Dialect as Linguistic Evidence: Subject-Verb Concord in Nineteenth-Century Southern Literature' in *American Speech*, Vol. 69, No. 2, pp.128-144.
- Emrys, D. (1926) 'Pwllderi' yn *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926*. Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Emrys, D. (1937a) *Ysgrifau*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Emrys, D. (1937b) *Daniel Owen : Awdl Fuddugol Eisteddfod Llundain 1936*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Emrys, D. (gol) (1938) *Beirdd y Babell*. Wrecsam: Hughes a'i Fab.
- Emrys, D. (1944) 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Bryddest' yn *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Llandybie 1944*. Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Emrys, D. (1948) *Cerddi'r Bwthyn*. Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth.
- Emyr, J. (1976) *Enaid Clwyfus: Golwg ar Waith Kate Roberts*. Dinbych: Gwasg Gee.
- Evans, D. (1984) 'Dewi Emrys' yn D. J. G. Evans (gol) *Deri o'n Daear Ni*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Evans, H. (1889) 'Tyddewi' yn *Cymru Fydd*, Cyfrol II, Rhif 10, tt.584-585.
- Evans, R. A. (gol) (1983) *Rhwng Gŵyl a Gwaith*. Llandybie: Christopher Davies Cyhoeddwyr Cyf.

- Evans, W. R. (1970) 'Llwy Bren' yn J. T. Jones (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Rhydaman 1970*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Evans, W. R. (1978) *Hiwmor*. Crymymch: Asgell Addysg Bellach y Preseli.
- Evans, W. R. (1980) *Fi yw Hwn*. Abertawe: Gwasg Christopher Davies.
- Evans, W. R. (1983) *Awen y Moelydd*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Evans, W. R. (1986a) *Cawl Shir Bemro*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Evans, W. R. (1986b) 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Goron' yn W. Rh. Nicholas (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Abergwaun a'r Fro 1986*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Evans, W. R. (2000) *Cerddi Bois y Frenni*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Fennell, B. (2008) 'Linguistic Choices: Analysing Dialect Representation in Eighteenth-Century Irish and Scottish Literature in English' in *The Journal of Irish and Scottish Studies*, Volume 1, Issue 2, pp.59-70.
- Ferguson, C. A. (1959) 'Diglossia' in *Word* 15, pp.325-340.
- Fife, J. (1986) 'Literary vs. Colloquial Welsh: Problems of definition' in *Word* 37, pp.141-151.
- Fishman, J. A. (1976) *Advances in the Sociology of Language* (2<sup>nd</sup> ed). The Hague: Mouton & Co.
- Fontana, A. & Frey, J. H. (2003) 'The Interview: From Structured Questions to Negotiated Text' in N. K. Denzin & Y. S. Lincoln (eds) *Collecting and Interpreting Qualitative Materials*. London: Sage.
- Freeborn, D., French, P. & Langford, D. (1986) *Varieties of English: An Introduction to the Study of Language*. London: Macmillan Education Limited.
- Fromkin, V. & Rodman, R. (1993) *An Introduction to Language* (5<sup>th</sup> ed). Fort Worth: Harcourt Brace College Publishers.
- George, E. (1983) 'Rhagair' i *Awen y Moelydd*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- George, E. (gol) (1995) *Blodeugerdd y Preselau*. Caernarfon: Cyhoeddiadau Barddas.

- George, E. (1996) *Llynnoedd a cherddi eraill*. Caernarfon: Gwasg Gwynedd.
- George, E. (gol) (2000) *Estyn yr Haul*. Llandybie: Cyhoeddiadau Barddas.
- George, E. (2001) *Gwŷr Llên Sir Benfro yn yr Ugeinfed Ganrif*. Caernarfon: Gwasg Gwynedd.
- George, E. (2010) *Fel Hyn y Bu*. Talybont: Y Lolfa.
- George, E. (2011) *Hiwmor y Preseli*. Talybont: Y Lolfa.
- George, E. (2013) 'Rhagair' yn *O'r Taf i'r Teifi*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- George, E. (gol) (2016) *Perci Llawn Pobol*. Talybont: Y Lolfa.
- Glynn, A. (2007) 'Plethiad Cyfrin', Adolygiad o Y Gemydd yn *Taliesin*, Cyfrol 131, tt.155-157.
- Gower, J. (2014) 'Beirniadaeth Portread o gynefin neu fro' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr 2014*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Graddol, D., Cheshire, J. & Swann, J. (1994) *Describing Language* (2<sup>nd</sup> ed). Buckingham: Open University Press.
- Gray, D. E. (2009) *Doing Research in the Real World* (2<sup>nd</sup> ed). London: Sage.
- Griffiths, B. (1970) 'Prynu Dol' yn *Y Genhinen*, Cyfrol xx, tt.105-109.
- Griffiths, G. (gol) (1982) *Wês, Wês – Shwrne 'to*. Boncath: Cyhoeddiadau'r Frenni.
- Griffiths, G. (gol) (1994) *Wês, Wês Pentigily*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Griffiths, G. (2014) 'Adolygiad o Wilia' yn 'Barddas bach y Dolig' yn *Barddas*, Rhif 325, tt.7-8.
- Griffiths, G. (2015) *Gwyn Griffiths: Ar Drywydd Stori*. Talybont: Y Lolfa.
- Griffiths, G. & Phillips, J. (1976) *Wês, Wês*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Griffiths, G. & Phillips, J. (1978) *Wês, Wês – Wêth*. Boncath: Cyhoeddiadau'r Frenni.

- Griffiths, H. (2016) 'Adolygiad o Nes Draw' yn *Taliesin*, Cyfrol 157, tt.130-132.
- Gruffudd, R. (1998) 'Priodol Iaith y Llenor' yn *Taliesin*, Cyfrol 102, tt.26-38.
- Gruffydd, G. (1927) 'Adolygiad o Deian a Loli, stori am blant gan Kate Roberts' yn *Y Llenor* 6, t.61.
- Gruffydd, R. (1986) 'Beirniadaeth y Fedal Ryddiaith' yn W. Rh. Nicholas (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru Abergwaun a'r Fro 1986*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Gwenallt. (1960) *Gwreiddiau*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Gwynn, E. (1998) 'Priodol Iaith y Llenor' yn *Taliesin*, Cyfrol 102, tt.26-38.
- Hammerly, H. (1989) *French Immersion: Myths and Reality*. Calgary, Alberta: Detselig Enterprises Ltd.
- Harris, P. V. (1974) *Guide to Place Names and Dialects of Pembrokeshire* (revised edition). Tenby: H. G. Walters.
- Hodson, J. (2014) *Dialect in Film & Literature*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.
- Hopwood, M. (gol) (2002) *Cerddi Sir Benfro*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Hopwood, M. (2015) *Nes Draw*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Howells, E. (1991) *Dim ond Pen Gair: Casgliad o ddywediadau Ceredigion*. Aberystwyth: Cymdeithas Lyfrau Ceredigion.
- Hudson, G. (2000) *Essential Introductory Linguistics*. Oxford: Blackwell Publishers Ltd.
- Hughes, A. & Trudgill, P. (1996) *English Accents and Dialects: An introduction to social and regional varieties of English in the British Isles* (3<sup>rd</sup> ed). London: Arnold.
- Hughes, H. (2014) *Tafodiaith Sir Benfro / Pembrokeshire Dialect*. Menter Iaith Sir Benfro.
- Hughes, M. (1966) 'Beirniadaeth Cân Dafodiaith' yn S. J. Williams (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Aberafan a'r Cylch 1966*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Hughes, M. L. (1988) 'Rhagymadrodd' i *Sioned: Darluniau o fywyd gwledig yng Nghymru*. Caerdydd: Honno.



- Hughes, N. M. (2010) 'Adolygiad o Gwyn Eu Byd' yn *Taliesin*, Cyfrol 140, tt.126-128.
- Hughes, V. (2006) 'Pwyso a Mesur' yn *Taliesin*, Cyfrol 127, tt.57-66.
- Hughes, V. (2010) 'Dim osgoi dysgwyr' yn *Barn*, Rhif 572, tt.39-40.
- Hughes, V. (2013) 'Prifwyl y Tafodieithoedd' yn *Barn*, Rhif 608, tt.45-46.
- Hughes, V. (2014) 'Dynasty'r Pethe' yn *Barn*, Rhif 623/4, t.70.
- Hughes, V. (2016) 'Adolygiad o Perci Llawn Pobl' yn *Barn*, Rhif 642/3, t.85.
- Hunt, A. (2005) *Your Research Project: how to manage it*. London: Routledge.
- Ifan, W. (1926) 'Beirniadaeth Cerdd mewn Tafodiaith Leol' yn *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926*. Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Ifans, D. (gol) (1993) *Annwyl Kate, Annwyl Saunders : Gohebiaeth 1923 – 1983*. Aberystwyth: Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- Ilhem, S. (2012) 'Cultural Outlook of Literary Dialect in *Hard Times* and *Silas Marner*' in *Journal of Interdisciplinary Studies in Humanities*, Volume IV, No. 1, pp.80-90.
- Iorwerth, D. (2012) 'Beirniadaeth Erthygl addas ar gyfer eich papur bro' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Islwyn, A. (2014) 'Llais a lleisiau croyw' yn *Barn*, Rhif 620, tt.33-34.
- Islwyn, A. (2017) 'O'r Senedd i'r lladd-dy' yn *Barn*, Rhif 647/648, t.72.
- Ives, S. (1971) 'A Theory of Literary Dialect' in J. V. Williamson & V. M. Burke (eds) *A Various Language Perspectives on American Dialects*. New York: Holt, Rinehart & Winston.
- Iwrg, D. (1926) 'Rhobat Wyn' yn *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926*. Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol.
- James, A. (2011) *John Morris-Jones*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Jenkins, D. (1999) 'Datblygiad y Nofel Gymraeg ar ôl Daniel Owen' yn G. Williams (gol) *Rhyddid y Nofel*. Llandybie: Gwasg Dinefwr.

Jenkins, G. (gol) (1999) *Llyfr y Ganrif*. Talybont: Y Lolfa.

Jenkins, G. H. (1997) 'Adfywiad yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg 1660-1800' yn G. H. Jenkins (gol) *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Jenkins, G. H. (1999) "Cymru, Cymry a'r Gymraeg': Rhagymadrodd' yn G. H. Jenkins (gol) *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd 1801-1911*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Jenkins, G. H., Suggett, R. & White, E. M. (1997) 'Yr Iaith Gymraeg yn y Gymru Fodern Gynnar' yn G. H. Jenkins (gol) *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

John, B. (1995) *Pembrokeshire Past and Present*. Newport: Greencroft Books.

John, B. S. (1972) 'The Linguistic Significance of the Pembrokeshire Landsker' in *The Pembrokeshire Historian*, Volume 4, pp.7-29.

Johnston, D. (1998) *Llenyddiaeth Cymru*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Jones, A. (1999) 'Yr Iaith Gymraeg a Newyddiaduraeth' yn G. H. Jenkins (gol) *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd 1801-1911*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Jones, A. L. (gol) (1981) *Tafell o Ddyffryn Teifi*. Llandysul: Gwasg Gomer.

Jones, B. (1995) 'Llafar Safonol a Thafodiaith' yn *Barn*, Rhif 389, tt.54-55.

Jones, B. (2004) 'Waldo – y bardd catholig' yn *Clebran: Papur Bro'r Preseli*, Rhif 328, t.6.

Jones, B. L. (1971) 'Waldo Williams : Triniwr Daear Dyfed' yn *Y Traethodydd*, Cyf CXXVI, 540, tt.261-268.

Jones, B. L. (1986) 'Beirniadaeth Cerdd mewn tafodiaith' yn W. Rh. Nicholas (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Abergwaun a'r Fro 1986*. Llandysul: Gwasg Gomer.

Jones, B. M. (1993) *Ar Lafar ac ar Bapur*. Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg.

- Jones, C. M. (1996) 'Tafodiaith a Barddoniaeth' yn J. E. C. Williams (gol) *Ysgrifau Beirniadol xxi*. Dinbych: Gwasg Gee.
- Jones, C. M. (1997) 'Golwg ar y Llafar a'r Llenyddol' yn J. E. C. Williams (gol) *Ysgrifau Beirniadol xxiii*. Dinbych: Gwasg Gee.
- Jones, C. M. (1998) 'Sir Benfro a'r Gerdd Dafodiaith' yn *Llên Cymru*, Cyfrol 21, tt.139-150.
- Jones, C. M. (2006a) 'Llenyddiaeth mewn Tafodiaith: Tafodiaith mewn Llenyddiaeth' yn O. Thomas (gol) *Llenyddiaeth mewn Theori Cyfrol 1*. Llanbedr Pont Steffan: Y Ganolfan Ymchwil Geltaidd ac Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan.
- Jones, C. M. (2006b) 'Tafodiaith Bro Maenclochog' yn H. Wyn (gol) *Mamgu, Siân Hwêl a Naomi: Hanes a Hudoliaeth Bro Maenclochog*. Maenclochog: Clychau Clochog.
- Jones, C. M. & Thorne, D. (1992) *Dyfed: Blas ar ei thafodieithoedd*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, D. (1992) 'Gwreca' yn *Golwg*, Cyfrol 5, Rhif 12, t.14.
- Jones, D. G. (1946) *Y Ficer Prichard a 'Canwyll y Cymry'*. Caernarfon: Cwmni'r Llan a Gwasg yr Eglwys yng Nghymru.
- Jones, D. G. (1976) 'Y Ddrama Ryddiaith' yn G. Bowen (gol) *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Ugeinfed Ganrif*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, D. G. (1988) 'Literary Welsh' in M. J. Ball (ed) *The Use of Welsh: A Contribution to Sociolinguistics*. Clevedon: Multilingual Matters.
- Jones, E. (2006) 'Pwyso a Mesur' yn *Taliesin*, Cyfrol 127, tt.57-66.
- Jones, E. C. & Hughes, J. (gol) (1974) *Y Llawlyfr Moliant Newydd*. Abertawe: Undeb Bedyddwyr Cymru a Mynwy.
- Jones, G. R. (1986) 'Cynhaeaf da yn Abergwaun' yn *Barddas*, Rhif 113, t.3.
- Jones, H. P. (1986) 'Beirniadaeth y Fedal Ryddiaith' yn W. Rh. Nicholas (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru Abergwaun a'r Fro 1986*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, J. (2004) 'Language and Class' in J. Singh & J. S. Peccei (eds) *Language, Society and Power* (2<sup>nd</sup> ed). London: Routledge.

- Jones, J. G. (1983) 'Beirniadaeth y Bryddest' yn T. M. Bassett (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Ynys Môn 1983*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, J. T. (gol) (1977) *Cannwyll y Cymry : Y Ficer Prichard* (ail argraffiad). Abertawe: Hughes a'i Fab.
- Jones, M. (1973) 'The Present Condition of the Welsh Language' in M. Stephens (ed) *The Welsh Language Today*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, N. W. (1983) 'Beirniadaeth y Bryddest' yn T. M. Bassett (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Ynys Môn 1983*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, R. G. (1998) 'Priodol iaith y Llenor' yn *Taliesin*, Cyfrol 102, tt.26-38.
- Jones, R. M. (2000) 'Cymraeg Byw Heddiw' yn *Y Traethodydd*, 155, tt.8-15.
- Jones, R. M. (2007) 'Gwyn Thomas a'r Barchedig iaith' yn J. W. Davies (gol) *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged yr Athro Gwyn Thomas*. Cyhoeddiadau Barddas.
- Jones, R. O. (1993) 'Tafodiaith Cwm Tawe' yn H. T. Edwards (gol) *Cwm Tawe*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, R. O. (1997) *Hir Oes i'r iaith: Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, S. (2005) *Plentyndod ym Mhenfro: Tra'd yn Tir*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch.
- Jones, T. G. (1922) 'Tafodiaith' yn *Y Llenor 1*, tt.233-241.
- Jones, T. J. (1986) 'Y Bryddest : Lluch' yn W. Rh. Nicholas (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Abergwaun a'r Fro 1986*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, T. J. (1988) 'Cerdd y Goron : Ffin' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Casnewydd 1988*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, T. J. (2009) 'Adolygiad o Pentigily' yn *Taliesin*, Cyfrol 137, tt.150-151.
- Jones, T. J. (2010) 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Goron', yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd 2010*. Llandysul: Gwasg Gomer.

- Jones, T. J. (2014a) *Cymanfa*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Jones, T. J. (2014b) *Jim Parc Nest*. Cyhoeddiadau Barddas.
- Jones, T. J. (2016a) 'I Meilyr Llwyd' yn *Barddas*, Rhif 330, t.39.
- Jones, T. J. (2016b) 'Annwyl Twm' yn *Barddas*, Rhif 331, t.33.
- Jones, T. Ll. (1981) *Dewi Emrys*. Cyhoeddiadau Barddas.
- King, G. (1996) *Basic Welsh: A Grammar and Workbook*. London: Routledge.
- King, G. (2016) *Modern Welsh: A Comprehensive Grammar*. London: Routledge.
- Kumar, R. (2014) *Research Methodology* (4<sup>th</sup> ed). London: Sage.
- Legard, R., Keegan, J. & Ward, K. (2003) 'In-depth Interviews' in J. Ritchie & J. Lewis (eds) *Qualitative Research Practice*. London: Sage.
- Leigh, P. J. (2011) *A Game of Confidence: Literary Dialect, Linguistics and Authenticity* (PhD Dissertation). Austin: The University of Texas.
- Lewis, C. (2004) *Martha, Jac a Sianco*. Talybont: Y Lolfa.
- Lewis, D. M. (gol) (2003) *Cerddi Powys*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Lewis, E. (2006) 'Pwyso a Mesur' yn *Taliesin*, Cyfrol 127, tt.57-66.
- Lewis, H. (1943) *Yr Efen Ladin yn yr Iaith Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Lewis, H. (1983) *Datblygiad yr Iaith Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Lewis, S. (1927) *Williams Pantycelyn*. Llundain: Purnell a'i Feibion.
- Lewis, S. (1936) *Daniel Owen*. Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth.
- Lewis, S. (1965) 'Arddull' yn J. G. Griffiths (gol) *D J Williams Abergwaun: Cyfrol Deyrnged*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Lewis, S. (1971) 'Mesur a Phwyso' yn E. Phillips *Dewi Emrys*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Lewis, S. (1981) *Meistri a'u Crefft*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

- Lier, L. V. (1995) *Introducing Language Awareness*. London: Penguin Books.
- Lloyd, N. (gol) (1994) *Cerddi'r Ficer : Detholiad o gerddi Rhys Prichard*. Cyhoeddiadau Barddas.
- Llwyd, A. (1986) 'Golygyddol' yn *Barddas*, Rhif 113, tt.4-5.
- Llwyd, A. (1997) 'Dewi Emrys' yn R. Rhys (gol) *Patrwm Amryliw (cyfrol 1)*, Llandybie: Gwasg Dinefwr.
- Llwyd, A. (2011) *Kate : Cofiant Kate Roberts 1891-1985*. Talybont: Y Lolfa.
- Llwyd, A. (2014) *Waldo : Cofiant Waldo Williams 1904-1971*. Talybont: Y Lolfa.
- Llwyd, A. & Rhys, R. (gol) (2014) *Waldo Williams : Cerddi 1922-1970*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Llwyd, S. (1895a) 'Adgofion a Chynghorion Wncwl Huw I' yn *Cymru*, Cyfrol IX, Rhif 48, tt.42-43.
- Llwyd, S. (1895b) 'Adgofion a Chynghorion Wncwl Huw II' yn *Cymru*, Cyfrol IX, Rhif 49, tt.79-80.
- Llwyd, S. (1895c) 'Adgofion a Chynghorion Wncwl Huw IV' yn *Cymru*, Cyfrol IX, Rhif 51, tt.169-170.
- Llwyd, S. (1895d) 'Adgofion a Chynghorion Wncwl Huw V' yn *Cymru*, Cyfrol IX, Rhif 51, tt.170-173.
- Llwyd, S. (1896) 'Adgofion a Chynghorion Wncwl Huw XIII' yn *Cymru*, Cyfrol XI, Rhif 60, tt.35-37.
- Llywelyn, R. (2007) ar glawr *Y Gemydd*. Talybont: Y Lolfa.
- Lowe, J. (2010) 'Four Spellings and a Strategy' yn H. G. Lewis & N. Ostler (eds) *Reversing Language Shift: How to Reawaken a Language Tradition*. Bath: The Foundation for Endangered Languages.
- Marshall, W. (2011) 'An Eisteddfod for Yorkshire? Professor Norman and the Use of Dialect' in *Yorkshire Archaeological Journal*, Vol 83, pp.199-217.
- McEwan, E. K. & McEwan, P. J. (2003) *Making Sense of Research: What's Good, What's Not and How to Tell the Difference*. California: Corwin Press.

- McNeill, P. (1990) *Research Methods* (2<sup>nd</sup> ed). London: Routledge.
- Meek, E. (2005) *Cwrs Mynediad : Pecyn Ymarfer*. Caerdydd: Cydbwyllgor Addysg Cymru.
- Millward, E. G. (1983) 'Enoc Huws' yn *Daniel Owen (Cyfrol 2)*. Llandybie: Christopher Davies.
- Moorman, F. W. (compiler) (1917) *Yorkshire Dialect Poems* (2<sup>nd</sup> ed). London: Sidgwick and Jackson.
- Morgan, D. (1970) 'Beirniadaeth Cerdd Dafodiaith' yn J. T. Jones (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Rhydaman 1970*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Morgan, D. Ll. (1980) *Islwyn Williams a'i Gymdeithas*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Morgan, D. Ll., ap Glyn, I. & Davies, J. W. (2005) 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Goron' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau 2005*. Caerdydd: Llys yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Morgan, M. (1995) 'Meri a Mwy (ar Sado-Masocistiaeth) neu Ambell Chwip Din neu Sut i shgwennu storis i bobol Cymru os yw'ch Cymraeg yn crap drwy smalio shgwennu fatha plentyn bach mewn tafodiaith a chael getawê' yn *Tu Chwith*, Rhifyn 3, tt.36-45.
- Morgan, M. (1999) *Cyflwyniad i Ffuriau Llenyddol*. Aberystwyth: Y Ganolfan Astudiaethau Addysg.
- Morgan, M. (2000) *Caradog Prichard (Cyfres Llên y Llenor)*. Caernarfon: Gwasg Pantycelyn.
- Morgan, M. (2002) *Pan Oeddw'n Fachgen*. Talybont: Y Lolfa.
- Morgan, T. J. (1937) 'Adolygiad o Ysgrifau gan Dewi Emrys' yn *Y Llenor* 16, tt.190-192.
- Morgan, T. J. (1970) 'Cymraeg Naturiol Gywir' yn J. E. Hughes (gol) *Ysgrifau Beirniadol V*. Dinbych: Gwasg Gee.
- Morris, W. M. (1910) *A Glossary of the Demetian Dialect of North Pembrokeshire*. Tonypandy: Evans & Short, General Printers.
- Morris-Jones, J. (1921) *An Elementary Welsh Grammar: Part I Phonology and Accidence*. Oxford: Oxford University Press.

- Morys, T. (2016) 'Annwyl Jim' yn *Barddas*, Rhif 331, t.33.
- Nicholas, J. (1983) 'Beirniadaeth y Bryddest' yn T. M. Bassett (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Ynys Môn 1983*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Nicholas, J. (1986) 'Beirdd Sir Benfro' yn E. George (gol) *Abergwaun a'r Fro*. Llandybie: Christopher Davies.
- Nicholas, W. Rh. (gol) (1961) *Beirdd Penfro*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Nicholas, W. Rh. (1969) *Cerdd a Charol*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Northey, S. (2016) 'Adolygiad o Y Bwthyn' yn *Taliesin*, Cyfrol 157, tt.114-116.
- Nurhussein, N. (2013) *Rhetorics of Literacy: The Cultivation of American Dialect Poetry*. Columbus: The Ohio State University.
- Ogwen, J. (2007) *Glaw a Hindda*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Oishi, S. B. (2003) *How to Conduct In-Person Interviews for Surveys*. London: Sage.
- Owen, D. (1885) (argraffiad diwygiedig 1948) *Hunangofiant Rhys Lewis*. Caerdydd: Hughes a'i Fab.
- Owen, G. (1603) *The Description of Pembrokeshire: George Owen of Henllys*. 1994 edition by D. Miles (ed) Llandysul: Gwasg Gomer.
- Owen, J. (1994) *Pam Fi, Duw, Pam Fi?* Talybont: Y Lolfa.
- Owens, K. (2014) 'Côr Crymych yn Schlosskapelle Schöbrunn' yn *Clebran: Papur Bro'r Preseli*, Rhif 442, t.16.
- Owens, W. (2005) *Y Patshyn Glas*. Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas.
- Owens, W. (2006) 'Pwyso a Mesur' yn *Taliesin*, Cyfrol 127, tt.57-66.
- Owens, W. (2013) *Rhint y Gelaets a'r Grug: Tafodiaith Sir Benfro*. Talybont: Y Lolfa.
- Owens, W. (2017) *Cywain Geiriau*. Caerfyrddin: Gwasg Peniarth.
- Page, N. (1988) *Speech in the English Novel*. Atlantic Highlands, NJ: Humanities Press International.
- Parker, A. (2013) 'Wor on accent' in *Sun*, 15 November 2013, p.27.



- Parrott, G. (1998) *Cwlwm Gwaed*. Talybont: Y Lolfa.
- Parrott, G. (2012) *Cyw Melyn y Fall*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Parrott, G. (2015) *Tra Bo Dwy*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Parry, G. (1999) 'Abergwaun (Sir Benfro)' yn G. Parry & M. A. Williams (gol) *Miliwn o Gymry Cymraeg! Yr iaith Gymraeg a chyfrifiad 1891*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Parry, T. (1945) *Llenyddiaeth Gymraeg 1900-1945*. Lerpwl: Hughes a'i Fab.
- Parry, T. (gol) (1962) *The Oxford Book of Welsh Verse*. Oxford: Oxford University Press.
- Parry, T. (1979) *Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900* (4ydd argraffiad). Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Parry, W. (1906) *Sioned: Darluniau o fywyd gwledig yng Nghymru*. Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwyr Cymreig.
- Penhallurick, R. & Willmott, A. (2000) 'Dialect, England's Dreaming' in R. Penhallurick (ed) *Debating Dialect*. Cardiff: University of Wales Press.
- Petyt, K. M. (1980) *The Study of Dialect: An Introduction to dialectology*. Colorado: Westview Press.
- Phillips, C. (2006) 'Milain yw'r Gwynt. 'Mlaen â'r Gwaith!' yn H. Wyn (gol) *Mamgu, Siân Hwêl a Naomi: Hanes a Hudoliaeth Bro Maenclochog*. Maenclochog: Clychau Clochog.
- Phillips, E. (1971) *Dewi Emrys*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Phillips, E. (1986) 'Dewi Emrys a'r Wennol Wen' yn E. George (gol) *Abergwaun a'r Fro*. Llandybie: Christopher Davies.
- Phillips, V. H. (1985) 'Beirniadaeth Casgliad o eiriau a dywediadau tafodieithol' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru Y Rhyl a'r Cyffiniau 1985*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Powell, R. (2011) 'Parhau â'r drafodaeth am safonau iaith' yn *Golwg*, Cyfrol 23, Rhif 42, t.12.
- Price, A. (2002) *Rhwng Gwyn a Du: Agweddau ar Ryddiaith Gymraeg y 1990au*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Price, G. (1984) 'Welsh as a Literary, Standard and Official Language' in M. J. Ball & G. E. Jones (eds) *Welsh Phonology*. Cardiff: University of Wales Press.

Prichard, C. (1961) *Un Nos Ola Leuad*. Dinbych: Gwasg Gee.

Pritchard, R. A. (1956) 'Adolygiad o Cerddi'r Plant, gan E. Llwyd Williams a Waldo Williams' yn *Lleufer: Cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yng Nghymru*, Cyf X11, Rhif 2, t.102.

Pryce, W. T. R. (1978) 'Welsh and English in Wales, 1750-1071: A Spatial Analysis Based on the Linguistic Affiliation of Parochial Communities' in *The Bulletin of the Board of Celtic Studies*, Cyf XXVIII, Part I, pp.1-35.

Punch, K. F. (2005) *Introduction to Social Research: Quantitative and Qualitative Approaches* (2<sup>nd</sup> ed). London: Sage.

Rees, I. W. (2011) 'Tafodieitha' yn *Llafar Gwlad*, Rhif 112, tt.22-23.

Rees, I. W. (2013) 'Y cyfoeth llafar' yn *Barn*, Rhif 609, tt.48-49.

Reynolds, E. (1986) *Y Border Bach*. Llandysul: Gwasg Gomer.

Rhys, R. (1992) *Chwilio am Nodau'r Gân : Astudiaeth o Yrfa Lenyddol Waldo Williams hyd at 1939*. Llandysul: Gwasg Gomer.

Rhys, R. (2000) *Daniel Owen*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Richards, S. N. (1994) *Y Ficer Prichard* (Cyfres Llên y Llenor). Caernarfon: Gwasg Pantycelyn.

Roberts, E. L. (1994) *Kate Roberts* (Cyfres Llên y Llenor). Caernarfon: Gwasg Pantycelyn.

Roberts, G. M. (1960) *Gwaith Pantycelyn*. Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth.

Roberts, G. M. (gol) (1964) *Gweithiau William Williams Pantycelyn Cyfrol I*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Roberts, J. (2014) 'Adolygiad o'r gyfrol Cymanfa' yn *Barddas*, Rhif 323, tt.54-55.

Roberts, K. (1931) 'Tafodiaith mewn Storiâu' yn *Y Llenor 10*, tt.55-58.

Roberts, K. (1947) 'Cofio Bywyd ac Iaith Cefn Gwlad' yn *Taliesin*, Cyfrol 8, tt.91-96.

- Roberts, K. (1965) 'Cymdeithas Bro a'r Storiwr' yn J. H. Griffiths (gol) *D J Williams Abergwaun: Cyfrol Deyrnged*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Roberts, K. (1969) *Prynu Dol*. Dinbych: Gwasg Gee.
- Roberts, K. (1971) 'Sylwadau ar Storiau Islwyn Williams' yn J. E. C. Williams (gol) *Ysgrifau Beirniadol VI*. Dinbych: Gwasg Gee.
- Roberts, Ll. (2014) *Saith Oes Efa*. Talybont: Y Lolfa.
- Roberts, W. O. (1998) 'Priodol Iaith y Llenor' yn *Taliesin*, Cyfrol 102, tt.26-38.
- Rowlands, D. (1986) 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Goron' yn W. Rh. Nicholas (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Abergwaun a'r Fro 1986*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Rowlands, D. (1995) *Licyris Olsorts*. Caerdydd: Hughes a'i Fab.
- Rumsey, S. (2004) *How to Find Information: a guide for researchers*. Maidenhead: Open University Press.
- Sachdev, I. & Giles, H. (2006) 'Bilingual Accommodation' in T. K. Bhatia & W. C. Ritchie (eds) *The Handbook of Bilingualism*. Oxford: Blackwell.
- Saer, D. R. (2001) 'Elfed: cawr ar goesau byr' yn *Y Traethodydd*, Cyf. 156, tt.250-251.
- Salveson, P. (1993) *Region, Class, Culture: Lancashire Dialect Literature 1746-1835*, (PhD Thesis in 2 volumes). Salford: University of Salford.
- Scollins, R. & Titford, J. (2000) *Ey Up Mi Duck! Dialect of Derbyshire and the East Midlands*. Newbury: Countryside Books.
- Sharp, J. (2009) *Success with your Education Research Project*. Exeter: Learning Matters.
- Shorrocks, G. (1996) 'Non-standard Dialect Literature and Popular Culture' in J. Klemola, M. Kyto & M. Rissanen (eds) *Speech Past and Present: Studies in English Dialectology in Memory of Ossi Ihalainen*. Frankfurt am Main: Peter Lang.
- Silverman, D. (2000) *Doing Qualitative Research: A Practical Handbook*. London: Sage.
- Smart, R. (2013) *O'r Taf i'r Teifi*. Llandysul: Gwasg Gomer.

- Stephens, M. (gol) (1997) *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (2il arg). Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Stephens, M. (2012) *Hunangofiant Meic Stephens: Cofnodion*. Talybont: Y Lolfa.
- Stephens, M. (2014) *Wilia: Cerddi 2003-2013*. Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas.
- Sternglass, M. S. (1975) 'Dialect Literature: Positive Reinforcer for Writing "In" and "Out" of Dialect' in *College Composition and Communication*, Vol. 26, No. 2, pp.201-204.
- Taliesin. (gol) (1998) 'Priodol iaith y Llenor' yn *Taliesin*, Cyfrol 102, tt.26-38.
- Thomas, A. (2014) *Tommo: Stori'r Sŵn Mawr*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Thomas, A. R. (1973) *The Linguistic Geography of Wales*. Cardiff: University of Wales Press.
- Thomas, B. (1993) 'Yn Felys ar y Tafod ac yn Soniarus ar y Glust': Agweddau at Dafodiaith' yn *Papurau Gwaith Ieithyddol Cymraeg Caerdydd Rhif 7 / Cardiff Working Papers in Welsh Linguistics Number 7*, pp.57-69.
- Thomas, B. (2000) 'The Riches of the Past? Recording Welsh Dialects' in H. Jenkins & M. A. Williams (eds) *Let's Do Our Best for the Ancient Tongue : The Welsh Language in the Twentieth Century*. Cardiff: University of Wales Press.
- Thomas, B. & Thomas, P. W. (1989) *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg..... Cyflwyno'r Tafodieithoedd*. Caerdydd: Gwasg Taf.
- Thomas, C. H. (1967) 'Adolygiad o Cymraeg Byw, Rhifyn 2; Y Cydbwyllgor Addysg Cymreig, 1967' yn *Llên Cymru*, 9, tt.242-249.
- Thomas, C. H. (1993) 'Rhyddiaith D. J. Williams' yn *Llên Cymru*, Cyfrol 17, Rhifyn 3 a 4, tt.291-303.
- Thomas, G. (1977) *Ymarfer Ysgrifennu*. Abertawe: Christopher Davies Cyf.
- Thomas, G. (2012) *Ymarfer Ysgrifennu Cymraeg*. Talybont: Y Lolfa/ CBAC.
- Thomas, N. (1985) *Waldo* (Cyfres Llên y Llenor). Caernarfon: Gwasg Pantycelyn.

- Thorne, D. (1985) *Cyflwyniad i astudio'r iaith Gymraeg*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Thorne, D. (1988) *Yr Arolwg o Dafodieithoedd Dyfed*. Llanbedr Pont Steffan: Coleg Prifysgol Dewi Sant.
- Thorne, D. (2000) *Gafael mewn Gramadeg*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Tomos, A. (1998) 'Priodol iaith y Llenor' yn *Taliesin*, Cyfrol 102, tt.26-38.
- Toolan, M. (1992) 'The Significations of Representing Dialect in Writing' in *Language and Literature*, Volume 1, Issue 1, pp.29-46.
- Trask, R. L. (1995) *Language: the basics*. London: Routledge.
- Trask, R. L. (2007) *Language and Linguistics: The Key Concepts*. London: Routledge.
- Trudgill, P. (1975) *Accent, Dialogue and the School*. London: Edward Arnold.
- Trudgill, P. (1983) *On Dialect: Social and Geographical Perspectives*. Oxford: Basil Blackwell.
- Trudgill, P. (1990) *The Dialects of England*. Oxford: Basil Blackwell.
- Trudgill, P. (1994) *Dialects*. London: Routledge.
- Tudur, N. (2011) 'Adolygiad o Hen Blant Bach' yn *Taliesin*, Cyfrol 143, tt.146-148.
- Wade-Evans, A. (1907) 'Fishguard Welsh (Cwmrag Abergwaun)' in *Transactions of the Guild of Graduates for the Year 1906*, pp.21-34.
- Wakelin, M. F. (1977) *English Dialects: An Introduction* (revised edition). London: Athlone Press.
- Watkins, T. A. (1961) *Ieithyddiaeth: Agweddau ar Astudio Iaith*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Wiliam, M. (1990) *Blas ar Iaith Blaenau'r Cymoedd*. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch.
- Williams, B. M. (2013) *O! tyn y gorchudd: Clasur Cyfoes?* Traethawd MPhil, Prifysgol Aberystwyth.
- Williams, C. (2009) 'Adolygiad o Cân yr Oerwynt' yn *Taliesin*, Cyfrol 137, tt.142-143.

- Williams, D. G. (2013) 'Adolygiad o Cofnodion: Hunangofiant Meic Stephens' yn *Taliesin*, Cyfrol 148, tt.104-107.
- Williams, D. J. (1953) *Hen Dŷ Ffarm*. Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth.
- Williams, E. Ll. (1957) *Tir Hela*. Llandybie: Christopher Davies.
- Williams, E. Ll. (1958) *Crwydro Sir Benfro (Y Rhan Gyntaf)*. Llandybie: Llyfrau'r Dryw.
- Williams, E. Ll. & Williams, W. (1936) *Cerddi'r Plant*. Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth.
- Williams, G. (2003) 'Beirniadaeth Cystadleuaeth y Goron', yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau 2003*. Llandybie: Gwasg Dinefwr.
- Williams, G. J. (1943) 'Beirniadaeth Cerdd Dafodiaith' yn W. Morris (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1943*. Lerpwl: Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Williams, I. (1946) *Cap Wil Tomos a storïau eraill*. Llandybie: Llyfrau'r Dryw.
- Williams, I. (1949) 'Sgwrs rhwng dau' yn *Crefft y Stori Fer*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Williams, I. (1951) *Cap Wil Tomos (Drama Un Act)*. Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth.
- Williams, I. (1954) *Storïau a Phortreadau*. Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth.
- Williams, J. E. C. (1972) 'Cefndir Ysgrifennu Creadigol' yn J. E. C. Williams (gol) *Ysgrifennu Creadigol*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Williams, Rh. (1984) 'Beirniadaeth Cerdd mewn tafodiaith' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Llanbedr Pont Steffan a'r Fro 1984*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Williams, Rh. (1988) 'Y Bryddest' yn *Barddas*, Rhif 138, tt.9-10.
- Williams, W. (1927) 'Galw'r let (Ar Ffordd Fowr yn Shir Bemro)' yn *Y Faner*, 13 Medi, t.5.
- Williams, W. (1956) *Dail Pren*. Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth.

- Williams, W. (1966) 'Beirniadaeth Cân Dafodiaith' yn S. J. Williams (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Aberafan a'r Cylch 1966*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Williams-Parry, R. (1926) 'Beirniadaeth Cerdd mewn Tafodiaith Leol' yn *Cofnodion a Chyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926*. Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Wisker, G. (2008) *The Postgraduate Research Handbook* (2<sup>nd</sup> ed). Basingstoke: Palgrave Macmillan.
- Wolfram, W. (1997) 'Dialect in Society' in F. Coulmas (ed) *The Handbook of Sociolinguistics*. Oxford: Blackwell.
- Worthen, J. (2001) 'Lawrence as dramatist' in A. Fernihough (ed) *The Cambridge Companion to D H Lawrence*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Wray, A., Trott, K. & Bloomer, A. (1998) *Projects in Linguistics*. London: Arnold.
- Wright, S. B. (2002) *Thomas Hardy: The Essential Reference to His Life and Work*. New York: Facts on File.
- Wyn, H. (2008) *Dilyn Llwybr Arfordir Sir Benfro Pentigily*. Talybont: Y Lolfa.
- Wyn, H. (2010) 'Chuck Berry a Bois y Frenni' yn *Barn*, Rhif 565, tt.38-39.
- Wyn, H. (gol) (2011) *O'r Witwg i'r Wern*. Cymdeithas Cwm Cerwyn.
- Wyn, H. (2013) 'Haka Penclippin' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Wyn, H. (2014a) 'Portread o gynefin neu fro' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Gâr 2014*. Llandysul: Gwasg Gomer.
- Wyn, H. (2014b) 'Colofn' yn *The Pembrokeshire Herald*, 7 Tachwedd 2014, t.50.
- Wynne, G. (2013) 'Beirniadaeth Ymdriniaeth â 50 o eiriau tafodieithol o un ardal benodol' yn J. E. Hughes (gol) *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Ddinbych a'r Cyffiniau 2013*. Llandysul: Gwasg Gomer.

Y *Beibl Cymraeg Newydd*. (1988) Swindon: Cymdeithas y Beibl.

Y Cyd-Bwyllgor Addysg Cymreig (1967) *Cymraeg Byw Rhifyn 2*.  
Caerdydd: Y Cyd-Bwyllgor Addysg Cymreig.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2004) *Cyfrifiad 2001 : Adroddiad ar yr iaith Gymraeg*. Llundain: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Yates, S. J. (2004) *Doing Social Science Research*. London: Sage.

Yule, G. (1985) *The Story of Language*. Cambridge: Press Syndicate of the University of Cambridge.

### **Rhaglen deledu**

'Gwlad Beirdd: Dewi Emrys' (2015). S4C, 19 Awst.

### **Ffynonellau ar-lein**

Antur, G. (2016) *Bardd Gwlad*

Ar gael ar: [https://wici.porth.ac.uk/index.php/Bardd\\_Gwlad](https://wici.porth.ac.uk/index.php/Bardd_Gwlad)

(Cyrchwyd: 29 Medi 2016)

ap Glyn, I. (2011) *Dysgu Cymraeg yn lladd tafodiaith?*

Ar gael ar:

<http://www.golwg360.com/newyddion/iaith/45011-dysgu-cymraeg-yn-lladd-tafodiaith>

(Cyrchwyd: 10 Tachwedd 2013)

Awbery, G. M. (2014) 'Cyweiriau Llafar ac Ysgrifenedig y Gymraeg' yn D. Prys (gol) *Ysgrifau ar Ieithyddiaeth y Gymraeg*

Ar gael ar:

<https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1782~4s~tatfzEgh>

(Cyrchwyd: 8 Rhagfyr 2014)

Baner ac Amserau Cymru. (1896) 'Eisteddfod Treletert' yn rhifyn 27

Mehefin, t.8

Ar gael ar:

<https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/4298559/4298567/85/eisteddfod%20treletert>

(Cyrchwyd: 18 Rhagfyr 2018)

Barddas. (2015) *Hetty Bechler : Aelod Hynaf Barddas yn 100 oed!*

Ar gael ar:

[http://www.barddas.com/barddas/index.php?option=com\\_content&view=article&id=189:hetty&catid=36:rhifyn-cyfredol&Itemid=54](http://www.barddas.com/barddas/index.php?option=com_content&view=article&id=189:hetty&catid=36:rhifyn-cyfredol&Itemid=54)

(Cyrchwyd: 28 Medi 2018)



- BBC. (2017a) *Myfyrwyr yn “amharod” i ddilyn cyrsiau drwy’r Gymraeg*  
Ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/40281460>  
(Cyrchwyd: 7 Gorffennaf 2017)
- BBC. (2017b) *£4.2m tuag at hyfforddiant athrawon a dysgwyr Cymraeg*  
Ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/40498275>  
(Cyrchwyd: 7 Gorffennaf 2017)
- BBC Genome BETA Radio Times 1923 – 2009. ‘Bois y Frenni’  
Ar gael ar:  
<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?adv=0&q=bois+y+frenni&media=all&yf=1923&yt=2009&mf=1&mt=12&tf=00%3A00&tt=00%3A00>  
(Cyrchwyd: 23 Ionawr 2019)
- BBC Genome BETA Radio Times 1923 – 2009. ‘Islwyn Williams’  
Ar gael ar:  
<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?adv=0&q=islwyn+williams&media=all&yf=1923&yt=2009&mf=1&mt=12&tf=00%3A00&tt=00%3A00>  
(Cyrchwyd: 23 Ionawr 2019)
- BBC Genome BETA Radio Times 1923 – 2009. ‘Pwllderi’ a ‘Pwll Deri’  
Ar gael ar:  
<https://genome.ch.bbc.co.uk/search/0/20?adv=0&q=Pwllderi&media=all&yf=1923&yt=2009&mf=1&mt=12&tf=00%3A00&tt=00%3A00>  
(Cyrchwyd: 23 Ionawr 2019)
- Blythe, A. (2018) *Pam defnyddio’r Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol?*  
Ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/42875795>  
(Cyrchwyd: 2 Chwefror 2018)
- Crystal, D. (2014) *Dialect*  
Ar gael ar: <http://www.davidcrystal.com/?id=2877>  
(Cyrchwyd: 4 Mai 2017)
- Crystal, D. & Ivić, P. (2017) ‘Dialect’ in *Encyclopaedia Britannica*  
Ar gael ar: <https://britannica.com/topic/dialect>  
(Cyrchwyd: 4 Mai 2017)
- Cyngor Ceredigion. (2017) *Gwleidyddiaeth*  
Ar gael ar: <http://www.ceredigion.sch.uk>  
(Cyrchwyd: 1 Mehefin 2017)
- Davies, D. (2014) *Dewi Emrys: Rhan 2 – (1908 – 1929) Mas a Lawr*  
Ar gael ar:  
<http://www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/enwogion/lle/pages/dewiemrys2.shtml>  
(Cyrchwyd: 4 Hydref 2018)

Edwards, D. (2007) *Adolygiad o Y Gemydd*

Ar gael ar: <http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9780862438012/>

(Cyrchwyd: 23 Mai 2016)

Geiriadur Prifysgol Cymru. (2017)

Ar gael ar: [www.geiriadur.ac.uk/gpc](http://www.geiriadur.ac.uk/gpc)

(Cyrchwyd: 28 Ebrill 2017)

Huws, B. O. (2008) *Help Llaw gydag astudio Martha, Jac a Sianco*

Ar gael ar:

[https://hwb.wales.gov.uk/cms/hwbcontent/Shared%20Documents/vtc/2008-09/welsh/nodiadau\\_nofel\\_caryl\\_lewis.pdf](https://hwb.wales.gov.uk/cms/hwbcontent/Shared%20Documents/vtc/2008-09/welsh/nodiadau_nofel_caryl_lewis.pdf)

(Cyrchwyd: 11 Mehefin 2014)

Ilhem, M. (2013) 'Rhetorical use of literary dialect in English literature: from Chaucer to Shaw' in *International Journal of English Language and Literature Studies 2*

Ar gael ar: <http://www.aessweb.com/journal>

(Cyrchwyd: 11 Ionawr 2014)

Jenkins, M. (2013) *Author's Notes: Mike Jenkins on his Barkin! but beautiful hometown*

Ar gael ar:

<http://www.walesonline.co.uk/whats-on/authors-notes-mike-jenkins-barkin-5829162>

(Cyrchwyd: 20 Mehefin 2014)

Jones, D. G. (2013) *Beth yw'r ots am ramadeg y Gymraeg? Trafodaeth*

Ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/darganfod/22435672>

(Cyrchwyd: 21 Tachwedd 2017)

Jones, D. G. (2016) *Bratiaith*

Ar gael ar: <https://wici.porth.ac.uk/index.php/Bratiaith>

(Cyrchwyd: 19 Chwefror 2018)

Jones, D. G. (2018) *Ffugenw*

Ar gael ar: <https://wici.porth.ac.uk/index.php/Ffugenw>

(Cyrchwyd: 15 Ionawr 2019)

Jones, E. (2016) *Hen dafodiaith ardal y Steddfod*

Ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/36531685>

(Cyrchwyd: 3 Awst 2016)

Jones, I. M. (2011) *Gwerthiant llyfrau Cymraeg – eithaf da ar y cyfan?*

Ar gael ar:

<http://ifanmj.blogspot.co.uk/2011/01/gwerthiant-llyfrau-cymraeg-eithaf-da-ar.html>

(Cyrchwyd: 5 Chwefror 2017)

- Jones, V. (2000) *Adolygiad o Gerddi Bois y Frenni*  
 Ar gael ar: <http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781859028995>  
 (Cyrchwyd: 14 Chwefror 2013)
- Karantzi, C. (2010) *Literary dialects and dialectal literature*  
 Ar gael ar:  
[http://www.ling.ohio-state.edu/ICGL/proceedings/39\\_Karantzi\\_KED\\_456.pdf](http://www.ling.ohio-state.edu/ICGL/proceedings/39_Karantzi_KED_456.pdf)  
 (Cyrchwyd: 8 Tachwedd 2013)
- 'Landsker'  
 Ar gael ar: <http://landskerpastorate.co.uk/index.html>  
 (Cyrchwyd: 30 Ionawr 2019)
- Lewis, D. M. (2010) *Adolygiad o Mr Blaidd*  
 Ar gael ar: <http://www.literaturewales.org>  
 (Cyrchwyd: 11 Mehefin 2014)
- Llywodraeth Cymru. (2012) *Welsh Language*  
 Ar gael ar: <http://www.stats.wales.gov.uk>  
 (Cyrchwyd: 15 Mai 2014)
- Massengill, S. (2004) *Literary Dialect in Southwestern Humor*  
 Ar gael ar:  
<http://www.ncsu.edu/linguistics/docs/curriculum/Massengill%20Lit%20Curriculum.pdf>  
 (Cyrchwyd: 5 Hydref 2014)
- Meredith, E. (2013) *Beth yw'r ots am ramadeg y Gymraeg?* Trafodaeth  
 Ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/darganfod/22435672>  
 (Cyrchwyd: 21 Tachwedd 2017)
- Owen, W. (2014) *Gŵyl Jâms Niclas: argraffiadau ar achlysur i gofio Archdderwydd*  
 Ar gael ar:  
<https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/165937-gwyl-jams-niclas-argraffiadau-ar-achlysur-i-gofio-archdderwydd>  
 (Cyrchwyd: 28 Medi 2018)
- Oxford English Dictionary. (2017)  
 Ar gael ar: [www.en.oxforddictionaries.com](http://www.en.oxforddictionaries.com)  
 (Cyrchwyd: 28 Ebrill 2017)
- Papur Pawb. (1901) 'Tafodiaith Gymreig Sir Benfro' yn y golofn 'Blodau Barddas', rhifyn 22 Mehefin, t.13  
 Ar gael ar:  
<https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/3593444/3593457/35/Tafodiaith%20Gymreig%20Sir%20Benfro>  
 (Cyrchwyd: 18 Rhagfyr 2018)

Prichard, Rh. (c.1740) *Cannwyll y Cymry sef gwaith Mr. Rees Prichard ... wedi ei fenwl chwilio ai ddiwygio yn ofalus o amryw feiau a chamgymeriadau anafus, gan J. H.*

Ar gael ar:

<https://syllwr.llyfrgell.cymru/4791107#?c=0&m=0&s=0&cv=0&xywh=-708%2C-189%2C3632%2C3767>

(Cyrchwyd: 10 Ionawr 2019)

Prifysgol Poznań, Gwlad Pŵyl - Marta Listewnik. (2016)

Ar gael ar: [http://wa.amu.edu.pl/wa/listewnik\\_marta](http://wa.amu.edu.pl/wa/listewnik_marta)

(Cyrchwyd: 7 Awst 2017)

Prysor, D. (2009) *Y 'Welsh Not' newydd?*

Ar gael ar:

<http://prysgodyn.blogspot.co.uk/2009/02/y-welsh-not-newydd.html>

(Cyrchwyd: 15 Medi 2017)

Rees, I. W. (2015) *Ffordd iawn o siarad Cymraeg?*

Ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/34325522>

(Cyrchwyd: 15 Medi 2017)

Rees, I. W. (2016) *Tafodiaith*

Ar gael ar: <https://wici.porth.ac.uk/index.php/Tafodiaith>

(Cyrchwyd: 15 Medi 2017)

Robins, R. H. & Crystal, D. (2017) *Language*

Ar gael ar: <https://www.britannica.com/topic/language>

(Cyrchwyd: 4 Mai 2017)

Shaw, C. (2013) *'Barkin' by Mike Jenkins – A Review*

Ar gael ar:

<http://americymru.net/profiles/blogs/barkin-by-mike-jenkins-a-review>

(Cyrchwyd: 20 Mehefin 2014)

S4C. (2015) *Canllawiau Iaith*

Ar gael ar:

[http://www.s4c.cymru/media/media\\_assets/10\\_Canllawiau\\_Iaith.pdf](http://www.s4c.cymru/media/media_assets/10_Canllawiau_Iaith.pdf)

(Cyrchwyd: 3 Ebrill 2017)

Talfryn, I. (2013) *Beth yw'r ots am ramadeg y Gymraeg?* Trafodaeth

Ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/darganfod/22435672>

(Cyrchwyd: 21 Tachwedd 2017)

The County Echo. (1896) 'Eisteddfod at Letterston' yn rhifyn 18 Mehefin, t.2

Ar gael ar:

<https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/3636027/3636029/5/Eisteddfod%20at%20Letterston>

(Cyrchwyd: 18 Rhagfyr 2018)

- The Rhondda Leader. (1902) 'Barddoniaeth Gymreig Sir Benfro' yn 'Yr Adran Gymreig', rhifyn 22 Chwefror, t.8  
Ar gael ar:  
<https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/3827358/3827366/86/Barddpmoaetj%20Gymreig%20Sir%20Benfro>  
(Cyrchwyd: 18 Rhagfyr 2018)
- The Yorkshire Dialect Society. (2010)  
Ar gael ar: <http://www.yorkshiredialectsociety.org.uk>  
(Cyrchwyd: 20 Mai 2014)
- Thomas, A. (2018) *Dysgu tafodiaith mewn ysgolion – y ffordd i gyrraedd y miliwn?*  
Ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/42663947>  
(Cyrchwyd: 9 Chwefror 2018)
- Trefor, R. (2014) 'Problemau gyda Safoni a Chywair' yn D. Prys (gol) *Ysgrifau ar leithyddiaeth y Gymraeg*  
Ar gael ar: <https://llyfrgell.porth.ac.uk/View.aspx?id=1782~4s~tatfzEqh>  
(Cyrchwyd: 8 Rhagfyr 2014)
- Vaughan, C. (2015) yn 'Boy Band hynaf Cymru' yn dathlu  
Ar gael ar:  
<https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/204829-boy-band-hynaf-cymru-yn-dathlu>  
(Cyrchwyd: 30 Rhagfyr 2018)
- Wyn, H. (2014c) *Shwd ma fe heddi?*  
Ar gael ar: <http://dailywales.net/2014/08/07/shwd-ma-fe-heddi/>  
(Cyrchwyd: 19 Medi 2014)
- Y Lolfa. (2017) 'Angen agweddau meddwl annibynnol Cymreig' medd Y Lolfa  
Ar gael ar: <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/39877939>  
(Cyrchwyd: 1 Mehefin 2017)

## ATODIAD 1

### CWESTIYNAU CYFWELD

1. Ydych chi'n ysgrifennu *llynyddiaeth mewn tafodiaith* – darnau o waith yn gyfan gwbl mewn tafodiaith?
2. Ydych chi'n ysgrifennu *tafodiaith mewn llynyddiaeth* – y defnydd o dafodiaith mewn darn o waith, megis deialog?
3. Os ydych, pam, os nad ydych, pam?
4. Beth yw eich barn am ddefnyddio tafodiaith mewn llynyddiaeth?
5. Beth yw rôl neu swyddogaeth llynyddiaeth dafodieithol?
6. Oes gwerth mewn llynyddiaeth dafodieithol?
7. A yw llynyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen?
8. A yw darllenwyr yn medru deall a gwerthfawrogi gweithiau mewn tafodiaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi?
9. Beth yw cyfraniad y gerdd 'Pwllderi' gan Dewi Emrys i llynyddiaeth dafodieithol?
10. Beth yw cyfraniad gwaith W. R. Evans i llynyddiaeth dafodieithol Sir Benfro?
11. Beth yw cyfraniad y pedair cyfrol *Wês Wês* i llynyddiaeth dafodieithol?
12. A yw'n bwysig fod y beirdd a llenorion hyn wedi hybu llynyddiaeth dafodieithol Sir Benfro a pham?
13. A oes themâu amlwg mewn cerddi tafodieithol?
14. Ai rhywbeth hen ffasiwn yw llynyddiaeth dafodieithol erbyn heddiw?
15. A oes lle i gerddi tafodieithol ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, megis y Gadair a'r Goron?
16. A yw iaith Caerdydd yn dafodiaith, ac a ddylid ei chynnwys mewn cerddi?
17. A oes cysondeb yn y modd y cyflwynir tafodiaith mewn llynyddiaeth, a yw'n union fel y siaredir hi?
18. Oes dyfodol i llynyddiaeth dafodieithol?
19. A yw ysgrifennu mewn tafodiaith yn tanseilio Cymraeg Byw Safonol a'r ymgais i'w safoni?
20. Beth yw rhinwedd defnyddio tafodiaith ar draul iaith safonol?

## CWESTIYNAU CYFWELD – GWYN GRIFFITHS

1. Pam aethoch chi ati i baratoi a chyhoeddi'r pedair cyfrol *Wês Wês*?
2. Yn y gyfrol gyntaf, rydych yn sôn i chi geisio perswadio pobl, yn bennaf o Sir Benfro, i gyfrannu storïau, ysgrifau a cherddi. Beth oedd ymateb y bobl hyn?
3. A wnaeth rhai wrthod cyfrannu? Os do, am ba reswm?
4. A oedd themâu amlwg yn ymddangos yn y storïau a'r cerddi a dderbyniasoch?
5. A oedd cysondeb yn y modd y cyflwynwyd y dafodiaith yn y darnau hyn. A oedd yn union fel y siaredir hi neu a oedd rhai wedi ei gorliwio ychydig?
6. Beth oedd ymateb trigolion Sir Benfro i'r pedair cyfrol hyn?
7. A yw llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen? H.y. ai cyfrolau i drigolion Sir Benfro yn unig yw'r rhain neu a all darllenwyr mewn ardaloedd eraill o Gymru eu deall a'u gwerthfawrogi?
8. A gawsoch chi ymateb i'r cyfrolau gan bobl y tu allan i Sir Benfro?
9. Beth yw cyfraniad y pedair cyfrol *Wês Wês* i lenyddiaeth dafodieithol Cymru?
10. A yw'n bwysig fod y beirdd a llenorion a gyfrannodd at y cyfrolau wedi hybu llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro a pham?

## CWESTIYNAU CYFWELD – EIRLYS CHARLES

1. Sut gawsoch chi'r cais i gyfrannu at y cyfrolau Wês Wês?
2. A gawsoch chi unrhyw gyfarwyddiadau gan y golygyddion?
3. Beth oedd eich ymateb pan gawsoch chi'r cais i ysgrifennu darnau mewn tafodiaith?
4. A wnaethoch chi ysgrifennu darnau'n arbennig ar gyfer y cyfrolau hyn, neu a oeddech chi eisoes wedi eu hysgrifennu?
5. A ydych wedi ysgrifennu darnau mewn tafodiaith ers hynny?
6. Sut wnaethoch chi ddewis y testunau ar gyfer y tri darn?
7. A wnaethoch chi ysgrifennu yn union fel yr ydych chi'n siarad neu a oeddech chi'n meddwl am y dafodiaith wrth ysgrifennu?
8. Ydych chi'n credu bod modd ysgrifennu mewn tafodiaith ar unrhyw destun, y tu allan i'r sir a'i phobl?
9. Beth yw cyfraniad y pedair cyfrol Wês Wês i llenyddiaeth dafodieithol? Beth yw eu gwerth nhw?
10. A yw llenyddiaeth dafodieithol, megis y cyfrolau Wês Wês, yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen?
11. Ai cyfrolau i bobl Sir Benfro yn unig yw'r rhain neu a all pobl mewn ardaloedd eraill yng Nghymru eu deall a'u gwerthfawrogi?
12. A yw'n bwysig fod yr awduron a gyfrannodd at y cyfrolau Wês Wês, a phobl eraill megis Dewi Emrys a W. R. Evans, wedi hybu llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro?



## ATODIAD 2

### FFURFLEN GYDSYNIO – CYFWELIADAU

Enw'r Ymchwilydd: **Ruth Thomas**

#### Ticiwch y bocsys os gwelwch yn dda

1. Rwy'n cadarnhau fy mod yn deall amcanion a phwrpas y gwaith ymchwil, fel y'u cyflwynwyd gan yr ymchwilydd, ac wedi cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau.
2. Rwy'n deall fod fy nghyfraniad yn wirfoddol ac y gallaf dynnu nôl ar unrhyw adeg.
3. Rwy'n deall y gall unrhyw wybodaeth neu sylwadau a roddaf gael eu defnyddio yn nhraethawd hir yr ymchwilydd.
4. Rwy'n cytuno y gall yr ymchwilydd fy enwi a'm dyfynnu yn y traethawd hir.
5. Rwy'n cytuno i recordio'r cyfweiliad hwn, a fydd wedyn yn cael ei drawsgrifio gan yr ymchwilydd.
6. Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon.

|                   |         |         |
|-------------------|---------|---------|
| _____             | _____   | _____   |
| Enw'r cyfranogydd | Dyddiad | Llofnod |
| _____             | _____   | _____   |
| Ymchwilydd        | Dyddiad | Llofnod |

**Ruth Thomas**  
**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**  
**Campws Caerfyrddin**

### ATODIAD 3

#### ADYSGRIFAU O'R CYFWELIADAU

Cofnodwyd y cyfweiliadau mewn modd *verbatim* a adlewyrcha'r dafodiaith a fabwysiadwyd gan y cyfwelydd a'r cyfweleion.

| <b>CYFWELAI</b>             | <b>DYDDIAD<br/>CYFWELD</b> | <b>MAN CYFWELD</b> |
|-----------------------------|----------------------------|--------------------|
| Y Prifardd Idris Reynolds   | 1 Awst 2014                | Campws PCYDDS      |
| Y Prifardd Ceri Wyn Jones   | 13 Awst 2014               | Gwasg Gomer        |
| Wyn Owens                   | 13 Medi 2014               | Cartref y Cyfwelai |
| Y Prifardd Eirwyn George    | 20 Medi 2014               | Cartref y Cyfwelai |
| Hefin Wyn                   | 14 Tachwedd 2014           | Cartref y Cyfwelai |
| Y Prifardd Mererid Hopwood  | 12 Rhagfyr 2014            | Campws PCYDDS      |
| Eirlys Charles              | 5 Ionawr 2015              | Cartref y Cyfwelai |
| Gwyn Griffiths              | 29 Ionawr 2015             | Trwy e-bost        |
| Yr Athro Meic Stephens      | 10 Chwefror 2015           | Dros y ffôn        |
| Y Prif Lenor Lleucu Roberts | 10 Mawrth 2015             | Trwy e-bost        |

|                    |   |
|--------------------|---|
| <b>Cyfweliad 1</b> |   |
| Cyfwelydd:         | Ruth Thomas   |
| Cyfwelai:          | Prifardd Idris Reynolds   |
| Dyddiad cyfweld:   | 1 Awst 2014   |
| Lleoliad:          | Campws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin   |
| <b>ADYSGRIF</b>    |   |
| Cyfwelydd          | Ydych chi'n ysgrifennu <i>llynyddiaeth mewn tafodiaith</i> , hynny yw, darnau o waith yn gyfan gwbl mewn tafodiaith?  |
| Cyfwelai           | Wel cerddi wy'n sgrifennu fwya, a wy'n ysgrifennu fwya o nhw mewn cynghanedd, a ma 'na ryw iaith weddol ffurfiol i gynghanedd a wy'n dueddol o stico at hynny, hyd yn oed yr odl <i>i a u</i> . Yn ôl rheole cerdd dafod chi ddim yn cal odli – fel <i>caru</i> a <i>sbri</i> – a wy o'r genhedleth sy'n dal i sticio at rheiny. Ma 'na bobol fel Jim Parc Nest, nawr ma fe'n gweud mai rhywbeth i'r glust yw'r cynghanedd a dylen i addasu i lafar yr oes. Sgrifennes i unweth gwpled ar yr odl <i>es</i> – 'yn ddistaw rwy'n dweud nawês, pan fo'r byd yn dwedyd wês' – chi'n gwbod rhyw ddefnyddio ambell air fel 'na. Ond anaml iawn wdi i hyd yn oed yn defnyddio, fel <i>au</i> – <i>parau</i> nid <i>pare</i> – yr odl 'na. Efalla y dylen i ystwytho bach mwy. Ma beirdd ifancach fel Ceri Wyn yn lot fwy tebygol o ddefnyddio nhw. |
| Cyfwelydd          | Ydych chi'n ysgrifennu unrhyw <i>dafodiaith mewn llynyddiaeth</i> , hynny yw, unrhyw eiriau?  |
| Cyfwelai           | Dim ond geire unigol.   |
| Cyfwelydd          | Felly byddech chi yn defnyddio ambell i air tafodieithol, os yw e'n addas?  |
| Cyfwelai           | O bydden, yn sicir. Yn aml iawn rhywbeth fel <i>dwê</i> , rhywbeth fel 'na weithe, os daw e i daro. Ambell i air yw e. <i>Briwita</i> , dwi'n cofio defnyddies i hwnna yn un o'r awdle. Chi'n gwbod beth yw <i>briwita</i> ?  |
| Cyfwelydd          | Na.   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Gair – casglu briwid ar y trath. ‘Briwita i Bratiaith’.   |
| Cyfwelydd | Geirie Ceredigion?  |
| Cyfwelai  | Ie, geirie Ceredigion. Bydde fe’n air Shir Benfro hefyd wy’n credu, fel <i>gwreca</i> , yn Dewi Emrys.  |
| Cyfwelydd | Dwi wedi clywed am hwnna, yn ‘Pwllderi’.  |
| Cyfwelai  | <i>Gwreca</i> , ie. <i>Briwita</i> fydden i’n ‘weud. Ar ôl storom ma côd yn dod lan ar y trath a chi’n casglu nhw wedyn i gynnu tân. Neu wê nhw’n casglu nhw, dyw pobol ddim nawr.  |
| Cyfwelydd | Felly r’ych chi yn defnyddio geirie tafodiethol pan ma nhw’n ffito, ond yn bennaf iaith safonol?  |
| Cyfwelai  | Hynny yw os yw e’n ffito i natur y gerdd. Fydden i ddim yn defnyddio gair tafodieth mewn cerdd sydd â’r gweddill ohoni yn eitha clasurol.   |
| Cyfwelydd | Fyddech chi ddim yn cymysgu?  |
| Cyfwelai  | Na, ddim yn cymysgu’r arddullie.  |
| Cyfwelydd | Beth yw eich barn chi am ddefnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth?   |
| Cyfwelai  | Wel ma ‘Pwllderi’ ’da chi, Dewi Emrys, ma fe’n un o’r darne gore yr iaith mewn ffordd ond yw e? A ma fe siwr o fod y darn gore sgrifennodd e, darn sy wedi aros, a ma fe mewn tafodieth hyfryd. Ma ’da chi <i>Un Nos Ola Leuad</i> wedyn, ma hwnna wedi ei sgrifennu mewn tafodieth. Dwi’n cofio dreies i ddarllen hwnna pan o’n i’n ddeunaw ôd, a gades i fe a es i nôl – wê rhaid i fi ddarllen e rhyw ddeg mlynedd ar hugain ar ôl ’ny, a ges i flas mowr arno fe. Ma Jacob Davies wedi sgrifennu darne adrodd mewn tafodieth, tafodieth godre Ceredigion. Ma un darn bach ’da Mam fan hyn yn tafodieth y Cei (y gerdd ‘Ar Werth’). Pan wy yn mynd rownd i ddarllen cerddi wy’n darllen hwn achos ma hwn sy’n mynd lawr ore, well na ngerddi i! Mae e yn tafodieth y Cei a yn tafodieth y Cei o’ch chi’n siarad yn y trydydd person – ‘shw ma fe’ a ‘cered e draw fan ’na’. Ma hwnnw nawr, ma fe am ei destun, ma’r tafodieth yn talu am ei lle fan ’na, achos chi’n sôn am y Cei. |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl fod tafodieth wedi lleihau, gyda phobol yn dod mewn?  |
| Cyfwelai  | Odi ma'r tafodieithe siwr o fod yn gwanhau a gwanychu fel ma'r Saeson yn dod mewn a hefyd ma Cymru 'di mynd lot llai nawr. Ni'n teithio a ma pobol o'r gogledd yn byw yn Shir Benfro a fel arall a ma nhw'n priodi â'i gily a magu plant, a ma 'da chi gymysgedd i gyd, os. A ma gwanieth wedyn rhwng tafodieth a bratieth ond os e? Ma hynny'n bwysig. Ma tafodieth yn bert iawn. Ma bratieth, ma fe'n ychwanegu o at ddiwedd gair, fel <i>adio</i> a <i>subtractio</i> a phethe fel 'na. Dyw e ddim o'r un blas iddo fe. |
| Cyfwelydd | Beth yw rôl neu swyddogaeth llenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Mae'n bwysig bo ni'n cadw'r tafodieithodd yn fyw. Ysgrifennodd Dic englynion coffa W. R. Evans mewn tafodieth. A wy'n credu bod un o'r rheina ar ei garreg fedd e. A i dalu teyrnged i W. R. Evans odd shwt siaradwr tafodieth Shir Benfro. Ma'r dafodieth yn talu am ei lle yn iawn ond yw e? A wedyn ma 'da Wyn Owens gywydd i W. R. Evans a unweth 'to ma'r testun a'r ffurf yn priodi ac yn asio at ei gilydd yn berffeth.   |
| Cyfwelydd | Felly chi'n teimlo bod natur y testun wedyn yn dibynnu ar ydych chi'n defnyddio'r dafodieth neu beido?   |
| Cyfwelai  | Odi. Mae'n deyrnged hyfryd iddo fe, a sy'n dangos beth allwch chi 'neud â'r gynghanedd. Ma fe'n agor dryse newydd mewn ffordd. Ma 'da chi drawiade newy a phopeth. A sdim un rheswm pam na allwch chi sgrifennu tafodieth mewn cynghanedd.   |
| Cyfwelydd | Ma rhai pobl yn?   |
| Cyfwelai  | Eithriade yn nhw.  |
| Cyfwelydd | Oes gwerth mewn llenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Wel, beth yw gwerth llenyddiaeth? Yn sicir ma 'Pwllderi' yn un o ddarne clasurol, o ddarne gore'r iaith.   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | Yn cadw'r dafodieth yn fyw, neu'n ein hatgoffa ni ohoni?  |
| Cyfwelai  | Ein hatgoffa ni o'r dafodieth, odi. Mae'n drueni bod y dafodieth yn gwanychu yndyw e? Ma tafodieth Shir Benfro falle wedi cadw'n well na nifer. Achos bo chi ar benrhyn fan 'na falle bod y byd ddim yn cyrradd chi cweit mor gloi â'r gweddill.  |
| Cyfwelydd | A yw llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen? A yw cyfrolau fel rhai <i>Wês Wês</i> , sy'n gyfan gwbl yn nhafodieth Sir Benfro, yn cyfyngu'r gynulleidfa i Sir Benfro?  |
| Cyfwelai  | Mae'n bosib bo chi'n ehangu'r gynulleidfa o fewn Shir Benfro. Ond mae'n bosib hefyd falle bo chi'n colli'r gynulleidfa sy tu fas o Shir Benfro. Mae'n gallu bod yn anodd i ddarllen e. Fel o'n i'n gweud, fe ges i ffwdan i ddarllen <i>Un Nos Ola Leuad</i> , ond a mynd nôl ati wedyn a bod rhywun yn barod i 'neud yr ymdrech, yn sicir. A stori fer Hefin Wyn, enillodd yn y Genedlaethol llynedd, mae'n glasur o beth, yn nhafodieth Sir Benfro. 'Haka Penclippin', mae mewn tafodieth weddol ddwfn. Mae'n bosib fydde rhai gogleddwyr falle'n cal trafferth i ddarllen hi, ond mae'n werth i ddarllen hi. Mae'n enghraifft dda o werth tafodieth mewn llenyddiaeth. Hanes rhyw hen ffarmwr ar y Preseli yw e. |
| Cyfwelydd | Eto y testun yn gweddu i'r dafodieth wedyn?   |
| Cyfwelai  | Odi, ma 'da chi'r cydymdreiddio rhynt yr iaith, y tirwedd a'r tir. A mae hefyd yn adleisio stori 'da D. J. Williams, 'Blwyddyn Lwyddiannus'. Honno hefyd wedi'i sgrifennu mewn lled dafodieth, Dyfedeg. Dyw e ddim llawn mor drwm â tafodieth Hefin Wyn, ond ma'r ddwy yn ateb ei gilydd mewn ffordd. Odd D. J. Williams hefyd, odd e'n sgrifennu iaith – odd 'na flas gorllewinol ar ei lenyddiaeth e.   |
| Cyfwelydd | A yw darllenwyr yn medru deall a gwerthfawrogi gweithiau mewn tafodiaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi? Yn medru deall a gwerthfawrogi tafodieth Sir Benfro, neu'n ei chael hi'n anodd?   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Ma perygl bydden nhw'n ffeindo'i yn anodd, ond rhywun sy'n barod i ddyfalbarhau, wy'n credu bydde fe'n werth e. Ond ar gyfer marchnad Shir Benfro ma'r rheina fwya bydden i'n meddwl. Fan 'na ma'r gwerthiant mwya.   |
| Cyfwelydd | Ydy e'n beth da chi'n meddwl i bobol Sir Benfro bod rhain ar gael?  |
| Cyfwelai  | Odi, yn sicir. Mae'n bwysig i gadw'r dafodieth yn fyw a 'marfer y geire. Mae'n iaith bert iawn, yn bertach na'r rhan fwya o dafodieithodd wy'n credu.   |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad y gerdd 'Pwllderi' gan Dewi Emrys i lenyddiaeth dafodieithol? Fel y soniwyd eisoes, dyma gerdd enwocaf Dewi Emrys, ac am hon mae'n cael ei gofio.   |
| Cyfwelai  | Ie, hwnna a'r Gorwel ('Y Gorwel'), y ddou sydd wedi aros fwya. 'Pwllderi', ta chi'n troi hwnna nawr i iaith safonol Cymrâg, byddech chi'n difetha'r hud ohono fe rhywffordd, ma'r hud i gyd yn mynd. Ma'r iaith yn rhan annatod ohono fe bellach.   |
| Cyfwelydd | Mae'n rhif 47 yn <i>Hoff Gerddi Cymru</i> , sy'n awgrymu bod pobol y tu fas i Sir Benfro wedi cal blas ar 'Pwllderi'?   |
| Cyfwelai  | Odi, nid dim ond pobol Shir Benfro odd yn pleidleisio drosti.   |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad gwaith W. R. Evans i lenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro?   |
| Cyfwelai  | Nath e gyfraniad mowr i gadw'r dafodieth, a fe odd yn sgrifennu cerddi 'Bois y Frenni' ondtyfe? A odd rheiny hefyd mewn tafodieth. A os odyn nhw'n cael eu canu, ma'r gynulleidfa yn ehangu ond yw e, mwy na darllen. A 'Pwllderi' wedyn, yn cael ei adrodd mewn eisteddfode, yn her adroddiad a pethe fel 'ny. |
| Cyfwelydd | Hyd yn oed tu fas i Sir Benfro?   |
| Cyfwelai  | Odd, fydden i'n meddwl, odd. Odd e yn Sir Aberteifi yn sicir, odd, nid dim ond yn Sir Benfro.   |
| Cyfwelydd | A wê pobol yn cystadlu gyda'r gerdd?  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Wêdd. Falle hunan ddewisiad odd e a fydde nhw'n dewis 'Pwllderi'. Wêdd gŵr ar bwys ni, enillodd e yn y Genedlaethol sawl gwaith, a 'Pwllderi' odd un o'i ffefrynne fe.   |
| Cyfwelydd | A wêdd e ddim yn cal ei feirniadu am ddewis cerdd dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | O na wêdd. Wrth gwrs yn godre Ceredigion ni ar y ffinie. Ma'r wês wês yn dod mas.  |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad y pedair cyfrol <i>Wês Wês</i> i lenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Wy ddim wedi darllen rheina a gweud y gwir. Gwyn Griffiths ondyfe? Dwi'n gwbod amdanyn nhw ond sai 'di darllen nhw. Un o Dregaron odd e ondyfe?  |
| Cyfwelydd | Ie, un o Dregaron. A ddath e i fyw i Sir Benfro a fe nath e ofyn i bobol ysgrifennu darne tafodieithol i'w rhoi yn y cyfrol hyn. Ydych chi'n meddwl bod cyfrol fel hyn yn bwysig?  |
| Cyfwelai  | O odyn, yn sicir, odyn. Ma nhw wedi dod â peder mas, ma nhw bownd o fod wedi gwerthu'n dda wedyn.  |
| Cyfwelydd | Pam ych chi'n meddwl fod rhain wedi eu cyhoeddi yn nhafodieth Sir Benfro – dwi ddim wedi gweld rhai mewn tafodieithoedd eraill?  |
| Cyfwelai  | Ma rhwbeth yn bert iawn yndi, yn bersain iawn, a mae'n eitha gwahanol hefyd ond yw hi? Tafodieth bert arall yw tafodieth y Wenhwyseg, y Cymodd. Ma honna'n un bert hefyd. A ma Meic Stephens wedi bod yn sgrifennu yn y dafodieth 'na, dwy bryddest o leia. Wy'n cynnal dosbarth trafod cerddi a ni 'di bod yn trafod y cerddi 'ny yn y dosbarthiade a ni 'di cal pleser mowr yn trafod nhw. Ma ambell i air yn rhoi bach o broblem ar adege, ond unweth chi'n dod i ddeall yr orgraff ma fe'n iawn. A yn un ohonyn nhw wy'n credu ma 'da fe mwy nag un tafodieth i'w gal. Y gerdd 'na am ffindo mas pwy odd ei dadcu, achos odd ei famgu wedi cal ei threisio a odd y plentyn wedi cal ei roi bant, a wê hynny yn ardal canolbarth Cymru, lan biti Brycheiniog. Ma hi'n siarad yn y dafodieth 'ny, wedyn gas ei mab hi ei fagu gan rieni maeth yn y Cymodd, a ma iaith y Cymodd yn dod. |



|           |   |
|-----------|---|
|           | Wedyn ma'i iaith e, sydd falle bach fwy clasurol, a wedyn ma iaith ei blant e, a ma rheiny wedyn mewn tafodieth Rhydfelen. Mae'n ddefnydd clyfar iawn o dafodieth, os yw'ch clust yn ddigon main i glywed y gwahanieth rhynt y tafodieithoedd.  |
| Cyfwelydd | Felly r'ych chi yng Ngheredigion yn gallu gwerthfawrogi ei gerddi fe, ac wedi cal blas?   |
| Cyfwelai  | O odyn, o'n ni'n gwerthfawrogi. Pob un yn y dosbarth, wy'n siwr bo ni wedi mwynhau. Falle bo ni'n fwy cyfarwydd â'r dafodieth honno na fydde ni â thafodieth Sir Fôn, mae'n bosib.  |
| Cyfwelydd | A yw'n bwysig fod y beirdd a llenorion hyn wedi hybu llenyddieth dafodieithol Sir Benfro a pham?  |
| Cyfwelai  | Wel odi. A ma Hefin Wyn yn dal i 'neud e. Ysgrifennu rhyddieth ma fe ond ma fe'n amal iawn yn sgrifennu yn nhafodieth Shir Benfro. A Shir Benfro yw ei faes e.  |
| Cyfwelydd | A oes themâu amlwg mewn cerddi tafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Mae'n ymwneud â'r tirwedd, beth ma nhw'n canu amdano. Allech chi'm canu cân am Dde Affrica nawr yn tafodieth Shir Benfro, fydde fe ddim yn gweddu rhywfodd. Mae'n rhaid bod e'n ymwneud â ac yn atgyfnerthu'r geire.  |
| Cyfwelydd | Ai rhywbeth hen ffasiwn yw llenyddieth dafodieithol erbyn heddiw? Ma Gwyn Griffiths yn dweud yn un o'i gyflwyniade ei bod yn drueni nad oes mwy o bobol ifanc wedi cyfrannu at y cyfrole <i>Wês Wês</i> .   |
| Cyfwelai  | Chi'n mynd nôl i ddyddie'r Noson Lawen a'r teip 'na o beth. Wy ddim yn siwr. Ma Jim Parc Nest, ma fe yn sgrifennu tipyn mewn tafodieth, hyn yn oed cerddi. Hyd yn od y gerdd enillodd e'r Goron, yn Abergweun wy'n credu odd e, am ei garwrieth e a Manon. Ma fe'n siarad yn ei Ddyfedeg a ma hi'n siarad yn iaith Cwm Rhondda, a ma fe'n gweitho'n llwyddiannus iawn. Ma 'da ge englyn wedyn, coffa i T. Llew, a ma fe'n gorffen 'Co fe yng Nghwm Allt Cafan'. Ma fe'n defnyddio'r dafodieth yn feistrolgar iawn. A wê T. Llew hefyd yn siarad yn iaith Dyfed. Chi'n cysylltu fe â'r hud a lledrith sy yn Nyfed. |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Nethoch chi sôn am Ceri Wyn yn gynharach. A oes pobl erill o'i genhedleth e neu'n iau yn defnyddio'r dafodieth?  |
| Cyfwelai  | Ma Ceri Wyn yn arbrofi tipyn. Ma 'da ge un gerdd, ymson un o ddisgyblion o ysgol Cymrâg yng Ngwent. Ma fe'n arbrofi'n llwyddiannus.  |
| Cyfwelydd | A oes lle i gerddi tafodieithol ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, megis y Gadair a'r Goron? Ry'n ni eisoes wedi sôn am Meic Stephens, sy wedi dod yn agos at ennill sawl gwaith.   |
| Cyfwelai  | Dw i ddim yn gweld pam lai. Ma fe 'di sgrifennu nhw yn y Wenhwyseg a wrth gwrs ma pob un yn gwbod pwy yw e, y beirned, na'r broblem. Ond gyda beirned erill mae'n bosib y bydde fe wedi ennill. Achos odd un o'r beirned, Cyril Jones wy'n credu, am ei goroni e rhyw flwyddyn, ond bod y gweddill ddim yn cytuno.       |
| Cyfwelydd | Fydech chi'n dyfarnu'r Goron i gerddi tafodieithol, os mai rheiny yw'r gore?   |
| Cyfwelai  | Wel os mai fan 'ny fydden i'n cal yr ias, bydden i yn.   |
| Cyfwelydd | Un flwyddyn fe ddath Meic Stephens yn ail a nath un o'r beirned 'weud petai hon enillodd ddim yn y gystadleueth, fydden ni wedi dyfarnu'r Goron iddo fe. Ond fe nath rhai beirned wedyn ar ôl yr Eisteddfod 'weud, na, dylid ddim gwobrwyo cerddi tafodieithol. Felly ma 'na farn wahanol, rhai o blaid a rhai yn erbyn? |
| Cyfwelai  | O na, fydden i'n eitha parod, a bod e'n deilwng, os o'n i'n teimlo mai hwnna odd wedi canu'r gân ore. Fydden i ddim yn cosbi fe am fod e wedi sgrifennu ddi mewn tafodieth, ond ei bod hi yn dafodieth, yn hytrach na bratieth.  |
| Cyfwelydd | Ma 'na rai cystadlaethau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn gofyn am gerdd dafodieithol neu ysgrif, ond fydech chi ddim yn gweld unrhyw broblem gyda chyflwyno cerddi neu ddarne tafodieithol mewn unrhyw un o'r cystadlaethe eraill?  |
| Cyfwelai  | Yn sicir, na.  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | A yw iaith Caerdydd yn dafodieth, ac a ddylid ei chynnwys mewn cerddi?   |
| Cyfwelai  | Efalle y datblygith hi'n dafodieth. Ma iaith Caerdydd erbyn hyn yn gymysgedd o'r gogledd a'r gorllewin a Rhydfelen ond yw e. Mae'n bosib, gobeitho, y datblygith e'n dafodieth o dipyn i beth. Wy ddim wedi gweld dim byd yn cal ei sgrifennu yn tafodieth Caerdydd mor belled, ond falle bod hi ddim wedi sefydlu ei hunan fel tafodieth eto, ond gydag amser. Ma'r iaith yn newid drwy'r amser ond yw e, a ni'n gorfod ystwytho gyda'i. Allwn ni'm ysgrifennu awdle nawr yn iaith dachre'r ganrif ddiwetha. Yn amal iawn ma ymadroddion Saesneg yn dod mewn i'n hawdle a'n pryddeste ni, fel gydag lfor ap Glyn llynedd. Ma lot o eirie benthyg yn ein iaith. Pryd ma nhw'n dod yn eirie Cymrâg, 'na'r cwestiwn? |
| Cyfwelydd | A oes cysondeb yn y modd y cyflwynir tafodiaith mewn llenyddiaeth; a yw'n union fel y siaredir hi? A yw rhai yn gorliwio? Ma tafodiaith rhai yn ddyfnach?  |
| Cyfwelai  | Ma gradde o bob peth i gal ond os e? Ma gwanieth rhwng dod â ambell i air tafodieithol miwn, a wedyn, fel ych chi'n cal yn 'Pwllderi', ma hwnnw'n weddol dwfwn ond yw e? Ma Dic nawr, pan mae e'n sgrifennu ma 'na flas gorllewinol ar ei Gymrâg e. Ma fe'n Gymrâg clasurol ei gystrawen ond eto odd e wrth ei fodd yn dod â geire tafodieithol miwn. Pan odd e'n sgrifennu colofn yn <i>Golwg</i> bob wthnos bydde fe'n fwriadol yn dod â geire tafodieithol miwn, a'n amal iawn bydde Dylan lorwerth yn ei newid e achos fydde fe ddim yn ddealladwy i Gymru gyfan. Odd e'n dod â gair cyfyngedig falle i ardal Ceredigion, ond fydde fe'n cal ei groesi mas. Odd e'n drueni mewn ffordd.                        |
| Cyfwelydd | Ma nifer o awduron ar ddiwedd eu gwaith yn rhoi ystyr geirie anghyfarwydd, ac felly r'ych chi'n dysgu geire newydd i bobol?  |
| Cyfwelai  | Wel beth odd Dic moyn, odd e moyn cadw'r geirie hyn mewn cylchrediad. Odd e'n 'neud e o bwrpas, er mwyn cadw nhw.  |
| Cyfwelydd | Ond yn colli'r dydd gyda <i>Golwg</i> ?  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Odd, bydde'r gair yn cal ei newid i air fydde'n fwy dealladwy i Gymru gyfan. Fydde fe'n treial 'to yr wthnos ar ôl hynny, odd e'n 'neud ei bwynt. Odd e ddim yn rhoi fyny.  |
| Cyfwelydd | Oes dyfodol i lenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Dyw'r tafodieithodd ddim mor wahanol heddi a wê nhw yn ystod yr amser pan odd ddim teithio ar hyd Cymru. A ma pethe fel y cyfrynge hefyd wedi dod i safoni'r Gymraeg a Seisnigeiddio. Fydden i'n gobeitho bod dyfodol i dafodieth. Faint o bobl sy'n siarad tafodieth Shir Benfro lawr gyda chi? Ai'r hen bobol yn nhw?   |
| Cyfwelydd | Wel yn yr ysgol ma nhw'n dysgu Cymraeg safonol, ond fe glywch chi pobol ifanc yn siarad y dafodieth, er bod nifer o eirie wedi diflannu.  |
| Cyfwelai  | Odi, ma geire'n mynd ar goll drw'r amser. Chi'n clywed ambell i air chi ddim wedi ei glywed e ers blynydde, a 'na neis ma fe. Ma fe'n dod nôl i'r cof.  |
| Cyfwelydd | A yw ysgrifennu mewn tafodiaith yn tansellio Cymraeg Byw Safonol a'r ymgais i'w safoni?   |
| Cyfwelai  | Na, fydden i ddim yn meddwl, na. Darllen ych chi i'r glust. A ma tafodieth, mae'i chystrawen hi'n hollol gadarn. Mae'r un gystrawen â cystrawen y Gymrâg. Na, fydden i ddim yn gweud bod e'n tansellio fe o gwbl.   |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl fod lle i'r iaith safonol a thafodieth yn ein llenyddiaeth felly?  |
| Cyfwelai  | O yn sicir. Chi'n gweud am Cymrâg Byw fan 'na. Fuodd na ffrwgwd yn y chwedege a'r saithdege 'da T. Llew Jones. Odd e'n ffyrnig yn erbyn y Cymrâg Byw. Odd e'n cyfadde odd e'n help i ddysgwyr, ond odd e'n anhawster mowr i'r Cymry Cymrâg naturiol, achos odd e'n cymhlethu pethe iddyn nhw, yn dod â iaith arall iddyn nhw. Odd yr iaith lafar a'r iaith ysgrifenedig, a odd e'n dod â'r Cymrâg Byw hefyd a odd e'n drysu nhw. Odd e'n gwrthod ysgrifennu ynddi i'r Cyngor Llyfre. Odd T. Llew yn awdur poblogedd iawn a odd e'n sgrifennu Cymrâg lled orllewinol. A odd golygyddion 'da'r Cyngor Llyfre wedyn a o'n nhw'n newid ei arddull e i Gymrâg Byw. |

|           |   |
|-----------|---|
|           | <p>A fuodd e'n gweud nad o'n nhw wedi cal yr hawl i 'neud 'ny. A fe enillodd y frwydr 'ny drwy drugaredd. Beth odd ishe odd pontio rhwnt y Cymrâg llenyddol a'r Cymrâg llafar, a 'na beth odd Cymrâg Byw yn ceisio 'neud. A 'na beth odd T. Llew yn ceisio 'neud hefyd i radde, ond odd e'n teimlo na awduron a nid academyddion odd i fod i 'neud e, a mai mater o amser odd hi. Odd e ddim yn ffan o Gymrâg Byw o gwbl.</p> |
| Cyfwelydd | <p>Beth yw rhinwedd defnyddio tafodieth ar draul iaith safonol? A oes rhinwedd?</p>   |
| Cyfwelai  | <p>Os ydy e'n 'neud pwynt, yn sicir.</p>  |
| Cyfwelydd | <p>Diolch yn fawr.</p>  |

|                    |  |
|--------------------|--|
| <b>Cyfweliad 2</b> |  |
| Cyfwelydd:         | Ruth Thomas  |
| Cyfwelai:          | Prifardd Ceri Wyn Jones  |
| Dyddiad cyfweld:   | 13 Awst 2014   |
| Lleoliad:          | Safle Gwasg Gomer, Llandysul   |
| <b>ADYSGRIF</b>    |  |
| Cyfwelydd          | Wyt ti'n ysgrifennu <i>llenyddiaeth mewn tafodiaith</i> , hynny yw, darnau o waith yn gyfan gwbl mewn tafodiaith?  |
| Cyfwelai           | Ma 'da fi nifer o ddarne sydd yn gyfan gwbl tafodieithol, ma 'da fi ddarne sydd yn cynnwys tafodieith a ma 'da fi ddarne sydd, mae'n debyg beth bydde rhywun yn disgrifio fel Cymrâg sy'n safonol neu llenyddol safonol. Felly ma'r ystod 'na yn 'yn sgrifennu i oherwydd ma 'na ystod o gynulleidfaodd yn un peth, a dos dim dwy gerdd yn gofyn am union yr un arddull. Mae'n dibynnu'n llwyr ar beth yw'r testun, ac fel o'n i'n gweud, pwy yw'r gynulleidfa. Mae'n debyg falle mai hwnnw sydd bwysica, pwy yw'r gynulleidfa? Ond bydden i ddim yn ofni defnyddio tafodieith mewn cyd-destune tu hwnt i gynulleidfa leol chwaith. So ma hwnnw falle'n rhwbeth daw mas? (yn y gwaith ymchwil) |
| Cyfwelydd          | Ydy, achos ma 'na ambell i feirniad yn gweud ti'n cyfyngu wedyn i ryw ardal benodol, achos dyw pobol tu hwnt ddim yn deall?  |
| Cyfwelai           | Ie, a dwi'n deall 'ny. Dwi'n cofio darllen yn ifanc gwaith Mark Twain. Yn ifanc, pan o'n i'n grwt dwi'n feddwl nawr, ddim mewn ffordd i allu dadansoddi na dim byd. Stori Huckleberry Finn neu Tom Sawyer o'n i moyn. A pan feddyli di cyment o hwnnw odd wedi cal ei sgrifennu yn nhafodieith de America, hynny yw de yr Unol Daleithie dwi'n feddwl, a mor drwchus ond mor ddigyfaddawd odd Mark Twain hefyd yn 'neud hynny. A fel plentyn o'n i ddim yn meddwl bod e'n anodd achos llenyddieith odd e fel pob llenyddieith arall. A dyw e ddim yn cymryd yn hir i ti weitho mas bo <i>li'l</i> yn golygu <i>little</i> .  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | Ma modd gweitho fe mas?   |
| Cyfwelai  | Ma modd i weitho fe mas. Dwi'n derbyn wrth gwrs ar yr olwg gynta mae'n gallu bod ychydig – mae'n gallu codi ofon ond yw e ar y darllenydd? 'Na pam mae'n dod nôl i'r pwynt cynta o'n i'n 'neud, mae'n dibynnu ar natur y gerdd, natur y gynulleidfa. Beth sydd yn gomig wrth gwrs yw pan welwch chi'n cal ei gyhoeddi mewn llyfre cerddi o bosib odd wedi cal eu bwriadu yn wreiddiol fel caneuon i ddifyrru cynulleidfa benodol, wedi cal eu casglu ynghyd gan rywun a'u cyflwyno rywsut. Achos shwrne mae e'n cyrredd y dudalen mae e'n troi wedyn yn destun llenyddol ond yw e? A mae'n bosib nad odd bwriad yn y byd gan yr awdur i hynny ddigwydd. |
| Cyfwelydd | Ti'n sôn bo ti'n sgrifennu darne yn gyfan gwbwl mewn tafodieth ond ti ddim wedi cyhoeddi nhw yn hon (y gyfrol o gerddi <i>Dauwynebog</i> , 2008)? Fydden i'n dod o hyd iddyn nhw yn rhywle, neu ydyn nhw'n bethe fydde ti'n rhoi i bobol yn hytrach na'u cyhoeddi nhw?  |
| Cyfwelai  | Cwestiwn da. O'n i'n arfer gweitho colofn i'r Teifiseid yn wythnosol, neu'n fisol neu rhwbeth, a fi'n cofio sgrifennu sawl darn rhyddieth i ddechre mewn tafodieth. Ac yn gomic iawn pobol o'r dre ei hunan yn gweud: 'o wy'n cal traferth darllen 'ych gwaith chi achos chi'n mynnu 'neud yr....' – gwed y gair <i>llyfrau</i> , bydde fe'n <i>llyfre</i> . Rhwbeth elfennol nawr, dwi'm yn siarad biti defnyddio tafodieth gyfyng iawn. Dyw hwnna ddim yn golygu bod trwch y bobol – ti'n cal ymateb gan rai. A rhai cerddi hefyd yn sicir oherwydd, 'na ni, wel papur lleol yw'r Teifiseid, gogledd Shir Benfro siwr o fod?                          |
| Cyfwelydd | Odi.  |
| Cyfwelai  | Gorllewin Shir Gâr, de Ceredigion. Ac er fod nifer o dafodieithoedd bychain iawn o fewn, ma 'na rhyw fath o dafodieth gyffredinol sy'n uno cyffiniau'r dair shir?   |
| Cyfwelydd | Wês. Pa gyfnod fydde hynny?   |
| Cyfwelai  | Fydden i'n gweud yng nghanol y 2000. 2004, rhwbeth fel 'na. Cwestiwn arall wrth gwrs yw natur y dafodieth, yn yr ystyr ges i'n fagu yng ngogledd Shir   |

|           |   |
|-----------|---|
|           | <p>Benfro, ym Mhenybryn, ac wedyn mynd i'r ysgol gynradd am gyfnod yng Nghilgerran. Felly ma dylanwad tafodieth gogledd Shir Benfro yn gryf arnai, ond wrth gwrs yn Aberteifi dwi 'di byw trwch 'yn amser. Hefyd ma 'da fi dad sy'n fab i weinidog sydd wedi symud. Gath e ei eni yng Nghastell-nedd a'i dad yn ogleddwr o ardal y chwareli, yn Blaenau Ffestiniog. Felly mae'n naturiol i fi ddweud <i>gorffen</i>, <i>cwpla</i> a <i>bennu</i> heb unrhyw drafferth. A ma hwnna'n wir am lawer 'to. Fel dwi'n gweud y fath o dafodieth gyfansawdd 'ma sy 'da ni. Ma sawl math o dafodieth i gal. Ma tafodieth blwyfol iawn a wedyn ma 'na rhyw fath o dafodieth gyffredinol ti'n gwbod? A dwi'n credu mai yn y dafodieth gyffredinol dwi 'di sgrifennu. Oherwydd 'to ble dwi 'di byw. Oherwydd mam o Lanelli wedyn. So ti'n cal y ffeithie 'ma i gyd. Hefyd fel rhywun bydde 'di cal addysg eitha Seisnigedig ar y cyfan. Ma hwnna'n dylanwadu hefyd ond yw e? Ti'n defnyddio wés fan 'na jyst nawr. Dwi'n defnyddio – fel ma plant Aberteifi yn defnyddio – wés ac ôs. Dwi'm cweit yn siwr – dwi'n gwbod pam mae e yn digwydd – dwi ddim yn credu dwi'n gwbod shwt dwi'n tynnu'r gwahanieth, pryd dwi'n defnyddio wés a pryd dwi'n defnyddio ôs?</p> |
| Cyfwelydd | Ydy e'n dibynnu pwy ti'n siarad â?  |
| Cyfwelai  | Sai'n gwbod, sai byth 'di meddwl biti 'ny. Fydde nhw (y darnau yn y Teifiseid) ddim mor benodol dafodieithol â rhywun fel W. R., ond fydda nhw yn dafodieth gyfansawdd, wel 'y nhafodieth i te. Nid o fwriad dwi'n defnyddio fe, jyst fel 'na dwi'n siarad.   |
| Cyfwelydd | Wyt ti'n ysgrifennu <i>tafodiaith mewn llenyddiaeth</i> ? Ma dou fath – ma cerddi lle ma pobol yn defnyddio ambell air tafodieithol, neu mewn rhyw stori neu ysgrif ma nhw'n defnyddio tafodieth mewn deialog pan ma nhw'n disgrifio shwt ma pobol yn siarad.   |
| Cyfwelai  | Ma hwnna'n rhwbeth naturiol iawn. Ma hwnna'n eitha hawdd i ddiffinio i'r awdur. Ma darllenwyr siwr o fod yn teimlo'n weddol gysurus gyda'r math 'na o ysgrifennu. Dwi'n gwbod mod i weithie yn defnyddio tafodieth er mwyn lleoli cerdd, er mwyn i ddarllenwydd neu wrandawr i werthfawrogi bod 'na berthynas weddol agos rhwng beth sy'n cal ei 'weud, a'r lle mae e 'di cal ei 'weud. Yn <i>Dauwynebog</i> 'ma – ma nhw'n astudio ngherddi i Lefel A a yn eu cyrsie gradd – ma un ohonyn nhw, 'Hen Wŷr y Môr', sydd i   |



|           |   |
|-----------|---|
|           | <p>bob pwrpas wedi ei lleoli wrth aber afon Teifi, Patsh, a ma fe'n enw hyll. Ma fe'n lle godidog. Ma enw hyfryd dwi 'di darganfod ers 'ny, i'r trwyn o drath sy 'na – Pen yr Ergyd yw hi, ond Patsh ma pawb yn nabod e. Ma 'da fi gerdd sydd yn ymwneud gyda 'y mherchnogeth i o'r rhan 'ma, a'r ffaith bo rhaid i fi – dwi ddim yn berchen e wdw i, mwy na yw'r twristied sy'n dod ac yn y blan. A dwi'n defnyddio, fel 'y nisgrifiad o'r môr, bod y môr yn cal ei gythruddo wrth i'r bobol ddiarth 'ma ddod a pheido parchu fel petai beth sy 'na. Yn disgrifio 'yn dablen hyd at wenw'n'. Ma <i>dablen</i> yn air sydd yn golygu cwrw cartre i ddachre, 'na beth yw <i>tablen</i>, ond mae 'di mynd i olygu bod yn feddw, yn dablen. Fel sydd yn digwydd i eire, ma'r enw'n troi yn ansoddair. Felly gan bod hwn yn benodol yn ymwneud gyda 'yn ardal i – odi mae mewn Cymrâg safonol drwyddi – ond o'n i moyn rhyw fath o liw. A'r un peth â'r gair <i>gwenw'n</i>. Wrth i fi fynd rownd Cymru – ma pobol yn gwahodd dyn i ddod i siarad am y cerddi 'ma gyda disgyblion, ac wrth gwrs where teg ma athrawon a phlant yn gallu 'neud eu gwaith ymchwil – a ma nhw'n gofyn beth yw hwn, y <i>gwenw'n</i> 'ma? Wel <i>gwenw'n</i>, ddim cweit yn <i>wenw'n</i> a ma ishe esbonio wedyn mai rhyw fath o ddiellonrwydd yw e ac yn y blan. Mae e'n weddol o ffurfiol drwyddi ond ma rhyw air neu ddau man hyn man co jyst i atgoffa. Fe allen i fod wedi ysgrifennu'n gyfan gwbl mewn tafodieth, ond i radde wrth gwrs mae peidio gwneud hynny yn cydnabod mod i'n siarad gyda mwy na dim ond 'y nghynulleidfa bersonol i getre yn y gerdd 'na, achos ma 'na ranne erill o Gymru mae'n debyg allai uniaethu gyda'r un profiad. Yn yr un modd dwi'n defnyddio'r gair <i>twrist</i> yn lle'r gair <i>ymwelydd</i>, o fwriad. Gair Saesneg allech chi 'weud, ie, ond ma 'na fyd o wanieth rhwng twristied ac ymwelwyr. I fi ma 'na berthynas gan ymwelydd â'r lle mae e'n dod iddo fe rywsut. Mae e 'na ar ddealltwriaeth, mae e 'na ar wahoddiad yn amal, neu mae e 'na am fod e wedi gofyn am wahoddiad, a ma 'na barch y ddwy ffordd. I twrist, un ffordd ma'r berthynas honno yn gweitho. Ma honna'n esiampl mae'n siwr o'r tafodieth mewn llenyddieth ti'n siarad am?</p> |
| Cyfwelydd | <p>Ti'n sôn 'ma (yn y gyfrol <i>Dauwynebog</i>) am John Davies, a'r gair <i>cefen</i>. Dwi wedi gweld <i>rhoces</i>, <i>wéth</i>, ambell i air. Felly ti'n defnyddio ambell i air, jyst i atgoffa pobol?</p>  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Yn union. I atgoffa'n hunan, ac i atgoffa pobl erill. Wel yn sicir gyda'r cerddi i John. O'n i'n nabod e'n grwt. O'n i'n byw yn Penybryn a ma Boncath mor agos i Benybryn. Ma 'na fyd o wanieth dwi'n gwbod rhwng Aberteifi a Boncath, ond wrth gwrs fues i'n byw rywsut ar y bont honno rhwng y ddwy shir. A felly wrth gwrs odd e'n naturiol i ddefnyddio geirie tafodieithol wedyn. Wel 'John Cilrhue' yw teitl y gerdd. Ti yn ei leoli fe, ti moyn cymryd e mas o'r cyd-destun cenedlaethol er ei fod e yn arwr i lawer oherwydd ei orchestion cenedlaethol. Ti ishe atgoffa pawb mai un ohonon ni yw e, a ma fe ei hun yn arddel hynny yn gryf iawn.   |
| Cyfwelydd | Mae ei hunangofiant e'n dafodieithol iawn? ( <i>Dala'r slac yn dynn</i> , 2013)   |
| Cyfwelai  | Ond yw e? A mae ei ddiolchgarwch e, neu ei werthfawrogiad e o'i wreiddie fe yn hynod. Ie, felly mae'n eitha naturiol, y math o eirie sydd fan hyn (yn y gerdd 'John Cilrhue'), heb sôn am y lleoliade wrth reswm, a'r cyfeiriade at y Preseli.  |
| Cyfwelydd | Ond fyddet ti ddim wedi cynnwys cerddi tafodieithol, rheina ti 'di cyhoeddi, fel yn y Teifiseid, fyddet ti ddim wedi cyhoeddi nhw yn hon? ( <i>Dauwynebog</i> )   |
| Cyfwelai  | Cwestiwn da. A odd e'n fwriad i fi beido? Y rheswm fydden i ddim wedi, bydde fe'n ymwneud mwy mae'n siwr â chynnwys y cerddi na fyddet fe ag arddull neu lais y gerdd. Er mae'n bwynt da. Yn yr ystyr bo ti'n gwbod bod pawb yn deall beth odd y cymeriade i gyd. Dyna un peth odd yn fentrus gyda awdl y Gader 'leni (enillodd y Cyfwelai'r Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr, 8 Awst 2014), odd o'n i'n fwriadol yn cyfeirio at lefydd fyddet ar y darlleniad cynta mond yn taro tant gyda rhai pobol, ond ma fe'n rhan o arwyddocâd yr awdl 'fyd, wrth reswm. Ma'r ffaith fod gair neu eirie yn dafodieithol, neu bod lleoliade yn ddierth, shwrne chi'n cal esboniad neu'n dod i ddeall neu rhywun yn dweud wrthoch chi neu beth bynnag, ma nhw 'di stopio bod yn ddierth yn syth, yn syth bin. Dÿn nhw byth yn mynd i fod yn ddierth i chi eto. A dyna pam dwi'n credu bod e yn bwysig i fentro gyda rhywfaint o dafodieth neu beth bynnag. Achos ti a fi (deheuwr) wedi hen arfer â gorfod deall tafodieithoedd y gogledd dweder, a dyw e ddim yn broblem i ni. |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Beth yw dy farn di am ddefnyddio tafodieth mewn llenyddieth?   |
| Cyfwelai  | <p>Y gamp yw'r bwriad. Wrth ddefnyddio fe, ydy'r awdur yn ymwybodol o unrhyw effeth mae'n mynd i gal trwy ddefnyddio hyn? Fe alle o fwriad ishe dieithrio dros dro. Ma hwnna'n iawn hefyd, mae e'n dechneg. Ma fe'n ymwneud â beth sy gan y gerdd i 'weud yn y lle cynta. Os yw e'n gydnaws 'da hynny, am ba bynnag reswm, yn syniadol neu'n emosiynol neu beth bynnag, ma pob cyfiawnhad drosto fe. Felly na, dwi ddim yn gwrthwynebu o gwbl a dweud y gwir. I radde dwi'n credu bod e'n atgoffa ni fod amrywieth yn para i fod yn ein Cymrâg ni. Achos un ofon fydde 'da fi fydde gweld rhyw fath o safoni cenedlaethol. Ma rhaid i ni gal hynny, dwi'm yn ame hynny o gwbl. Ma ishe'r Cymrâg safonol. Ma dyn yn ceisio ysgrifennu 'na yn y lle iawn ac yn y man iawn. Ond ma 'na rhyw rym yn y syniad fod rhai geirie, rhai ymadroddion, mond yn perthyn i rai ardaloedd. A ni'n parchu rhai ardaloedd oherwydd hynny, a mae e'n rhoi hunanieth iddyn nhw fydde ddim yn bodoli o bosib heblaw hynny. Felly ychwanegu cyfoeth mae'n 'neud. Dwi'n derbyn y gall e ddrysu, dwi'n gwbod hynny. Ma hwnna'n sefyll i reswm ond yw e? Ond dyna pam mae'n dod nôl i fwriad yr awdur. Beth mae e'n gobeitho cael mas o ddefnyddio fe. Neu efalla mai hon yw'r unig ffordd sy 'da ge o 'weud rhywbeth. Wel ti'n parchu 'na 'fyd ond wyt ti? Ma hynny'n adrodd cyfrole am y bardd a'i fagwreth. Felly odw, wy o blaid.</p> |
| Cyfwelydd | Beth yw rôl neu swyddogaeth llenyddieth dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | <p>Wel ar un ystyr, tynnu sylw at y gwahaniaethe. Dwi'n credu bod e'n gyhoeddiad bach tawel sy'n dweud: 'dyma fi, dyma shwt dwi'n siarad, ac o'r herwydd dyma shwt dwi'n mynegi'r ffordd dwi'n gweld y byd.' Sy'n beth mowr yng Nghymru ond yw e? Ma'r rhan fwya o'n hawduron ni wedi eu gwreiddio ond yn nhw? Fe eith e'n llai gwir dwi'n credu. Ma lot o awduron 'da ti sy'n sgrifennu yn yr ieithoedd imperialaidd, yr ieithoedd mawr – Saesneg, Sbaeneg, Ffrangeg, rheiny. Diddorol, ma nhw'n gweld eu hunen fel dinasyddion y byd ond yn nhw? Ac yn amal ma nhw ar ras i 'weud y gwir i wasgu y pentre bach lle gethon nhw eu geni, neu'r</p>   |

|           |   |
|-----------|---|
|           | stryd yn y ddinas lle gethon nhw – na, na, ma nhw ishe bod yn ddinasyddion y byd. Ma cyment o lenorion Cymru ishe dehongli'r byd o'u pen stryd nhw, neu o drothwy'r drws. A ma hwnna'n gyfoethog. Dwi'n gwobod gall e arwen at blwyfoldeb, ond ma lot o'r cerddi 'ma sydd yn dafodieithol, neu sydd yn lleol iawn, ma nhw'n feicrocosms 'fyd o'r ffordd ma'r byd mawr yn gweithio tu hwnt. Ddim wastod, ond ma nhw'n gallu bod. Ond ma'r syniad 'na bod e'n gwreiddio yr awdur, a falle bod e'n baglu ac yn cyfyngu arno fe 'fyd, pwy a wŷr? Ond mae e'n dweud 'o fan hyn dwi'n dod.'                               |
| Cyfwelydd | Oes 'na werth felly mewn llenyddieth dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Wel am y rheswm hwnnw, bydden i'n meddwl fod e.   |
| Cyfwelydd | Ond ife gwerth lleol yw e?  |
| Cyfwelai  | A, reit.  |
| Cyfwelydd | A'r cwestiwn nesa hefyd, a yw llenyddieth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen? Ma peder cyfrol yn y gyfres <i>Wês Wês</i> fan hyn, wedi eu cyhoeddi yn y 70au, 80au, sy'n gyfan gwbl yn nhafodieth Shir Benfro. Odi'r rhain yn benodol ar gyfer darllenwyr Shir Benfro?  |
| Cyfwelai  | Wel ti'n mynd nôl at y cwestiwn beth odd bwriad yr awdur? Gyda phwy mae e am gyfathrebu? Ac os mai gyda phobol Shir Benfro ma fe moyn llefaru, wel clatshed e neu hi mlan, wy'n credu bod e'n hollol iawn. Nid gweithred fwriadol i gau pobol mas odd hwnna.  |
| Cyfwelydd | Ond i ddiogelu?   |
| Cyfwelai  | Ie, ar un ystyr, a chan wbod fod nifer o'r rhai fydde'n darllen y gyfrol hon, o bosib, dyma'r unig fath o Gymrâg y bydde nhw yn gartrefol yn ei darllen. O bosib, allai ddim gweud, dwi ddim yn arbenigwr fan 'na, ond ma hynny'n bosib. Felly ti siwr o fod fan 'na, ti'n mynd i'r pegwn eitha oddi wrth y 'tafodieth mewn llenyddieth' fuo ni'n trafod ar y dechre, fel 'y nefnydd i o <i>dablen</i> a <i>gwenw'n</i> ? A lle ma ngherdd i fan 'na, 'Hen Wŷr y Môr', dwi'n gobeitho yn llefaru tu hwnt i'n filltir sgwâr i, er taw cerdd am y filltir sgwâr yw e, cerdd, straeon ac yn y blan o'r filltir sgwâr i |

|           |   |
|-----------|---|
|           | bobol y filltir sgwâr yn nhw. Fe ca nhw eu darllen mae'n siwr – o bosib bydde pobol yn Gaerdydd sydd â'u gwreiddie yn Shir Benfro, o bosib yn gweud 'o dwi'n cofio Mamgu yn defnyddio'r gair 'na.'  |
| Cyfwelydd | A ma 'na eirfa ar y diwedd, os yw pobol ishe darllen a ddim yn siwr?  |
| Cyfwelai  | Da iawn. Ac yn amal iawn ma darllen yr eirfa ar y diwedd yn gallu bod llawn mor ddiddorol â darllen y straeon eu hunen. Ma hwnna'n beth da dwi'n credu. Pwy olygodd rheina? Gwyn Griffiths?   |
| Cyfwelydd | Gwyn Griffiths a John Phillips ar y dechre, a'r ddou ddiwetha dim ond Gwyn Griffiths.   |
| Cyfwelai  | Mae'n od. Ma nhw'n lyfre dwi 'di clywed, a am wn i falle bo fi wedi gweld nhw mewn siope llyfre ail law. Mae'n rhyfedd, dwi'n barnu weithe mewn steddfoe a ma pobol yn dal i gyflwyno straeon byrion neu ysgrife (mewn tafodiaith), yn Shir Benfro tipyn, yn enwedig tua Lland'och neu yn Steddfod Crymych, a fe gei di e ti'n gwbod.           |
| Cyfwelydd | A dyw'r gystadleueth ddim yn gofyn am ddarne tafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Na, 'na beth sy'n grêt. Felly yn hynny o beth ma'r sawl sydd yn ei medru hi, ma nhw'n 'neud heb ofon, diolch i'r drefen. Bydde'n werth studio shwt ma'r dafodieth 'na wedi newid falle, se rhywun cyfatebol yn sgrifennu deugen mlynedd nôl mewn tafodieth. Sgwn i beth fydde'r dirywiad ar dafodieth hyd yn od, dim jwst dirywiad ar y Gymrâg? |
| Cyfwelydd | Ydy darllenwyr yn medru deall a gwerthfawrogi gweithie mewn tafodieth? Ma Mike Jenkins wedi cyhoeddi tair cyfrol, o gerddi yn benna, yn nhafodieth Saesneg Merthyr. Fydde Gwasg Gomer er enghraifft yn barod i gyhoeddi cyfrole tafodieithol Merthyr?   |
| Cyfwelai  | Ma hwnna'n ffordd dda o'i ofyn e. A fydde Gwasg yn fodlon 'neud? Ma dou beth fan 'na – ma 'da ti penderfyniad llenyddol a phenderfyniad masnachol. Os yn ni'n credu fod digon o bobol yn mynd i brynu fe, fe gyhoeddwn ni siwr o fod.   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | Fydde chi'n rhoi hwn mewn siop yn Aberteifi? Faint fydde'n prynu hwn, neu fydde'r gynulleidfa wedyn i gyfrole fel hyn yn ardal Merthyr?   |
| Cyfwelai  | Diddorol. Ti'n gwbod hyn – ma 'na fyd o wahanieth rhwng y gyfres <i>Wês Wês</i> a thafodieth Shir Benfro, sydd yn benodol, sydd yn daearyddol weddol gyfyng, hyn a hyn o filltiroedd sgwâr, eitha bach siwr o fod. Fydden i'n gweud gyda thafodieth Merthyr, fod e'n ddealladwy i lawer o bobol yn y Cymoedd, nad yw e'n gyfyngedig mond i Merthyr. Nad yw eu tafodieth nhw – achos mai Saesneg yw e – mor benodol â yw yr un Gymrâg. Ac felly bod 'da ti critical mass o ddarllenwyr yn fwy. Ond 'to, nôl at y penderfyniad masnachol 'ma. Ti'n gweitho mas wedyn, reit a wês digon o bobol sy'n gallu darllen hwn, ti'n gweud i ddechre? Ody rheiny yn bobol sy yn darllen barddonieth? Odyn nhw'n bobol sy'n fodlon prynu cyfrole fel hyn? Ac yn sydyn ti'n meddwl, ym, falle nad yw hwn yn fenter fasnachol. A dyw hwnna ddim i ddifrio neu dibrisio gwerth llenyddol y darne o gwbl.   |
| Cyfwelydd | Fydde hwnna wedyn yn 'neud 'ych penderfyniad chi fel Gwasg? Sdim digon o gynulleidfa, newn ni ddim gwerthu digon fan hyn?   |
| Cyfwelai  | Gwasg fasnachol yn ni, gyda phob peth. Wrth gwrs ma Mike Jenkins yn awdur cydnabyddedig, dim problem, a mae e'n gallu sgrifennu mewn sawl dull gwahanol. Ond mae e'n fachan sy'n driw iawn i'w weledigeth e o dyma'r math o iaith sydd ishe ar y cerddi arbennig hyn. Falle os ysgrifenna i 'fory, fydd e'n wahanol. Atebes i – odd lot o gwestiynne yn dod wrth reswm ar ôl y Cadeirio ddydd Gwener – achos ma pethe yndo sy'n bethe hollol naturiol i fi ac i bobol leol, pobol o nghanhedleth i falle ac o weledigeth debyg. Ond i bobol erill ma nhw'n edrych yn ddierth iawn. O'n i'n esbonio i rywun, ma'r gerdd 'na i Aberteifi. Dwi 'di dewis yr ardal 'na am ei fod e'n siwto'r gerdd 'na. Wedes i os â i am wâc lan i ben Foel Drygarn 'fory, mae'n annhebygol iawn y bydd y gerdd sy'n deillio o'r profiad hwnnw yn debyg o gwbl yn ei harddull i'r gerdd, i'r 'Lloches'. Dwi'n ailadrodd hyn achos mae'n beth pwysig, y syniad 'ma pwy yw'r gynulleidfa, beth ma'r bardd am ei 'weud? A'r un peth 'da Mike Jenkins. Hynny yw, fe alle fe fod wedi sgrifennu rheina mewn arddull |

|           |  |
|-----------|--|
|           | wahanol, fwy cynhwysol ond bydde ddim hanner y grym ynddyn nhw fel cerddi. Ac o bosib i'r – dwi ddim yn gwobod faint – gweda i'r dou gant o bobol sy'n darllen y llyfyr 'na, mae e'n llawer gwell bod e ffor 'na, na bod 'na bedwar cant wedi darllen e yn yr arddull fwy safonol.   |
| Cyfwelydd | A mae e'n cyhoeddi cyfrole mewn iaith safonol hefyd. Mae e'n cyhoeddi cymysgedd.   |
| Cyfwelai  | Wrth gwrs ei fod e, a dyna sy'n ddifyr ondyfe? Ma 'na elfen o hwnna'n rhedeg trw'r cwestiynne i gyd, dy ymwybyddieth di mai rhwbeth cymharol brin yw canu tafodieithol yn unig. A ma'r rhan fwyaf o'r beirdd siwr o fod y byddi di yn eu cynnwys nhw yn dy astudieth yn rhai sydd yn symud yn weddol gyffyrddus rhwng y ddou beth? |
| Cyfwelydd | Odyn.<br><br>Beth yw cyfraniad y gerdd 'Pwllderi' gan Dewi Emrys i lenyddieth dafodieithol? Ma hi'n rhif 47 yn y gyfrol <i>Hoff Gerddi Cymru</i> , sy'n tipyn o gamp?  |
| Cyfwelai  | Dwi'n meddwl y byd o 'Pwllderi'. A ma cysur mawr hefyd yn y syniad hynny. Mae'n dod nôl at cyment o'r cwestiynne ti'n holi. A bron yr esiampl wyt ti'n tynnu mas, dy trump card di bob tro: 'beth am 'Pwllderi' Dewi Emrys te'? Yn sicir. Mae yn yr <i>Oxford.....</i> , odi e yn yr <i>Oxford Book of Welsh Verse</i> ?           |
| Cyfwelydd | Odi.   |
| Cyfwelai  | Mae e ond yw e?  |
| Cyfwelydd | A 'Y Gorwel', y ddwy gerdd.  |
| Cyfwelai  | Ma hwnna'n gweud rhwbeth ond yw e, bod Thomas Parry.....?  |
| Cyfwelydd | Ydy, dwi wedi sôn am 'na yn barod (yn y traethawd).  |
| Cyfwelai  | Achos mae'n gyfrol eitha rhyfedd, yr <i>Oxford Book of Welsh Verse</i> . Ond i feddwl bod hwnna – achos ma fe'n eithriad i real Thomas Parry bron.   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | A Dewi Emrys yn erbyn yr academyddion. A'r eironi yw bod Thomas Parry wedi cyhoeddi ei gerdd dafodieithol e?  |
| Cyfwelai  | Ie. Alle ti ddweud bod e wedi cyfreithloni canu tafodieithol.   |
| Cyfwelydd | Achos mae bron yn gamlwydd ôd, 1926.  |
| Cyfwelai  | Ife?  |
| Cyfwelydd | Nath hi ennill yn Abertawe, 1926. A mae'n dal i fynd?   |
| Cyfwelai  | Peth arall dwi wastod yn meddwl biti Dewi Emrys. Dwi'n credu bod tafodieth Shir Benfro yn un sy'n gymeradwy gan shiroedd erill yng Nghymru. Dwi'n argyhoeddedig, a dwi ddim yn gwbod ai oherwydd Dewi Emrys? Na, bydde fe'n ormod o 'weud i 'weud hynny. Ond ma pobol wastod wedi meddwl 'o Shir Benfro' a dyw e ddim yn wir am bob tafodieth falle. Ond ma Shir Benfro, ma nhw'n lico'r ffaith bod 'yn cege ni mor fain pan ni'n gweud 'yn llafaried ni, a ma nhw'n lico dynwared yr eirfa.  |
| Cyfwelydd | Fel pan ddath Eisteddfod yr Urdd i Shir Benfro llynedd?   |
| Cyfwelai  | Anwyldeb sydd wrth wraidd hynny, sdim dowt, felly mae'n gymeradwy. Whare teg mae'n gerdd – tynnu di'r dafodieth o'r gerdd, sdim byd yn y gerdd sydd yn dieithrio'r darllynydd. Yn yr ystyr ma 'na fynediad hawdd i'r gerdd, a ma'r syniadeth sydd ynddo fe, dyw e ddim yn gorfod bod yn unrhyw beth i 'neud â Sir Benfro, ond Shir Benfro odd e. A ma'r cyfoeth ychwanegol sydd yn dod oherwydd hynny. Felly dyw e'm yn broblem. Mae 'di 'neud ffafre mawr â chanu tafodieithol yn hynny o beth, achos mae 'di gweud 'ydy, mae'n bosib i 'neud hynny.' Whare teg hefyd, mae e'n troedio'n weddol ofalus y ffin 'na rhwng tafodieth mewn llenyddieth, llenyddieth mewn tafodieth fydden i'n gweud. Mae'n gwbod beth mae e'n 'neud. Dyw e ddim yn hollol Shir Benfro i gyd. Yn yr ystyr alli di wrondo arno fe a ti'n meddwl, ym, na, mae e'n gwbod beth mae e'n 'neud. Mae'n ddigon safonol hyd yn oed o fewn y dafodieth. Ma 'na urddas iddi fel cân. Ac yn amal yn ni'n meddwl am gerddi tafodieithol fel pethe ffwrdd â hi ond odyn |



|           |   |
|-----------|---|
|           | ni? Neu pethe slic ac yn y blan. Ond na, sdim rhaid iddyn nhw fod. Alla nhw fod mor goeth a mor o ddifrif ag unrhyw fath arall o farddoni bydden i'n gweud.   |
| Cyfwelydd | Beth am W. R., beth yw cyfraniad W. R. Evans? Mae e 'di cyhoeddi'r gyfrol hon ( <i>Cawl Shir Bemro</i> ) yn gyfan gwbl mewn tafodieth. A 'Bois y Frenni'?   |
| Cyfwelai  | Fel o'n i'n sôn ar y dechre am y ffordd ma caneuon – mae'n holl bwysig bod darlennydd yn ymwybodol o gyd-destun creu rhai o'r pethe hyn. Y peryg yw bod rhywun yn codi un o ganeuon 'Bois y Frenni', ac yn meddwl wel 'na beth yw dwli ondyfe? Allwn ni byth ystyried hwn yn llenyddieth ac yn y blaen. Felly 'to, diddanu cynulleidfaoedd odd pwrpas cymint o'r rheiny.  |
| Cyfwelydd | Achos ma nhw 'di cyhoeddi yn eitha diweddar cyfrol o gerddi 'Bois y Frenni', ar ôl marw W. R. Dŷn nhw gyd ddim yn rhai tafodieithol, ond ti ddim yn meddwl bod rheiny wedi bwriadu cal eu cyhoeddi, achos canu nhw ti fod i 'neud, nid eu darllen nhw?<br><br>(Aeth y Cyfwelai i ôl copi o'r silffoedd, gan mai Gwasg Gomer gyhoeddodd y gyfol hon, yn 2000)  |
| Cyfwelai  | Gyda'r gyfrol, reit odd 'na elfen o dalu teyrnged i W. R. fan 'na ond odd e? Ma 'na gyflwyniad gan Dic sydd yn gwneud hynny. O ran y cerddi, dwi'n ffeili siarad ar ran W. R., ond bydde fe wedi ishe rhoi'r cyd-destun dwi'n siwr cyn i rhywun weld nhw. Ond 'na fe, where teg, cerddi 'Bois y Frenni' mae'n dweud yn hytrach na cerddi W. R. Evans. Ar un ystyr ma nhw'n fath o ganu. A ma nhw'n rhagorol. A ma lot o'r rhein wedi goroesi, a ma 'na bobol o ardalodd erill sy 'di cael gafael yn rhai o'r rhein. Mae'n od, dwi'n clywed bois, wel ugen mlynedd a mwy yn ifancach na fi, bois sy yn y côr 'da fi ond sy'n dod o wahanol ardalodd o Gymru, yn canu 'Lemonêd' er enghraifft. A ti'n cal rhywun o Fangor yn canu fe, a ti'n meddwl ffantastig ondyfe? Ma diffinio llenyddieth wastod yn anodd ond yw e? A wyt ti'n ystyried bod y caneuon hyn yn bethe i'w gosod nesa at, dweder 'Pwllderi'? Os yn nhw, ma nhw'n pylu wrth gwrs. Ond, na, math arall. Ma gwanieth rhwng cyhoeddi barddonieth a ysgrifennu fe neu berfformio fe. Dwi'n credu bod hwnna'n werth nodi ond yw e? Ond mae'n amlwg bod Gomer |

|           |  |
|-----------|--|
|           | <p>yn 2000 yn meddwl bod 'na, ac mae'n siwr y bydde fe wedi gwerthu yn dda, achos mae'n ardal lengar, diwylliedig. W. R. yn gymeriad odd yn hoffus iawn, ac yn annwyl tu hwnt i fro ei febyd, parch mowr iddo fe. Felly 'to odd e yn un o'r rheina odd yn gallu symud rhwng y ddou fyd, o ganu jyst mewn tafodieth neu defnyddio tafodieth mewn canu. W. R. yn agos at ennill y Gader. Sneb yn meddwl amdano fe fel 'na. Ni'n meddwl am y difyrrwr a'r athro a'r hyfforddwr. Ti'n cofio fe o gwbl?</p>       |
| Cyfwelydd | <p>Na, dwi ddim. Ath e i'r Barri, wedyn dath e nôl i Abergweun, a wedyn ath e i Lanelli.</p>   |
| Cyfwelai  | <p>Dwi'n cofio – bydde fe siwr o fod yn gyfoeswr i nhaid, o'n i'n clywed lot amdano fe. Dwi'n cofio, 1990, cal 'y ngofyn i gyfarch bardd yn Eisteddfod Aberteifi, yn yr Ŵyl Fawr. A W. R. wedi ennill y Gader. A <i>Awen y Moelydd</i>, ma digon o hwnna sydd yn glasurol a dweud y gwir.</p>  |
| Cyfwelydd | <p>A wêdd e ddim yn hoffi'r teitl – mae e wedi gweud yn un man bod e ddim yn hoffi cal ei alw'n fardd digri, achos ei fod e wedi sgrifennu cerddi difrifol hefyd.</p>  |
| Cyfwelai  | <p>Ti'n dod nôl at y peth tafodieithol. Ti'n clywed tafodieth, ti'n dueddol o feddwl o ie, ma hwnna siwr o fod yn ysgafn, yn enwedig gan fod gan dafodieithodd gymint o eirie sydd yn ddigri i bobol erill.</p>  |
| Cyfwelydd | <p>Achos ma tafodieth yn amal yn cal ei gysylltu gyda chanu digri neu pobol israddol yn y gymdeithas?</p>  |
| Cyfwelai  | <p>Wrth gwrs ei fod e, yn naturiol, pobol nad odd yn medru canu yn yr arddull hafal. W. R. wrth gwrs, ma beth ti 'di gweud yn holl bwysig, y cysylltu 'ma sydd gyda bod yn ddigri. Ma geirie tafodieithol pobol erill yn swno'n ddigri. <i>Pentigily</i>, ma fe'n chwerthinllyd, ond i'r sawl sy'n llefaru fe, dim ond ystyr y gair chi'n gweud. Ond bydde neb yn meddwl am <i>Un Nos Ola Leuad</i> fel nofel ddigri, er bod honno'n llawn tafodieth 'fyd. Felly falle mai jwst rhai tafodieithodd yw e.</p> |
| Cyfwelydd | <p>Beth yw cyfraniad y pedair cyfrol <i>Wês Wês</i> i lenyddieth dafodieithol? Dwi ddim wedi dod ar draws cyfrole tebyg mewn unrhyw dafodieth arall. Ma'r rhein yn unigryw felly?</p>  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Mae e'n ymwneud 'to â'r ymhyfrydu mewn tafodieth, sydd yn rhan o'r profiad Shir Benfro. Ma pobol Shir Benfro, pobol gogledd Shir Benfro, yn lico siarad eu tafodieth.  |
| Cyfwelydd | Yn fwy balch o'u tafodieth?  |
| Cyfwelai  | Yn falch hynod ohono, dwi'n credu.   |
| Cyfwelydd | Yn fwy na ardalodd erill?  |
| Cyfwelai  | Sdim dwyweth 'da fi. Ma nhw'n rhoi bri arno fe. Ac o bosib bo hwnna'n ymwneud gyda'r ymwybyddieth gref iawn o werth diwylliant a gwerth iaith. A mae'n wir am yr ardal ond yw hi? Ma barddonieth, ma canu, eisteddfota, y math 'na o weithgaredd yn bwysig i'r bobol hynny, a ma iaith yn greiddiol i hynny. A ma grân iaith yn ganolog i hynny, a ma dawn dweud mewn iaith yn bwysig iddyn nhw felly. Ma gallu dweud rhwbeth mewn ffordd fachog, a dweud e yn eich tafodieth eich hunan – chi'n plesio eich pobol eich hunan felly wrth wneud hynny. Sdim rhyfedd bod W. R. yn shwt arwr, odd e'n siarad yr un iaith â'r bobol hyn. A mae'n wir am Dic hefyd, Dic Jones, yn siarad â'i bobol yn eu hiaith nhw, ac o bosib yn dylanwadu ar eu hiaith nhw hefyd. Claturwr mawr odd Dic fel bardd, yn y bôn, claturwr mawr, mawr. Ond pawb yn meddwl amdano fe wrth gwrs, ffraethineb ac yn y blan. Ie, ond ffraethineb wedi ei fynegi yn goeth ofnadw odd e. A ma fe'n un o'r rhein, defnydd o dafodieth mewn llenyddieth sy 'da ge gan fwya, ac eithrio'r pethe sydd yn fwriadol. 'To, ysgrife 'da ge yn <i>Golwg</i> weithe, odd yn hollol dafodieithol, a rhai cerddi. Ond falle bod e'n wir....., odi e'n wir? Dod nôl at y pwynt odd 'da fi ar y dechre, am y ffordd ma gogledd Shir Benfro, godre Ceredigion, gorllewin Shir Gâr yn ffinio, a'r dafodieth gyfansawdd. Dwi'n credu bo hwnna'n wir am rhywun fel Dic hefyd, godre Ceredigion, ond wrth gwrs ei deulu fe yn dod o ogledd Ceredigion hyd yn od, so bydde dylanwade iaith gwahanol arno fe. A'r dre wedyn, Aberporth a'r holl fynd a dod o ran y maes awyr, yr uned ymchwil a'r awyrlu ac yn y blan. Lot o ddylanwade 'na. Bydde fe'n anodd gweud bod gan odre Ceredigion dafodieth sydd mor benodol ag un gogledd Shir Benfro. A sdim byd yn bod 'da 'ny. Naturiol, ti'n byw yng nghysgod tre, mae'n 'neud gwanieth. Ac yn hanesyddol ma'r dre, wel yn dal yn |

|           |   |
|-----------|---|
|           | wir, ma'r dre ochor Ceredigion i'r afon, felly mae e'n naturiol fod 'na fwy o ddylanwade estron, ie, ond hefyd gynhenid, ar y Gymrâg sy'n cal ei llefaru fan 'na.   |
| Cyfwelydd | Wyt ti'n meddwl bod e'n bwysig fod y beirdd, a'r awduron fan hyn (yn y cyfrolau <i>Wês Wês</i> ), W. R. a Dewi Emrys, wedi hybu llenyddieth dafodieithol Sir Benfro?  |
| Cyfwelai  | Digwyddiad bo nhw 'di 'neud e o fwriad. Nid manifffesto dros ganu tafodieithol.   |
| Cyfwelydd | Ond yn naturiol?  |
| Cyfwelai  | Gwneud yr hyn o'n nhw'n 'neud odd e. Dewi Emrys, ma hwnna falle yn fwy diddorol.  |
| Cyfwelydd | Achos bod e'n fardd eisteddfodol?   |
| Cyfwelai  | Ie, achos cystadleueth. Cerdd gystadleuol odd hi ondyfe?  |
| Cyfwelydd | Ie, 1926. Fe ddath yn gydradd gynta, ond ma'r gerdd arall wedi hen ddiflannu?   |
| Cyfwelai  | Ie, ffantastig, ti'n ffeili penderfynu beth sy'n sefyll. Wel diolch byth am eisteddfod felly weithe. Falle bo 'na ddim rhyw grwsâd mawr. Fydden i ddim yn gweud bod e'n gyffredinol wir yn ei waith e.                            |
| Cyfwelydd | Achos ma'r golygyddion (cyfrolau <i>Wês Wês</i> ) yn gweud bo nhw am gadw'r dafodieth ar gof a chadw?   |
| Cyfwelai  | Ond y golygyddion yw hynny?   |
| Cyfwelydd | Ie, ma'r golygyddion wedi casglu nhw at ei gily achos bo nhw ishe cofnod o lenyddieth dafodieithol Shir Benfro.   |
| Cyfwelai  | Ma'r cyfrole yn hynny o beth yn gyfraniad at ddiogelu, rhyw fath o Sanffaganeiddio'r peth, 'neud yn siwr bo nhw gyd wedi cal eu costreli. Allai'm credu bod y beirdd unigol yn ymwybodol, 'dwi'n mynd i ddangos 'y nhafodieth i'. |
| Cyfwelydd | Gyda Dewi Emrys, dyna'r gystadleueth, ond drwy wneud hynny mae e wedi cyhoeddi cerdd sy'n para can mlynedd yn ddiweddarach?   |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Rhywun arall sy wedi 'neud cyfraniad mawr heb olygu 'neud hynny o bosib yw Mererid (Hopwood). Ma hi wedi Shirbenfroneiddio, oherwydd ei chysylltiade Pen-car hi, oherwydd bod y dafodieth honno mor gryf ar ei gwefus hi o hyd. Mae'n dyst i'w chlust i ddechre, mae'n amlwg bod e wedi aros 'dai. Ond hefyd dwi'n credu ma 'na elfen hefyd o ishe iddo fe fod. Ddim yn hunan ymwybodol, union, ond ma hi wedi ymserchu ynddo fe, ac yn hapus i 'neud, a ma'r pethe 'na'n helpu. Mae'n ffigwr cyhoeddus, mae'n llenor rhagorol ac yn y blan, mae'n annwyl gan bobol, ac felly ma'r iaith mae'n siarad yn annwyl gan bobol.   |
| Cyfwelydd | A oes themâu amlwg mewn cerddi tafodieithol? Fydde ti'n defnyddio'r dafodieth mewn unrhyw destun? Canu i bobol, yr ardal leol, neu unrhyw destun?  |
| Cyfwelai  | Ma'r sawl sydd mond yn gallu canu yn ei dafodieth wrth reswm yn canu i bopeth, felly do's 'na ddim pwnc sydd ddim yn gymeradwy i ganu. O bosib bod rhywun fel fi, sydd yn symud nôl a mlan rhwng yr iaith lafar a'r iaith lenyddol, yn gorfod bod yn weddol ofalus wedyn ble dwi'n 'neud beth. A fydden i o fwriad? Mae'n dibynnu ar gyd-destun y gerdd yn llwyr. Yn sicir dwi'n cytuno'n llwyr gyda beth ti'n gweud, cerddi i lefydd ac i bobol.  |
| Cyfwelydd | Dyna beth sy'n dod trwyddo yn rhain (cyfrolau <i>Wês Wês</i> ), pethe eitha lleol?   |
| Cyfwelai  | Wrth reswm, mae'n benthyg ei hunan yn llwyr i hynny. Dwi'n gobeitho, cofia, na fydde ofon gan bobol, fel dwi 'di 'neud yn yr awdl 'leni, i ddefnyddio fe hefyd mewn cerddi sy'n ymdrin, falle – er fi'n gwobod ma awdl 'leni wedi'i lleoli yn Aberteifi, ond dwi'n gobethio bo hi 'di'i lleoli mewn sawl lle arall hefyd, ac yn ymwneud â rhwbeth difrifol, er bod lot o'r canu yn weddol dychanol ac ysgafn, ond mae'n ymwneud â rhwbeth eitha pwysig, rhwbeth o ddifri. Dwi'n gobeitho na fydde rhywun yn gweud 'a, nawr, allai ddim defnyddio tafodieth pan dwi'n ysgrifennu o ddifri.' Achos 'na beth odd yn digwydd slawer dydd dwi'n siwr. lawn i siarad tafodieth yn y mart, ond ddim i siarad e o'r pwlput ondyfe? |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | Ma hwnna'n dod drwodd yn y gwaith.  |
| Cyfwelai  | Dwi ddim yn arbenigwr, a sdim ishe fi fod i wbod bod beirdd 'y nghanedleth i cyment fwy hyderus i ddefnyddio ffurfie llafar a thafodieithol yn eu gwaith. Oherwydd ma 'na ymdrech wedi bod i ddod â'r gynghanedd nôl i fod yn agosach at yr iaith lafar, achos yr iaith lafar a'i ffurfiodd hi yn wreiddiol. Gath hi 'i chyfundrefnu'n llwyr wedyn ac ma 'na lot o bobol, 'na gyd ma nhw am 'neud yw gweld y gyfundrefn honno yn parhau yn union fel ag yr oedd hi. Lle ma nghanedleth i o feirdd a cenedleth iau na fi ar dân ishe 'neud e'n rhwbeth clywadwy, rhwbeth sydd yn driw i arferion llafar. A ma hwnna'n golygu bod rhaid iddi newid neu dyw'r genhedleth nesa ddim yn mynd i glywed y gynghanedd, dim ond rhwbeth ma nhw'n gallu gweld fydd hi. Achos, o ie ma'r llinell hon a hon, odi ma honna'n gywir achos dwi'n gallu gweld ma hyn ahyn yn ateb. Lle chi moyn clywed e – jiw dwi'n lico sŵn hwnna. A mae'n swnio'n naturiol falle. Dyna un o ffafre mawr Dic Jones, yw y math 'na o beth. Mor ymwybodol odd e o rythme ac aceniade naturiol yr iaith Gymrâg. O'n i'n gweud odd e'n glasurol iawn, oedd, ond odd e'n fentrus iawn hefyd. Ar bapur, fydde pobol yn meddwl dyw'r linell 'na ddim yn hollol gywir. Ond gwrandwch arni a ma hi'n gywir. So i ddod nôl at dy gwestiwn di, dwi'n gobeitho na fydde ofon 'da ti fynd â dy dafodieth di i unrhyw faes wedyn. 'To gan ddibynnu pwy wyt ti'n gweld yn ei darllen hi, neu yn ei chlywed hi, a beth yw'r pwnc sy dan sylw. |
| Cyfwelydd | Y cwestiwn nesa yw ai rhywbeth hen ffasiwn yw llenyddieth dafodieithol erbyn heddiw?  |
| Cyfwelai  | Wel ar un ystyr, ie.  |
| Cyfwelydd | Ond ma dy genhedleth di a iau yn dod nôl ati?   |
| Cyfwelai  | Ma hwn yn gwestiwn arall, beth yw'r gwahanieth rhwng iaith lafar a thafodieth? Yn sicir ni 'di mynd nôl at iaith lafar, a dwi'n gobeitho bydd hyn yn help i, nid i achub y tafodieithodd, ma hwnna'n rhy gryf, ond i roi bri 'to ar ddefnydd o dafodieth. Achos ma defnydd o dafodieth wedi llithro, sdim dowt am hynny. Ma 'na ymdrech wedi bod i safoni, a ma rhesyme da am hynny, dwi'n derbyn hynny'n llwyr. Ond gyda'r dirywiad yn y Gymrâg yn gyffredinol, wel  |

|           |  |
|-----------|--|
|           | <p>mae'n un o'r pethe sy'n mynd i ddirywio gydag e, wrth reswm. Felly yn sicir dyw e ddim yn hen ffasiwn i ganu'n llafar 'to. Ti'n mynd nôl at wreiddie y traddodiad, y traddodiad gwerin a thraddodiad y gynghanedd fel o'n i'n gweud, ti'n mynd nôl ati. Ma cwestiwn yn ddiweddarach 'da ti a yw hyn yn digwydd ar draul rhywbeth arall? Ma hwnna'n gwestiwn mowr. Ond yn sicir, bri ar yr iaith lafar. Yn 'yn achos i ma rhywfaint o dafodieth 'da fi o hyd, felly ma hwnna'n mynd i ddod mas pan dwi'n canu'n llafar. Os ôs gan fardd dafodieth, os yw'r bardd hwnnw â'i fryd ar ganu'n weddol o lafar neu ystwyth, wel ma'r dafodieth yn mynd i ddod trwyddo.</p>   |
| Cyfwelydd | <p>A oes lle i gerddi tafodieithol ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, fel y Gadair a'r Goron?</p>   |
| Cyfwelai  | <p>Ie, diddorol pan ti'n edrych nôl cyn lleied sy wedi bod go iawn. Heblaw rhyw arlliw fan hyn fan co. Ond ar y cyfan ma'r beirdd yn gwisgo eu dillad gore pan ma nhw'n dod i gystadleuaeth y Gader. Ond yn gyffredinol ti'n gallu gweld, gwed dros yr ugen mlyne diwethaf, ti'n gallu gweld llacio. Ma'r awdle sy 'di ennill yn yr ugen mlynedd diwethaf tipyn fwy llafar ac uniongyrchol, ma hynny'n wir. O ran tafodieth, ôs ma 'na rai sy 'di defnyddio, ond yn sicir dim cyment â sy 'di digwydd 'leni. Mae'n eitha amlwg bod e'n ganolog i'r holl ffordd ma'r awdl yn cal ei chanu. Er cystrawenne safonol sydd i'r awdl, ma nhw'n gystrawenne cyflawn yr iaith Gymrâg. Hynny yw llenyddieth yw e, ddim trawsysgrifiad o dafodieth. A dyw e ddim yn eithafol dafodieithol chwaith. Ma arlliw o dafodieth yn sicir yn cal ei defnyddio trwy'r gerdd, weithe dyw e ddim. Prif gymeriad y gerdd, bardd yw e, a weithe mae e'n mynd yn rili rili farddonol, a wedyn ma'r dylanwade erill wrth gwrs yn gwasgu arno ac yn sydyn ma'r iaith yn altro. Falle bod beirdd y gogledd yn fwy hyderus i ddefnyddio eu tafodieth? Dwi ddim yn gwbod. Yr esiample amlwg yw – pan dwi'n meddwl am canu tafodieithol a'r prif gystadleuthe, dwi'n meddwl am Jim Parc Nest yn ennill yn 86 a 88. Rheina yw'r rhai sy'n sefyll mas. Dwi'n cofio darllen nhw, a jyst mor falch. 'To yn cyfreithloni bron dy dafodieth di dy hunan, neu dy ddefnydd di ohoni a theimlo, ydy ma fe'n iawn i 'neud os yw'n cael ei defnyddio mewn ffordd lenyddol, greadigol, gyffrous.</p> |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | <p>Ond ma rhywun fel Meic Stephens yn ysgrifennu yn y Wenhwyseg a wedi dod yn agos at y Goron sawl gwaith. Ac yn 2005 fe ddath e'n ail i Christine James a nath y beirned 'weud oni bai bod Christine yn y gystadleueth, mi fydden ni wedi dyfarnu'r Goron i Meic Stephens. Ond rhyw bythefnos ar ôl 'ny yn <i>Barddas</i> nath Gwynn ap Gwilym 'weud ddylech chi ddim dyfarnu'r Goron na'r Gader i gerddi tafodieithol?</p> |
| Cyfwelai  | <p>Do fe? Sai'n cofio 'na.</p>   |
| Cyfwelydd | <p>Felly ma 'na ambell un?</p>   |
| Cyfwelai  | <p>Na, dwi ddim yn cytuno o gwbl.</p>  |
| Cyfwelydd | <p>Ond dyw pawb ddim o blaid? (canu tafodieithol)</p>  |
| Cyfwelai  | <p>Na, a dwi'n gallu derbyn hynny. Ond diddorol iawn. Gyda rhai Meic wrth gwrs ma nhw'n eitha digyfaddawd o dafodieithol. Ac wrth gwrs ma 'na elfen hefyd – sdim llawer o bobol yn cofio'r Wenhwyseg yn cal ei siarad.</p>   |
| Cyfwelydd | <p>Felly mae'n dibynnu ar pa dafodieth?</p>  |
| Cyfwelai  | <p>O bosib.</p>  |
| Cyfwelydd | <p>A yw iaith Caerdydd yn dafodiaith, ac a ddylid ei chynnwys mewn cerddi?</p>   |
| Cyfwelai  | <p>Os wyt ti'n diffinio tafodieth fel yr iaith lafar sy'n cal ei defnyddio gan grŵp penodol o bobol, sydd yn dod o'r un ardal, neu os ti'n pennu rhyw ffinie iddo fe, mae'n debyg bod e'n dafodieth o fath. Beth fydde'n diddori fi'n fawr iawn bydde astudio beth yw'r gwahaniaethe rhwng Cymrâg dweder Glantaf a Gwynlliw a Rhyd....., beth yw e nawr, nid Rhydfelen?</p>  |
| Cyfwelydd | <p>Garth Olwg.</p>   |
| Cyfwelai  | <p>Garth Olwg. Siarad â nhw yn ddigon hir i glywed nawr, a wedyn fyddet ti'n gwobod a ôs y fath beth? Ai jyst y dirywiad amlwg yw e, neu ydy e, yn hytrach a ôs na rheole fwy pendant iddo fe? Ac os ôs rheole pendant iddo fe, rheole yn anymwybodol hynny yw, fel sydd i dafodieth Shir Benfro, wel mae yn</p>   |



|           |   |
|-----------|---|
|           | dafodieth wedyn ond yw e? Ond mae bron, fydden i'n dadle, mae e'n rhy gynnar i ddweud. Wel i fi. Ond se ti 'na trwy'r amser falle?  |
| Cyfwelydd | A oes cysondeb yn y modd y cyflwynir tafodieth mewn llenyddieth? A oes gorliwio weithie?  |
| Cyfwelai  | Gordafodieithi?!  |
| Cyfwelydd | Fel defnyddio hen eirie falle er mwyn effeth?   |
| Cyfwelai  | Mae'n siwr fod e.   |
| Cyfwelydd | Achos ma rhai darne fan hyn (yn y cyfrolau <i>Wês Wês</i> ) yn fwy dealladwy na'i gilydd? Lle ma rhai yn defnyddio rhyw hen eirie. Ydyn nhw yn dal i ddefnyddio'r rheina, neu ydyn nhw yn gorliwio tamed bach, neu yn treial cadw'r hen eire fan hyn?   |
| Cyfwelai  | Wel dwi'n cytuno'n llwyr, mae 'na elfen gref o hynny yn hyn wastad, yn naturiol. Po fwy tafodieithol y gore, os wyt ti'n canu cerdd dafodieithol, sy'n golygu bo ti'n defnyddio dy holl adnodde tafodieithol felly ond wyt ti? A ma hwnna'n gamp yn ei hunan i 'neud hynny. Y peryg yw wrth gwrs bod e'n mynd yn fwy annealladwy os nad yw'r geirie yn cal eu defnyddio ar lawr gwlad. Mae'n ymwneud gyda bwriade, beth ma nhw'n bwriadu cal mas o rhwbeth fel 'na? Allai draethu yn hir am rhywun fel Dic yn hynny o beth. Dwi'n gwbod odd Dic weithe yn defnyddio gair fwy hynafol dafodieithol na'i gilydd a bydde fe'n gweud 'o odd yr hen fois wastod yn gweud hyn a hyn.' A o'n i'n meddwl weithe sgwn i a o'n nhw? Neu ife Dic sy wedi dwli ar y gair 'ma a wedi rhoi bywyd newydd iddo fe? Achos dyna'r fath o ddylanwad odd 'da ge. A dwi'n dwli ar y syniad 'na, wedi achub gair, bron. |
| Cyfwelydd | Ydyn nhw'n rhoi rhyw air sydd wedi mynd – rhoi e mewn er mwyn i ni allu gweld y gair 'na to?  |
| Cyfwelai  | Ac yn sydyn ti'n clywed rhywun arall yn ei ddefnyddio fe yn eu cerdd nhw, ac yn sydyn, mae'n fyw 'to. Shwrne ma rhywun wedi dweud y gair, a person arall wedi clywed y gair ac wedi ei ddeall e, er ei fod e'n ddieithr tro cynta, mae e 'di stopo fod yn ddieithr. Mae e jyst yn air wedyn. Ac ystyr y gair sy'n bwysig, nid y ffaith ei fod e wedi cal ei 'weud mewn tafodieth.   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | Oes dyfodol i lenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | <p>Mae'n ddi-ddorol iawn, yn sgil y twf yn y de-ddwyrain, yn y Gymrâg sydd fan 'na, i ba radde bydd y genhedleth nesa am ddarllen unrhyw beth sydd ddim yn debycach, naill ai i'r Gymrâg safonol gethon nhw glywed gan eu hathrawon neu sy'n debyg i'r Gymrâg ma nhw'n siarad â'i gily? Beth fydd eu arfogeth nhw, i allu delio gyda..... wel synen i fydden nhw'n dal i allu, ni'n rhyfeddol, ma cluste 'da ni, ni'n effro iawn i bethe. Bydd e'n ymwneud â'u hagwedd nhw yn fwy na'u gallu nhw i ymdopi gyda. Achos y peryg yw weithe – mae e 'di digwydd yn Llundon, mae'n digwydd yn y canolfanne mawr – fod llefydd fel hyn yn dod i gredu taw 'u ffordd nhw o 'neud pethe yw'r ffordd ore. Mae'n beth naturiol, sai'n golygu 'na yn gondemniol, mae'n wir ond yw e? Pawb yn y chweddege ishe mynd i fyw yn Llundon achos fan 'na odd popeth yn digwydd. 'Neud e yn y ffordd Llundeinig. Cal golwg Llundeinig ar y byd. Sgwn i a fydd e'n wir yn y de-ddwyrain? Wel ddim os yw beirdd yn dal i sgrifennu yn y llefydd erill i gyd. Na, sdim problem yn hynny. Mae'n grêt fod y beirdd sy'n cal eu hastudio ar y cwrs Lefel A – ôs ma 'da ti nifer ohonyn nhw sy wedi'n gadel ni – ond ma rhyw bedwar neu bump ohonon ni sy'n dal yn fyw ac yn mynd rownd Cymru ac yn siarad i'r bobol 'ma. Ma nhw'n effro iddo fe, ma nhw'n ddeallus, sdim rheswm na ddyle nhw. A falle bod hi'n genhedleth yn rhy gynnar i allu gweld. Cwestiwn arall yw am ba hyd y parith y dafodieth er mwyn iddyn nhw greu llenyddiaeth sy'n dafodieithol, er mwyn i'r genhedleth nesa ei gwrthod hi? Ma hwnna'n eitha dyrys ac yn eitha difyr hefyd. Felly mewn ymateb i'r cwestiwn oes dyfodol i lenyddiaeth dafodieithol, oes.</p> |
| Cyfwelydd | A yw ysgrifennu mewn tafodiaith yn tanseilio Cymraeg Byw Safonol a'r ymgais i'w safoni?   |
| Cyfwelai  | <p>Allai'm credu bod e'n tanseilio'r Gymrâg. Ma hwnna'n gryf iawn i'w 'weud bod e'n tanseilio, achos ma hwnna'n swnio fel se fe'n fwriadol bron. Galle ti ddweud fod e'n arwydd o hyder yn y Gymrâg, bod pobol yn meddwl ma'n Gymrâg safonol ni yn ddigon gwddyn i wrthsefyll, dim dim ond gwrthsefyll, i gofleidio.</p>  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Felly ma 'na le i'r ddou (fath o ysgrifennu)?  |
| Cyfwelai  | Mae e'n gorfod digwydd. Yn y Gymrâg yn enwedig, mae e'n gorfod digwydd. Bydde'r drafodeth hon yn ddiddorol iawn yng nghyd-destun Saesneg er enghraifft. Achos os ti moyn 'neud dy ffortiwn wrth sgrifennu yn yr iaith Saesneg, ti'n mynd i osgoi tafodieth ond wyt ti? 'To, ni nôl i'r cwestiwn pam ma pobol yn sgrifennu? At bwy ma nhw'n anelu? Sdim mass market i gal yng Nghymru, felly ti'n gallu bod yn fwy hyderus ynglŷn â dy iaith di dy hun. Dwi'n derbyn beth sy tu ôl i'r cwestiwn, dwi'n derbyn yn llwyr. Mae'n ddigon anodd cadw'r iaith Gymrâg yn fyw, heb fod 'na ormod o amrywiade ohono fe fel bod pobl yn ffeili cweit adnabod yr un ffurf y gall pawb fod yn rhan ohono fe?  |
| Cyfwelydd | le (dyna beth sy tu ôl y cwestiwn).  |
| Cyfwelai  | Wel tra bod y ddou beth yn wir, tra bod gennym ni dafodieth a bod 'da ni syniad go lew beth yw iaith Cymrâg safonol, a bydd y syniad 'na yn newid gyda phob blwyddyn a degawd, hynny yw ein syniad ni o beth yw Cymrâg safonol, dyw e ddim yn beth absoliwt. A mae e'n dibynnu'n llwyr ar y ffordd mae'n cal ei defnyddio gan ei siaradwyr a'i sgrifennwyr hi. A dyma sy'n anodd i'r hen deips – dim hen bobol dwi'n golygu ond yr hen deip – y sawl sydd yn meddwl bod rhaid rhywsut naddu i'r garreg 'na – 'dyma yw Cymrâg deallwch bobol, dewch, hwn yw e.' Wel marw neith honna mewn ychydig iawn o flynydde, achos ma rhaid i iaith altro drwy'r amser. A falle bo ni ddim yn hapus ei bod hi'n newid, ond allwn ni'm 'neud dim byd am hynny. Heblaw, os ych chi'n teimlo'n gryf dros y syniad, wel sgrifennwch dim ond yn yr iaith safonol falle. Iawn, ond mae'n bosib byddwch chi'n colli rhai o'r arfe odd 'da chi o ddefnyddio – yn sicir o ran barddonieth dwi'n credu 'ny, achos mae'n ffurf gywasgedig iawn. Ond mae'n ffurf gerddorol barddonieth ond yw hi, mae'i sain hi'n bopeth. A bellach ma dyn yn mynd o'r sain naturiol, ffordd mae'n cal ei defnyddio gan bobol, o ba bynnag ardal o Gymru, ma 'na beryg mowr. Y peth diwetha ni moyn. Ac odd symudiad tuag at hyn gan John Morris-Jones ond odd e? |
| Cyfwelydd | Wê.  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Y syniad mai dim ond hyn a hyn o eirie allwch chi ddefnyddio mewn cerdd. Gallwch chi ddefnyddio <i>grudd</i> ond ddim <i>boch</i> math o beth. Bydde John Morris-Jones yn cal haint wrth darllen yr awdl sy 'di ennill 'leni. Nid achos bo fi wedi sgrifennu fe'n fwriadol i roi haint i unrhyw un.   |
| Cyfwelydd | Ond dyna beth nath ddod yn naturiol?  |
| Cyfwelai  | Dyna odd yn naturiol. Mewn cerdd am Aberteifi, ti moyn iaith Aberteifi. A ma digon sy'n anesmwytho i ymbiti 'yn iaith 'yn hunan, a iaith yr ardal dwi'n byw ynddi, beth bynnag. Ond dyw e ddim yn rheswm i beido'i defnyddio hi. Achos yn hynny ma cyment o densiynne diwylliannol, ieithyddol, cymdeithasol yn dod mas wedyn o glywed pa fath o iaith, neu pa fath o eirie ma pobl yn eu defnyddio nhw. Sen i wedi ysgrifennu honno mewn Cymrâg safonol drwyddi, bydde tipyn llai o werth iddi se hi yn hollol safonol. A dweud y gwir, byddai'n ddiystyr. Un o'r pethe sy'n rhoi ystyr i'r awdl, mae'n rhan o syniadeth a themâu yr awdl, nid jyst ei harddull hi yw hi, mae'n ymwneud â rhywbeth dyfnach na hynny. |
| Cyfwelydd | Beth yw rhinwedd defnyddio tafodieth ar draul iaith safonol? Defnyddio geirie tafodieithol yn lle geirie safonol?   |
| Cyfwelai  | Os â i nôl i ble ddechreues i (i'r gerdd 'Hen Ŵr y Mor'). Ma'r <i>dablen a'r gwenw'n</i> 'na nawr. Allen i fod wedi defnyddio <i>meddw</i> ond gallen i? A bydde hwnna'n fwy dealladwy yn syth gan bawb. A gallen i fod wedi defnyddio <i>hwylie drwg, surni</i> neu rhwbeth fel 'na. Ond bydden i'n gweud ma rheina yn cyfoethogi'r gerdd.   |
| Cyfwelydd | Felly y rhinwedd yw bo nhw'n cyfoethogi?  |
| Cyfwelai  | Ie. Peth diddorol yw yn yr awdl, ma cwpwl o eirie Saesneg fan hyn a fan co. A un o'r geirie dwi'n defnyddio yw'r gair <i>squaddies</i> . Yn Castell Aberteifi ma 'na arwyddion 'na – Andrew Scott, y cwmni, nhw yw'r adeiladwyr. Dwi'n cofio gweld nhw yn sefyll 'na yn eu hi-vis jackets yn pwyso yn erbyn y sgaffalde. A ma rhyw lein 'na: 'Saif bois Andrew Scott mewn cotie hi-vis fel lein o <i>squaddies</i> , fel hoelion sgidie.' A'r gair <i>squaddies</i> . O'n i'n meddwl, wdi i'n mynd i ddefnyddio hwnna? Achos 'na'r gair sy wedi dod i fi,   |

|           |   |
|-----------|---|
|           | <p>achos o'n nhw'n edrych fel 'na. Achos castell odd e, a mae e wedi perthyn yn fwy i'r Norman a'r Sais nag yw e i'r Cymro, ond ma brwydr barhaus wedi bod amdani. O'n i'n meddwl edrychai e lan nawr yn y geiriadur, beth yn union yw e? A 'milwyr cyffredin'. A heblaw am y ffaith y collen i'r gynghanedd yn 'hoelion sgidie', o'n i'n meddwl 'milwyr cyffredin', os gyfieitha i hwnna nôl, 'common soldiers'. Ond dim hwnna dwi ishe gweud, ond <i>squaddies</i>. Dwi ishe awgrymu rhwbeth o'r tu fas sy wedi dod i berchnogi, a ma'r gair <i>squaddies</i> yn llawn o'r awgrym am math o filwr imperialaidd Saesneg. Ac yn 'y mhen i hwnna yw'r gair fydden i'n gweud. A sen i'n siarad gyda ti heddi, <i>squaddies</i> fydden i'n dweud. A dwi'n credu sen i'n annerch yn y Senedd, dyna'r gair. Dyw hynna ddim yn golygu bod y gair o'r iaith Saesneg yn air gwell, na'dy. Beth mae'n golygu yw dwi wedi 'neud hwnna'n rhan o Nghymrâg i, achos mae e'n well, mae'n cynnig fwy, a dyna'r gair ma pobol yn defnyddio. A'r un peth gyda <i>stop-tap</i>. <i>Stop-tap</i> yw amser cau'r tafarne, sdim dwyweth am hynny. <i>Amser cau</i>, sdim problem 'da fi 'da <i>amser cau</i>, dwi'n deall hwnna'n iawn. A'n rhyfedd iawn es i i edrych yn Bruce wedyn a ma 'dag e stop-tap beth bynnag. Hynny yw, ma 'na ffin annelwig iawn mewn canu tafodieithol; pryd ma geirie yn stopo bod yn safonol a dim ond troi'n dafodieithol, neu'n stopo bod yn air benthyc ac yn dod yn air sydd wedi'i sefydlu yn yr iaith ac yn y blan? A 'to dod nôl at y pwynt, ma hon yn broses sy'n digwydd bob dydd ond yw hi? So ni'n naddu'r peth hyn mewn cerrig ac yn gweud dyna yw hi. Ma iaith mor, mor hyblyg. <i>Fluid</i> yw'r gair Saesneg, mae'n llifo trw'r amser ac yn newid ac yn troi. Beth ma'r beirdd 'ma yn 'neud yn y cwestiune 'ma i gyd – ti'n synhwyro beth sy'n naturiol a beth sy'n briodol a rhyw gyfaddawd yn amal yw cerdd rhwng beth sy'n naturiol a beth sy'n briodol. Ma hwnna wastad yn wir, dim jyst o ran tafodieth, o ran beth wyt ti ishe 'weud a'r hyn ti'n gallu'i 'weud a'r ffordd sy 'da ti o'i 'weud e. Cwestiwn diddorol yn hyn i gyd yw hwn – ma'r cyfrole <i>Wês Wês</i> 'da ti fan 'na. Faint mor debygol yw byddwn ni'n gweld cyfrole fel 'na byth to?</p> |
| Cyfwelydd | 94 yw'r un diwetha – ma hwnna ugen mlynedd nôl.   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | <p>Ma tafodieithe yn tueddu i ffurfio rhywfaint yng Nghymru, dyna beth sy'n digwydd. Yn naturiol iawn. 'Na pam dwi ddim yn meddwl fod perygl i'r iaith safonol, am fod mwy a mwy ohonon ni yn ei siarad hi neu yn 'i hysgrifennu hi nag odd. Ond ma digon hefyd, diolch byth, yn ymhyfrydu – naill o fwriad neu yn hollol naturiol – yn ymhyfrydu yn eu tafodieth. Sneb yn jyst glynu at ei ffordd absoliwt e o 'weud rhwbeth. Dwi wedi benthyg geirie, heb fod yn ymwybodol. Un i ti, <i>sachni</i> – dwi'n gwbod bo fi ddim yn gweud <i>sachni</i> cyn mynd o Aberteifi, ond ti'n gorfod dod i ryw bwynt lle ti'n ymwrthod â rhai geirie a wyt ti'n cofleidio rhai geirie, a nawr mae e'n hollol naturiol i'w 'weud e. Mae'n newid drwy'r amser, sy'n ddiddorol iawn.</p> |
| Cyfwelydd | Diolch yn fawr  |

|                    |  |
|--------------------|--|
| <b>Cyfweliad 3</b> |  |
| Cyfwelydd:         | Ruth Thomas  |
| Cyfwelai:          | Wyn Owens  |
| Dyddiad cyfweld:   | 13 Medi 2014   |
| Lleoliad:          | Cartref y Cyfwelai, Mynachlog-ddu  |
| <b>ADYSGRIF</b>    |  |
| Cyfwelydd          | Ydych chi'n ysgrifennu barddoniaeth mewn tafodiaith?   |
| Cyfwelai           | Wdw, dwi wedi sgrifennu tipyn mewn tafodieth.  |
| Cyfwelydd          | Ma dwy gerdd 'da chi fan hyn (yn y gyfrol <i>Y Patshyn Glas</i> , 2005), un i 'W. R.' a un "Slawer Dydd". Chi wedi ysgrifennu tipyn?   |
| Cyfwelai           | Wel gwmint sydd yn <i>Y Patshyn Glas</i> a cerddi erill. Ers cyhoeddi <i>Y Patshyn Glas</i> dwi 'di bod yn cyfarch y teulu ar benblwyddi, jwst i gadw'r llaw miwn.   |
| Cyfwelydd          | A chi'n 'neud hynny mewn tafodieth?  |
| Cyfwelai           | Ambell waith.  |
| Cyfwelydd          | Ydych chi'n defnyddio tafodieth mewn cerddi eraill? Ma cyfres o englynion fan hyn 'Cau Ysgol Bwlch-y-Groes'. Ma'ch pedair englyn cynta chi mewn Cymraeg safonol, llenyddol a ma'r un diwetha mewn tafodieth. Pam hynny?  |
| Cyfwelai           | Wel o'n i'n meddwl am W. R. Evans, a wên i'n meddwl gan mai rhwbeth lleol yw e, tafodieth yn rhan naturiol o ieithwedd y plant. A wên i'n meddwl twtsh fan 'na o atgof am W. R., fel teyrnged fach iddo fe. Achos fe nath sbarduno fi i ysgrifennu mewn tafodieth. <i>Cawl Shir Bemro</i> wedyn. |
| Cyfwelydd          | Odi, ma'i 'da fi fan hyn.  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cywelai   | O ma honno'n hyfryd o gyfrol. Dwi'n cofio'r wers gynta Gymrâg ges i yn Ysgol y Preseli, a odd barddonieth yn rhan annatod o'r cwricwlwm bryd hynny. A'r gerdd gynta ysgrifennon ni gyd lawr wê 'Pwllideri' 'da Dewi Emrys.   |
| Cyfwelydd | Ie, ma 'Pwllideri' yn un o'r cwestiynne nes mlaen.   |
| Cywelai   | Wel o'n i wedi dwli ar y gerdd 'na a wên i'n meddwl o licen i fod yn gallu sgrifennu fel hyn. A dwi'n meddwl bod hi'n un o gerddi gore'r iaith, mae'n hyfryd o beth. A dwi'n gweld tafodieth fel iaith o fewn iaith. Ma'r ffordd ni'n siarad, a mae e'n wahanol i'r Gymrâg llenyddol, Cymrâg safonol. Er ma gas 'da fi'r gair 'safon', achos pwy sy'n pennu safon? Achos os yn ni'n gweud 'senai'n gwbod', 'na beth ni'n 'neud. Odi hwnna'n iawn neu beido ma pobol yn gofyn? Dwli yw rhwbeth fel 'na, achos mae e'n iawn os yw e'n cal ei ddefnyddio.           |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n defnyddio ambell air tafodieithol yn eich cerddi, neu ych chi'n tueddu i fod naill ai mewn tafodieth neu ddim? Ydych chi'n cymysgu weithie?  |
| Cywelai   | Pan bo fi'n ysgrifennu mewn tafodieth, neu'n reito pishyn yn iaith tafodieth, dwi'n glynu at y dafodieth a dwi ddim yn dod miwn ag ymadroddion clasurol math o beth.   |
| Cyfwelydd | Beth am fel arall wedyn?   |
| Cywelai   | Wel falle byddai'n dod mewn â gair tafodieth i gerdd Cymrâg safonol se galw amdano. Ges i'n feirniadu un tro. Wên i'n sgrifennu rhyw gywydd i ryw gystadleueth. A mewn un lle o'n i'n defnyddio <i>doe</i> a mewn man arall o'n i'n defnyddio <i>dwê</i> . A ges i'n feirniadu bod y <i>dwê</i> yn anghywir. Rhyw hollti blew yw rhwbeth fel 'na dwi'n teimlo. Snai'n gwbod. Ma beirniad yn weddol amheus o dafodieth dwi'n feddwl. Er ma Ceri Wyn Jones nawr wedi dod mewn â tafodieth, a'r ffordd ma'r iaith yn cal 'i glywed. Dyna'r oes ni'n byw ynddi nawr. |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n ysgrifennu rhyddieth mewn tafodieth hefyd?   |



|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Ambell i beth. Dwi ddim wedi bod yn sgrifennu rhyddieth achos barddonieth odd 'y nghryfder i. A ar un adeg pan ddechreues i farddoni, nôl yn 86 wêdd hi amser Steddfod Abergweun. Wel pyrny ddechreues i farddoni. O'n i 'di bod yn sgrifennu peth yn yr ysgol ond anghofio fe'n llwyr ar ôl gadel ysgol a garies i mlan ar y trywydd celfyddyd gweledol, peinto. Ond gofynnwyd i fi wedyn i olrhain hanes Bethel yn y nawdege a ges i flas ar ysgrifennu rhyddieth mewn ffordd. Ac yn hwyrach o'n i'n 'neud llyfr ar Calfaria Login a wê hwnnw'n dipyn o hwyl i 'neud, yr ymchwil. Mae'n hynod o ddiddorol cwrso rhyw llwynogod, sdim dal ble chi'n cal 'ych hunan. A dwi wedi bod yn treial nodi lawr hanes lladd mochyn gwedwch, neu rhwbeth fel 'na, a ceisio rhoi fe mewn tafodieth. Ond dyw'r pobol dwi 'di bod yn holi ddim yn hoffi'r teclyn 'na sydd yn gwrando arnyn nhw achos ma nhw'n cau lan i gyd, ddim ishe siarad o flan hwnnw. |
| Cyfwelydd | Fyddech chi'n cyhoeddi'r rheina wedyn, rhywle fel <i>Clebran</i> ?  |
| Cyfwelai  | Sai wedi cyhoeddi'r pethe rhyddieth, dim ond barddonieth dwi wedi cyhoeddi mewn papure lleol.   |
| Cyfwelydd | Felly pam ych chi'n sgrifennu mewn tafodieth?   |
| Cyfwelai  | Wel pam lai mewn ffordd achos dyna'n hiaith ni, dyna'r iaith, a pam na ddylen ni ymhyfrydu mewn iaith ein hunen? Sdim hanner digon o hunanhyder 'da ni. Achos pan o'n ni'n siarad â pobol a dweud am ryw air: 'sai'n gwobod a odi fe'n air iawn.' Wel y pwynt yw mae e'n air iawn os yw'n cael ei ddefnyddio ac i ryw bwrpas. Fel, gair fel <i>whringil</i> ? Ych chi'n gwobod beth yw <i>whringil</i> ?  |
| Cyfwelydd | Na, dwi ddim.   |
| Cyfwelai  | Wel <i>whringil</i> , allech chi 'weud bod y ford yn whringil, mae'n anwastad ar ei thrad. Allech chi 'weud: 'wdw i'n whringil ar 'y nhrad heddi', dim yn gallu sefyll yn dda iawn. Geirie fel 'na, sy'n rhan o'n hieithwedd ni. <i>Twmbwriach</i> wedyn, annibendod. A fydden i'n gweud: 'o beth yw'r twmbwriach 'ma sy fan hyn'? A ma iaith, mae e'n galler perthyn i deulu. Achos odd hen anti 'da fi a odd hi'n gweud: 'beth yw'r bwmbatsh 'na sy 'da ti fan na'? O'n i'n   |

|           |   |
|-----------|---|
|           | tynnu llun mewn paent a pethe a odd tipyn o annibendod 'da fi. Neu fyddei'n gofyn i Mam a edrych ar y seld: 'beth yw'r bwmbatsh sy 'da ti fair 'na'? Rhyw lestriach a pethe, rhyw annibendod fath o beth. A dim ond 'da hi glywes i'r gair 'na.   |
| Cyfwelydd | Ma rhai geirie yn lleol iawn?   |
| Cyfwelai  | Lleol iawn, iawn. Ond ble wêdd hi wedi cal y gair 'na? Mae e'n ddirgelwch.  |
| Cyfwelydd | Wê chi'n gweud e wedyn? Wê chi'n pigo pethe fel 'na lan?  |
| Cyfwelai  | O'n i'n pigo fe lan, neu fydden i ddim yn ei gofio fe.  |
| Cyfwelydd | Fyddech chi'n ddefnyddio fe 'to wedyn?  |
| Cyfwelai  | A, 'na gwestiwn arall fan 'na.  |
| Cyfwelydd | Fyddech chi wedi mynd i'r ysgol a gweud y gair?   |
| Cyfwelai  | Wel sen i'n gweud e fel sbort, achos mae e yn air hynod iawn i'r clyw. Mae'n rhyfedd iawn, dechre gwrando ar iaith. Ma eistedd nôl a gwrando ar iaith yn ddi-ddorol. Fel rhyw ddywediad nawr yn ddiweddar, rhywun yn gweud: 'mae e'n mynd fel y mail.' Sôn am fabi bach yn criplan i bob man. Beth yw hwnna nawr, ai'r goetsh fowr ma nhw'n meddwl yn cario'r post? Falle law e. A chi'n gyfarwydd â'r gair <i>bwldan</i> ? Bwldan o biti'r clos. 'O beth ti'n 'neud'? / 'O jwst bwldan o biti'r clos.' Gwneud rhyw mân swyddi o gwmpas y buarth. A glywes i wraig wedyn, dwi 'di bod yn sgwrsio tipyn â hi, sy wedi ei geni a byw yn Mynachlog-ddu drwy gydol ei hôt, neu drwy gydol ei hwês ddylen i 'weud. Dwi 'di bod yn siarad tipyn 'da hi, a ma cyfoeth o iaith da'i. A sôn am y gair bwldan nawr, wên i'n gweud: 'shwt ych chi y dyddie 'ma'? A wedodd hi: 'dwi yn 'y mhwldin t'weld.' A dyw hwnnw ddim lawr 'da fi yn 'y ngeiriadur i, rhwbeth diweddar yw hwnna. Ond mae wastod yn talu ffordd i wrondo ar beth ma pobol yn siarad. |
| Cyfwelydd | Fe wnaethoch chi gyhoeddi'r geiriadur ( <i>Rhint y Gelaets a'r Grug: Tafodiaith Sir Benfro</i> , 2013) adeg y steddfod llynedd. Ai eisiau cadw'r geirie hyn ar gof?   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Mewn ffordd, ie. Diddordeb dwfwn mewn iaith 'fyd, a meddwl bod yr iaith yn newid fel ma galwade bywyd yn newid.   |
| Cyfwelydd | A hen eirie yn colli wrth fynd lawr y cenedlaethe?  |
| Cyfwelai  | Wel sôn am eirie, yr hen arian er enghraifft. Ma rheina'n mynd yn angof nawr. Geire fel <i>grot</i> ac ati, dos dim defnydd iddyn nhw. A'r un peth â gwaith y ffarm. Ma ffermydd yn mynd yn llai felly ma'r genhedleth nesa wedi colli, ond ma dywediade falle yn cario mlan. Ma diddordeb mowr 'da fi mewn iaith yn gyffredinol. Dwi'n hoffi disgu iaith. A diddordeb mowr yn yr ieithoedd Celtaidd. A o'n i'n dysgu Llydaweg a peth Gwyddeleg. A nath dysgu Llydaweg 'yn sbarduno fi mewn ffordd i greu'r geiriadur achos ma llawer o eiriaduron Llydaweg 'da fi. A gwahanol mathe. Dim geiriaduron sych yw nhw'n dweud gair am air, ond ma nhw'n rhoi geirie yn eu cyd-destun. |
| Cyfwelydd | A chi'n dweud rhyw air ac yn rhoi brawddeg wedyn i egluro (yn <i>Rhint y Gelaets a'r Grug: Tafodiaith Sir Benfro</i> ).   |
| Cyfwelai  | Ie, achos sdim un gair yn bodoli mewn vacuum. 'Na beth wên i moyn 'neud yn y geiriadur, a hefyd cyflwyno yr iaith leol i'r dysgwyr. Dwi 'di bod yn dysgu Cymrâg fel ail iaith.  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n 'neud hynny nawr?   |
| Cyfwelai  | Na, dim ar hyn o bryd, wedi bod.  |
| Cyfwelydd | Pan ych chi'n dysgu nhw wedyn, fydddech chi'n gweud oes, neu fydddech chi'n gweud wês? Ma hwnna'n rhwbeth dwi'n mynd ar ei ôl.  |
| Cyfwelai  | Fyddden i'n gweud wês.  |
| Cyfwelydd | Felly chi'n dysgu geirie tafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Ie, ond mae'n rhaid i fi gyfadde, fel yn y negyddol – ma hwnna'n rhan o batrwm y dafodieth, fel 'senai' a'r holl amrywieth hynny. A o'n i un diwrnod yn gweud: 'o dwi ddim yn gwbod.' Wel fydden i ddim yn gweud: 'dwi ddim yn gwbod' tan bo fi wedi bod yn dysgu nhw yn y dosbarth. A meddylies i wel:   |

|           |   |
|-----------|---|
|           | 'sena i'n gwbod.' A o'n i'n meddwl wel ma gwanieth yn y peth. A wê ffrind 'da fi, ieithydd, yn tynnu'n sylw i at y ffaith 'na, pam nad wy'n dysgu nhw 'sena i', 'sai'?  |
| Cyfwelydd | Ie, beth ych chi fod i ddysgu nhw, y Gymrâg safonol neu dafodieth?  |
| Cyfwelai  | Ma pob un â'i farn. Ma rhai yn meddwl Cymrâg safonol a dim ond safonol.   |
| Cyfwelydd | Ond se'r bobol 'ny wedyn yn siarad â'r bobol leol fydde nhw ddim yn siarad yr un peth?  |
| Cyfwelai  | Ges i gompliment mowr gyda un yn y dosbarth. Dwedodd hi, yn Sisneg, odd ddim llawer o Gymrâg 'da'i, bo fi'n disgu y ffordd ma'r geire yn cael eu dweud yn lleol. A odd hwnna'n bwysig. Achos beth yw ystyr iaith yw cyfathrebu. Ma sefyllfaoedd hurt wedi codi yn y dosbarthiade. Fel un dysgwr yn gweud: 'you say blode, we've been taught blodau.' A ma gwanieth. |
| Cyfwelydd | Felly beth ych chi'n dysgu nhw?   |
| Cyfwelai  | Wel o'n i'n dysgu nhw blode, gwylie ac ati.   |
| Cyfwelydd | Ond wêdd e wedi pigo blodau, gwyliau lan rhywle arall?  |
| Cyfwelai  | Wel does neb yn siarad fel hynny yn yr ardal hon. Ond i rywun syn dysgu'r iaith mae e'n swno'n wahanol.   |
| Cyfwelydd | Beth yw'ch barn chi am ddefnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth?   |
| Cyfwelai  | Wel mae e'n gyfoeth, pwy bynnag tafodieth yw e, ta pwy ran o'r wlad. Dyw tafodieth ddim yn golygu bratieth, ma 'na wahaneth. Ond pwy sy'n egluro'r gwahaneth 'na? Ni nôl 'to gyda'r mater o farn. Alle pawb ddadle nes bo nhw'n ddu goch beth sy'n iawn a beth sydd ddim. Felly mae e i'w groesawu.   |
| Cyfwelydd | Oes gwerth i lenyddiaeth dafodieithol?  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Wel yn sicir bod e, achos mae e'n adlewyrchu cefndir, fel y nofel <i>Un Nos Ola Leuad</i> . Yr hyn nath Caradog Prichard i'w ardal ei hun. Wel pam na fydde rhywun yn 'neud yr un fath yn Shir Benfro? Dyw e ddim yn rhwystr i neb bellach.  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen?  |
| Cyfwelai  | Dwli yw rhywbeth fel 'na. Achos os ôs diddordeb gyda rhywun mewn llyfyr, fe ddarllenith e fe.  |
| Cyfwelydd | Felly se rhywun yn Sir Fôn yn darllen hon ( <i>Y Patshyn Glas</i> ), pan ma nhw'n dod ar draws y gerdd i W. R., fydden nhw'n meddwl 'beth yw hon'?   |
| Cyfwelai  | Wel yr unig beth allwch chi ddweud ynglŷn â hynny, mae'r un peth â rhywun yn tynnu llun mewn olew. Chi'n gwahodd y gynulleidfa, chi'n gweud: 'dyma'r llun dwi wedi penderfynu arno, wedi ei 'neud, wedi ei greu.' A'r unig beth allai 'weud: 'ma croeso i chi ddod miwn i weld y llun.' Allai ddim gorfodi'r llun 'na ar neb. Yr un peth allai ddim gorfodi y gerdd honno ar rywun. Ma diddordeb 'da fi mewn iaith, sai'n mynd i luchio rhwbeth sydd wedi cal ei sgrifennu yn iaith Môn, mwy na fydden i'n lluchio rhwbeth yn iaith Gwent. Gyda diddordeb 'da fi o wbod, wel beth yw ystyr y geirie. |
| Cyfwelydd | Nath hynny ddim eich rhwystro rhag rhoi'r cerddi tafodieithol mewn?  |
| Cyfwelai  | Mae e'n rhyw gulni ofnadw os y'n ni'n teimlo mai dim ond un math o iaith. Iawn ma 'da ni'r iaith lenyddol sydd i'w thrysori, a dwi'n hoff o ddarllen y clasuron. Ond allech chi ddweud am gyfrole Kate Roberts, mae e'n frith o eirie lleol.   |
| Cyfwelydd | A gath hi ei beirniadu am hynny.   |
| Cyfwelai  | Gath hi ei beirniadu?  |
| Cyfwelydd | Do, am ddefnyddio hen eirie wê wedi mynd a wê neb yn deall nhw.  |
| Cyfwelai  | Wel 'yn hunan sena i'n deall y feirniadeth 'na.  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | Wê hynny ar ddechre'r ganrif ddiwetha. Falle ein bod ni wedi symud ymlan nawr, a falle bo ni ddim mor gul heddi?  |
| Cyfwelai  | Yn ni gyd yn blant ein hôs a ma'n hagwedd ni tuag at iaith yn wahanol. Nawr sdim ots 'da fi ddarllen tafodieth, dwi'n mwynhau e, ond ma llawer un dyw nhw ddim yn hoffi darllen tafodieth.  |
| Cyfwelydd | Pam chi'n meddwl 'ny?   |
| Cyfwelai  | Hwyrach am yr addysg o'n nhw wedi gal.  |
| Cyfwelydd | Chi'n sôn am bobol Sir Benfro nawr, neu yn ehangach?  |
| Cyfwelai  | Wel sena i'n gwbod ambiti ardalodd eraill, ond yma yn Mynachlog-ddu nawr.   |
| Cyfwelydd | Dŷn nhw ddim yn lico darllen tafodieth?   |
| Cyfwelai  | Dŷn nhw ddim yn hoff ohono achos ma e'n ddieth iddyn nhw. A'r unig beth dwi'n 'weud wrthyn nhw yw darllenwch e mas yn uchel. Sen i'n darllen y stwff mas. Achos wên i mewn caffi po ddiwrnod yn Crymoch a menyw yn dod miwn a wê'r fwydlen yn Gymrâg. A beth wedodd hi?: 'Cymraes wdw i ond dwi ddim yn galler deall yr iaith 'ma,' neu rhywbeth dwl fel 'na. Ble chi'n dechre fan 'na? |
| Cyfwelydd | Felly pobol yn siarad y dafodieth ond ddim yn lico'i darllen hi?  |
| Cyfwelai  | Odi ma 'na yn bodoli. Nawr sena i'n gwbod pam. Achos bod hi'n ymddangos yn wahanol?   |
| Cyfwelydd | Ond fydde'r geirie yn gyfarwydd iddyn nhw?  |
| Cyfwelai  | Ond dŷn nhw ddim wedi dysgu darllen e achos mai iaith i'r clyw yw e, iaith lafar. A bo nhw wedi cal eu codi i ddysgu sut i ddarllen Cymrâg. Ni nôl gyda'r <i>blodau</i> 'to nawr.   |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod pobol mewn ardaloedd eraill yn gallu gwerthfawrogi cerddi tafodieithol?  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Dwi'n meddwl bo nhw, gyda tipyn bach o ymdrech. Fel ma cyfrol 'da fi ar Dafydd ap Gwilym. Sai'n diall yr iaith heb fynd i'w astudio fe, ond dwi'n ddigon parod i fynd i'w astudio fe. Unweth bod diddordeb 'da chi mewn iaith, ma'r dryse'n agor. Os y'ch chi'n dechre gweud 'o dim 'yn iaith i yw hwn,' chi'n gallu bod yn unig iawn yn diwedd. A fel o'n i'n gweud, nid bratieth yw e. Weles i athrawes unweth gyda rhywun yn y teulu, odd y ferch fach wedi tynnu llun mochyn a'r athrawes wedi sgrifennu 'mochyn fi'. Wel i fi odd hwnna yn lletwhith i'r glust ac i'r llygad. 'Fy mochyn i'. Ond wedyn falle bod rhaid i ni ddod i'r man lle ry'n ni'n gorfod derbyn pethe fel 'na achos 'na beth ma'r ieuencid yn gweud. A gadel y peth yn agored dwi'n feddwl. Achos ma mwy a mwy o bobol yn gweud 'ma gyd o fi'. A rhyw bethe fel 'na sy'n taseilio mwy o'r iaith na defnyddio geirie Sisneg. Os yw'r gystrawen yn gadarn, ma'r iaith yn gadarn. Ond 'na fe, yn ni gyd yn dysgu. Dwi'n dysgu rhwbeth newy bob dydd. |
| Cyfwelydd | Chi 'di sôn am 'Pwllderi'. Beth yw cyfraniad 'Pwllderi' i lenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Rhythm yr iaith, y pictwre mae e'n greu gyda'r iaith. Cornicillod, geire cyfoethog. Mae e'n gyfoeth o ran iaith, a mae e'n gyfoeth o ran llun, o ran teimlad, o ran lleoliad. Popeth sy 'na sy'n clodfori yr ardal a'r greadigeth. Dyna lle mae'i chryfder hi.  |
| Cyfwelydd | Dyma un o'r cerddi tafodieithol enwocaf yng Nghymru?  |
| Cyfwelai  | Fyddden i'n meddwl taw e.   |
| Cyfwelydd | Ydy Dewi Emrys wedi llwyddo i roi rhyw statws i gerddi tafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Mae e wedi codi fe lan i ryw safon arbennig dwi'n feddwl.   |
| Cyfwelydd | 1926, ma hi bron yn gan mlwydd oed.   |
| Cyfwelai  | Mae'n anhygoel. A mae mor ffres ag eriod math o beth. Se dim gwanieth 'da chi ei ddangos e i blentyn ifanc, a'i adrodd e mas. Dyw e ddim wedi heneiddo o gwbl.  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | R'ych chi wedi sôn am ddylanwad W. R. Evans arnoch chi. Beth yw cyfraniad W. R. i lenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro?  |
| Cyfwelai  | Dwi'n ddiolchgar i W. R. yn y lle cynta am iddo gofnodi'r geire. Ond mae e wedi cofnodi cyfnod arbennig yn hanes yr iaith, a mae e wedi tynnu sylw pobol at yr iaith fel odd hi'n cael ei defnyddio ym mhlwy Mynachlog-ddu, nid fel odd y deallusion yn feddwl am yr iaith. Dwi'n credu i fi ddarllen yn rhywle bod un beirniad wedi gweud wrtho dyle'r bardd hwn ddysgu beth yw ystyr geirie. 'Na sylw angharedig, odd hwnna'n sylw mên ofnadw. Achos pa hawl odd 'da rhywun, os yn ni'n defnyddio gair yn 'yn ffordd 'yn hunen? Ni nôl 'to gyda'r safon 'ma. Wedai 'to, pwy sy'n pennu'r safon? |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n gyfarwydd â'r cyfrolau <i>Wês Wês</i> ?   |
| Cyfwelai  | O wdw. Fues i'n pori yn ofnadw yn rheina.   |
| Cyfwelydd | Dwi ddim wedi dod ar draws dim byd fel hyn mewn unrhyw dafodieth arall. Pam ych chi'n meddwl bod Gwyn Griffiths a John Phillips wedi mynd ati i gofnodi tafodieth Shir Benfro?  |
| Cyfwelai  | Wel achos bod y cyfoeth 'na i ddechre. Ac odd Gwyn Griffiths, fel rhywun o'r tu fas, wedi dod i weld, a diddordeb mewn iaith 'dag e, ac wedi dod i weld y cyfoeth.  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl fod mwy o bwyslais gyda ni ar ein tafodieth? Fel dwi'n gweud, dwi ddim wedi dod ar draws rhai tebyg mewn tafodieithoedd eraill yng Nghymru.  |
| Cyfwelai  | Cafodd rheina eu cyhoeddi pan wê ddim gwmint â 'ny o fri ar astudio tafodieth. Ni'n mynd nôl i'r saithdege 'da'r rheina.  |
| Cyfwelydd | Wên nhw'n 'neud pwynt felly?  |
| Cyfwelai  | O'n nhw'n 'neud pwynt, o'n nhw'n rhoi llwyfan i'r iaith, a pham lai? Achos dathlu yr hyn yn ni'n glywed yn ni'n 'neud.  |



|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | Ych chi'n meddwl bod e'n bwysig bod y rhain yn cofnodi, o ran hanes, o ran y gymdeithas?  |
| Cyfwelai  | Mae e yr un mor bwysig â'r papur dyddiol, o ran cofnodi a dod â tipyn o hiwmor. Ma ishe hwnnw arnon ni, storié mwy dwys, ma ishe'r rheiny. Pam yn ni mor barod i wahaniaethu rhwng un peth a'r llall, pam na allwn ni glodfori yr englyn a'r gerdd gocos? Ma lle iddyn nhw. Ma ishe edrych ar y peth mwy yn ei gyfanrwydd. Ond odd rheina yn amhrisiadwy i fi gyda'r geiriadur. Fues i'n pori drwyddi nhw droeon, achos, wel odd e'n rhan o'r gwaith. Fydden i'n ffêl i beido mynd atyn nhw i weld beth odd 'da nhw i'w gynnig.   |
| Cyfwelydd | Ddethoch chi ar draws geirie anghyfarwydd i chi ynddyn nhw?   |
| Cyfwelai  | Wel ie, achos ma nhw'n dweud 'iaith Sir Benfro', sy tamed bach yn gamarweiniol, achos ma gwahanol ardalodd yn Shir Benfro lle ma'r iaith yn newid. Sdim ishe symud ymhell. Ni'n gweud <i>cisgu</i> yn Mynachlog-ddu, <i>cwsgu</i> yn Maenclochog. Ni'n dueddol o 'weud <i>ôr</i> fan hyn lle bydden nhw'n fwy tebygol o 'weud <i>wêr</i> . <i>Côd</i> a <i>cwêd</i> . Dwi ddim yn honni bod yn arbenigwr yn iaith Shir Benfro i gyd, iaith y <i>wês wês</i> , achos ma gwmint o wanieth mewn geire rhwng 'ma a Tyddewi, Casmal ac ati. Bydde'n cymryd amser i ddod i 'nabod a ma'r genhedleth odd yn siarad y dafodieth yn naturiol – hwyrach dylen i fod wedi 'neud y gwaith 'ma ddeg mlynedd ar hugen nôl. Ond o'n ni wedi bod yn casglu ddi ers hynny. |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod hi'n bwysig bod y beirdd a llenorion 'ma wedi sgrifennu, fel ei fod ar gof a chadw?  |
| Cyfwelai  | Odi, dwi'n meddwl, a dwi'n meddwl fod mwy o feirdd yn defnyddio iaith eu hardalodd nawr, mwy nag o'r blan. Ond yn ni'n mynd nôl at hanes yr iaith ta beth, achos odd Beibl William Morgan wedi dod â'r iaith at ei gilydd, a wel odd ddim posib iddo fe delio â'r tafodieithodd. A ma ishe'r iaith 'na arnon ni.  |
| Cyfwelydd | Ma 'na le i'r 'ddwy'?   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Ma lle i'r ddwy, a fel o'n i'n gweud, ma tafodieth fel iaith o fewn iaith.  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod themâu amlwg mewn cerddi tafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Sen i'n meddwl natur a'r gymdogeth, y gymdeithas. Yn ni nôl 'da Waldo nawr, y themâu cymdeithasol a cyfarch pobol. Y peth dynol 'ma, dyw e ddim yn rhyw bethe haniaethol, deallusol fel y cyfryw. O yn bendant y gair allweddol yw gwaith cymdeithasol.   |
| Cyfwelydd | Pam 'ny? Am fod y gymdeithas a'r iaith yn mynd gyda'i gilydd?   |
| Cyfwelai  | Odyn, law yn llaw. Mae e fel cwên gwair, pobol yn pitsho miwn i 'neud y gwaith.   |
| Cyfwelydd | Felly ma 'na rai themâu fyddech chi ddim yn sgrifennu amdany'n nhw?   |
| Cyfwelai  | O sai'n gweud 'na. Ma ishe unrhyw fath o sialens. Sen i'n byw yng Nghaerdydd – a ma bri mowr nawr ar waith i dargedu ar gyfer y trefi, ar draul y peth gwledig dwi'n teimlo weithe – ond allen i sgrifennu tafodieth yng Nghaerdydd. Yr un fydden iaith i le bynnag fydden i yn y byd.  |
| Cyfwelydd | Ond fyddech chi'n mynd tu fas i themâu fel y gymdeithas?  |
| Cyfwelai  | Ma themâu personol fan 'na. Fel dwi'n arlunydd a sen i'n dangos y gerdd 'Sur-gerfiad' i rywun – sur-gerfiad yw etching – a nes i ddefnyddio delwedde mas o weld y niwl. Wel gwaith arbenigol yw hwnnw sy'n perthyn i arlunydd. A mewn ffordd dim ond arlunydd alle ddeall y gerdd ar y raddfa 'na. Mae'n gerdd syml iawn, dim ond creu darlun fel bydden i'n creu etching mas o rhwbeth. O wês, all y dafodieth ddelio ag unrhyw beth. Dyw e ddim yn perthyn i'r clos y ffarm yn unig. Dwi'n cofio yn ifanc iawn yn Ysgol y Preseli ysgrifennu traethawd Cymrâg a sôn am y da a pethe a sgrifennes i <i>eirw</i> – yr hyn chi'n rhoi o gwmpas gwddwg da. O'n i'n fachgen y teulu ar y fferm gyda mamgu a dyna'r gair cyfarwydd i fi, a sgrifennes i fe. Ges i stracen drosto – <i>aerwy</i> . A wên i wedi sgrifennu <i>lletwhith</i> fel yn ni'n 'weud e. Stracen goch – <i>lletchwith</i> . A |

|           |   |
|-----------|---|
|           | wên i'n meddwl pam hynny? Achos <i>gaea</i> wên i'n gweud, dim <i>gaeaf</i> . Felly ma'r diddordeb 'ma mewn iaith, a pam defnyddio ambell i air yn lle gair arall.  |
| Cyfwelydd | Dwi wedi clywed am blant yn sgrifennu fel ma nhw'n siarad ac yn cael eu cywiro.   |
| Cyfwelai  | Ma athrawon yn 'neud niwed â'r plant. O'n i mewn dosbarth un tro a glywes i plentyn yn gweud <i>gorffod</i> . Dim <i>gorffod</i> medde'r athrawes, <i>gorfod</i> . Dyw hwnna ddim yn magu diddordeb yn y plant mewn iaith o gwbl. Mae e'n dweud paid defnyddio gair a pam hynny? Fel dwi nôl 'to, os yn ni'n defnyddio iaith a mae'i darddiad e yn y Gymrâg – ma nhw'n creu probleme yn ddiangen. Se llawer gwell sei'n egluro mai <i>gorfod</i> yw'r gair weli di yn y geiriadur, er bo ni'n gweud <i>gorffod</i> , i egluro'r cefndir.  |
| Cyfwelydd | Ydyn nhw yn 'neud hynny?  |
| Cyfwelai  | Wel falle bo ddim digon o amser 'da nhw i 'neud rhwbeth fel 'na, i bigo ar bob dim.   |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl mai rhywbeth hen ffasiwn yw llenyddiaeth dafodieithol erbyn heddiw?  |
| Cyfwelai  | Ma lle 'da ge i dorri tir newydd dwi'n teimlo. Os dyw'r gair o fewn cof – ond ma 'na berygl i'r geirie 'ma i fynd i ddifancoll, a wedyn mae e'n rhan o hanes pobol. Achos ma tipyn o berygl i bopeth fynd yn rhyw lwyd, canolig 'ma, a bod rhyw lefel iaith weddol – ddim llawer o ddwfnnder iddo fe. Achos mae e'n beth pwysig bo ni yn galled cyfathrebu gyda phobol yn Shir Fôn neu bobol Shir Fflint neu beth bynnag yn yr iaith Gymrâg. A falle bo ni'n 'neud e heb sylwi arnon ni'n hunen. Yn ni yn addasu'r iaith. Ni'n disgwyl rhyw fath o iaith goeth gyda siarad cyhoeddus. |
| Cyfwelydd | A ma pobol yn meddwl bo rhaid iddyn nhw siarad iaith safonol?   |
| Cyfwelai  | Wel, mae e'n faes astrus iawn. Pan ni'n gwrando ar rywun yn siarad yn gyhoeddus, yn ni yn disgwyl rhyw fath o safon. Pan ma rhywun yn defnyddio bratieth mae e fel se fe'n tansellio beth sy 'da fe i'w 'weud. Mae e'n tynnu sylw ato fe'i hunan.   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | A oes lle i gerddi tafodieithol ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, fel y Gadair a'r Goron?   |
| Cyfwelai  | O yn bendant.   |
| Cyfwelydd | Ma rhai, fel T. James Jones, wedi ennill y Goron gyda cherddi tafodieithol, a Meic Stephens wedi dod yn agos at y Goron gyda cherddi yn y Wenhwyseg. Ond ma 'na rai beirned yn gweud na ddyle cerddi tafodieithol ennill. Beth ych chi'n feddwl?  |
| Cyfwelai  | Wel dwi nôl gyda'r cwestiwn 'ma pam lai 'to? Pam yn y byd na? Os ych chi wedi creu campwaith, beth bynnag yw eich priod iaith chi, wel pam lai? Achos beth sy well gyda rhywun, cerdd gyhyrog mewn tafodieith glân, neu cerdd eilradd mewn Cymrâg safonol? Beth yw'r gore? A yn ni'n mynd nôl at 'Pwllderi' Dewi Emrys. Ysgrifennodd e pentwr o waith, ond am beth ni'n ei gofio fe heddi? 'Pwllderi' a 'Y Gorwel'.   |
| Cyfwelydd | Er iddo ennill peder..... (Cadair)  |
| Cyfwelai  | Peder o weithe?   |
| Cyfwelydd | A gorfod newid y rheol o achos hynny.   |
| Cyfwelai  | Dwi 'di treial darllen ei waith e, a meddwl o 'na bethe diflas. A gweud y gwir. Ond ma 'Pwllderi', mae e'n dal yn fyw. Felly dim y dafodieith yw'r broblem ond ein hagwedd ni tuag at iaith.  |
| Cyfwelydd | Pam fod rhagfarn wedyn gan rai beirned? Ma nhw'n meddwl fod rhaid i'r rhain fod yn safonol?   |
| Cyfwelai  | Mae e'n gwestiwn mowr. Achos meddwl am Dic Jones nawr. Pencampwr yn ei faes ond ddim wedi gweld coleg. Achos dwedodd e rhywbeth: 'o synnwyr cyffredin mae'n colege yn llawn, a hwnnw'n synnwyr cyffredin iawn.' Felly dyna'i farn e ar y mater ond drychwch beth ysgrifennodd e. Achos bod e wedi cadw'n driw i'w weledigeth. Odd e'n defnyddio geiriau tafodieithol, tafodieith Aberteifi, a mae e'n swno'n hyfryd yn ei waith e. Ond na, dwi'n teimlo weithe bod rhagfarn yn erbyn iaith Shir Benfro. |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Chi'n meddwl 'ny?  |
| Cyfwelai  | Rhyw deimlad sy yn y gwad sy 'da fi. Achos i fi, gwaith gore W. R. yw'r gwaith tafodieithol. Hwnnw sydd yn cyffroi a sy'n gwneud i fi edrych ar yr iaith o'r newydd. A hwyrach yn y pen draw i fi fynd ati'n hunan i dreial 'neud rhyw waith.  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod iaith Caerdydd yn dafodiaith? Ma rhyw iaith newydd wedi datblygu yno?   |
| Cyfwelai  | O wês, dwi'n gwbod. Ma nith a nai i fi wedi cael eu codi yng Nghaerdydd a ma nhw wedi mynd i'r ysgolion Cymrâg a ma Cymrâg arbennig 'da nhw.   |
| Cyfwelydd | Ydy honno'n dafodieth?   |
| Cyfwelai  | Dy ni ddim yn sylwi arnyn nhw yn siarad. Ma nhw'n siarad fel ni math o beth. Dyw e ddim yn destun mewn ffordd. Dim ond bo nhw'n siarad Cymrâg yn dda. A 'na beth sy'n bwysig. Achos ma nhw'n codi mewn cefndir hollol wahanol i blant Mynachlog-ddu.   |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod 'na gysondeb yn y ffordd ma tafodieth yn cael ei chyflwyno mewn llenyddieth? Ydy hi'n union fel ni'n siarad hi, neu oes gorliwio weithie?   |
| Cyfwelai  | Wel ma cyfaddawd yn teitl y llyfr 'ma, Tafodieth Shir Benfro. <i>Geletsh</i> fydden i'n gweud, nid <i>gelaits</i> . Ac os drychwch chi, os dwi'n iawn, <i>geletsh</i> yw'r gair 'da fi. A o'n i wedi sgrifennu <i>gwrug</i> , ond gyda y wasg, fuon ni'n trafod y peth, felly o'n i'n gorffod ildopwyntie fel 'na. Ma pob un gair unigol a'i hanes, a ma pob gair allen i drafod e. Meddwl am air fel <i>bro</i> er enghraifft. Ma cerdd T. H. Parry-Williams yn dod i'r meddwl. Ma hanes i bob gair. Allwn ni ddim meddwl am y gair <i>bro</i> heb feddwl am gerdd T. H. Parry-Williams. Mae e wedi codi'r gair o'i gyd-destun ac wedi creu rhwbeth ohono fe. Ma pob gair â potensial yn ei faes priodol. |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod dyfodol i lenyddiaeth dafodieithol?   |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Wel dwi'n gobeitho bod e, fel bod 'na ddyfodol i'r Gymrâg, a hwnnw'n Gymrâg cyhyrog, bywiog, llawn asbri sy'n berthnasol i bob cenhedleth, i'r hen ac i'r ifanc.   |
| Cyfwelydd | Ydy'r dafodieth yn gwanhau nawr?   |
| Cyfwelai  | Sai'n gwbod. Mae'n anodd dweud. Achos sdim dishgwyl i rywun sy'n codi nawr falle wbod beth yw <i>pladur</i> . Wên i'n ifanc yn codi o'n i'n gwbod beth odd pladur. A glywes i rywun peniog tu hwnt in gofyn beth wê pladur? Wel mater o gefndir yw hyn. Wêdd e ddim wedi digwydd cal ei fagu ar fferm, dim ond y byd academiaidd wêdd e'n gwbod. Felly ddylen ni ddim beirniadu neb am beido diall gair neu beido dweud gair. Y peth pwysig yw bo ni'n siarad Cwmrâg a bo ni'n ymhyfrydu yn yr iaith, a peido teimlo gas, fel odd gyda cenhedleth 'yn famgu. Bod hi'n ddiwardd i siarad Cymrâg o flan Sais. Bod hi'n ddiwardd. Druans ohonyn nhw ondyfe? Achos ma milodd o ieithodd drwy'r byd i gyd, weld cannodd ta beth. A o'n i'n meddwl wel dyna bobol odd wedi cal eu gwasgu lawr gyda'r system addysg ac ati. A nhw odd y bobol â'r Cymrâg gloywaf yn y diwedd. Wêdd e'n gymysg â delwedde o'r Beibl, Cymrâg cyhyrog fel o'n i'n dweud. 'Ond sim 'yn Gymrâg i yn ddigon da'. A falle bod e'n dal yn bodoli synai'n gwbod. Ond mae e'n ffordd i rywun ddweud 'na nawr, esgus yw e i beido. Senai'n gwbod beth yw'r achos. Sai'n gallu diall pobol fel 'na. Achos, wel fel o'n i'n gweud, o'n nhw'n bobol wê'n siarad, wêdd y Gymrâg yn ei chryfder, dros 90% o blwy Mynachlog-ddu yn Gymry Cymrâg. Ond odd y busnes ma i ddod mlan yn y byd odd rhaid mynd bant. |
| Cyfwelydd | A wê rhaid siarad Saesneg?   |
| Cyfwelai  | A wê rhaid siarad Sisneg. Fues i'n tynnu côs pobol o'r Rhondda dro yn ôl. A gofynnes i'r wraig, odd y gŵr ddim yn siarad Cymrâg o gwbl, ond odd y wraig, odd hi'n gweud tamed bach pan wêdd hi'n yr ysgol. A ofynnes i iddi wel pam ddewisoch chi siarad Sisneg yn lle Cwmrâg? A o'n i'n cadw gofyn iddi a odd hi'n dweud atebion fel odd hi ddim wedi cal e yn yr ysgol a rhyw bethe fel 'ny. A o'n i'n dal i ofyn iddi wel pam dewis Sisneg yn fwy na'r  |

|           |   |
|-----------|---|
|           | <p>Gwyrâg? Achos pan chi'n meddwl, iaith y gormeswyr odd Sisneg, y meistri. Bydde fe'n rhwbeth i daro nôl, mewn ffordd ddigon heddychlon ond ddigon pryfoclyd. A dwi'n teimlo 'na gyda llefydd fel y Rhondda. A ma nhw'n lando lan gyda dim iaith o gwbl achos ma hwnna'n golled fowr. Achos os ewch chi mas i Lydaw, ma rhaid i bawb siarad Ffrangeg. Wel pan bo fi'n mynd mas 'na dwi'n gallu dweud yn weddol sicir bo fi'n siarad Llydaweg yn well na Ffrangeg. A ma rhaid iddyn nhw droi i'r Ffrangeg. Wel pam na newn ni 'na yng Nghymru? Dŷn ni ddim hanner digon cryf. A mae'n anodd dysgu iaith, dwi wedi bod 'da nhw in dysgu. A rhai yn rhyfedd moyn dysgu. Ond y drwg yn y caws yw'r Cymry Cymrâg ma sy'n anghofio eu Cymrâg whip stitsh, a ddim yn 'neud defnydd ohoni.</p> |
| Cyfwelydd | Ac yn siarad Saesneg â'u plant?   |
| Cyfwelai  | O dwi'n meddwl bo hynny'n golled, yn 'neud drwg â'r plant. Dwi ddim yn diall rhwbeth fel 'na.   |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod ysgrifennu mewn tafodieth yn tanseilio Cymraeg Byw Safonol?  |
| Cyfwelai  | Dwi'n hollol yn erbyn datganaid fel 'na. Pam mae e'n tanseilio?   |
| Cyfwelydd | Ma pobol yn dweud dyle fod 'na Gymrâg safonol. A nath John Morris-Jones safoni'r Gymrâg.  |
| Cyfwelai  | Wel ma hwnna fel dweud ma rhaid i ni gal un coeden a dim ond un coeden, ma rhaid i ni gal un blodyn a dim ond y blodyn 'na. Allai ddim diall pobol fel 'na. Wel fydde hwnna fel fi fel arlunydd yn gweud un math o lun a dim ond y llun yna. Ma'r maes yn hollol agored. Ỳn ni wedi symud mlan tamed bach gobeitho o'r meddylfryd 'na a odd probleme eu hunen gyda nhw yn oes eu hunen. Ni'n wynebe probleme erill, fel cyfrynge torfol a'r cyfrifiadur bellach. Pwy sy'n gwbod lle ma pethe'n mynd? Ond ma iaith yn cadw ni'n wâr.   |
| Cyfwelydd | Felly mae 'na le i dafodieth ac i'r iaith safonol?  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Wel ma sawl lefel o ieithodd 'da ni. Dwi'n lico tynnu côs pobol. Pan es i i'r gogledd unweth, o'n i'n gwbod beth o'n i'n 'weud, mynd miwn a gofyn allen i gal ffowlyn a sglodion os gwelwch yn dda? A o'n i'n gwbod fydde hi ddim yn deall ffowlyn. Cyw iâr ondyfe?  |
| Cyfwelydd | Beth wê'r ymateb?  |
| Cyfwelai  | Wel edrych. Dwi wastod wedi meddwl nid faint o iaith ych chi'n gwbod a diall ond 'ych agwedd chi tuag at yr hyn chi'n wbod. Achos yn Steddfod yr Urdd Preseli yn Boncath es i miwn i babell Merched y Wawr a ofynnes i mewn iaith ffug gogleddol: 'gai baned o de os gwelwch yn dda'? A wedyn troies i rownd a yn iaith bob dydd ni: 'gai dished o de 'da chi'? A wê rhyw wraig yn sefyll ar 'y mhwyys i a wedodd hi: 'ma paned yn well.' A wên i'n meddwl bo hwnnw'n damnio tamed bach sefyllfa'r iaith. Achos pwy odd hi i 'weud bod 'paned' yn well?  |
| Cyfwelydd | Oes rhinwedd i ddefnyddio tafodiaith yn lle iaith safonol?   |
| Cyfwelai  | Wel dwi nôl gyda amrywieth. Ma ishe amrywieth. Ma ishe llyfre amrywiol arnon ni ar bob pwnc dan haul. Ma lle iddyn nhw, ma pob un â'i diddordeb ei hunan. A'r ateb yw amrywieth. A os ôs rhywun yn sgrifennu rhwbeth sy'n ddadleuol, wel o leia ma trafodeth. A lle bynnag ma trafodeth ma 'na fywyd. Pam bo ddim ymateb 'da chi. Fel wedodd un o Aberteifi am y geiriadur: 'ma camgymeriad 'da ti yn hwn'. A meddylies i wel dim ond un, wel diolch yn fowr! Rhwbeth ynglŷn â term amaethyddol wêdd e. Wel dwi ddim wedi cal 'y nghodi yn fab ffarm, o'n i'n ymweld â ffarm adeg gwylie'r haf, ar ffarm 'yn famgu. Ond heblaw am hynny o'n i tu fas y maes ffarmo, a wên i wedi camddyfyntu neu wedi camddeall. A meddylies i wel os mai dim ond un camgymeriad ma hwnnw'n dda iawn! Ond o leia wêdd e wedi tynnu sylw, wedi darllen. |
| Cyfwelydd | Diolch yn fawr.  |



|                    |   |
|--------------------|---|
| <b>Cyfweliad 4</b> |   |
| Cyfwelydd:         | Ruth Thomas   |
| Cyfwelai:          | Prifardd Eirwyn George  |
| Dyddiad cyfweld:   | 20 Medi 2014  |
| Lleoliad:          | Cartref y Cyfwelai, Maenclochog   |
| <b>ADYSGRIF</b>    |   |
| Cyfwelydd          | Ydych chi'n ysgrifennu <i>llynyddiaeth mewn tafodiaith</i> – darnau o waith yn gyfan gwbl mewn tafodiaith? Neu, ydych chi'n ysgrifennu tafodiaith mewn <i>llynyddiaeth</i> – y defnydd o dafodiaith mewn darn o waith, megis deialog?   |
| Cyfwelai           | Bach iawn dwi wedi sgrifennu mewn tafodieth. Ma 'da fi ddau ddarn i <i>Wês Wês</i> .  |
| Cyfwelydd          | Nethoch chi sgrifennu rheiny yn benodol ar gyfer <i>Wês Wês</i> , neu wê chi wedi sgrifennu nhw'n barod?  |
| Cyfwelai           | Sgrifennes i ddou neu dri cyfraniad i <i>Wês Wês</i> . Beth wê rheina wêdd ateb yr alwad. Wêdd Gwyn Griffiths yn drefnydd yr Urdd yn Shir Benfro, ac o'n ni'n ffrindie mowr iawn. Wel ateb yr alwad i blesio Gwyn wê hwnna. A ma 'da fi rhyw fath o ddwy gerdd. Sgrifennes i un ar Meini Stônhenj. Beth wê hwnna, ma'r cerrig gleision wedi mynd o fan hyn i Stônhenj. Blwyddyn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Lliw 80 ethon ni lan i weld y cerrig in Stônhenj, ac am ryw reswm sgrifennes i hwnna. |
| Cyfwelydd          | Felly pam ysgrifennoch chi hon mewn tafodieth? (y gerdd 'Cerrig Mowr Stônhenj')   |
| Cyfwelai           | Wel fwy na thebyg achos cysylltiad y cerrig â'r ardal. Allai ddim gweud pam yn union, na, ond rhwbeth wedi dod yn naturiol. A ma 'da fi pwt wêth wedyn, 'Foel Cwm Cerwyn'.  |
| Cyfwelydd          | A ma honno hefyd yn <i>Cerddi Sir Benfro</i> .  |
| Cyfwelai           | Enilles i'r Goron ddwyweth, yn Abertawe yn 82 a wedyn yn Llanellwedd yn 93, a cyfarfodydd wedyn, teyrnged. Wel gyda'r ail Goron wedyn te, trefnu  |

|           |   |
|-----------|---|
|           | <p>eiteme wedyn ar gyfer y cyfarfod teyrnged. Gerald Jones wê'r cadeirydd, ac wê ishe eitem o'r ysgol. A wê digwydd bod ddim byd 'da fi i blant. A nes i rhywbeth gwyllt iawn wedyn ar 'Foel Cwm Cerwyn', rhywbeth lleol wedyn. Ond arlliw o dafodieth yw honna. Dyw honna ddim yn dafodieth bur o bell, bell, ffordd, dim ond arlliw tafodieth yw hi. A'r gyfrol nesa wê 'da fi i gyhoeddi wedyn wêdd <i>Cân yr Oerwynt</i>, a dwi wedi cynnwys honno 'to. A sgrifennodd Cen Williams, Prifardd Cen Williams o Sir Fôn, adolygiad in <i>Taliesin</i>. A wêdd e yn canmol y dafodieth, wedi dotio yn llwyr ar y dafodieth, ac yn gweud trueni na fydden i wedi sgrifennu mwy mewn tafodieth. Wê Cen wedi gweld hi gyd mewn tafodieth, ond i fi dim ond arlliw o dafodieth sydd yn honna.</p>  |
| Cyfwelydd | Ma geirie fel <i>miny</i> a <i>owyr</i> gyda chi yma.   |
| Cyfwelai  | <p>Sdim honna mewn tafodieth bur. Ma'r llall odi, ond dyw honna ddim o bell, bell ffordd. A gyda <i>Wês Wês</i>, fe ysgrifennodd 'y nhad i'r un cynta, T. E. George, 'Wil Stâd'. A pan sgrifennodd 'y nhad honno wêdd e wedi sgrifennu dim (mewn tafodiaith). Wêdd e'n cystadlu ar yr emyn a'r delyneg, ond dim rhyddieth o gwbl. A wê rhyw ganmol mowr, mowr iawn arno gyda pobol lleol, canmol tu hwnt. A'r rheswm yw bod e'n sgrifennu i ddynion fel yn ni'n siarad. Ath honno lawr yn arbennig o dda. Nid cynnwys y stori ond cynnwys y dafodieth, y ffordd wêdd e'n sgrifennu. Bod yr iaith lafar yn cael ei rhoi ar bapur. Dwi'n credu dylid dyfynnu deialog yn union fel mae pobl yn siarad. Islwyn Ffowc Ellis a'r rheiny, nofele cynnar. Dwi'n credu dyle hwnna fod yr iaith naturiol fel mae. Ar y llaw arall, gallai achosi peth trafferth i'r rhei sydd ddim yn gyfarwydd â'r dafodieth, yn enwedig os chi'n cal nofel nawr in llawn deialog.</p> |
| Cyfwelydd | Pam nad ych chi'n defnyddio llawer o dafodieth felly?   |
| Cyfwelai  | <p>Wel pam dwi ddim, oherwydd dwi'n ysgrifennu dipyn. Dwi 'di cyhoeddi pedwar ar bymtheg o lyfre a dwi biti fod yn awdur llawn amser. Dwi'n byw, gyda sgrifennu, ing nghanol iaith llenyddol safonol. Fel darllen yn di-ben draw ac yn beirniadu mewn eisteddfode, dwi'n byw ing nghanol hwnna. Felly</p>   |

|           |   |
|-----------|---|
|           | ma gyda fi mewn ffordd wedyn ddwy iaith, sef iaith sgrifennu a iaith siarad. A 'na pam dwi ddim yn sgrifennu mewn tafodieth. A hefyd, dwi'n ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa ehangach, i Gymru gyfan. Ma gyda fi tafodieth, rhywbeth achlysurol, rhyw <i>one off</i> os mynnwch chi.   |
| Cyfwelydd | Ond chi'n hapus i gynnwys ambell gerdd dafodieithol yn eich cyfrole?  |
| Cyfwelai  | Allan nhw oddef un cerdd. Mwy neu lai jwst dangos bod hi ar gal.  |
| Cyfwelydd | Beth yw eich barn am ddefnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth? Oes lle i dafodiaith?   |
| Cyfwelai  | O yn sicir iawn, yn sicir iawn, yn sicir bod lle i dafodieth ochor yn ochor â iaith llenyddol bur. Dwi ddim yn siwr sut fydde tafodieth yn gweitho yn y pulput. Mae'n gweitho mewn darlith, odi, mae'n well mewn darlith, ond y pulput dwi ddim yn gwbod.   |
| Cyfwelydd | Oes gwerth mewn llenyddiaeth dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Dylai gael ei roi ar gof a chadw. Dwi'n credu bod hynna yn eitha pwysig.  |
| Cyfwelydd | A yw llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen?   |
| Cyfwelai  | Yn sicir iawn, iawn. Mae'n cyfyngu'r gynulleidfa, yn sicir dos dim amheueth am hynny.   |
| Cyfwelydd | Fel y cyfrole <i>Wês Wês</i> nawr, ai dim ond i bobol Sir Benfro ma'r rhein?  |
| Cyfwelai  | Beth yw'r ymateb i'r rheina tu fas i Shir Benfro sena i'n gwbod? Fan hyn mewn grwpie trafod llyfre chi'n iawn. Ond gwedwch bod rhai sy'n gyfarwydd â siarad yr iaith a darllen iaith lenyddol, so nhw mor hyddysg yn darllen tafodieth. Mae'n cynnwys fi'n hunan. Dwi'n cal tamed bach o drafferth nawr – darllen iaith Caernarfon yn iawn, Sir Aberteifi, W. J. Gruffudd – gyda barddonieth Meic Stephens. Mae e wedi dod yn agos at y Goron chwech gwaith, i gyd yn gerddi tafodieithol. Wel dwi'n cal peth trafferth. Wdw i yn deall, wdw, ond gorffod 'neud dou beth da'i gilydd, sef treial astudio, |

|           |   |
|-----------|---|
|           | ymdrechu i ddeall ei dafodieth a ystyr y gerdd. Sai'n gallu canolbwyntio ar ystyr yn unig fel dwi'n darllen cerdd sydd ddim mewn tafodieth. Dou beth yn treial mynd yr un pryd. Mae'n gallu achosi rhywfaint o drafferth, gyda cystrawen a geirfa wedyn.  |
| Cyfwelydd | A yw darllenwyr yn medru deall a gwerthfawrogi gweithiau mewn tafodiaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi?   |
| Cyfwelai  | Nadyn, ddim gwerthfawrogi'n llawn.  |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad y gerdd 'Pwllderi' gan Dewi Emrys i lenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro?  |
| Cyfwelai  | Ma 'Pwllderi' yn gerdd hyfryd iawn, hyfryd iawn iawn. Cerdd agos-atoch. Ond un peth, ges i dipyn o sioc. Dwi'n cofio Eisteddfod Genedlaethol Abergweun, 1986. Gofynnwyd i James Nicholas i sgrifennu ar dipyn o hanes enwogion Sir Benfro yn ei rhaglen testune. A mae e'n sôn am 'Pwllderi' a chanmol i'r cwmwle. A mae'n dweud wedyn bod Dewi Emrys – wên i'n meddwl bod Dewi Emrys yn fachgen lleol, wedi ei godi yn Pen-car, dod na'n wyth a symud yn ddwy ar bymtheg – wedi treulo diwrnod neu ddau ar aelwyd Daniel Rees yn Pen-car i gofnodi'r dafodieth cyn cifansoddi'r gerdd ar gyfer Eisteddfod Abertawe 1926. Wel wên i'n meddwl gan fod Dewi Emrys wedi ei fagu in yr ardal 'na fydde'n dod in naturiol iddo fe. Fydden i'n disgwyl bo ddim rhaid iddo fe fynd i gofnodi hi cyn hynny. Ma'r gerdd ei hunan yn gerdd hyfryd iawn iawn. Ma'r dafodieth, wel a'r golygfeydd os mynnwch chi a'r digwyddiade in annatod. Allwch chi ddim mo'u gwahanu nhw. Mae'n gerdd hyfryd iawn. |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad gwaith W. R. Evans i lenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro?   |
| Cyfwelai  | Ma W. R. wedi 'neud mwy na neb arall i hyrwyddo tafodieth y sir, sdim dwywaith am hynny. Nes i olygu'r gyfrol <i>Awen y Moelydd</i> a dewis y cerddi. Ma rhei cerddi tafodieth da iawn iawn 'ma, arbennig. Fel y gerdd llosgi'r eithin, 'Sir Benfro'n Fflam', am y Goron yn Abertawe. Y gerdd arall wedyn 'Tidrath', wedi mynd ar drip lan y môr i  |

|           |  |
|-----------|--|
|           | Tidrath. Y gerdd wedyn i 'Ffinnon 'Richen', ar bwys Bwlch-y-groes. A'r cerddi 'na, mewn tafodieth, ma nhw in gampweithie. Teimles i wedyn gyda hwn, <i>Cawl Shir Bemro</i> , mai ceisio dangos ei dafodieth mae e yn hytrach na bo 'da ge rhywbeth pwysig ishe'i 'weud. Ma cerddi tafodieth yn dod o brofiad, ond 'da'r rhein, crafu'i ben nawr mae e'n 'neud, treial cal rhywbeth i'w 'weud, er mwyn dangos ei dafodieth. Wedodd e wrthai cyn 'ny mai'r bwriad wêdd eisie dangos a cadw'r dafodieth. Yn hinny mae'n colli tamed bach in llenyddol wedyn, trwy hinna.  |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad y pedair cyfrol <i>Wês Wês</i> i lenyddiaeth dafodieithol? Ydy'r rhein yn bwysig?  |
| Cyfwelai  | Mae'n bwysig i gyflwyno'r dafodieth i ddarllenwyr, ond ma 'na anghysondeb o ran defnyddio'r dafodieth, ac o ran safon fel gweithie llenyddol. O ran anghysondeb gyda'r dafodieth, yn amal chi'n cal – wel defnyddio geirie di-dafodieth gyda safonol ing nghanol tafodieth. Fel Morgan Jones yn sôn am ryw bregethwr, bod e'n bregethwr 'grymus a gwreiddiol.' Wel dyw'r ddou 'na ddim yn eirie tafodieth o gwbl. Fydden i byth yn defnyddio'r rheina mewn tafodieth. Bydden i'n dweud e mewn ffordd arall, fydden i byth in defnyddio'r ddou 'na. Ond chi'n gwbod yn well na fi ma'r dafodieth yn newid wedyn mewn ardalodd. Ges i'n eni tair milltir o fan hyn. A Maureen wedyn in dwâd o Hermon, a so tafodieth Crymych eitha'r un peth. <i>Crwt</i> a <i>rhoces</i> i fi, wel <i>bachgen</i> a <i>merch</i> ma hi'n gweud. Beth fyddech chi'n gweud? |
| Cyfwelydd | Crwt a rhoces.   |
| Cyfwelai  | A ma Hefin Wyn yn sgrifennu llyfre mewn tafodieth. Wedi cal ei godi yn Y Glôg. Wedyn pobol o Shir Garfyrddin odd ei dad a'i fam. A iaith Shir Garfyrddin odd iaith yr aelwyd, felly ma 'da Hefin cymysgedd o'r ddwy. Dwi'n gweud <i>parc</i> , wel <i>ca</i> mae e'n gweud. Wedyn mynd i Abergweun a Tyddewi wel wrth gwrs ma 'na tipyn o wahanieth, rhai yn gweud <i>trwêd</i> a rhai <i>trâd</i> . Dwi'n dod o ardal Twffton. Dwi'n gwbod i sicrwydd bod tri gair, bo nhw dim ond yn perthyn i'r cylch 'na, sef <i>whisg</i> , <i>taraf</i> a <i>gwibrol</i> . Whisg yw traferth. Symudodd 'y Nhad a Mam lan i Llandudoch yn 65. Wel dath  |

|           |   |
|-----------|---|
|           | Gwyn Griffiths, wêdd e'n Drefnydd yr Urdd bryd hynny, galwodd e i'w gweld nhw. A gofynnodd Mam iddo fe: 'gethoch chi whisg i ffindio'r ffordd 'ma'? A odd 'dag e ddim syniad. Wel taraf wedyn, brys. A gair mowr 'da Nhad wêth wê rhwbeth fel: 'trw'r dydd gwibrol', sef trw'r dydd i gyd. Wel sai'n meddwl bod y tri gair 'na yn bellach na ardal Twffton. A nath Wyn Owens y llyfyr 'na, a mae e wedi cynnwys rhai.   |
| Cyfwelydd | A yw'n bwysig fod y beirdd a llenorion hyn wedi hybu llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro a pham?   |
| Cyfwelai  | Mae'n iaith agos atoch chi. Wêdd 'y Nhad yn cistadlu nawr ar y delineg a'r emyn mewn eisteddfode lleol. Wel gistadlodd e in Clunderwen a Waldo odd yn beirniadu. A wedodd Waldo wrth feirniadu'r delineg bod y delineg mewn ffurf mor bersonol mai mewn tafodieth dylai gael ei sgrifennu. Telyneg yn fwy personol nawr gwedwch na englyn neu awdl. Wel dwi ddim wedi gweld 'na yn unman mewn print bod Waldo yn gweud 'na. Clywed 'y Nhad yn gweud pyrny a wêdd e'n bach o sioc. |
| Cyfwelydd | A oes themâu amlwg mewn cerddi tafodieithol?  |
| Cyfwelai  | At ei gilydd falle yn tueddol o fod yn fwy personol, yn fwy plwyfol falle. A hefyd in ysgafnach. Deunydd ysgafn chi'n cal mewn tafodieth, chi ddim yn cal rhywbeth trwm. Sdim tristwch mowr mewn tafodieth. A hefyd dim byd falle cynhwysfawr iawn, rhyw weledigeth fawr, dwfn iawn. Fel cerdd fawr Waldo nawr, 'Rhwing Dau Gae', fydde honno byth yn gweitho mewn tafodieth. Na chwaith defnydd ysgolheigedd. Allwch chi ddim cal defnydd ysgolheigedd mewn tafodieth.           |
| Cyfwelydd | Ai rhywbeth hen ffasiwn yw llenyddiaeth dafodieithol erbyn heddiw?  |
| Cyfwelai  | Wel mae'n tueddu i farw mas, bod llai o ddefnydd o dafodieth yn sicir. Ond mae'n gallu trafod y pyncie cyfoes, ac yn naturiol i lawer. Odych chi wedi darllen hunangofiant John Davies, John Cilrhue?   |
| Cyfwelydd | Do. ( <i>Dala'r slac yn dynn</i> , 2013)  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Ma honna chi'n gweld mewn rhyw hanner tafodieth, a mae'n gwbl naturiol. Ma honna tipyn ar ei hennill o fod mewn tafodieth.  |
| Cyfwelydd | Ond fyddech chi ddim wedi defnyddio tafodieth yn eich hunangofiant chi? ( <i>Fel Hyn y Bu</i> , 2010)   |
| Cyfwelai  | Na fydden.  |
| Cyfwelydd | Pam felly?  |
| Cyfwelai  | Wel ar gyfer cynulleidfa ehangach. Ond o'n i'n teimlo bod llyfyr John fel bydde fe'n siarad â chi. Mae e'n nes atoch chi.   |
| Cyfwelydd | A oes lle i gerddi tafodieithol ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, megis y Gadair a'r Goron?   |
| Cyfwelai  | Wel fydden i'n gweud bod e, yn enwedig i bwrpas nawr. Steddfod Y Rhyl 1953, Dilys Cadwaladr gas i Goron. 'Y Llen' wê testun y bryddest, ond wê Saunders Lewis o blaid coroni Dyfnallt Morgan. Beth wê gydag e wê cerdd in nhafodieth sathredig Cwm Rhondda. A wê honno'n cal ei defnyddio i bwrpas. A ma'r rhan fwyaf yn cituno heddi bo honna'n tipyn gwell cerdd na'r bryddest enillodd. Mae e'n defnyddio tafodieth, a tafodieth sathredig, i bwrpas, i ddangos y dirywiad mewn iaith a diwylliant. Wel a'r un peth yn awdl Ceri Wyn 'leni yn y Steddfod Genedlaethol. Ma rhei geirie Saesneg hwnt ac yma. A wê Ceri'n gweud bod e am roi portread o dref Aberteifi fel mae e in 'i gweld hi heddi. Gwedwch y gair <i>stop-tap</i> , wel fydde pobol Cymrâg Aberteifi ddim yn gweud amser cau, <i>stop-tap</i> fydden nhw'n gweud, felly ma honno'n cal 'i defnyddio i bwrpas. Wel mae'n iawn cyd â bod hi mewn un cerdd, i bwrpas, ond se Ceri'n 'neud 'na yn ei gerddi i gyd fydden i'n gweud na. Wel yr un peth â cystadleueth y Gader a'r Goron, os chi'n 'neud e i bwrpas, yn sicir. A sdim rhaid bod e i bwrpas chwaith, os yw'r gair 'na 'da chi yn eich calon a bod e'n dwâd. Falle un o'r cerddi gore yn y Goron yn 'y marn i yw cerdd Jim Parc Nest yn Casnewydd yn 1988, 'Y Ffin'. Mae'n gerdd wych iawn iawn a'r dafodieth yn ffito miwn i beth wê 'da ge i'w 'weud. A un nath gystadlu llawer iawn am y Goron a'r Gader wê W. R. Evans, 15 o weithe i |

|           |   |
|-----------|---|
|           | <p>gyd. Dath e'n agos iawn am i Goron peder gwaith, a'r peder 'na in gerddi mewn tafodieth. A'r gerdd 'na in dod o'i galon e. Cystadlu am i Gader wedyn ddim mewn tafodieth, nath e'm agos cystel ar yr awdl. Sai'n credu chi'n gweld bod y gynghanedd yn addas iawn i dafodieth. Er ma Wyn, ma Wyn Owens yn fardd da iawn, ma Wyn wedi sgrifennu rhai cerddi mewn tafodieth, rhai cywydde, ond at ei gily ma nhw'n fach iawn. Sai'n credu bod cynghanedd yn mynd yn rhwydd iawn gyda tafodieth. Ma cynghanedd yn iaith ynddi ei hunan mewn ffordd.</p> |
| Cyfwelydd | A yw iaith Caerdydd yn dafodiaith, ac a ddylid ei chynnwys mewn cerddi?   |
| Cyfwelai  | Yr hyn sy'n digwydd yng Nghaerdydd yw bo pobol o bob ardal yn symud 'na gyda'u gwaith. Pob rhan o Gymru wedi symud i Gaerdydd, felly a wês y fath beth yn bod o gwbl â iaith wreiddiol Caerdydd? Iaith Forgannwg, beth fyddai? Dwi'n credu mai clytweth o dafodieithodd erill yw iaith y cartre heddi, er bod iaith safonol yn y capel a sefydliade a chyngherddde.   |
| Cyfwelydd | A yw ysgrifennu mewn tafodiaith yn tanseilio Cymraeg Byw Safonol a'r ymgais i'w safoni?   |
| Cyfwelai  | Dwi ddim yn siwr iawn beth yw Cymraeg Byw. Sai wedi 'neud rhyw lawer â Cymraeg Byw.   |
| Cyfwelydd | Treial cal pobol i siarad yr un iaith, safoni'r iaith.  |
| Cyfwelai  | Wê llyfryn ar Gymrâg Byw rhai blynyddodd nôl, i'r dysgwyr.  |
| Cyfwelydd | Ie, iaith dysgwyr, bod pob un yn siarad yr un iaith.  |
| Cyfwelai  | Mae'n bosib alle hwnna achosi bach o drafferth i ddysgwyr, bo nhw'n gorffod ymwneud â tair iaith. Os chi'n byw yn ardal Maenclochog chi'n clywed y dafodieth, a chi'n dysgu Cymraeg Byw wedyn a clywed a darllen yr iaith safonol. Ma gyda nhw dair iaith wedyn. Ých chi wedi darllen llyfyr Reggie Smart?  |
| Cyfwelydd | Do. ( <i>O'r Taf i'r Teifi</i> , 2013)  |



|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Ma hwnnw mewn tafodieth. Fues i'n golygu tipyn o hwnna, ise cywiro ei ramadeg e. Buodd dosbarth y beirdd 'da fi yn Ysgol y Preseli, Gweithdy'r Bardd, am ddeg blynedd, a 'na ble dechreuodd Reg i farddoni. A wêdd e'n fardd medrus iawn iawn. Ond un peth ffeilodd e'n deg, yn deg â meistroli, gramadeg. Fe ffeilodd. A wêdd e'n fardd gwych gyda syniade gwreiddiol, syniade pert, ond wê'r gramadeg dros ei ben e, so dwi wedi cywiro lot 'yn hunan. A peth arall wedyn, mae ei gerddi mewn tafodieth yn ei achub e. Na'r iaith naturiol, allwch chi ddim condemnio 'na, fel 'na ni'n siarad. Ma'r dafodieth wedi achub Reg fel bardd. Peth arall, tuedd llawer o sgrifennwyr tafodieth yw cymysgu'r ddwy iaith. A gyda barddonieth yn benna, ar gyfer rhwbeth fel anghenion mydr ac odl. Chi 'di darllen cerdd Llwyd Williams, 'Obiti'r Tŷ Cwrdd'? |
| Cyfwelydd | Wdw.  |
| Cyfwelai  | Mae'n un dda mewn tafodieth, yn agos-atoch chi, ond yn syrthio mewn ambell i fan. Yn y pennill dwetha mae e'n gweud:<br><br>Pob lwc iddo manco<br>Gyda nhw'n y sêt fawr;<br>A ma' nhw'n rhico dage,<br>Rhico dage nawr.<br><br>Beth sy'n anghyson fan 'na?  |
| Cyfwelydd | 'Sêt fowr' fydden ni'n gweud ondyfe? Ond ma'r 'fawr' er mwyn odli â 'nawr'.   |
| Cyfwelai  | Yn hollol. Ma hynny'n digwydd gyda barddonieth neu mydryddieth, gorffod ystwytho ar gyfer odl. A ma anghysondeb wêth gyda sgrifennu'r <i>i a'r y</i> , fel miny. Fel W. R., mae e'n sgrifennu <i>mini</i> fan hyn, ac yn <i>Cawl Shir Bemro miny</i> , gyda <i>y</i> ar <i>y</i> diwedd. Sai'n gweud bo gwahanieth, ond ma siwr o fod ishe rhyw fath o gysondeb?  |
| Cyfwelydd | Beth yw rhinwedd defnyddio tafodiaith ar draul iaith safonol?   |
| Cyfwelai  | W. R. Evans wê'r meistir ar sgrifennu mewn tafodieth, ond wêdd e ddim yn siarad mor dafodieithol â hinny. Wêdd e'n sgrifennu mewn tafodieth bur, ond wêdd e ddim yn siarad yn llwyr fel dwi'n siarad nawr, mewn tafodieth. A wêdd e'n   |

|           |   |
|-----------|---|
|           | <p>gweud ei hunan ei fod e wedi byw mewn cwpwl o ardalodd – cal ei eni yn Mynachlog-ddu, symud wedyn i Abergweun a wedyn i Bwlch-y-groes, sy ychydig bach yn wahanol. Symud wedyn i'r Barri a nôl fan hyn wedyn. A wê'i wraig e wedyn yn dod o'r Tymbl, a bod dwy dafodieth ar yr aelwyd, a bod e'n cymysgu'r ddwy dafodieth. A un peth arall sy'n marw mas yw galw rhywun in 'fe' neu 'hi'. Na'r arferiad ni yn Twffton, gyda'r hen ffermwyr. 'Fe' fydden nhw'n galw ei gily o hyd wrth siarad, nid 'chi' na 'ti' – 'Shwt mae e heddi'? / 'Odi e'n mynd i'r mart heddi'? / 'Pryd mae e'n lladd gwair'? 'Na'r ffordd naturiol. Wedyn 'ti' i rhywun ifancach, rhywun agos atoch. 'Chi' â rhywun yn henach, neu rhywun mwy parchus, fel gyda pregethwr. Ma'r 'hi' a 'fe' nawr yn marw mas, so'n digwydd fan hyn o gwbl. Pan wên i'n byw yn Twffton, wê John biti deg mlynedd yn ifancach na fi, ac os digwydda i weld e John, 'fe' mae e'n galw fi.</p> |
| Cyfwelydd | Fyddech chi'n gweud yr un peth?   |
| Cyfwelai  | Na, 'ti' fydden i'n galw fe, achos bod e'n ifancach. Ond dyw hynna ddim yn digwydd llawer nawr.   |
| Cyfwelydd | Yn y gyfrol <i>Blodeugerdd y Preselau</i> ma tair cerdd mewn tafodieth. Un yr un gan W. R. Evans, Reggie Smart a Rachel Phillips James. Pam bo chi am gynnwys tair cerdd tafodieth? Wê chi'n meddwl bod e'n bwysig?   |
| Cyfwelai  | Gofynnes i i'r beirdd eu hunen i ddewis cerddi.   |
| Cyfwelydd | O, nhw ddewisodd. A wê chi'n hapus i'w cynnwys nhw?   |
| Cyfwelai  | Dwi'n falch bo nhw wedi, yn enwedig un Rachel ar Ben-car, mae'n gerdd dda iawn. Fi ddewisodd W. R. er mwyn ei ddangos e ar ei ore, ac amrywieth hefyd. Ma honno'n gerdd dda iawn.   |
| Cyfwelydd | Fyddech chi wedi dymuno cal mwy na tair cerdd dafodieithol yn y gyfrol?   |
| Cyfwelai  | Wel a gweud y gwir, nath e ddim croesi'n meddwl i ar y pryd, naddo. A meddwl bod e yn y Preseli falle bydde fe'n addas, ie, byse.   |
| Cyfwelydd | Diolch yn fawr.   |

|                    |  |
|--------------------|--|
| <b>Cyfweliad 5</b> |  |
| Cyfweydd:          | Ruth Thomas  |
| Cyfwelai:          | Hefin Wyn  |
| Dyddiad cyfweld:   | 14 Tachwedd 2014   |
| Lleoliad:          | Cartref y Cyfwelai, Maenclochog  |
| <b>ADYSGRIF</b>    |  |
| Cyfwelai           | Yn ddiweddar dwi wedi cal cais i sgrifennu'n wythnosol i'r papur <i>Pembrokeshire Herald</i> a dwi'n ceisio rhoi blas o liw'r dafodieth yn yr erthygle hynny.  |
| Cyfweydd           | Felly ma nhw'n hapus i chi ysgrifennu mewn tafodieth?  |
| Cyfwelai           | O odyn. Dwi'n rhyfeddu ac yn gwerthfawrogi'r cyfle ma nhw'n rhoi i fi mewn gwirionedd, gan mai papur sy'n cal ei gynhyrchu yn Aberdaugledde yw e. Rhyw flwyddyn sy ers ma'i 'di cal ei sefydlu a ma nhw'n mynnu o ran egwyddor bo nhw'n cynnwys dwy dudalen o erthygle Cymrâg bob wthnos, a hynny er nad ôs neb ar y staff sy'n digon rhugl na chymwys eu Cymrâg i ddelio ag erthygle Cymrâg. Mae'n amlwg bo nhw'n defnyddio lot o erthygle ma nhw'n gal gan y pleidie gwleidyddol a pethe felly wedi eu paratoi'n barod, ond dyw nhw gyd ddim yn addas ar gyfer darllenwyr Cymrâg Shir Benfro, ond ma nhw'n 'neud yr ymdrech beth bynnag. Pan nethon nhw wahodd fi wedyn i sgrifennu erthygle a gweud wrthai beth odd y briff, feddylies i wel nai roi cynnig arni am chwe mis i weld beth neith ddigwydd. A senai wedi rhedeg mas o syniade 'to ta beth. |
|                    |  |
| Cyfweydd           | Ydych chi'n ysgrifennu <i>llynyddiaeth mewn tafodiaith</i> , hynny yw darnau o waith sy'n gyfan gwbl mewn tafodiaith?  |
| Cyfwelai           | Dibynnu ar y gynulleidfa darged. Yn achlysurol falle fyddai, neu mi o'n i te yn sicir pan o'n i'n cyfrannu at gyfresi fel y gyfres <i>Wês Wês</i> , pethe fel 'ny.   |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Nethoch chi sgrifennu'r rhain yn bwrpasol ar gyfer y cyfrole neu wê nhw 'da chi'n barod?   |
| Cyfwelai  | Na, cal cais i gyfrannu at y cyfrole. Wel yn naturiol wê dyn yn meddwl wedyn am ysgrifennu mewn tafodieith. Meddwl am eirfa tafodieithol, berfe tafodieithol a pethe felly. Dwi ddim yn meddwl bo ni'n llwyr hefyd yn dynwared yr iaith lafar neu mi allai fynd yn fratieth yn gallei? Achos ma gwahanieth rhwng tafodieith a bratieth. Achos dwi'n sylwi nawr odd Wyn Owens yn sgrifennu rhwbeth yn ddiweddar i llyfyr Mynachlog-ddu <i>O'r Witwg i'r Wern</i> . Ma hwnna'n gyfan gwbl dafodieithol Mynachlog-ddu 'dag e, a llafar iawn yndyfe. Hynny yw mae e'n gollwng rhai cytseinied ac ati sy ddim yn cal eu defnyddio yn yr iaith lafar. Hynny yw falle bo hwnna ar ryw olwg yn enghraifft eithafol o sgrifennu tafodieith. Oherwydd ma rhaid meddwl hefyd bod ishe'r peth i fod yn ddealladwy i gynulleidfa tu allan i'r ardal ma rhywun yn ceisio ei ddynwared neu ei gyfleu o ran ei hiaith. |
| Cyfwelydd | Fyddech chi 'di sgrifennu rhyw bethe cyn hynny, neu pan gethoch chi gais i gyfrannu at y cyfrole <i>Wês Wês</i> , ife 'na'r tro cynta i chi ddechre sgrifennu mewn tafodieith?   |
| Cyfwelai  | Wel am wn i siwr o fod. Be o'n i adeg hynny?   |
| Cyfwelydd | Ma'r rhein yn mynd nôl i'r saithdege.  |
| Cyfwelai  | Wedi graddio yn y Gymrâg dwi'n meddwl ac o'n i'n gweitho i'r Cymro siwr o fod.   |
| Cyfwelydd | Ie, dyna beth mae'n gweud yn y cefen fan hyn.  |
| Cyfwelai  | O 'na fe, felly o'n i'n gyfarwydd â sgrifennu yn Gymrâg o ran ennill bywolieth wedyn. Ac addasu hynny a defnyddio'r glust yn fwy i 'neud rhwbeth fydde'n addas ar gyfer y cyfrole 'na. A dwi'n meddwl fod y pyncie hefyd yn ymwneud â Shir Benfro.   |
| Cyfwelydd | Ydych chi hefyd yn ysgrifennu mewn Cymrâg llenyddol ond yn defnyddio geirie tafodieithol? Nethoch chi ennill yn y Genedlaethol y llynedd a 'leni; stori feiddgar llynedd a wedyn portread o gynefin 'leni a dwi'n sylwi bo chi'n defnyddio tipyn o eirie tafodieithol.   |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Ie, 'na ti. Dwi'n credu mai dyna dwi'n 'neud yn benna. A dyna sy gen i yn yr erthygle wythnosol 'ma ondyfe.  |
| Cyfwelydd | Pam felly?   |
| Cyfwelai  | Wel oherwydd dyna'n iaith i, dyna Nghymrâg i, ac i fi hwn yw'r gair sydd yn gweddu fan hyn. Falle bod e ddim yn air sydd mewn cylchrediad eang ar draws Cymru, ond beth yw'r ots? Dyna beth yw e yn 'yn ardal i, 'y Nghymrâg i, a ma Nghymrâg i yr un mor ddilys â Chymrâg Shir Fôn a unrhyw ardal arall yng Nghymru ondyfe. Felly yn yr ystyr hynny mae'n gyfle i geisio cadw'r geirie yna yn fyw falle a cal defnydd ehangach iddyn nhw, neu bod 'na gynulleidfa ehangach iddyn nhw i ddod i ddeall nhw. Dwi'n gwbod bod rhai yn feirniadol bo fi'n tueddu i 'neud hynna. Dwi'n credu bod Vaughan Hughes wedi dweud yn ddiweddar, wel yn y sylwade nath e ar y stori feiddgar fuddugol, bod e'n meddwl bod Hefin yn dueddol i ddefnyddio geirie tafodieithol yn ormodol yn ei newyddiadureth. Sylw diddorol ondyfe?  |
| Cyfwelydd | Ond sylw un person?  |
| Cyfwelai  | O ie, wel sylw digon teg. A o'n i'n meddwl falle bod e'n iawn te, a nai edrych 'to. O ie, falle bod 'na rhyw bump gair 'da fi fan 'na fydde bach yn anodd iddo ddeall falle ar y llaw gynta. Ond wedyn cered e falle i'r geiriadur mawr, mawr, ma nhw 'na siwr o fod ondyfe? I fi dyw e ddim yn un problem oherwydd dwi'n mwynhau darllen llyfre erill mewn tafodieith. <i>Y Gŵr o Baradwys</i> , dwi'n cofio darllen hwnnw pan o'n i dipyn iau. Wel perfeddion Shir Fôn ondyfe. Ond o'n i ddim yn dweud 'o sai'n deall hwn'. O'n i'n gwerthfawrogi fe. Dyna beth yw rhan o ogoniant iaith, bod 'na dafodieithoedd iddi. Bod 'na acenion gwahanol. Hynny yw dŷn ni ddim mor ymwybodol o hynny yn Saesneg mwyach oherwydd ma'r Saesneg cywir ar y cyfrynge ar y cyfan. Ond dwi wrth fy modd yn clywed y Geordies yn siarad a'r Scousers ac ati. A dylse'r un peth i fod o ran y Gymrâg wedyn. |
| Cyfwelydd | Ma Sioned Davies yn ei beirniadeth fan hyn ar y stori feiddgar yn gweud: 'adroddir y cyfan yn nhafodiaith Sir Benfro.' Fyddech chi'n cytuno â hynny?   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Na, ddim cant y cant. Hynny yw fe allen i 'di mynd yn fwy dwfwn i'r dafodieth. Ond dwi'n credu falle yn y darn 'na bod y ddeialog yn weddol amlwg Shir Benfro ond bod 'na ychydig bach wedyn o gydbwysedd rhwng y iaith lafar dafodieithol a'r iaith mwy safonol, lenyddol.   |
| Cyfwelydd | Wên i'n meddwl bod ei sylw hi 'cyfan mewn tafodiaith' yn rhyfedd?   |
| Cyfwelai  | Wel odd e wedi taro hi felly mae'n siwr, bod hi'n cal tinc y dafodieth drosodd. Falle mai hynny odd yn bwysig.  |
| Cyfwelydd | Felly wêdd e ddim yn gofyn am ddarn mewn tafodieth ond wê chi'n teimlo bod hynny'n addas?   |
| Cyfwelai  | Mai fel hynny o'n i am fynegi'n hunan yn y stori 'na, gyda'r cymeriade odd gen i. Dwi'n credu bo fi'n tueddu yn gyson erbyn hyn gyda geirie sy'n gorffen yn <i>au</i> – dwi'n sgrifennu nhw, hepgor hynny, a dim ond e. Oherwydd dyna beth fydden i'n dweud yn rhan helaetha o'r de a dwi'n meddwl bod hynny ar y cyfan yn dderbyniol yn llenyddol. Dwi'n sylwi ar lot o awduron yn mynd i'r cyfeiriad hynny.   |
| Cyfwelydd | Beth yw eich barn chi am ddefnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth?   |
| Cyfwelai  | Wel unwaith eto, mae e'n rhoi lliw i'r iaith yndyfe. Sdim byd yn wath na bo ti'n cal llond whilber o lyfre i gyd wedi eu hysgrifennu yn yr un iaith, yn yr un cywair hefyd. Fel falle fydde rhai awduron yn gneud, rhai sydd wedi dysgu Cymrâg, rhywbeth fel 'ny. Fedrai ddim enwi un yn fwy na'r llall. Pam bod Glyn Ashton yn dod i'n feddwl i, dwi ddim yn siwr? Pan odd e yn sgrifennu, bachan o'r Barri wedi dysgu'r Gymrâg nawr, hynny yw dodd dim tafodieth 'dag e i dynnu oddi arni. Mwy'r piti wedyn does dim llawer o awduron i gal sy'n gallu adlewyrchu tafodieth y Wenhwyseg rhagor. |
| Cyfwelydd | Ac eithrio rhywun fel Meic Stephens?  |
| Cyfwelai  | Wel odi mae e'n defnyddio hi yn ei farddonieth, a dwi'n chal hi'n anodd weithie, y geirie sy gydag e. Mae e 'di cal gafel ynddyn nhw o rywle. Unweth eto dysgwr yw e ar ryw olwg, yn hollol rhugl wrth gwrs   |

|           |   |
|-----------|---|
|           | ac yn sgrifennu Cymrâg llenyddol ardderchog. Pun ai bydde fe'n defnyddio'r geirie 'ny mewn rhyddieth falle bydde nhw'n taro fi'n well. Dwi'n meddwl am rhywbeth fel 'Cap Wil Tomos' a'r bois 'ny yn Cwm Tawe. Dwi'n dal i feddwl bod rhywbeth bach chwithig yn y ffordd ma Meic yn defnyddio'r geirie, fel se fe'n llusgo nhw mewn. Ond wedyn falle bydde rhywun arall yn gweud hynny amdana i hefyd os nad yn nhw'n gyfarwydd â'r dafodieth. Hynny yw ma 'na deimlad weithie, fel odd Vaughan Hughes yn gweud, bod y geirie yn cal eu defnyddio oherwydd bo nhw ar gal falle, yn hytrach na bo nhw'n gweddu i'r cyddestun. |
| Cyfwelydd | Beth yw rôl neu swyddogaeth llenyddiaeth dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Mae'n pontio rhwng y iaith lafar a'r iaith lenyddol. Falle bod hi'n fodd i denu rhai darllenwyr at yr iaith oherwydd hynny, bo nhw'n gweld rhyw dinc cyffredin, cartrefol iddyn nhw yn y fath yna o ddarllen. Hynny yw, fel sen i'n feddwl fyddde yn y rhan fwyaf o bapure bro, bod 'na rhyw dinc cartrefol yn perthyn i'r rheiny.  |
| Cyfwelydd | 'Na un o'r cwestiynne wên i'n mynd i ofyn i chi, am <i>Clebran</i> . Nai ofyn i chi nawr. Ma rhai, dwi'n sylwi yn ddiweddar, yn defnyddio geirie tafodieithol yma. Fel un sydd ar Fwrdd Golygyddol <i>Clebran</i> , beth ych chi'n feddwl am ambell un sy'n cyflwyno hanesyn neu rhywbeth yn defnyddio geirie tafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Sai'n credu bod e'n bolisi fel y cyfryw.  |
| Cyfwelydd | Dwi wedi sylwi yn ddiweddar ar ambell un. Beth ych chi'n feddwl am rywbeth fel 'ny?   |
| Cyfwelai  | Wel odi os mai fel 'na ma nhw'n mynegi eu hunen, bo nhw'n hapus i 'neud e felly, bo gyda nhw ddim ofon i 'neud pethe. Bydde rhai yn gweud: 'o na so hwnna'n Gwmrâg cywir.' Hynny yw yr <i>wês</i> a'r <i>wêdd</i> ac ati. Dyna yw hanfod, dyna yw mêr esgyrn y dafodieth yn y cylchoedd 'ma.  |
| Cyfwelydd | Fydddech chi'n lico gweld mwy o bobol yn 'neud hynny?   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Wel falle byddwn i, ond, hynny yw, mae'n rhaid derbyn mai rhywbeth hollol wirfoddol yw'r papure bro 'ma. Tase rhywrai yn mynd ati yn hollol, hollol broffesiynol, hynny yw yn llawn amser â strategaeth ac ati, a bod amser 'da nhw i olygu pob cyfraniad, er mwyn safoni yn dafodieithol. Bydde hynny yn gymwynas fawr falle. Yn sicir 'na un o'r peryglon, bod y dafodieth yn cael ei cholli ond yw hi?   |
| Cyfwelydd | Oes gwerth mewn llenyddiaeth dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Ôs, mae'n dangos beth yw mêr esgyrn yr iaith. Hynny yw ma pob iaith wedi datblygu yn naturiol. Nid o ddalen llyfyr ma iaith wedi tyfu, mae'n tyfu'n organig. Pam ma pobol rhai ardal yn siarad ag acen gwahanol i ardal erill dwi ddim yn gwbod? Ond dyna beth yw iaith yn ei hanfod. Rhywbeth i'w llefaru. Wrth gwrs bod hi'n bwysig i gadw nodweddion felly. Ma geirfa yn newid o oes i oes. Yn ni'n colli'r eirfa amaethyddol i radde heleth oherwydd dos dim defnydd i eirie fel <i>glowty</i> ac ati mwyach. |
| Cyfwelydd | A yw llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen? Fel y cyfrole <i>Wês Wês</i> 'ma – ydy'r rhain wedi eu cyfyngu i gynulleidfa yn Shir Benfro, neu a fydde pobol mewn ardaloedd eraill yn medru eu gwerthfawrogi nhw?   |
| Cyfwelai  | Wel yn y lle cynta cyfrole ar gyfer pobol â'r dafodieth yw nhw. Ond os ydyn nhw wedi cal eu cyflwyno yn gywir ac ati, dylsen nhw fod o ddiddordeb i bobol erill sydd â diddordeb mewn tafodieithodd.  |
| Cyfwelydd | Er bo nhw ddim yn deall bob gair?   |
| Cyfwelai  | Ma 'na eirfa yn y cefn ym mwyafrif o'r cyfrole 'na. A whare teg i ddou berson alltud o Shir Benfro nath sefydlu rheina. Hynny yw o'n nhw'n gweld gwerth i'r dafodieth, bo nhw'n byw tu hwnt iddi, felly bo nhw'n gweld gwerth i'r dafodieth, bod angen cadw lot o'r geirie 'ma mewn defnydd.  |
| Cyfwelydd | A'u cadw nhw ar glawr, eu cadw nhw yn ysgrifenedig?   |
| Cyfwelai  | Ie.   |



|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | A yw darllenwyr yn medru deall a gwerthfawrogi gweithiau mewn tafodieithoedd eraill?  |
| Cyfwelai  | Wel o dyn, hynny yw darllenwyr unweth eto sydd â diddordeb yn y maes mae'n siwr, pobl sydd â diddordeb mewn iaith. Hynny yw dwi wrth fy modd pan o'n i'n darganfod dweder tafodieth y Cofi, y niwc a'r beth bynnag yw'r geirie odd gyda nhw am wahanol ddarne o arian. Niwc, sei, a rhyw bethe fel 'ny. Wel odi, mae'n rhoi lliw i'r iaith. A ni'n clywed ambell raglen neu gyfres deledu. Beth yw honno, <i>Yr Astra Gwyn</i> nawr? Ond wedyn ma'r <i>Iha Sheelagh</i> wedi dod nawr 'to. Ma honno'n adlewyrchu rhyw fath o dafodieth wahanol. |
| Cyfwelydd | A wê rhaglen nos Sul nawr, <i>Cara Fi</i> .   |
| Cyfwelai  | <i>Cara Fi</i> , ie, odi.   |
| Cyfwelydd | Rhyfedd gweld Christine Pritchard yn siarad tafodieth Shir Benfro?  |
| Cyfwelai  | Ond odd hi'n dod i ben â hi yn go lew dwi'n meddwl. Pan glywes i mai hi odd yn chware'r rhan, o, ble ma Sharon Morgan te o'n i'n meddwl? Fydde hi'n fwy addas falle? Ond actorion proffesiynol yn nhw. A odd Siw Hughes ar <i>Pobol y Cwm</i> wedyn, o'n ni ddim yn medru sylweddoli mai gogleddwraig oedd hi. A falle dyw'r rhan fwya o'r gynulleidfa ddim yn gwybod pwy yw Christine Pritchard beth bynnag.   |
| Cyfwelydd | Ond ma rhaglen fel honno yn dod â thafodieth Shir Benfro i'r amlwg?   |
| Cyfwelai  | Am wn i mae'n dod â bri i'r dafodieth, ac yn sicir y prosiect diweddar 'ma gan Menter Iaith Shir Benfro. Yn hytrach na bo hwnnw'n cal llonydd nawr ma ishe ffyrdd arnon ni o barhau â'r peth. 'Na un peth dwi'n gobeitho bod y golofn ma'n 'neud. Yn sawl un o'r erthygle dwi'n mynd i'r cyfeiriad 'na. Mewn ffordd mae'n estyniad o'r prosiect ddwedwn i.  |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad y gerdd 'Pwllderi' gan Dewi Emrys. Ma honna'n un o'n cerddi tafodieithol enwocaf ni yng Nghymru?  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Wel ma honno'n gerdd eiconaidd o ran y dafodieth ond yw hi? Am wn i bod pawb fel ti'n dweud trwy Gymru yn derbyn mai honna yw yr enghraifft o gerdd tafodieth. Ac arwahân i hynny mae'n gerdd dda hefyd i'w llefaru, mae'n ddramatig iawn. Mae'n taro'r hoelen ar ei phen rywsut.   |
| Cyfwelydd | Ac wedi cadw enw Dewi Emrys yn fyw, er mai yn 1926 y gath hi ei hysgrifennu, mae bron yn ganmlwydd oed?   |
| Cyfwelai  | O ran ei gynnyrch e yn sicir. A byth ers hynny ma fel rhyw fath o hud wedi bod yn gysylltiedig â tafodieth Shir Benfro. Hud a lledrith. Hynny yw ma dyn yn clywed pobol ar y cyfrynge yn amal iawn – maldod yw e wrth gwrs – 'o Shir Benfro' a 'wês wês', fel se ni'n rhyw lwyth coll cyntefig neu rhywbeth.  |
| Cyfwelydd | Pan ddath Eisteddfod yr Urdd i Shir Benfro llynedd, gath y dafodieth tipyn o sylw yn y rhaglenni. Yn fwy na mewn ardaloedd eraill?  |
| Cyfwelai  | Wel wrth gwrs, ie. Lan sha'r gogledd fydde nhw ddim yn cymryd dim sylw o'r peth achos ma nhw'n meddwl mai fan 'na, dyna sut 'mae'r Cymraeg yn cael ei siarad ynte.' Ond bod hi bach yn wahanol lawr ffor hyn. Beth yw merch y Capel wê'n arfer 'neud y tywydd a Jenny Ogwen cyn hynny, wêdd hi'n dod mas â ambell i air bach. Wê ambell lythyr yn y wasg weithie yn cwyno beth odd y 'cwthwm' 'ma ac ati wê gyda nhw. |
| Cyfwelydd | Wê pobol yn cwyno am hynny?   |
| Cyfwelai  | Wê ti'n cal ambell i gog neu falle rhywun yn sgrifennu dan ffugenw a gweud y gwir, jyst er mwyn bod yn flagardus, pwy a wŷr?  |
| Cyfwelydd | Beth am W. R. Evans? Mae e'n un o'r awduron mwyaf toreithiog yn nhafodieth Sir Benfro.  |
| Cyfwelai  | Peth arall o ran tafodieth y gyfres <i>Wês Wês</i> . Fuodd 'na gyfnod bach wedyn, odd y ddou 'na o'n nhw'n gyfrifol am Steddfod Gwaelod y Garth, dwi'n meddwl, steddfod draw ffordd 'na rhywle, Efail Isaf. A o'n nhw wedi ffurfio rhyw fath o orsedd a wrth gwrs o'n nhw'n mynnu wedyn 'a wês heddwch'? A fuodd bach o sylw yn y wasg yn genedlaethol i  |

|           |   |
|-----------|---|
|           | hynny, ddylse eisteddfode yn y de 'weud 'a wês heddwch?' A odd hynny'n dod â bri eilweth, yn ysgafn. A wy'n siwr fuodd na drafodeth ar Stondyn Sulwyn dwi'n credu.  |
| Cyfwelydd | Beth am gyfraniad W. R. wedyn?  |
| Cyfwelai  | Aruthrol yndyfe, bod rhywun o'i statws e nid yn ymbellhau oddi wrth yr iaith ond ei chofleidio hi ymhob peth odd e'n gwneud. Dramâu cerdd 'ma odd e'n cyfansoddi ac ati.  |
| Cyfwelydd | A 'Bois y Frenni'?  |
| Cyfwelai  | Wel ie, rheiny hefyd. Ma cyfraniad 'Bois y Frenni' 'di bod yn aruthrol i gynnal adloniant Shir Benfro. Adloniant sy'n codi o'r pridd fel petai, adloniant cynefin Shir Benfro. A bod e'n gallu sgrifennu caneuon fel 'na, topical ac ati. A wrth gwrs 'Bois y Frenni' yn dal i fynd, ac yn canu yr un caneuon. Ma nhw'n gwrthod, mae'n bolisi 'da nhw i beidio â chyfansoddi rhai newy. Dwi'n cofio dweud wrthyn nhw: 'so'n well i chi gal caneuon newy'? Wel, o'n nhw'n gweud, ni 'di bod yn trafod y mater ac wedi dod i benderfyniad i beido. Na, ma digon o ganeuon 'da ni, ac er cof am W. R. Ma hwnna ynddo'i hunan yn gymeradwyeth aruthrol i gyfraniad W. R. A'i gerddi wedyn, 'Ffinnon 'Richen' a rhyw bethe felny. Piti yw nath e'm llwyddo i ennill y brif wobr yn y Genedlaethol gyda cherdd tafodieithol. Odd e 'di bod yn agos sawl gwaith mae'n debyg. |
| Cyfwelydd | A yw'n bwysig fod yr awduron hyn wedi hybu tafodiaith Sir Benfro a pham?  |
| Cyfwelai  | Wel yn sicir. Hynny yw gan bo ni'n byw yn Shir Benfro byddai'n drist petawn ni'n pellhau oddi wrth y dafodieth. Ac yr un fath â pwy bynnag sy'n cal ei fagu yng Nghwm Tawe, Cwm Twrch, neu Aberteifi hyd yn oed, fel ma Ceri Wyn yn 'neud medden nhw. Mae'n adlewyrchu'r iaith mewn ffordd i'r bardd i fynegi ei hunan mae'n siwr. Fel odd y beirdd T. Gwyn Jones, W. J. Gruffydd a rheina. O'n nhw'n mynd am rhyw iaith glasurol ar un adeg, pan odd ddim bri ar dafodieth falle a o'n nhw'n edrych lawr ar fynegiant llafar. Am wn i bod pethe'n newid yn raddol yng Nghymru a ni'n mwy goddefgar falle yn lenyddol?  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | A oes themâu amlwg mewn gweithiau tafodieithol?<br>A fyddai unrhyw bwnc yn addas ar gyfer tafodiaith?  |
| Cyfwelai  | Falle fydde pyncie gwyddonol ddim yn addas ar gyfer tafodieth. Cymeriade, cefen gwlad, y tirlun. Pethe cyfarwydd fel 'ny wyt ti'n cysylltu â defnydd o'r dafodieth. Sgwrsio bob dydd, pobol yn dweud straeon ac ati yn y dafodieth. Wel ma hynny'n mynd i amlygu ei hunan wedyn yn y cyfansoddi sen i'n meddwl.  |
| Cyfwelydd | Ai rhywbeth hen ffasiwn yw llenyddiaeth dafodieithol erbyn heddiw? Neu ma beirdd fel Ceri Wyn yn rhoi mwy o sylw?  |
| Cyfwelai  | Am wn i falle bod 'na rhyw fath o chwyldro gambwyll bach yn y cyfeiriad yma nawr yn dod fwy fwy. Unweth eto gyda prosiect Menter Iaith Shir Benfro, hynny yw odd e'n brosiect odd yn ymwneud nid dim ond â tafodieth gogledd y shir ond gyda tafodieth y 'down belows' wêth. Ma 'da nhw eu geirie yndyfe. Rhai geirie sy'n gorgyffwrdd fel <i>cafflo</i> , <i>caffled</i> a rhyw bethe fel 'ny. Weden i bod hi'n bwysig yn nyddie'r globaleiddio mowr 'ma bod ymdrech yn cal ei wneud i geisio diogelu a hybu mwy o ddefnydd i'r dafodieth. Mae'n mynd i fod yn anodd oherwydd ma pob dim ar y teledu a'r cyfrynge cymdeithasol ma – Saesneg yw'r iaith llywodraethol, neu Americaneg erbyn hyn. Felly ma'r dafodieth yn ceisio canfod ei lle wedyn ond yw hi? |
| Cyfwelydd | A oes lle i gerddi tafodieithol ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol? Ma beirdd fel Meic Stephens a T. James Jones yn 'neud. Ond ma rhai beirnied, fel Gwynn ap Gwilym, wedi dweud ddyle cerdd dafodieithol ddim ennill. Beth ych chi'n feddwl?  |
| Cyfwelai  | O na, fydden i ddim yn cytuno â Gwynn ap Gwilym. Mae e'n ormod o burydd fan 'na siwr o fod. Ma Dic Jones yr un cymeriad wêth. Ma 'da ge eirie – unwaith eto dyna'r enghraifft berffeithia falle – mae e'n defnyddio geirie ei gynefin ond yw e. Dwi ddim yn meddwl ddefnyddie fe fyth eirie sydd yn anghynefin iddo fe, neu fydde fe'n anghysurus iddo fe i'w defnyddio nhw. Hynny yw ma'r eirfa mor gyfoethog, y modd gath e ei godi mewn cymdeithas uniaith, a'r eirfa amaethyddol mor gryf 'dag e.  |

|           |  |
|-----------|--|
|           | <p>Hynny yw bydda i'n darllen ei waith e, fydda i'n gorfod meddwl jiw, beth yw'r gair 'na te? Dyna beth ma nhw'n ddefnyddio ife am hyn a'r llall o ran amaethu? Ma hynny'n wych o beth yn ei farddonieth e. Wrth gwrs rhydd i bawb i ddefnyddio pa arddull a dull ma nhw'n deimlo sy'n mynegi beth sy 'da nhw i'w ddweud ore. Wrth gwrs ma'r perygl wedyn falle eu bod nhw'n cau rhai darllenwyr mas o ran dealltwrieth. Ni nôl at Meic Stephens 'to. Dwi'n credu odd Ceri Wyn yn dweud mewn beirniadeth am ymgais gan Meic Stephens rhyw flwyddyn nad odd e jwst ddim yn fardd i bob pwrpas. O, reit, ie, hynny yw dos dim cynildeb 'na fel y cyfryw, ma nhw'n gerddi geiriog, goreiriog falle. A bod e'n teimlo wel, jwst, o ma'r geirie tafodieithol yn dod mewn un ar ôl y llall ac ati.</p> |
| Cyfwelydd | Bod e'n bwrpasol yn rhoi'r holl eirie tafodieithol mewn?   |
| Cyfwelai  | Dos dim cynildeb yn ei farddonieth e falle. A fydde'n well se fe'n sgrifennu fel rhyddieth te falle? Dwi'm yn feirniad llenyddol ond pethe fel 'na odd yn 'y nharo i.  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod iaith Caerdydd yn dafodiaith?   |
| Cyfwelai  | Bratieth siwr o fod ife? Wel unweth eto fydde Caryl Parry Jones yn dweud wel ma nhw yn siarad rhyw fath o Gymrâg. A ma hi 'di galler defnyddio fe er budd doniolwch hefyd ond yw hi?   |
| Cyfwelydd | Ond odi hi'n tynnu sbort am y peth wedyn?  |
| Cyfwelai  | Wel ie, i radde. Os mai dyna fydd safon y Gymrâg yn y dyfodol, wel bydd hi'n sathredig iawn ond bydd hi? Ac mi odd tafodieth i gal gan yr hen Gaerdydd wrth gwrs, y Wenhwyseg ffor 'na. Wedi colli ei thir yng Nghaerdydd am wn i. Ma gen i gof o un neu ddau nes i gyfarfod rhyw ddeugen mlynedd nôl odd yn dal i'w siarad hi, yng Nghaerdydd hyd yn oed. A'u bod nhw yn meistrolï'r Gymrâg, a cal geirfa Gymrâg gyflawn, a cal y cystrawenne'n gywir, mae'n siwr fydd 'na rhyw dinc tafodieithol newydd yn dod o fan 'na. Hynny yw <i>Cardiff Cerdiff</i> . Ma lot o nhw'n blant sy'n dod o bob cefndiroedd yng Nghymru. Hynny yw mi ddyle rhyw fath o ffrithiant ddigwydd   |

|           |  |
|-----------|--|
|           | rhyw ddiwrnod siwr o fod? Ond pwy a wŷyr, ma nhw'n tueddu i droi i siarad Saesneg yn gymdeithasol.   |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n medddwl bod cysondeb yn y modd y cyflwynir tafodiaith mewn llenyddiaeth. A yw'n union fel y siaredir hi? A yw rhai pobl yn gorliwio?   |
| Cyfwelai  | Ma nhw'n meddwl wel, reit, ma hyn a hyn o eirie i gal, shwt dwi'n mynd i roi rhein nawrte miwn i rhyw gerdd fach er mwyn dangos 'yn hunan?   |
| Cyfwelydd | Ydy e'n mynd yn annaturiol wedyn?  |
| Cyfwelai  | Wel ma peryg iddo fe. Dyna un peth ma Ceri Wyn wedi llwyddo yn ei gerdd arobryn eleni. Hynny yw, dyw e ddim yn osgoi defnyddio geirie sathredig, er fod e wedi ennyn llid Alan Llwyd.  |
| Cyfwelydd | <i>Stop-tap</i> , geirie Saesneg fel 'na?  |
| Cyfwelai  | Ie, ond dyna beth fydde'n cal ei ddweud mewn sgwrs. Falle bydden i, gwmint dwi'n sgrifennu, manion bethe, yn treial osgoi hynny, os ôs 'na air Cymraeg cyfatebol sy'n weddol gyson ei ddefnydd a sy'n ddealladwy. Wel, <i>amser cau</i> neu <i>cau pen y mwdwl</i> , ffordd arall o'i ddweud e. Na, fydden i ddim yn adlewyrchu yr iath lafar <i>per se</i> bob amser, oherwydd ma honno'n galler bod yn sathredig ond yw hi? Mae'n wahanol sen i'n creu cymeriad nawr, a bod rhaid i'r cymeriad i ddefnyddio tipyn bach o iaith sathredig er mwyn bod yn wrthbwynt i gymeriade erill. Fydden i'n 'neud e fel, hynny yw, <i>C'mon Midffild</i> ..... beth odd e? |
| Cyfwelydd | George.  |
| Cyfwelai  | George, 'na ti. Dyna odd ei gymeriad e ynte.   |
| Cyfwelydd | Oes dyfodol i lenyddiaeth dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Wel os ôs 'na ddyfodol i'r Gymrâg yn ei chadarnleoedd mae'n rhaid bod 'na ddyfodol i'r dafodieth. Hynny yw does neb gobeithio yn ymgyrchu dros dileu tafodieth er mwyn gorseddu rhyw iaith bur lenyddol.   |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Doedd John Morris-Jones nôl ar ddechre'r ganrif ddiwetha ddim yn hoff o'r tafodiethoedd ond ry'n ni wedi symud mlaen ers hynny?  |
| Cyfwelai  | Odi odi. Odd e'n academydd ac ati ond odd e, ac odd e a Dewi Emrys ben ben byth a hefyd mae'n debyg, y criw yna. Wel na, fel beth ti'n ddweud bore 'ma dwi'n edrych o'r newydd ar y gerdd 'Pwllideri'. Falle â i ati o'r newydd i'w hail ddysgu hi eto, er mwyn hybu gogoniant y dafodieth. Fan 'ny ma'r dyfodol ondyfe? Ma pobol yn siarad, so nhw'n meddwl bo rhaid iddyn nhw gyfleu eu hunen mewn rhyw fath o Gymrâg sbeshal nawr wrth sgwrsio yn naturiol. A ma hynny'n dod o dan ddylanwad y cyfrynge torfol a pob math o bethe. A ma dyn yn tueddu i newid ei gywair iaith yn dibynnu ar gyda phwy mae e'n siarad hefyd, dwi'n sylwi ar hynny. |
| Cyfwelydd | Os ych chi'n meddwl fydd rhywun ddim yn deall falle newidwch chi ambell air?   |
| Cyfwelai  | Os ma rhywun posh yn dod ti'n treial creu argraff ond wyt ti, ac yn defnyddio geirie mowr fel 'ymdrabaeddu mewn trythyllwch'!  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod ysgrifennu mewn tafodiaith yn tanseilio Cymraeg Byw Safonol a'r ymgais i'w safoni?  |
| Cyfwelai  | Na, cyfoethogi. Wel mae'n dangos bod gan y siaradwr afel ar iaith go iawn wedyn ond yw e? Er bo lot yn dal i 'weud: 'o sim o Nghymrâg i yn ddigon da', 'sai'n gwbod y geirie iawn' a pethe. Heb sylweddoli'r cyfoeth naturiol sy gyda nhw.<br>'O, geso ni'm Cwmrâg yn 'rysgol.'<br>'O, geso chi Gwmrâg getre de?'<br>'O do, do, dim ond Cwmrâg wêdd 'da ni getre.'<br>'Jiw ych chi'n lwcus te, chi'n gyfoethog eich Cwmrâg.'<br>'Beth chi'n feddwl?'<br>'Wel 'na beth yw Cymrâg, nid rhwbeth i ddysgu yn ysgol yw Cymrâg fel Ffrangeg neu Sbaeneg.'<br>'O, o, jiw.'  |
| Cyfwelydd | Chi'n dod i ben â newid eu hagwedd nhw wedyn?  |
| Cyfwelai  | Ie ie.   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelydd | Beth yw rhinwedd defnyddio tafodiaith ar draul iaith safonol?   |
| Cyfwelai  | Y rhinwedd am wn i bod hynny yn cadw'r iaith lafar yn fyw. Yr iaith lafar yn hytrach na'r iaith safonol, sydd yn iaith llyfre, iaith darllen a dogfenne swyddogol ar y cyfan. Dŷn ni ddim ishe i pobol siarad fel yng Nghymrâg y dogfenne 'ma sy'n dod mas o'r Cynulliad a pethe fel 'ny.   |
| Cyfwelydd | Ond ŷn ni am iddyn nhw ddarllen e hefyd?  |
| Cyfwelai  | Odyn, ma ishe i bobol iwso'r ddwy wedd, gw bod pryd ma un yn addas a pryd ma un arall ddim. Mynd ar lwyfan i ddiddori pobol, i ddweud jôcs ac ati, wel ma rhaid defnyddio ieithwedd gwmws ond os e. A falle bo 'na cwpwl o eirie Saesneg yn dod miwn wedyn er mwyn bo nhw'n deall y jôc. Sdim iws defnyddio geirie mowr posh sy'n anghyfarwydd iddyn nhw, neu ma nhw'n colli ergyd y jôc. Os ti'n mynd i bwlpudd i roi pregeth, falle ma dy Gymrâg di bach yn fwy beiblaidd, yn fyw cywrain, er ma ishe fan 'ny hefyd i'r neges gal ei deall. |
| Cyfwelydd | Diolch yn fawr.   |



|                                       |   |
|---------------------------------------|---|
| <b>Cyfweliad 6</b>                    |   |
| Cyfwelydd:                            | Ruth Thomas   |
| Cyfwelai:                             | Prifardd Mererid Hopwood  |
| Dyddiad cyfweld:                      | Gohiriwyd y cyfweliad a oedd i'w gynnal 8 Medi 2014 oherwydd amgylchiadau personol y Cyfwelai. Gan fod y Cyfwelai wedi gofyn am gopi o'r cwestiynau ymlaen llaw, derbyniodd y Cyfwelydd ymateb ysgrifenedig cychwynnol ac yn ddiweddarach cynhaliwyd cyfweliad wyneb yn wyneb.<br><br>Derbyniwyd ymateb ysgrifenedig: 10 Medi 2014<br>Cyfweliad wyneb yn wyneb: 12 Rhagfyr 2014 |
| Lleoliad:                             | Campws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin   |
| <b>ADYSGRIF – YMATEB YSGRIFENEDIG</b> |   |
| Cyfwelydd                             | Ydych chi'n ysgrifennu <i>llenyddiaeth mewn tafodiaith</i> , hynny yw, darnau o waith yn gyfan gwbl mewn tafodiaith?  |
| Cyfwelai                              | Rwyf wedi llunio ambell gerdd yn gyfan gwbl mewn tafodiaith, ond eithriadau yw'r rhain. Ar yr adegau hyn, dylwn nodi fy mod wedi troi at fwy nag un dafodiaith, oherwydd fy mod wedi cael fy magu mewn un ardal (Caerdydd) ond bod fy mam (a'm holl fodrybedd, ewythredd, cefndryd, ayb) yn dod o ardal arall (Pen Caer, Sir Benfro).   |
| Cyfwelydd                             | Ydych chi'n ysgrifennu <i>tafodiaith mewn llenyddiaeth</i> – y defnydd o dafodiaith mewn darn o waith, megis deialog?   |
| Cyfwelai                              | Ydw. Roedd darnau o'r nofel <i>O Ran</i> mewn tafodiaith – ond dim ond cyffyrddiadau, geiriau ayb. Noder bod cymeriadau yn y stori honno â chysylltiadau gyda Sir Gaerfyrddin neu Gaerdydd, a'r darnau deialog yn amrywio o ran tafodiaith yn ôl y galw.  |
| Cyfwelydd                             | Os ydych, pam, os nad ydych, pam?   |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Mae'n anodd dweud pam. Yn y gerdd 'Celwi', e.e. sydd yn nhafodiaith Pen Caer, mae honno'n dechrau ym Mhwllleri ac yn ymwneud â'r diboblogi, felly roedd hi'n teimlo'n 'driw' i'r testun, rywsut, i fynegi honno yn nhafodiaith fy Mam, sef tafodiaith yr ardal dan sylw. Yr un peth gyda'r gerdd fach ysgafn Cerdd Gocos – holl bwrpas y gerdd honno oedd achub cam fy nghyd-Gaerdydd-wyr a'u hacenion sydd weithiau'n denu dirmyg Cymry'r ardaloedd traddodiadol Cymreig.   |
| Cyfwelydd | Beth yw eich barn chi am ddefnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth?  |
| Cyfwelai  | Fyddwn i ddim yn dweud bod gen i farn am y pwnc fel testun cyffredinol, h.y. fel gyda phob arf arall sydd gan lenorion yn eu meddiant, o ddefnyddio tafodiaith yn greffus, gall fod yn fanteisiol, o'i defnyddio'n afrosgo, gall fod yn andwyol. Mae'n debyg mai ei phrif fantais yw gallu dod â sefyllfa neu gymeriad yn fyw iawn. Mae'n rhoi lliw i'r llun. Ac mae'n hen, hen ddyfais – cymerwch, fel un enghraifft o dop fy mhen, y talpiau o ddeialog mewn tafodiaith yn <i>Wuthering Heights</i> , Emily Bronte. Wrth gwrs, mae defnyddio tafodiaith i lunio cerdd gaeth yn cynnig posibiladau newydd o ran y gynghanedd! |
| Cyfwelydd | Beth yw rôl neu swyddogaeth llenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Fel gyda phob llenyddiaeth, y brif swyddogaeth yw diddanu – neu felly dylai fod, credaf. Os yw'r gwaith yn cael ei greu yn bennaf er mwyn, dyweder 'achub y dafodiaith' ac yn amddifad o wefr lenyddol, yna, mae'n gwneud cam â'r darlennydd. Go brin y bydd gweithiau felly yn para.  |
| Cyfwelydd | Oes gwerth mewn llenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Mae hwn yn gwestiwn diddorol. Beth yw ystyr a mesur 'gwerth' fan hyn? O ran mesur lenyddol, mae'n debyg bod rhaid i'r gwaith fod â 'gwerth lenyddol' sy'n mynd y tu hwnt i'r ffaith ei fod mewn tafodiaith. Os yw'n ddarn o waith sydd ag iddo werth lenyddol, yna, gall hefyd fod o werth pwysig i'r dafodiaith am ei fod yn ei mynegi hi mewn llenyddiaeth. Mae llenyddiaeth, ar un olwg, yn ffurf fwy arhosol na'r ffurf lafar. Gall llenyddiaeth yr iaith  |

|           |   |
|-----------|---|
|           | fwyaf lleiafrifol ymdrin â phynciau o bwysigrwydd byd-eang. Nid iaith llenorion sy'n eu cyfyngu, ond eu dychymyg.   |
| Cyfwelydd | A yw llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen?   |
| Cyfwelydd | A yw darllenwyr yn medru deall a gwerthfawrogi gweithiau mewn tafodiaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi?   |
| Cyfwelai  | O raid, mae iaith unrhyw waith yn pennu hyd a lled ei gynulleidfa wreiddiol. Po fwyaf sy'n medru'r iaith, y mwyaf gall ddarllen y gwaith. Gall unrhyw Gymro Cymraeg ddarllen bron pob ffurf ar y Gymraeg mae'n debyg, ond bydd pellter y ffurf (y dafodiaith) o'r ffurf a siaredir fel arfer gan y darlennydd, neu o ffurf safonol yr iaith, yn amharu ar ba mor hawdd/anodd bydd y profiad i'r darlennydd. Dylid ystyried hefyd fod graddau ar dafodiaith. Mae rhai amrywiadau ymhell iawn o'r ffurf safonol, eraill yn amrywiadau y gellid ymgyfarwyddo â hwy'n ddigon hawdd – yn enwedig pan eu bod yn amrywiadau cyson, e.e. 'oe' yn troi'n 'we'. Esiamplau o amrywiadau 'pell' yw defnyddio geiriau cwbl wahanol, neu, hyd yn oed yn fwy dryslyd, pan fo gair 'safonol' yn golygu rhywbeth gwahanol yn y dafodiaith. Tybiaf nad yw'r gair 'nigen' am niwl môr yn gyfarwydd y tu hwnt i ffiniau bro tafodiaith Gogledd Sir Benfro, ond mae'r gair 'diod' yn golygu 'diod gadarn' yn yr ardal hon, ac mewn ardaloedd eraill o Gymru golyga unrhyw fath o ddiod, gan gynnwys dŵr. |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad y gerdd 'Pwllderi' gan Dewi Emrys i lenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Mae'r bri sydd wedi bod ar gerdd 'Pwllderi' wedi helpu chwalu rhagfarnau posib yn erbyn ysgrifennu mewn tafodiaith. Er ei bod hi'n ddiddorol nodi mai ymateb i gystadleuaeth yn Eisteddfod 1926 'Darn o Farddoniaeth Mewn Tafodiaith' a wnaeth Dewi Emrys wrth lunio 'Pwllderi', heb os y mae hi'n gerdd fawr y tu hwnt i'r dafodiaith. Ynndi ymdrinnir â themâu oesol, megis breuder bywyd, creulonder byd natur, a gallu dyn i dosturio a charu'r byd mawr o'i gwmpas – byd y blodau, byd y dirwedd, byd y creaduriaid. Yr hyn mae'r dafodiaith yn ei wneud yn  |

|           |  |
|-----------|--|
|           | y gerdd hon yw ei hangori yn ei chynefin a rhoi swyn iddi. Ond nid dyfais 'rad' mohoni – nid addurn ffrwcs – buaswn i'n dadlau yn hytrach mai urddas ydyw. Gall y bardd fanteisio ar rai ymadroddion a geiriau tafodieithol sy'n ei alluogi i roi min arbennig i'w awen.   |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad gwaith W. R. Evans i lenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro?  |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad y pedair cyfrol Wês Wês i lenyddiaeth dafodieithol?  |
| Cyfwelydd | A yw'n bwysig fod y beirdd a llenorion hyn wedi hybu llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro a pham?  |
| Cyfwelai  | Mae gweithiau fel hyn yn werthfawr am eu bod yn diddanu. Maen nhw hefyd yn fodd o gadw rhai geiriau ac ymadroddion tafodieithol yn fyw – neu gadw'r cof amdanynt yn fyw o leiaf. Maen nhw hefyd yn rhoi statws i'r dafodiaith, a thrwy hynny'n rhoi hyder i siaradwyr y dafodiaith honno.  |
| Cyfwelydd | A oes themâu amlwg mewn cerddi tafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Nid wyf yn ddigon o arbenigwr i wybod. Y rhagdybiaeth, mae'n debyg, yw y bydden nhw'n ymwneud â themâu sy'n perthyn i'r plwyf. Mae gan rai ragfarn yn erbyn hyn, (yn yr un modd ag y mae label fel 'bardd gwlad' neu 'bardd y filltir sgwâr' yn gallu bod yn ddilornus). Ond y gwir yw, bod y cerddi gorau i gyd yn dweud rhywbeth sydd o werth i'r byd ac i'r plwyf – h.y., waeth beth yw thema cerdd, boed hi'n dafodieithol neu beidio, boed hi'n sôn am rywbeth plwyfol..... os yw hi'n gerdd dda mae'n cyrraedd ymhell. |
| Cyfwelydd | Ai rhywbeth hen ffasiwn yw llenyddiaeth dafodieithol erbyn heddiw?   |
| Cyfwelai  | Eto fel uchod, nid oes angen iddi fod yn hen-ffasiwn. Mae nifer o weithiau diweddar yn profi hyn, fel e.e. nofel Angharad Price – <i>Caersaint</i> – sy'n cynnwys peth wmbredd o dafodiaith ardal Caernarfon yn y ddeialog, ac fel straeon <i>Saith Oes Efa</i> , Lleucu Roberts ac awdl 'Lloches' Ceri Wyn - y ddau yn cyrraedd y brig yn Eisteddfod Sir Gâr eleni. Mae pob un o'r straeon yng ngwaith Y Fedal, fel mae'n   |

|           |  |
|-----------|--|
|           | digwydd, yn cael ei chroniclo mewn tafodiaith wahanol.   |
| Cyfwelydd | A oes lle i gerddi tafodieithol ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, megis y Gadair a'r Goron?  |
| Cyfwelai  | Yn sicr, mae lle i dafodiaith os yw'n eistedd yn esmwyth ac yn cyfrannu at rym y gwaith yn hytrach na thynnu oddi arno.  |
| Cyfwelydd | A yw iaith Caerdydd yn dafodiaith, ac a ddylid ei chynnwys mewn cerddi?  |
| Cyfwelai  | Ydy yn sicr. Mae'r iaith Gymraeg a siaredir yng Nghaerdydd yn cynnwys ei geiriau a'i hymadroddion ei hunan, heb sôn am ei hacen unigryw hyfryd. Mae wedi ei dylanwadu gan y Saesneg a siaredir yn y ddinas, sydd yn ei thro, wedi ei dylanwadu gan y Gymraeg a arferid ei siarad gan hen gymdogaethau'r De Ddwyrain a chan y bobl o ddaeth o rannau eraill o Gymru i chwilio am waith.   |
| Cyfwelydd | A oes cysondeb yn y modd y cyflwynir tafodiaith mewn llenyddiaeth, a yw'n union fel y siaredir hi?   |
| Cyfwelai  | Cwestiwn diddorol. Na, dwi ddim yn credu bod cysondeb. Dyma un o hanfodion tafodiaith yw ei bod hi mor amrywiol. (Dyma pam ei bod hi'n holl bwysig i unrhyw iaith sydd am oroesi feithrin rhyw fath o iaith safonol – gyda sillafiad cyson ayb – y gall pawb ei siarad, yn ddelfrydol ar y cyd â thafodiaith arall). Cymerer e.e. dafodiaith Gogledd Sir Benfro ... i'r de o Abergwaun dywedir 'wer' (gair deusill, diacen) am 'oer', i'r gogledd o Abergwaun dywedir 'wer' (gair unsill acennog). Mae'n rhaid i'r llenor sy'n mentro cyfansoddi yn ei dafodiaith ddibynnu ar y glust a derbyn y gall fod amrywiad sylweddol o un cwmwd i'r llall. |
| Cyfwelydd | Oes dyfodol i lenyddiaeth dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Yn sicr. Pam lai?  |
| Cyfwelydd | A yw ysgrifennu mewn tafodiaith yn tanseilio Cymraeg Byw Safonol a'r ymgais i'w safoni?  |

|  |   |
|--|---|
| Cyfwelai   | Na, dylai ysgrifennu mewn tafodiaith ei chyfoethogi. Beth, wedi'r cyfan, yw Cymraeg Byw Safonol ond math ar dafodiaith ffug?  |
| Cyfwelydd  | Beth yw rhinwedd defnyddio tafodiaith ar draul iaith safonol?   |
| Cyfwelai   | Mae'r cwestiwn hwn, am ei fod yn cynnwys yr ymadrodd 'ar draul' yn un trymlwythog. Nid mater o 'naill ai/neu' ddylai hi fod. Proses greadigol yw gweithio llenyddiaeth, ni ddylid caethiwo'r awen i iaith arbennig, i gywair arbennig, i dafodiaith arbennig..... rhaid i'r ystyr ddod o hyd i'w eiriau a'r geiriau ddod o hyd i'r ystyr. |
| <b>ADYSGRIF – CYFWELIAD WYNEB YN WYNEB I DRAFOD YR YMATEB YSGRIFENEDIG UCHOD</b> |   |
| Cyfwelydd  | Yn y cwestiwn cynta chi'n gweud bo chi 'di llunio ambell i gerdd yn gyfan gwbwl mewn tafodieth. Ydych chi 'di cyhoeddi nhw?   |
| Cyfwelai   | Dyna'r rheswm yn rhannol pam fydda i ddim yma o lonawr, wedi cal yr ysgolorieth, oherwydd dwi ddim wedi cyhoeddi antholeg. Ma bron popeth wedi cal ei gyhoeddi rhwle, ond hwnt ac yma mewn gwahanol argraffiade.  |
| Cyfwelydd  | Fel y gerdd 'Celwi'? Fydden nhw mewn rhyw gylchgrawn?   |
| Cyfwelai   | Dwi ddim yn siwr lle ma honna. Dwi'n gwbod bod e ddim yn <i>Cerddi Sir Benfro</i> achos fi nath olygu honna. Falle bod y pethe Cardydd, Catrin Beard odd yn golygu Cardydd, mae'n bosib bod rhwbeth yn honna?   |
| Cyfwelydd  | Ie, cerdd gocos Caerdydd, yn <i>Cerddi Caerdydd</i> . Dwi wedi dyfynnu o honno'n barod (yn y traethawd).  |
| Cyfwelai   | Mewn ffordd ma rhaid i chi glywed honna.  |
| Cyfwelydd  | Felly dŷch chi ddim wedi cyhoeddi nhw, ond fyddwch chi, yn y gyfrol? ( <i>Nes Draw</i> , 2015)  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Wel dwi ddim yn gwbod, ma hwnna'n gwestiwn diddorol. Yn sicir fydd ddim mo'r gerdd honna (y gerdd gocos 'Cwestiynau (er parch i Gymry newydd Caerdydd)'), dwi ddim yn dychmygu. Mae'n bosib bydde'r 'Celwi' achos dwi'n treial dweud rhwbeth fan 'na sydd yn mynd fatha tu hwnt i'r dafodieth gobeitho. Hynny yw ma'r gerdd honna'n sôn am ddiboblogi.  |
| Cyfwelydd | Chi'n gweud bo chi 'di ysgrifennu hi mewn tafodieth achos roedd hi'n teimlo'n driw i'r testun i fynegi honno yn nhafodieth yr ardal dan sylw. Ydych chi'n meddwl bod tafodieth ac ardal yn mynd 'da'i gilydd? Ydy hi'n naturiol i ysgrifennu cerddi am eich ardal chi mewn tafodieth, neu dim o angenrheidrwydd?  |
| Cyfwelai  | Na, dim o angenrheidrwydd, achos galle rhywun arall ysgrifennu am Shir Benfro siwr o fod, yn Sisneg hyd yn oed, hynny yw mewn iaith arall. Er enghraifft dwi'n gwbod am sawl cerdd am Bro Gŵyr sydd mewn Almaeneg, gan awduron o'r Almaen nath aros am gyfnod 'na. Ond gyda'r gerdd benodol yma ('Celwi'), wel i ddechre ma rhai geire wrth gwrs sai'n eitha siwr beth yw'r gair safonol amdanyn nhw, pethe fel <i>coetan</i> . A cymrwch chi air fel <i>cromlech</i> , dyna'r gair mae'n rhaid i'r Sais hyd yn oed ei ddefnyddio. Ond fan hyn gan bo fi'n sôn yn benodol am sut ma pobol leol wedi gorfod gadel y lleoliad, so sai'n gwbod am ryw reswm – a hefyd mae'n cymryd arni bod hi'n sgwrsio gyda Dewi Emrys achos mae'n lleoli ei hunan ar bwys y garreg goffa yn Pwllderi. Achos chi'n meddwl am Pwllderi, so ma lot o bethe fel 'na. A hefyd i fod yn hollol onest nawr bo fi'n cofio, cyd-destun sgrifennu honno wê ar gyfer Talwrn odd yn cal ei chynnal yn Castell Newy. Rhwbeth i 'neud gyda Bois Parc Nest yn erbyn gweddill y byd, felly a odd y testun yn gofyn am rhwbeth tafodieithol nawr, sai'n gallu bod eitha siwr? Ond o'n i'n teimlo bod e'n ddilys i'r amgylchiade. |
| Cyfwelydd | Cwestiwn pedwar fan 'na, chi'n gweud 'o ddefnyddio tafodiaith yn grefftus, gall fod yn fanteisiol, o'i defnyddio'n afrosgo, gall fod yn andwyol.' Ymha ystyr chi'n golygu 'andwyol'?  |
| Cyfwelai  | Wel pan mae'n hyll, pan mae'n tynnu sylw at ei hunan. Fel, mewn ffordd, gorchestol, ond ma hwnna'n wir am bob barddoniaeth yn 'y marn i. Ma   |

|           |   |
|-----------|---|
|           | ise elfen o, wel, ddiffuantrwydd a chynildeb. Meddylwch chi nawr am rhai o'r mesur caeth sy wedi mynd mas o ffasiwn, ac ar y cyfan ma nhw wedi mynd mas o ffasiwn am reswm, am bo nhw yn anhylaw a bo nhw ddim yn helpu'r farddonieth. Ond allwch chi lunio cerddi iddyn nhw ond mae e tamed bach fel, 'drychwch arna i yn gallu ysgrifennu.'   |
| Cyfwelydd | Yn ffals?   |
| Cyfwelai  | Ie, a pan ma hynny'n digwydd gyda thafodieth, weden i bod e'n drueni.   |
| Cyfwelydd | Chi'n gweud bod defnyddio tafodieth i lunio cerdd gaeth yn cynnig posibiliadau newydd o ran y gynghanedd. Fyddech chi'n defnyddio geiriau tafodieithol wrth gynganeddu?   |
| Cyfwelai  | Wel ma'r 'Celwi' 'na er enghraifft, cywydd yw honna. "Ru'n llŵer sy'n Pwllideri" – wel ma honno'n gynghanedd sain a ma honna dim ond yn gweithio os wedwch chi llŵer. Os ŷch chi'n mynd i 'weud lloer neu lleuad so 'na'n gweithio, dyw'r llinell ddim yn bod; 'â we dŵe'n d'amser di' – ma hwnna rhwbeth falle bach yn wahanol, ond ma sawl gwaith yn y gerdd 'na ma'r cynganeddion yn newydd oherwydd bod y geiriau newydd.   |
| Cyfwelydd | Mae'n bosib felly?  |
| Cyfwelai  | O mae'n bosib, mae'n fendigedig o bosib, mae'n cynnig pob math o bethe. Achos un o'r pethe ma'n rhaid i chi fod, wel ar eich llw i radde yn eu herbyn pan ŷch chi'n llunio cerddi caeth, yw bo chi ddim yn defnyddio rhyw hen gynganeddion, rhyw hen linelle. Wel 'na fe hen draw, ma 'na enw arno fe a ma pobol yn gyffredinol yn troi trwyne arnyn nhw. Ambell waith allwch chi ddim helpu achos 'na'r union beth sydd ishe'i ddweud, ond yn gyffredinol mae'n arfer dda i geisio osgoi'r pethe 'na. Ond wrth gwrs os ŷch chi'n mynd i allu pysgota mewn cronfa o eirie nad ŷn nhw yn cael eu defnyddio fel arfer mae'n fendigedig. |
| Cyfwelydd | Fe nath Idris Reynolds ddweud ei fod e'n perthyn i'r hen do a bod e'n cynganeddu yn ôl y rheole, a fyddfe fe byth yn defnyddio geiriau tafodieithol?  |



|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Dwi'n hollol o blaid a fydden i hefyd o blaid os yw e'n naturiol. Mae'n rhaid i ni dderbyn bod geirie newydd yn dod at yr iaith Gymraeg a tra bo ni'n eu Cymrigeiddio nhw ac yn eu perchnogi nhw fydden i ddim yn erbyn hynny hyd yn oed.   |
| Cyfwelydd | Chi'n sôn am y bri ar y gerdd 'Pwllderi' a'i bod hi wedi helpu i chwalu rhagfarne posib. Pa ragfarne sydd 'da pobol yn erbyn tafodieth?   |
| Cyfwelai  | Ma hwnna'n gwestiwn llawer dyfnach na'r cwestiwn barddonieth a thafodieth ond yw e? Ond chi'n clywed rhai, a dwi ddim yn siwr ymhle ma'r gwendid fan hyn, ife yn niffyg hyder y siaradwr? Ond wedyn mae'n rhaid gofyn pam bo diffyg hyder? A yw hwnnw wedi dod oherwydd rhyw draheustra, arrogance, ar ran bobol sydd wedi cal at Gymraeg, wel Gymraeg y llyfre wedwn ni? Ond yn 'y marn i ma Gymraeg tafodieithe amrywiol Cymru yn Gymraeg, wel nid jyst dilys, ond mae'n cyfoethogi'n hiaith ni a dyle ddim bod edrych lawr ar hwnna o gwbwl.   |
| Cyfwelydd | Ond chi'n meddwl bod rhai pobol yn gweld tafodieth yn israddol i'r iaith lenyddol, safonol?   |
| Cyfwelai  | Ydy, ond fydden i ddim yn meddwl mai problem y Gymraeg yw honna. Mae'n broblem drwyddi draw. Odd rhywun yn dweud rhwle mai beth yw'r gwahanieth rhwng iaith a thafodieth yw bod gan iaith fyddin. A mae'n ddiddorol ond yw e? Hynny yw yn achos Cymru wrth gwrs dyw hyd yn oed yr iaith safonol heb fyddin, diolch byth am hynny, ond mae gyda ni wladwriaeth, mae gyda ni Feibl, mae gyda ni gorff llenyddol. Ond ma'r ffin, pryd ma tafodieth yn peidio bod yn dafodieth a pryd ma iaith? Mae'n siwr bo chi 'di pori yn <i>A Glossary of Demetian Dialect</i> . Dwi wedi anghofio enw'r awdur nawr..... |
| Cyfwelydd | Meredith Morris, do.  |
| Cyfwelai  | 'Na fe. Ma hwnna, ie tafodieth yn nhw. Pam? Achos yn sicir does dim byddin, does dim statws, does dim gwladwriaeth yn perchnogi'r iaith 'na, ond bois bach mae'n gyforiog, mae mor gyfoethog. Ma cant a mil o bethe yn y llyfyr 'na, nid dim ond amrywiade ar eirie ond geirie cwbbwl wahanol. Dwi'n siwr mai yn y llyfyr 'na ma nhw'n cofnodi'r gair   |

|           |  |
|-----------|--|
|           | <i>torwino</i> . Nawrte ystyr torwino yw pan ma deilen yn troi tu fiwn tu fas wrth i'r gwynt ddod gan ddweud bod y glaw ar ei ffordd. Ma angen y ferf 'na arnon ni achos heb y dafodieth 'na mae'n rhaid i ni 'weud y peth yn hollol gwmpasog.   |
| Cyfwelydd | Chi'n sôn bod gweithie tafodieithol yn werthfawr am eu bod nhw hefyd yn rhoi statws i'r dafodieth. Yn codi'r dafodieth i'r un statws â'r iaith lenyddol? Ddylen ni fod yn eu trin nhw yn gwmws yr un peth, yr un statws, yr un lefel?  |
| Cyfwelai  | Wel dwi ddim yn hollol siwr. Ar un olwg yr ateb yw wel ie sownd. Hynny yw, yr un peth fydden i ddim ishe rhoi gwahanol statws i berson na iaith. Gallwn ni alw fe'n rhwbeth gwahanol, ond os ych chi'n meddwl statws yn graddoli rhwbeth i fod yn fwy neu'n llai o werth, fydden i ddim yn dymuno 'neud y gwahanieth 'na. Achos ma iaith hefyd yn gymint rhan o hunaniaeth rhywun ac os yn ni'n mynd i ddechre gweud wel ma'r iaith ych chi'n siarad ddim gwymint o werth â ma iaith ma rhywun arall yn, yn anochel yn ni bron yn rhoi gwahanol statws ar y siaradwyr, a ma hynny'n beth ofnadw wrth gwrs. |
| Cyfwelydd | Yng nghwestiwn tri ar ddeg lle dwi'n gofyn am themâu, chi'n meddwl falle bydden nhw'n ymwneud â themâu sy'n perthyn i'r plwyf. Ond fyddech chi'n ysgrifennu cerdd ar unrhyw bwnc mewn tafodieth? Neu fydde rhai pyncie fyddech chi'n meddwl fyddech chi ddim yn sgrifennu mewn tafodieth?  |
| Cyfwelai  | Dwi ddim yn siwr a allen i ddweud mai oherwydd y pwnc. Mae'n rhaid i chi gofio mod i mewn ffordd, fel rhan fwyaf o blant Cardydd, yn amlieithog yn yr ystyr chi'n siarad Cymraeg a Saesneg, ond hefyd ma'r dafodieth. Dwi'n gwbod bod pobol â nodiade yn 'yn llyfre ysgol i. Yn gynnar iawn o'n i hyd yn oed yn ysgrifennu mewn tafodieth yn amlwg, ond odd hwnna'n cal ei gywiro?   |
| Cyfwelydd | O ie.  |
| Cyfwelai  | Ondyfe? A ma hynny'n ddigon teg. Ac felly o oedran cynnar iawn wedyn wrth gwrs o'n i'n siarad iaith, wel mae'n debyg mai iaith safonol fydde fe, iaith fydde wedi cael ei fodelu gyda'r athrawon odd yn dod o bob cwr o Gymru. Felly dwi ddim yn <i>genuine article</i> . Hynny yw dwi 'di bod o oedran  |

|           |  |
|-----------|--|
|           | <p>cynnar iawn yn ymwybodol iawn o'r ddau gywair 'ma, o'r ddau fath gwahanol 'ma. Felly o ran ysgrifennu wedyn mae e'n naturiol iawn i fi ysgrifennu mewn iaith mwy, wel ysgrifenedig te. Fydden i ddim yn mynd ati'n fwriadol sai'n credu i wahaniaethu. Ma rhai geire, hyd nawr, dwi ddim yn eu hystyried nhw'n dafodieithol, neu ymadroddion. Pethe fel <i>shwrne</i> yn golygu <i>once</i>. Nawr dwi 'di drysu pobol. Yn ddiweddar o'n i ar gwrs a wedes i 'wel shwrne fyddwch chi wedi 'neud hynna.' Wel o'n nhw'n edrych yn hollol hurt arnai.</p> |
| Cyfwelydd | <p>Wên nhw'n meddwl am <i>shwrne</i> fel <i>journey</i>?</p>   |
| Cyfwelai  | <p><i>Journey</i>, ie. Felly gyda'r geire rheina dwi'n meddwl bydde'r rheina yn troi lan achos dwi ddim wir yn ystyried eu bod nhw'n eirie (tafodieithol).</p>   |
| Cyfwelydd | <p>Achos dyna beth ych chi'n ei 'weud yn naturiol?</p>   |
| Cyfwelai  | <p>Ie, nes bo chi'n dod wyneb yn wyneb â rhywun sydd ddim yn eu deall nhw.</p>   |
| Cyfwelydd | <p>Yng nghwestiwn pymtheg dwi'n sôn am bobol fel Meic Stephens, wedi cystadlu am y Gader a'r Goron mewn tafodieth. Fyddech chi'n gwobrwyo awdl neu bryddest mewn tafodieth – os hi fydde ore, fydde 'da chi ddim rhagfarn?</p>   |
| Cyfwelai  | <p>Na.</p>   |
| Cyfwelydd | <p>Achos nath Meic Stephens un flwyddyn ddod yn ail agos i Christine James. A dyma Gwynn ap Gwilym ar ôl 'ny yn gweud wel diolch byth bod Christine James, achos dyle cerdd dafodieithol fyth ennill y Gader neu'r Goron?</p>  |
| Cyfwelai  | <p>Na, fydden i'n anghytuno'n llwyr.</p>   |
| Cyfwelydd | <p>Eithriad wê 'na.</p>  |
| Cyfwelai  | <p>Na, achos ma tafodieth cerdd yn rhan o'i hidiom hi, sydd rhwbeth gwahanol i iaith. Mae e'n un o'r lliwie ar yr iaith, ond yw e? Mae e fel cywair, neu arddull bron â bod. Ond yn sicir fydden i ddim yn gweld bod hwnna yn – os yw'r gerdd yn dda, gyda neu heb y dafodieth.</p>  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Dyna sy bwysica?   |
| Cyfwelai  | <p>Ie, a ma hwnnw'n dibynnu ar llawer o bethe, pethe gallwch chi ddim yn eitha rhoi eich bys arno fe sai'n credu. Yr unig beth yw wrth gwrs mae'n rhaid i fardd sy'n sgrifennu mewn tafodieth dderbyn bod y gynulleidfa o raid yn llai. Ond ma hwnna'n wir os ych chi'n ysgrifennu yn Gymrâg. A bo chi'n gallu siarad Saesneg. Pe byddech chi'n ysgrifennu'n Saesneg wrth gwrs fydde'r gynulleidfa llawer iawn fwy. Ond wedyn os mai at bobol Cymru..... wel yn y pen draw mae'n siwr bo chi ddim yn sgrifennu ar gyfer unrhyw un yn benodol. Mae'n gwestiwn dyrys sdim rhaid i'r bobol sy'n sgrifennu boeni amdano fe! Ond y pwynt yw chi yn derbyn hwnna. Pan ma pobol 'di gofyn i rywun gyfieithu ei waith, mae'n rhyfedd, achos mewn ffordd chi yn ail-lunio'r gerdd wedyn. A mae'n debyg mai'r un peth bydde'n digwydd gyda tafodieth, mae'n gweitho hi o'r newydd. Wedi dweud hynny dwi'n meddwl bod rhaid i ni fod yn wylidwrus mai mwynhau a dathlu'r gwahaniaethe ni'n 'neud, nid creu bwganod mas ohonyn nhw. Achos hyd yn oed pan o'n i'n gweud <i>shwrne</i> yn y gogledd, o'n i'n dod i ddeall. Dyw e ddim yn wirioneddol rhwystr. A dwi 'di darllen cerddi Meic Stephens a mae'n hollol bosib i ni gyd fel Cymry eu deall nhw. Beth mae'n 'neud yw mae'n cyffroi'r dychymyg. Mae'n ychydig bach o ddiethriad, mae'n lled braich i'r rhai hynny ohono ni sy ddim yn siarad y dafodieth honno, ac felly'n rhoi cyfle i ni ymwneud â'r geirie mewn ffordd mwy rhagweithiol mewn ffordd.</p> |
| Cyfwelydd | Chi'n dysgu geire newydd?  |
| Cyfwelai  | <p>Un o'r pethe fi'n hoffi 'neud os wdw i'n cal gwahoddiad i fynd drwy'n stwff mewn rhyw cymdeithas lenyddol, dwi bob tro yn mynd â copi o'r Drydedd Salm ar Hugain mewn tafodieth. Lyn Lewis Dafis nath y fersiwn wreiddiol ond wrth gwrs mae e'n dod o Mynachlog-ddu a dyw hwnna ddim yr un peth â Pen-car, felly dwi 'di addasu ddi ddar 'ny. A o'n i'n ddiweddar yn Shir Fôn, ma hwnna'n eitha pell o Pen-car! Ond o'n nhw 'da fi, dwi'n meddwl o'n nhw, ac o'n nhw'n mwynhau clywed y Salm yn y dafodieth.</p>  |
| Cyfwelydd | Ydych chi wedi cyhoeddi honno, neu rhywbeth ych chi'n mynd 'da chi?  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Ma hwnna'n un o'r pethe ma pobol yn gofyn amdani.   |
| Cyfwelydd | Ond ma pobol yn deall honno.  |
| Cyfwelai  | Fan hyn nawr wrth gwrs ma pawb yn gyfarwydd â'r Drydedd Salm ar Hugan.  |
| Cyfwelydd | Ie, so ma nhw'n gallu gweitho mas, fel pan ych chi'n gweud <i>feidir?</i>   |
| Cyfwelai  | Ie, ma rhyw fath o metacognition, chi'n ymwybodol bo chi'n ymwybodol.   |
| Cyfwelydd | Chi'n gwbod beth yw e, yn gallu gweitho mas beth yw e?  |
| Cyfwelai  | Ma nhw'n ddigon cyfarwydd ag e i ddilyn y fersiwn 'Yr Arglwydd yw Fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf' yn eu pen wrth bo hwn yn digwydd.  |
| Cyfwelydd | Felly ych chi'n darllen honna er mwyn tynnu sylw at eich tafodieth chi?   |
| Cyfwelai  | Achos bo fi'n gwbod bod pobol yn enjoyo fe. Ond gyda hwn wedyn, mae e, dwi'n gobeitho, yn cyffroi'r glust ond yw e? Achos mae'n 'neud i bobol feddwl am rhwbeth ma nhw mor gyfarwydd ag e, <i>mor</i> gyfarwydd ag e nes bod e bron wedi colli ystyr. Pan yn ni'n dweud pethe ni'n gwbod ar ein cof am nôl ac am mlan, ma bron bob tro – neu mae'n rhaid i ni fod yn ofalus bo ni ddim jyst yn gweud e fel parot heb ystyried y geirie. Fell pan chi'n clywed e gyda bach o'r dieithrwch 'ma, ma'r ystyr yn dod yn fyw 'to. |
| Cyfwelydd | Chi'n gwbod y cyfrole <i>Wês Wês</i> , os ych chi'n gyfarwydd â'r peder cyfrol 'na, ydych chi wedi dod ar draws cyfrole tebyg mewn tafodieithoedd erill? Neu oes mwy o ysgrifennu yn nhafodieth Shir Benfro na mewn tafodieithoedd erill?   |
| Cyfwelai  | Cwestiwn diddorol.  |
| Cyfwelydd | Dwi wrth gwrs wedi dod ar draws Meic Sephens a'r Wenhwyseg, cerddi, gweithie tafodieithol, ond sai 'di dod ar draws peder cyfrol yn benodol mewn tafodieth arall.   |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Cwestiwn yw hwn, a odi'r Ddyfedeg wedi cadw'i elfenne unigryw? I'r fath raddau nes bod hi'n eitha – mae'n glatshen o dafodieth. Cofiwch bo William Morgan, boi o'r gogledd odd e yn y bôn ondyfe, ac felly ma llawer iawn o'r hyn yn ni'n meddwl sy'n iaith safonol wedi cal ei lywio gan ei safone fe. Pe bydde rhywun o Cwm Gweun gwedwch chi wedi cyfieithu'r Beibl, falle bydde mwy o alw am lyfre tafodieithol rhwle arall, sai'n gwbod. Er enghraifft yn ni'n meddwl bod <i>whare</i> ddim gystal â <i>chwarae</i> , ond mae'n debyg bod <i>whare</i> yn ffurf hyn na <i>chwarae</i> . Hynny yw bod y <i>chs</i> ma wedi dod miwn nes ymlaen.  |
| Cyfwelydd | Chi'n meddwl bod mwy o sylw i dafodieth Shir Benfro? Pan ych chi'n meddwl am Shir Benfro, ma'r dafodieth yn un o'i nodweddion chi'n meddwl am. Achos bo hi'n wahanol, yn unigryw?  |
| Cyfwelai  | Ie, achos fel dwi'n dweud mae mor syfrdanol, ma 'na dipyn o eirfa gwahanol. Rhaid i ni beido anghofio bod e'n mynd lan i Geredigion. Ma'r ffin weden i rownd ffor 'na rhwle, Blaenannerch fan 'na. Lle ma'r we yn mynd yn oe – felly bydden nhw'n dweud <i>coes</i> a ni'n gweud <i>cwês</i> . A ife hefyd felly, o gofio'r patshyn 'na reit yn y gorllewin, lle ma cyment o ymwneud â'r pethe sgwennu 'ma wedi bod, neu'r llunio cerddi 'ma wedi bod, falle bod jyst obiti fod digon o bobol 'na i gynnal y peth tra yn yr ardaloedd mwya dwyreiniol falle bod e wedi mynd yn rhwbeth prin iawn? Dwi'n meddwl o ran yr iaith Gymraeg, ma rhaid cal y ddau beth ond os e? Ma rhaid i ni gal y tafodieithoedd ma'n peillioni'r iaith ac yn cadw hi'n ddiddorol ac yn gyhyrog ac yn lliwgar, ond wrth gwrs ma rhaid i ni gal rhyw un iaith mynte bo ni gyd yn gallu'i siarad hi a'i deall hi, a dos dim byd o'i le ar hynny. |
| Cyfwelydd | O fewn y Gymrâg ma 'da chi 'ddwy iaith' wedyn?   |
| Cyfwelai  | Oes.   |
| Cyfwelydd | Yn y gyfrol <i>Cerddi Sir Benfro</i> ma saith cerdd tafodieithol, fel gwaith Eirwyn George. Nethoch chi feddwl bo rhaid i chi gynnwys cerddi tafodieithol neu nethoch chi edrych ar y cerddi wê ar gal a digwydd bod ma 'na ambell un mewn tafodieth?  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Ie. Achos os odd rhyw gerdd digwydd bod mewn tafodieth ond yn hollol ddiflas o gerdd fyddech chi ddim ishe 'neud yn fach â neb, na'r shir hefyd.   |
| Cyfwelydd | Felly cerddi da yn ymwneud â Shir Benfro?  |
| Cyfwelai  | A sôn am Eirwyn George nawr fi yn diolch iddo fe ar ddechre'r gyfrol achos nath e helpu fi lot. Dwi 'di dysgu lot 'ddar hynny a odd e'n bleser pur i gal ffindio mas ambiti yr etifeddieth sy 'da ni. Ond odd hwanna'n broses o ddysgu.  |
| Cyfwelydd | Felly mynd am gerddi da?   |
| Cyfwelai  | Ie. Ydw i wedi cynnwys 'Galw'r let' yn honna?  |
| Cyfwelydd | Na.  |
| Cyfwelai  | Fyddden i yn heddi. Wel dwi'n meddwl mai <i>Cerddi Sir Benfro</i> odd y gynta yn y gyfres 'na a wedyn o'n i ddim yn eitha siwr a odd rhaid i'r cerddi fod yn ymwneud â Shir Benfro hefyd.  |
| Cyfwelydd | Achos ma cerddi gan bobol y tu fas i Shir Benfro, fel Alan Llwyd?  |
| Cyfwelai  | Yn ysgrifennu am Shir Benfro. Ie, 'na beth dwi'n sylweddoli nawr. Wel i fod yn hollol blaen – nid jyst ni fel pobol sydd â cysylltiadau â Shir Benfro sy'n gweud hyn – ond mae yn shir sy'n denu lot o ysgrifennu, ma lot o ramant wastod wedi perthyn. Ma'r artistiaid, gyment ohonyn nhw, ar glawr yn dweud bod y lliw, ondyfe, bod rhwbeth arbennig am y lle, felly ma pobol yn dod ar eu gwylie. Meddyliwch chi am 'Melin Trefin', wel odd Crwys ddim yn dod o Shir Benfro. Mae'n denu pobol. Meddyliwch am rhywun fel Waldo, sy mor annatod yn mynd â'r sir. Nawr mae e'n defnyddio tafodieth mewn ffordd dwi'n credu bydde'r rhan fwyaf ohonon ni yn. Hynny yw bo nhw ddim yn gerddi bwriadol tafodieithol ond lle mai 'na'r gair sy ishe bo ddim ishe bod ag ofon defnyddio fe. Ma Ceri Wyn yn esiampl perffaith o hynna. |
| Cyfwelydd | Diolch yn fawr.  |

| <b>Cyfweliad 7</b> |  |
|--------------------|--|
| Cyfwelydd:         | Ruth Thomas  |
| Cyfwelai:          | Eirlys Charles   |
| Dyddiad cyfweld:   | 5 Ionawr 2015  |
| Lleoliad:          | Cartref y Cyfwelai, Hwlfordd   |
| <b>ADYSGRIF</b>    |  |
| Cyfwelydd          | Sut gawsoch chi'r cais i ysgrifennu darnau ar gyfer y cyfrolau <i>Wês Wês</i> ?  |
| Cyfwelai           | Galwad ffôn wrth Gwyn Griffiths. Odd e'n gyn drefnydd yr Urdd, a wên i 'di bod yn cydweitho gydag e.   |
| Cyfwelydd          | Felly wêdd e'n cysylltu â phobol gwahanol wêdd e'n gwbod wê'n siarad y dafodieth?  |
| Cyfwelai           | Odd, mae'n debyg, ie.  |
| Cyfwelydd          | A roddodd e unrhyw gyfarwyddiade i chi ar beth i ysgrifennu?   |
| Cyfwelai           | Na, dwi ddim yn meddwl 'ny. Dwi ddim yn cofio'n iawn, ond dwi'n meddwl bod popeth yn ben agored.   |
| Cyfwelydd          | Bo chi'n gallu dewis unrhyw destun, unrhyw beth wê chi moyn?   |
| Cyfwelai           | Unrhyw beth, ie.   |
| Cyfwelydd          | Beth wê'ch ymateb chi pan gethoch chi'r alwad?   |
| Cyfwelai           | Panic! Os wês rhywun yn gofyn i fi 'neud rhwbeth, gan amla dwi'n gweud ie yn ddifeddwl, a ddylen i fod wedi meddwl lot fowr cyn 'neud y fath beth! Ond 'na fe, odd e'n gymwynas. |
| Cyfwelydd          | A wnaethoch chi ysgrifennu darnau'n arbennig ar gyfer y rhain, neu wê chi wedi eu hysgrifennu yn barod?  |



|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Odd dou ohonyn nhw oen i ddim wedi sgrifennu o'r blan. Y llall dwi'n meddwl bo fi wedi sgrifennu ddi ond wedi 'neud dim byd â hi.   |
| Cyfwelydd | Pa un wê honno?   |
| Cyfwelai  | Y stori yn hytrach na'r sôn am Fflorens a'r Pasg. A beth odd y llall?   |
| Cyfwelydd | Y gleider.  |
| Cyfwelai  | O ie, yr hedfan yn y gleider.   |
| Cyfwelydd | Felly y llall, y stori yn Aberystwyth, wê chi wedi ysgrifennu honno?  |
| Cyfwelai  | Dwi'n meddwl bo fi wedi ysgrifennu honno.   |
| Cyfwelydd | O ran diddordeb i'ch hunan?   |
| Cyfwelai  | Ie.   |
| Cyfwelydd | Wêdd e'n gwbod falle bo chi wedi 'neud 'ny?   |
| Cyfwelai  | Na, dwi ddim yn meddwl, na.   |
| Cyfwelydd | Felly wêch chi wedi sgrifennu honno ond heb feddwl 'neud dim â hi?  |
| Cyfwelai  | Na.   |
| Cyfwelydd | Ydych chi wedi ysgrifennu unrhyw beth ers hynny? Nath hyn hala chi i feddwl ysgrifennu mwy?   |
| Cyfwelai  | O'n i'n sgrifennu tipyn bach ymhell cyn hynny a odd dileit 'da fi yn hynny. Ond wedyn dath gwaith bob dydd a odd dim amser, a o'n i'n dysgu daearyddiaeth a odd e mor ffeithiol a dwi'n meddwl i'n nychymyg i grebachu a ddath ddim y cyfle wedyn. Beth dwi wedi bod yn 'neud rhan fwya yw sgrifennu adroddiade – Merched y Wawr a'r Cymrodorion. A wedyn pregethe, a dwi yn iwso tafodieth mewn pregeth. |
| Cyfwelydd | Yn yr hen ddyddie wê iaith y pwlpud yn fwy ffurfiol ond erbyn heddi ma'r pregethwyr yn llai ffurfiol ac yn defnyddio mwy o dafodieth?   |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Chi'n cyfathrebu 'da nhw yn iaith eu hunen wedyn.   |
| Cyfwelydd | Sut wnaethoch chi ddewis y testune ar gyfer y darne hyn?  |
| Cyfwelai  | Allen i feddwl o'n i newydd fod yn Fflorens felly wêdd hwnnw ar 'yn feddwl i, ac wrth gwrs o'n i wedi dechre gleido ac yn dwli arno. Newydd ddechre gleido o'n i pryd hynny. Ar ôl hynny allen i fod wedi sgrifennu lot mwy am y gleido a'r helyntion!                  |
| Cyfwelydd | A wnaethoch chi ysgrifennu yn union fel yr ydych chi'n siarad neu a oeddech chi'n ymwybodol o sut oeddech chi'n dewis eich geiriau?   |
| Cyfwelai  | Yn y stori, fel o'n i'n siarad. Y llall o'n i'n gorffod meddwl achos dwi ddim yn meddwl fod y ddou arall, y Fflorens a'r gleido, yn hollol addas i falle tafodieth.   |
| Cyfwelydd | Chi'n dweud 'gesum i'. Dyw hyn ddim yn cal ei 'weud yng ngogledd Shir Benfro. Ydych chi'n dal i'w 'weud e nawr?   |
| Cyfwelai  | O bydden.   |
| Cyfwelydd | A 'sano'?   |
| Cyfwelai  | O bydden i'n gweud hynny.   |
| Cyfwelydd | Felly wêch chi mwy neu lai yn sgrifennu fel wêch chi'n gweud?   |
| Cyfwelai  | Oen.  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod modd ysgrifennu ar unrhyw destun mewn tafodiaith? Ma nifer yn y cyfrole hyn wedi ysgrifennu am yr ardal neu'r bobl leol, ond chi'n sôn am daith i Fflorens?  |
| Cyfwelai  | Dwi ddim yn siwr, achos wên i'n meddwl bod y Fflorens 'na ddim yn addas, wedi drychyd nôl arno. Falle oherwydd bod e yn ymwneud â'r Pasg. Sai'n gwbod pam chwaith. Falle am ei fod am y Pasg dyle fod yn fwy parchus. Ond digwyddiad odd e, ddim neges, fel yr Efengyl. |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | A yw'r cyfrolau hyn wedi 'neud cyfraniad i lenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Wdw i yn meddwl bo nhw wedi 'neud cyfraniad achos ma'r dafodieth wedi parhau a ma lot o bobol yn 'neud gwaith ar y dafodieth nawr. A mae'n dda bo ni'n cal tafodieth Shir Benfro achos ni'n clywed tafodieithe erill.  |
| Cyfwelydd | Felly chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig bod y rhain wedi cael eu cyhoeddi?   |
| Cyfwelai  | Wdw, dwi yn meddwl ei bod hi'n bwysig.   |
| Cyfwelydd | Ma rhai yn dal ar werth heddi. A yw pobol yn dal i'w darllen nhw?  |
| Cyfwelai  | Dwi ddim yn gwbod.   |
| Cyfwelydd | A wês rhai wedi cyfeirio at eich gwaith?   |
| Cyfwelai  | Odyn, ma ambell un yn gweud o fe weles i hynny.  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod cyfrolau fel hyn yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen? Ai cyfrolau i bobl Sir Benfro yn unig yw'r rhain neu a all pobl mewn ardaloedd eraill yng Nghymru eu mwynhau nhw hefyd?   |
| Cyfwelai  | Dwi'n meddwl fod hi'n mwy anodd i neb i ddarllen rhywbeth mewn tafodieth anghyfarwydd. Mae e'n gofyn ymdrech. Felly fydden i'n meddwl bydde'r gwerthiant yn fwy yn lleol. Ond wedi gweud hynny os ych chi ishe i rhwbeth ddod mas yn eich iaith eich hunan ma rhaid i chi fod yn folon derbyn tafodieithodd erill hefyd. |
| Cyfwelydd | Mae'r eirfa ar y diwedd ymhob un ohonyn nhw. Os yw rhywun yn darllen a ddim yn siwr am ryw air, gallant edrych ar y cefen?   |
| Cyfwelai  | So ma hynny'n ddigon teg.  |
| Cyfwelydd | All pobol mewn ardaloedd eraill eu mwynhau nhw felly?  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cywelai   | O dwi'n meddwl 'ny. Dyna un peth dwi'n meddwl bo fi ddim wedi rhoi yn un o'r storie, a dwi'n ceisio cario fe mlan, yw sôn am y trydydd person – 'odi e'n meddwl hyn.' O'n i'n gweud hynny'n amal wrth 'y nhad – 'beth mae'n feddwl am hyn?'   |
| Cyfwelydd | Dwi ddim yn gyfarwydd â hwnnw (yng ngogledd Sir Benfro), ai rhwbeth gwaelod y shir?   |
| Cywelai   | Falle bod e?  |
| Cyfwelydd | Ardal Croesgoch? Chi'n sôn am Ffair Mathri yn 'ych gwaith. Yn yr ardal honno y cawsoch eich magu?   |
| Cywelai   | Ie, ardal 'yn rhieni, Castell Haidd (Cas-lai). A dwi yn 'neud hynny nawr. O'n i ddim wedi cal 'yn dwyn lan i 'weud <i>ti</i> wrth neb. <i>Chi</i> odd mam, <i>chi</i> odd whar, <i>chi</i> odd bob un. Odd rhaid fod yn gyfarwydd iawn iawn â rhywun cyn gweud <i>ti</i> . I genderwyr sy'n iau na fi, wdw i'n tueddu gweud: 'odi e yn meddwl hyn', sano cweit mor barchus â <i>chi</i> , ond sano cweit mor fflipant â <i>ti</i> . Rheol 'yn hunan yw honno. |
| Cyfwelydd | Ydy hynny yn un o'ch storie?  |
| Cywelai   | Na, dwi ddim wedi rhoi e yn un o'r storie, na, ond dwi'n lico'r syniad bod yr arfer hwnnw yn cario mlan.  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl ei bod yn bwysig bod yr awduron 'ma wedi hybu llenyddieth dafodieithol Sir Benfro?   |
| Cywelai   | Odi, dwi'n meddwl bod hi.   |
| Cyfwelydd | Dwi ddim wedi dod ar draws cyfrole fel hyn mewn tafodieithodd erill. Ydyn ni'n fwy ymwybodol o'n tafodieth ni yn Sir Benfro?  |
| Cywelai   | Falle bo ni, a falle fod e'n cal ei anwybyddu ar y radio a'r teledu. Sdim llawer o sôn, dim ond bo nhw'n gweud 'wês wês' ambell waith. Felly dwi'n meddwl bod hi'n dda o beth fod rhain 'da ni.   |
| Cyfwelydd | Mae'n gofnod ieithyddol, hanesyddol, yn sôn am ddigwyddiade?  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Odi, amrywieth o beth, a hefyd barddonieth.   |
| Cyfwelydd | Felly getho chi gyfle i ysgrifennu cerdd, stori, unrhyw beth wêch chi moyn?   |
| Cyfwelai  | Do, gymint dw i'n cofio. Mae'n drueni bo ni yn colli geire a ymadroddion. Ma ishe 'neud ymdrech arbennig i defnyddio nhw ond os e?  |
| Cyfwelydd | Yn yr ysgol, ma plant yn gorfod ysgrifennu Cymraeg safonol, so chi'n cal ysgrifennu mewn tafodieth. A yw hyn yn gymysglyd i blant, odyn ni'n colli tafodieth drwy ddweud bo rhaid sgrifennu'n safonol?  |
| Cyfwelai  | Falle fod e yn gwanhau fe, ond wên i ddim yn gweld e'n gymysglyd.   |
| Cyfwelydd | A wê plant ddim yn cymysgu? Fydden nhw'n siarad â chi mewn tafodieth yn y dosbarth?   |
| Cyfwelai  | Wel fydden nhw yn Crymmych, ond pan o'n i yn Taskers wedyn odd dim llawer o Gymry 'na. Odd un peth diddorol ddigwyddodd yn Taskers. Odd merch fach, Cymraes odd hi, Cymrâg odd ei mam a'i thad hi. A odd hi'n darllen stori, wedi'i sgrifennu'n safonol, a odd hi'n ddarllen e mas mewn tafodieth, a dwi eriod wedi gweld neb yn 'neud hynny. Wê siwr o fod meddwl chwim iawn da'i. |
| Cyfwelydd | Beth wê'ch ymateb chi wedyn?  |
| Cyfwelai  | O'n i'n meddwl bod e'n grêt!  |
| Cyfwelydd | Ond heddi, chi'n gorfod sgrifennu mewn iaith safonol?   |
| Cyfwelai  | Mewn arholiad falle. Ond dwi yn meddwl mewn arholiad, petai plentyn yn defnyddio tafodieth, ddylen nhw ddim cal eu cosbi am 'neud.  |
| Cyfwelydd | A Dewi Emrys a 'Pwllderi'. Odi honno'n rhwbeth chi'n dal i glywed heddi?  |
| Cyfwelai  | Odi.  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Mewn eisteddfod, fydech chi'n dal i ddod ar draws honno?   |
| Cyfwelai  | Ma eisteddfod newydd ddechre yn Tyddewi, yn flynyddol, i rai dros 50 oed, a dwy neu dair blynedd nôl wê gwraig 'na dros ei wyth deg a fe adroddodd hi 'Pwllderi' o'r dechre i'r diwedd, heb gopi na dim byd.   |
| Cyfwelydd | Ma honno'n dal i fynd, dal i gal ei chlywed?   |
| Cyfwelai  | O odi, a dwi'n meddwl ta pryd ma rhwbeth yn dod lan am Shir Benfro ma nhw'n darllen 'Pwllderi', neu rhan ohono.  |
| Cyfwelydd | A yw hynny'n beth da? Ma Dewi Emrys yn dal i gal ei gofio am 'Pwllderi', er bod y gerdd bron yn ganmlwydd od. 1926 nath e sgrifennu hi, cystadleueth yn yr Eisteddfod Genedlaethol, cerdd mewn tafodieth, yn Abertawe. Cydradd gynta gath e, ond ma'r gerdd wedi para hyd heddi? |
| Cyfwelai  | Dwi'n siwr bo neb arall yn gwbod beth arall ma fe wedi sgrifennu, ond ma nhw'n cofio hon. Mae e 'di dal y dychymyg, 'Pwllderi'.  |
| Cyfwelydd | Diolch yn fawr.  |

## Llythyr a dderbyniwyd wedi'r cyfweiliad

6.1.15

Annwyl Ruth

Meddwl yn araf dwi'n gwneud. Petrusais ynglŷn ag addaswydd sgrifennu 'Fflorens' mewn tafodiaith a chredais mai amarch falle tua'r eglwys oedd y rheswm. Wedi pendroni penderfynais nad hyn oedd y rheswm ond fy mod yn credu bod tafodiaith yn fwy addas i destunau ysgafn a doniol a deialog. Digwyddiad rhyfedd oedd 'Fflorens', nid un doniol. Ac mae digon o bethau doniol wedi digwydd mewn capeli a fyddai'n gwbl addas mewn tafodiaith.

Mae'n fwy anodd i ddarllen tafodiaith ond mae'n bwysig diogelu'r geiriau a'r ymadroddion ac mae'n cyfoethogi'r Gymraeg.

Mwynheais siarad â chi ddoe.

Pob lwc â'r gwaith.

Cofion gorau  
Eirlys

|                                       |   |
|---------------------------------------|---|
| <b>Cyfweliad 8</b>                    |   |
| Cyfwelydd:                            | Ruth Thomas   |
| Cyfwelai:                             | Gwyn Griffiths  |
| Dyddiad cyfweld:                      | 29 Ionawr 2015  |
| Lleoliad:                             | Drwy gyfrwng e-bost, oherwydd amgylchiadau personol y Cyfwelai  |
| <b>ADYSGRIF – YMATEB YSGRIFENEDIG</b> |   |
| Cyfwelydd                             | Pam aethoch chi ati i baratoi a chyhoeddi'r pedair cyfrol <i>Wês Wês</i> ?  |
| Cyfwelai                              | <p>Dw i ddim yn meddwl bod yr ateb yma yn mynd i fod yn berthnasol. Ond dyma'r gwir. Cyn Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi, 1976, fe luniodd dau neu dri ohonom lythyr i'r Archdderwydd yn gofyn iddo yn ystod un o'r seremonïau alw "A Wês Heddwch?" Rwy'n meddwl (ond ddim yn siwr) i'r llythyr fynd yn enw John Phillips, fy nghyd-olygydd gyda'r ddwy gyfrol gyntaf. Roedd yna Eisteddfod yn Efail Isaf ar y pryd a roedd 'da ni Orsedd (!). Mae John yn dod o Lanboidy. Gyda'r holl firi a ysgogwyd yn y wasg a'r teledu, fe gês i'r syniad o geisio creu cyfrol yn nhafodiaith Sir Benfro. Cysylltais â Huw Lewis, Gwasg Gomer, a fe ymatebodd yn gadarnhaol ar unwaith. Mwya i gyd roedden i'n meddwl am y peth, mwya i gyd o'n i'n meddwl bod e'n syniad da. Un peth diddorol, fe ddwedodd Huw wrtha i am gadw draw wrth bethau oedd wedi ei cyhoeddi o'r blaen. Roeddwn i wedi crybwyll 'Pwllderi' a'r stori 'Shemi Wâd a Chanon Milffwrt' wrtho fe, y ddwy gan Ddewi Emrys, ond roedd e'n bendant am i ni beidio cynnwys pethe oedd wedi eu cyhoeddi o'r blaen am resymau yn ymwneud â hawlfraint. Mi fyswn i'n dadlau mai 'Pwllderi' yw'r gerdd dafodiaith enwocaf yn y Gymraeg. Sydd, o bosib, yn awgrymu y bu llawer mwy o sgrifennu yn y Ddyfedeg nag y bu mewn gwirionedd. Gyda llaw, mae yna ambell ddarn a gyhoeddwyd o'r blaen yn y cyfrolau gan eu bod allan o hawlfraint.</p> |



|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Yn y gyfrol gyntaf, rydych yn sôn i chi geisio perswadio pobl, yn bennaf o Sir Benfro, i gyfrannu storïau, ysgrifau a cherddi. Beth oedd ymateb y bobl hyn?  |
| Cyfwelai  | Doedd dim anhawster i gael pobol i gytuno i sgrifennu, y broblem fwy oedd eu cael nhw i gadw eu haddewidion. Rwy'n dal i ddisgwyl cyfraniad wrth un o hyd! Fel oedd hi'n digwydd roedd John Phillips yn drafeliwr i gwmni sy'n berchen chwarel ar gyrion Pontypridd a fe fuodd e'n gwerthu cerrig lawr yng nghyffiniau Sir Benfro am ddeufis nes i ni lwyddo i gael digon o ddeunydd i lenwi cyfrol! Roedd e'n ymweld â phobol yn gyson nes iddyn nhw gadw'u haddewidion. Rwy'n meddwl i mi gynnig y syniad i Wasg Gomer ym mis Chwefror a fe ddaeth y gyfrol mâs ddydd Mawrth yr Eisteddfod. Felly fe weithiodd y dau ohon ni'n eitha sydyn. Wrth gwrs, dyw hi ddim yn gyfrol fawr – 22,000 o eiriau oedd y 'brief' wrth Gomer, a dyna yw hyd pob un. Rwy'n meddwl bod pobol nad ydyn nhw'n arferol yn sgrifennu dim byd ('achos dyw Nghymrâg i ddim digon da') yn barotach i sgrifennu rhywbeth mewn tafodiaith – fel maen nhw'n siarad. Felly rwy'n meddwl bod sawl un wedi cyfrannu i'r cyfrolau a heb gyfrannu i ddim byd arall cyn nac ar ôl hynny. Tad Eirwyn George yn un, fy mam-yng-nghyfraith, May Williams, yn un arall. Roedd Eirwyn yn dweud wrtho i mai i <i>Wês Wês</i> y sgrifennodd e ei ddarn cynta o ryddiaith i gael ei gyhoeddi, a'r peth cynta iddo ei sgrifennu mewn tafodiaith. |
| Cyfwelydd | A wnaeth rhai wrthod cyfrannu? Os do, am ba reswm?   |
| Cyfwelai  | Neb fedra i gofio – heblaw Kay Williams, Tremarchog, oedd wedi cyfrannu i'r gyfrol gynta ac am wybod pwy oedd yn cael yr elw o'r gyfrol. Wnaeth hi ddim cyfrannu i'r ail. Fe gafodd pawb dâl; eitha da o ystyried y cyfnod, os wy'n cofio iawn, a mi gês inne a John ryw ychydig bach yn fwy. Arian o'r Cyngor Llyfrau.  |
| Cyfwelydd | A oedd themâu amlwg yn ymddangos yn y storïau a'r cerddi a dderbyniasoch?  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | <p>Atgofion yn bennaf, sy'n ddigon naturiol – a gwerthfawr goelia i. Porteadau o gymeriadau, wedyn – fel Twm Weunbwl a rwy'n ystyried cyfraniadau Morgan John i'r cyfrolau yn arbennig. A straeon celwydd gole. Rwy'n arbennig o falch o'r rheini, rhai gemau gan Daniel y Pant, Tudraeth a recordiwyd gan Robin Gwyndaf. <i>Siwsan yr Hwch a'r Dablen Sur</i> yn stori ardderchog. Mae straeon celwydd gole'n cael eu hystyried yn rhan bwysig o ddiwylliant gwledydd eraill, fel Yr Almaen, a rwy'n cofio darllen rhyw gyfrol o straeon tebyg o New England. Fedra i ddim cofio'r teitl. Maen nhw'n rhywbeth nodweddiadol o Sir Benfro. Mae yna bethe difyr – a chlyfar – fel <i>Dyddiadur Lamech Cwm Mowr</i> gan Rachel Owen, Mynachlog-ddu. Clyfar, achos mae'n gyfle i ddod â phob math o eirie tafodieithol mewn i'r stori. Prin yw'r pethe cyfoes, dau ddarn gan Eirlys Charles – un am hedfan 'glider' ac un arall am wylie yn Rhufain. A rwy'n cofio bod rhywbeth gan Hefin Wyn am grŵp pop yn y gyfrol gyntaf – <i>Whys, whys drabŵd</i>.</p>   |
| Cyfwelydd | <p>A oedd cysondeb yn y modd y cyflwynwyd y dafodiaith yn y darnau hyn. A oedd yn union fel y siaredir hi neu a oedd rhai wedi ei gorliwio ychydig?</p>  |
| Cyfwelai  | <p>Y cwbl o'n i'n ofyn oedd i'r cyfranwyr fod yn gyson o fewn y stori, neu'r ysgrif. Mae hynny'n gwneud synnwyr oherwydd er bod y Ddyfedeg yn cwmpo'n daclus o fewn yr ardal lle mae'r 'o' yn troi yn 'w' mae amrywiaeth fawr rhwng Cymraeg ardal Tŷ Ddewi a Chlunderwen neu ardal Eglwysrwr. 'Dwê' a dŵe', e.e. Rwy'n siwr bod pobol yn gorliwio, a pham lai. Mi ddweden i bod tipyn o orliwio yn 'Pwllderi'! Mae'n un ffordd o roi rhai geirie, dywediadau a phriod-ddulliau lawr ar gof a chadw. Mae gofyn i bobol sgrifennu rhywbeth yn hytrach na'u recordio nhw yn rhoi mwy o amser iddyn nhw feddwl, a rwy'n meddwl falle bod siawns gyda chi i gael peth mâs ohonyn nhw na fyddech chi'n gael o'u recordio nhw. Wrth gwrs, mae hon yn ddadl oesol. Beth ydyn ni'n moyn? Stori dda a falle darn o lenyddiaeth neu rhywbeth gwyddonol gywir. Mae yna erthygl ddiddorol ar hyn yn <i>Cross-Cultural Essays Brittany and Wales</i> a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Ganolfan Uwch-efrydiau Cymreig a Cheltaidd ac adran debyg ym Mhrifysgol Brest (2013). Dim bod ystyriaethau o'r fath ym meddwl</p> |

|           |  |
|-----------|--|
|           | John Phillips na minnau pan gychwynnwyd ar <i>Wês Wês</i> .  |
| Cyfwelydd | Beth oedd ymateb trigolion Sir Benfro i'r pedair cyfrol hyn?   |
| Cyfwelai  | Yn bendant y bu croeso mawr iddyn nhw. Rwy'n credu iddyn nhw wneud i bobol sylweddoli bod ganddyn nhw dafodiaith gyfoethog a lliwgar y dylsen fod yn falch ohoni. Un peth diddorol. Cyhoeddwyd y gyntaf a'r olaf gan Gomer, a chyfrolau 2 a 3 gan Cyhoeddiadau'r Frenni. Gwerthodd 2 a 3 yn well na'r ddwy arall. Defnyddiodd Cyhoeddiadau'r Frenni rwydwaith gwerthu a dosbarthu y Papurau Bro a roedd siopau nad oedd yn arferol yn gwerthu llyfrau – ond yn gwerthu'r papur bro lleol – yn eu gwerthu. Y siope gwerthu paraffin a marjarin ys dywedodd W. R. Evans. Diddorol, ond pan wnaeth S4C gyfres ar dafodieithoedd, yn yr enghreifftiau o dafodiaith Sir Benfro roedd yr holl ddarnau, heblaw am 'Pwllideri', allan o'r gyfres <i>Wês Wês</i> . Cafodd ei hail-ddarlledu yn 2013 os wy'n cofio'n iawn.   |
| Cyfwelydd | A yw llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen? Hynny yw, ai cyfrolau i drigolion Sir Benfro yn unig yw'r rhain neu a all darllenwyr mewn ardaloedd eraill o Gymru eu deall a'u gwerthfawrogi?   |
| Cyfwelai  | Siwr o fod. Ond rwy'n siwr bod pobol wedi prynu a darllen <i>Wês Wês</i> nad ydyn nhw'n arferol yn darllen llawer o Gymraeg. Rwy'n meddwl bod y gyfres yn ffitio i fewn i'r ffenomen papurau bro. Rwy yn ei ffeindio'n ddiddorol fod y ddwy gyfrol gyhoeddwyd gan Cyhoeddiadau'r Frenni wedi gwerthu'n well na'r cyfrolau gyhoeddwyd gan Gomer. Roedd Gomer yn dibynnu ar rwydwaith dosbarthu y Cyngor Llyfrau. Mi fuaswn i'n hoffi gweld mwy o ddarllen ar lyfrau tafodieithol – rwy'n meddwl bod Gogleddwyr yn fwy plwyfol yn hyn o beth. Roeddwn i'n mwynhau cyfrolau fel <i>Chwedlau Pendeitsh</i> , a <i>Storiau'r Henllys Fawr</i> flynyddoedd yn ôl. Fe aeth cyfrolau fel <i>Straeon y Gilfach Ddu</i> J. J. Williams – tafodiaith Ynysybwl – yn anghof. A phwy sy'n gwybod am gyfrolau Glynfab yn nhafodiaith Cwm Rhondda, <i>Y Twll Cloi</i> , <i>Ni'n Doi</i> , <i>Y Partin Dwpwl</i> . Mae plant y De'n astudio <i>Un Nos</i> |

|           |  |
|-----------|--|
|           | <i>Ola Leuad</i> ar gyfer Lefel A. Mae angen i ni wneud mwy i astudio tafodieithoedd ein gilydd. Gweler fy adolygiad o <i>Wilia</i> Meic Stephens yn y rhifynnau cyfredol o <i>Cambria</i> a <i>Barddas</i> . Ond digon o rant.  |
| Cyfwelydd | A gawsoch chi ymateb i'r cyfrolau gan bobl y tu allan i Sir Benfro?  |
| Cyfwelai  | Rwy'n cofio adolygiad arbennig o garedig gan T. J. Davies yn y <i>Cambrian News</i> i'r gyfrol gyntaf ac yn sôn mod i wedi taro ar wthïen gyfoethog a bod angen ei chloddio'n ddyfal. Ac yn <i>Y Cymro</i> , hefyd. Ond wnes i ddim cadw copïau. A rwy'n cofio gwneud cyfweliad gyda'r <i>Western Mail</i> yn ystod wythnos Eisteddfod Aberteifi. Fedra i ddim cofio dim arall.  |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad y pedair cyfrol <i>Wês Wês</i> i lenyddiaeth dafodieithol Cymru?   |
| Cyfwelai  | Wn i ddim. Mi fuaswn i'n gobeithio iddyn nhw godi balchder pobol Sir Benfro yn eu tafodiaith, a thrwy hynny wneud rhyw gyfraniad bach tuag at annog pobol i barchu eu tafodieithoedd nhw eu hunain. Wn i ddim a wnaeth y cyfrolau rywfaint i ysgogi diddordeb yn y <i>Storiau Celwydd Gole</i> . Cyhoeddodd Carreg Gwalch gyfrol flynyddoedd yn ôl oedd yn cynnwys fy stori i <i>Croen Llisywen</i> . Rwy'n sylwi bod <i>Rhint y Gelaets a'r Grug</i> wedi pori'n ddyfal ynddyn nhw am eiriau, ond dyw hynny ddim yn ymwneud â dylanwadau tu allan i ardal y Ddyfedeg. |
| Cyfwelydd | A yw'n bwysig fod y beirdd a llenorion a gyfrannodd at y cyfrolau wedi hybu llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro a pham?   |
| Cyfwelai  | Ydi – a chymryd eu bod nhw hybu llenyddiaeth dafodieithol Sir Benfro. (Mae'r awgrym yn eich cwestiwn yn un caredig.) Mae balchder bro yn bwysig, a mae'n bwysig ein bod ni'n cadw geiriau a phriod-ddulliau sy'n dal yn berthnasol i heddiw yn hytrach na defnyddio ffurfiau sathredig o'r Saesneg. Rwy'n gwybod bod ieithoedd yn newid, a does dim un iaith yn newid mor gyflym a'r Saesneg, ond fe all sgrifennu tafodieithol fod o help i gadw tafodiaith a chryfhau iaith yn gyffredinol. Meddyliwch am Dante – neu Petrarch, neu'r ddau                           |

|           |   |
|-----------|---|
|           | o ran hynny – yn chwilio ymysg us tafodieithoedd Yr Eidal am y grawn a chreu iaith lenyddol. Wela i ddim llawer o argoel o hynny'n digwydd yng Nghymru. Ond dyna'r ddelfryd i mi. |
| Cyfwelydd | Diolch yn fawr.   |

|                    |  |
|--------------------|--|
| <b>Cyfweliad 9</b> |  |
| Cyfwelydd:         | Ruth Thomas  |
| Cyfwelai:          | Yr Athro Meic Stephens   |
| Dyddiad cyfweld:   | 10 Chwefror 2015   |
| Lleoliad:          | Dros y ffôn, oherwydd amgylchiadau personol y Cyfwelai   |
| <b>ADYSGRIF</b>    |  |
| Cyfwelydd          | Paham ydych chi'n ysgrifennu <i>llenyddiaeth dafodieithol</i> ?  |
| Cyfwelai           | Wel dwi ddim yn gwybod beth yw'r ateb i'r cwestiwn yna a dweud y gwir. Mae'n ddirgelwch pur i mi. Yr unig peth dwi'n gwybod yw bob tro dwi'n rhoi pin ar bapur neu'n agor y sgrin ac yn trio ysgrifennu barddoniaeth, mae'n dod mas yn y Wenhwyseg. Rhyfedd iawn, iawn ynte. Ond dyna'r ateb i'ch cwestiwn chi, dwi ddim yn gwybod.  |
| Cyfwelydd          | Beth yw eich barn am ddefnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth?  |
| Cyfwelai           | Dwi'n credu ei fod yn ddigon dilys. Ac os yw'n dod yn naturiol i chi, wel dyna'r peth i'w wneud ynde. Hynny yw, mae ysgrifennu mewn tafodiaith, ma nhw'n bert iawn, a dwi'n credu bod nhw'n ychwanegiad diddorol i'n llenyddiaeth ni. Mwy na hynny, mae'n anodd dweud.   |
| Cyfwelydd          | Beth yw rôl neu swyddogaeth llenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai           | Os yw'n adlewyrchu realiti y sefyllfa, naill ai'n gymunedol neu yr unigolyn, dwi'n credu ei fod e'n ddigon dilys. Mae gan bob lenyddiaeth cerddi a storïau a nofelau hyd yn oed mewn tafodiaith, ac felly pam lai gyda'r Gymraeg? Pan chi'n dechrau chwalu, mae gyda ni gryn dipyn o lenyddiaeth mewn tafodiaith, chi'n gweld, nid jyst y pethau amlwg ynde fel 'Pwllderi', ond hyd yn oed Kate Roberts a D. J. Williams ac yn y blaen. Ac os y'ch chi'n mynd nôl i ddechrau'r ganrif diwethaf, wel roedd y Gymraeg yn gyfoethog iawn, yn enwedig yn y papur |

|           |  |
|-----------|--|
|           | newydd 'Tarian y Gweithwyr', papur asgell chwith. Dwi ddim yn gwybod pwy oedd yn cyhoeddi fe, ond roedd yn rhoi lle i gerddi a deialogau, a gwybodaeth a trafodaeth yn y Wenhwyseg. Ma cryn dipyn ohono fe erbyn hyn. Dwi wedi bod yn meddwl 'neud antholeg ohono fe a deud y gwir. Ond mwy na hynny eto, fedra i ddim gweud.  |
| Cyfwelydd | Oes gwerth mewn llenyddiaeth dafodieithol?   |
| Cyfwelai  | Wel dywedwn i oes, yn bendant ynte.  |
| Cyfwelydd | Ymha ffordd?   |
| Cyfwelai  | Mae'n ehangu yr iaith, yn cyfoethogi'r iaith, gyda'r geirfa ac yn y blaen. Ac mae e hefyd, wel mae rhywbeth awthentig ynddo fe ond oes? Hynny yw, mae gyda chi pobl go iawn yn siarad bob dydd fel petai. Hynny yw, dyw pawb ddim yn siarad fel Kate Roberts ynde. Ydych chi'n gyfarwydd gyda llaw â'r epigram am lorwerth Peate?  |
| Cyfwelydd | Na.  |
| Cyfwelai  | Wel dwi ddim yn cofio fe yn Gymraeg nawr. Idwal Jones piau fe, mae e'n perthnasol iawn i'ch ymchwil chi. Mae'n mynd rhywbeth fel hyn yn Saesneg, dwi wedi rhoi cyfieithiad Saesneg ohono fe:<br><br>Let it be known I heard an author spout<br>The dialects of Wales are on their way out.<br>But then I pause my heart no longer gay<br>To think that I should live to see the day<br>When boys and girls would walk along the street<br>Talking like an essay by lorwerth Peate. |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen?  |
| Cyfwelai  | Wel wrth gwrs, wrth gwrs, achos dim ond pobl sydd yn siarad y dafodiaith yna sy'n gallu ei deall e yn iawn. Ond mae angen cryn dipyn o ymdrech. Mae'n rhaid i bobl rhoi tipyn bach o..... beth yw <i>prejudice</i> nawr?   |
| Cyfwelydd | Rhagfarn.  |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | Rhaid rhoi rhagfarn o'r neilltu a wedyn gadael i'r dafodiaith weithio ar ei termau ei hunan.   |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod darllenwyr yn medru deall a gwerthfawrogi gweithiau mewn tafodiaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi?  |
| Cyfwelai  | Dim ar unwaith, ond gydag ychydig bach o nodiadau, efallai.  |
| Cyfwelydd | Achos ych chi yn eich llyfre yn rhoi geirie ar y diwedd i esbonio'r Wenhwyseg. Fel yn y gyfrol <i>Wilia</i> , chi'n nodi'r geirie ar y diwedd, a ma hynny'n help i'r darllenwyr wedyn?   |
| Cyfwelai  | Ar gyfer yr Eisteddfod dwi'n rhoi y geirfa ar y diwedd.  |
| Cyfwelydd | A ma hynny yn amlwg yn help i bobl wedyn?  |
| Cyfwelai  | Yn fy llyfr, dwi ddim yn credu mod i yn nodi. Na dwi ddim, yn <i>Wilia</i> . Chi wedi cael <i>Wilia</i> ?  |
| Cyfwelydd | Ydw, dwi wedi darllen honno.   |
| Cyfwelai  | Mae 'na chryn nifer o ystyriaethau wyddoch chi ynglŷn ag ysgrifennu a chyhoeddi cerddi yn y Wenhwyseg, ac mewn unrhyw tafodiaith a dweud y gwir. A un ohonyn nhw yw i ba raddau yr ydych chi'n esbonio popeth, neu ydych chi jyst yn gadael y peth fel y mae, disgwyl i'r darllenydd weithio fe allan. Wel efallai fod hynny yn rhy hallt. A wedyn sut ych chi'n sillafu y tafodiaith? Mae hynny yn broblem. Sdim geiriadur y tafodieithoedd felly mae'n rhaid i chi penderfynu sut ych chi'n mynd i sgrifennu geiriau. Fel pan mae llythyren wedi gadael mas, fel <i>folon</i> yn lle <i>fodlon</i> . A ydyn ni'n esbonio hynny bob tro? Wel na dim bob tro, achos mae'n mynd yn flinedig iawn. Ond yr un peth gyda sillafu, wyddoch chi. Yr <i>o'n</i> i yn lle <i>yr oeddwn i</i> , wel mae 'na mwy nag un ffordd o ddweud hynny hefyd. Ond, unwaith yr ydych yn dewis un ffordd o wneud hynny, ar yr amod eich bod yn cadw ati, wel does dim angen wedyn poeni. A does dim angen fod yn gyson. Dyna un o'r pethau neis ynglŷn â tafodiaith. Does dim rhaid i chi fod yn gyson. Dyw tafodiaith ddim yn gyson. Felly mewn ffordd, <i>anything goes</i> ynde. |



|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad y gerdd 'Pwllleri' gan Dewi Emrys i lenyddiaeth dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Wel mae 'Pwllleri' yn rhyw fath o, yn un o'r secret codes. Allwch chi ddim mo'i beirniadu fe. Mae'n gerdd fach eitha dlws, eitha twt, sydd yn adlewyrchu iaith gogledd Sir Benfro yn hyfryd iawn iawn. Dwi ddim yn gweud bod hi'n llenyddiaeth fawr fel petai, ond ar y llaw arall mae'n rhigwm bach eitha cofiadwy. Dwi'n credu mae 'na le i'r fath yna o ysgrifennu mewn bob iaith.  |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod hi'n bwysig fod beirdd a llenorion yn hybu llenyddiaeth dafodieithol? Ydych chi'n credu ei bod yn bwysig fod pobol fel chi yn ysgrifennu mewn tafodiaith heddiw?  |
| Cyfwelai  | Wel, mae'n debyg fod e, ond dŷch chi ddim yn ymwybodol o hynny wrth ysgrifennu cerddi mewn tafodiaith. Rydych chi'n ysgrifennu'r gerdd gorau gallwch chi. Ac os yw'n dod mas fel yn fy achos i mewn tafodiaith, wel dyna ni, well gadael hi fel 'na. Tacluso weithiau, dwi'n ysgrifennu'r gerdd weithiau ac yn meddwl o wel gallai droi hynny yn agosach at y Wenhwyseg. Tipyn bach o nuts and bolts dwi'n galw fe. Ond nid dyna'r prif beth sydd gyda chi mewn golwg.   |
| Cyfwelydd | Ai rhywbeth hen ffasiwn yw llenyddiaeth dafodieithol erbyn heddiw?   |
| Cyfwelai  | Ydy, mewn ffordd ydy, os ŷch chi'n gyfarwydd â llenyddiaeth safonol. Dyna'r trwbl, ni gyd wedi cael ein haddysgu yn y Gymraeg safonol. Mae 'na shwt gymaint o ymdrech wedi mynd i mewn ers Syr John Morris-Jones i safoni yr iaith, ac i ddysgu yr iaith, ac i sicrhau bod ein disgyblion yn medru'r Gymraeg safonol. Pan ŷch chi'n troi at y dafodiaith, mae'n dipyn bach o sioc i'r darllenydd, a dyna ble mae'r rhagfarn yn dechrau. Ni wedi mynd i'r holl trwbl o safoni'r iaith a dyna chi nawr yn mynd yn ôl at y tafodieithoedd. Wyddoch chi? Mae'n anochel, dwi'n credu. |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod 'na le i lenyddiaeth dafodieithol ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol?   |

|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelai  | O yn bendant. Os na fedrwn ni gael rhywbeth yn yr Eisteddfod, sdim lot o obaith a gweud y gwir. Where teg i'r Eisteddfod mae nhw wedi rhoi ambell gystadleuaeth i mewn dros y blynyddoedd, deialogau, cerddi ac yn y blaen.  |
| Cyfwelydd | Rydych chi wedi dod yn agos sawl gwaith at y Goron gyda cherddi yn y Wenhwyseg, a'r rhan fwyaf o'r beirniaid yn hapus â hynny. Ond ambell un fel Gwynn ap Gwilym yn dweud na ddylid gwobrwyo cerdd mewn tafodiaith?  |
| Cyfwelai  | Gwae fi, gwae fi os y'n ni'n mynd i roi gwobrau..... o dear dear dear.   |
| Cyfwelydd | Pam fod ambell un fel Gwynn ap Gwilym yn erbyn felly?  |
| Cyfwelai  | Oherwydd ei fod e wedi cael ei feithrin ar y Beibl, iaith glasurol, cael gradd yn y Gymraeg ynde. A dyna pam mae'n edrych i lawr, ac efallai nad oes dim tafodiaith gydag e. Mae'r rhan fwyaf o Gymry Cymraeg â tafodiaith, ych chi'n gweld, pan ych chi'n meddwl am y peth, hyd yn oed pobol fel Waldo yn bendant. Kate Roberts, T. H. Parry-Williams, i gyd yn siarad tafodiaith, ond yn sgwennu mewn Cymraeg safonol, oherwydd dyna'r peth i wneud. |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod yna gysondeb yn y modd y cyflwynir tafodiaith mewn llenyddiaeth. Ydy hi'n union fel y mae'n cael ei siarad, neu ydy hi weithiau yn cael ei gorliwio?  |
| Cyfwelai  | Yr ymgais yw i drïo gael yr iaith ysgrifenedig, hynny yw y tafodiaith, mor agos â phosib at sut mae'n swno. Ac mae bob bardd neu bob llenor yn gweithio allan ei ffordd ei hunan o gynrychioli hynny. Cymerwch chi 'yr o'n i' – chi'n gallu ysgrifennu fe gyda ô a to bach; mae rhyw pedwar neu bump ffordd o gynrychioli'r sŵn yna.   |
| Cyfwelydd | Ydych chi'n meddwl bod yna ddyfodol i lenyddiaeth dafodieithol?  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | <p>Wel hoffwn i feddwl fod pobol â diddordeb. Mae dysgu'r iaith Gymraeg yn creu nifer o broblemau i'r dysgwr. Un o'r problemau, y prif broblem, yw'r gwahaniaeth rhwng Cymraeg ysgrifenedig a Chymraeg llafar. Cymerwch chi 'yr oeddwn i' ac 'yr o'n i' – mae'n rhaid bod hynny yn drysu y dysgwr. Mae yn, dwi wedi dysgu Cymraeg fy hunan. Dwi'n siarad o brofiad fan hyn. Mae 'na gwahaniaeth mawr. Mae 'na rhyw bump neu chwech o wahanol ffyrdd o fynegi eich hunan a ma hynny'n daft ynde. Mae'n rhaid bod hynny yn danto y dysgwr yn ofnadw. Os ydych yn fodlon cadw ato fe, a bod y peth yn real a yn matsio eich profiad chi, dwi'n credu ei fod e yn hollol ddilys.</p>  |
| Cyfwelydd | <p>Ydych chi'n meddwl bod ysgrifennu mewn tafodiaith yn tanseilio Cymraeg Safonol? Rydych chi wedi sôn am John Morris-Jones yn safoni'r Gymraeg. Ydych chi'n meddwl bod ysgrifennu mewn tafodiaith yn tanseilio hynny?</p>  |
| Cyfwelai  | <p>Mae'r Gymraeg yn tanseilio ei hunan trwy'r amser. Mae plant ysgol, ma nhw'n cwyno'n ofnadwy nad ydyn nhw'n deall Kate Roberts, a Parry-Williams. Testun llawer rhy anodd. Bron yn iaith wahanol. Os yw hynny'n digwydd i'r Gymraeg heb y tafodieithoedd, mae'n rhyfedd ond tydy? Mae'r Gymraeg yn geidwadol iawn. Er bod dŵr yn mynd o dan y bont fel petai, a pethau'n newid yn y byd, newid yn yr iaith, mae'r iaith yn aros mwy neu lai yr un peth. Mae'r Cymro Cymraeg sydd wedi cael addysg yn y Gymraeg yn gallu deall Kate Roberts yn iawn, dim problem. Ond pobl heb addysg, na dim syniad, ac mae hynny'n rhyfedd iawn iawn ynde. Felly mae yna rhyw fath o insiwrans fel petai o sicrhau bod y Gymraeg yn mynd i fod yn dealladwy os 'da ni'n dewis nawr ffurf neu ffurfiau sydd yn nes at iaith y bobl. Gyda llaw, un o'n motos i yw 'iaith y bobol yng ngheg yr ysgolhaig'. Dwi ddim yn gwybod pwy dywedodd hynny, neu pwy fathodd y dywediad yna, dwi wedi bod yn trio ffindio mas. Ond dyma fy amcan i, dyna fy uchelgais i. Defnyddio'r iaith, nid sathredig, ond iaith y werin bobl fel mae'n cael ei siarad, ond ei ddefnyddio fe fel llenor.</p> |
| Cyfwelydd | <p>A oes rhinwedd mewn defnyddio tafodiaith yn hytrach na iaith safonol?</p>  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | Wel 'da ni wedi cyffwrdd â rhai ohonyn nhw nawr yn y sgwrs yma. Hynny yw, os yw pobl yn y stryd yn dweud 'helo shwmae', wel dydych chi ddim yn mynd i ysgrifennu 'helo, sut yr ydych chi', rydych chi'n mynd i ysgrifennu 'shwmae'. Wel mae hynny'n naturiol. |
| Cyfwelydd | Diolch yn fawr.   |

|                                       |   |
|---------------------------------------|---|
| <b>Cyfweliad 10</b>                   |   |
| Cyfwelydd:                            | Ruth Thomas   |
| Cyfwelai:                             | Y Prif Lenor Lleucu Roberts   |
| Dyddiad cyfweld:                      | 10 Mawrth 2015  |
| Lleoliad:                             | Drwy gyfrwng e-bost, oherwydd amgylchiadau personol y Cyfwelai  |
| <b>ADYSGRIF – YMATEB YSGRIFENEDIG</b> |   |
| Cyfwelydd                             | Paham ydych chi'n ysgrifennu <i>llynyddiaeth dafodieithol</i>   |
| Cyfwelai                              | <p>I wirioneddol fynd o dan groen cymeriad sy'n siarad yn y person cyntaf, teimlwn fod tafodiaith yn gymorth pendant, ac yn <i>Saith Oes Efa</i>, roedd yn fwrriad o'r cychwyn. Mae ysgrifennu tafodiaith yn clymu'r uniad rhwng yr ysgrifenedig a'r llafar, gan briodi'r hyn a wêl y llygad a'r hyn a glyw y glust, er mwyn dwysáu ein hadnabyddiaeth o'r cymeriad mewn ffordd sy'n ategu ac yn trosgynnu'r naratif a'r ystyr lythrennol.</p> <p>Weithiau, rwy'n teimlo bod rhai cymeriadau, wrth iddynt ddatblygu, yn perthyn i ardal benodol, gan gyfyngu ar y dewis o leoliadau ar gyfer straeon, o bosibl. Bron na allai'r cymeriadau fodoli yn unman arall. Daw'r dafodiaith, felly, yn rhan o wead y cymeriad, gan gyfrannu at ei wneud yn fod unigryw, a mynd i wreiddyn y gwahaniaethau bychan rhyngom sy'n ymwneud â daearyddiaeth a chefnidir. A dyna agwedd ddiddorol arall ar dafodiaith: y ffaith nad yw'n gyfan gwbl seiliedig ar leoliad daearyddol – mae elfennau cymdeithasol ac academaidd ynghlwm wrth dafodiaith, a chefnidir cymeriad yn dylanwadu ar batrymau mynegiant a'r ffordd y mae'n siarad.</p> <p>Y bwriad yn <i>Saith Oes Efa</i> oedd ceisio cyfleu'r amrywiaeth wych o gymeriadau sy'n deillio o glytwaith amryliw Cymru, yn ddaearyddol ac yn gymdeithasol. Mae tafodiaith yn ategu'r gwahaniaethau yn ein gwneuthuriad. Ac mae'r cyfan, yr holl amrywiaeth, boed yn batrymau iaith neu'r clytwaith o gefndiroedd ac amgylchiadau sy'n</p> |

|           |   |
|-----------|---|
|           | rhan o frethyn ein cynhysgaeth, yn digwydd o fewn yr un, wrth gwrs, y Gymraeg, a'n hundod fel cenedl.   |
| Cyfwelydd | Rydych yn ysgrifennu mewn nifer o dafodieithoedd. Ydy hyn yn hawdd neu'n anodd i chi?   |
| Cyfwelai  | Mae fy nhafodiaith naturiol yn perthyn i ogledd Ceredigion. Ond bûm yn byw yn ardal Caernarfon ers bron i chwarter canrif, ac yn bwysicach, rwyf i wedi magu 4 o blant yn yr ardal honno: dyna'r dafodiaith (Arfon wledig, ychydig i'r de o Gaernarfon) rwy'n ei chlywed bob dydd. At hynny, rwy'n gyfarwydd â chlywed tafodiaith sy'n gwyrto mwy at dafodiaith Cofi hefyd, mae teulu'r gŵr o Feirionnydd, ac mae nifer o fy nheulu yn byw mewn gwahanol rannau o'r de. Yn ogystal, mae profiad o ysgrifennu deialog ar gyfer y teledu wedi magu rhywfaint o 'glust' tuag at wahanol rannau o Gymru. Ni fyddwn yn ymhoni fy mod yn gallu ysgrifennu 'nifer' o dafodieithoedd. Gallaf ddefnyddio dwy yn lled dda, sef fy nhafodiaith fy hun, a thafodiaith fy mhlant a'r ardal lle rwy'n byw. Ar wahân i ambell eithriad, dyna sydd gen i yn y rhan fwyaf o fy nofelau a straeon byrion. |
| Cyfwelydd | Beth yw eich barn am ddefnyddio tafodiaith mewn llenyddiaeth?   |
| Cyfwelai  | Mae lle i holl amrywiaeth amryliw'r iaith yn ei holl ogoniant, ym mhob ffurf ar lenyddiaeth yn yr un modd ag y mae lle i iaith lenyddol, prin ei chyffyrddiadau tafodieithol. A phob cyfuniad posib yn y canol. Mae'r cyfan yn bwysig, yr holl batrymwaith. Wiw i ni golli'r patrymau a'r lliwiau.  |
| Cyfwelydd | Beth yw rôl neu swyddogaeth llenyddiaeth dafodieithol?  |
| Cyfwelydd | Oes gwerth mewn llenyddiaeth dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | Mae llenyddiaeth dafodieithol yn diffinio'r gwahaniaethau bychan cynnil rhyngom sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth a chefnidir. Cyfranna at onestrwydd llenyddol, at yr ymgais i geisio cyfleu'r cyfan amdanom fel cenedl yn ein holl agweddau. Dyna'r lliw yn y paent. Cyfranna at wneud cymeriadau'n fwy cyflawn, gan glymu agweddau ar gefndir cymdeithasol, daearyddol ac academaidd  |

|           |   |
|-----------|---|
|           | sy'n cyfoethogi cymaint ar straeon a llên yn gyffredinol.   |
| Cyfwelydd | A yw llenyddiaeth dafodieithol yn cyfyngu'r gynulleidfa ddarllen?   |
| Cyfwelydd | A yw darllenwyr yn medru deall a gwerthfawrogi gweithiau mewn tafodiaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi?   |
| Cyfwelai  | <p>Diflas yw clywed pobl yn honni nad ydynt yn deall tafodieithoedd gwahanol rannau o Gymru, a thybiaf mai esgus gwamal yw hwn dros beidio â darllen. Yr union bobl hyn yn aml iawn sy'n gwylio ac yn mwynhau Pobl y Cwm a Rownd a Rownd, neu'n llwyddo i ddarllen iaith gyfan sy'n wahanol i'w mamiaith, yn hytrach na thafodiaith yn unig. Mae llyfr Gerry Hunter, E bargofiant, sydd wedi ei ysgrifennu mewn orgraff ddieithr ac yn defnyddio patrymau ieithyddol dieithr, yn wers yn hyn o beth. O fewn dim, mae'r holl naratif yn dod yn gyfarwydd, yn ddarllenadwy. Dyna ddangos pa mor hawdd y dylai fod i ddeall tafodieithoedd ein gilydd a glywn bob dydd (ar radio ac ar deledu os nad fel arall). Mae tafodiaith yn esgus rhy hawdd dros ddiogi.</p> <p>Yn anorfod, mae tafodieithoedd yn newid ac yn esblygu, ac yn anorfod hefyd, mae'r gwahaniaethau rhyngddynt yn cael eu colli nes ein bod ni heddiw yn tueddu weithiau i Gronni tafodieithoedd yn ddwy brif dafodiaith (acen y gogledd, acen y de), gan gydnabod bod y rheini wedyn yn gwahanu'n chwech neu saith, efallai, o dafodieithoedd wedyn. Efallai mai deillio o gyfryngau cenedlaethol y mae hynny, yn rhannol o leiaf, a'n bod yn colli'r elfennau bach cynnil sy'n creu gwahaniaethau penodol rhwng ardaloedd daearyddol llai o faint. Mae'n bur bosibl mai marw allan y byddai'r rheini beth bynnag. Ond yr ochr arall i'r geiniog i hyn yw bod llai o esgus dros fethu â deall tafodieithoedd ein gilydd, a gwerthfawrogiad o'n hundod fel cenedl a'r gwahaniaethau amrywiol rhyngom o fewn yr undod hwnnw.</p> |
| Cyfwelydd | Beth yw cyfraniad y gerdd 'Pwllderi' gan Dewi Emrys i lenyddiaeth dafodieithol?   |

|          |  |
|----------|--|
| Cyfwelai | <p>Mae 'Pwllderi' yn arloesol iawn: pur ychydig o ysgrifennu tafodiaith a ddigwyddai cyn hynny ar lefel llenyddiaeth genedlaethol ddyrchafedig, ond roedd ymwybyddiaeth yn datblygu o le tafodiaith mewn llenyddiaeth gan fod tafodiaith yn un o ofynion y gystadleuaeth a arweiniodd at y gerdd, (onid oedd?). Yn 'Pwllderi' mae tafodiaith yn cynnig tâp sain i'r disgrifiad, i'r llun y mae'n ei baentio. Drwy ddyrchafu tafodiaith, mae'n agor y drws ar bosibiliadau diddiwedd, ac yn creu llenyddiaeth fwy real a dilys, sy'n adlewyrchiad mwy ffyddlon o'n gwirionedd fel cenedl. Gwna'n siŵr ein bod yn gwybod lle ry'n ni, pwy yw'r bobl sydd ynghlwm wrth y lle, a phwy yw ef, y bardd – o ble y mae a phwy yw: yr un peth ydynt.</p> <p>Defnyddiodd Joyce nifer o ffurfiau ar ysgrifennu naratif yn ei weithiau (ychydig iawn o flynyddoedd cyn cyfansoddi 'Pwllderi' y cyhoeddwyd 'Ulysses') ac mewn ffordd, mae defnyddio tafodieithoedd yn Gymraeg yn cyfateb i'r uchelgais i gyfleu realiti dyfnach, a synnwyr o berthyn i le, yn yr un modd ag y câi Joyce ei gymell i ddefnyddio gwahanol arddulliau naratif. Drwy ddefnyddio iaith i gyfleu mwy na'r geiriau eu hunain, i drosgynnu ystyr eiriol, llwyddodd Joyce i drawsnewid llenyddiaeth. Gellid dadlau mai'r un ysgogiadau a gymhellodd Dewi Emrys. Ychwanegodd lais i'r gair ysgrifenedig, a thâp sain i'r disgrifiad o'r lleoliad daearyddol y mae'n ei ddarlunio.</p> <p>Yn 'Mewn Dau Gae', sydd fel arall yn gwbl ddi-dafodiaith, ac yn gerdd fetaffisegol, gyfriniol, ac mewn un ystyr, heb fod yn perthyn i 'le' o gwbl, mae Waldo yn cynnig lleoliad i ni ar amrantiad yn ei ddefnydd o'r geiriau 'parc' a 'perci': un gair, ac rydyn ni'n gwybod yn syth ein bod ni yng ngogledd Sir Benfro. Yn hynny o beth, mae'n dyfnhau didwylledd y profiad.</p> <p>Ac mae tafodiaith i'w gweld yn brigo drwodd i'r traddodiad prif ffrwd ymhell cyn y ganrif ddiwethaf wrth gwrs. Mae Williams Pantycelyn yn un enghraifft amlwg o blith sawl emynydd nad oedd yn gochel rhag defnydd o dafodiaith, ac mae yna nifer o rai eraill wrth gwrs yn ôl i Feibl William Morgan ei hun.</p> |
|----------|--|



|           |  |
|-----------|--|
| Cyfwelydd | A yw'n bwysig fod beirdd a llenorion yn hybu llenyddiaeth dafodieithol a pham?   |
| Cyfwelydd | A oes themâu amlwg mewn llenyddiaeth dafodieithol neu a ellir ysgrifennu mewn tafodiaith ar unrhyw bwnc?   |
| Cyfwelydd | Ai rhywbeth hen ffasiwn yw llenyddiaeth dafodieithol erbyn heddiw?   |
| Cyfwelydd | A oes lle i lenyddiaeth dafodieithol ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, megis y Gadair, y Goron a'r Fedal Ryddiaith?  |
| Cyfwelydd | A oes cysondeb yn y modd y cyflwynir tafodiaith mewn llenyddiaeth, a yw'n union fel y siaredir hi?   |
| Cyfwelydd | Oes dyfodol i lenyddiaeth dafodieithol?  |
| Cyfwelai  | <p>Mae gwerth mewn unrhyw waith sy'n adlewyrchu gwahanol agweddau ar ein hiaith er mwyn parhau'r tafodieithoedd hynny mewn byd cynyddol unffurf: yr amrywiaeth yw'r gwerth, y gwahanol yw'r rhuddin, o fewn ein hundod ieithyddol – yr amryw yn yr un.</p> <p>Nid yw llenyddiaeth yn mynd i atgyfodi hen ffurfiau tafodieithol nas defnyddir, ond bydd eu defnydd mewn llenyddiaeth yr un mor gyfoes â'r tafodieithoedd a siaredir. Nid oes yr un dafodiaith yn mynd i aros yn llonydd, a rhaid derbyn bod pethau'n cael eu colli, fel o'r iaith, ond mae llawer mwy yn newid ac yn addasu gyda'r bobl, y gwahanol genedlaethau sy'n eu siarad. Yn hynny o beth mae iaith, neu dafodiaith sathredig, neu lediaith, yn well na dim iaith/tafodiaith o gwbl er gwaetha'r angen i'r cyfryngau gadw at rywfath o safon ieithyddol.</p> |
| Cyfwelydd | A yw ysgrifennu mewn tafodiaith yn tansellio Cymraeg Byw Safonol a'r ymgais i'w safoni?  |
| Cyfwelydd | Beth yw rhinwedd defnyddio tafodiaith ar draul iaith safonol?  |

|           |   |
|-----------|---|
| Cyfwelai  | <p>Rhaid i lenyddiaeth fod yn onest, ac felly mae'n rhaid i'n llenyddiaeth ni godi drych at ein sefyllfa ni heddiw fel cenedl, a sut y mae pobl yn siarad yr iaith. Rhaid i hynny gynnwys bratiaith a ffurfiau ieithyddol sy'n gorwedd ar y ffin rhwng tafodiaith a geiriau a ffurfiau ieithyddol sy'n fenthyciadau. Yn y bôn, rhaid i lenyddiaeth adlewyrchu bywyd go iawn yr iaith yn ei holl ffurfiau.</p> <p>Ni wnaiff hynny byth ddigwydd ar draul iaith ffurfiol, ysgrifenedig wrth gwrs. Bydd honno yno, yn iaith gwyddoniaeth, iaith ffeithiau ac ati, ac yn iaith llenyddiaeth hefyd wrth gwrs.</p> <p>Ond y mae lliwiau llafar tafodieithoedd yr un mor bwysig, y dull ysgrifenedig o roi geiriau i leisiau, orgraff ddidwyll a gonest, y 'cymeriad' ar y cnawd oer, y dillad am yr asgwrn.</p> |
| Cyfwelydd | Diolch yn fawr.   |